Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD MAWRTH, 25 MEDI 2018 | TUESDAY 25 SEPTEMBER 2018 |
| am 2.00 o'r gloch yp | at 2.00 pm |

# R H A G L E N

**1. COFNODION**

Cyflwyno, er cymeradwyaeth, cofnodion drafft y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 15 Mai, 2018
- 15 Mai, 2018 (Cyfarfod Blynyddol)
- 7 Mehefin, 2018 (Arbennig)
- 16 Gorffennaf, 2018 (Arbennig)

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU: DIWEDDARIAD ARIANNOL AC YMGYNGHORIAD 2019-20**

Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân.

Copi o'r ymgynghoriad ynghlwm:-

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338360/v-fire-corporate-comms-rrp-2018-large-consultation-document-final-wednesday-ymgynghoriad-cyhoeddus.pdf

**5. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD UN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD**

Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Peter Rogers i'r Cynghorydd Robin Williams, Deilydd Portffolio Cyllid :-

*'Fe adawodd y diweddar Mr David Hughes a fu farw yn 1609 etifeddiaeth o dros 1,200 erw o dir i gefnogi Addysg ar yr Ynys. Yn 1887, roedd y gwaddol hwn yn cyfrannu £1,400 y flwyddyn. Faint wnaeth Addysg ar yr Ynys elwa o hwn llynedd?'*

**6. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD**

- Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan **Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Kenneth P Hughes ac Robert Llewelyn Jones:-**

  (1) *"Dylid diwygio Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn i ganiatáu i aelodau unigol o'r cyhoedd a phartïon â diddordeb, h.y. Llywodraethwyr ysgol, annerch y Pwyllgor Gwaith neu Gabinet y Cyngor Sir."*

  (2) *"Dylid diwygio Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn fel bod y ddau Bwyllgor Sgriwtini yn cael eu gwe-ddarlledu".*

  (3) *"Dylid diwygio Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn i ganiatáu i rybuddion o*

*gynigiad sydd wedi cael eu cyflwyno gan aelodau'r cyhoedd a'u cefnogi gyda llofnodion 50 o unigolion sy'n byw yn Ynys Môn gael eu trafod mewn cyfarfodydd o'r Cyngor llawn."*

- Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan **Y Cynghorwyr Robert Llewelyn Jones a Bryan Owen :-**

"Yn wyneb y newidiadau sydd ar fin dyfod yn sgil Brexit, dylid sefydlu Panel er mwyn cael gwybodaeth ynghylch problemau posibl ac i bwyso ar Lywodraethau Cymru a Phrydain yr angen am ymagwedd gadarn er mwyn cefnogi'r diwydiannau hyn ar Ynys Môn ym mhob ffordd bosib.

*(1) Y diwydiant ffermio sy'n gyflogwr pwysig iawn ar Ynys Môn.*

*(2) Porthladd Caergybi sydd eto'n gyflogwr mawr a fydd ar reng flaen unrhyw newidiadau.*

*(3) Wylfa Newydd, y Peilonau a'r hyn y bydd tynnu allan o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd yn ei olygu o ran cyllido'r prosiect a'i ddichonolrwydd.*

Rydym ni'n cefnogi pobl Ynys Môn ac mae angen i ni ddangos ein bod yn deall eu pryderon ac yn eu cefnogi ym mhob ffordd bosib.

Rydym yn mynd i mewn i gyfnod anghyfarwydd ac mae'n rhaid i ni fel corff etholedig, gael ein gweld yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynorthwyo'r diwydiannau pwysig iawn hyn ar Ynys Môn i oroesi a ffynnu wedi i ni adael y Gymuned Economaidd Ewropeaidd. Mae'n fater rhy bwysig i adael i adrannau eraill yn y Llywodraeth edrych ar ôl economi ein hynys yn y cyfnod ansicr hwn."

## 7. CYFLWYNO DEISEBAU

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

## 8. DATGANIAD O GYFRIFON AC ADRODDIAD ISA 260

Cyflwyno'r adroddiadau canlynol, fel y'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Medi 2018:-

- Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2017/18;
- Adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar archwilio'r Datganiadau Ariannol.

## 9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AR GYFER 2017/18

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Medi 2018.

## 10. MABWYSIADU PWERAU GAN Y CYNGOR A DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r

Pwyllgor Gwaith ar 21 Mai 2018.

**11. RÔL AC ATEBOLRWYDD Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol).

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 5 Gorffennaf, 2018, a'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf, 2018.

**13. CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY 2018-2028**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Richard O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard A Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Aled M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts, Margaret M Roberts, Peter S Rogers, Dafydd R Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Pennaeth Datblygu Economaidd a Rheoleiddio,<br>Rheolwr Strategol Prosiectau Seilwaith Mawr (RJ) (Mewn perthynas ag Eitem 7),<br>Swyddog Arweiniol y DCO (KH) (Mewn perthynas ag Eitem 7),<br>Prif Swyddog Cynllunio (DFJ) (Mewn perthynas ag Eitem 7),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Paula McGeady (Burges Salmon Solicitors) (Mewn perthynas ag Eitem 7) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr K P Hughes, Shaun Redmond, Nicola Roberts a Ieuan Williams |

* * * *

**Cyflwyniad**

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor yn dymuno cydnabod Tîm Cymru fu'n cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad yn Awstralia'n ddiweddar. Llwyddodd Tîm Cymru i ennill cyfanswm o 36 o fedalau a gorffen yn y 7fed safle yn y tabl medalau. Dywedodd ei bod yn fraint dathlu llwyddiant 3 unigolyn o Glwb Codi Pwysau Caergybi.

Cyflwynwyd tlws i Mr Ray Williams, Hyfforddwr Codi Pwysau Cenedlaethol presennol Cymru, ac un a fu'n flaenllaw yn y gwaith o sefydlu Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi ac Ynys Môn. Enillodd Mr Williams fedal aur yng Ngemau'r Gymanwlad ym 1986 yn y dosbarth codi pwysau plu.

Cyflwynwyd tlws i Ms Hannah Powell, yn wreiddiol o Birmingham ond yn byw ar yr Ynys ar hyn o bryd. Cystadlodd Ms Powell yng Ngemau'r Gymanwlad am y tro cyntaf eleni yn y categori codi pwysau 48 kilo.

Cyflwynwyd tlws i Mr Gareth Evans a enillodd fedal aur yng Ngemau'r Gymanwlad eleni. Mr Evans enillodd fedal aur gyntaf Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn y categori codi pwysau 69 kilo.

Roedd y tri'n dymuno diolch i'r Cyngor Sir am y fraint o dderbyn cydnabyddiaeth am eu llwyddiant. Diolchasant i'r Cyngor Sir ac i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn am eu cefnogaeth ariannol i Ganolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi.

## 1. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2018.

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchwyd Mrs Carys Edwards sydd wedi ei phenodi'n Bennaeth Trawsnewid Corfforaethol.
- Llongyfarchwyd Mr Dennis Williams o Lanfairpwll a Dr Haydn Edwards o Langefni ar yr anrhydedd o gael eu derbyn i Orsedd y Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Llongyfarchwyd Band Biwmares a ddaeth yn 3ydd drwy Ewrop yng Nghystadleuaeth Bandiau Pres Ieuenctid Ewrop yn Utrecht yn yr Iseldiroedd a hefyd Merin Lleu a enillodd wobr yr unawdydd gorau.
- Dymunwyd yn dda i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Môn, Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Môn.
- Bydd Ynys Môn yn cynnal Twrnamaint Pêl-droed Gemau'r Ynysoedd 2019. Mae Ynys Môn wedi cytuno i gynnal y twrnamaint pêl-droed answyddogol fel rhan o'i fid i gynnal Gemau'r Ynysoedd yn 2025.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i staff y Cyngor Sir, Biffa a'r holl wirfoddolwyr sydd wedi bod yn cynorthwyo i lanhau traethau'r Ynys yn ddiweddar yn dilyn y difrod a wnaed i Farina Caergybi.

* * * *

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd John Griffith a'i deulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu aelod o staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

## 4. CYFLWYNO DEISEBAU

Dywedodd y Cadeirydd fod 2 ddeiseb wedi eu cyflwyno mewn perthynas â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Corn Hir, Bodffordd a Henblas). Derbyniwyd

deiseb gyda 43 llofnod arni yn gwrthwynebu cau Ysgol Gynradd Bodffordd a deiseb gyda 107 o lofnodion arni yn gwrthwynebu cau Ysgol Gynradd Henblas. Cafodd y ddwy ddeiseb eu hystyried fel rhan o adroddiad yr ymgynghoriad statudol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2018 a'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2018.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2017/18**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2017/18.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at yr uchafbwyntiau o ran y cynnydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol fel a ganlyn :-

- Sefydlwyd portffolio ychwanegol i roi sylw i'r heriau sylweddol sy'n deillio o brosiect Wylfa Newydd ac i sicrhau fod y capasiti angenrheidiol ar gael i wneud y gorau o'r buddiannau ar ran pobl Ynys Môn;
- Mae'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod 'cynllunio lle' yn yr ardaloedd;
- Cytunwyd ar gyllideb 2018/19 ac mae'n parhau i amddiffyn gwasanaethau'r Cyngor;
- Symudwyd ymlaen â'r rhaglen foderneiddio ysgolion a'r Strategaeth Addysg. Cynigiwyd rhaglen hyfforddiant i athrawon i'w paratoi ar gyfer rôl Pennaeth;
- Agorwyd Canolfan Garreglwyd, Caergybi ar gyfer pobl o Ynys Môn sydd â dementia dwys; cynllun ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yw hwn er lles pobl Ynys Môn;
- Sefydlwyd Tîm Teuluoedd Ynys Môn (Teulu Môn) ble mae modd i deuluoedd gael mynediad at wasanaethau cefnogi drwy gyfrwng un pwynt mynediad;
- Mae Hafan Cefni, cyfleuster gofal ychwanegol fydd yn cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol, yn cael ei adeiladu yn Llangefni. Cymeradwywyd cynllun Gofal Ychwanegol arall ym Miwmares;
- Mabwysiadwyd cynllun busnes ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol yn Ynys Môn fydd yn golygu buddsoddiad o dros £26m dros y 4 blynedd nesaf i adeiladu 195 o dai;
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd busnesau lleol yn yr holl drafodaethau gyda chwmnïau mawr ac mewn unrhyw drafodaethau economaidd rhanbarthol;
- Sefydlwyd prosiect caffael mewnol i sicrhau fod system mewn lle fydd yn caniatáu i gwmnïau lleol fanteisio ar gyfleoedd sydd ar gael yn y Cyngor;
- Sefydlwyd cynllun 'Denu Talent' 12 wythnos i roi cyfle unigryw i bobl ifanc yr Ynys brofi nifer o yrfaoedd posib gyda'r Cyngor;
- Mae'r Cyngor yn parhau i wrthwynebu cynlluniau'r National Grid i godi peilonau ar draws yr Ynys;
- Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn wedi cytuno ar Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;
- Mae targedau ailgylchu'n parhau i wella.

I gloi ei hadroddiad diolchodd yr Arweinydd i'r Uwch Dîm Rheoli, Penaethiaid Adrannau a holl staff y Cyngor am eu gwaith. Yn ogystal, diolchodd i staff y Cyngor a Biffa a fu'n gweithio'n ddiflino yn y tywydd garw yn ystod y gaeaf ac ym Marina Caergybi yn ddiweddar.

Rhoddwyd cyfle i'r Cyngor ofyn cwestiynau am yr Adroddiad Blynyddol i'r Arweinydd. Gofynnodd yr Wrthblaid am gadarnhad ynglŷn â'r prif bwyntiau a ganlyn :-

- Er mai nod y Cyngor yw gwneud arbedion effeithlonrwydd, gofynnwyd pam na chafodd y broses dendro gofal cartref ei hatal tan y munud olaf ac ar ôl treulio tri diwrnod yn cyfweld cwmnïau oedd wedi tendro am y gwasanaeth. Mae'r cwmnïau oedd wedi tendro am y gwasanaeth gofal cartref yn dal i ddisgwyl ymateb gan y

Cyngor ac ystyriwyd fod amser staff ac adnoddau wedi eu gwastraffu mewn perthynas â'r mater hwn. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud fod y Cyngor yn edrych ar sut i gryfhau prosesau caffael. Cyfeiriodd at y broses dendro gofal cartref a dywedodd fod y contractau'n gyfartal am resymau technegol. Atgoffodd y Cyngor fod y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r broses gofal cartref hefyd ac ystyriwyd fod angen oedi er mwyn arfarnu'r broses. Dywedodd yr Arweinydd y bydd y cwmnïau a gyflwynodd dendrau ar gyfer y gwasanaeth gofal cartref yn cael gwybod am ganlyniad y broses yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd hi o'r farn fod darparu'r gwasanaeth gorau ar gyfer y 'defnyddiwr gwasanaeth' o'r pwys mwyaf.

- Ni lwyddodd y Cyngor i wario'r dyraniad ar gyfer taliadau tai dewisol a dderbyniwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Pwrpas yr arian hwn yw cefnogi preswylwyr sy'n gymwys i dderbyn Budd-dal Tai sy'n ei chael yn anodd talu eu rhent. Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor fod dros £20k wedi ei anfon yn ôl i'r llywodraeth ond dywedodd, yn unol â'r wybodaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Gwaith, mai'r bwriad yw darparu cymorth ariannol i gwsmeriaid sy'n derbyn Budd-dal Tai gyda'u costau Tai os yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried fod cymorth o'r fath yn angenrheidiol. Dywedodd fod rhaid gwneud cais am yr arian ac mae'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn y taliad fod yn gymwys. Ychwanegodd fod yr Awdurdod wedi ychwanegu arian o'i goffrau ei hun at gyfraniad y Llywodraeth yn y gorffennol.
- Mae'r aelodau lleol yn parhau i ddisgwyl am fanylion y prosiect tai cymdeithasol ym Maes yr Ysgol, Caergybi. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cynllun Maes yr Ysgol yn golygu adeiladu unedau llety annibynnol un ystafell wely ar gyfer pobl dan 35 oed sydd ar y rhestr aros tai. Ar hyn o bryd mae'r cynllun wedi cael ei ohirio ond yn dilyn trafodaethau gyda'r awdurdod mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod arian ar gael i barhau gyda'r cynllun.
- Mynegwyd pryder fod cais gan Gyngor Cymuned Aberffraw i'r Pennaeth Tai fod yn bresennol mewn cyfarfod i drafod materion tai yn y pentref wedi cael ei wrthod. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r Deilydd Portffolio Tai a hithau'n mynychu cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw, os oeddent yn dymuno, i drafod pryderon ynglŷn â thai.
- Cafwyd sylwadau'n dweud fod cynlluniau i wario £26m i adeiladu 195 o dai cymdeithasol ar yr Ynys yn gyfystyr â chost o £130k ar gyfer pob tŷ. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod costau cysylltiedig ynghlwm ag adeiladu tai o'r fath. Dywedodd ei bod yn uchelgais gan y Cyngor adeiladu tai cymdeithasol oherwydd yr angen dybryd am dai. Bydd y cyllid ar gyfer adeiladu'r tai'n dod o'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT).
- Mynegwyd pryder ynglŷn ag arwyddion a godwyd gan yr Adran Briffyrdd yn ardal Dwyran ac a dynnwyd i lawr ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai modd codi'r mater gyda'r Deilydd Portffolio Priffyrdd yn y sesiynau briffio misol.
- Er bod y £100k a addawyd gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau glanhau Marina Caergybi ac i helpu busnesau lleol yn cael ei groesawu, mae preswylwyr ardal Dwyran yn dal i ddisgwyl i'r Cyngor ymateb i'r difrod i'w tai yn dilyn y llifogydd enbyd y llynedd. Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod wedi ymweld ag ardal Dwyran ac ardaloedd eraill gafodd eu heffeithio gan lifogydd difrifol y llynedd. Dywedodd fod trafodaeth wedi'i chynnal yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror ynglŷn â lleihau'r Dreth Gyngor i gartrefi gafodd eu heffeithio gan y llifogydd; mae cynllun yn cael ei gwblhau mewn perthynas â'r mater hwn. Ychwanegodd yr Arweinydd fod trafodaethau'n parhau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â difrod gan lifogydd yn ardal Dwyran a'i bod hi fel Arweinydd yn barod i gwrdd â'r aelodau lleol i drafod y mater ymhellach.
- Cyflwynwyd sylwadau am y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r angen am adnoddau pellach i gyflogi ymgynghorwyr i ddiwygio cynllun a ddaeth yn weithredol dim ond 6 mis yn ôl. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n annoeth peidio â pharhau i ddiweddaru'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion y

cymunedau lleol. Dywedwyd na fyddai unrhyw gartrefi newydd yn cael eu caniatáu mewn rhai cymunedau yng ngogledd yr Ynys lle mae'r Iaith Gymraeg yn gryf. Ni fyddai pobl ifanc lleol yn cael cyfle i fyw mewn cymunedau o'u dewis ac i fagu teulu mewn ardal wledig o'u dewis. Dywedodd yr Arweinydd fod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda chynrychiolwyr etholedig o'r ddau awdurdod yn bodoli; mae'r Pwyllgor hwn yn delio gyda materion o fewn y Cynllun Datblygu ac roedd yn ystyried mai dyma oedd y fforwm priodol i ddelio â phryderon y cymunedau lleol.

- Mynegwyd pryderon fod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu cau ysgolion cynradd sydd â dros 80 o ddisgyblion a hynny'n groes i ddymuniadau rhieni a chymunedau lleol. Dywedwyd mai neges yr Arweinydd oedd diogelu cymunedau cryf ond ystyriwyd y byddai'r cymunedau hynny'n chwalu o ganlyniad i gau ysgolion mewn pentrefi. Gwnaethpwyd sylwadau fod ysgolion mewn pentrefi lleol yn darparu addysg dda i'r plant sy'n mynychu'r ysgolion hynny. Ychwanegwyd fod adnoddau wedi eu defnyddio i ymgynghori ar y cynllun moderneiddio ysgolion yn Llangefni ar dri achlysur. Mynegwyd pryderon hefyd am yr oedi pellach yn y gwaith o adeiladu Ysgol Santes Dwynwen oherwydd problem gyda'r llinell bŵer ar y safle. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y sylw ynglŷn ag oedi wrth adeiladu'r ysgol newydd a nododd fod hyn oherwydd oedi gan Scottish Power wrth symud llinellau pŵer ar y safle. Nododd ei bod wedi gofyn i Swyddog Trawsnewid y Cyngor ofyn i Lywodraeth Cymru roi pwysau ar gwmnïau megis Scottish Power i symud ymlaen â'r gwaith sydd angen ei wneud ar safle Ysgol Santes Dwynwen.
- Mynegwyd y farn y bydd rhaid i National Grid danddaearu'r ceblau trydan arfaethedig sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd ar draws yr Ynys i gyd. Dywedwyd nad oes gan yr Awdurdod Gynllun B os na fydd ceblau trydan yn cael eu tanddaearu.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Arweinydd y Cyngor a nodi ei gynnwys.**

**6. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd – y Rhybuddion o Gynnig a ganlyn gan y **Cynghorydd Carwyn E Jones**:-

(a) *Ym marn Cyngor Sir Ynys Môn, nid yw Deddf Cynllunio 2008 (DC2008), ynghyd â'i deddfwriaeth eilaidd a chanllawiau gan gynnwys y Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn gyfredol mwyach nac ychwaith yn addas i'r pwrpas yng Nghymru. Nid yw DC2008 yn cymryd i ystyriaeth y ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013).*
*O ran llinellau trawsyrru uwchben y ddaear, ystyrir nad yw Rheolau Holford (1959, a ddiwygiwyd yn y 1990'au) a Rheolau Horlock (nad oes dyddiad ar eu cyfer ar wefan National Grid) yn gyfredol chwaith ac nid ydynt yn gydnaws â'r ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru.*

*Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Teithio Llesol (Cymru). O ran prosiectau seilwaith mawr o arwyddocâd cenedlaethol (Nhsips), mae hyn yn cynnwys ystyried y modd y bwriedir lliniaru effaith prosiectau, naill ai drwy gytundeb Adran 106 neu ofyniad cynllunio. Yn ogystal, bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am rai elfennau o'r Nhsips, megis y gofynion cynllunio.*

*Mae'n debygol y bydd angen cymryd camau lliniaru mwy sylweddol o lawer na'r '6 phrawf' (gweler isod) mewn perthynas â'r deddfwriaethau yng Nghymru y cyfeirir atynt uchod oherwydd maent yn ymwneud hefyd â llesiant cenedlaethau'r dyfodol:*

1. *Yn angenrheidiol*
2. *Yn berthnasol i gynllunio ac;*
3. *I'r datblygiad sydd i'w ganiatáu;*

*4. Yn un y gellir ei orfodi;*
*5. Yn fanwl gywir ac;*
*6. Yn rhesymol ym mhob ffordd arall.*

*O'r herwydd, mae Cyngor Sir Ynys Môn o'r farn y dylid diweddaru DC2008 a'r holl ddeddfwriaeth eilaidd a chanllawiau angenrheidiol ar frys er mwyn sicrhau y gall awdurdodau Lleol yng Nghymru ddiwallu eu dyletswyddau statudol a sicrhau bod modd cymryd camau lliniaru digonol.*

*Gofynnaf i'r Cyngor gefnogi'r sylwadau hyn a bod llythyr ffurfiol yn mynegi'r uchod yn cael ei anfon ar ran Cyngor Sir Ynys Môn at y Gwir Anrhydeddus James Brokenshire AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am Ddeddf Cynllunio 2008. Bydd copïau o'r llythyr hefyd yn cael eu hanfon at:*

*Y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS (BEIS)*
*Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS*
*Y Prif Weinidog Carwyn Jones*
*Lesley Griffiths AC*
*Albert Owen MS*
*Rhun Ap Iorwerth AC*

*(b) Cefndir*

*Mae diffyg gwybodaeth fanwl a ddarperir gan y Grid Cenedlaethol ynghylch ei gysylltiad arfaethedig yng Ngogledd Cymru hyd at hyn yn golygu nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ddeall yr effeithiau llawn o'r datblygiad ar Ynys Môn, ei chymunedau na'i hamgylchedd. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn pryderu nad yw'r gymuned leol o gwmpas safle arfaethedig adeilad Pen y Twnnel (gan gynnwys Llanfair Pwll a Llandaniel Fab) wedi derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i werthfawrogi maint llawn y symudiadau HGV a cherbydau eraill yn yr ardal, na'r cynnig i gau Lôn Pont Rhonwy. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y Cyngor wedi gofyn am wybodaeth bellach.*

*Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi'r sylwadau a wnaed gan y Grid Cenedlaethol yn ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol ym mharagraffau 3.5-3.6 sy'n rhoi pwyslais mawr ar ymgysylltu a chael barn pobl sy'n byw yn agos at y cynigion a allai gael eu heffeithio gan y datblygiad, yn barhaol a/neu dros dro yn ystod y gwaith adeiladu.*

*Mae'r diffyg gwybodaeth fanwl wedi golygu na fydd y Cyngor, y rhanddeiliaid na'r gymuned a thrigolion yr effeithir arnynt wedi gallu ffurfio barn wybodus iawn ar effeithiau tebygol y datblygiad, na'r ystod o ofynion cynllunio a hefyd y mesurau lliniaru sydd eu hangen i leihau effeithiau'r cynllun i lefel dderbyniol.*

*Yn flaenorol, mae uwch swyddogion y Grid Cenedlaethol wedi darparu sesiynau briffio ffurfiol i aelodau etholedig a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor. Bellach, rydym yn deall eu bod wedi gwrthod ceisiadau i roi sesiwn briffio ffurfiol arall i aelodau etholedig lle mae cwestiynau yn cael eu gofyn*

***Cynnig***

1. *Felly mae'r Cyngor yn gofyn, fel mater o frys, fod y Grid Cenedlaethol yn darparu'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ac yn cynnal cylch ymgynghori ychwanegol gyda rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned sydd wedi'i effeithio fel bod modd i bob effaith, gan gynnwys effeithiau cronnus, a'r cynigion lliniaru manwl gael eu hystyried cyn cyflwyno'r cais yn ffurfiol i'r Arolygiaeth Gynllunio.*

2. *Mae'r Cyngor yn gofyn i Brif Weithredwr y Grid Cenedlaethol fynychu sesiwn briffio ac i gyflwyno diweddariad i aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ac i ateb cwestiynau'r aelodau am y prosiect.*

Eiliodd y Cynghorydd Richard A Dew y cynnig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones at ran (a) ei gynnig a dywedodd fod y Grid Cenedlaethol yn cydymffurfio â Deddf Cynllunio Cenedlaethol 2008 (DC2008). Nid yw Deddf Cynllunio 2008 yn cymryd i ystyriaeth ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) neu Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013) ac nid yw'n cymeradwyo mynd ag unrhyw elw oddi wrth gymunedau lleol er mwyn sicrhau fod cymunedau cryf yn gallu ffynnu. Yn ogystal, ystyrir nad yw Rheolau Holford (1959, a ddiwygiwyd yn y 1990au) a Rheolau Horlock (nad oes dyddiad ar eu cyfer ar wefan National Grid) yn gyfredol chwaith ac nid ydynt yn gydnaws â deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones efallai nad yw'r cynnig a gyflwynwyd yn mynd yn ddigon pell gan mai'r Uchel Lys yn Llundain sy'n penderfynu ar awdurdodaethau cyfreithiol. Dywedodd fod gwrthdaro yng Nghymru rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gynllunio Cenedlaethol 2008 a'r Uchel Lys fyddai'n gyfrifol am benderfynu pa un yw'r ddeddfwriaeth gynradd. Roedd yn ystyried fod angen derbyn cyngor cyfreithiol ynglŷn â phwy ddylai fynd i'r Uchel Lys mewn perthynas â'r gwrthdaro mewn deddfwriaeth - yr Awdurdod neu Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones y byddai'n trafod y mater gyda Swyddogion perthnasol yn y Cyngor. Dywedodd y bydd y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac y byddai'n rhaid i'r Awdurdod hwn ymateb i ddweud a oedd yr ymgynghoriad yn berthnasol ac a oes angen gofyn am farn yr Uchel Lys.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio y cafwyd cyngor cyfreithiol ar y mater hwn a'r cyngor a gafwyd oedd bod yr Ysgrifennydd Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn gallu gwneud penderfyniad ynglŷn â faint o bwys a roddir i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu anwybyddu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru neu gall benderfynu fod y ddeddfwriaeth yn hynod o bwysig a pherthnasol. Nododd mai'r cam olaf fyddai mynd i'r Uchel Lys.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod llwybr apêl yn agored i'r Awdurdod; mae'n rhaid i'r National Grid ddeall y bydd yr Awdurdod hwn yn mynd i'r Uchel Lys i sicrhau fod preswylwyr a chymunedau lleol sy'n cael eu heffeithio gan y bwriad i godi peilonau'n cael eu diogelu.

**Yn y bleidlais ddilynol PENDERFYNWYD derbyn y cynnig yn (a) uchod.**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones at ran (b) ei rybudd o gynnig a dywedodd fod y Cyngor a phreswylwyr Ynys Môn wedi bod yn gyson eu barn fod rhaid tanddaearu'r ceblau trydan arfaethedig ar draws yr Ynys. Dywedodd nad yw National Grid yn gwrando ar farn y Cyngor hwn a'r cymunedau lleol. Mae diffyg gwybodaeth fanwl a ddarperir gan National Grid ynghylch ei gysylltiad arfaethedig yng Ngogledd Cymru hyd yn hyn yn golygu nad yw'r Awdurdod hwn mewn sefyllfa i ddeall effeithiau llawn y datblygiad ar yr Ynys. Ychwanegodd fod rhaid i'r Awdurdod hwn ymateb o fewn pythefnos i ddyddiad cyflwyno'r DCO ac adrodd a yw National Grid wedi ymgynghori'n briodol ynghylch y mater hwn gyda'r Awdurdod hwn a'i breswylwyr. Dywedodd y Cynghorydd Jones nad yw cynrychiolwyr o National Grid wedi bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod neu sesiwn briffio ar gyfer aelodau etholedig yn yr Awdurdod hwn ers dros ddwy flynedd; nid yw'r aelodau newydd wedi cael cyfle i godi cwestiynau a mynegi barn ynglŷn â'r mater hwn gyda National Grid.

Dywedodd nad yw preswylwyr, yn cynnwys cymunedau Llanfairpwll a Llanddaniel Fab, wedi derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ynglŷn â safle arfaethedig Pen y Twnnel ger safle cyn-hanesyddol Bryn Celli Ddu na'r bwriad i gau Pont Rhonwy er gwaetha'r ffaith fod y Cyngor hwn wedi gofyn am fanylion am y gwaith arfaethedig. Dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai graddfa'r gwaith symud pridd a symudiadau cerbydau trwm yn yr ardal yn enfawr. Nid yw National Grid wedi darparu unrhyw wybodaeth i gadarnhau ai ar yr ochr hon o'r Fenai fydd y pridd a'r cerrig o'r gwaith cloddio'n dod i'r lan. Unig ymateb National Grid yw nad ydynt wedi penderfynu; gofynnodd sut fyddai modd i'r Awdurdod gynllunio mesurau lliniaru heb gael trafodaeth agored gyda National Grid. Cyfeiriodd ymhellach at effaith cerbydau trwm ar lonydd cefn gwlad os yw National Grid yn creu trac ar draws yr Ynys er mwyn gwneud gwaith ar y peilonau trydan. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru'n paratoi cynlluniau ar gyfer trydedd bont dros y Fenai a bod National Grid yn bwriadu gwario dros £200m i greu twnnel o dan y Fenai i gludo ceblau i gysylltu Wylfa Newydd â'r Grid.

Ychwanegodd y Cynghorydd Jones fod oedi o ran cyflwyno'r DCO mewn perthynas â Wylfa Newydd ac felly mae cyfle i National Grid gynnal cyfnod ymgynghori pellach gyda rhanddeiliaid allweddol a'r cymunedau fydd yn cael eu heffeithio fel bod pob effaith, effeithiau cronnus a manylion y cynigion lliniaru'n cael eu hystyried cyn i'r cais gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts fod rheilffordd ger safle arfaethedig Pen y Twnnel yn Llanddaniel Fab a gofynnodd a yw National Grid wedi ystyried creu cilffordd ar y rheilffordd er mwy osgoi'r angen i gario miliynau o dunelli o rwbel a cherrig o'r safle hwn. Dywedodd mai dyma'r math o faterion sydd angen eu trafod gyda National Grid ac Aelodau Etholedig.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod rhaid i'r Awdurdod hwn barhau i ymgyrchu dros danddaearu ceblau trydan ar draws yr Ynys. Dywedodd y bydd yr effaith ar gymunedau lleol yn anferth, yn arbennig ar drigolion Gogledd yr Ynys, gyda cherbydau trwm yn teithio ar hyd lonydd cul cefn gwlad.

Cwestiynodd y Cynghorydd Lewis Davies y costau sy'n gysylltiedig â thanddaearu'r ceblau trydan ar draws yr Ynys ac o dan y Fenai ar draul cymunedau lleol o gymharu â chostau tanddaearu'r ceblau ar wely'r môr tuag at Lannau Merswy a Glannau Dyfrdwy. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Economaidd a Rheoleiddio nad yw National Grid wedi darparu manylion am y costau sy'n gysylltiedig â gwahanol opsiynau tanddaearu ceblau ond deallir fod risgiau technegol ynghlwm â gosod ceblau ar wely'r môr gan nad yw gwaith o'r fath wedi ei wneud mewn perthynas â chyfleuster niwclear o'r blaen.

**Yn y bleidlais ddilynol PENDERFYNWYD derbyn y cynnig yn (b) uchod.**

**7. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR GYFER WYLFA NEWYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Economaidd a Rheoleiddio er ystyriaeth gan y Cyngor.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod rhaid adolygu a diweddaru'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Wylfa Newydd oherwydd bod nifer o newidiadau sylfaenol wedi digwydd ers mabwysiadu'r Canllawiau yn 2014. Y newid mwyaf arwyddocaol yw Deddf Cymru 2017 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017. Mae'n caniatáu i hyrwyddwyr prosiectau (Horizon) gynnwys datblygiadau cysylltiedig (megis cyfleusterau parcio a theithio, llety gweithwyr dros dro ac ati) yn eu cais DCO yn hytrach na'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gael eu hystyried o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Yn ogystal rhaid i'r CCA adlewyrchu deddfwriaeth newydd

allweddol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n rhaid i'r Awdurdod hwn ddangos sut mae'r prosiect/polisi yn bodloni 7 nod llesiant a'r gydblethiad rhwng amcanion y CCA a nodau llesiant. Ychwanegodd fod Horizon wedi cynnig nifer o ddiweddariadau prosiect ers i'r CCA gael eu mabwysiadu yn 2014. Y newid prosiect mwyaf arwyddocaol yw'r penderfyniad i gynyddu maint y llety ar gyfer gweithwyr dros dro ar y safle o fod yn llety ar gyfer 500 o weithwyr i fod yn llety ar gyfer 4,000 o weithwyr mewn campws dros dro pwrpasol ar y safle. Dywedodd y Deilydd Portffolio fod y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 6 wythnos o 11 Ionawr i 22 Chwefror 2018 a threfnwyd sesiwn 'Galw Heibio' i Aelodau oedd yn rhoi cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau ar y CCA. Derbyniwyd 168 o sylwadau gan 10 o unigolion a sefydliadau ac mae crynodeb o'r holl sylwadau i'w gweld yn yr 'Adroddiad Sylwadau' yn Atodiad A yr adroddiad. Mae'r Swyddfa Rheoli Rhaglen wedi gweithio'n agos â Burgess Salmon Solicitors i ystyried y sylwadau a dderbyniwyd. Mae'r holl newidiadau a wnaed i'r CCA wedi'u cynnwys yn y ddogfen 'Newidiadau â Ffocws' sydd i'w gweld yn Atodiad B yr adroddiad. Nododd fod 74 o'r sylwadau a dderbyniwyd ar y CCA wedi cael eu derbyn. Roedd y prif bryderon a godwyd yn ymwneud â llety i weithwyr ac mae angen i'r Cyngor Sir adlewyrchu hynny yn y CCA. Mae angen rhoi sylw i gwestiynau ynglŷn â pha bolisïau sy'n berthnasol i Horizon a hefyd pa bolisïau sy'n berthnasol i sefydliadau trydydd parti h.y. safle Land and Lakes a safle Rhosgoch. Dywedodd fod ystyriaeth wedi'i roi i hynny yn y CCA sydd ynghlwm i'r adroddiad. Cynhaliwyd sesiwn briffio ar gyfer Aelodau Etholedig ym mis Ebrill i esbonio'r broses ymgynghori a'r camau nesaf mewn perthynas â'r mater hwn.

Dywedodd y Deilydd Portffolio ei bod yn bwysig cymeradwyo'r CCA er mwyn sicrhau fod gan yr Awdurdod sylfaen gadarn er mwyn ymateb i brosiect Wylfa Newydd. Drwy fabwysiadu'r CCA bydd yr Awdurdod mewn sefyllfa gryfach i ymateb i ymchwiliad cyhoeddus y DCO a gynhelir maes o law.

Diolchodd y Cynghorydd Aled M Jones i'r Deilydd Portffolio a'r Swyddogion perthnasol am eu gwaith mewn perthynas â'r mater hwn ond dywedodd nad yw darparu llety i hyd at 4,000 o weithwyr yn Nhrwyn Wylfa yn dderbyniol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig Wylfa Newydd (CCA) (yn benodol i Ynys Môn) a'r holl Bapurau Pwnc ac Asesiadau Statudol.**

## 8. CYNLLUN LLESIANT – BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynwyd, er ystyriaeth, adroddiad y Prif Weithredwr yn ymgorffori Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn fel y cafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynllun Llesiant yn amlinellu sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu gwneud gwahaniaeth i fywydau preswylwyr drwy weithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion llesiant y cytunwyd arnynt ar gyfer ardal Gogledd Cymru gyfan. Cyfeiriodd at y ffaith fod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi craffu ar y Cynllun yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018, yn ystod cyfnod ymgynghori statudol o dri mis ar y Cynllun Llesiant, gan fod y Pwyllgor yn ymgynghorai statudol ac wedi'i ddynodi fel y pwyllgor penodedig ar gyfer craffu ar fusnes y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer ei gyhoeddi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;**

- **Mabwysiadu'r Cynllun Llesiant a'i ymgorffori fel rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor i ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl yng Nghyfansoddiad y Cyngor;**
- **Mai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fydd y Pwyllgor Sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;**
- **Diwygio adran 3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau mewn perthynas â'r 'Cynllun Llesiant' fel swyddogaeth na fedr ond y Cyngor llawn ei harfer; a dileu'r cyfeiriad at y 'Cynllun Integredig Sengl';**
- **Diwygio adran 2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn penodi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel y Pwyllgor sgriwtini dynodedig ar gyfer craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;**
- **Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud unrhyw welliannau yn y dyfodol, fel a pan fyddant yn codi, i gyfansoddiad y Cyngor (a) pan fyddant yn ymwneud â, neu (b) yn codi o ganlyniad i'r materion uchod, yn amodol ar ymgynghori ag arweinwyr grwpiau a dim gwrthwynebiadau yn codi.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2017/18

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2017/18 gan Mr Mike Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. Cyflwynodd Mr Wilson grynodeb o'r gwaith a gwblhawyd gan y Pwyllgor Safonau yn erbyn amcanion y Rhaglen Waith ar gyfer 2017/18 fel yr amlinellir yn yr Atodiad i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2017 a Mai 2018;**
- **Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2018/19 fel y'i hamlinellir yn Atodiad C yr adroddiad.**

## 10. PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad ar y Protocol Datrys Anghydfodau yn Lleol diwygiedig gan y Deilydd Portffolio Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD diddymu'r Protocol Datrys Anghydfodau yn Lleol presennol a mabwysiadu'r Protocol Datrys Anghydfodau yn Lleol diwygiedig drafft yn Atodiad 2 i'r adroddiad.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SGRIWTINI 2017/18

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Sgriwtini ar gyfer 2017/18 gan y Cynghorydd Aled M Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Cynghorydd Gwilym O Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Mae Cadeiryddion Sgriwtini wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu blaen raglenni gwaith yn ystod y flwyddyn. Nodwyd fod angen penodi Pencampwr Sgriwtini i hyrwyddo'r swyddogaeth drosolwg a sgriwtini yn y Cyngor ac ymysg partneriaid allanol yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2017/18;**
- **Nodi'r cynnydd parhaus a wnaed o ran y siwrnai leol i wella Sgriwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael yn ymarferol**

- **Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Mai 2018 i Mai 2019.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2017/18 gan y Cynghorydd Peter Rogers, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2017/18.**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2017/18

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2017/18 gan y Cynghorydd Robert Ll Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2017/18.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, R O Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE, Shaun James Redmond, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Nicola Roberts. |

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd y Cyngor Sir am 2018/19.**

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, sicrhaodd y Cyngor y byddai’n cyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd hyd orau ei allu. Diolchodd i’w ragflaenydd, y Cynghorydd Richard O Jones am y modd urddasol ac anrhydeddus y cyflawnodd ei ddyletswyddau dinesig fel Cadeirydd y Cyngor Sir. Dywedodd y Cynghorydd Rees ei fod wedi dewis Hosbis yn y Cartref fel yr elusen y bydd yn ei chefnogi.

Diolchodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Richard O Jones, i’r holl Aelodau a Swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei dymor yn y swydd, yn enwedig Mrs Carys Bullock a Mrs Janette Jones o’r Adran Gwasanaethau Democrataidd a Mr J Huw Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Roedd yn dymuno diolch i Gwenda, ei wraig, am ei chefnogaeth a chyfeiriodd ar yr anrhydedd a gafodd ef a’i wraig o groesawu’r Eisteddfod Genedlaethol i Fodedern yr haf diwethaf. Rhoes y Cynghorydd Jones grynodeb o uchafbwyntiau ei flwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor, yn enwedig Sul y Cadeirydd yn Eglwys Eleth, Amlwch a’r Cyngerdd Elusennol ym mis Ebrill lle codwyd £2,700. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, dywedodd y codwyd cyfanswm o dros £3,500 tuag at y Cynllun Diffibrilwyr yn y Gymuned a Beiciau Gwaed Cymru (Ynys Môn).

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Margaret Murley Roberts yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir am 2018/19.**

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i’w chyd Gynghorwyr am yr anrhydedd a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda’r Cadeirydd a’i gefnogi â’i ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 3. CYHOEDDIADAU

Dim wedi eu derbyn.

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEBAU

Dim wedi eu derbyn.

## 5. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd yr Aelodau isod yr oedd wedi eu dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-

Y Cynghorydd Richard Dew gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.
Y Cynghorydd Llinos M Huws (Arweinydd) gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.
Y Cynghorydd Carwyn Jones gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd.
Y Cynghorydd R Meirion Jones gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant.
Y Cynghorydd Alun Mummery gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau.
Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff.
Y Cynghorydd Dafydd R Thomas gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Corfforaethol.
Y Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd) gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg.
Y Cynghorydd Robin Williams gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Cyllid.

## 6. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2018/19

**Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad, PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2018/19.**

## 7. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

**PENDERFYNWYD cadarnhau unrhyw rannau o'r Cynllun Dirprwyo y mae'n rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, gytuno arnynt fel y nodir ym Mharagraff 3.2 y Cyfansoddiad.**

## 8. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar drefniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.**
- **Bod Arweinyddion y Grwpiau yn rhoi gwybod cyn gynted ag sy'n bosibl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd os oes unrhyw newidiadau i aelodaeth y Grwpiau ar Bwyllgorau.**

## 9. PENODIADAU I GYRFF ALLANOL

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn am gadarnhau'r rhestr o benodiadau a wnaed i gyrff allanol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r penodiadau fel y'u nodir yn yr atodiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.**

**10.** **RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AM 2018/19**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd arferol ac arbennig o'r Cyngor Sir am y flwyddyn nesaf:-**

- **25 Medi, 2018 - 2.00 pm**
- **30 Hydref, 2018 (Arbennig) - 2.00 pm**
- **11 Rhagfyr, 2018 - 2.00 pm**
- **27 Chwefror, 2019 - 2.00 pm**
- **Mai, 2019 (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau**

**11.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19**

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau am 2018/19.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau y dylid talu cyflogau uwch i ddeiliad y 16 swydd isod yn ystod 2018/19:-**

- **Cadeirydd y Cyngor**
- **Is-gadeirydd y Cyngor**
- **Arweinydd**
- **Dirprwy Arweinydd**
- **Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith (7)**
- **Cadeirydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**
- **Arweinydd Grŵp yr Wrth-blaid Fwyaf**

- **Cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018 ynghylch lefel cyflogau dinesig a chadarnhau lefel y taliadau i'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig ar gyfer 2018/19.**

- **Awdurdodi swyddogion i ddiwygio Rhan 6 Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

**12.** **CYNLLUN DATBLYGU/CYNEFINO AELODAU 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y Cynllun Datblygu/Cynefino ar gyfer Aelodau Etholedig am 2018/19.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant fel fframwaith ar gyfer Datblygiad Aelodau yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud unrhyw addasiadau pellach fel sy'n briodol.**

**13.** **CADARNHAU PWYLLGORAU**

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y strwythur Pwyllgorau cyfredol canlynol fel y cyfeirir at hynny yn Adran 3.4 Cyfansoddiad y Cyngor wedi cael ei ail-benodi, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor Sir)
- Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

- is-Bwyllgor Indemniadau

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Richard Owain Jones, T Ll Hughes MBE, Shaun James Redmond, Alun Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts a P S Rogers. |

Cafodd y Cynghorydd G O Jones ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o ganlyniad i ymddiheuriad a dderbyniwyd gan Is-gadeirydd y Cyngor Sir.

**Cyhoeddiadau Cadeirydd y Cyngor Sir**

Bu'r Cadeirydd longyfarch Mr Gruffydd Wyn Roberts o Amlwch a oedd wedi cyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth deledu Britain's Got Talent a gynhaliwyd yn ddiweddar.

*         *         *

Cydymdeimlwyd â theulu Mr Gareth Wyn Roberts a gafodd ei ladd mewn damwain ym Mae Trearddur yn ddiweddar. Roedd Mr Roberts yn Weithiwr Cymorth yng Nghanolfan Addysg y Bont, Llangefni ac yn aelod poblogaidd o staff ymysg y disgyblion a gweddill y staff.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu staff y Cyngor sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion am funud o dawelwch er mwyn dangos parch a chydymdeimlad.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2. DOGFEN YMGYNGHORI PAPUR GWYRDD – CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL: CYFLAWNI DROS EIN POBL**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn cynnwys safbwynt y cyngor ar ad-drefnu llywodraeth leol ac ymatebion i gwestiynau penodol i'r Cyngor ar gyfer ystyriaeth.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Papur Gwyrdd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Llywodraeth leol gryfach, sy'n fwy grymus yng Nghymru.' Mae'r Papur Gwyrdd yn dadlau o blaid ad-drefnu - gwahanol safbwynt i Bapur Gwyn 2017 a oedd yn cadarnhau na fyddai'r syniad o ad-drefnu yn cael ei weithredu gyda'r ffocws yn hytrach ar fwy o gydweithio rhwng Awdurdodau. Nododd bod 3 opsiwn yn y Papur Gwyrdd fel a ganlyn:-

Opsiwn 1 – Uno gwirfoddol rhwng awdurdodau lleol
Opsiwn 2 – Dull fesul cam erbyn 2026
Opsiwn 3 – Rhaglen uno gynhwysfawr a phenodol erbyn 2022

Nododd fod yr Arweinwyr Grŵp wedi sefydlu Panel Ad-drefnu Llywodraeth Leol er mwyn ystyried ymateb drafft y Cyngor sydd wedi'i atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am eu gwaith mewn perthynas â'r mater hwn.

Dywedodd fod y Panel ac Arweinyddion Grwpiau wedi dod i'r casgliad na chefnogir y cynigion hyn a'u bod yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ad-drefnu o'r awdurdod yn y dyfodol yn seiliedig ar y ffeithiau a gyflwynwyd.

Mae safbwynt y Cyngor wedi'i lunio ar yr egwyddorion a nodir yn nhudalen 1 o'r ymateb drafft sef:

*1) Yr angen i ddarparu trigolion Ynys Môn â gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Cydnabyddir y gallai hyn gynnwys cydweithio rhanbarthol ac isranbarthol er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd a gwytnwch angenrheidiol yn ei le a bod angen sefydlu trefniant er mwyn sicrhau atebolrwydd uniongyrchol yn lleol ar gyfer ansawdd y gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, mae angen dealltwriaeth o'r math o wasanaethau a fydd yn cael eu darparu'n rhanbarthol, yn isranbarthol ac yn lleol, wedi'i alinio'n fras â chanfyddiadau Comisiwn Williams ond hefyd yn awgrymu bod angen i lywodraeth leol wneud penderfyniadau ar strwythurau cydweithio.*

*2) Fe ddylai unrhyw drefniadau cydweithio fod yn seiliedig ar y buddion tebygol i drigolion Ynys Môn neu ar y rhagdybiaeth y gellir darparu gwasanaethau o'r un safon yn rhatach.*

*3) Mae'r Cyngor o'r farn bod arweinyddiaeth yn seiliedig ar wybodaeth leol yn bwysicach na maint. Mae'r Cyngor o'r farn y gellid bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o gydweithio a darpariaeth leol, h.y. estyniad naturiol o'r sefyllfa bresennol. Yn ychwanegol, at hynny, cydnabyddir bod angen rhoi ystyriaeth fanwl i unrhyw bosibilrwydd o ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy cost-effeithiol, e.e. lleihau costau rheoli neu wasanaethau cefnogi.*

Fe ddylai'r materion allweddol hyn fod yn ganolog i unrhyw benderfyniad ar ad-drefnu llywodraeth leol, yn hytrach na llinellau ar fap.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai uno ag awdurdod cyfagos yn cael effaith andwyol ar drigolion yr Ynys o ran darpariaeth gwasanaethau; democratiaeth leol ac atebolrwydd ac y byddai hefyd yn effeithio ar yr economi leol a lefelau'r Dreth Gyngor. Dywedodd fod lefel y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yng Ngwynedd dros £100 yn uwch nac ym Môn, sy'n

darparu'r un lefel o wasanaethau. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill a rhoddodd enghraifft o gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â thrawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd o fewn yr awdurdod hwn ac er mwyn asesu'r gweithdrefnau a gyflawnwyd gan Gyngor Conwy. Mae'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn cydweithio ar Fid Twf Gogledd Cymru. Cyfeiriodd hefyd at y cydweithio â Bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at yr awgrymiad y gallai ad-drefnu llywodraeth leol gostio dros £200m a nododd y byddai'n well gwario'r arian hwn ar wella gwasanaethau ar gyfer trigolion pan mae cyllidebau llywodraeth leol o dan bwysau sylweddol. Nododd y byddai uno Ynys Môn a Gwynedd yn creu ardal ddaearyddol enfawr ac y gallai hyn effeithio ar atebolrwydd yn lleol a'r ffordd y darperir gwasanaethau i drigolion yn lleol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Nid yw lleihau nifer yr awdurdodau lleol o 22 i 10 yn golygu gwell gwasanaethau, rhywbeth sydd wedi'i weld yng Ngogledd Cymru gyda'r gwasanaeth iechyd;
- Atebolrwydd lleol a gwasanaethau i drigolion lleol yw'r brif ystyriaeth.
- Yr effaith negyddol posibl o uno awdurdodau lleol ar waith caled a gweledigaeth yr Awdurdod hwn yn dilyn datblygu perthynas waith agos â datblygwyr prosiectau isadeiledd mawr h.y. Wylfa Newydd, Bluestone, Morlais Marine Energy ac Orthios;
- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Gogledd a De Cymru yn hytrach na gwario'n ddiangen ar ad-drefnu llywodraeth leol;
- Byddai effaith economaidd sylweddol ar dref Llangefni, lle mae prif swyddfeydd y Cyngor wedi eu lleoli, petai'r rhan fwyaf o'r staff yn cael eu hadleoli;
- Byddai gwreiddiau gwasanaethau lleol yn cael eu colli yn y cymunedau gwledig;
- Mae arweinyddiaeth yn seiliedig ar wybodaeth leol yn bwysicach na maint yr awdurdod;
- Gallai disgwyliadau Llywodraeth Cymru gael eu bodloni drwy gyfuniad o gydweithio a darpariaeth leol o wasanaethau;
- Mae'r Papur Gwyrdd yn canolbwyntio'n ormodol ar strwythurau a llinellau ar fap;
- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar yr ansicrwydd ynghlwm â Brexit ac fe ddylent sicrhau'r gorau i Gymru yn dilyn Brexit;
- Fe ddylai cyllid cyhoeddus fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'r Cyngor hwn wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy drawsnewid gwasanaethau a dylid gadael llonydd iddo ddarparu'r gwasanaethau gorau y gellir eu fforddio ar gyfer trigolion lleol. Rhoddwyd enghraifft o ailgylchu ar yr Ynys gan fod Ynys Môn yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru;
- Does dim cyfeiriad yn y Papur Gwyrdd at y model aml-aelod yn Ynys Môn, sydd â 30 o Aelodau Etholedig, a sut byddai hyn yn cyfartalu â Chyngor Gwynedd sydd â 75 o Aelodau Etholedig yn cynrychioli wardiau unigol;
- Cyfeirir yn y Papur Gwyrdd at yr angen i'r Cynghorau Tref a Chymuned fod yn rhan hanfodol o lywodraeth leol. Ystyriwyd, wrth dderbyn fod gan y Cynghorau Tref a Chymuned rôl i'w chwarae mewn cymunedau lleol, pwysleisiwyd y dylai atebolrwydd democrataidd gan Lywodraeth gael ei gyfeirio at lywodraeth leol yn y lle cyntaf.

Yn dilyn trafodaethau pellach **PENDERFYNWYD:-**

- **Cadarnhau safiad y Cyngor ar ddiwygio llywodraeth leol fel y nodir yn Atodiad 2 ynghyd â'r ymatebion i gwestiynau penodol.**
- **Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i greu ymateb terfynol y Cyngor erbyn 12 Mehefin, 2018.**

Fe wnaeth y Cynghorydd Glyn Haynes atal ei bleidlais.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd Margaret M Roberts – Is-gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Robin Williams, Richard Owain Jones, Glyn Haynes, Llinos Medi Huws, R Ll Jones a Shaun James Redmond |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd T Ll Hughes ddiddordeb rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 3 – Dogfen Gyflawni Flynyddol 2018/2019 – cae 3G a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno.

**2. CYFLWYNO DEISEBAU**

Adroddodd y Cadeirydd fod deiseb yn cynnwys 1,010 o lofnodion wedi ei chyflwyno yn gwrthwynebu cau Ysgol Gynradd Talwrn. Nododd fod y ddeiseb wedi ei throsglwyddo i'r Adran Addysg.

**3. DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2018/19**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn nodi'r targedau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o safbwynt ei brif

flaenoriaethau yn ystod y deuddeg mis nesaf, a'u bod yn gysylltiedig â dyheadau ac amcanion Cynllun y Cyngor Sir ar gyfer 2017-2022. Nododd fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn dangos fod yr Awdurdod yn barod i fynd i'r afael â heriau wrth foderneiddio ei wasanaethau. Dywedodd fod pob un o'r amcanion yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn bwysig ond cyflwynodd enghreifftiau o'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen :-

- Mae angen mabwysiadu strategaeth moderneiddio ysgolion newydd sy'n amlygu pwysigrwydd datblygu amgylcheddau dysgu newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau a chyflawniadau plant a phobl ifanc yr Ynys;
- Mae'r Cyngor wedi lansio cynllun newydd eleni, 'Denu Talent Môn', fydd yn rhoi profiad gwaith gyda chyflog i 9 neu 10 o unigolion dros 16 oed gyda gwasanaethau'r Cyngor am gyfnod o 12 wythnos yn ystod yr Haf;
- Cyfleoedd i drigolion yr Ynys gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles;
- Mae angen i'r Cyngor weithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac mae hynny wedi digwydd yn barod gyda'r uned Gofal Dementia newydd yn Garreglwyd, Caergybi a model newydd ar gyfer darparu Gofal Cartref ar draws yr Ynys;
- Mae bwriad i adeiladu tua 60 o dai cymdeithasol newydd ledled yr Ynys;
- Mae dewis ehangach o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal dan ystyriaeth naill ai drwy gynnig mwy o wasanaethau, cynyddu nifer y lleoliadau gofal maeth sydd ar gael neu ddarparu gofal mewn ffordd wahanol;
- Adeiladu ar lwyddiant y Cyngor Sir i sicrhau fod dros 70% o wastraff domestig yn cael ei ailgylchu.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn cynnwys 38 o amcanion a bod hynny'n dangos fod yr Awdurdod yn barod i fynd i'r afael â heriau wrth iddo foderneiddio ei wasanaethau ar gyfer trigolion yr Ynys.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod y dogfen yn cynnwys prosiectau gwerth chweil y mae'r awdurdod hwn wedi ymrwymo i fuddsoddi ynddynt a bod y Cyngor yn gwella ei wasanaethau mewn modd arloesol. Dywedodd fod yr Awdurdod hwn yn dymuno denu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc yr Ynys ac i wella ansawdd bywyd pobl. Cyfeiriodd at y prosiectau newydd sydd wedi dod neu fydd yn dod i'r Ynys h.y. MSparc yng Ngaerwen, Wylfa Newydd, Prosiect Bluestone yng Nghaergybi, Morlais yng Nghaergybi a Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi, ymweliadau gan Longau Mordaith, y posibilrwydd o godi trydedd bont dros y Fenai. Roedd yn gobeithio y byddai datblygiadau'n digwydd yn Octel yn Amlwch, Lairds ym Miwmares a hen safle Halal yng Ngaerwen yn y dyfodol.

Cododd yr Aelodau'r cwestiynau a ganlyn :-

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled M Jones at gyfanswm o 15 uned fusnes newydd sy'n cael eu hadeiladu yn Llangefni a Chaergybi. Gofynnodd pam nad oedd unedau'n cael eu hadeiladu yn Amlwch gan mai dyma'r dref agosaf at brosiect Wylfa Newydd. Dywedodd y byddai unedau busnes newydd o'r fath yn gwella economi'r dref a gogledd yr Ynys. Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd drwy ddweud ei fod yn cytuno fod angen unedau busnes newydd yn Amlwch ond nad yw'r tir i adeiladu unedau o'r fath ar gael ar y safle presennol a bod safle posib arall ar gyfer y math hwn o ddatblygiad mewn perchnogaeth breifat ar hyn o bryd.
- Dywedodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod y Cyngor yn cynnal proses ymgynghori ar hyn o bryd, fel rhan o'r rhaglen Cynllunio Lle, er mwyn penderfynu ar anghenion y gymuned ac i gasglu barn Cyngor Tref Amlwch a phreswylwyr lleol ynglŷn â chyfleoedd yn yr ardal yn y dyfodol. Ychwanegodd fod

perchnogion safle Octel wedi nodi eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol y safle. Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Cyngor drefnu cyfarfod gyda Chyngor Tref Amlwch, Aelodau Lleol a Swyddogion i drafod adeiladu unedau busnes newydd yn Amlwch fel mater o flaenoriaeth;

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled M Jones at y cae 3G arfaethedig yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur a gofynnodd ymhle fydd y Clwb Hoci sefydledig, sydd wedi bod yn defnyddio'r cyfleusterau yn Llangefni i ymarfer, yn ymarfer gan na fydd y cae 3G yn addas ar gyfer chwarae hoci. Dywedodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod y cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur yn gryn gyflawniad i'r Cyngor a bod cyfleuster o'r fath yn hollbwysig i chwaraeon ar yr Ynys gan fod clybiau ar yr Ynys wedi gorfod teithio i'r tir mawr i ddefnyddio cyfleusterau o'r fath. Nododd y byddai incwm o'r cae 3G yn caniatáu i ganolfannau hamdden aros ar agor. Ychwanegodd fod 'astro turf' yn fwy addas ar gyfer chwarae hoci a'i fod ar ddeall fod trafodaethau'n digwydd. Nododd hefyd fod cae 'astro turf' yng Nghanolfan y Llu Awyr, Fali;
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Owen a'r Cynghorydd Peter Rogers at yr ysgol newydd, Ysgol Santes Dwynwen yn Niwbwrch, ac roeddent yn pryderu na fyddai rhieni sydd â phlant yn yr ysgolion fydd yn cau yn anfon eu plant i'r ysgol newydd. Dywedodd y Cynghorydd Owen ei fod yn siomedig nad oedd yr Aelodau Lleol wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfodydd a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Bodorgan yn ddiweddar ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai'n rhaid i'r ysgol gau'r haf hwn gan fod rhieni wedi symud eu plant i ysgolion lleol eraill. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) fod y Pennaeth Dysgu wedi derbyn cais ar fyr rybudd gan Gorff Llywodraethu a Phennaeth Ysgol Gynradd Bodorgan i fynychu cyfarfod yr wythnos diwethaf i drafod mater a godwyd gan yr ysgol a'i fod yn bwriadu trafod y mater gyda'r Aelodau Lleol yn dilyn hynny. Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers fod pobl yn parcio ar draws mynedfa'r ysgol newydd yn Nwyran a bod angen rhoi sylw i'r mater. Ymatebodd y Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo drwy ddweud fod rhaid cynnal cyfnod ymgynghori priodol er mwyn caniatáu i drigolion lleol gyflwyno sylwadau ynglŷn â chyfyngiadau parcio h.y. llinellau melyn ger yr ysgol a'r ardal gyfagos;
- Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers nad oes cyfeiriad yn yr adroddiad hwn at broblemau llifogydd yn Nwyran a'r problemau parhaus y mae cartrefi yn y pentref, a stad Ael y Bryn yn benodol, wedi eu dioddef yn ystod yr 8/9 mlynedd diwethaf. Dechreuodd yr Awdurdod lanhau ffosydd yn Nwyran ym mis Ionawr ond nid oedd y gwaith yn ddigonol a gwnaethpwyd cryn lanast. Yn ystod y bythefnos ddiwethaf mae'r Cyngor wedi ailddechrau glanhau'r ffosydd yn yr ardal hon. Roedd y Cynghorydd Rogers o'r farn fod y Cyngor wedi gwastraffu adnoddau gwerthfawr ac y dylid gorfodi tirfeddianwyr lleol i lanhau'r ffosydd. Dywedodd y Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn araf yn ymateb o ran llunio cynllun i roi sylw i broblemau llifogydd yn Llangefni a Dwyran. Cyfeiriodd at y sylw a wnaed fod y gwaith agor ffosydd yn Nwyran ym mis Ionawr wedi gwneud llanast a dywedodd fod y tir yn llawn dŵr ar yr adeg hon o'r flwyddyn;
- Er ei fod yn croesawu adeiladu tai cymdeithasol, dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers y dylid darparu ardal chwarae briodol ar gyfer y tai cymdeithasol. Cyfeiriodd at yr 16 tŷ cymdeithasol yn ardal Dwyran a bod y plant yn gorfod chwarae yn y rhan mwyaf peryglus o'r pentref. Dywedodd y Deilydd Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau nad oedd yn ymwybodol fod 16 o dai cymdeithasol yn Ael y Braint. Dywedodd y Cynghorydd Rogers fod y rhan fwyaf o'r tai yn eiddo i Gymdeithas Dai ac na ddylid caniatáu cymysgedd o dai oherwydd y diffyg cyfleusterau addas i breswylwyr;
- Er ei fod yn derbyn fod y prosiectau y cyfeirir atynt yn y ddogfen yn werthfawr, dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod rhaid i adnoddau ar gyfer prosiectau o'r fath fod mewn ardaloedd addas. Ychwanegodd nad oedd cyfeiriad at y Cynllun Datblygu

Lleol ar y Cyd, a'i fod yn ystyried hynny'n wendid, gan na fydd pobl leol yn derbyn caniatâd i adeiladu cartrefi yng nghefn gwlad yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2018/19.**

Ataliodd y Cynghorwyr Aled M Jones a Bryan Owen eu pleidlais.

## 4. GWELEDIGAETH A STRATEGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU : CYTUNDEB LLYWODRAETHIANT

Cyflwynwyd – adroddiad y Prif Weithredwr ar y Weledigaeth a Strategaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru – Cytundeb Llywodraethiant.

Adroddodd y Dirprwy Arweinydd fod y Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru yn nodi uchelgais gyfunol a strategol i Ogledd Cymru o ran datblygu seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Mabwysiadwyd y strategaeth gan y pum Cyngor arall yng Ngogledd Cymru a chytunwyd ar fodel llywodraethiant a ffefrir h.y. cydbwyllgor rhanbarthol dan y teitl gwaith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru: erbyn hyn mae'r model wedi hen sefydlu ac ar y trywydd iawn i gyflwyno Bid i'r Llywodraeth er mwyn derbyn cymeradwyaeth gychwynnol yn ystod 2018. Lluniwyd Cytundeb Llywodraethiant ar gyfer cam cyntaf y Bid Bargen Twf (GA1) i'w fabwysiadu gan holl bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fod y pum awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru wedi mabwysiadu'r Cytundeb Llywodraethiant ac y byddai'r pedwar coleg yn rhoi ystyriaeth iddo ym mis Medi. Nododd mai Cydbwyllgor Gweithredol yw'r model llywodraethiant a fabwysiadwyd ar gyfer y Bwrdd ac nad yw'n Gydbwyllgor o'r Cyngor. Bydd un cynrychiolydd o bob un o'r 10 partner. Arweinydd y Cyngor fydd cynrychiolydd Ynys Môn. Penodir Cadeirydd y Bwrdd yn flynyddol o blith cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol ond ni fydd ganddo ef neu hi bleidlais fwrw. Cyngor Gwynedd fydd yr awdurdod lletyol a bydd y Bwrdd yn mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Rheolau Caffael ac ati'r Cyngor hwnnw. Cynhelir cyfarfodydd o'r Bwrdd yn fisol a bydd yn mabwysiadu'r Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth h.y. cyhoeddi Rhaglenni, penderfyniadau a chofnodion. Cworwm y corff fydd 4 o blith cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol, fydd ag un bleidlais yr un, ond ni fydd gan yr aelodau eraill nad ydynt yn cynrychioli awdurdodau lleol hawl i bleidleisio. Fodd bynnag, mae'r cytundeb yn datgan fod ganddynt yr hawl i siarad. Ychwanegodd fod gweithdrefn i ddelio â sefyllfa lle nad oes modd dod i gytundeb, ond ar ddiwedd y broses honno os na cheir cefnogaeth y mwyafrif ni fydd y penderfyniad yn cario. Mae gan y Bwrdd y capasiti i greu Is-fyrddau a allai fod â sail statudol neu sail ymgynghorol, yn dibynnu ar eu swyddogaethau, pwerau ac aelodaeth. Yn ystod cyfarfod cyntaf y Bwrdd sefydlir Is-fwrdd Trafnidiaeth ac Is-fwrdd Darpariaeth Ddigidol. Bydd y ddau'n cael eu sefydlu'n ffurfiol fel is-bwyllgorau, ar sail statudol, fel bod modd dirprwyo pwerau iddynt. Mae Côd Ymddygiad ynghlwm i'r Cytundeb a bydd yn berthnasol i'r aelodau nad ydynt yn awdurdodau lleol ond Côd Ymddygiad y Cyngor hwn fydd yn berthnasol i'n cynrychiolydd ni.

Ychwanegodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y bydd y Cytundeb yn dod i ben pan fydd yr ail gam, GA2, yn dechrau. Mae'r Bid Bargen Twf bellach wedi cael ei ddatblygu i lefel uchel gyda chynnwys y Bid ar fin cael ei flaenoriaethu yn unol ag (1) dewis ac uchelgais rhanbarthol (2) cyngor anffurfiol gan y Llywodraeth ar y rhaglenni a'r prosiectau a allai fod yn gymwys ar gyfer eu cymorth a (3) asesiadau achos busnes. Bydd y Bid Bargen Twf yn mynd drwy ddau gam cymeradwyo. Yn gyntaf, Cytundeb Penawdau Telerau ar y cynnwys strategol ar gyfer datblygiad pellach ac, yn ail, cytundeb terfynol o'r cynnwys manwl a gefnogir gan dystiolaeth a dadansoddiadau'r model pum

achos busnes llawn a therfynol. Y nod yw llunio Cytundeb Penawdau Gwasanaeth yn ystod yr Hydref eleni, a'r cytundeb terfynol erbyn y flwyddyn ariannol newydd 2019/20.

Yn ogystal, dywedodd y byddai penderfyniadau'r Cydbwyllgor yn destun sgriwtini yn yr awdurdodau lleol ac y byddai modd galw penderfyniadau i mewn. Bydd modd i Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol ym mhob un o'r awdurdodau lleol partner gydlynu eu gwaith o safbwynt y Bwrdd. Grym yw hwn ac nid gorfodaeth. Ffurfir Tîm Gweithredol o 10 o Swyddogion yn cynrychioli bob un o'r partïon er mwyn gweithredu'r Fargen Dwf a rheoli rhwymedigaethau dydd i ddydd y Partïon mewn perthynas â'r Fargen Dwf. Mae pob awdurdod wedi cyfrannu swm o £50k a'r colegau wedi cyfrannu £25k tuag at y gwaith o baratoi'r Bid Twf ar gyfer y Llywodraeth.

Croesawodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd yr adroddiad a dywedodd fod hyn yn enghraifft o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru'n cydweithio er budd Gogledd Cymru.

Codwyd y cwestiynau a ganlyn gan yr Aelodau :-

- Gofynnodd y Cynghorydd Aled M Jones a ystyriwyd cynnwys Pwerdy'r Gogledd a'r Awdurdod Integredig, sy'n cynrychioli ardal Manceinion, yn y Cytundeb. Roedd o'r farn fod rhaid cael cyswllt rhwng y Bid Twf a'r ardaloedd hynny er mwyn sicrhau ffyniant i Ogledd Cymru. Dywedodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd ei fod yn cytuno fod y ddau sefydliad yn bwysig ond nad oedd ganddynt unrhyw ddylanwad mewn perthynas â Bid Twf Gogledd Cymru, serch hynny mae'n bwysig cael cyswllt â nhw fel corff ymgynghorol. Roedd y Cynghorydd Aled M Jones yn ystyried fod barn Pwerdy'r Gogledd yn bwysig a gofynnodd i'r Bwrdd, yn ystod eu trafodaethau, ystyried pwysigrwydd Pwerdy'r Gogledd fel corff;
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled M Jones at adran 3.04 yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd. Gofynnodd a yw trydaneiddio Rhwydwaith Rheilffordd Gogledd Cymru yn Flaenoriaeth i'r DU. Dywedodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd nad yw trydaneiddio Rhwydwaith Rheilffyrdd Gogledd Cymru wedi ei gynnwys yn y Bid Bargen Twf. Gofynnodd y Cynghorydd Aled M Jones a yw'r awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda'r prosiect HS2 – Cyswllt Rheilffordd Cyflym – gan y bydd yn dod â manteision i Ogledd Cymru ar ôl ei gwblhau. Ymatebodd y Deilydd Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd drwy ddweud fod yr awdurdod yn cefnogi'r prosiect mewn egwyddor;
- Gofynnodd y Cynghorydd G O Jones pryd fydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol mewn perthynas â'r Bid Twf. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y dylai'r partïon arwyddo'r Cytundeb ddiwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref cyn y cam o ddod i gytundeb ar y Penawdau Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Bryd hynny bydd y Bwrdd yn Gydbwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol a bydd modd i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'r Cyngor graffu arno.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi a chroesawu'r cynnydd yn natblygiad y Bid Bargen Twf;**
- **Cymeradwyo'r trefniadau Anweithredol h.y. y trefniadau sgriwtini, fel y'u cynhwysir yng ngham cyntaf y Cytundeb Llywodraethiant;**
- **Fod y Cyngor yn cael drafft terfynol o'r Bid Bargen Twf ar gyfer ei adolygu a'i gymeradwyo ym mis Medi/Hydref 2018 cyn iddo gyrraedd cam y Penawdau Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth;**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn cydweithrediad â'r Arweinydd i gwblhau**

**amodau'r Cytundeb Llywodraethiant yn unol i raddau helaeth â'r drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr Adroddiad (sy'n ymddangos fel Atodiad 1 yr Adroddiad);**

- **Bod y trefniadau Gweithredol sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Llywodraethiant yn cael eu cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor a gofyn i'r Cyngor gynnwys y trefniadau Anweithredol yn ymwneud â Sgriwtini yn y Cyfansoddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR YNYS MON** |
| **DYDDIAD:** | **25 MEDI 2018** |
| **PWNC:** | **CYFRIFON TERFYNOL 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD ROBIN W. WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG(ION) CYSWLLT:** | **BETHAN HUGHES OWEN / CLAIRE KLIMAZEWSKI**<br>01248 752663 / 01248 751865<br>BethanOwen2@ynysmon.gov.uk<br>ClaireKlimazewski@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>Adroddiad ar Gyflwyno’r Datganiad Cyfrifon Terfynol, gyda sylwadau ar y prif faterion sy’n codi o’r Archwiliad o’r Cyfrifon | |

**1. Cefndir**

**1.1** Cafodd Datganiad Cyfrifon Drafft 2017/18 Cyngor Sir Ynys Môn ei gyflwyno i’w harchwilio ar 27 Mehefin 2018. Mae’r gwaith archwilio manwl wedi ei gwblhau i bob pwrpas erbyn hyn ac mae adroddiad yr Archwiliwr wedi ei gyflwyno ac mae nifer fechan o newidiadau a wnaed i’r drafft wedi eu hymgorffori yn y Cyfrifon.

**1.2** Ar yr amod y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn eu cadarnhau, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor a’u cyhoeddi ar ôl derbyn Barn yr Archwiliwr.

**2. Ansawdd y Broses**

**2.1** Llwyddwyd unwaith eto i gwrdd a’r amserlen statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon 2017/18.

**2.2** Mae gwelliannau i’r broses archwilio a nodwyd y llynedd wedi parhau a rhoddwyd sylw prydlon i’r holl faterion a gododd yn ystod yr archwiliad.

**3. Newidiadau i’r Cyfrifon**

**3.1** Mae’r manylion am y prif newidiadau i’r cyfrifon i’w gweld yn Adroddiad yr Archwiliwr yn Atodiad 3. Proseswyd yr holl ddiwygiadau yr oedd Deloitte wedi dweud bod angen eu hailddatgan ac maent wedi eu cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

**3.2** Mae’r newidiadau sylweddol â oedd angen eu gwneud i’r datganiadau drafft wedi eu cyfyngu’n bennaf i :-

**3.2.1** Gysoni'r System Refeniw Tai yn anghywir ar lyfr cyfrifon y Cyngor dros y dair mlynedd ddiwethaf, â arweiniodd at dan-adrodd y refeniw;
**3.2.2** Ganrannau anghywir yn cael eu defnyddio yn y dechrau yn adroddiad y priswyr mewnol a arweiniodd at gyfrifiad anghywir o symiau ailbrisio asedau sefydlog;

**3.2.3** Yn dilyn adolygiad pellach o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn, nodwyd bod hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth, ac felly mae darpariaeth wedi'i chodi o dan y taliadau. Mae'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd wedi'i rhyddhau;

**3.2.4** Cafodd y dull o drin taliad i Gronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r rhwymedigaeth gwasanaeth yn y gorffennol ei drin yn anghywir fel rhagdaliad yn y cyfrifon drafft. Mae gwerth y taliad mewn perthynas â 2018/19 a 2019/20 bellach yn cael ei ddangos fel cronfa wrth gefn negyddol wedi'i chlustnodi a bydd hyn yn cael ei ysgrifennu i sero dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Nid yw'r driniaeth hon yn dilyn barn yr archwiliwr ond nid yw'n cael effaith sylweddol ar y cyfrifon.

## 4. Argymhellion yr Archwiliwr

**4.1** Mae'r Archwilwyr, yn dilyn eu gwaith trylwyr ar ein Datganiad Cyfrifon, wedi gwneud :-

Saith argymhelliad mewn perthynas a rheoli'r gyflogres a chyfrifo;
Dau argymhelliad mewn perthynas a Thechnoleg Gwybodaeth;
Pedwar argymhelliad mewn perthynas a Phrisio Asedau.

**4.2** Mae'r argymhellion hyn wedi eu cynnwys yn Adroddiad yr Archwiliwr yn Atodiad 4.

## 5. Argymhellion

**5.1** Cynigir bod y Cyngor yn derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2017/18.

**5.2** Nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 ac yn cyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w llofnodi.

**MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** **29 AWST 2018**

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Datganiad Cyfrifon 2017/18

# Cynnwys


| Cyfeirnod | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|
| | Adroddiad Naratif | 1 |
| | Datganiad O Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon | 14 |
| | Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol | 15 |
| | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 18 |
| | Dadansoddiad Gwariant a Chyllido | 19 |
| | Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn | 20 |
| | Y Fantolen | 21 |
| | Datganiad Llif Arian | 22 |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon | 23 |
| Nodyn 1a | Dadansoddiad Gwariant a Chyllido – Addasiadau Rhwng Sail Cyllido a Sail Gyfrifo | 24 |
| Nodyn 1b | Incwm Cylchrannol | 25 |
| Nodyn 2a | Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto wedi eu mabwysiadu | 25 |
| Nodyn 2b | Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi a'u mabwysiadu | 26 |
| Nodyn 3 | Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisïau Cyfrifo | 26 |
| Nodyn 4a | Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol a phrif amcangyfrifon a ffynonellau eraill o ansicrwydd | 27 |
| Nodyn 4b | Addasiadau ar gyfer y cyfnod blaenorol, newidiadau mewn polisïau cyfrifo ac amcangyfrifon a chamgymeriadau | 28 |
| Nodyn 5 | Eitemau Sylweddol o Incwm a Gwariant | 29 |
| Nodyn 6 | Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen | 29 |
| Nodyn 7 | Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Cyllido dan Reoliadau | 30 |
| Nodyn 8 | Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 32 |
| Nodyn 9 | Balansau Ysgolion | 33 |
| Nodyn 10 | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 33 |
| Nodyn 11 | Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio | 33 |
| Nodyn 12 | Gwariant Gweithredol Arall | 37 |
| Nodyn 13 | Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi | 37 |
| Nodyn 14 | Incwm Treth a Grantiau Amhenodol | 38 |
| Nodyn 15 | Asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar | 39 |
| Nodyn 16 | Ymrwymiadau Cyfalaf Sylweddol | 41 |
| Nodyn 17 | Asedau Treftadaeth | 41 |
| Nodyn 18 | Eiddo Buddsoddiad | 43 |
| Nodyn 19 | Asedau Annirweddol | 44 |
| Nodyn 20 | Gwariant Cyfalaf a Chyllido | 45 |
| Nodyn 21 | Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | 46 |
| Nodyn 22 | Prydlesau | 46 |
| Nodyn 23 | Rhestrau stoc | 46 |
| Nodyn 24 | Dyledwyr | 47 |
| Nodyn 25 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian | 47 |
| Nodyn 26 | Credydwyr | 47 |
| Nodyn 27 | Darpariaethau | 48 |
| Nodyn 28 | Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol | 49 |
| Nodyn 29 | Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi | 49 |
| Nodyn 30 | Llif Arian o Weithgareddau Cyllido | 50 |
| Nodyn 31 | Nodyn Ar Natur Y Gwariant | 50 |

| Cyfeirnod | Disgrifiad | Tudalen |
|---|---|---|
| Nodyn 32 | Gweithrediadau Masnachol | 50 |
| Nodyn 33 | Lwfansau Aelodau | 51 |
| Nodyn 34 | Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion | 51 |
| Nodyn 35 | Pecynnau Ymadael | 53 |
| Nodyn 36 | Ffioedd Archwilio Allanol | 53 |
| Nodyn 37 | Incwm Grantiau | 54 |
| Nodyn 38 | Partïon Cysylltiedig | 55 |
| Nodyn 39 | Cronfeydd Ymddiriedol | 57 |
| Nodyn 40 | Cynllun Pensiwn Athrawon | 58 |
| Nodyn 41 | Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol | 59 |
| Nodyn 42 | Rhwymedigaethau Wrth Gefn | 64 |
| Nodyn 43 | Asedau Wrth Gefn | 65 |
| Nodyn 44 | Offerynnau Ariannol | 66 |
| Nodyn 45 | Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol | 68 |
| Nodyn 46 | Cyd-bwyllgorau | 70 |
| Nodyn 47 | Troi Tai'n Gartrefi | 71 |
| Nodyn 48 | Y Dreth Gyngor | 71 |
| Nodyn 49 | Trethi Annomestig (TA) | 72 |
| Nodyn 50 | Morwrol | 73 |
| Nodyn 51 | Polisïau Cyfrifo | 74 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Cyfrif Refeniw Tai (CRT)<br>- Datganiad Incwm a Gwariant<br>- Datganiad Symudiadau ar Falans CRT<br>- Nodiadau ar y CRT | 96 |
| Atodiad 1 | Datgeliad Parti Cysylltiedig – Cynrychiolaeth Cydranddeiliaid gyda Sefydliadau Trydydd Parti | 100 |
| Atodiad 2 | Geirfa | 102 |
| Atodiad 3 | Llyfryddiaeth | 110 |
| | Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18 | 111 |

# Adroddiad Naratif

Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn er mwyn rhoddi i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb, wybodaeth glir ynghylch sefyllfa ariannol y Cyngor. Nod yr adroddiad naratif hwn, sy'n rhan allweddol o'r cyfrifon, yw darparu canllawiau effeithiol i'r materion pwysicaf yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Gwneir hyn er mwyn darparu esboniad teg, cytbwys a hawdd i'w ddeall o sefyllfa ariannol y Cyngor ac i gynorthwyo i ddehongli'r datganiadau ariannol. Yn ogystal, mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y Cyngor yn gyffredinol a'r prif ddylanwadau ar y datganiadau ariannol er mwyn darparu cyswllt rhwng gweithgareddau a heriau'r Cyngor a'r modd y mae'r rhain yn effeithio ar ei adnoddau ariannol.

Mae'r adroddiad naratif wedi'i strwythuro fel a ganlyn:-

**1.** Y Fframwaith Statudol
**2.** Gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn
**3.** Trosolwg a Datganiad o Berfformiad
**4.** Prif faterion o gyfrifon 2017/18
**5.** Esboniad o'r datganiadau ariannol

## 1. Y Fframwaith Statudol

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Cyfrifon. Mae'r tudalennau a ganlyn yn ymwneud â'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.


Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i rym ar 31 Mawrth 2015, fel y cawsant eu diwygio gan Gyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) Rheoliadau 2018 am y flwyddyn gyfrifo 2015/16 a chyfnodau yn y dyfodol. Yn unol â'r Rheoliadau hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau hyn ac arferion priodol.

Mae Rheoliad 25 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) 2003 (OS2003/3239 (W.319), fel y cawsant eu diwygio) yn nodi arferion priodol ar gyfer paratoi Datganiad Cyfrifon. Mae'r arferion hyn yn cynnwys yn bennaf y Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 a'r Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau 2017/18 a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), wedi eu cefnogi gan y Safonau Rhyngwladol ar gyfer Adrodd ar Faterion Ariannol (IFRS). Yn ogystal, mae'r naratif hwn yn cynnwys canllawiau o Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi (FReM), adrannau 5.2.1 i 5.2.10 fel yr anogir gan gôd CIPFA.

## 2. Gwybodaeth am Gyngor Sir Ynys Môn


Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod unedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o 69,979, mae wedi'i leoli ar arfordir gogleddol Cymru ac mae'n ardal sy'n 276 milltir sgwâr. Ynys Môn yw'r ynys fwyaf yng Nghymru o bell ffordd a dyma'r seithfed ynys fwyaf ym Mhrydain. Ynys Môn hefyd yw'r ynys fwyaf ym Môr Iwerddon o ran maint a'r ail ynys fwyaf poblog.

Mae gan Ynys Môn boblogaeth ychydig yn hŷn na chyfartaledd Cymru (20.4%) gyda 25.2% o'r boblogaeth dros 65 oed. Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchiad o gynllun y Cyngor i gefnogi pobl i fyw'n dda ac am gyfnod hirach o amser.




Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod trigolion, busnesau ac ymwelwyr â'r Ynys yn cael amrywiaeth eang o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys addysg, diogelu plant ac oedolion bregus, gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, priffyrdd, hamdden, diwylliant, casglu gwastraff, cynllunio, gweinyddu tai, budd-daliadau, adfywio ac ymgysylltiad cymunedol. Yn ogystal â darparu gwasanaethau, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gasglu trethi lleol ar ffurf y Dreth Gyngor a Threthi Annomestig ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn sefydliad a arweinir yn wleidyddol ac mae wedi mabwysiadu model Arweinydd a Chabinet. Mae ganddo 30 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli 11 o wardiau aml-aelod ar draws y Sir. Yn dilyn yr etholiad ym Mai 2017 mae'r Cyngor wedi gweithredu o dan arweiniad Blaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol. Mae dosbarthiad gwleidyddol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2018 i'w weld isod:-



## 3. Trosolwg

### 3.1 Datganiad gan Arweinydd y Cyngor

Fel Arweinydd y Cyngor, fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod y garreg filltir bwysig o gynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol yn cael ei chyflawni ar amser bob blwyddyn. Mae'r cyfrifon yn darparu llawer iawn o wybodaeth ariannol am y modd y cafodd y Cyngor ei ariannu a sut y gwariwyd yr arian hwnnw yn ystod 2017/18. Mae'n bwysig o ran atebolrwydd i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth hon ar gyfer preswylwyr, trethdalwyr lleol, busnesau sy'n talu trethi annomestig a chydranddeiliaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Caiff y Cyngor ei gyllido drwy gymysgedd o arian gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw a chyfran y Cyngor o'r gronfa Trethi Annomestig, trethi lleol drwy'r Dreth Gyngor a ffioedd a'r taliadau a delir gan gwsmeriaid y Cyngor. Yn 2017/18, cyllideb net y Cyngor oedd £126.4m a daeth £33.5m o'r swm hwnnw o'r Dreth Gyngor. Roedd y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn 2.5%. Am y tro cyntaf, cododd y Cyngor bremiwm ychwanegol o 25% ar y Dreth Gyngor ar eiddo a oedd wedi bod yn wag yn y tymor hir ac ar ail gartrefi. Cynhyrchodd hyn £949k o incwm ychwanegol o'r Dreth Gyngor.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn arwydd o'r pwysau ariannol cynyddol y mae'r Cyngor yn ei wynebu. Y nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal oedd y prif reswm am y gorwariant o £1.456m, er bod pwysau ar gyllidebau gwasanaethau eraill hefyd, Addysg yn bennaf. Y sefyllfa gyffredinol o ran refeniw ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.456m o ostyngiad yng nghronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor. Cyfanswm balans Arian Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor yw £6.899m. Arian Wrth Gefn Cyffredinol y CRT yw £7.380m, y mae balans o £1.869m ym malansau'r ysgolion a £7.601m mewn cronfeydd nodedig eraill ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r dyfodol o ran ariannu'r sector cyhoeddus yn parhau'n ansicr, yn arbennig felly'r effaith a gaiff y penderfyniad o adael yr Undeb Ewropeaidd ar economi'r DU. Rhagwelir y bydd y cyllid y bydd y Cyngor yn ei gael gan lywodraeth ganolog yn parhau i leihau dros y tair blynedd nesaf ac mae Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi adnabod yr angen parhaus i leihau gwariant refeniw blynyddol dros y cyfnod hwn. Bydd cael lefel iach o gronfeydd wrth gefn a balansau yn helpu yn y tymor byr, ond nid yw'n ffynhonnell gyllido gynaliadwy. Felly, mae'r Cyngor wrthi'n adolygu'r holl wasanaethau y mae'n eu darparu ac yn edrych ar ddulliau amgen o'u darparu a fydd yn caniatáu i'r gwasanaethau barhau ond am lai o gost. Bydd hyn yn cynnwys gweithio mwy mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned, Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol a'r Trydydd Sector.

2017/18 oedd fy mlwyddyn gyntaf fel Arweinydd ac mae cynlluniau'r Cyngor am y 5 mlynedd nesaf hyd at etholiadau nesaf y Cyngor Sir wedi eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor. Er y bydd y sefyllfa ariannol yn cyfyngu'r hyn y gall y Cyngor ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Cynllun yn nodi ein hymrwymiad i 3 o amcanion allweddol a bydd buddsoddiad yn y dyfodol yn cael ei gyfeirio mewn modd a fydd yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflawni. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda Chynghorau eraill a phartneriaid ar draws Gogledd Cymru er mwyn sicrhau cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth a fydd o gymorth i sicrhau twf economaidd ar draws y rhanbarth.

Ystyrir bod sefyllfa ariannol sefydliad yn ddangosydd allweddol o safon gyffredinol y llywodraethiant corfforaethol. Rwy'n hyderus y bydd y Cyngor, drwy reolaeth ariannol gadarn, yn parhau i fod yn arianol gryf a chynaliadwy yn y dyfodol.

**Llinos Medi Huws**
**Arweinydd y Cyngor** **Mai 2018**

## 3.2 Pwrpas a gweithgareddau allweddol y Cyngor

Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor 27 Medi 2017. Mae'n gynllun sy'n gosod targed y dylid gweithio tuag ato. Mae'n uchelgeisiol ond yn realistig.

Mae'r cynllun yn siapio'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac

- Mae'n gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a chyflawni ein gwasanaethau;
- Mae'n dylanwadu'r modd yr ydym yn siapio ein cyllideb yn flynyddol; ac
- Yn ein helpu i fonitro cynnydd ac asesu'r hyn yr ydym yn ei gyflawni'n flynyddol.

Y thema allweddol drwy'r cynllun yw'r uchelgais i gydweithio gyda'n cyd-ddinasyddion, cymunedau a phartneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar yr Ynys.

Dyma'r blaenoriaethau y mae'r Awdurdod wedi eu gosod iddo ei hun ar gyfer y cyfnod hwn:-

- Creu'r amodau er mwyn sicrhau y gall pawb gyflawni eu potensial yn y tymor hir;
- Cefnogi oedolion bregus a theuluoedd er mwyn eu cadw yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu a'i siapio gan farn pobl leol, ein partneriaid a chan flaenoriaethau gwleidyddol lleol a chenedlaethol megis y Rhaglen Llesiant.

Mae gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru a'r DU yn parhau i gynllunio ar gyfer toriadau yn y cyllid yr ydym yn ei dderbyn a bydd angen gwneud mwy o benderfyniadau anodd yn y dyfodol am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r modd yr ydym yn eu darparu. Byddwn yn parhau i wneud y penderfyniadau hynny mewn ymgynghoriad â phobl leol ac er lles gorau Ynys Môn.

Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau, eu gwneud yn fwy effeithiol a sicrhau eu bod o'r ansawdd gorau. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys parhau i foderneiddio'r modd yr ydym yn gweithio.

Mae sawl her o'n blaenau ond, drwy gydweithio â phobl a chymunedau Ynys Môn, fe wnawn ein gorau glas i gyflawni amcanion y cynllun newydd hwn.

### 3.2.1 Y Senario Ariannol

Fel pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn reoli sefyllfa lle mae costau a'r pwysau ar wasanaethau'n cynyddu ond y cyllid sydd ar gael yn gostwng. Yn y cyd-destun hwn, mae angen i'r Cyngor reoli'r galw cynyddol am wasanaethau, pwysau chwyddiant, yr angen i fuddsoddi yn yr economi leol i hyrwyddo twf a'r dymuniad i wella gwasanaethau'n barhaus.

Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r gostyngiad mewn cyllid drwy wneud arbedion sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac mae'n parhau i geisio sicrhau, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, y gwneir yr arbedion drwy wella effeithlonrwydd yn hytrach na thorri gwasanaethau. Adolygir Cynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor (MTFP) a'i adrodd arno i aelodau ym mis Medi a Chwefror bob blwyddyn er mwyn helpu i gynllunio sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei gyllid gyda'r pwysau cyllidebol parhaus a'r risgiau cyllido. Mae MTFP diweddaraf y Cyngor (Medi 2018) yn rhagweld toriad posibl o 1% (£900k) ar gyfer 2019/20 o gyllid allanol amhenodol Llywodraeth Cymru. Byddai angen cynnydd o 2.6% yn Nhreth y Cyngor i wneud i fyny am y diffyg hwn. Mae pwysau cyllidebol cynyddol yn cynnwys: Cyflog Byw Cenedlaethol; Dyfarniad Cyflog Athrawon; Cynnydd yng Nghostau Pensiwn athrawon; galw sylweddol am wasanaethau statudol, yn enwedig Gofal Cymdeithasol Plant; costau refeniw sy'n deillio o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif; gostyngiad mewn grantiau penodol a phwysau chwyddiant. Mae'r MTFP yn rhagweld y diffyg ariannol canlynol ar gyfer 2019/20 i 2021/22:

**Bwlch Ariannu Rhagdybiedig**

| | 2019/20<br>£ m | 2020/21<br>£ m | 2021/22<br>£ m |
|---|---|---|---|
| Y Gyllideb Sefydlog a Ragamcenir | 136.72 | 140.63 | 144.87 |
| Arbedion a Ddygwyd ymlaen | 0.00 | (4.98) | (7.04) |
| **Cyllideb Sefydlog Ddiwygiedig** | **136.72** | **135.65** | **137.83** |
| Amcangyfrif o'r Cyllid | 131.74 | 133.59 | 135.53 |
| **Yr Arbedion Blynyddol y bydd eu hangen** | **4.98** | **2.06** | **2.30** |
| **% yr Arbedion y mae eu hangen** | **3.64%** | **1.51%** | **1.67%** |

Mae'r arbedion sy'n ofynnol yn unol â'r rhagolygon yn yr MTFP cyfredol yn sylweddol gyda swm o £ 4.98m yn cael ei ragweld ar gyfer 2019/20 yn unig. Amcangyfrifir bod cyfanswm yr arbedion y bydd angen eu gwneud dros y cyfnod o dair blynedd yn £9.34m. Mae cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol yn ansicr iawn ac mae rhagweld lefelau cyllido ar gyfer y dyfodol yn anodd. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn rhyddhau arian ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn ddigonol i bontio'r bwlch cyllido. Bydd angen gwneud toriadau sylweddol o hyd i gyllidebau yn ystod y tair blynedd nesaf. Felly, y prif elfennau y byddir yn canolbwyntio arnynt yn y Cynllun ariannol ar gyfer y Tymor Canol yw:-

- Ceisio trosglwyddo rhai o'r gwasanaethau a ddarperir i sefydliadau ac eithrio'r Cyngor, er enghraifft, i Gynghorau Tref a Chymuned neu'r Trydydd Sector;
- Creu cyrff eraill sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar gyfer rhai gwasanaethau anstatudol;
- Parhau i foderneiddio ac adolygu ysgolion;
- Rheoli'r galw am ofal cymdeithasol a pharhau i drawsnewid gofal i'r henoed trwy gyfleusterau gofal ychwanegol sy'n hyrwyddo annibyniaeth mewn modd a fydd yn lleihau lleoliadau gofal preswyl;
- Cynyddu'r taliadau a wneir i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol;
- Parhau i foderneiddio systemau gweinyddol y gwasanaethau a chynyddu nifer y trafodion a wneir gyda'r Cyngor ar-lein neu trwy AppMon;

- Cynyddu lefelau'r Dreth Gyngor uwchlaw'r rhagdybiaeth o 5% er mwyn cynhyrchu digon o arian i gydbwyso'r gyllideb refeniw. Ar hyn o bryd, treth gyngor y Cyngor yw'r 5ed isaf yng Nghymru.

Yn ogystal, mae balansau'r Cyngor wedi gostwng yn 2017/18 (£1.456m) a disgwylir iddynt ostwng gan lefel debyg yn 2018/19 oherwydd gorwariant yn bennaf yn y Gwasanaethau Plant. Mae'r tabl isod yn dangos y balansau wrth gefn ar gyfer 2015/16 i 2017/18 ac amcangyfrif ar gyfer 2018/19.

**Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2015/16 i 2018/19**

| | 2015/16 £ 'm | 2016/17 £ 'm | 2017/18 £ 'm | 2018/19 £ 'm (rhagamcan) |
|---|---|---|---|---|
| Balansau Cyffredinol | 8.89 | 8.35 | 6.95 | 4.75 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | 15.99 | 13.36 | 11.91 | 6.50 |
| Balansau Ysgol | 2.46 | 2.09 | 1.87 | 1.08 |
| **CYFANSWM** | **27.34** | **23.80** | **20.73** | **12.33** |

### 3.3 Llwyddiannau allweddol, materion a risgiau sy'n effeithio'r Cyngor

Yn ystod 2017/18, dechreuodd y gwaith ar y blaenoriaethau hyn a chyflawnwyd y cyflawniadau allweddol canlynol yn ystod y flwyddyn ariannol:-

1. Cwblhawyd gwaith ar ddwy ysgol gynradd newydd (Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan) o dan raglen ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd chwe ysgol gynradd fach yn cau gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i ddwy ysgol newydd yn ystod 2017.

2. Mae gwaith wedi dechrau ar adnewyddu Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Brynsincyn o dan raglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru. Disgwylir i gwblhau'r gwaith yn ystod 2018/19.

3. Mae'r gwaith o adeiladu Gofal Ychwanegol Llangefni gyda Landlord Cymdeithasol cofrestredig yn mynd rhagddo, a dyma ddechrau trawsnewid y ffordd y darperir Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Bydd yr adeilad ar gael i drigolion o haf 2018.

4. Cwblhawyd Cam 1 o Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi ac mae arian wedi'i sicrhau i ymgymryd â cham 2. Bydd y gwaith a fydd yn cael ei wneud i gwblhau cam 2 yn dechrau yn 2018/19.

5. Er gwaethaf y gostyngiad parhaus mewn cyllid llywodraeth ganolog, cyflawnodd y Cyngor £2.44m o arbedion refeniw yn 2017/18 a nododd £2.52m pellach wrth osod cyllideb 2018/19. Er bod hyn wedi gofyn am gynnydd uwch na chwyddiant yn y dreth gyngor, mae'r hyn a geir ym Mand D Ynys Môn yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru.

6. Disgwylir y bydd y gostyngiad yn y Grant Cymorth Refeniw gan Lywodraeth Cymru yn parhau yn 2019/20 ac mae ansicrwydd yn parhau i fodoli am y sefyllfa y tu hwnt i 2019/20. Bydd hyn, ynghyd â'r galw cynyddol ar gyfer gwasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol, yn rhoi'r Cyngor o dan bwysau ariannol sylweddol. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi gallu cynnal lefel uchel o falansau cyffredinol ond yn 2017/18 fe ddisgynnodd y lefelau hyn ac ar hyn o bryd nid ydynt ond ychydig yn uwch na'r isafswm a osodir gan y Cyngor. Wrth i'r pwysau ariannol gynyddu, mae'r risg y bydd y balansau hyn yn parhau i ostwng yn uchel ynghyd â'r risg na fyddant yn darparu'r lefel o sicrwydd ariannol sydd ei angen ar y Cyngor.

7. Mae niferoedd cynyddol y Plant sy'n derbyn Gofal a gofynion gofal cymdeithasol eraill yn risg sylweddol i falansau'r Cyngor o ganlyniad i gostau uchel y lleoliadau ar gyfer unigolion sydd ag anghenion dwys.

8. Gallai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd arwain at nifer o risgiau. Ni fydd y Cyngor yn derbyn nawdd grant Ewropeaidd a does dim sicrwydd o gael unrhyw gyllid yn ei le. Gallai'r effaith ar yr economi o adael yr UE hefyd effeithio ar y Cyngor gan y bydd llai o dwf economaidd yn lleihau gallu Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol.

9. Mae gan Ynys Môn nifer o sefydliadau sector preifat mawr sy'n bwriadu buddsoddi'n drwm ar yr Ynys. Mae crynodeb o'r datblygiadau posibl i'w gweld ar y wefan http://www.anglesey.gov.uk/business/energy-island-isle-of-anglesey-north-wales. Mae pob un o'r datblygiadau hyn yn gyfle cyffrous i'r Ynys, yn enwedig mewn perthynas â chreu swyddi. Mae risg efallai na fydd rhai o'r cynigion hyn yn mynd yn eu blaenau a gallai hynny olygu bod cyfleoedd yn cael eu colli ar gyfer economi, ymwelwyr a dinasyddion Ynys Môn. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o'r sefydliadau hyn er mwyn cefnogi datblygiad y rhain o fewn pwerau a dyletswyddau'r Cyngor. Bydd y rhain yn cynorthwyo â chyflawniad blaenoriaethau allweddol y Cyngor megis datblygiad economaidd.

10. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru ar y Bid Twf Gogledd Cymru. Bydd y bid, os yn llwyddiannus, yn denu dros £300m o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghyd â buddsoddiadau sector preifat. Fel gydag unrhyw brosiect ar raddfa fawr, mae risgiau ynghlwm â darparu'r prosiect ac ariannu unrhyw fenthyca sydd ei angen.

## 3.4 Crynodeb o Berfformiad

### 3.4.1 Gwariant Refeniw

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi gwariant a chyllid y Cyngor yn unol â'r gofynion cyfrifo. Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd ar ffurf cyfrifon rheoli'r Cyngor. Yn 2017/18, adroddwyd bod gan y Cyngor gorwariant o £1.78m yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd o £126.2m (cyllideb net) a'i fod wedi llwyddo i sicrhau arbedion gwerth £1.704m. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2017/18 ac incwm a gwariant gwirioneddol yn ei herbyn.

| Gwasanaethau | Cyllideb Blynyddol £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | 48,237 | 49,013 | 776 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 22,541 | 22,687 | 146 |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,293 | 10,075 | 1,782 |
| **Tai** | 1,034 | 1,087 | 53 |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | 14,099 | 13,932 | (167) |
| **Rheoleiddio** | 4,275 | 4,329 | 54 |
| **Trawsnewid** | 3,932 | 3,745 | (187) |
| **Adnoddau** | 2,933 | 3,096 | 163 |
| **Busnes y Cyngor a Cyllid Corfforaethol** | 20,813 | 19,649 | (1,164) |
| **Cyfanswm Cronfa'r Cyngor** | **126.157** | **127,613** | **1,456** |

Effaith y gorwariant oedd bod y Cyngor wedi gostwng ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol gan £1.456m.

Mae'r cyflwyniad uchod yn adlewyrchu'r modd y caiff costau eu categoreiddio, eu monitro a'u rheoli yn y Cyngor. Mae'r Cyfrifon isod yn adrodd ar yr un gwariant ac incwm ond mewn ffurf gwahanol er mwyn cydymffurfio gyda'r gofynion allanol statudol o ran adrodd. Mae hyn yn cynnwys costau ychwanegol megis dibrisiant neu newidiadau yng ngwerth eiddo na fedrir, yn unol â'r rheoliadau, eu codi ar gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn.

### 3.4.2 Gwariant Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd. Yn 2017/18, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf o £30.614m ar gyfer gwasanaethau ac eithrio tai a Rhaglen Gyfalaf o £9.889m ar gyfer y CRT. Dygwyd Ymrwymiadau Cyfalaf gwerth £6.435m o 2016/17, gyda £1.758m yn ymwneud â rhaglen ysgolion yr 21 ain ganrif, £2.984m yn ymwneud â'r CRT a £1.693m yn ymwneud â'r gronfa gyffredinol. Yn ystod y flwyddyn ariannol, ychwanegwyd Cynlluniau pellach werth £5.734m i'r rhaglen a gafwyd eu cyllido'n bennaf trwy grantiau cyfalaf ychwanegol, heblaw am £2.566m a oedd yn cysylltiedig gyda thâl cyfartal a oedd wedi ei gyllido trwy fenthyca digefnogaeth ar ôl i'r Awdurdod dderbyn Cyfarwyddyd Cyfalafu. Daw hyn â'r gyllideb gyfalaf am 2017/18 i £52.672m.

Gwnaed cynnydd cyson gyda'r rhaglen yn ystod y flwyddyn a llwyddwyd i gyflawni 55.73% ohoni a disgwylir y bydd y cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.


O’r cyfanswm gwariant hwn o £29.355m, cafodd £16.282m ei gyfalafu a’i ychwanegu at werth yr asedau ym Mantolen y Cyngor. Cafodd y gweddill ei godi i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr oherwydd roedd naill ai’n cefnogi asedau nad oedd ym mherchenogaeth uniongyrchol y Cyngor (£3.724m) neu ddim yn ychwanegu unrhyw werth at yr asedau cyfalaf (£9.349m).Yn y tabl isod, ceir dadansoddiad o’r gwariant sydd wedi cael ei gyfalafu:-

| Cynllun | Swm (£'000) |
|---|---:|
| Band A Ysgol 21ain Ganrif – Ysgol Cybi | 978 |
| Band A Ysgol 21ain Ganrif – Ysgol Rhyd Y Llan | 2,161 |
| Band A Ysgol 21ain Ganrif – Ysgol Parc Y Bont | 550 |
| Band A Ysgol 21ain Ganrif – Ysgol Bro Rhosyr/Aberffraw | 1,540 |
| Band A Ysgol 21ain Ganrif – Ysgol Llangefni: Corn Hir, Bodffordd a Henblas | 4 |
| System Cynllunio Newydd | 15 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 624 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 11 |
| Benthyca Darbodus Sirol Priffyrdd | 895 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,606 |
| Lliniaru Llifogydd Biwmares | 46 |
| Goleuadau Stryd | 896 |
| Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd | 163 |
| Cerbydau | 365 |
| ‘Telehandler’ | 66 |
| Mân-Daliadau | 537 |
| TGCh - Trwyddedau Meddalwedd | 116 |
| TGCh - Storio’r Serfwyr | 22 |
| System CRM | 89 |
| TGCh – Isadeiledd Craidd | 142 |
| TGCh - Serfwyr Newydd | 4 |
| TGCh - Prosiectau | 78 |
| TGCh – Adnewyddu'r Bwrdd Gwaith | 99 |
| TGCh – System etifeddiaeth | 19 |
| Neuadd Farchnad, Caergybi | 1,024 |
| Canolfan Byron | 152 |
| System Gwybodaeth Gofal yn y Gymuned (CCIS) | 31 |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 119 |
| Cerbydau - CRT | 158 |
| Prynu Eiddo | 1,772 |
| **Cyfanswm** | **16,282** |

Mae’r tabl isod yn dadansoddi’r gwariant sydd wedu cael ei gyfalafu :-

| Ariennir Gan: | £’000 |
|---|---:|
| Benthyca digefnogaeth | 3,434 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 216 |
| Grantiau cyfalaf | 8,001 |
| Derbyniadau cyfalaf | 1,817 |
| Cyfraniad refeniw | 1,918 |
| Benthyca | 896 |
| **Cyfanswm** | **16,282** |

**Nodyn ynghylch cyfleusterau benthyca cyfredol a benthyca cyfalaf yr Awdurdod**




Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan yr Awdurdod £117.029m o Fenthyciadau Allanol. Ar y pryd, roedd Gofyniad Cyllido Cyfalaf yr Awdurdod, sydd, yn ei hanfod, yn fodd o fesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca, yn £136.866m. Yn y Datganiad ar Reoli'r Trysorlys am 2017/18, y Terfyn Benthyca awdurdodwyd gan y Cyngor oedd £170m, felly, mae'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn ei drothwy benthyca.

**Crynodeb o ffynonellau cyllido mewnol ac allanol sydd ar gael i'r Awdurdod gyflawni ei gynlluniau gwariant cyfalaf ac ymrwymiadau ariannol eraill**

Ar 31 Mawrth 2018, roedd ffynonellau cyllido mewnol yr Awdurdod yn cynnwys arian yn y banc gwerth £7.319m. Roedd £117.029m wedi ei fenthyca'n allanol.

### 3.4.3 Y Fantolen

Mae Mantolen y Cyngor yn dangos sefyllfa ariannol da ar ddiwedd 2017/18 gyda gwerth net o £183.2m, cynnydd o £18.38m o gymharu â llynedd a hynny'n bennaf oherwydd cynyddiadau yng ngwerth asedau nad ydynt yn gyfredol, megis Anheddau, Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r ddwy ysgol 21ain ganrif newydd ddaeth yn weithredol yn ysgod y flwyddyn.

Mae manylion asedau a rhwymedigaethau tymor hir a tymor byr y Cyngor yn cael eu dangos yn y Fantolen fel ar 31 Mawrth 2018 ar dudalen 21.

**Arian Wrth Gefn**

Mae'r cynnydd o £18.38m yng ngwerth net y Cyngor a nodi'r uchod yn ganlyniad o cynnydd o £25.657m mewn arian wrth gefn na ellir eu defnyddio a gostyngiad o £7.276m mewn balansau a ellir eu defnyddio (gan gynnwys CRT).

## 4 Y Prif Faterion sy'n Effeithio ar Gyfrifon 2017/18

Gosododd y Cyngor gyllideb net o £126.2m ar gyfer 2017/18 i'w chyllido o gyfuniad o Incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Roedd y gyllideb yn cynnwys gofyniad i sicrhau arbedion o £2.44m, a ymgorfforwyd yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol. Y canlyniad oedd gorwariant o £1.456m. Mae'r gorwariant yn cynnwys tan neu orwariant yn yr adrannau, arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl na chafodd ei ddefnyddio ac unrhyw eitemau unwaith-ac-am-byth eraill a nodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Pensiynau**

**Cynllun Pensiynau Athrawon -** Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoddi i athrawon fuddiannau penodol ar adeg eu hymddeoliad ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar gyfran o gyflog pensiynadwy'r aelodau.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -** Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad drwy fod yn rhan o Gronfa Pensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa wedi ei glandro ar lefel y bwriedir iddi falansio'r ymrwymiadau pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddiannau yn daladwy mewn gwirionedd hyd oni fydd gweithwyr yn ymddeol ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau i'r Gronfa Bensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd y gweithwyr yn ennill eu buddiannau i'r dyfodol.

Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn parhau i gael effaith ar yr Ymrwymiad Pensiwn net. Mae un o'r newidiadau ar y Fantolen yn ymwneud â chronfa wrth gefn y Cyngor ar gyfer pensiynau, lle mae ymrwymiad y Cyngor wedi gostwng o £105.508m i £102.188m, gostyngiad o £3.32m. Mae'n bwysig nodi bod gostyngiad yn yr ymrwymiad yn y sefyllfa bensiwn yn seiliedig ar brisiadau actiwaraidd. Caiff taliadau gwirioneddol y Cyngor i'r Gronfa Bensiwn eu hadolygu bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad o'r Gronfa Bensiwn a gynhelir bob tair blynedd. Yna, penderfynir ar strategaeth fuddsoddi sy'n anelu at adennill unrhyw ddiffyg dros gyfnod y bydd Actiwari'r Gronfa Bensiwn (Hymans Robertson LLP) yn penderfynu arno.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf yn 2016 ac fe nodwyd bwlch cyllido hanesyddol o £ 3.882m ar gostau pensiwn. Roedd hwn i fod i gael ei ariannu dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2017/18 i 2019/20 trwy gynnydd yng nghanran cyfraniad y cyflogwyr i Gronfa Bensiwn Gwynedd. Fe nodwyd y gallai'r Cyngor arbed tua £200k pe bai taliad lwmp swm yn cael ei wneud yn lle hynny, gan y byddai hyn yn cynyddu incwm buddsoddiad i'r gronfa ac yn lleihau atebolrwydd pensiwn y Cyngor yn ôl y taliad lwmp swm. Felly, fe wnaeth y Cyngor daliad o £3.666m ac mae wedi cael ei godi i Gostau na fedrir eu Dosbarthu a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y buddiannau pensiwn a gafwyd yn y flwyddyn wedi eu haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu'r rhan honno o'r costau pensiwn nad ydynt yn cael eu talu gan Drethdalwyr y Cyngor.

**Darpariaethau**

Roedd cyfanswm darpariaethau'r Cyngor yn werth £5.462m ar 1 Ebrill 2017. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd y balans gan £0.136m i £5.326m. Mae'r gostyngiad yn ymwneud yn bennaf â gwrthdroi'r ddarpariaeth am gyflog cyfartal o £2.663m. Mae'r costau hyn wedi cael eu hariannu o gyfalaf yn hytrach yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Gostyngwyd y ddarpariaeth yswiriant i £0.265m yn unol â'r angen a amcangyfrifwyd. Crëwyd tair darpariaeth tymor byr newydd yn ystod y flwyddyn, sef cyfanswm o £0.430m, er mwyn darparu ar gyfer costau disgwyliedig yn y dyfodol a allai godi o rwymedigaeth yn y gorffennol. Mae darpariaeth Penhesgyn wedi ei gynyddu £2m ac wedi'i ariannu gan gronfa wrth gefn Penhesgyn.

Gwelir manylion y symudiadau yn y darpariaethau yn nodyn 27 y Cyfrifon.

## 5. Eglurhad o'r Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi manylion incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 a'i Fantolen ar 31 Mawrth 2018. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Ynddynt, nodir cyfrifoldebau'r Cyngor a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y Cyngor, sef Swyddog Adran 151 dynodedig y Cyngor.

**Datganiadau Ariannol Craidd:-**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:-

1. **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** – sy'n dangos y gost cyfrifo o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o'r trethi.

2. **Dadansoddiad Gwariant a Chyllido (EFA)**– sy'n dangos y wybodaeth yn y CIES ond, yn ogystal, mae'n darparu addasiadau cyfrifo sydd yn cael eu canslo allan yn Nodyn 7 er mwyn sicrhau nad yw'r addasiadau yma'n cael ei cyllido gan Drethdalwyr y Dreth Gyngor. Mae'r golofn gyntaf o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido yn darparu gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau ac arian wrth gefn y Cyngor a'r CRT.

3. **Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)** - sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi ei ddadansoddi yn ôl arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio ac arian wrth gefn nad yw ar gael i'w ddefnyddio. Mae'r datganiad yn dangos cost wirioneddol darparu gwasanaethau'r Awdurdod a'r modd y caiff y costau hyn eu cyllido o'r gwahanol gronfeydd wrth gefn.

4. **Y Fantolen** - sy'n nodi gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Caiff asedau net eu cyfatebu gan yr arian wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.

5. **Datganiad Llif Arian** – sy'n dangos y newidiadau o ran arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddir arno.

6. **Y Nodiadau** – y nodiadau i'r Datganiadau Ariannol craidd sy'n darparu mwy o fanylion am bolisïau cyfrifo'r Cyngor a'r eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau.

**Datganiadau Ariannol Atodol**

1. **Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon –** egluro cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Adran 151.

2. Mae'r **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** yn gofnod o wariant refeniw ac incwm sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Ei brif bwrpas yw sicrhau bod y gwariant ar reoli tenantiaethau a chynnal a chadw anheddau'n cael ei gydbwyso gan y rhenti a godir ar denantiaid. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei glustnodi'n benodol i'r pwrpas hwnnw o Gronfa Gyffredinol y Cyngor.

3. **Barn yr Archwiliwr –** Fel Archwilydd Allanol y Cyngor, Archwiliwr Cyffredinol Cymru bydd yn cynnal yr archwiliad statudol ac arwyddo y Datganiad Cyfrifon wedi i'r Swyddog Adran 151 lofnodi a dyddio'r Datganiad Cyfrifon. Byddant wedyn yn cyhoeddi barn ynghylch a oes angen eu haddasu neu beidio. Y dyddiad cau ar gyfer y farn hon yw 30 Medi wedi i'r flwyddyn ddod i ben.

4. **Newidiadau mewn Polisi Cyfrifo**
   Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau o bwys i'r driniaeth gyfrifo ar gyfer 2017/18.

Daw'r Datganiad Cyfrifon i ben gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) 2017/18. Mae hwn i'w weld ar dudalen 111 i dudalen 138. Mae'r AGS yn rhoi trosolwg o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae hefyd yn darparu crynodeb o adroddiadau ac adolygiadau sy'n rhoi sylwadau ar faterion llywodraethu a pherfformiad sy'n ymwneud â'r Cyngor.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

### Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae’n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn:-

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o’i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu’r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog yw’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) sydd hefyd wedi’i ddynodi’n Swyddog Adran 151;
- reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- gymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon.

### Cyfrifoldebau’r Swyddog Adran 151

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â’r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (“Y Côd”).

Wrth baratoi’r Datganiad Cyfrifon hwn, mae’r Swyddog Adran 151 wedi:-

- dewis polisïau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio’n gyson;
- ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chôd Ymarfer Awdurdod Lleol CIPFA.

Hefyd, mae’r Swyddog Adran 151 wedi:-

- cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol;
- cymeryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

**Tystysgrif**
**Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a’i incwm a’i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.**

**Llofnodwyd: ………………………………**
**Richard Marc Jones CPFA**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**

**Llofnodwyd: ……………………………**
**Cynghorydd Dylan Rees**
**CADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Dyddiedig: 25 Medi 2018**

# Adroddiad Archwilio Arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:-

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Adrodd ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:-

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif neu'r datganiad Llwyodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:-

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 14, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiadau pan maent yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn Tudalen 14 a 15 - Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn neu yn y cyfanswm y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.


**Anthony J Barrett**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**28 Medi 2018**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd**

**CF11 9LJ**

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi.  Mae'r Cyngor yn codi trethi i gwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol.  Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

| 2017/18 | | | Gwasanaethau | Nodyn | 2016/17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 | | | Gwariant Gros £'000 | Incwm Gros £'000 | Gwariant Net £'000 |
| 82,552 | (14,508) | 68,044 | Dysgu Gydol Oes | | 64,482 | (13,974) | 50,508 |
| 34,329 | (10,505) | 23,824 | Gwasanaethau Oedolion | | 32,130 | (9,054) | 23,076 |
| 10,388 | (710) | 9,678 | Gwasanaethau Plant | | 8,902 | (466) | 8,436 |
| 4,647 | (3,768) | 879 | Tai | | 5,993 | (3,906) | 2,087 |
| 29,430 | (8,404) | 21,026 | Priffydd, Eiddo a Gwastraff | | 29,431 | (7,625) | 21,806 |
| 12,529 | (5,950) | 6,579 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | | 11,694 | (6,284) | 5,410 |
| 7,432 | (209) | 7,223 | Trawsnewid | | 4,433 | (223) | 4,210 |
| 28,097 | (19,815) | 8,282 | Adnoddau | | 28,461 | (19,598) | 8,863 |
| 2,182 | (353) | 1,829 | Busnes y Cyngor | | 1,994 | (458) | 1,536 |
| 2,541 | (707) | 1,834 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 2,321 | (194) | 2,127 |
| 596 | (9) | 587 | Rheolaeth Corfforaethol | | 892 | (11) | 881 |
| 3,724 | - | 3,724 | Costau heb eu ddosbarthu | | 97 | - | 97 |
| 10,841 | (16,778) | (5,937) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | | 10,137 | (16,285) | (6,148) |
| **229,288** | **(81,716)** | **147,572** | **Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau** | | **200,967** | **(78,078)** | **122,889** |
| | | 23,148 | Gwariant gweithredu arall | 12 | | | 23,042 |
| | | 8,628 | Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi | 13a | | | 8,861 |
| | | (146,749) | Trethiant ac incwm grant amhenodol | 14 | | | (145,252) |
| | | **32,599** | **Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **9,540** |
| | | (41,122) | Gwarged ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol | 11c, 15 & 17 | | | (7,631) |
| | | (9,858) | Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net | 11ch & 41 | | | 7,333 |
| | | **(50,980)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(298)** |
| | | **(18,381)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **9,242** |

# DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO 2017/18

| 2017/18 | | | Gwasanaethau | 2016/17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT £'000 | Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000 | | Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT £'000 | Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo £'000 | Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000 |
| 46,952 | 21,092 | 68,044 | Dysgu Gydol Oes | 46,832 | 3,676 | 50,508 |
| 22,519 | 1,305 | 23,824 | Gwasanaethau Oedolion | 22,379 | 697 | 23,076 |
| 9,926 | (248) | 9,678 | Gwasanaethau Plant | 8,955 | (519) | 8,436 |
| 724 | 155 | 879 | Tai | 1,087 | 1,000 | 2,087 |
| 16,437 | 4,589 | 21,026 | Priffydd, Eiddo a Gwastraff | 17,631 | 4,175 | 21,806 |
| 3,739 | 2,840 | 6,579 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 3,954 | 1,456 | 5,410 |
| 4,038 | 3,185 | 7,223 | Trawsnewid | 3,897 | 313 | 4,210 |
| 7,998 | 284 | 8,282 | Adnoddau | 8,788 | 75 | 8,863 |
| 1,689 | 140 | 1,829 | Busnes y Cyngor | 1,536 | - | 1,536 |
| 2,142 | (308) | 1,834 | Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,495 | (368) | 2,127 |
| 587 | - | 587 | Rheolaeth Corfforaethol | 881 | - | 881 |
| 3,464 | 260 | 3,724 | Costau heb eu ddosbarthu | - | 97 | 97 |
| (6,718) | 781 | (5,937) | Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | (7,806) | 1,658 | (6,148) |
| **113,497** | **34,075** | **147,572** | **Cost Net Gwasanaethau** | **110,629** | **12,260** | **122,889** |
| (106,221) | (8,752) | (114,973) | Incwm a Gwariant Arall | (107,593) | (5,756) | (113,349) |
| **7,276** | **25,323** | **32,599** | **(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **3,036** | **6,504** | **9,540** |
| (31,345) | | | Balans agoriadol y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 1 Ebrill | (34,381) | | |
| 7,276 | | | Llai Diffyg ar falans y Gronfa Cyffredinol a'r CRT yn y flwyddyn | 3,036 | | |
| **(24,069)** | | | **Balans cau y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 31 Mawrth** | **(31,345)** | | |

Tudalen 50

**DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018**

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell Gwarged / (Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell 'Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd clustnodedig wrth gefn' yn dangos y symudiad yn y flwyddyn o falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn gwneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd clustnodedig wrth gefn a gyflawnir gan y Cyngor.

| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 8) £'000 | Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 10) £'000 | Balansau Ysgolion (Nodyn 9) £'000 | Grantiau Cyfalaf Anghynwysiedig (Nodyn 14) £'000 | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd CRT (Nodyn 8) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 11) £'000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2016** | **8,886** | **15,991** | **7,042** | **-** | **2,462** | **-** | **-** | **34,381** | **139,680** | **174,061** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (8,384) | - | (1,156) | - | - | - | - | **(9,540)** | **-** | **(9,540)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **298** | **298** |
| **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | **(8,384)** | **-** | **(1,156)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(9,540)** | **298** | **(9,242)** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 7) | 4,846 | - | 1,658 | - | - | - | - | **6,504** | **(6,504)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **(3,538)** | **-** | **502** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(3,036)** | **(6,206)** | **(9,242)** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8) | 3,007 | (2,634) | - | - | (373) | - | - | **-** | **-** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | **(531)** | **(2,634)** | **502** | **-** | **(373)** | **-** | **-** | **(3,036)** | **(6,206)** | **(9,242)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **8,355** | **13,357** | **7,544** | **-** | **2,089** | **-** | **-** | **31,345** | **133,474** | **164,819** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (31,789) | - | (810) | - | - | - | - | **(32,599)** | **-** | **(32,599)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **50,980** | **50,980** |
| **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | **(31,789)** | **-** | **(810)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(32,599)** | **50,980** | **18,381** |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 7) | 24,215 | - | 781 | 327 | - | - | - | **25,323** | **(25,323)** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig** | **(7,574)** | **-** | **(29)** | **327** | **-** | **-** | **-** | **(7,276)** | **25,657** | **18,381** |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 8) | 6,118 | (5,756) | (135) | (7) | (220) | - | - | **-** | **-** | **-** |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) yn ystod y flwyddyn** | **(1,456)** | **(5,756)** | **(164)** | **320** | **(220)** | **-** | **-** | **(7,276)** | **25,657** | **18,381** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **6,899** | **7,601** | **7,380** | **320** | **1,869** | **-** | **-** | **24,069** | **159,131** | **183,200** |

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2018

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn arian wrth gefn y mae modd ei ddefnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau.  Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, lle byddai'r arian ond ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn); a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer  a chyfarpar | 15 | 386,886 | 363,736 |
| Asedau Treftadaeth | 17 | 3,645 | 3,454 |
| Eiddo Buddsoddi | 18 | 5,791 | 6,092 |
| Asedau Anniriaethol | 19 | 756 | 606 |
| Buddsoddiadau Tymor Hir | 44 | 1 | 1 |
| Dyledwyr tymor hir | 24 | 608 | 646 |
| **Asedau tymor hir** | | **397,687** | **374,535** |
| | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 44 | 5 | 5 |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | 21 | 2,442 | 3,524 |
| Rhestrau stoc | 23 | 385 | 367 |
| Dyledwyr tymor byr | 24 | 24,031 | 20,199 |
| Arian a chywerthoedd arian | 25 | 7,789 | 14,940 |
| **Asedau Cyfredol** | | **34,652** | **39,035** |
| | | | |
| Benthyca tymor byr | 44 | (12,413) | (7,672) |
| Credydwyr tymor byr | 26 | (18,251) | (18,112) |
| Darpariaethau tymor byr | 27 | (695) | (2,831) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf ymlaen llaw | 37 | (3,897) | (273) |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | **(35,256)** | **(28,888)** |
| Credydwyr tymor hir | 26 | (151) | (166) |
| Darpariaethau tymor hir | 27 | (4,631) | (2,631) |
| Benthyca tymor hir | 44 | (106,913) | (111,557) |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 41 | (102,188) | (105,509) |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | **(213,883)** | **(219,863)** |
| **Asedau net** | | **183,200** | **164,819** |
| Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio | MIRS | 24,069 | 31,345 |
| Cronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio | 11 | 159,131 | 133,474 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn** | | **183,200** | **164,819** |

## DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio Arian Parod a Chywerthoedd Arian trwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a gyllidir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-lif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(32,599)** | **(9,540)** |
| Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | 28 | 39,406 | 33,924 |
| Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu cyllido | 28 | (14,583) | (18,593) |
| **Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu** | | **(7,776)** | **5,791** |
| **Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi** | 29 | **(10,745)** | **(14,595)** |
| **Llif arian net o Weithgareddau Cyllido** | 30 | **11,370** | **6,120** |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian** | | **(7,151)** | **(2,684)** |
| Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol | | 14,940 | 17,624 |
| **Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | 25 | **7,789** | **14,940** |

**NODIADAU AR GYFRIFON**

**Dadansoddiad Gwariant a Cyllido**

Nod y Dadansoddiad Gwariant a Cyllido yw i ddangos effaith gwirioneddol perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau'r Cyngor. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn cynnwys nifer o addasiadau cyfrifo megis dibrisiant nad ydynt, drwy gyfraith, yn gallu cael eu cyllido gan y Dreth Gyngor gan nad ydynt yn gostau gwirioneddol sy'n cael effaith ar falansau'r Cyngor y gellir eu defnyddio.

Dangosir y CIES diffyg yn y darpariaeth o wasanaethau o £28.708m. Fodd bynnag, mae'r addasiadau cyfrifo statudol o £25.219m yn cael eu canslo allan yn y datganiadau ariannol ar wahân, sef y Dadansoddiad Gwariant a Cyllido a'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Mae hyn yn helpu nodi balansau'r Cyngor y gellir eu defnyddio sydd heb yr addasiadau cyfrifo yma. Dangosir effaith yr addasiadau cyfrifo statudol yma yn y golofn arian wrth gefn ni ellir ei ddefnyddio yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Pan ychwanegir y CIES a'r tynnu allan ar gyfer addasiadau cyfrifo at eu gilydd, fe welir yr effaith ar gyfer y flwyddyn ar gronfeydd y Cyngor.

| | **£'000** |
|---|---|
| Cyfanswm Arian Wrth Gefn a Balansau'r Cyngor (yn cynnwys CRT) y gellir eu defnyddio ar 1 Ebrill 2017 | 31,345 |
| Diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau 2017/18 – CIES | (32,599) |
| Addasiadau i dynnu allan effaith addasiadau cyfrifo nad ydynt yn effeithio Cronfa'r Cyngor – Dadansoddiad Gwariant a Cyllido a Nodyn 7 | 25,323 |
| Llai Cyfanswm Cynnydd / (Gostyngiad) yn yr Arian wrth Gefn | (7,276) |
| Cyfanswm Balansau'r Cyngor (yn cynnwys CRT) ar 31 Mawrth 2018 | 24,069 |

Dangosir hyn, pan mae'r addasiadau cyfrifo yn cael eu canslo allan, mae'r effaith gwirioneddol ar gost gwasanaethau'r Cyngor (yn cynnwys y Cyfrif Refeniw Tai) yn cael ei ostwyng i £7.276m am y flwyddyn, gan arwain at falans cyffredinol o arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio o £24,069m. Mae hyn hefyd wedi gostwng ers 2016/17 gan fod arian wrth gefn clustnodedig wedi ei ddefnyddio i gyllido'r costau y clustnodwyd yr arian wrth gefn yn wreiddiol amdanynt.

Mae'r gostyngiad yn y flwyddyn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn dangos fod Arian Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor wedi gostwng £1.456m am 2017/18 gan arwain at gyfanswm arian wrth gefn cyffredinol o £6.899m. Tanwariodd y Cyfrif Refeniw Tai gan £164k, gyda chyfanswm balans y CRT ar 31 Mawrth 2018 o £7.380m.

Fodd bynnag, defnyddiwyd £6.118m o arian wrth gefn clustnodedig fel y nodwyd uchod. Cynhwysir hyn falansau'r ysgolion a ostyngodd hefyd gan £0.22m gan arwain at ostyngiad cyffredinol yn yr arian wrth gefn y gellir eu defnyddio.

## NODYN 1a – Nodyn ar y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido

## 2017/18

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000 | Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf £'000 | Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn £'000 | Gwahaniaethau arall £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 20,430 | 1,064 | (402) | 21,092 |
| Gwasanaethau Oedolion | 344 | 935 | 26 | 1,305 |
| Gwasanaethau Plant | - | (271) | 23 | (248) |
| Tai | 8 | 150 | (3) | 155 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 4,183 | 490 | (84) | 4,589 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 2,350 | 537 | (47) | 2,840 |
| Trawsnewid | 2,934 | 276 | (25) | 3,185 |
| Adnoddau | 16 | 270 | (2) | 284 |
| Busnes y Cyngor | 1 | 116 | 23 | 140 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | - | (308) | - | (308) |
| Rheolaeth Corfforaethol | - | - | - | - |
| Costau Na Dosbarthwyd | - | 260 | - | 260 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 524 | 229 | 28 | 781 |
| Cost net Gwasanaethau | 30,790 | 3,748 | (463) | 34,075 |
| Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido | (8,923) | 2,789 | (2,618) | (8,752) |
| Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddifyg | 21,867 | 6,537 | (3,081) | 25,323 |

## 2016/17

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000 | Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf £'000 | Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn £'000 | Gwahaniaethau arall £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 3,189 | 167 | 320 | 3,676 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,161 | 149 | (613) | 697 |
| Gwasanaethau Plant | 21 | (540) | - | (519) |
| Tai | 978 | 23 | (1) | 1,000 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 4,070 | 80 | 25 | 4,175 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 1,336 | 91 | 29 | 1,456 |
| Trawsnewid | 280 | 41 | (8) | 313 |
| Adnoddau | 16 | 46 | 13 | 75 |
| Busnes y Cyngor | 1 | 19 | (20) | - |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 9 | (377) | - | (368) |
| Rheolaeth Corfforaethol | - | - | - | - |
| Costau Na Dosbarthwyd | - | 97 | - | 97 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 1,586 | 38 | 34 | 1,658 |
| Cost net Gwasanaethau | 12,647 | (166) | (221) | 12,260 |
| Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido | (9,679) | 3,320 | 603 | (5,756) |
| Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddifyg | 2,968 | 3,154 | 382 | 6,504 |

**NODYN 1b – INCWM CYLCHRANNOL**

| Gwasanaethau | 2017/18 Incwm o Wasanaethau £'000 | 2016/17 Incwm o Wasanaethau £'000 |
|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | (1,458) | (1,399) |
| Gwasanaethau Oedolion | (4,671) | (4,411) |
| Gwasanaethau Plant | - | - |
| Tai | (13) | (8) |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | (2,738) | (2,109) |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | (2,574) | (2,404) |
| Trawsnewid | - | (19) |
| Adnoddau | (159) | (307) |
| Busnes y Cyngor | (331) | (422) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | (43) | (189) |
| Rheolaeth Corfforaethol | (9) | (11) |
| Costau Na Dosbarthwyd | - | - |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | (119) | (82) |
| | | - |
| **Cyfanswm Incwm** | **(12,115)** | **(11,361)** |

**NODYN 2a – SAFONAU CYFRIFO A GYHOEDDWYD OND NAD YDYNT ETO WEDI EU MABWYSIADU**

Mae’r Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 (y Côd) yn dweud bod angen datgelu effaith ddisgwyliedig unrhyw safonau cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi eu mabwysiadu eto.

Y safonau a gyhoeddwyd ond sydd heb eu mabwysiadu eto gan côd CIPFA ac fe’u cyflwynir yng nghôd CIPFA 2018/19 yw :-

- IFRS 9 Offerynnau Ariannol;
- IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid, gan gynnwys diwygiadau i IFRS 15, eglurhad i IFRS Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid;
- Diwygiadau i IAS12 Trethi Incwm : Cydnabyddiaeth o Asedau Treth Gohiriedig ar gyfer colledion heb eu gwireddu;
- Diwygiadau i IAS 7 Datganiad Llif Arian : Menter Datgelu.

Mae’n annhebygol bydd y safonau a gaiff eu mabwysiadu yn 2018/19 yn cael effaith sylweddol ar Ddatganiad Cyfrifon 2017/18.

Yn ogystal, bydd Côd CIPFA ar gyfer 2019/20 yn mabwysiadu Prydlesi IFRS16, a fydd yn dod â phrydlesau gweithredu’r Cyngor i mewn i Fantolen y Cyngor. Er enghraifft, bydd gwerth peiriannau argraffu / llungopïo, os yw'n sylweddol, yn cael ei ychwanegu at y Fantolen fel pe baent yn eiddo i'r Cyngor. Bydd hyn yn berthnasol i'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2019/20.

**NODYN 2b – SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDU CAEL EU CYHOEDDI A'U MABWYSIADU**

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 wedi cyflwyno dau o ofynion newydd a bydd rhaid i Gynghorau gydymffurfio gyda'r safonau newydd sydd wedi ael eu mabwysiadu mewn perthynas â'r modd y cyflwynir adroddiadau. Mae'r newidiadau perthnasol yn ymwneud â'r safonau isod a byddant yn cael eu diwygio, lle maent yn berthnasol, yn achos unrhyw gyfrifon a fydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cyfnodau ariannol sy'n cychwyn ar ôl 1af Ebrill 2017 :-

- Diwygiad i'r ffordd adroddir ar gostau trafodion cynllun cronfa pensiwn;
- Diwygiad i'r ffordd adroddir ar grynodiad buddsoddiadau.Mae'n annhebygol bydd rhain yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn y datganiadau ariannol.

**NODYN 3 - BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISÏAU CYFRIFO**

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 51, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:-

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Corff llywodraeth leol yw'r Cyngor a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn hinsawdd ariannol anodd, yr un modd â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw arwyddion naill ai o berfformiad ariannol yr Awdurdod na chynlluniau Llywodraeth Cymru, sy'n tanseilio'r farn y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyw yn y dyfodol.

- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw nifer o asedau a ddefnyddir i ddibenion cymdeithasol neu ddatblygu economaidd yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Asedau Nad Ydynt yn Gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Yn unol â'r canllawiau cyfredol ynghylch y modd yr ymdrinnir â rhai mathau o ysgolion, dim ond gwerth tir ysgolion a reolir yn wirfoddol sy'n cael ei gynnwys ar y Fantolen lle mae gan y corff gwirfoddol reolaeth sylweddol dros yr adeilad. Oherwydd nad yw'r Cyngor yn berchen ar ysgolion o'r fath, ac oherwydd nad oes ganddo fynediad iddynt i bwrpas eu prisio, nid yw gwerth yr adeiladau wedi ei gynnwys ar y Fantolen. Yn ychwanegol at hyn, nid yw Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol ac Ysgolion Sefydledig – gwerth y tir na'r adeiladau – wedi eu cynnwys ar y Fantolen.

- Caiff grantiau cyfalaf a refeniw eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu a yw'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth y grantiau perthnasol wedi eu bodloni. Os bydd y telerau a'r amodau wedi eu bodloni, byddant yn cael eu cydnabod o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Os na fyddant, byddant yn cael eu cario o fewn y Fantolen o fewn credydwyr hyd nes y bydd y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant wedi eu bodloni neu fod y grant yn cael eu had-dalu i ddarparwr y grant pe na bai'r telerau a'r amodau yn cael eu bodloni. Gall y driniaeth hon olygu bod balansau o bwys yn cael eu cario yn y Fantolen fel incwm a ohiriwyd.

- Mae gofynion y grŵp wedi ei hadolygu gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellwyd yn y safonau cyfrifo perthnasol a'r Côd Ymarfer; nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw gwmnïau na sefydliadau y byddai angen iddo gwblhau cyfrifon grŵp.

- Mae lefel uchel o ansicrwydd am lefelau cyllido i lywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol ar hyn o bryd i roi arwydd y bydd amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a gostwng lefelau o ran darparu gwasanaeth.

**NODYN 4a - RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL AC AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar ragdybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2018 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:-

**Asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15 ar dudalen 39.

Pan fo gan eitem o Eiddo, Offer a Chyfarpar (Ased Nad yw'n Gyfredol) cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

I weithredu hyn yn ymarferol, mae'n ofynnol gwneud asesiad yn erbyn y meini prawf isod i sefydlu os:-

- Yw'r oes fuddiol economaidd yn sylweddol wahanol i'r cydrannau arall o'r ased h.y. 15 mlynedd neu fwy;
- Yw gwerth yr ased yn £2m neu fwy, ac mae'r cydran dros 25% o gyfanswm gwerth yr ased;
- Yw'r oes fuddiol economaidd yn sylweddol wahanol ond mae'r gwerth yn cynrychioli llai na 25% o gyfanswm gwerth yr ased, bydd y cydran yn cael ei nodi ar wahân os, ym marn y prisiwr, bernir ei fod yn berthnasol e.e. lle mae gwerth y cydran yn, dywedwch, £3m (10%) o'r ased dibrisiedig sydd â chyfanswm gwerth o £30m.

Os yw'r ased dibrisiedig yn rhan o grŵp ehangach a ddelir ar gyfer yr un pwrpas, er engraifft, canolfannau hamdden, bydd y polisi yma a argymhellir ar cydrannu yn cael ei gymhwyso i'r cyfanswm o'r grŵp ehangach yma ac nid i bob ased dibrisiedig unigol o fewn y grŵp.

**Amnewid Asedau** - lle caiff ased a oedd yn rhan o ased llawer mwy ei amnewid ond nad yw'n ddigon arwyddocaol i gael ei gydranoli, bydd cost y rhan newydd / yr ased newydd yn cael ei ddefnyddio fel gwerth procsi pan gaiff yr hen ran / yr hen ased ei ddad-gydnabod.

**Tai Cyngor -** Mae stoc Dai'r Cyngor yn cael ei brisio drwy ddefnyddio methodoleg safonol, sydd yn rhannol angen defnyddio ffactor addasu i ganiatáu am y gwahaniaethau rhwng cynnyrch a rhent ar dai cymdeithasol a'r sector breifat. Ar hyn o bryd, nid oes ffactor addasu wedi ei chyhoeddi ar gyfer Cymru, felly, dewisodd y Cyngor ffactor addasu sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cymharol yn Lloegr, y ffactor a ddefnyddiwyd oedd 41%. Petai ffactor penodol yn cael ei gyhoeddi, un ai ar gyfer Cymru yn ei gyfanrwydd neu ar sail ranbarthol, yna byddid yn gweithredu ar hynny.

**Darpariaethau –** Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth am gyfres o faterion ansicr â all arwain at gostau sylweddol mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf a chostau ôl-ofal ar gyfer safle tirlenwi Penhesgyn a rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o hawliadau yswiriant. Ceir manylion llawn yn Nodyn 27.

**Rhwymedigaeth Pensiynau** - Mae sefyllfa'r Rhwymedigaeth Bensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn ymwneud â chyfraddau disgownt, codiadau cyflog rhagamcanedig, newidiadau i oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r dychweliadau disgwyliedig ar asedau pensiwn. Mae'r Cyngor sy'n gweinyddu'r gronfa wedi cyflogi cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol ar y rhagdybiaethau i'w defnyddio. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 41.

**Amhariad / Lwfans Dyledion Amheus** – Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cyngor falans o £24.031m o ran dyledion net tymor byr. Awgrymodd adolygiad o'r balans dyledion fod swm amhariad o £5.565m yn briodol ar gyfer dyledion amheus. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad Dyledion Amheus wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 24 ar dudalen 47.

**Mesur Gwerth Teg -** Bydd gwerth teg yn cael ei fesur yn unol ag IFRS13 Mesur Gwerth Teg fel yr adroddwyd arno yng Nghôd Ymarfer CIPFA am 2017/18. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae mesur gwerth teg yn fesur sy'n seiliedig ar y farchnad. Rhydd IFRS13 fwy o gyfeiriad ac eglurder mewn perthynas â phrisio asedau a rhwymedigaethau. Fodd bynnag, os nad oes marchnad ar gael i'w harsylwi er mwyn sefydlu gwerth, bydd angen defnyddio barn broffesiynol. Mewn achosion lle na fedrir mesur gwerth teg asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol (h.y. mewnbynnau Lefel 1), caiff eu gwerth teg eu mesur drwy ddefnyddio technegau prisio (e.e. prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol). Lle mae'n bosibl, bydd y mewnbynnau i'r technegau prisio hyn yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'w arsylwi ond, os nad yw hynny'n bosibl, rhaid defnyddio barn i sefydlu gwerthoedd teg. Yn gyffredinol, wrth lunio barn rhaid cymryd ffactorau megis ansicrwydd a risg i ystyriaeth. Fodd bynnag, gallai newid yn y tybiaethau a ddefnyddir effeithio ar werth teg asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdod. Defnyddir y model cost amnewid dibrisiedig (DRC) i fesur gwerth teg rhai o eiddo buddsoddiad..

Os nad oes mewnbynnau Lefel 1 ar gael, bydd yr Awdurdod yn cyflogi arbenigwyr perthnasol i nodi'r technegau prisio mwyaf priodol er mwyn penderfynu gwerth teg (er enghraifft, Uwch Swyddog Prisio'r Awdurdod ar gyfer eiddo buddsoddiad).

Mae'r mewbynnau sylweddol nad oes modd eu harsylwi a ddefnyddir yn yr asesiad o werth teg yn cynnwys tybiaethau rheolwyr ynghylch twf rhent, i ba lefel y mae eiddo'n wag (yn achos eiddo buddsoddiad) a chyfraddau disgownt – wedi eu haddasu ar gyfer ffactorau rhanbarthol (ar gyfer asedau buddsoddiad a rhai asedau ariannol). Byddai newidiadau sylweddol mewn unrhyw un o'r mewnbynnau nad oes modd eu harsylwi yn arwain at fesuriadau gwerth teg a fyddai'n sylweddol is neu'n sylweddol uwch ar gyfer eiddo buddsoddiad ac asedau ariannol.

## NODYN 4b – ADDASIADAU AR GYFER Y CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFO AC AMCANGYFRIFON A CHAMGYMERIADAU

Cafodd yr eitemau canlynol eu hail-gategoreiddio yn ystod 2017/18:-

**1)** Cafodd Ysgol Parc Y Bont, a oedd wedi ei phrisio am £0.932m ei thynnu oddi ar Fantolen y Cyngor yn 2015/16 oherwydd fod yr ysgol dan Reolaeth Wirfoddol ac mewn ymateb i ganllawiau CIPFA ar gyfrifo ar gyfer Ysgolion dan Reolaeth Wirfoddol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi gryn dipyn yn yr ysgol fel rhan o'r raglen Ysgolion y 21ain Ganrif. Mae'n glir yn awr, er bod yr ysgol dan Reolaeth Wirfoddol, fod gan y cyngor reolaeth sylweddol dros yr ased. O'r herwydd, mae'r ysgol wedi cael ei rhoi'n ôl ar y Fantolen am brisiad o £1.290m. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £0.550m am estyniad a gwaith adnewyddu fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Nid yw'r flwyddyn flaenorol wedi cael ei hail-ddatgan oherwydd daeth y dystiolaeth y dylai'r ysgol gael ei dychwelyd fel ased i'r Cyngor i'r fei yn ystod 2017/18.

**2)** Mae'r modd yr ymdrinnir â llog sydd wedi cronni, sef y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau gan y PWLB mewn perthynas â 2017/18 ond sydd i'w dalu yn 2018/19, yn wahanol o gymharu â llynedd yng nghyfrifon 2017/18 er mwyn adlewyrchu'n agosach Gôd Ymarfer CIPFA. Cafodd swm o £2.119m o log a oedd wedi cronni yn y flwyddyn flaenorol ei ychwanegu fel credydwr tymor byr ar y fantolen. Yn 2017/18, cafodd llog o £2.297m a oedd wedi cronni ei ychwanegu at yr ymrwymiadau tymor byr yn lle credydwyr a hynny'n unol â'r Côd. Mae'r ffigyrau ar gyfer 2016/17 wedi cael eu diwygio drwy gynyddu'r ymrwymiad tymor byr gan £2.119m a lleihau credydwyr tymor byr gan yr un swm ynghyd â'r nodiadau cysylltiedig.

**3)** Yn ystod cyfnod yr archwiliad, daeth yn amlwg fod anghysondeb o ran lefel y ddyled a oedd yn ymwneud â gor-daliadau budd-dal tai rhwng y swm a gofnodwyd yn y System Budd-daliadau Tai a'r swm a gofnodwyd yn y brif system gyfrifo ac mae'r anghysondeb hwn yn dyddio'n ôl i 2015/16. Roedd angen gwneud cywiriad o £790k i gyd drwy gynyddu gwerth y dyledwyr tymor byr a chredydu'r cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Oherwydd fod y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi cael ei gweithio allan gan ddefnyddio balans y ddyled a gofnodwyd yn y system Budd-daliadau Tai, sef y balans cywir, nid oedd angen ail-gyfrifo'r ddarpariaeth hon. Er mai dim ond £260k o'r incwm sy'n berthnasol i 2017/18, mae'r swm wedi cael ei gydnabod yn llawn yn 2017/18 oherwydd nid yw gwerth y camgymeriad yn y blynyddoedd blaenorol yn cyfarfod ag asesiad y Swyddog Adran 151 o drothwy materoldeb. O'r herwydd, nid yw'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi cael eu hail-ddatgan. Effaith hyn fu gwelliant o £790k yn sefyllfa ariannol y Cyngor sy'n adlewyrchiad o'r ffaith nad oedd yr incwm ychwanegol hwn wedi ei gyfrif amdano yn flaenorol.

## NODYN 5 – EITEMAU SYLWEDDOL INCWM A GWARIANT

Nid oes unrhyw eitemau sylweddol o incwm neu wariant nad ydynt wedi eu datgelu mewn rhan arall o'r cyfrifon hyn.

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan Swyddog Adran 151 y Cyngor ar 25 Medi 2018. Ni adlewyrchir digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn y datganiadau neu nodiadau ariannol.

Pan fo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2018, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a nodiadau ariannol wedi ei haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth yma.

Mae'r digwyddiadau canlynol rhwng 31 Mawrth 2018 a 25 Medi 2018 wedi cael effaith ar y Cyngor ac mae'n bwysig eu datgelu i ddarllenwyr Datganiad y Cyfrifon:-

**1)** Mae'r Cyngor wedi bod yn codi TAW ar incwm y Gwasanaeth Hamdden ac wedi talu hyn i CThEM am nifer o flynyddoedd yn unol â chanllawiau CThEM EM. Fodd bynnag, yn dilyn camau cyfreithiol a gymerwyd gan Drydydd Parti yn erbyn CThEM, penderfynwyd y daliwyd y dylai'r TAW ar y Gwasanaethau Hamdden gael ei heithrio. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno hawliadau sy'n dyddio'n ôl i 2012 i adennill y TAW hwn. Ym mis Awst 2018, ysgrifennodd CThEM at y Cyngor i gadarnhau y caiff y TAW hwn ei ad-dalu i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi derbyn ad-daliad o £794k a fydd yn cael ei gyfrif yn 2018.

**2)** Mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer hawliadau posibl mewn perthynas ag ad-dalu costau ôl-ofal dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn 2000, gwnaed Dyfarniad allweddol gan Dŷ'r Arglwyddi (Cyngor Bwrdeistref Richmond, Cyngor Dinas Manceinion, Cyngor Bwrdeistref Harrow a Chyngor Bwrdeistref Redcar v W/S/C/A) na allai cynghorau godi tâl am wasanaethau ôl-ofal S117 i ddefnyddwyr gwasanaethau Iechyd Meddwl os oeddynt yn cwrdd â'r meini prawf a amlinellwyd yn S117. Cafwyd nifer o hawliadau yn erbyn y Cyngor flynyddoedd yn ôl ond dim mwy yn ddiweddar. Fodd bynnag, cyflwynwyd hawliad newydd yn erbyn y Cyngor mewn perthynas ag ad-dalu taliadau a godwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar gyfer costau ôl-ofal S117. Mae arian yn y gronfa glustnodedig i dalu am yr hawliad hwn os bydd yr hawlydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gan fod risg o hyd o hawliadau yn y dyfodol, mae hyn hefyd wedi'i gynnwys fel ymrwymiad a allai godi yn annisgwyl.

## NODYN 7 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL CYLLIDO DAN REOLIADAU

| 2017/18 | Arian wrth Gefn y mae modd ei ddefnyddio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor £'000 | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd £'000 | Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd ei ddefnyddio £'000 |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | |
| ***Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | | | | | |
| Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau nad ydynt yn gyfredol | 9,298 | 3,082 | - | - | (12,380) |
| Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 18,403 | - | - | - | (18,403) |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill) | 152 | - | - | - | (152) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (9,110) | (2,691) | - | - | 11,801 |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | 2,566 | - | - | - | (2,566) |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | 1,766 | 7,582 | - | - | (9,348) |
| Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd | 4,362 | - | - | - | (4,362) |
| ***Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | | | | | |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Cyllido Cyfalaf | (3,638) | (850) | - | - | 4,488 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | - | (6,600) | - | - | 6,600 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | |
| Elw o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | (2,782) | - | 2,782 | - | - |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | (2,455) | - | 2,455 |
| Defnydd o'r Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | - | - | - | - | - |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | - | - | - | - | - |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | |
| Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | 45 | 20 | - | - | (65) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 41) | 17,917 | 230 | - | - | (18,147) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (11,610) | - | - | - | 11,610 |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Cyfrif Addasu Ôl-dâl Anghyfartal** | | | | | |
| Symiau a godir ar y CIES sydd yn wahanol i gostau'r setliadau yn ystod y flwyddyn a hynny'n unol â gofynion statudol | (2,663) | - | - | - | 2,663 |
| **Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol** | | | | | |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | (491) | 8 | - | - | 483 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **24,215** | **781** | **327** | **-** | **(25,323)** |

| 2016/17 | Arian wrth Gefn y mae modd ei ddefnyddio | | | | Symudiad yn yr Arian wrth Gefn nad oes modd ei ddefnyddio |
|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cyfrif Refeniw Tai | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf nas Defnyddiwyd | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:** | | | | | |
| ***Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | | | | | |
| Taliadau am amhariad, dibrisiant ac amorteiddio asedau nad ydynt yn gyfredol | 8,557 | 3,849 | - | - | (12,406) |
| Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | 819 | - | - | - | (819) |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill) | (298) | - | - | - | 298 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (10,629) | (2,727) | - | - | 13,356 |
| Gwariant refeniw a gyllidi'r o gyfalaf dan statud | 1,685 | - | - | - | (1,685) |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | 2,605 | 6,884 | - | - | (9,489) |
| Swm a gludir o asedau nad ydynt yn gyfredol a werthwyd | 6,935 | 326 | - | - | (7,261) |
| ***Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:*** | | | | | |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Cyllido Cyfalaf | (3,632) | (867) | - | - | 4,499 |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | (244) | (5,058) | - | - | 5,302 |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:** | | | | | |
| Elw o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol | (4,416) | (821) | 5,237 | - | - |
| Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf | | - | (5,237) | - | 5,237 |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:** | | | | | |
| Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn | 91 | 44 | - | - | (135) |
| **Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:** | | | | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r DIGC (gweler Nodyn 41) | 12,158 | 38 | - | - | (12,196) |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | (9,042) | - | - | - | 9,042 |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Cyfrif Addasu Tâl Anghyfartal** | | | | | |
| Symiau a godir ar y DIGC sydd yn wahanol i gostau'r setliadau yn ystod y flwyddyn a hynny'n unol â gofynion statudol | 512 | - | - | - | (512) |
| **Addasiad yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol** | | | | | |
| Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledol tymor byr | (255) | (10) | - | - | 265 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **4,846** | **1,658** | **-** | **-** | **(6,504)** |

## NODYN 8 – CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

| | Balans ar 01/04/2016 £'000 | Trosglwy-ddiadau Mewn 2016/17 £'000 | Trosglwydd-iadau Allan 2016/17 £'000 | Balans ar 31/03/2017 £'000 | Trosglwydd-iadau Mewn 2017/18 £'000 | Trosglwydd-iadau Allan 2017/18 £'000 | Balans ar 31/03/2018 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf - Cyfraniadau Refeniw na chymhwyswyd | 899 | - | - | 899 | 238 | - | 1,137 |
| Cronfa wrth Gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn | 2,000 | - | - | 2,000 | - | (2,000) | - |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyfyngedig | 7,883 | 2,719 | (3,943) | 6,659 | 1,408 | (4,442) | 3,625 |
| Buddsoddiad i Arbed | - | 1,000 | (29) | 971 | - | (318) | 653 |
| Arfarnu Swyddi | 2,770 | - | (2,770) | - | - | - | - |
| Tâl Cyfartal | 865 | 513 | (318) | 1,060 | - | (246) | 814 |
| Ailgylchu | 324 | 73 | - | 397 | 112 | (387) | 122 |
| Cronfa Yswiriant | 1,250 | 356 | (235) | 1,371 | - | (121) | 1,250 |
| **Cyfanswm** | **15,991** | **4,661** | **(7,295)** | **13,357** | **1,758** | **(7,514)** | **7,601** |

### Pwrpas Cronfeydd Refeniw wrth Gefn a Glustnodwyd

**Cyfalaf – Cyfraniadau Refeniw na Chymhwyswyd –** i gyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Crëwyd hwn i sicrhau bod gwariant cyfalaf ymrwymedig, yn cynnwys gwariant sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, yn cael ei gyllido’n llawn.

**Cronfeydd wrth Gefn Cyfyngedig –** cronfeydd wrth gefn penodol a glustnodwyd o fewn meysydd gwasanaeth.

**Buddsoddi-i-Arbed –** crêwyd y gronfa wrth gefn hon i gyllido prosiectau buddsoddi-i-arbed lle mae’r cronfeydd wrth gefn yn cael eu buddsoddi mewn prosiectau fydd yn arwain i arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

**Tâl Cyfartal** – mae’r gronfa wrth gefn yma i gyllido costau’n codi o hawliadau tâl cyfartal megis ffioedd cyfreithiol a hawliadau.

**Ailgylchu -** adnoddau wedi cael eu neilltuo’n benodol ar gyfer mentrau ailgylchu gwastraff.

**Cronfa Yswiriant -** Mae'r Cyngor yn rhedeg cyfrif yswiriant mewnol i dalu am golledion a rhwymedigaethau heb yswiriant. Codir "premiwm ychwanegol" ar wasanaethau er mwyn ariannu'r cyfrif hwn. Darperir ar gyfer colledion a rhwymedigaethau y gwyddys eu bod yn golledion ar ddiwedd y flwyddyn. Mae unrhyw golledion neu rwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn ond na chawsant eu cyflwyno tan ddyddiad diweddarach yn cael eu cynnwys gan y gronfa yswiriant wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys y gwarged ar y cyfrif yswiriant mewnol a'r balansau llog.

## NODYN 9 - BALANSAU YSGOLION

Cedwir y balansau hyn ar gyfer defnydd pob ysgol yn unol â'u hamcanion addysgiadol.

| | Balans<br>1 Ebrill 2016<br>£'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) am<br>2016/17<br>£'000 | Balans<br>31 Mawrth 2017<br>£'000 | Ychwanegiad / (Lleihad) am<br>2017/18<br>£'000 | Balans<br>31 Mawrth 2018<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd Cymunedol a Gwirfoddol | 1,716 | (294) | 1,422 | (181) | 1,241 |
| Ysgolion Uwchradd Cymunedol | 304 | (76) | 228 | 182 | 410 |
| Ysgol Arbennig Gymunedol | 166 | (10) | 156 | (77) | 79 |
| Ysgol Gynradd Sefydledig | 276 | 7 | 283 | (144) | 139 |
| **Cyfanswm** | **2,462** | **(373)** | **2,089** | **(220)** | **1,869** |

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan bob ysgol falansau mewn llaw heblaw am 3 ysgol gynradd (4 ar 31 Mawrth 2017) ac 1 ysgol uwchradd (1 ar 31 Mawrth 2017), a oedd gyda'i gilydd â diffyg o £0.24m (£0.26m ar 31 Mawrth 2017). Gellir cael copïau o'r Datganiadau Adran 52, y mae'n ofynnol i bob Cyngor ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan Adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan yr Adain Gyfrifeg, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

## NODYN 10 – CRONFA WRTH GEFN DERBYNIADAU CYFALAF

Dyma dderbyniadau arian parod o werthiant asedau'r Cyngor. Defnyddir rhain i gyllido gwariant cyfalaf yn y flwyddyn. Bydd balans o £320k yn cael ei gario 'mlaen i 2018/19 i helpu ariannu rhaglen gyfalaf flwyddyn nesaf.

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans 1 Ebrill** | - | - |
| Derbyniadau Cyfalaf yn y Flwyddyn (net o leihad ar gyfer costau gweinyddu) | 2,782 | 5,237 |
| | **2,782** | **5,237** |
| **Llai:** | | |
| Derbyniadau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion | - | - |
| Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd i gyllido | (2,455) | (5,237) |
| Eraill | (7) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **320** | **-** |

## NODYN 11 - CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| | 31/03/2018<br>£'000 | 31/03/2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| a) Cyfrif Addasu Cyfalaf | 134,369 | 151,541 |
| b) Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (450) | (385) |
| c) Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 128,199 | 91,772 |
| ch) Cronfa Wrth Gefn Pensiwn | (102,188) | (105,509) |
| d) Cronfa wrth gefn ar gyfer Tâl anghyfartal | - | (2,663) |
| dd) Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | (799) | (1,282) |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu Defnyddio** | **159,131** | **133,474** |

**a) Cyfrif Addasu Cyfalaf**

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo defnydd asedau nad ydynt yn gyfredol a chyllido'r broses o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chostau megis dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad sy'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a gydag arian a symudwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol.

Credydir y Cyfrif gyda symiau a osodwyd o'r neilltu gan y Cyngor fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiant cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i ddal y fath enillion. Mae Nodyn 7 ar dudalen 30 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a symudwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheini a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

| **Cyfrif Addasiad Cyfalaf** | **2017/18** | | **2016/17** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | | **151,541** | | **142,604** |
| **Gwyrdroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amorteiddiad asedau nad ydynt yn gyfredol | (12,380) | | (12,406) | |
| Asedau sydd wedi eu dad-gydnabod | (9,348) | | (9,489) | |
| Colledion Ailbrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | (18,403) | | (819) | |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | (2,566) | | (1,685) | |
| Symiau o asedau nad ydynt yn gyfredol a ddilëwyd ar waredu neu werthiant (yn cynnwys amhariad) fel rhan o'r enilliad/(colled) ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (4,362) | | (7,261) | |
| | | **(47,059)** | | **(31,660)** |
| Symiau addasiad a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | | 4,695 | | 11,904 |
| **Swm net a ddilëwyd o gost asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | | **(42,364)** | | **(19,756)** |
| **Cyllido cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn:** | | | | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd | 2,455 | | 5,237 | |
| Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf | - | | 244 | |
| Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi ei gymhwyso i gyllido cyfalaf | 11,801 | | 13,356 | |
| Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | 4,488 | | 4,499 | |
| Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Cyngor a balansau CRT | 6,600 | | 5,059 | |
| | | **25,344** | | **28,395** |
| Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad a godwyd yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | **(152)** | | **298** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | **134,369** | | **151,541** |

**b) Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol**

Mae'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol (FIAA) yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo'r incwm a threuliau sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol penodol ac i gynnal colledion neu gael budd o enillion fesul darpariaeth statudol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Cyfrif i reoli'r premiymau a delir a'r cosbau a gafwyd oherwydd adbrynu benthyciadau yn gynnar. Mae'r premiymau a'r cosbau'n cael eu codi yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan maent yn digwydd, ond maent yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r FIAA yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Dros amser, caiff y gost hon ei symud yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn unol â'r trefniadau statudol ar gyfer gwasgaru baich y Dreth Gyngor. Yn achos y Cyngor, y cyfnod hwn yw'r tymor a oedd yn weddill ar y benthyciadau pan gawsant eu hadbrynu.

| Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(385)** | **(250)** |
| Swm y mae costau cyllido a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i gostau cyllido sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol | (65) | (135) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(450)** | **(385)** |

## c) Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth.

Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn cael eu:-

- hailbrisio i lawr neu fod amhariad arnynt a'r enillion yn cael eu colli;
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant; neu
- gwaredu a gwireddu'r enillion.

Dim ond enillion ailbrisiant a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa wrth Gefn, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn.

Mae enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfuno i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **91,772** | **96,046** |
| Ailbrisiant asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 41,122 | 7,630 |
| Gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth teg a dibrisiant gost hanesyddol | (1,933) | (1,629) |
| Balansau ailbrisio ar asedau wedi eu sgrapio neu eu gwaredu | (2,762) | (10,275) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **128,199** | **91,772** |

## ch) Cronfa Wrth Gefn Pensiwn

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo am fuddiannau ôl-gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol.

| Cronfa Wrth Gefn Pensiynau | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(105,509)** | **(95,022)** |
| Ail-fesur rhwymedigaeth net diffinedig | 9,858 | (7,334) |
| Gwyrdroad eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (18,147) | (12,195) |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn ystod y flwyddyn | 11,610 | 9,042 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(102,188)** | **(105,509)** |

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddiannau yn cael eu enill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid a dychweliadau buddsoddiad ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu, yn y diwedd, yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae'r balans debyd ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiwn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw.

Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd arian wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'n amser i ni dalu'r buddiannau.

**d) Cronfa wrth Gefn Tâl Anghyfartal**

Mae'r Cyfrif Talu Ôl-gyflog Anghyfartal yn gwneud yn iawn am y gwahaniaeth rhwng y raddfa y mae'r Cyngor yn ei darparu am y costau posib yn sgil setlo ôl-daliadau mewn perthynas ag achosion Tâl Cyfartal a'r gallu o dan ddarpariaeth statudol i ohirio'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol tan yr amser y caiff yr arian ei dalu allan i hawlwyr. Mae'r Gronfa wrth Gefn Tâl Anghyfartal Na ellir ei Defnyddio, sydd yn debyg i Ddarpariaeth Tâl Cyfartal yn nodyn 27, wedi'i ostwng i ddim gan fod costau Tâl Cyfartal dalwyd yn 2017/18 wedi cael ei ariannu o gyfalaf yn dilyn Gyfarwyddeb Cyfalafu o Llywodraeth Cymru. Bydd costau llai gweddillol yn cael ei ariannu o arian wrth gefn clustnodedig Tâl Cyfartal. Felly, nid oes angen y Gronfa wrth Gefn Tâl Anghyfartal Na ellir ei Ddefnyddio na'r Ddarpariaeth Tal Cyfartal. However, Mae'r Cyngor wedi cadw'r gronfa wrth gefn glustnodedig o £814k ar gyfer Tâl Cyfartal fel y nodir uchod yn nodyn 8. Mae hyn i ariannu hawliadau cyflog cyfartal sy'n parhau i fod angen sylw a chostau cyfreithiol cysylltiedig a allai godi.

| **Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Tâl Anghyfartal** | **2017/18 £'000** | **2016/17 £'000** |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(2,663)** | **(2,151)** |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer ôl-daliadau o ran achosion Tâl Cyfartal | 2,663 | (512) |
| Setliadau arian a dalwyd yn y flwyddyn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **-** | **(2,663)** |

## dd) Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol

Mae'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans Cronfa'r Cyngor o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn e.e. hawliau gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Setliad neu ddiddymu'r croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (1,282) | (1,547) |
| Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion stadudol | 483 | 265 |
| **Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol** | **(799)** | **(1,282)** |

## NODYN 12 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Praesept a delir i'r Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 7,674 | 7,264 |
| Praesept a delir i'r Cynghorau Cymuned | 1,230 | 1,179 |
| (Gwarged)/Colledion ar waredìad asedau nad ydynt yn gyfredol (Yn cynnwys dad-gydnabyddiaeth) | 10,909 | 11,404 |
| Ardollau | 3,335 | 3,195 |
| **Cyfanswm** | **23,148** | **23,042** |

## NODYN 13 – INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

### 13a

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg | 5,863 | 6,003 |
| Llog net ar y rhwymedigaeth diffinedig | 2,789 | 3,321 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (31) | (54) |
| Incwm a Gwariant yng nghyswllt Eiddo Buddsoddiad a newidiadau yn eu gwerth teg | 7 | (409) |
| **Cyfanswm** | **8,628** | **8,861** |

### 13b

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm/Gwariant o Eiddo Buddsoddiad:** | | |
| Incwm yn cynnwys incwm rhent | (331) | (359) |
| Gwariant | 164 | 140 |
| **Gwariant / Incwm net o Eiddo Buddsoddiad** | **(167)** | **(219)** |
| | | |
| **Diffyg ar werthiant Eiddo Buddsoddiad :-** | | |
| Arian o Werthiannau | (105) | (145) |
| Swm cario o Eiddo Buddsoddiad a werthwyd | 128 | 253 |
| **Diffyg ar werthiant Eiddo Buddsoddiad** | **23** | **108** |
| | | |
| **Newidiadau mewn Gwerth Teg Eiddo Buddsoddiad** | **152** | **(298)** |
| **Cyfanswm** | **8** | **(409)** |

## NODYN 14 - INCWM TRETH A GRANTIAU AMHENODOL

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Council Tax Income | 42,295 | 39,968 |
| Non-Domestic Rates Redistribution | 23,002 | 21,309 |
| Revenue Support Grant | 69,650 | 70,619 |
| Other Government Grants | - | - |
| Capital Grants Applied To Fund Capital Expenditure | 11,801 | 13,356 |
| **Total** | **146,748** | **145,252** |

## NODYN 15 – ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL - EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| 2017/18 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anheddau Cyngor | Tir ac Adeiladau | Asedau isadeiledd | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael ei adeiladu | Asedau Dros Ben | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu Brisiant** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **109,028** | **186,600** | **85,528** | **11,768** | **9** | **13,895** | **2,185** | **409,013** |
| Addasiad balans agoriadol | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau (Nodyn 20) | 9,354 | 3,185 | 2,000 | 1,059 | - | 9,736 | - | 25,334 |
| Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | 35,650 | (3,486) | - | - | - | - | 136 | 32,300 |
| Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i (Gwarged) neu Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (19,440) | - | - | - | - | (25) | (19,465) |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | - | (2,351) | - | - | - | - | (9) | (2,360) |
| Dadgydnabod - Eraill | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | (7,582) | (1,766) | - | - | - | - | - | (9,348) |
| Ailddosbarthu | - | 15,088 | 3,089 | - | - | (19,129) | 952 | - |
| Ailddosbarthu a Throsglwyddiadau o'r Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | - | - | - | - | - | - | 254 | 254 |
| Ailddosbarthiadau i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | (917) | - | - | - | - | (371) | (1,288) |
| Ailddosbarthu o Eiddo Buddsoddi | - | 21 | - | - | - | - | - | 21 |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **146,450** | **176,934** | **90,617** | **12,827** | **9** | **4,502** | **3,122** | **434,461** |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **3,577** | **10,595** | **23,482** | **7,556** | **-** | **-** | **67** | **45,277** |
| Cost Addasiad a Dibrisiant | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Tâl Dibrisiant | 2,812 | 5,213 | 3,211 | 880 | - | - | 14 | 12,130 |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Ailbrisiant wrth Gefn | (2,812) | (5,599) | - | - | - | - | (10) | (8,421) |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (1,148) | - | - | - | - | (3) | (1,151) |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | - | (260) | - | - | - | - | - | (260) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Balans art 31 Mawrth 2018** | **3,577** | **8,801** | **26,693** | **8,436** | **-** | **-** | **68** | **47,575** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **142,873** | **168,133** | **63,924** | **4,391** | **9** | **4,502** | **3,054** | **386,886** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **105,451** | **176,005** | **62,046** | **4,212** | **9** | **13,895** | **2,118** | **363,736** |

| 2016/17 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Anheddau Cyngor** | **Tir ac Adeiladau** | **Asedau isadeiledd** | **Cerbydau, Offer a Chyfarpar** | **Asedau Cymunedol** | **Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael ei adeiladu** | **Asedau Gwarged Dros Ben** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu Brisiant** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **107,741** | **188,334** | **76,353** | **10,659** | **9** | **3,759** | **1,187** | **388,042** |
| Addasiad balans agoriadol | **-** | **-** | **(549)** | **-** | **-** | **549** | **-** | **-** |
| Ychwanegiadau (Nodyn 20) | 8,511 | 3,971 | 8,287 | 1,109 | - | 11,024 | - | **32,902** |
| Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn | - | 1,122 | - | - | - | - | 248 | **1,370** |
| Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (1,294) | - | - | - | - | (27) | **(1,321)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | (340) | (1,219) | - | - | - | - | (115) | **(1,674)** |
| Dadgydnabod - Eraill | - | (1,595) | - | - | - | - | - | **(1,595)** |
| Dadgydnabod - rhannau newidiol | (6,884) | (2,605) | - | - | - | - | - | **(9,489)** |
| Ailddosbarthu | - | (31) | 1,437 | - | - | (1,437) | 31 | **-** |
| Ailddosbarthu a Throsglwyddiadau o'r Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | - | - | - | - | - | - | 751 | **751** |
| Ailddosbarthiadau i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | (83) | - | - | - | - | (100) | **(183)** |
| Ailddosbarthu o Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | - | 210 | **210** |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **109,028** | **186,600** | **85,528** | **11,768** | **9** | **13,895** | **2,185** | **409,013** |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **-** | **10,339** | **20,637** | **6,722** | **-** | **-** | **60** | **37,758** |
| Addasiad Cost a Tâl Dibrisiant | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Tâl Dibrisiant | 3,591 | 4,964 | 2,845 | 834 | - | - | 12 | **12,246** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Ailbrisiant wrth Gefn | - | (3,700) | - | - | - | - | (7) | **(3,707)** |
| Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | - | (634) | - | - | - | - | (3) | **(637)** |
| Dadgydnabod - Gwarediadau | (14) | (358) | - | - | - | - | - | **(372)** |
| Ailddosbarthu | - | (5) | - | - | - | - | 5 | **-** |
| Ailddosbarthiadau i Asedau a ddelir i'w gwerthu | - | (11) | - | - | - | - | - | **(11)** |
| Ailddosbarthu i Eiddo Buddsoddi | - | - | - | - | - | - | - | **-** |
| **Balance as at 31 March 2017** | **3,577** | **10,595** | **23,482** | **7,556** | **-** | **-** | **67** | **45,277** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **105,451** | **176,005** | **62,046** | **4,212** | **9** | **13,895** | **2,118** | **363,736** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **107,741** | **177,995** | **55,716** | **3,937** | **9** | **3,759** | **1,127** | **350,284** |

**Ailbrisio**

Mae gan y Cyngor £390.531m sydd wedi ei gydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth ar ei Fantolen ar 31 Mawrth 2018. Mae'r Cyngor bellach wedi mabwysiadu rhaglen dreigl 5 mlynedd ar gyfer prisio ei dir ac eiddo. Fodd bynnag, caiff asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar sydd â gwerth teg o £500k neu fwy eu hailbrisio bob blwyddyn. Mae'r rhaglen wedi cael ei llunio mewn modd sy'n golygu y bydd categorïau cyfan o asedau o fewn ei bortffolio tir ac eiddo sy'n werth mwy na £500k yn cael eu hailbrisio mewn un flwyddyn. Caiff yr asedau eu prisio gan dîm prisio mewnol y Cyngor sy'n aelodau o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae'r prisiadau wedi cael eu cwblhau'n unol ag IFRS 13. Nid yw asedau nad ydynt yn eiddo wedi cael eu hailbrisio oherwydd, ym marn y Cyngor, mae gwerth cario'r asedau yn adlewyrchiad o werth teg, oherwydd eu hoes economaidd gweddol fyr a'u gwerth cymharol. Mae gwybodaeth ychwanegol am bolisi'r Cyngor ar fesur a phrisio asedau anghyfredol wedi'i chynnwys yn adrannau 7 i 10 o nodyn 51 Polisïau Cyfrifyddu.

## NODYN 16 – YMRWYMIADAU CYFALAF SYLWEDDOL

Ar 31 Mawrth 2018, roedd y Cyngor wedi sefydlu nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar gan olygu ymrwymiad cyfalaf sylweddol o £10.637m yn 2018/19 a blynyddoedd yn y dyfodol fel a ganlyn yn y tabl isod. Roedd ymrwymiadau tebyg hyd at 31 Mawrth 2017 yn £4.862m. Mae'r cynnydd sylweddol wedi digwydd oherwydd y cynnydd a wnaed gyda rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yr Awdurdod a chynnydd gyda Ffordd Gyswllt Llangefni ac ailwampio Neuadd y Farchnad, Caergybi. Bydd rhaglenni'r Ysgolion 21ain Ganrif a'r Ffordd Gyswllt yn derbyn cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

| | Ymrwymiad yn 2018/19 a Blynyddoedd y Dyfodol fel ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Ymrwymiad yn 2017/18 a Blynyddoedd y Dyfodol fel ar 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Ysgolion 21ain Ganrif - Dwynwen | 4,609 | 790 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni - Rhan 3 | 748 | 1,388 |
| Neuadd Y Farchnad Caergybi - Rhan II | 2,045 | - |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 2,485 | 247 |
| Contractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig - CRT | 750 | 2,437 |
| **Cyfanswm** | **10,637** | **4,862** |

## NODYN 17 – ASEDAU TREFTADAETH 2017/18

| | Casgliad Celf a Regalia Dinesig £'000 | Tir ac Adeiladau Treftadaeth £'000 | Cyfanswm Asedau Treftadaeth £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **1,834** | **1,960** | **3,794** |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ailbrisio | **276** | **14** | **290** |
| Dibrisiant Cronnol wedi ei ysgrifeu i ffwrdd | - | **(64)** | **(64)** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,110** | **1,910** | **4,020** |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | - | **340** | **340** |
| Cost Dibrisiant | - | 99 | 99 |
| Dibrisiant Cronnol wedi ei ysgrifeu i ffwrdd | - | (64) | (64) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | - | **375** | **375** |
| **Gwerth Llyfr Net** | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **2,110** | **1,535** | **3,645** |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **1,834** | **1,620** | **3,454** |

**2016/17**

| | Casgliad Celf a Regalia Dinesig £'000 | Tir ac Adeiladau Treftadaeth £'000 | Cyfanswm Asedau Treftadaeth £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **1,834** | **1,644** | **3,478** |
| Ychwanegiadau | **-** | **-** | **-** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **-** |
| Arian Ailbrisio | **-** | **316** | **316** |
| Ailddosbarthu o Eiddo Buddsoddi | **-** | **-** | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **1,834** | **1,960** | **3,794** |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | - | 284 | **284** |
| Cost Dibrisiant | - | 56 | **56** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **-** | **340** | **340** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **1,834** | **1,620** | **3,454** |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **1,834** | **1,360** | **3,194** |

## Ailbrisio Asedau Treftadaeth

Nodwyd nifer o asedau tir ac adeiladau fel rhai a oedd yn cwrdd â'r diffiniad o Asedau Treftadaeth. Ar 31 Mawrth 2018, roedd pedwar ased o'r fath (dim newid o 31 Mawrth 2017):-

Carchar Biwmares
Llys Biwmares
Melin Llynnon
Bythynnod y Peilotiaid, Ynys Llanddwyn

Caiff yr eiddo hyn eu hailbrisio gan ddefnyddio trefniadau ailbrisio safonol y Cyngor ar gyfer tir ac eiddo. Fe ailbriswyd yr Asedau Treftadaeth diwethaf yn 2017/18.

Cafwyd prisiad o werth y Casgliadau Celf yn 2017/18 ac mae eu gwerth wedi cael ei adlewyrchu yng Nghyfrifon 2017/18. Mae'r prisiad diweddaraf yn seiliedig ar asesiad o sampl gynrychioliadol o'r casgliadau. Bonhams o Lundain, sef cwmni rhyngwladol o arwerthwyr a phriswyr celf, fu'n prisio'r eiddo. Mae gwerth y Casgliadau Celf wedi cynyddu £0.276m i £2.047m.

## NODYN 18 – EIDDO BUDDSODDIAD

### a) Eiddo Buddsoddiad

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn** | 6,092 | 5,983 |
| Ychwanegiadau: | | |
| - Gwariant dilynol | - | - |
| Gwarediadau | (128) | (254) |
| Enillion / (Colledion) net o addasiadau gwerth teg | (152) | 298 |
| Trosglwyddiadau: | | |
| - (i)/o Assedau a ddelir i'w gwerthu | - | 275 |
| - (i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar | (21) | (210) |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **5,791** | **6,092** |

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r Cyngor i wireddu'r gwerth cynhenid yn ei eiddo buddsoddiad neu ar hawl y Cyngor i daliad o incwm ac elw gwarediad. Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaethau cytundebol i brynu, adeiladu neu ddatblygu eiddo buddsoddiad neu i wneud atgyweiriadau, cynnal a chadw neu i wella eiddo buddsoddiad cyfredol.

### b) Mesur Gwerth Teg o Eiddo Buddsoddiad

#### Hierarchaeth Gwerth Teg 2017/18

| Mesurau rheolaidd gwerth teg yn defnyddio: | Prisiau a ddyfynnir yn y marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau yr un fath (lefel 1)<br>£'000 | Mewnbynnau sylweddol y gellir eu harsylwi arall (lefel 2)<br>£'000 | Mewnbynnau sylweddol ni ellir eu harsylwi (lefel 3)<br>£'000 | Gwerth teg ar 31 Mawrth 2018<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo adwerthu | - | 136 | - | 136 |
| Unedau swyddfa | - | 832 | - | 832 |
| Unedau masnachol | - | 4,823 | - | 4,823 |
| **Cyfanswm** | **-** | **5,791** | **-** | **5,791** |

#### Hierarchaeth Gwerth Teg 2016/17

| Mesurau rheolaidd gwerth teg yn defnyddio: | Prisiau a ddyfynnir yn y marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau yr un fath (lefel 1)<br>£'000 | Mewnbynnau sylweddol y gellir eu harsylwi arall (lefel 2)<br>£'000 | Mewnbynnau sylweddol ni ellir eu harsylwi (lefel 3)<br>£'000 | Gwerth teg ar 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo preswyl | - | 552 | - | 552 |
| Unedau swyddfa | - | 182 | - | 182 |
| Unedau masnachol | - | 5,358 | - | 5,358 |
| **Cyfanswm** | **-** | **6,092** | **-** | **6,092** |

## c) Dulliau Prisio a Ddefnyddiwyd i Brisio Eiddo Buddsoddiad

### Preswyl

Mae’r gwerth teg ar gyfer yr eiddo preswyl yn seiliedig ar ddull y farchnad gan ddefnyddio amodau’r farchnad gyfredol a phrisiau gwerthu yn ddiweddar a gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer asedau tebyg yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae amodau’r farchnad yn golygu bod eiddo tebyg yn cael eu prynu a’u gwerthu’n frwd a bod lefel y mewnbynnu y gellir eu harsylw yn sylweddol, gan arwain at gategoreiddo’r eiddo ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg.

### Eiddo Buddsoddiad

Mae’r swyddfeydd a’r unedau masnachol sydd wedi eu lleoli yn ardal yr Awdurdod Lleol yn cael eu mesur gan ddefnyddio’r dull incwm drwy’r cost amnewid dibrisiedig, lle mae disgownt ar y llif arian y cytunwyd arno o’r eiddo (gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar y farchnad) er mwyn sefydlu gwerth presennol y ffrwd incwm net. Mae’r llog wedi cael ei seilio ar brisiadau / gwerthiannau cymharol y mae modd eu harsylwi. Caiff eiddo buddsoddiad yr Awdurdod, felly, eu categoreiddio ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg oherwydd bod y dechneg o fesur yn defnyddio mewnbynnau y gellir eu harsylwi er mwyn penderfynu ar y mesuriadau gwerth teg. Wrth amcangyfrif gwerth teg eiddo buddsoddiad yr Awdurdod, y defnydd mwyaf a gorau o’r eiddo yw eu defnydd cyfredol.

Caiff gwerth teg eiddo buddsoddiad yr Awdurdod ei fesur bob blwyddyn ar adeg pob cyfnod adrodd. Caiff yr holl waith prisio ei wneud yn fewnol yn unol â methodolegau a sail amcanbrisiau a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae arbenigwyr prisio’r Awdurdod yn gweithio’n agos â’r swyddogion cyfrifeg gan adrodd yn uniongyrchol i’r Swyddog Adran 151 yn rheolaidd mewn perthynas ag unrhyw fater sy’n ymwneud â phrisio.

## NODYN 19 – ASEDAU ANNIRWEDDOL

Mae’r Cyngor yn cyfrifo am ei feddalwedd fel Asedau Annirweddol, i’r graddau nad yw’r feddalwedd yn rhan anhepgor o system TG neilltuol ac yn cael ei chyfrifo amdani fel rhan o eitem caledwedd yn yr Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Mae’r swm cario o asedau annirweddol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth. Codwyd yr amorteiddiad o £147k ar refeniw yn 2017/18 a chafodd ei godi ar ganolfan gost Gweinyddu TG llinell Trawsnewid yng Ngwariant Net y Gwasanaethau.

Rhoddir oes ddefnyddiol gyfyngedig i feddalwedd, wedi ei seilio ar asesiadau o’r cyfnod y disgwylir i’r feddalwedd fod yn ddefnyddiol i’r Cyngor. Mae’r oes ddefnyddiol a briodolir i’r switiau meddalwedd mawr a ddefnyddir gan y Cyngor yn bum mlynedd.

### Mae’r Symudiad mewn Asedau Annirweddol am y Flwyddyn fel a Ganlyn:-

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar ddechrau'r flwyddyn:** | | |
| Symiau cario gros | 1,538 | 1,247 |
| Amorteiddiad cronnus | (932) | (830) |
| **Swm net cario ar ddechrau'r y flwyddyn** | **606** | **417** |
| Ychwanegiadau | 297 | 291 |
| Amorteiddiad am y flwyddyn ariannol | (147) | (102) |
| **Swm cario net ar ddiwedd y flwyddyn** | **756** | **606** |
| **Yn cynnwys:** | | |
| Symiau gros a gludir | 1,835 | 1,538 |
| Amorteiddiad cronnus | (1,079) | (932) |
| **Swm cario net ar ddiwedd y flwyddyn** | **756** | **606** |

## NODYN 20 - GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido. Pan mae angen cyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod trwy daliadau i refeniw fel mae asedau'n cael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), mesur o'r gwariant cyfalaf yr eir iddo'n hanesyddol sydd eto i'w gyllido.

Mae'r symudiad net yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn dangos y newid yn yr angen gwaelodol i'r Cyngor fenthyca yn ystod y flwyddyn i gyllido buddsoddiad cyfalaf nad yw wedi ei gyllido'n syth o adnoddau fel grantiau, derbyniadau cyfalaf a cyllido uniongyrchol o refeniw.

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol** | **134,014** | **127,656** |
| **Cyfalaf a fuddsoddwyd yn y Flwyddyn** | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 25,334 | 32,902 |
| Asedau Annirweddol | 297 | 291 |
| Asedau Treftadaeth | - | - |
| Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud (REFCUS) | 3,724 | 3,447 |
| **Cyfanswm** | **29,355** | **36,640** |
| **Ffynhonnell Cyllid** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | **(2,457)** | (5,237) |
| Cronfa Wrth Gefn | **-** | (8) |
| Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth | **(11,801)** | (13,356) |
| Darpariaethau refeniw | **(6,600)** | (5,058) |
| Benthyca | **-** | (148) |
| Yswyriant | **-** | (236) |
| Grantiau REFCUS | **(1,157)** | (1,784) |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw a Gosod o'r Neilltu | **(4,488)** | (4,455) |
| **Cyfanswm** | **(26,503)** | **(30,282)** |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | 2,852 | **6,358** |
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Cau** | **136,866** | **134,014** |
| **Esboniad o symudiad yn y Flwyddyn** | | |
| Cynnydd mewn angen gwaelodol I fenthyca a gefnogir gan gymorth Llywodraeth | 402 | 6,223 |
| Cynnydd mewn angen gwaelodol I fynthyca na chefnogir gan gymorth Llywodaeth | 6,043 | 4,590 |
| Benthyca | 895 | - |
| Isafswm Darpariaeth Refeniw a Gosod o'r Neilltu Gwirfoddol | (4,488) | (4,455) |
| **(Gostyngiad) / Cynnydd Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | **2,852** | **6,358** |

## NODYN 21 – ASEDAU A DDELIR I'W GWERTHU

| | Cyfredol | | Dim yn Gyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
| **Balans sy'n sefyll ar ddechrau'r flwyddyn** | **3,524** | **6,388** | - | **-** |
| **Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:** | | | | |
| Trosglwyddwyd o Eiddo, Offer a Chyfarpar yn ystod y flwyddyn | 1,288 | 172 | - | - |
| Trosglwyddo i Eiddo, Offer a Chyfarpar | (254) | (751) | - | - |
| Trosglwyddo i Eiddo Buddsoddi | - | (275) | - | - |
| Costau asedau wedi eu gwerthu | (2,135) | (4,111) | - | - |
| Ailbrisio | 19 | 2,101 | - | - |
| **Balans sy'n sefyll ar ddiwedd y flwyddyn** | **2,442** | **3,524** | **-** | **-** |

## NODYN 22 – PRYDLESAU

### Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu 3 eiddo ar 31 Mawrth 2018 ar gyfer ei weithgaredd digartrefedd (2 eiddo ar 31 Mawrth 2017) ac mae cyfanswm rhenti'r prydlesau am y flwyddyn yn £0.077m (£0.045m yn 2016/17).

Mae'r Cyngor hefyd yn dal rhai offer a chyfarpar dan brydlesau gweithredol neu dan gytundebau rhent mewn ysgolion ac adrannau eraill y Cyngor. Y gost i refeniw am yr eitemau hyn yn 2017/18 yw £0.135m (£0.158m yn 2016/17).

## NODYN 23 – RHESTRAU STOC

Wrth wneud ei waith, mae'r Cyngor yn dal cronfeydd stoc wrth gefn ynghyd â symiau o waith heb ei gwblhau (gwaith yn mynd yn ei flaen). Gellir isrannu'r ffigwr a ddangosir yn y Fantolen ymhellach fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwaith yn mynd yn ei flaen | - | - |
| Storfa Ganolog - Uned Cynnal a Chadw Adeiladau | 152 | 140 |
| Gofal Môn - Cyflenwadau Gwasanaethau Cymdeithasol | 97 | 87 |
| Arall – deunydd swyddfa a defnyddiau traul arall, tanwydd a nwyddau a ddelir i'w ailwerthu | 136 | 140 |
| **Cyfanswm** | **385** | **367** |

## NODYN 24 – DYLEDWYR

| | Dyledwyr Tymor Hir | | Dyledwyr Tymor Byr | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
| Adrannau Llywodraeth | - | - | 9,941 | 7,064 |
| Trethi Annomestig a'r Dreth Gyngor | - | - | 3,813 | 3,595 |
| Awdurdodau Lleol Eraill | - | - | 1,629 | 1,277 |
| Rhenti | - | - | 263 | 134 |
| Benthyciadaur gweithwyr | 211 | 248 | 166 | 153 |
| Gwasanaeth Iechyd/Cyrff Cyhoeddus | - | - | 1,875 | 1,333 |
| TAW | - | - | 1,156 | 1,560 |
| Ymddiriedolaethau | - | - | 615 | 853 |
| Cyrff allanol i Lywodraeth Ganolog | - | - | 81 | 26 |
| Arall | 397 | 398 | 4,492 | 4,204 |
| **Cyfanswm** | **608** | **646** | **24,031** | **20,199** |

Mae’r ffigwr dyledwyr uchod yn net o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg o £5.565m yn 2017/18 (£5.653m yn 2016/17), y gellir eu dadansoddi fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | Symudiad yn y Flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Y Dreth Gyngor | 1,643 | 1,571 | 72 |
| Trethi Annomestig | 585 | 731 | (146) |
| Rhenti | 506 | 560 | (54) |
| Dyledwyr Masnach | 2,831 | 2,791 | 40 |
| **Cyfanswm** | **5,565** | **5,653** | **(88)** |

## NODYN 25 - ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN

Gellir cysoni arian parod a chywerthoedd arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel y dangosir yn y Datganiad Llif Arian i’r eitemau cysylltiedig yn y Fantolen fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 18 £'000 | 31 Mawrth 17 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian a banc | 7,789 | 14,940 |
| Gorddrafft banc | - | - |
| **Cyfanswm** | **7,789** | **14,940** |

## NODYN 26 – CREDYDWYR

| | Credydwyr Tymor-Hir | | Credydwyr Tymor-Byr | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 18 £'000 | 31 Mawrth 17 £'000 | 31 Mawrth 18 £'000 | 31 Mawrth 17 £'000 |
| Adrannau Llywodraeth | - | - | 3,003 | 4,011 |
| Awdurdodau Eraill | - | - | 1,591 | 1,554 |
| Balansau Ymddiriedolaethau | - | - | 935 | 1,033 |
| Gwasanaeth Iechyd / Cyrff Cyhoeddus | - | - | 239 | 107 |
| Absenoldebau Cronnus | - | - | 799 | 1,282 |
| Cyrff Tu Allan i Lywodraeth Ganolog | - | - | 37 | - |
| Derbyniadau ymlaen llaw | - | - | 129 | 1,009 |
| Eraill | 151 | 166 | 11,518 | 9,116 |
| **Cyfanswm Credydwyr** | **151** | **166** | **18,251** | **18,112** |

## NODYN 27 – DARPARIAETHAU

| | Balans ar 1 Ebrill 2016 £'000 | Cynnydd mewn Darpariaethau yn ystod y flwyddyn £'000 | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2017 £'000 | Cynnydd mewn Darpariaethau yn ystod y flwyddyn £'000 | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Hawliadau Yswiriant | 259 | 366 | (457) | 168 | 535 | (438) | 265 |
| Safle Gwastraff Penhesgyn | 2,512 | 217 | (98) | 2,631 | 2,229 | (229) | 4,631 |
| Buddiannau Terfynu | 23 | - | (23) | - | - | - | - |
| Arfarnu Swyddi | 126 | - | (126) | - | - | - | - |
| Cyflog Cyfartal | 2,151 | 512 | - | 2,663 | - | (2,663) | - |
| Darpariaeth Pensiwn Caterlink | - | - | - | - | 75 | - | 75 |
| Darpariaeth Teithio Gofalwyr Cartref | - | - | - | - | 159 | - | 159 |
| Dyfarniad Goruchaf Lys - Gofal Nyrsio | - | - | - | - | 196 | - | 196 |
| **Cyfanswm** | **5,071** | **1,095** | **(704)** | **5,462** | **3,194** | **(3,330)** | **5,326** |
| | | | | | | | |
| **Darpariaethau Tymor-byr** | 2,559 | 878 | (606) | 2,831 | 965 | (3,101) | 695 |
| **Darpariaethau Tymor-hir** | 2,512 | 217 | (98) | 2,631 | 2,229 | (229) | 4,631 |
| **Cyfanswm** | **5,071** | **1,095** | **(704)** | **5,462** | **3,194** | **(3,330)** | **5,326** |

### Pwrpas y Prif Ddarpariaethau

#### Darpariaeth Hawliadau Yswiriant

Mae didyniadau ym mholisïau yswiriant allanol y Cyngor, sy'n golygu bod y Cyngor ei hun yn talu rhan gyntaf unrhyw golled neu hawliad dan y polisïau hyn ac yn cael ei ddiogelu trwy ddull cyfyngu colled. Nid oes yswiriant allanol ar gyfer eiddo cyffredinol ac addysg y Cyngor i'r peryglon canlynol: dŵr sydd yn dianc o danc neu beipen, llifogydd, trawiad, lladrad, difrod damweiniol, ymsuddiad, ymchwyddiad tir, tirlithriad. Ar wahân i ladrad a difrod damweiniol, mae colledion o ganlyniad i'r peryglon hyn fel arfer yn cael eu cyllido o'r gronfa yswiriant wrth gefn. Y balans ar y ddarpariaeth yswiriant yw'r rhwymedigaeth debygol ar gyfer yr elfen wedi ei hyswirio'n fewnol o'r hawliadau sy'n hysbys ond nad ydynt wedi eu setlo ar ddiwedd y flwyddyn.

#### Safle Gwastraff Penhesgyn

Gwnaed darpariaeth ar gyfer ôl-ofal y rhannau o'r safle yr arferid ei ddefnyddio ar gyfer tirlenwi. Nid oes unrhyw amserlen bendant ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn er, i bwrpas rheolaeth, ystyrir 30 mlynedd  ar sail barhaus hyd nes bydd tystiolaeth nad oes ddim mwy o lygredd ar y safle.

#### Tâl Cyfartal

Darpariaeth yw hwn ar gyfer hawliadau cyfreithiol parhaus yn erbyn y Cyngor mewn perthynas â Thâl Cyfartal. Fodd bynnag, gwrthbwysir hyn gan Gronfa Tâl Anghyfartal Na ellir ei Ddefnyddio, sy'n diddymu y ddarpariaeth hon i ddim yng Nghronfa'r Cyngor. Mae'r Ddarpariaeth Tâl Cyfartal sy'n debyg i'r Gronfa Tâl Anghyfartal Na Ellir Ei Ddefnyddio yn nodyn 11, wedi cael ei leihau i ddim gan fod costau Tâl Cyfartal a dalwyd yn 2017/18 wedi cael ei gyllido o gyfalaf yn dilyn Cyfarwyddeb Cyfalafu gan Lywodraeth Cymru.   Bydd unrhyw gostau Tâl Cyfartal sy'n parhau i fynd rhagddynt yn cael eu hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer Cyflog Cyfartal. Felly, nid oes angen y Ddarpariaeth Tâl Cyfartal a'r arian wrth gefn Tâl Anghyfartal Na ellir ei Ddefnyddio mwyach.

**Darpariaethau Tymor Byr Eraill a Grëwyd yn 2017/18**

Crëwyd tair darpariaeth newydd tymor byr ar gyfer 2017/18 ar gyfer rhwymedigaethau y mae'r Cyngor yn debygol o'u hysgwyddo oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol, ac mae ansicrwydd ynghylch y swm neu amseriad unrhyw daliad. Felly, mae'r amcangyfrifon gorau wedi'u defnyddio ar gyfer y rhain. Mae darpariaeth o £75k ar gyfer costau pensiwn Caterlink yn dilyn trosglwyddo staff o dan TUPE. Mae darpariaeth o £159k wedi'i greu mewn perthynas â theithio Gofalwyr Cartref. Yn olaf, mae darpariaeth o £196k wedi'i sefydlu ar gyfer costau Gofal Nyrsio yn dilyn dyfarniad gan y Goruchaf Lys.

## NODYN 28 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Addasiad i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar symudiadau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant ac Amhariad | 12,233 | 12,302 |
| Ailbrisiadau at i lawr (i fyny) a dad-gydnabyddiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerthiannau | 18,403 | 10,307 |
| Amorteiddiadau | 147 | 102 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Stoc | (18) | 85 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Dyledwyr | (3,794) | 3,202 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) yn yr amhariadau ar gyfer Dyledion Drwg | (110) | 239 |
| Cynnydd (Gostyngiad) mewn Credydwyr | (1,995) | (1,792) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw | 3,624 | (1,029) |
| Trafodion yn y CIES yn ymwneud â buddiannau ymddeol | 6,537 | 3,154 |
| Swm cario o asedau nad ydynt yn gyfredol a rhai a delir i'w gwerthu, a werthwyd neu eu dadgydnabod | 4,363 | 7,261 |
| Cyfraniadau i/o Ddarpariaethau | (136) | 391 |
| Symudiad mewn gwerth o Eiddo Buddsoddiad . Amhariad ac ailbrisiadau i lawr (a dadgydnabodaethau nad ydynt yn werthiant) | 152 | (298) |
| **Cyfanswm** | **39,406** | **33,924** |
| **Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido** | | |
| Elw o werthu Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau y delir i'w gwerthu | (2,782) | (5,237) |
| Grantiau Cyfalaf a gynhwysir mewn "Trethi ac incwm grant amhenodol" | (11,801) | (13,356) |
| **Cyfanswm** | **(14,583)** | **(18,593)** |

## NODYN 29 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Pryniant Eiddo, Offer a Chyfarpar, Asedau Treftadaeth, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau Annirweddol | (25,333) | (33,193) |
| Buddsoddiadau tymor byr (nad ystyrir yn Gywerthoedd Arian) | 5 | 5 |
| Ennillion o werthu Eiddo,Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau y delir i'w gwerthu | 2,782 | 5,237 |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a dderbyniwyd | 11,801 | 13,356 |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **(10,745)** | **(14,595)** |

## NODYN 30 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Derbyniadau Arian Parod o Fenthyca Tymor Byr a Hir | 11,173 | 6,198 |
| Gwahaniaeth rhwng arian a dalwyd/dderbyniwyd fel rhan o Gronfa Trethi Annomestig 2016/17 | 129 | (276) |
| Symudiadau arian ar gynlluniau Asiantaeth Troi Tai'n Gartrefi | 218 | - |
| Eraill | (150) | 198 |
| **Llif arian net o weithgareddau cyllido** | **11,370** | **6,120** |

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog Derbyniwyd | (31) | (54) |
| Llog Dalwyd | 5,862 | 6,003 |

## NODYN 31– NODYN AR NATUR Y GWARIANT

Mae’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn rhoi gwybodaeth gyllidol mewn perthynas a gwariant ac incwm bob gwasanaeth. Mae nodyn ar natur y gwariant hwn yn rhoi gwybodaeth gyllidol ar y math o wariant yn hytrach na fesul gwasanaeth.

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| Buddiannau Gweithwyr | 90,814 | 89,160 |
| Treuliau Gwasanaethau Arall | 125,169 | 115,282 |
| Ad-daliad Gwasanaethu Cefnogol | 926 | 11,636 |
| Dibrisiant, amorteiddio, amhariad | 12,380 | 12,406 |
| Taliadau Llog | 8,651 | 9,324 |
| Praeseptau ac Ardollau | 12,239 | 11,638 |
| Colled / (Enillion) ar gael gwared o asedau | 10,909 | 11,404 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **261,088** | **260,850** |
| **Incwm** | | |
| Ffioedd, Taliadau ac incwm gwasanaeth arall | (29,940) | (55,484) |
| Incwm Llog a Buddsoddi | (24) | (462) |
| Incwm o’r dreth gyngor, trethi annomestig | (65,297) | (61,278) |
| Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau | (133,228) | (134,086) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(228,489)** | **(251,310)** |
| | | |
| **(Gwarged) neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau** | **32,599** | **9,540** |

**** Mae blwyddyn 2016/17 wedi cael ei hailddatgan i adlewyrchu'r ffaith bod y Grantiau Cynnal Refeniw wedi'u cynnwys o fewn grantiau a chyfraniadau’r Llywodraeth**

## NODYN 32 – GWEITHREDIADAU MASNACHOL

Nid oes gan y Cyngor unrhyw weithrediadau masnachu.

## NODYN 33 - LWFANSAU AELODAU

Talwyd cyfanswm o £0.660m (£0.681m yn 2016/17) o ran lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:-

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig | 539 | 547 |
| Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd | 6 | 6 |
| Costau pensiwn | 51 | 57 |
| Costau Yswiriant Cenedlaethol | 41 | 43 |
| Costau teithio | 7 | 6 |
| Cynhaliaeth | 1 | 3 |
| Amrywiol | 15 | 19 |
| **Cyfanswm** | **660** | **681** |

Yn ychwanegol at hyn, gwariodd y Cyngor £14,648 ar gostau i aelodau lleyg (£7,281 yn 2016/17).

## NODYN 34 – CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I SWYDDOGION

Roedd y nifer o weithwyr yr oedd eu cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd yn 2017/18, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys tâl diswyddo, yn fwy na £60k ond dim yn fwy na £150k yn:-

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion | Heb fod yn Ysgolion 2017/18 Nifer o weithwyr | Heb fod yn Ysgolion 2016/17 Nifer o weithwyr | Heb fod yn Ysgolion 2017/18 Nifer o weithwyr | Heb fod yn Ysgolion 2016/17 Nifer o weithwyr |
|---|---|---|---|---|
| £60,000 i £64,999 | 4 | 2 | 4 | 3 |
| £65,000 i £69,999 | 1 | 3 | 1 | - |
| £70,000 i £74,999 | 3 | 4 | 3 | 3 |
| £75,000 i £79,999 | 1 | - | 1 | 3 |
| £80,000 i £84,999 | 1 | 1 | 2 | 1 |
| £85,000 i £89,999 | 2 | 2 | - | - |
| £90,000 i £94,999 | - | - | - | - |
| £95,000 i £99,999 | - | - | - | - |
| £100,000 i £104,999 | - | - | - | - |
| £105,000 i £109,999 | - | - | - | - |
| £110,000 i £114,999 | 1 | 1 | - | - |
| **Cyfanswm** | **13** | **13** | **11** | **10** |

Nid oes dim un swyddog yn cael cydnabyddiaeth ariannol o fwy na £115k.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion sy'n cael eu cyflogi ar sail barhaol ac y mae eu cyflogau blynyddol a buddion eraill yn uwch na £60k y flwyddyn. Mae uwch swyddogion sy'n ennill mwy na £150k y flwyddyn cael eu henwi'n unigol hefyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion statudol:-

**2017/18**

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion | Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £'000 | Lwfansau Costau £'000 | Cyfraniad Pensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr* | 113 | 1 | 21 | 136 |
| Prif Weithredwr - Cynorthwyol | 87 | 1 | 16 | 104 |
| Prif Weithredwr - Cynorthwyol | 87 | 2 | 16 | 105 |
| Pennaeth Swyddogaeth - Busnas y Cyngor | 75 | - | 14 | 89 |
| Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau | 83 | 1 | 15 | 99 |
| Pennaeth Proffesiwn - (AD) | 64 | - | 12 | 75 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Tai) | 69 | 1 | 12 | 82 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Economaidd) | 73 | 1 | 14 | 88 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu) | 73 | - | 14 | 87 |
| Pennaeh Gwasanaeth (Plant) | 66 | - | 13 | 79 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Oedolion) | 72 | - | 13 | 86 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Amgylchedd) | 67 | 2 | 12 | 81 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Trawsnewid) | 61 | - | 11 | 73 |
| Prif Swyddog Cynllunio - (Ynys Ynni) | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | **990** | **9** | **183** | **1,182** |

* Nodyn: Elfen Swyddog Canlyniadau o gyflog y Prif Weithredwr yw £9,785 a nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigyrau uchod.

## Ceir ffigyrau cymharol ar gyfer 2016/17 yn y tabl isod:-

| Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion | Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £'000 | Lwfansau Costau £'000 | Iawndal am golli Swydd £'000 | Cyfraniad Pensiwn £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 121 | 2 | - | 22 | 145 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol | 86 | 1 | - | 16 | 103 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol | 86 | 2 | - | 16 | 104 |
| Pennaeth Swyddogaeth Busnes y Cyngor | 75 | - | - | 14 | 89 |
| Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 | 82 | 1 | - | 15 | 98 |
| Pennaeth Proffesiwn (AD) | 63 | - | - | 12 | 75 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Tai) | 66 | 1 | - | 12 | 79 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) | 72 | 2 | - | 13 | 87 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu) Gydol Oes) | 72 | 2 | - | 13 | 87 |
| Pennaeh Gwasanaeth (Plant) | 56 | - | - | 14 | 70 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Oedolion) | 72 | - | - | 13 | 85 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd,Eiddo a Gwastraff) | 66 | 1 | - | 12 | 79 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Trawsnewid) | 66 | - | - | 12 | 78 |
| Prif Swyddog Cynllunio - (Ynys Ynni) | 61 | - | - | 11 | 72 |
| **Cyfanswm** | **1,044** | **12** | **-** | **195** | **1,251** |

*Nodyn: Mae taliad y Swyddog Canlyniadau o £9,105 wedi ei gynnwys yng nghyflog ffioedd a lwfansau'r Prif Weithredwr.

Mae cymhareb taliad cyflog y Prif Weithredwr fel canolrif o gyflogau'r holl weithwyr eraill yn 6.51:1 ar gyfer 2017/18 (6.47:1 yn 2016/17).

## NODYN 35 – PECYNNAU YMADAEL

Mae'r nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill wedi eu nodi yn y tabl isod:-

| Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig) | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael fesul band cost | | Cyfanswm cost pecynnau ymadael | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 £000 | 2016/17 £000 |
| £0 - £20,000 | 21 | 19 | 54 | 19 | 75 | 38 | 362 | 259 |
| £20,001 - £40,000 | 4 | 2 | 11 | 6 | 15 | 8 | 437 | 202 |
| £40,001 - £60,000 | - | - | 1 | - | 1 | - | 44 | - |
| £60,001 - £80,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| £80,001 - £100,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| £100,001 - £250,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Total** | **25** | **21** | **66** | **25** | **91** | **46** | **843** | **461** |

## NODYN 36 – FFIOEDD ARCHWILIO ALLANOL

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol ac arolygiaeth:-

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am y flwyddyn | 192 | 193 |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am blynyddoedd cynt | 15 | - |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygon statudol | 100 | 114 |
| Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn | 115 | 88 |
| **Cyfanswm** | **422** | **395** |

## NODYN 37 – INCWM GRANTIAU

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2017/18 a 2016/17:-

| | Nodyn | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Credydwyd i Drethiant ac Incwm grant Amhenodol** | | | |
| Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth sydd heb eu neilltuo) | 14 | 69,650 | 70,619 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | 14 | 9,110 | 10,629 |
| Grant – CRT (Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf) | 14 | 2,691 | 2,727 |
| Arall (Grantiau Llywodraeth heb eu neilltuo) | 14 | - | - |
| **Cyfanswm** | | **81,451** | **83,975** |
| **Credwydwyd i Wasanaethau** | | | |
| **Grantiau:** | | | |
| Grant Ôl 16 (Addysg) | | 2,523 | 2,554 |
| Grant Dechrau'n Deg (Addysg) | | 1,379 | - |
| Grant Cyfnod Sylfaen (Addysg) | | - | 1,853 |
| Grant Gwella Addysg (Addysg) | | 2,969 | - |
| Grant Datblygu Disgyblion (Addysg) | | 1,654 | - |
| Grant Tocynnau Teithio Rhatach | | 717 | 774 |
| Cymhorthdal budd-dâliadau Tai | | 18,493 | 18,441 |
| Grant Cefnogi Pobl (SPG a SPRG) | | 2,549 | 2,644 |
| Grant Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | | 1,601 | 1,654 |
| **Cyfanswm** | | **31,885** | **27,920** |
| **Grantiau Arall:** | | | |
| Dysgu Gydol Oes | | 1,707 | 5,129 |
| Gwasanaethau Oedolion | | 1,994 | 897 |
| Gwasanaethau Plant | | 890 | 635 |
| Tai | | 1,104 | 1,093 |
| Priffyrdd, Gwastraff ag Eiddo | | 2,197 | 1,859 |
| Datblygu Economaidd a Rheoleiddio | | 700 | 706 |
| Trawsnewid Corfforaethol | | 202 | 199 |
| Adnoddau | | 600 | 850 |
| Busnes y Cyngor | | 22 | 21 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | | 374 | - |
| Cyllid Corfforaethol | | - | - |
| Cyfrif Tai Refeniw | | 39 | 34 |
| **Cyfanswm** | | **9,829** | **11,423** |
| **Cyfraniadau:** | | **10,063** | **10,768** |
| **Cyfanswm** | | **133,228** | **134,086** |

## Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans agoriadol** | 273 | 1,302 |
| Ychwanegu: Grantiau Cyfalaf newydd a dderbyniwyd ymlaen llaw (amodau defnydd heb eu cwrdd) | 10,469 | 9,675 |
| Grantiau cyfalaf ad-dalwyd | (344) | (43) |
| Llai: symiau a ryddhawyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (amodau wedi eu cwrdd) | (6,501) | (10,661) |
| **Balans Cau** | **3,897** | **273** |

**NODYN 38 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol. Yn ystod 2017/18, talwyd cyfanswm o £3.559m mewn grantiau ar gyfer prynu gwasanaethau gan y cyrff hyn (£3.280m yn 2016/17). Mae'r Cyngor wedi asesu maint y trafodion unigol yn codi drwy'r partïon cysylltiedig ac mae'r datgeliadau isod yn ymwneud â thrafodion rhwng y Cyngor a'r parti cysylltiedig sydd yn uwch na £0.02m o ran eu gwerth:-

| Parti Cysylltiedig | Cysylltiad | Taliadau £'000 | Swm sydd yn ddyledus gan y Cyngor £'000 | Swm sydd yn ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Age UK/ Age Cymru (Age Concern) | Aelod wedi apwyntio gan y cyngor i fod yn gynrychiolydd (aelod wedi colli set yn Mai 2017) | 56 | 14 | 4 |
| Cyngor ar Bopeth Ynys Mon | Aelod wedi apwyntio gan y cyngor i fod yn gynrychiolydd | 85 | - | - |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru Gofal Croesffyrdd | Aelod wedi apwyntio gan y cyngor i fod yn gynrychiolydd | 32 | 2 | - |
| Grwp Llandrillo Menai | Mae un aelod yn aelod o bwyllgor y safle ac aelod arall wedi ei gyflogi gan y cwmni | 224 | 2 | 9 |
| Medrwn Mon | Aelod wedi apwyntio gan y cyngor i fod yn gynrychiolydd | 111 | - | - |
| | | **508** | **18** | **13** |

Mae'r Cyngor yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thalwyd tanysgrifiad o £0.098m iddi yn 2017/18 (£0.095m yn 2016/17).

Mae Aelodau wedi datgan diddordebau mewn contractau neu mewn sefydliadau a all fod yn ymwneud â'r Cyngor yn y Gofrestr Statudol o Ddiddordebau Aelodau. Talwyd cyfanswm o £0.785m gan y Cyngor yn 2017/18 mewn perthynas â'r diddordebau hyn (£dim yn 2016/17).

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, drwy reolaeth gyffredinol gan Llywodraeth ganol, yn barti cysylltiedig i'r Cyngor. Cyfanswm y taliadau a wnaed i BIPBC gan y Cyngor am 2017/18 oedd £0.962m (£1.185m yn 2016/17) ac roedd £0.239m yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm y derbyniadau i'r Cyngor gan BIPBC oedd £3.768m (£2.093m yn 2016/17), gyda £1.821m (£1.294m yn 2016/17) yn ddyledus gan ein parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae nifer o sefydliadau'n annibynnol ô'r Cyngor ond serch hynny'n cael effaith ar ei feysydd gwasanaeth. Fel y gall y Cyngor gynnal partneriaethau effeithiol gyda nifer o'r sefydliadau hyn, mae cynrychiolwyr o'r Cyngor, Cynghorwyr etholedig fel arfer, yn gwasanaethu ar amryfal bwyllgorau a fforymau sy'n gyfrifol amdanynt. Ceir rhestr o'r cyrff allanol a chynrychiolwyr y Cyngor arnynt yn Atodiad 1.

**DIDDORDEBAU MEWN CWMNÏAU**

Mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn dau gwmni ac, yn y ddau achos, yr aelod arall yw Cyngor Gwynedd ond nid oes ganddo ddylanwad mawr dros y cwmnïau hyn:-

**Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf**

Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol oedd Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf. a sefydlwyd ar y cyd gan ragflaenwyr Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn 1994. Roedd y cwmni yn rhedeg dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd, a oedd ar brydles gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd y rhan fwyaf o weithgaredd y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol.

Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor ddirwyn y cwmni i ben yn ystod 2007/08 ac ymgymryd â'r gwaith yn fewnol. Yn 2008 trosglwyddwyd yr asedau a'r ymrwymiadau gweithredol perthnasol a'r staff i'r Cyngor, ynghyd â swm balans mewn arian parod. Mae'r buddsoddiad wedi cael ei ailbrisio bob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf o arian y cyfranddeiliaid wedi cael ei dalu'n ôl i'r ddau Gyngor. Diddymwyd y cwmni yn 2017/18 ac, yn dilyn hyn, derbyniodd y Cyngor £44k yn ymwneud â chyfran y Cyngor o asedau net y sefydliad.

**Cwmni Cynnal Cyf**

Sefydlwyd y cwmni hwn adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar y cyd rhwng Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg dan gytundeb i ysgolion a gynhelir ac i awdurdodau addysg lleol a gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Dim ond i hyrwyddo ei amcanion y mae modd defnyddio incwm y cwmni. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae rhwymedigaeth y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Mae cyfrifon y cwmni am 2016/17 yn dangos colled net o £0.156m (£0.124m colled yn 2015/16). Trosiant y cwmni am 2016/17 oedd £2.348m (£2.735m yn 2015/16). Dengys cyfrifon cyhoeddedig y Cwmni rwymedigaethau net o £0.383m ar 31 Mawrth 2017 (roedd asedau net yn £0.490m ar 31 Mawrth 2016).

Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf, Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd. Nid yw adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2017 wedi ei gadarnhau. Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, cyfrifodd y Cyngor am £0.757m (£0.719m yn 2016/17) o gostau'n gysylltiedig â phrynu gwasanaethau gan y cwmni.

Penododd y cwmni hwn Ieuan Williams fel ei Brif Swyddog Gweithredol yn 2017. Mae Ieuan Williams yn gynghorydd o'r Awdurdod ac yn dal swydd Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio ar gyfer Trawsnewid Gwasanaeth a'r Iaith Gymraeg.

Mae gan y Cyngor hefyd ddiddordebau mewn cwmnïau fel a ganlyn:-

**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - WJEC CBAC Cyf**

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyfyngedig, cwmni elusennol y mae'r 22 awdurdod unedol Cymru yn aelodau ohono. Ei amcanion yw darparu gwasanaethau arholiad a darparu a hyrwyddo gwasanaethau addysg a diwylliannol eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae rhwymedigaeth y Cyngor yn gyfyngedig i £1.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, talodd y Cyngor £0.462m (£0.414m yn 2016/17) am brynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae cyfrifon y Cwmni am 2015/16 (h.y. at y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi) yn dangos symudiad net negatif mewn cronfeydd o £12.785m (symudiad net positif mewn cronfeydd o £5.263m yn 2014/15). Trosiant y cwmni am 2015/16 oedd £41.364m (£40.704m yn 2014/15) a'i asedau net yn £19.068m ar 30 Medi 2016 (£31.853m ar 30 Medi 2015).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o WJEC CBAC Cyfyngedig, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX. Nid yw adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 30 Medi 2016 wedi ei gadarnhau.

**Menter Môn Cyfyngedig**

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf, ac roedd yn un o dri aelod ar 31 Mawrth 2018. Amcanion y cwmni yw hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn wledig. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, talodd y Cyngor £0.239m i'r cwmni i gefnogi ei weithgareddau (£0.090m yn 2016/17).

Mae cyfrifon y Cwmni am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016 yn dangos colled net cyn treth o £0.261m (elw net o £0.365m cyn treth yn 2015/16). Trosiant y Cwmni am 2016 oedd £2.044m (£4.258m yn 2015) a'i rwymedigaethau net yn £0.869m ar 31 Rhagfyr 2016 (£0.542m yn 2015).

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o Menter Môn, Neuadd y Dref, Sgwâr Buckley, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR. Nid yw adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 31 Rhagfyr 2016 wedi ei gadarnhau.

**Ysgol Sefydledig Caergeiliog**

Mae balansau ar gyfer asedau a rhwymedigaethau cyfredol a reolir gan Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon yma ac, o'r herwydd, nid yw cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y cânt eu nodi yn y Fantolen hon, ond yn cynrychioli'r asedau net cyfredol. Mae gan yr ysgol hefyd asedau nad ydynt yn gyfredol o £0.785m ar Fantolen yr ysgol ar 31 Mawrth 2018 (£0.631m ar 31 Mawrth 2017), ar sail cyfuniad o brisiant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac ni chânt eu hymgorffori ym Mantolen y Cyngor.

**NODYN 39 – CRONFEYDD YMDDIRIEDOL**

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o gronfeydd ymddiriedol. Mae eu cyfrifon ar gael gan yr Adain Gyfrifeg, Adnoddau, Swyddfeydd y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. Yn ychwanegol at gymynroddion i bethau megis gwobrau mewn ysgolion a chysuron a gwelliannau yn sefydliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gronfeydd Ymddiriedol fel a ganlyn:-

Yn ystod 2017/18, roedd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 cyfrifoldeb ariannol am amryw o elusennau. Er fod eu gweinyddiaeth ariannol wedi cael ei integreiddio gyda gwaith y Cyngor, mae'r elusennau yn gyfreithiol ar wahân ac fe gynhyrchir datganiadau ariannol ar wahân, sydd yn unol â safonau cyfrifyddu cymwys a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar Gyfrifo gan Elusennau, a gyhoeddwyd gan y Cymisiynwyr Elusennau. Fe rheolir yr elusennau ac fe cymeradwyir y gwariant yn unol â'r meini prawf a nodir yn nogfennau llywodraethu pob un.

**Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif 1000818)**

Y Cyngor yw unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, sef ymddiriedolaeth a sefydlwyd i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gydag arian a gafwyd gan Shell UK Limited pryd y daeth gwaith y cwmni i ben yn y lanfa olew oedd ganddo ym Môn. Amcanion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw darparu mwynderau a chyfleusterau er lles cyffredinol cyhoeddus pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Mae'n gwneud hyn trwy gyfrannu tuag at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Yn 2017/18, derbyniodd y Cyngor £0.215m (£0.215m yn 2016/17) gan yr Ymddiriedolaeth tuag at gostau rhedeg Oriel Ynys Môn. Hefyd, cafodd y Cyngor ei ad-dalu am gostau rheoli a llywodraethu ariannol.

**Cronfa'r Degwm**

Ar hyn o bryd, gweinyddir buddsoddiadau'r gronfa gan Gyngor Gwynedd ar ran yr awdurdodau a olynodd yr hen Gyngor Sir Gwynedd. Yn y dyfodol, fe drosglwyddir cyfran Ynys Môn o Gronfa'r Degwm i Gyngor Sir Ynys Môn i'w weinyddu.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)**

Mae 75% o'r incwm net o Stad Elusennol David Hughes yn ffurfio rhan o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - sef Cronfa y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr iddi. Defnyddir yr incwm i ddibenion addysgol penodol. Telir y 25% arall i "Elusen David Hughes er Lles y Tlodion", elusen nad yw'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd balansau amcangyfrifiedig y Cronfeydd Ymddiriedol hyn (yn ôl gwerth yr asedau ar y farchnad) yn:-

| Crynodebau datganiad cyn eu harchwilio | 2017/18 Incwm £'000 | 2017/18 Gwariant £'000 | 2017/18 Asedau £'000 | 2017/18 Rhwymedigaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | 615 | 855 | 21,536 | 669 |
| Cronfa'r Degwm | 7 | 8 | 893 | 22 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | 114 | 159 | 3,006 | - |

| Crynodebau datganiad cyn eu harchwilio | 2016/17 Incwm £'000 | 2016/17 Gwariant £'000 | 2016/17 Asedau £'000 | 2016/17 Rhwymedigaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | 583 | 648 | 22,360 | 578 |
| Cronfa'r Degwm | 6 | 20 | 913 | 20 |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn | 139 | 512 | 2,848 | 12 |

Cyfanswm gwerth y cronfeydd eraill ar 31 Mawrth 2018, gan gynnwys buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad, yw £0.101m ar 31 Mawrth 2018 (£0.136m ar 31 Mawrth 2017).

Nid yw balansau Cronfa'r Ymddiriedolaeth yn cael eu cynnwys yn y Fantolen gan fod rhain yn cynrychioli asedau a ddelir mewn ymddiriedolaeth ar gyfer trydydd partïon yn hytrach nag ym mherchnogaeth y Cyngor. Fe ddangosir crynodeb o berfformiad yr Ymddiriedolaethau Elusennol mwyaf yn y tabl uchod.

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi newid statws cyfreithiol. Bydd yr Elusen o 2019/20, yn dod yn Sefydliad Elusennol Corfforedig (ICO).

**NODYN 40 – CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma maent, felly, yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2017/18, talodd y Cyngor £3.691m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 16.55% o dâl pensiynadwy (£3.771m a 16.12% yn 2016/17).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a manylir arnynt yn Nodyn 41 isod.

## NODYN 41 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG LLYWODRAETH LEOL

### Buddiannau Ymddeoliad

### Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith ei swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

### a) Trafodion yn ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yn yr adroddiadau ar gostau'r gwasanaethau pan mae'r gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac, felly, mae gwir gost buddiannau ôl-gyflogaeth / ymddeoliad yn cael eu symud allan o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:-

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cost y gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Costau cyfredol y gwasanaeth | 15,098 | 8,778 |
| Colledion ar setliadau neu gwtogiadau | 260 | 97 |
| **Cyfanswm cost y Gwasanaeth** | **15,358** | **8,875** |
| **Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi** | | |
| Cost llog ar yr ymrwymiad budd diffiniedig | 9,987 | 11,440 |
| Incwm llog ar Asedau'r Cynllun | (7,198) | (8,119) |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-Gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth y Gwasanaeth** | **18,147** | **12,196** |
| Elw ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi eu cynnwys yn y gwariant llog net) | (2,232) | (34,434) |
| (Elw) a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (7,671) | 45,047 |
| Arall | 46 | (3,280) |
| **Cyfanswm Ailfesur y rhwymedigaeth o ran buddiannau net diffiniedig yn cynnwys** | **(9,857)** | **7,333** |
| | | |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **8,290** | **19,529** |
| Gwyrdroi'r taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol â'r côd | 6,537 | 3,154 |
| **Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:** | | |
| Cyfraniad y cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun | 11,610 | 9,042 |
| **Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **18,147** | **12,196** |

**b) Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen**

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagdybiedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r rhwymedigaethau o ran Buddiannau Dewisol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson LLP, cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2016.

| Mae'r symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas a'i gynllun buddiannau diffiniedig fel a ganlyn: | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun | 288,424 | 275,083 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau'r Cynllun | (390,612) | (380,592) |
| **Rhwynedigaeth net yn codi o'r rhwymedigaethau diffiniedig** | **(102,188)** | **(105,509)** |

### Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **380,591** | **326,792** |
| Cost gwasanaeth cyfedrol | 15,098 | 8,778 |
| Cost llog | 9,987 | 11,440 |
| Cyfraniadau gan cyfanogwyr y cynllun | 2,321 | 2,202 |
| Ailfesur (elw) a cholledion | (7,625) | 41,767 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | 260 | 97 |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido | (987) | (1,004) |
| Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd | (9,033) | (9,481) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **390,612** | **380,591** |

### Cysoni Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill** | **275,083** | **231,770** |
| Incwm Llog | 7,198 | 8,119 |
| Elw ar asedau cynllun (heb gynnwys gwariant llog net) | 2,232 | 34,434 |
| Cyfraniadau gan aelodau | 2,321 | 2,202 |
| **Cyfraniadau gan y cyflogwr** | 10,623 | 8,039 |
| Cyfraniadau mewn perthynas â buddiannau nad oeddynt yn cael eu cyllido | 987 | 1,004 |
| Buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido | (987) | (1,004) |
| Buddiannau a dalwyd | (9,033) | (9,481) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **288,424** | **275,083** |

**c) Gwerth Teg Asedau'r Cynllun**

Asedau Cynllun Pensiwn y Cyngor yw:-

Prif gategorïau asedau'r gronfa yn ôl y prisiau a ddyfynnwyd ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2017.

| | 2017/18 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 | 2017/18 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 | 2016/17 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 | 2016/17 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Arian a chywerthoedd arian** | 10,862 | - | 10,349 | - |
| | - | - | - | - |
| **Buddsoddiad ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant)** | | | | |
| Defnyddwyr | 8,567 | - | 9,432 | - |
| Cynhyrchu | 9,462 | | 8,518 | |
| Sefydliadau Ariannol | 5,102 | - | 5,276 | - |
| Ynni a Chyfleustodau | 903 | - | 1,532 | - |
| Iechyd a Gofal | 14,646 | - | 13,577 | - |
| Technoleg Gwybodaeth | 10,966 | - | 11,060 | - |
| Arall | 995 | - | 754 | - |
| **Gwarantau dyled arall** | - | 41,928 | - | 34,365 |
| **Ecwiti preifat** | - | 11,216 | - | 12,426 |
| **Cronfeydd Buddsoddi a Cwmniau Buddsoddi** | | | | |
| Ecwiti | 58,556 | 87,909 | 58,797 | 83,686 |
| Isadeiledd | - | 5,038 | - | 3,688 |
| **Eiddo Tiriog** | - | - | - | - |
| Eiddo yn y DU | 6,737 | 15,271 | 6,044 | 15,020 |
| Eiddo Tramor | - | 266 | - | 559 |
| **Cyfanswm Gwerth yr holl Asedau** | **126,796** | **161,628** | **125,339** | **149,744** |
| **Cyfanswm Gwerth yr Asedau Gweithredol ac Anweithredol** | | **288,424** | | **275,083** |

**Prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o asedau'r cynllun cyfan**

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys y categorïau canlynol, yn ôl y gyfran o'r asedau cyfan a ddelir:-

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| **Arian a chyfwerthoedd arian** | 4% | 4% |
| **Buddsoddiadau ecwiti (yn ôl y math o ddiwydiant)** | | |
| Defnyddwyr | 3% | 3% |
| Cynhyrchu | 3% | 3% |
| Sefydliadau Ariannol | 2% | 2% |
| Ynni a chyfleustodau | 0% | 1% |
| Iechyd a Gofal | 5% | 5% |
| Technoleg Gwybodaeth | 4% | 4% |
| Arall | 0% | 0% |
| **Gwarantau dyled arall** | 14% | 12% |
| **Ecwiti preifat** | 4% | 5% |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Buddsoddi** | | |
| Ecwiti | 51% | 52% |
| Isadeiledd | 2% | 1% |
| **Eiddo Tiriog** | 0% | 0% |
| Eiddo yn y DU | 8% | 8% |
| Eiddo Tramor | 0 | - |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

## ch) Hanes y Cynllun

Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun:-

| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 | 31 Mawrth 2015 £'000 | 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun Pensiwn | 288,424 | 275,083 | 231,770 | 224,961 | 199,636 |
| Gwerth Presennol Rhwymedigaeth Budd Diffinedig y Cynllun | (390,612) | (380,591) | (326,792) | (350,438) | (290,788) |
| **(Diffyg)/Asedau yn y Cynllun** | **(102,188)** | **(105,508)** | **(95,022)** | **(125,477)** | **(91,152)** |

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos maint y rhwymedigaethau gwaelodol sydd gan y Cyngor yn yr hirdymor i dalu buddiannau ymddeoliad. Mae'r cyfanswm rhwymedigaeth budd diffinedig presennol o £390.612m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen, yn arwain at rwymedigaeth net o £102.188m.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu bod sefyllfa gyllidol y Cyngor yn parhau i fod yn iach. Bydd y diffyg yng Nghynllun Pensiwn Gwynedd yn cael ei adennill drwy gynyddu'r cyfraniadau, fel yr asesir gan actwari'r cynllun, dros weddill oes waith y gweithwyr.

**d) Prif Ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari oedd:-**

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| **Rhagdybiaethau Marwoledd:** | | |
| *Hirhoediedd yn 65 bensiynwyr presennol:* | | |
| Dynion | 22.0 years | 22.0 years |
| Merched | 24.2 years | 24.2 years |
| *Hirhoediedd yn 65 bensiynwyr dyfodol:* | | |
| Dynion | 24.0 years | 24.0 years |
| Merched | 26.4 years | 26.4 years |
| | | |
| Graddfa Cynnydd Chwyddiant / Pensiwn | 2.40% | 2.40% |
| Gradda cynnydd mewn cyflogau | 2.40% | 2.40% |
| Dychweliad disgwyliedig ar yr asedau | 3.40% | 3.20% |
| Graddfa ddisgownt ar rwymedigaethau'r cynllun | 2.70% | 2.60% |
| | | |
| **Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad:** | | |
| Gwasanaeth i Ebrill 2008 | 50.00% | 50.00% |
| Gwasaneath ôl Ebrill 2008 | 75.00% | 75.00% |

**dd) Dadansoddiad Sensitifrwydd**

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau posibl i'r rhagdybiaethau a all, yn rhesymol, ddigwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Ar gyfer pob newid mewn rhagdybiaeth, mae'n cymryd yn ganiataol bod yr holl ragdybiaethau eraill yn gyson. Mae'r dadansoddiad o sensifitrwydd yn dangos y gallai gostyngiad 0.5% yn y gyfradd ddisgownt real oherwydd newidiadau posibl yn y farchnad, gynyddu rhwymedigaethau'r gronfa gan £40.073m oherwydd rhoddir gwerth uwch ar fuddiannau a delir yn y dyfodol. Gallai cynnydd 0.5% yn y gyfradd cynnydd cyflogau olygu cynnydd o £6.885m yng nghostau'r gronfa. Gallai cynnydd 0.5% yn y gyfradd bensiynau olygu cynnydd o £32.620m mewn rhwymedigaethau. Mae'r amcanbrisiau yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi cael eu gweithio allan yn unol â thybiaethau actiwaraidd proffesiynol, IAS19 a FRS102. Mae hyn yn golygu bod y defnydd o'r rhagdybiaethau 0.5% isod wedi cael eu dewis gan yr actiwari proffesiynol yn unol â'i farn/barn broffesiynol ef/hi. Byddai'r Actiwari wedi cymryd i ystyriaeth wybodaeth gyfredol a blaenorol a'r ffaith na fu ond newidiadau bychan, e.e. cyfraddau llog wedi newid 0.25%. Byddai gwybodaeth ynghylch hyd oes pobl a gwybodaeth ddemograffig hefyd wedi dylanwadu ar hyn.

| Newid Mewn Tybiaethau fel ar 31 Mawrth 2018 | % Y Cynnydd yn fras I'r Cyflogwr | Swn Ariannol Bras<br>£'000 |
|---|---|---|
| lleihad o 0.5% yn y gyfradd ddisgownt real | 10% | 40,073 |
| cynnydd o 0.5 % yn y gyfradd cynnydd cyflog | 2% | 6,885 |
| cynnydd o 0.5 % yn y gyfradd cynnydd pensiwn | 8% | 32,620 |

## e) Yr Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod

Amcan y cynllun yw cadw cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfradd sydd mor gyson ag y gall fod. Mae gan y Cyngor strategaeth gydag actiwari'r cynllun i sicrhau lefel gyllido o 100% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol. Caiff y prisiad tairblwyddol nesaf ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2019.

Bydd angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013.

Yn unol â'r Ddeddf, efallai na fydd y CPLlL yn Lloegr a Chymru, a'r prif gynlluniau cyfredol eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn darparu buddiannau ar gyfer gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu Wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 yn achos y prif gynlluniau pensiwn eraill ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yn Lloegr a Chymru). Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoleiddio'r cynlluniau mewn fframwaith cyffredinol er mwyn sefydlu cynlluniau yn seiliedig ar yr enillion cyfartalog yn ystod gyrfa wedi eu hailbrisio er mwyn talu pensiynau a buddiannau eraill.

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos yr ymrwymiad sydd ar y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddiannau ôl-gyflogaeth (ymddeoliad). Mae'r rhwymedigaeth net o £102.188mm yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y cafodd ei gofnodi yn y Fantolen. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer cyllido'r diffyg yn golygu fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn iach.

Gwneir iawn am y diffyg yn y cynllun llywodraeth leol drwy gynyddu'r cyfraniadau dros weddill oes gweithio'r gweithwyr (h.y. cyn y bydd y taliadau'n ddyledus) yn unol ag asesiad actiwari'r cynllun; nid oes angen cyllid ond i gwrdd â chostau buddiannau dewisol pan fydd y pensiynau'n cael eu talu.

## f) Amcangyfrif o'r cyfraniadau i'w talu i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2018/19

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn talu cyfraniad o £8.395m i'r cynllun yn 2018/19. Mae hyd cyfartalog rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun ar ôl ei bwysoli yn 19 o flynyddoedd.

Y swm sy'n ddyledus i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chyfraniadau CPLlL am 2017/18 ar 31 Mawrth 2018 yw £0.762m ac mae wedi ei gynnwys yn y nodyn datgelu o ran credydwyr tymor byr.

## NODYN 42 – RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

### Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Yn dilyn dyfarniadau a gadarnhawyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac adroddiad gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar achosion prawf mewn lleoedd eraill, nid oedd grym i godi am wasanaethau a ddarparwyd dan Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac mae'r Cyngor yn gorfod ad-dalu costau o'r fath. Er bod nifer o achosion wedi cael eu setlo, mae cyfanswm y rhwymedigaeth posibl hwn yn anodd ei gyfrifo ond mae swm wedi ei neilltuo mewn cronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer ad-daliadau o'r fath, ond ni wyddys i sicrwydd ar hyn o bryd faint fydd y rhwymedigaeth terfynol.

### Tir Halogedig Posibl

Mae posibilrwydd y bydd angen gwaith adfer yng Nghraig y Don, Amlwch yn codi o ddefnydd hanesyddol y tir, a allai fod wedi gadael llygredd yn y pridd.

**Adolygiad Barnwrol Cynllunio**

Mae posibilrwydd y ceir adolygiad barnwrol o achos cynllunio yn 2018.

**Hawliadau Chwiliad Eiddo**

Ceisiodd grwp o gwmnïau chwiliad eiddo hawlio ad-daliad o ffioedd a dalwyd i'r Cyngor i weld data pridiannau tir. Mae'r partïon wedi dod i gytundeb ar yr hawliadau. Mae'r Cyngor wedi cytuno i dalu costau cyfreithiol y cwmnïau chwiliad eiddo yn amodol ar asesiad manwl drwy gyfrwng agwedd cost yr hawliad ddim ond os nad yw trafodion yn cael eu cytuno. Mae'r Cyngor yn cynnal trafodaethau gyda'r hawlwyr am yr agwedd cost y ceisiadau. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl rhoi gwerth terfynol ar y rwymedigaethau posibl, felly, mae'r Cyngor yn ystyried hyn i fod yn rhwymedigaeth wrth gefn.

(1) Bevan Brittan LLP, 2015, Cyngor cyffredinol am gyfrifon awdurdodau wedi eu cyhoeddi â'r hawliadau chwiliadai am eiddo, Llundain.

**Ynys Lawd**

Mae posibilrwydd y bydd y Cyngor yn cael ei dynnu i mewn i ymgyfreithiad mewn perthynas â Dadfeiliadau Ynys Lawd. Daeth y Cyngor â'i brydles ar Oleudy Ynys Lawd gan Trinity House i ben. Mae Trinity House wedi cyflwyno anfoneb am gostau dadfeiliadau. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn herio dilysrwydd yr hawliad a gweth y costau sy'n cael eu hawlio ac mae hynny yn creu ansicrywdd ynghlyn a fydd riad i'r Cyngor wneud taliad a beth fydd gwerth unrhyw daliad a wneir.

**NODYN 43 – ASEDAU AMADOL**

**Pridiannau Cyfreithiol**

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o bridiannau cyfreithiol dros eiddo preswyl â pherchenogion preifat, lle darparwyd cefnogaeth i'r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer prynu tai â chefnogaeth, gyda'r Cyngor hefo'r hawl am ran o'r enillon ar werthiant yr eiddo. Bydd amrywiaeth yn y gwir swm a dderbynnir, yn seiliedig ar brisiau gwerthu'r eiddo unigol a natur unrhyw alwadau cyfreithiol arall yn eu herbyn byddai, efallai, yn cymryd blaenoriaeth dros bridiant y Cyngor. Mae amseru unrhyw dderbyniadau yn ddibynnol ar unrhyw werthiannau.

**Hawliad TAW Hamdden**

Mae'r Cyngor wedi rhoi hawliad i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi mewn perthynas ag adennill TAW a dalwyd yn flaenorol i CThEM am incwm o ffioedd mynediad hamdden. Heriwyd CThEM ar gyfreithlondeb codi TAW ar y ffioedd hyn a daliodd y llysoedd i eithrio'r incwm o ffioedd mynediad i wasanaethau hamdden. Yn Nhachwedd 2017 cadarnhawyd y penderfyniad na ddylid codi TAW ar Wasanaethau Hamdden, felly, dylai'r Cyngor gael ei ad-dalu yn y dyfodol am TAW ar incwm ffioedd mynediad hamdden a dalwyd i CThEM dros y chwe mlynedd diwethaf. Derbyniwyd yr hawliadau gan CThEM yn Awst 2018.

## NODYN 44 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae’r categorïau canlynol o Offerynnau Ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:-

| | Tymor hir | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
| **Balansau Arian parod** | | | | |
| Adneuon banc | - | - | 7,319 | 14,634 |
| **Cyfanswm arian a buddsoddiadau** | **-** | **-** | **7,319** | **14,634** |
| **Dyledwyr** | | | | |
| Benthyciadau a Derbyniadau | 608 | 646 | 5,992 | 5,369 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **608** | **646** | **5,992** | **5,369** |
| **Benthyciadau** | | | | |
| Rhwymedigaethau Cyllidol ar gost amorteiddio | 106,913 | 111,557 | 12,413 | 7,672 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **106,913** | **111,557** | **12,413** | **7,672** |
| **Credydwyr** | | | | |
| Rhwymedigaethau Cyllidol ar gost amorteiddio | 151 | 166 | 12,582 | 10,569 |
| **Cyfanswm Credydwyr** | **151** | **166** | **12,582** | **10,569** |

Nid yw dyledwyr a chredydwyr yn y tabl hwn yn cynnwys trafodion gydag adrannau’r llywodraeth, gwerth damcaniaethol yr absenoldebau sydd wedi cronni ac sy’n ddyledus i staff ac incwm a thaliadau’n codi o drethi, sy’n golygu, hefyd, fod trafodion sy’n ymwneud â’r dreth gyngor a threthi busnes wedi eu gadael allan.

### Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion

Caiff yr enillion a’r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol eu mesur fel a ganlyn:-

| | 2017/18 | | | 2016/17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhwymedigaethau Cyllidol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £'000 | Asedau Cyllidol, Benthyciadau a derbyniadau £'000 | Cyfanswm £'000 | Rhwymedigaethau Cyllidol wedi'u mesur ar gost lai amorteiddio cronedig £'000 | Asedau Cyllidol, Benthyciadau a derbyniadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Treuliau llog | 5,862 | - | **5,862** | 6,003 | - | **6,003** |
| **Cyfanswm treuliau mewn Gwarged neu Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **5,862** | **-** | **5,862** | **6,003** | **-** | **6,003** |
| Incwm llog | - | (31) | **(31)** | - | (54) | **(54)** |
| **Cyfanswm incwm mewn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **-** | **(31)** | **(31)** | **-** | **(54)** | **(54)** |
| **(Enilliad)/Colled Net am y flwyddyn** | **5,862** | **(31)** | **5,831** | **6,003** | **(54)** | **5,949** |

**Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau**

Mae rhwymedigaethau cyllidol, a gynrychiolir gan fenthyca, a chredydwyr ac asedau ariannol, a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau, a dyledwyr tymor hir yn cael eu cario yn y Fantolen ar gost amorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian a fydd yn digwydd dros weddill tymor yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:-

- Amrediad amcangyfrifiedig graddfeydd llog ar 31 Mawrth 2018 o 1.67% i 2.67% ar gyfer benthyciadau o'r Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn seiliedig ar y graddfeydd benthyca newydd ar gyfer benthyciadau cyfatebol ar y dyddiad hwnnw;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar neu amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu yn y deuddeng mis nesaf, tybir bod y swm sy'n cael ei gario yn cyfateb yn fras i werth teg; a
- Cymerir bod gwerth teg dyledwyr a chredydwyr tymor byr yn cyfateb i'r swm y maent yn eu cario ar ddyddiad y Fantolen.

Dadansoddiad benthyciadau yn ôl dyddiad aeddfedu:-

| | 2017/18 Prifswm Gweddillol £'000 | 2017/18 Llog wedi Cronni £'000 | 2017/18 Cost lai Amorteiddio Cronedig £'000 | 2016/17 Prifswm Gweddillol £'000 | 2016/17 Llog wedi Cronni £'000 | 2016/17 Cost lai Amorteiddio Cronedig £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| >25 blwyddyn | 71,709 | - | 71,709 | 72,709 | - | 72,709 |
| 15-25 blwyddyn | 12,783 | - | 12,783 | 12,106 | - | 12,106 |
| 10-15 blwyddyn | 4,586 | - | 4,586 | 6,452 | - | 6,452 |
| 5-10 blwyddyn | 5,662 | - | 5,662 | 5,611 | - | 5,611 |
| 2-5 blwyddyn | 7,056 | - | 7,056 | 9,669 | - | 9,669 |
| 1-2 blwyddyn | 5,117 | - | 5,117 | 5,010 | - | 5,010 |
| **Cyfanswm y Benthyciadau Tymor Hir** | **106,913** | **-** | **106,913** | **111,557** | **-** | **111,557** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (< 1 blwyddyn)** | **10,116** | **2,297** | **12,413** | **5,553** | **2,119** | **7,672** |

Mae'r gwerth teg a gyfrifir fel a ganlyn:-

| | **31 Mawrth 2018** | | **31 Mawrth 2017** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm Cario £'000** | **Gwerth Teg £'000** | **Swm Cario £'000** | **Gwerth Teg £'000** |
| Rhwymedigaethau Cyllidol | 112,029 | 166,414 | 117,110 | 173,958 |
| Credydwyr Tymor Hir | 151 | 151 | 166 | 166 |

| | **31 Mawrth 2018** | | **31 Mawrth 2017** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Swm Cario £'000** | **Gwerth Teg £'000** | **Swm Cario £'000** | **Gwerth Teg £'000** |
| Arian parod ar adnau a benthyciadau i awdurdodau lleol arall | 7,319 | 7,334 | 14,634 | 14,655 |

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau yn fwy na'r swm cario oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fenthyciadau yn cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog yn uwch na'r graddfeydd cyffredinol ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog uwchben y graddfeydd marchnad bresennol yn cynyddu faint sydd raid i'r Cyngor ei dalu, pe gofynnai'r benthyciwr am, neu y cytunai ar, ad-daliad cynnar o'r benthyciadau.

Mae gwerth teg yr asedau yn fwy na'r swm cario oherwydd bod portffolio'r Cyngor o fuddsoddiadau'n cynnwys nifer o fenthyciadau graddfa sefydlog ble mae'r raddfa llog a dderbynnir yn uwch na'r graddfeydd sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen. Dengys hyn enilliad tybiannol i'r dyfodol (wedi'i seilio ar amodau economaidd ar 31 Mawrth 2018) y priodolir i'r ymrwymiad i dderbyn llog uwchlaw'r graddfeydd marchnad bresennol.

**NODYN 45 – NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL**

Mae gwaith y Cyngor yn golygu ei fod yn agored i sawl risg ariannol:-

**Risg Credyd** - y posibilrwydd bod partïon eraill yn methu â thalu'r symiau dyledus i'r Cyngor.

**Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fydd yr arian gan y Cyngor i gwrdd a'i ymrwymiadau yng nghyswllt taliadau.

**Risg y Farchnad** - y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**Risg Credyd**

Mae Risg Credyd yn codi oherwydd yr adneuon mewn banciau a sefydliadau ariannol, ond hefyd oherwydd credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen).

Nid ydym yn trefnu adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu graddio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o uchafsymiau yn seiliedig ar raddfeydd credyd ar gyfer gwahanol gyrff, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthyca rhagor na £10m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'n monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Roedd yr holl adneuon a oedd yn sefyll ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu gwneud yn wreiddiol am lai na blwyddyn.

Ni aethpwyd tu draw i unrhyw uchafswm credyd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorrwyd unrhyw feini prawf gwrthbartïon. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw golledion oherwydd bod unrhyw un o'i wrthbartïon yn methu â pherfformio yng nghyswllt adneuon. Mae'r argyfwng credyd presennol wedi cynyddu'r posibilrwydd o fethu talu ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf credyd llymach ar gyfer gwrthbartïon buddsoddi o fewn ei bolisi cyffredinol.

Creodd canlyniad y refferendwm UE i adael yr Undeb Ewropeaidd sioc economaidd sy’n effeithio ar farchnadoedd a llawer agwedd o’r economi. Fe hisraddwyd cyfraddau rhagolygon tymor hir ar gyfer banciau’r DU gyfan i agwedd negyddol. Byddai cwymp yn y sector bancio yn tanseilio’r adneuon a ddelir mewn banciau yn y DU (£7.319m ar 31/03/18). Mae hyn yn cael ei fonitro’n agos ac y mae statws credyd y banciau lle mae’r Awdurdod yn dal adneuon yn parhau i fod yn galonogol ac ar lefel dderbyniol, yn unol â’r Strategaeth Rheoli Trysorlys. Os bydd y statws credyd yn disgyn yn is na’r lefel dderbyniol, byddai’r Awdurdod yn ceisio rhoi y balansau mewn buddsoddiadau eraill, bydd rhaid iddynt fod yn unol â’r Strategaeth Rholi Trysorlys. Yn ystod y flwyddyn ariannol, newidiodd y ‘Bank of England’ ei ostyngiad blaenorol yn y graddfa banc swyddogol o 0.25% yn ôl i 0.50%. Dengys y weithred yma fod mwy o hyder yn economi’r DU er fod dal beth ansicrwydd yn codi o‘r DU yn gadael yr UE yn 2020 fydd yn effeithio’n arbennig ar y sector bancio. Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae gan y Cyngor weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau, mae’r Cyngor yn cael pridiant cyfreithiol ar eiddo ar gyfer rhai dyledion gohiriedig fel hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal.

Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach, gan gynnwys benthyciadau ceir i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeëdig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau geir o gyflogau'r gweithwyr, a hefyd mae trefniadau cilyddol gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo ac yn symud gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i ad-ennill dyledion yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol. Mae’r morgeisi yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig.

| | Swm 2017/18 £000 | Profiad hanesyddol o ddiffyg talu % | Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm 2017/18 £000 | Amcangyfrif Datguddiad Uchafswm 2016/17 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chyrff Ariannol (dim wedi Gwladoli) | 5,993 | - | - | - |
| Banciau DU sydd Wedi Gwladoli/ Gwladoli’n Rhannol | 1,326 | - | - | - |
| Awdurdodau Lleol y DU | - | - | - | - |
| **Cyfanswm adneuon** | **7,319** | | **-** | **-** |
| Dyledwyr masnach dan 1 flwyddyn | 1,036 | 10 | 104 | 154 |
| Dyledwyr masnach rhwng 1-2 flynedd | 321 | 20 | 64 | 4 |
| Dyledwyr masnach rhwng 2-6 blynedd | 113 | 30-70 | 79 | 51 |
| Dyledwyr masnach 6+ blwyddyn | 6 | 100 | 6 | 18 |
| **Cyfanswm dyledwyr masnach** | **1,476** | | **253** | **226** |

## Risg Hylifedd

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw’r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael arian ac mae'n rhydd i fynd at y Bwrdd Benthyca ar gyfer Gwaith Cyhoeddus (PWLB) fel corff i fenthyca oddi arno ar ôl methu fel arall. Prif nodau’r Strategaeth Rheoli Trysorlys yw i sicrhau bod yr Awdurdod yn agored i risg isel ac i sicrhau hylifedd. Mae’r rhan fwyaf o fuddsoddiadau’r Awdurdod mewn cyfrifon adneuon mynediad yn syth. Felly, mae llai o risg y bydd yn methu â chodi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Fodd bynnag, yn aml mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn uchel. Yr arfer yw ceisio sicrhau na fydd rhagor na 20% o'i fenthyciadau i'w had-dalu mewn unrhyw gyfnod o 2 flynedd, ac asesu’n gyson gyfraddau'r farchnad a'r rhagolygon er mwyn trefnu benthyciadau newydd yn lle’r rhai sy'n aeddfedu neu ar gyfer ad-drefnu'r benthyciadau presennol ar yr adeg fwyaf manteisiol. Byddai’r cyfraddau llog isel cyfredol yn gostwng cyfraddau llog ar fenthyciadau newydd a gymerir i ad-dalu’r ddyled sy’n aeddfedu. I gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol. Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn nodyn 44. Mae holl daliadau masnachol a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai na blwyddyn.

| | 31 Mawrth 2018<br><br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br><br>£'000 |
|---|---|---|
| Llai na chwe mis | 1,000 | 1,537 |
| Chwe mis i flwyddyn | 37 | 20 |
| Dros Flwyddyn | 439 | 189 |
| **Cyfanswm** | **1,476** | **1,746** |

**Risg y Farchnad**

**Risg Cyfraddau Llog** - Mae'r Cyngor yn wynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn:-

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol - byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - ceid gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi'u gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - gwelid gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg, gan eu bod yn cael eu cario ar gost amorteiddio yn unol â cod CIPFA. Felly, ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau graddfa sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau graddfa amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau i reoli risg cyfraddau llog. Polisi'r Cyngor yw benthyca'n bennaf yn ôl cyfraddau sefydlog, er mwyn cael sicrwydd beth fydd y llog taladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog ar y pryd a rhagolygon y farchnad. Pe ceid risg sylweddol o godiad sydyn yn y cyfraddau llog tymhorau hir a byr, yna ailasesid y sefyllfa portffolio ac mae'n debygol y byddai hynny'n arwain, fel arfer, at godi cyllid cyfraddau sefydlog tra bo cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rhad. Pe ceid risg sylweddol o ostyngiad sydyn yn y cyfraddau llog tymor hir a byr, yna câi benthyciadau tymor hir eu gohirio a symud ymlaen i ad-drefnu a symud o gyllid cyfraddau sefydlog i gyllid cyfraddau tymor byr.

Mae'r cyfan o fenthyciadau'r Cyngor a'i adneuon banc cyfredol a thymor hir ar gyfraddau sefydlog.

**NODYN 46 – CYD-BWYLLGORAU**

Mae'r Cyngor a Chyngor Gwynedd yn rhan o'r is-bwyllgorau isod:-

- Cyd-Bwyllgor Cynllunio
- Cyd-bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig

Mae'r Cyngor a Chynghorau Gwynedd, Conwy, Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn rhan o gydbwyllgor GwE (Gwasanaeth EffeithiolIrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Mae'r Cyngor a Chynghorau Fflint, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd yn rhan o Gyd-bwyllgor Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (NWRWTP).

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am weithrediad tri cyd-bwyllgor a chaiff y balansau diwedd blwyddyn eu hadlewyrchu yn eu Mantolen. Gellir gweld cyfrifon am 2017/18 i'r cyd-bwyllgorau yma drwy ddilyn y linciau isod:-

**Cyd-Bwyllgor Cynllunio**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Joint-Local-Development-Plan/Joint-Local-Development-Plan.aspx

**Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Performance-and-spending/Budgets-and-finance/Statement-of-Accounts/Special-Educational-Needs-Joint-Committee.aspx

**GwE**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Performance-and-spending/Budgets-and-finance/Statement-of-Accounts/GwE-Joint-Committee.aspx

Cyngor Fflint sy'n gyfrifol am weithrediad y cyd-bwyllgor NWRWTP a chaiff y balansau diwedd blwyddyn eu hadlewyrchu yn ei Fantolen. Cyfanswm yr asedau net ar 31 Mawrth 2018 oedd £108,798.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn cymryd rhan mewn amryw o drefniadau ar y cyd â Chynghorau Gogledd Cymru cyfagos, fel a ganlyn:-

- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (Arwain: Wrecsam. Partïon : Sir Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff (Arwain: Sir Fflint. Partïon : Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol (Arwain: Sir Fflint. Partïon : Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Galw Gofal (Arwain: Conwy. Partïon: Gwynedd, Sir Fflint).

## NODYN 47 – TROI TAI'N GARTREFI

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu benthyciadau i unigolion i atgyweirio cartrefi gwag er mwyn lleihau y nifer o gartrefi gweigion ar Ynys Môn a chynyddu'r cyfleoedd tai. Yn 2017/18 £0.094m (£0.226m yn 2016/17) oedd wedi ei wario ar atgyweirio cartrefi gwag.

## NODYN 48 – Y DRETH GYNGOR

Mae incwm y Dreth Gyngor yn deillio o godi ar werth eiddo preswyl, ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i'r Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen i'r Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr anheddau ym mhob band prisio gan addasu trwy gyfran a throsi'r nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 oedd £30,794.83 (£30,250.23 yn 2016/17).

Wedyn, mae'r swm i eiddo band D yn 2017/18, £1,377.15 (£1,340.57 yn 2016/17) yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol er mwyn rhoi'r swm dyledus fesul band. Cyfrifir am symiau unigol sy'n ddyledus gan ganiatáu disgownt a budd-dal i'r swm dyledus fesul band.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau A i I:-

| Band | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lluosydd | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |

Caiff Sylfaen y Dreth Gyngor ei weithio allan fel a ganlyn:-

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Anheddau | 16.00 | 3,968.00 | 5,982.00 | 6,077.00 | 6,628.00 | 5,061.00 | 2,454.00 | 999.00 | 152.00 | 44.00 | 31,381.00 |
| Lluosydd | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 | |
| Band "D" Cyfatebol | 8.89 | 2,645.17 | 4,652.28 | 5,402.00 | 6,627.75 | 6,185.67 | 3,544.31 | 1,665.00 | 304.00 | 101.50 | 31,136.57 |

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Band D cyfatebol fel yr uchod | 31,136.57 | 30,580.09 |
| Cyfradd Gasglu | 98.50% | 98.50% |
| Band D cyfatebol diwygiedig | 30,669.52 | 30,121.39 |
| Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn – Band D cyfatebol | 125.31 | 128.84 |
| **Sylfaen y Dreth Gyngor** | **30,794.83** | **30,250.23** |

Yn 2013/14, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gymryd lle'r cynllun budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Dyfarnwyd £ 5.432m o ostyngiadau treth gyngor yn 2017/18 (£ 5.381m yn 2016/17).

| **Dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:** | **2017/18 £'000** | **2016/17 £'000** |
|---|---|---|
| **Y Dreth Gyngor Gros** | **42,295** | **40,183** |
| Llai Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a roddwyd i breswylwyr | (5,342) | (5,381) |
| **Y Dreth Gyngor sy'n Gasgladwy** | **36,953** | **34,802** |
| Ychwanegu / Llai: darpariaeth ar gyfer diffyg-dalu nid oedd ei angen neu cyfrifwyd amdano o'r blaen | (50) | (215) |
| **Enillion Net o'r Dreth Gyngor** | **36,903** | **34,587** |

**NODYN 49 – TRETHI ANNOMESTIG (TA)**

Mae'r TA yn cael eu trefnu ar sail genedlaethol.

Caiff eiddo annomestig ei asesu bob 5 mlynedd fel arfer at ddibenion cyfrifo atebolrwydd am Trethi annomestig. Daeth rhestr newydd i rym ar 1 Ebrill 2017. Nid yw ailbrisio yn codi refeniw ychwanegol yn gyffredinol ond yn adlewyrchu newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad eiddo ar draws y wlad, gan ailddosbarthu'r un cyfanswm rhwymedigaeth treth ar gyfer Trethi Annomestig. Bydd rhai biliau trethi'n codi a rhai'n gostwng ond bydd y bil cenedlaethol cyfartalog ond yn newid gyda chwyddiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu cyfradd – 49.9c yn 2017/18 (48.6c yn 2016/17), ac mae busnesau lleol yn talu trethi a gyfrifir trwy luosi gwerth ardrethol eu heiddo gyda'r swm uchod. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu trethi oddi ar drethdalwyr ei ardal ond wedyn mae'n trosglwyddo'r elw i'r Gronfa Trethi dan weinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn ailddosbarthu'r symiau a delir yn ôl i awdurdodau lleol yn seiliedig ar swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm TA, ar ôl ystyried rhyddhad a darpariaethau (yn cynnwys Rhyddhad Trethi Busnesau Bach Llywodraeth Cymru), yn £11.777m yn 2017/18 (£13.449m yn 2016/17) yn seiliedig ar werth trethadwy ar ddiwedd y flwyddyn o £38.262m (£39.490m yn 2016/17).

Y gwerth trethadwy ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn oedd £38.419m (£39.252m 2016/17).

| **Dadansoddiad o'r enillion net o drethi annomestig:** | **2017/18 £'000** | **2016/17 £'000** |
|---|---|---|
| Trethi annomestig casgladwy | 11,777 | 13,449 |
| Cost lwfans casglu | (149) | (147) |
| Llog dalwyd ar ordaliadau | - | - |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg | (254) | (135) |
| Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusennol/gwledig | 59 | 57 |
| **Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol** | **11,433** | **13,224** |
| | | |
| **Ailddosbarthu o'r gronfa genedlaethol** | **23,002** | **21,309** |

## NODYN 50 – MORWROL

Mae'r Cyngor, fel Awdurdod Harbwr, yn gyfrifol am y gwasanaethau arforol canlynol: Biwmares, Fryars Bay, Glyn Garth, Porthaethwy, Traeth Coch ac Harbwr Amlwch. Mae'r Rheoliadau Ymgymeriadau Statudol ar gyfer Harbyrau (Cyfrifon ac ati) 1983, rhif 931, yn eithrio awdurdodau harbwr gyda throsiant sy'n llai na £250,000 rhag gorfod paratoi cyfrifon ar wahân dan Ddeddf Harbyrau 1964. Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer y gwasanaethau arforol hyn, felly'n cael eu cynnwys yn y cyfrifon hyn dan incwm a gwariant y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Yn 2017/18, roedd y trosiant ar wasanaethau arforol yn £48,934 (£47,336 yn 2016/17). Roedd y costau a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn £95,369 (sy'n cynnwys £18,809 o log ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf).

## NODYN 51- POLISÏAU CYFRIFO

Yn yr adran hon, ceir manylion am y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon.

| Cyfeirnod Polisi | Teitl Polisi |
|---|---|
| 1 | Egwyddorion Cyffredinol |
| 2 | Cronni Incwm a Gwariant |
| 3 | Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen |
| 4 | Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd |
| 5 | Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau |
| 6 | Treth ar Werth (TAW) |
| 7 | Mesur Gwerth Teg |
| 8 | Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar) |
| 9 | Eiddo Buddsoddiad |
| 10 | Asedau Annirweddol |
| 11 | Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir |
| 12 | Arian Parod a Chywerthoedd Arian |
| 13 | Offerynnau Ariannol |
| 14 | Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn |
| 15 | Cronfeydd Wrth Gefn |
| 16 | Cydnabyddiaeth Refeniw |
| 17 | Llog Mewnol |
| 18 | Prydlesau |
| 19 | Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol - Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) |
| 20 | Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth |
| 21 | Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS) |
| 22 | Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol |
| 23 | Arian Tramor |
| 24 | Buddiannau'r Gweithwyr |
| 25 | Eitemau Eithriadol |
| 26 | Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig) |
| 27 | Incwm a Gwariant  Asiantaeth |

### 1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am flwyddyn ariannol 2017/18 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2018. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2017/18, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'r holl brif bolisïau cyfrifo wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn.

## 2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am drafodion yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid pan fydd yr arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn. Mae'r dull hwn o gyfrifo croniadau yn darparu sylfaen fwy cyflawn ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol y Cyngor oherwydd mae'n cynnwys ymrwymiadau'r Cyngor yn y dyfodol i dalu/derbyn arian am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2018 ond nas talwyd amdanynt. Caiff incwm a gwariant eu cyfrifo amdanynt yn y flwyddyn y digwyddodd y gweithgaredd y mae'n berthnasol iddynt, nid pan fo arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn, h.y. ar sail gronnol. Mae hyn yn golygu fod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill ac nid ar adeg ei dderbyn a gwariant pan mae'n digwydd yn hytrach nag ar adeg ei dalu. Fe gynhwysir incwm am werthu nwyddau yn y cyfrifon pan gwblheir y gwerthiant, nid pan dderbynnir yr arian. Caiff incwm o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fedr y Cyngor fesur yn ddibynadwy y ganran o'r trafodyn a gwblhawyd ac, o ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn cael incwm yn gyfnewid am y gwasanaethau a ddarparwyd. Yn ychwanegol at hyn:-

- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;

- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;

- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac adneuon banc ac sy'n daladwy ar fenthyciadau (gan gynnwys gorddrafftiau banc) yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract; a

- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan na fydd dyledion o bosib yn cael eu setlo, mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

## 3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Gall pethau ddigwydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a all gael effaith sylweddol ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn honno. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Caiff y Datganiad Cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi pan fydd y Swyddog Adran 151 wedi llofnodi'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio, ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Yn unol â'r gyfraith, rhaid cwblhau'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio a'u hawdurdodi erbyn 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:-

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau; a

- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau ond, lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'r effaith y disgwylir iddynt eu cael o safbwynt ariannol.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi'r datganiad ar gyfer ei gyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

## 4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Cyngor ar y cyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentrau yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau y mae'n eu hwynebu. Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei ddebydu gyda'r gwariant hwnnw a'i gredydu gyda'r gyfran o'r incwm y mae'n ei ennill o ganlyniad i weithrediad y fenter.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan y Cyngor a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

## 5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Gall Addasiadau ar gyfer Cyfnod Blaenorol ddeillio o newid mewn polisïau cyfrifo neu o gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn ystod y blynyddoedd i ddod a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni fydd newidiadau i bolisïau cyfrifo ond yn cael eu gwneud pan mae hynny'n ofynnol dan arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth sy'n fwy dibynadwy neu berthnasol o safbwynt effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau mewn perthynas â sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau perthnasol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## 6. Treth ar Werth (TAW)

Nid yw TAW sy'n daladwy ond yn cael ei gynnwys fel traul i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

## 7. Mesur Gwerth Teg

Mae Mesur Gwerth Teg IFRS13 yn golygu bod rhaid i'r rhan fwyaf o'r asedau, rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol gael eu prisio ar werth teg, yn amal yn ôl cyfraddau marchnad actif lle mae un ar gael. O safbwynt asedau gweithredol, mae'r safon yn cyflwyno'r cysyniad o werth teg yn seiliedig ar werth cyfredol (yn aml, gwerth mewn defnydd) ar gyfer ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae hyn yn golygu y dylai'r mesur adlewyrchu amodau'r farchnad ar gyfer y gwasanaeth neu'r swyddogaeth ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad. Mae'r safon yn darparu gwahanol ddulliau prisio teg ar gyfer asedau gwahanol. Yn achos asedau nad ydynt yn rhai gweithredol, h.y. asedau buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau nad oes mwyach eu hangen, caiff y rhain eu prisio ar eu huchaf ac yn ôl y defnydd gorau y gellir ei wneud ohonynt. Mewn achos lle gellid gwneud defnydd arall ohonynt a fyddai o werth teg uwch, dyna'r gwerth teg a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio asedau nad ydynt yn rhai gweithredol. Dan y côd hwn, nid oes angen ailbrisio asedau isadeiledd yn ôl eu gwerth cyfredol. Yn lle hynny, caiff asedau isadeiledd eu prisio yn ôl y gost hanesyddol dibrisiedig.

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu rwymedigaeth drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y byddai'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu rwymedigaeth, gan dybio y byddai'r rheini yn gweithredu er eu budd economaidd gorau.

Wrth fesur gwerth teg ased anariannol, mae'r Awdurdod yn cymryd i ystyriaeth gallu'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad i greu buddiannau economaidd drwy wneud y defnydd mwyaf a gorau o'r ased neu drwy ei werthu i rywun arall yn y farchnad a fyddai'n gwneud y defnydd mwyaf a gorau ohono.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau prisio sy'n briodol yn yr amgylchiadau a rhai y mae data digonol ar gael ar eu cyfer, gan wneud y defnydd gorau posibl o'r mewnbynnau perthnasol y gellir eu harsylwi a lleihau i'r eithaf ar y defnydd o fewnbynnau nad oes modd eu harsylwi.

Caiff mewnbynnau i'r technegau prisio ar gyfer asedau a rhwymedigaethau y mae gwerth teg yn cael ei fesur neu eu datgelu ar eu cyfer yn natganiadau ariannol yr Awdurdod eu categoreiddio fel a ganlyn yn yr hierarchaeth brisio:-

Lefel 1 - prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau sydd union yr un fath ac y gall yr Awdurdod gael mynediad iddynt ar y dyddiad mesur;

Lefel 2 - mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd yn Lefel 1 y mae modd eu harsylwi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; a

Lefel 3 - mewnbynnau nad oes modd eu harsylwi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

Rhaid i'r Awdurdod ddefnyddio technegau prisio sy'n briodol i'r amgylchiadau a rhai y mae data digonol ar eu cyfer er mwyn mesur gwerth teg, gan wneud y defnydd mwyaf posibl o fewnbynnau perthynasol y mae modd eu harsylwi (lefelau 1 a 2) a lleihau'r defnydd o fewbynnau nad oes modd eu harsylwi (lefel 3). Tri o dechnegau prisio sy'n dderbyniol yn eang yw:-

- Dull y farchnad;
- Dull cost;
- Dull incwm.

## 8. Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)

### 8.1 Cydnabyddiaeth

Mae asedau nad ydynt yn gyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar - yn asedau ffisegol sy'n para am flwyddyn neu ragor ac sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor i gefnogi'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi pennu isafswm ar gyfer gwariant ar asedau a fydd yn cael ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf. Y swm de-minimus hwn yw £30k. Caiff gwariant ar brynu, creu neu wella asedau nad ydynt yn gyfredol ac sy'n costio £30k neu fwy ei gyfalafu ar sail croniadau ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r diffiniad uchod o ased nad yw'n gyfredol. Byddai Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau megis peiriannau, ni fyddai fel arfer yn cynnwys asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu oherwydd, fel arfer, byddid yn disgwyl cael gwared ar y rhain o fewn 12 mis.

Gall costau'r asedau hyn gynnwys costau cychwynnol eu prynu a'u hadeiladu a chostau dilynol i wella neu i adnewyddu rhan o'r ased. Caiff unrhyw wariant arall a gyfyd yn sgil gynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd, yn cynnwys atgyweiriadau a cynnal a chadw, ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r costau hynny godi.

## 8.2 Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr;
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r pryniant (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan gaffaelir ased drwy gyfnewid, cost y pryniant yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:-

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol;
- Tai Cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- Swyddfeydd y Cyngor – gwerth cyfredol, a bennir gan y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol;
- Adeiladau ysgolion – byddent yn cael eu prisio yn ôl eu gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ond, oherwydd eu natur arbenigol, fe'u mesurir yn ôl cost amnewid dibrisiant;
- Asedau dros ben – y mesur gwerth cyfredol yw gwerth teg, amcangyfrifir ar y defnydd uchaf a gorau o bersbectif rhai sy'n weithgar ar y farchnad;
- Mae'r holl asedau gweithredol eraill wedi cael eu mesur yn unol â'u gwerth presennol yn seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol (EUV). Mae hyn yn golygu mai gwerth cyfredol tir ac adeiladau fyddai'r swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol. Os nad oes marchnad amlwg ar gyfer ased oherwydd ei natur arbenigol neu os nad yw'r math hwnnw o ased yn cael ei werthu'n aml, bydd yr Awdurdod yn amcangyfrif ei werth cyfredol gan ddefnyddio'r dull cost amnewidiol dibrisiedig. Er enghraifft, yn achos eiddo sy'n cynnwys tir ac adeiladau, y gost ddibrisiedig o'i amnewid fyddai gwerth marchnad y tir y mae'r adeilad arno ar gyfer ei ddefnydd cyfredol ynghyd â chost gros amnewid yr adeilad llai lwfansau ar gyfer dirywiad, darfodedigrwydd ac optimeiddio;
- Caiff asedau a dderbynnir fel rhoddion eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu gwerth teg. Caiff y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw bris a dalwyd ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Trethiant a Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Lle mae amodau ynghlwm wrth unrhyw asedau a gafwyd yn rhodd, caiff yr enillion eu credydu i'r Cyfrif Asedau a gafwyd yn rhodd. Lle mae enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu symud allan o falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn;

- Lle mae rhan neu gydran o ased yn cael ei amnewid, caiff gwerth cario'r hen ran neu gydran ei ddad-gydnabod er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Caiff gwerth y gydran newydd ei hychwanegu at y swm sy'n cario. Os nad yw'n ymarferol gwneud penderfyniad ynghylch gwerth cario'r rhan sydd wedi ei amnewid, defnyddir cost y rhan newydd fel arwydd o gost y rhan sydd wedi cael ei amnewid; a

- Os nad yw ased yn cael ei ddal i bwrpas cynhyrchu llif arian, tybir bod gwerth mewn defnydd o leiaf yn gyfartal i gost amnewid gwasanaeth potensial o'r ased.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'oes defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond ailbrisio o leiaf bob pum mlynedd. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn prisio ei asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar ar sail rhaglen dreigl pum mlynedd. Fodd bynnag, caiff asedau sydd â gwerth cario o dros £500k eu hailbrisio bob blwyddyn. Mae cynnydd mewn gwerthoedd asedau'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellir credydu enillion ailbrisiant i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano trwy:-

- pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion sydd wedi cronni); a

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC).

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

## 8.3 Amhariad

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:-

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i dreigl amser neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased ac, mewn achos lle mae'r swm hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad ar asedau a gawsant eu hailbrisio, cyfrifir amdanynt trwy:-

- pan mae balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod. Nodir unrhyw beth dros ben yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

Pan mae'r amhariad yn ymwneud ag ased na chafodd ei hailbrisio (h.y. ased â gwerth cario yn seiliedig ar gost hanesyddol), caiff yr amhariad ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### 8.4 Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar er mwyn dyrannu eu symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 75 mlynedd, fel yr amcangyfrifir gan y Prisiwr;
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 15 mlynedd;
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 30 mlynedd.

Mewn achos lle mae gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân. Cyfeiriwch at nodyn 4a.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Ni chodir dibrisiant yn y flwyddyn y prynir yr ased.

### 8.5 Asedau y ceir gwared arnynt ac Asedau nad ydynt yn Gyfredol a delir i'w Gwerthu

Mae'r asedau hyn yn cael eu marchnata'n rhagweithiol ar gyfer eu gwerthu ac mewn achosion ble y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn y 12 mis nesaf. Fe nodir yr asedau yma ar wahân oherwydd bydd y gwerth ar y Fantolen yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r ased (neu grŵp gwaredu) yn cael ei ailbrisio yn union cyn ei ail-gategoreiddio ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Caiff gwerth teg asedau nad ydynt yn gyfredol a delir i'w gwerthu, eu mesur yn unol â'u lefel uchaf a gorau o ddefnydd. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a delir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau (neu grŵp gwaredu) bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai y delir i'w gwerthu, addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai a delir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

'Grŵp gwaredu' yw grŵp o asedau, o bosib gyda rhai rhwymedigaethau cysylltiedig, y bwriada'r Cyngor gael gwared â nhw mewn un trafodyn unigol. Defnyddir y sail sy'n ofynnol ar gyfer mesur Asedau nad ydynt yn Gyfredol a ddosberthir fel rhai a delir i'w gwerthu i'r grŵp cyfan, ac mae unrhyw golled ddilynol yn lleihau swm cario'r Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn y grŵp gwaredu yn y drefn ddosbarthu sy'n ofynnol gan IAS 36.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu.

### 8.6 Cael Gwared ar Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddigomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau a delir i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r budd neu'r golled ar adeg gwaredu. Caiff y gost hon ei throsglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r budd neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf ac ni fedrir ond eu defnyddio wedyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol y Cyngor i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

### 8.7 Asedau nad oes eu hangen mwyach

Gwerth teg asedau nad oes eu hangen mwyach yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar adeg mesur. Bydd hyn yn seiliedig ar y lefel uchaf a gorau o ddefnydd.

### 8.8 Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn. Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o Asedau Treftadaeth diriaethol megis adeiladau hanesyddol a gwaith celf.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol).

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a pherthnasol i'r ased unigol neu ddosbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronedig, amorteiddio a cholledion amhariad fel sy'n briodol). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyfredol, ac ar gyfnodau dim mwy na phum mlynedd. Mewn achos lle na fedrir penderfynu ar gost neu werth Ased Treftadaeth heb fynd i gost anghymesur, ni fydd yr asedau'n cael eu cydnabod yn y Fantolen. Yn lle hynny, bydd yr ased yn cael ei datgelu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail â chategorïau eraill o asedau (am fanylion, gweler y Polisi Cyfrifo am Ddibrisiant, 8.4 uchod).

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol a gwerth gweddilliol uchel. Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad, er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuon newydd yn codi ynglŷn â'i ddilysrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler Polisi Cyfrifo 8.3, Amhariad). Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i gaffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriel Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae'r Eiddo Treftadaeth yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw, tra'n ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

**8.9 Trin Asedau Ysgol**

Cymerir yn ganiataol mai awdurdodau lleol sy'n rheoli'r ysgolion y maent yn eu cynnal. O'r herwydd, caiff asedau, rhwymedigaethau, arian wrth gefn a llif arian yr ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor.

Ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff sefydledig sy'n berchen ar, ac yn rheoli, tir ac adeiladau ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig ac, o'r herwydd, ni chânt eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor.

Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion cymunedol ei ychwanegu at falansau'r ysgolion hynny. Caiff balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2018 eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor oherwydd eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gyllidebau a ddatganolwyd i'r ysgolion sydd heb eu gwario.

I bwrpas cyfrifo, mae asedau Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol ac Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol fel a ganlyn:-

- Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol: mae'r tir wedi ei gynnwys ar y Fantolen ond nid yr adeiladau;
- Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol: nid yw'r tir na'r adeiladau wedi eu cynnwys ar y Fantolen; a
- Yn ychwanegol, nid yw'r tir na'r adeiladau yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys ar y Fantolen oherwydd mae'r asedau hyn wedi eu breinio gydag ymddiriedolwyr yr ysgol.

## 9. Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw'r tir a'r adeiladau hynny a ddefnyddir i bwrpas cynhyrchu rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf yn unig. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael eu cydnabod pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd cynlluniedig ar gyfer y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur mewn modd dibynadwy gost neu werth teg yr eiddo buddsoddiad hwnnw. Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac, wedyn, yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu ar faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Yn unol a'r Côd, rhaid prisio Eiddo Buddsoddiad yn ôl y defnydd mwyaf a gorau y gellir ei wneud ohonynt, waeth beth fo bwriadau'r Cyngor ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu bod defnydd amgen wedi cael ei ystyried ar gyfer pob eiddo buddsoddiad ac, os byddai modd defnyddio'r eiddo i bwrpas arall a hynny'n codi ei werth teg, yna dylid defnyddio'r gwerth teg hwnnw. Nid yw'r eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff eu hailbrisio'n flynyddol yn unol ag IFRS 13 yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbrisio'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, dan drefniadau statudol, ni chaniateir i enillion a cholledion a geir yn sgil ailbrisio a gwerthu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

## 10. Asedau Annirweddol

Mae asedau annirweddol yn asedau nad ydynt yn gyfredol nac yn ariannol y gellir eu hadnabod ar wahân ond nid oes ganddynt sylwedd ffisegol (er enghraifft, meddalwedd cyfrifiadurol). Caiff y rhain eu rheoli gan y Cyngor oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol. Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Cyngor neu ei wasanaethau. Caiff gwariant ar asedau annirweddol eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased annirweddol i'r Cyngor.

Yn y lle cyntaf mesurir asedau annirweddol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbrisio hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Cyngor yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes yr un o'r asedau annirweddol y mae'r Cyngor yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac, felly, cânt eu cario yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig. Mae swm dibrisiannol ased annirweddol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar asedau annirweddol yn flynyddol a phryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased. Mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased annirweddol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei nodi yn erbyn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau annirweddol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

## 11. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu net - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sydd yn y broses o gael ei wneud yn cael ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.

## 12. Arian Parod a Chywerthoedd Arian

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthoedd arian yn fuddsoddiadau hynod o hylifol sy'n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o'r dyddiad prynu ac yn rhai y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod heb beri unrhyw risg o bwys yn sgil newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian Parod, dangosir arian parod a'i gywerth net o'r gorddrafftiau banc sy'n daladwy ar alw ac maent yn rhan hanfodol o reolaeth arian parod y Cyngor.

## 13. Offerynnau Ariannol

Caiff offerynnau ariannol eu mesur yn ôl eu gwerth teg yn unol ag IFRS 13. Gwerth teg offerynnau ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar ar y farchnad ar y dyddiad mesur.

### 13.1 Rhwymedigaethau ariannol

Rhwymedigaeth ariannol yw'r angen i drosglwyddo budd economaidd a rheolir gan yr Awdurdod i endid arall, er enghraifft, drwy daliad ariannol neu drwy drosglwyddo asedau/rhwymedigaethau. Mae benthyciadau'r Awdurdod gan PWLB yn esiamplau o rwymedigaethau ariannol. Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod yn y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau contract offeryn ariannol. Bydd rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cario ar gost wedi ei hamorteiddio er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor wedi cael rhai costau mewn perthynas â'r trafodiad neu fod angen iddo ymestyn oes y rhwymedigaeth ariannol dros oes yr offeryn. Mae'r treuliau blynyddol yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth a gludir, wedi ei luosi gan y gyfradd llog mewn grym ar y pryd mewn perthynas â'r offeryn hwnnw. Y cyfradd llog a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod yn y dyfodol a amcangyfrifir dros oes yr offeryn yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf.

Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Cyngor, y swm sydd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu ynghyd â llog sydd wedi cronni. Y llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyca.

Mae'r enillion neu'r colledion wrth ail-brynu neu wrth setlo'r benthyciad yn gynnar yn cael eu dangos fel credyd neu ddebyd yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn ail-brynu/setlo. Fodd bynnag, pan fo ail-brynu wedi digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyca, polisi'r Awdurdod yw lledaenu'r enillion neu'r golled dros y cyfnod sy'n weddill o'r benthyciad. Mae hyn yn golygu bod y premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu at gost amorteiddio'r benthyciad newydd neu'r un diwygiedig a'i gofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad trwy wneud diwygiad i'r gyfradd log weithredol.

Pan fo premiwm neu ddisgownt wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu lledaenu, dros flynyddoedd yn y dyfodol, unrhyw effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Polisi'r Cyngor yw lledaenu'r enillion neu'r colledion dros weddill tymor y benthyciad yr oedd y premiwm yn cael ei dalu drosto neu'r disgownt a fyddai'n cael ei dderbyn ar adeg ad-dalu. Mae cysoni symiau a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r taliad net o Falans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

## 13.2 Asedau ariannol

Dosberthir asedau ariannol yn ddau gategori:-

- Benthyciadau a derbyniadau posib - asedau sydd â thaliadau sefydlog neu benodadwy ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol;
- Asedau sydd ar gael i'w gwerthu - asedau sydd â phris marchnad a ddyfynnwyd ac/neu sydd heb daliadau sefydlog neu benodadwy.

### 13.2.1 Benthyciadau a derbyniadau posib

Cydnabyddir benthyciadau a derbyniadau posib ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac, ar y cychwyn, maent yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg. Mae enghreifftiau'n cynnwys adneuon tymor byr a buddsoddiadau mewn cyfrifon y gellir cael mynediad atynt ar unwaith. Wedi hynny, cânt eu mesur yn ôl y gost amorteiddio. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario ased wedi ei luosi gan y raddfa log sy'n berthnasol i'r offeryn.

Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau a drefnwyd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog sydd wedi cronni) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer derbyniadau sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol llif arian diwygiedig yn y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol gwreiddiol yr ased.

Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod ased yn cael eu dangos fel credyd neu ddebyd yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer gyfyngedig o fenthyciadau i weithwyr am lai na'r cyfraddau ar y farchnad (benthyciadau 'meddal', er enghraifft y Cynllun Benthyciadau Ceir). Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod gwerth y benthyciadau unigol a'r llog yn isel iawn ac, o'r herwydd, nid yw wedi addasu'r cofnod Incwm a Gwariant ar gyfer y benthyciadau meddal hyn.

#### 13.2.2 Asedau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu

Nid oes gan y Cyngor asedau ariannol ar gael i'w gwerthu ac yn annhebygol o gael rhai yn y tymor byr gan ni chynhwysir yr asedau ariannol yma yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19.

## 14. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

### 14.1 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol i'r Cyngor sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth posibl, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y Cyngor yn rhan o achos llys fyddai'n debygol o arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifiedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i rhoddi mewn credyd yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol ond os oes sicrwydd go bendant y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

Mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth ar gyfer costau setlo hawliadau ar gyfer ôl-dâl yn codi o daliadau gwahaniaethol a wnaed cyn i'r Awdurdod weithredu ei Strategaeth Tâl Cyfartal. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn caniatáu i setliadau gael eu cyllido o'r Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn y gwnaed y taliadau mewn gwirionedd yn hytrach na'r flwyddyn pan gafodd y ddarpariaeth ei sefydlu. Mae'r ddarpariaeth, felly'n cael ei chydbwyso gan Gyfrif Ôl-dâl Tâl Anghyfartal sydd, yn effeithiol, yn canslo'r darpariaeth i sero. Petai unrhyw hawliadau tâl cyfartal yn cael eu cyllido o'r gronfa gyffredinol yn y flwyddyn, caiff y taliadau yma eu tynnu o'r Ddarpariaeth Tâl Cyfartal a'r gronfa wrth gefn Ôl-dâl Tâl Anghyfartal na ellir ei ddefnyddio. Yn debyg, petai cyfarwyddyd cyfalafu yn cael ei gymhywso yn ystod y flwyddyn, yn unol â hynny bydd rhaid lleihau y Ddarpariaeth Tâl Cyfartal a'r gronfa wrth gefn Ôl-dâl Tâl Anghyfartal na ellir ei ddefnyddio. Byddent yn cael eu lleihau ar gyfer y swm a gyllidir gan y cyfarwyddyd cyfalafu. Dylai'r balans ar y ddarpariaeth a'r gronfa wrth gefn berthnasol adlewyrchu yr hawliadau sydd heb eu setlo ac unrhyw hawliadau newydd y dyfodol yn unig.

### 14.2 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib ar y Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon (Nodyn 42).

### 14.3 Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor.

Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib (Nodyn 43).

## 15. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn cadw amryw o gronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae ei asedau'n fwy na'i ymrwymiadau ac unrhyw gyfyngiadau, statudol neu wirfoddol, a roddir ar y defnydd o'r balansau hyn. Mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn y mae'n dymuno eu clustnodi i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn neu i reoli llif arian. Ceir crynodeb o'r rhan yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff Cronfeydd wrth Gefn eu creu trwy drosglwyddo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y Dreth Gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Cyngor - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisïau a'r nodiadau perthnasol.

## 16. Cydnabyddiaeth Refeniw

Caiff refeniw ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd ei ennill yn hytrach na phan gafodd yr arian ei dderbyn. Mae hyn yn ymwneud ag incwm a geir o werthu nwyddau (a gynhyrchir gan y Cyngor i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), darparu gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau a wnelont yn uniongyrchol â chontractau adeiladu), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y Dreth Gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw. Caiff refeniw ei gydnabod hefyd ar enillion a all godi neu beidio o weithgareddau cyffredin megis enillion ar ail-brisio asedau nad ydynt yn gyfredol, enillion ar werthu asedau nad ydynt yn gyfredol ac enillion ar asedau ariannol ar-gael-i'w-gwerthu. Lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant, dim ond yr incwm a delir i'r Cyngor ar gyfer ei rôl fel asiant fydd yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon. Ni fydd y swm sy'n gysylltiedig â'r trydydd parti (sef y prif swm) yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon.

Mae refeniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Dyma'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad busnes trefnus rhwng y rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar y dyddiad mesur. Bydd ad-daliadau a setliadau ariannol, lle'n berthnasol, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth fesur gwerth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd.

Os yw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei lleihau i'w gwerth presennol er mwyn sicrhau gwerth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel refeniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae derbyniadau tymor byr heb raddfa llog dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol pan fo effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. refeniw yng nghyswllt y Dreth Gyngor a threthi cyffredinol ac, felly, mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

## 17. Llog Mewnol

Buddsoddir balansau arian gan y Cyngor yn unol â'i Bolisïau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi ac fe gronnir a chredydir y llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chronfeydd trydydd parti eraill ar sail y raddfa llog cyfartaledig a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai Cronfeydd wrth Gefn yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

## 18. Prydlesau

Lle mae hynny'n berthnasol ac yn hanfodol, caiff prydlesau eu categoreiddio fel prydlesau ariannol lle mae telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r enillion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yr eiddo, offer neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw brydlesau o'r math yma ac, o'r herwydd, mae'r prydlesau y mae'r Cyngor yn eu dal yn cael eu categoreiddio fel prydlesau gweithredu. Lle mae prydles yn ymwneud â thir ac adeiladau, caiff y tir a'r adeiladau eu categoreiddio ar wahân. Caiff trefniadau nad ydynt â statws gyfreithiol prydles ond sy'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad eu cyfrif amdanynt dan y polisi hwn lle mae cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol. Mae asedau wedi cael eu hadolygu gan gymryd i ystyriaeth lefel bwysigrwydd y rhenti blynyddol a gwerthoedd cyfalaf ac mae eu cynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar y lefelau hyn.

### 18.1 Y Cyngor fel Prydlesai

#### 18.1.1 Prydlesau Ariannol

Os yn berthnasol ac o werth sylweddol, byddai eitemau Eiddo, Offer a Chyfarpar a ddelir dan brydlesau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl eu gwerth teg wedi ei fesur ar adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth cyfredol y taliadau isaf ar y brydles os ydynt yn is na'r gwerth teg). Wrth gydnabod yr ased, gwneir ymrwymiad cyfatebol i dalu i'r prydleswr. Caiff y costau uniongyrchol cychwynnol i'r Cyngor eu hychwanegu at swm cario'r ased. Caiff premiymau a delir ar adeg sefydlu prydles eu defnyddio i ddibrisio ymrwymiad y brydles. Caiff rhenti wrth gefn eu codi fel treuliau yn ystod y cyfnodau y bu iddynt godi.

Caiff taliadau prydles eu rhannu rhwng:-

- taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y brydles; a
- tâl ariannol - sy'n cael ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os yw eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu cydnabod dan brydlesau ariannol, yna byddid yn cyfrifo amdanynt drwy ddefnyddio'r polisïau sy'n gyffredinol berthnasol i asedau o'r fath ar yr amod y codir am ddibrisiant yn ystod cyfnod y brydles os yw'r cyfnod hwnnw'n llai na oes ddefnyddiol dybiedig yr ased (lle nad yw perchenogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi'r Dreth Gyngor i dalu costau dibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad sy'n codi mewn perthynas ag asedau a brydlesir. Yn lle hynny, gwneir cyfraniad blynyddol call o'r arian refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Yn lle dibrisiant ac ailbrisio a cholledion amhariad, felly, ceir cyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol a hynny drwy addasiad yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i gyfrif am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

#### 18.1.2 Prydlesau Gweithredol

Caiff rhent a delir mewn perthynas â phrydlesau gweithredol ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, offer neu gyfarpar a brydlesir. Codir tâl ar sail linell syth dros gyfnod oes y brydles, hyd yn oed oes nad yw hyn yn cyfateb i batrymau taliadau (e.e. cyfnod o rent am ddim ar gychwyn y brydles).

### 18.2 Y Cyngor fel Prydleswr

#### 18.2.1 Prydlesau Ariannol

Os bydd y Cyngor yn caniatáu prydles ariannol ar gyfer eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, yna caiff yr ased berthnasol ei ddibrisio ar y Fantolen fel un y cafwyd gwared arni. Os yn berthnasol, ar gychwyn y brydles bydd swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu'n Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) yn cael ei ddibrisio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni. Caiff enillion, sy'n cynrychioli buddsoddiad net yr Awdurdod yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion ar adeg cael gwared arni (h.y. yn cael ei ddebydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg cael gwared arni), gyda chofnod o ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen. Caiff rhent a geir ar gyfer prydles ei rannu rhwng:-

- Taliadau ar gyfer prynu'r budd yn yr eiddo a ddefnyddir i ddibrisio ymrwymiad y corff a brydlesodd yr ased (ynghyd ag unrhyw bremiymau a dderbyniwyd); ac
- Incwm Cyllido, sy'n cael ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Yn unol â statud, ni chaniateir defnyddio'r enillion a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar adeg cael gwared â'r ased i ychwanegu at Falans y Gronfa Gyffredinol a rhaid trin hyn fel derbyniad cyfalaf. Lle derbyniwyd premiwm, rhaid symud hwn allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle bydd y swm sy'n daladwy mewn perthynas â'r ased a brydlesir yn cael ei setlo drwy dalu rhent yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod, caiff hyn ei symud allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf sydd wedi eu Gohirio yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd rhenti'n cael eu derbyn yn y dyfodol, bydd yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar ôl cael gwared o'r eiddo yn cael eu defnyddio i ddileu'r swm sy'n ddyledus gan y corff a brydlesodd yr ased. Bryd hynny, bydd y derbyniadau cyfalaf sydd wedi eu gohirio yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

Nid yw gwerth dileu asedau y ceir gwared arnynt yn cael ei godi yn erbyn y dreth gyngor oherwydd gwneir darpariaeth lawn ar gyfer costau asedau nad ydynt yn gyfredol mewn trefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff y symiau, felly, eu trosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

### 18.2.2 Prydlesau Gweithredol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

## 19. Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Caiff y symiau canlynol eu codi ar wasanaethau a gwasanaethau cefnogol er mwyn cofnodi'r costau gwirioneddol sydd ynghlwm wrth ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisio asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth;
- Ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion wedi cronni yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Ailbrisio y gellid gwrthbwyso'r colledion yn eu herbyn; a
- Amorteiddio asedau annirweddol a briodolir i'r Gwasanaeth.

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i gwrdd â'r costau hyn. Fodd bynnag, rhaid iddo neilltuo cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at ei anghenion benthyca yn gyffredinol. Caiff y costau hyn, felly, eu disodli gan y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i gyfrif am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Cyhoeddwyd rheoliadau newydd gan Lywodraeth Cymru yn 2008/09 yn gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer MRP, gan gynnwys opsiwn i ddarparu MRP am oes yr ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio MRP hyd oni fydd yr ased yn cael ei chomisiynu.

Mae'r Cyngor, fodd bynnag, yn parhau i gyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg ganlynol mewn perthynas â'r gofyniad cyllido cyfalaf:-

Caiff darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ei gyfrif fel 2% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) agoriadol y CRT. Mae darpariaeth Cronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar 4% o'r CFR agoriadol nad yw'n CRT ar gyfer yr holl brosiectau ac eithrio prosiectau a gyllidir drwy fenthyciadau digefnogaeth. Mae'r MRP ar gyfer y prosiectau hyn yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased. Cyfyd eithriad i'r polisi hwn o ran gwariant sy'n amodol ar gyfarwyddyd cyfalafu a gyhoeddwyd dan Adran 40(6) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Bydd unrhyw wariant o'r fath yn cael ei amorteiddio naill ai yn unol â'r polisi uchod neu dros nifer y blynyddoedd a nodir yn y cyfarwyddyd.

Caiff trafodion mewn perthynas ag eiddo buddsoddiad eu cofnodi yn erbyn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 20. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:-

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau; ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm i'r grant neu'r cyfraniad yn cael eu bodloni. Amodau grant yw'r gofynion y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y grant, er enghraifft ar gyfer adeiladu ysgol neu allbynnau allweddol a benodir o fewn yr amdodau. Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn y llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei symud i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

Mae rhai cyrff sy'n rhoddi grantiau yn gosod cyfyngiadau neu'n pennu i ba bwrpas y gellir defnyddio'r grant ond nid ydynt yn dweud a fydd angen ad-dalu'r grant ai peidio.

## 21. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

## 22. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y gwasanaethau hynny sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Awdurdod ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol ar gyfer y pwrpas o gyfrifyddu cost-llawn ar gyfer dychweliadau ystadegol statudol, er enghraifft, dychweliadau blynyddol RA a RO Llywodraeth. Fodd bynnag, ar gyfer monitro'r gyllideb a'r cyfrifon blynyddol statudol, fe eithrir ad-daliadau ac fe adroddir ar wasanaethau corfforaethol a chefnogol fel cylchrannau gwasanaeth ac fe'i ddelir yn gyfrifol am reolaeth cyllideb.

## 23. Arian Tramor

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau a gaiff gymorth grant o Ewrop lle mae'r grantiau efallai'n cael eu dyrannu mewn Ewros (mai nifer y cynlluniau hyn yn lleihau). Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn. Caiff y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn ei drosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid fel yr oeddynt ar 31 Mawrth gyda'r enillion neu'r colledion canlyniadol yn cael eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 24. Buddiannau'r Gweithwyr

### 24.1 Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn – buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Cyngor. Darperir ffigwr gronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd *in lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae'r ffigwr cronnol yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y gweithiwr yn cymryd y budd. I atal amrywiadau gael effaith ar y Dreth Gyngor, mae'r newidiadau blwyddyn ar flwyddyn yn y gost a gynhyrchir gan y cronni yma'n cael ei godi yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Cyngor yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini nad oes disgwyl y byddant yn cael eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

### 24.2 Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Codir y buddiannau hyn ar sail gronnol i'r llinell gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na fedr y Cyngor mwyach dynnu'n ôl y cynnig o'r buddiannau hynny neu mewn achosion lle mae'r Awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ychwanegu at bensiynau (fel arfer ar ffurf blynyddoedd ychwanegol), mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifiwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad yn y Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer ychwanegiadau pensiwn a dalwyd fel buddiannau ar adeg terfynu cyflogaeth a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

### 24.3 Buddiannau Ôl-Gyflogaeth

Mae gan weithwyr y Cyngor hawl i fod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:-

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran yr Adran Addysg; a
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a phensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

### 24.4 Cynllun Pensiwn Athrawon

Oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon, nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly, mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 24.5 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gall unrhyw weithwyr (ac eithrio athrawon) a Chynghorwyr, yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, ymuno gyda'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Llywodraeth Leol. Enw'r Cynllun yw Cronfa Bensiwn Gwynedd a chaiff ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar ran y cyflogwyr sy'n rhan ohono. Yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol (IAS 19), mae'r Cynllun ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel cynllun buddiannau diffiniedig.

Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr, ayyb., a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol.

Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt real, yn seiliedig ar raddfa dychweliad arwyddol ar fondiau Llywodraeth y DU wedi ei addasu ar gyfer ychwanegiad at y cynnyrch sy'n adlewyrchu'r risg ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cynnyrch Bondiau Corfforaethol AA - a adwaenir fel taeniad credyd.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-

- Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol;
- Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol;
- Stociau fesul uned - pris bid bresennol; a
- Eiddo – eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul pedwar rhan:-

**a)** Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei ddyrannu yn y Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt;

**b)** Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynyddoedd y gorffennol - debyd i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir. Llog net ar yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig, h.y. y costau llog net i'r Cyngor - mae'r newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig sy'n codi o dreigl amser yn cael ei godi i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei glandro drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod, i'r ymrwymiad net diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig net (yr ased) yn ystod y cyfnod fel canlyniad cyfraniadau a thaliadau buddiannau);

**c)** Ail-fesuriad yn cynnwys:-

- Yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y llog net ar fuddiannau net diffiniedig) sy'n cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall;
- Enillion a Cholledion Actiwaraidd - newidiadau yn yr ymrwymiadau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau. Mae hyn yn cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall;

**ch)** Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifiwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad yn y Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau felly'n fesur o'r manteision i'r Gronfa Gyffredinol yn sgil yr arfer o gyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na fel buddiannau a enillir gan weithwyr.

### 24.6 Buddiannau Dewisol

Yn ogystal, mae gan y Cyngor rai pwerau cyfyngedig i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 25. Eitemau Eithriadol

Lle mae hynny'n berthnasol a lle mae eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol, caiff natur a swm yr eitemau eu datgelu ar wahân naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon, gan ddibynnu ar arwyddocâd yr eitemau o ran cael dealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor.

## 26. Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig)

Gan fod y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar gyfer casglu incwm TA, nid yw'n cynnwys y sefyllfa ariannol o ran y trethdalwyr ac nid yw ond yn adrodd ar y sefyllfa ariannol net gyda'r Llywodraeth Ganolog yn ei Fantolen. Felly, os ydi'r swm a gesglir gan yr Awdurdod oddi ar drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu) yn fwy na delir i Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth, mae'r swm sydd heb ei dalu eto i Lywodraeth Cymru in cael ei gynnwys yn y Fantolen fel credydwr. Yn yr un modd, os yw'r arian a dalwyd i Llywodraeth Cymru yn fwy na'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu), mae'r swm dros ben yn cael ei gynnwys yn y Fantolen fel dyledwr. Mae'r Cyngor yn cadw cofnod o ddyledion TA, lwfansau amhariad, rhagdaliadau a gordaliadau yn ei gyfrifon; fodd bynnag, i ddiben y cyfrifon terfynol caiff y balansau hyn eu cyfuno'n un cyfrif asiantaeth, gyda'r ffigyrau ar gyfer dyledwyr/credydwyr yn ymddangos fel ffigwr net ar gyfer y gronfa genedlaethol. Cost y lwfans casglu a dderbynnir gan Gyngor Sir Ynys Môn yw incwm y Cyngor sy'n bilio a chaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Nid yw'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Llif Arian heblaw am yr arian a ddelir yn ôl mewn perthynas â'r lwfans casglu. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr TA â'r arian sydd yn cael ei dalu i'r Gronfa Drethi Annomestig yn cael ei gynnwys o fewn y gweithgareddau ariannol yn Natganiad y Llif Arian.

**27. Incwm a Gwariant Asiantaeth**

Yn unol ag amryfal bwerau statudol, gall Cynghorau gytuno gydag awdurdodau lleol eraill, cwmnïau dŵr ac adrannau'r llywodraeth i wneud gwaith ar eu rhan. Caiff y corff sy'n gwneud y gwasanaethau asiantaeth ei ad-dalu gan y corff cyfrifol hyd at swm a gymeradwywyd ynghyd ag unrhyw gyfraniad y cytunwyd arno tuag at gostau gweinyddol. Dim ond y symiau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, er enghraifft y ffioedd a gafwyd am ddarparu gwasanaethau'r asiantaeth, fydd yn cael eu cynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithredu yn ysod y flwyddyn fel asiant ar ran:-

Llywodraeth Cymru - casglu Trethi Annomestig (TA) a thalu'r symiau a gasglwyd i Lywodraeth Cymru, llai'r swm a gadwyd yn ôl ar gyfer y lwfans costau casglu.

Llywodraeth Cymru – Benthyciadau Cartrefi Gwag, lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant rhwng Llywodraeth Cymru a derbynyddion y Benthyciadau Cartrefi Gwag.

## DATGANIAD ARIANNOL ATODOL
## CYFRIF REFENIW TAI

### Datganiad Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2018

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Gwariant** | | |
| Rheoli a Chynnal a Chadw - Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 3,322 | 3,438 |
| Rheoli a Chynnal a Chadw - Goruchwylio a Rheoli | 4,422 | 3,664 |
| Rhenti, Ardrethi, Trethi a Thaliadau Eraill | 3 | 22 |
| Dibrisiant, Amhariad a Cholledion Ailbrisio Asedau Nad Ydynt yn Gyfredol | 10,652 | 10,733 |
| Costau Rheoli Dyled | 12 | 12 |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | (52) | 40 |
| Symudiad yng Nghroniad Absenoldebau Cronedig | 8 | 10 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **18,367** | **17,919** |
| **Incwm** | | |
| Rhenti Preswyl | (16,125) | (14,954) |
| Rhenti Dibreswyl | (216) | (219) |
| Taliadau am Wasanaethau a Chyfleusterau | (97) | (167) |
| Cyfraniadau tuag at Wariant | (128) | (91) |
| Arall | (202) | (174) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(16,768)** | **(15,605)** |
| **Gwariant Net Gwasanaethau CRT fel yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan** | **1,599** | **2,314** |
| Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd | **56** | 56 |
| **Gwariant Net Gwasanaethau CRT** | **1,655** | **2,370** |
| **Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Incwm a Gwariant Gweithredol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan** | | |
| (Ennill) ar werthiant Asedau Nad Ydynt yn Gyfredol CRT | (2) | (496) |
| Ailbrisio Asedau | - | - |
| Llog Taladwy a Thaliadau Cyffelyb | 1,858 | 2,029 |
| Llog ac Incwm o Fuddsoddiad | (10) | (20) |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Derbyniadwy: | - | - |
| - Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,659) | (2,660) |
| - Arall | (32) | (67) |
| **Diffyg am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT** | **810** | **1,156** |

## Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT

### Eitemau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans CRT am y flwyddyn

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Blaenorol | (7,544) | (7,042) |
| | - | - |
| Diffyg/(Gwarged) am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT | 810 | 1,156 |
| Addasiadau rhwng Seiliau Cyfrifo ac Ariannu yn ôl Statud | (781) | (1,658) |
| **Gostyngiad/(Cynnydd) Net cyn Trosglwyddiadau i / o Gronfeydd Wrth Gefn** | **29** | **(502)** |
| Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | - | - |
| **Gostyngiad/ (Cynnydd) Net yn y Flwyddyn ar y CRT** | **164** | **(502)** |
| | | |
| **Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Cyfredol** | **(7,380)** | **(7,544)** |

## NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI

### NODYN 1 – CYFRIF REFENIW TAI

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gofnod o wariant ar, ac incwm o, ddarparu tai Cyngor lleol, ac mae ffurf a chynnwys y Cyfrif yn cael ei ragnodi gan statud. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei "amgáu" a rhaid iddo fod yn hunangynhaliol. Mae cyfraniadau i ac o'r Cyfrif Refeniw Tai (e.e. o Gronfa'r Cyngor) yn cael eu cyfyngu i amgylchiadau arbennig.

### NODYN 2 – STOC DAI

Yn ystod 2017/18 ni werthodd y Cyngor unrhyw annedd dan y Cynllun Hawl i Brynu, ac mae'r Cynllun wedi ei atal dros dro. Yn dilyn prynu allan o'r cynllun Cymhorthdal Tai, mae gan y Cyngor bolisi o brynu anheddau addas a oedd gynt ym mherchenogaeth y Cyngor a'u dychwelyd i stoc dai'r Cyngor. Yn ystod 2017/18, prynwyd 12 eiddo o'r fath. Ar 31 Mawrth 2018, cyfanswm yr anheddau yn y stoc dai oedd 3,803, wedi eu rhannu fesul math o annedd fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| **Stoc y Cyngor** | | |
| Tai | 2,016 | 2,010 |
| Tai Unllawr | 1,044 | 1,044 |
| Fflatiau | 736 | 730 |
| Fflatiau un ystafell | 7 | 7 |
| **Cyfanswm Stoc y Cyngor** | **3,803** | **3,791** |

### NODYN 3 – GWARIANT CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **Buddsoddiad cyfalaf** | | |
| Tai | **9,291** | **8,606** |
| **Ffynonellau Cyllido** | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | (14) | (821) |
| Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill | (2,677) | (2,727) |
| Cyllido Refeniw Uniongyrchol | (6,600) | (5,058) |
| **Cyfanswm** | **(9,291)** | **(8,606)** |

Defnyddiwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £2.659m ar gyfer 2017/18 yn llawn yn ystod y flwyddyn (£2.660m yn 2016/17).

### NODYN 4 – DIBRISIANT AC AMHARIAD MEWN PERTHYNAS AG EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

| | 2017/18 Dadgydnabod £'000 | 2017/18 Dibrisiant £'000 | 2017/18 Cyfanswm £'000 | 2016/17 Dadgydnabod £'000 | 2016/17 Dibrisiant £'000 | 2016/17 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tir | - | - | **-** | - | - | **-** |
| Anheddau | 7,582 | 2,812 | **10,394** | 6,884 | 3,594 | **10,478** |
| Eiddo Arall – Asedau Gweithredol | - | 258 | **258** | - | 255 | **255** |
| | **7,582** | **3,070** | **10,652** | **6,884** | **3,849** | **10,733** |

### NODYN 5 – DERBYNIADAU CYFALAF O WAREDU TIR, TAI AC EIDDO ARALL YN Y CYFRIF REFENIW TAI

| | 2017/18 Nifer gwerthiannau | 2017/18 £'000 | 2016/17 Nifer gwerthiannau | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Anheddau Cyngor** | | | | |
| Hawl i Brynu | - | - | 9 | 804 |
| Ad-dalu disgownt | 2 | 10 | - | - |
| **Derbyniadau Arall** | - | - | - | - |
| Gwerthiant tir | 2 | 4 | 1 | 17 |
| Gwerthiant eiddo arall | - | - | - | - |
| Eiddo Morgais | - | - | - | - |
| | | **14** | | **821** |
| Llai Gosod o'r Neilltu | | - | | - |
| | | **14** | | **821** |

## NODYN 6 – ÔL-DDYLEDION RHENT A DRWG DDYLEDION A DYLEDION AMHEUS

Yn ystod 2017/18, gwelwyd gostyngiad o £0.050m yn y dyledion rhenti. Gweler yn y tabl isod grynodeb o ôl-ddyledion rhenti a blaendaliadau:-

| Ôl-ddyledion Rent | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ôl-ddyledion Tenantiaid Cyfredol | 394 | 456 |
| Ôl-ddyledion Gyn-denantiaid | 257 | 228 |
| **Cyfanswm Ôl-ddyledion Rent** | **651** | **684** |
| Blaendaliadau | (186) | (169) |
| **Cyfanswm Dyled** | **465** | **515** |

Mae darpariaeth yn y Fantolen ar gyfer drwg ddyledion a dyledion amheus. Roedd y rhain yn cynnwys £0.462m yn erbyn rhenti (£0.506m yn 2016/17).

## NODYN 7 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae’r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo’r gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl ar gyfer y dyfodol. Mae’r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn gynllun a ariennir, sy’n golygu fod y Cyngor a’r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwyso rhwymedigaethau’r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo’r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae’r tâl y mae gofyn ei godi yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei seilio ar yr arian sy’n daladwy yn y flwyddyn, felly, mae cost wirioneddol buddiannau ymddeoliad yn cael ei wyrdroi allan o’r Cyfrif Refeniw Tai ar ôl Gwariant Gweithredu Net. Mae’r trafodion canlynol wedi’u gwneud yn y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn:-

| Cyfrif Incwm a Gwariant CRT | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost Gwasanaeth Gyfredol | (318) | (270) |
| Cyfraniadau Cyflogwr a dalwyd yn wirioneddol | 318 | 270 |
| **Cyfraniad i’r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn** | - | - |

Ni fu’n bosib pennu faint o gost llogau pensiwn a dychweliad disgwyliedig ar yr asedau'r adroddiad actiwarïaid sy’n gysylltiedig â’r Cyfrif Refeniw Tai, felly, mae’r rhain wedi eu dyrannu’n llawn i Gronfa’r Cyngor.

| DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI | |
|---|---|
| Age Concern Gwynedd a Môn | Jim Evans |
| Grŵp Mynediad Ynys Môn | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Sioe Amaethyddol Môn | Kenneth P Hughes |
| Cyngor Iechyd Cymuned Ynys Môn | Jeffrey M Evans |
| Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Gwynedd a Môn | Llinos Medi Huws |
| Canolfan Gynghori at Bopeth Ynys Môn | Nicola Roberts |
| Fforwm Iaith Môn | R Meirion Jones, Ieuan Williams |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Lewis Davies, Richard Dew, Victor Hughes, Dafydd Roberts, Robin Wyn Williams, Eric Wyn Jones, Nicola Roberts |
| Grŵp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr | Llinos Medi Huws |
| Pencampwr Gofalwyr | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Pencampwr Diogelu Oedolion | Llinos Medi Huws |
| Pencampwr Plant Mewn Gofal | Richard Griffiths |
| Pencampwr Amrywiaeth | Margaret Murley Roberts |
| Pencampwr Cydraddoldeb | Nicola Roberts |
| Pencampwr Aelodau | Robert Llewelyn Jones |
| Pencampwr Sgriwtini | Aled Morris Jones |
| Pencampwr Lluoedd Arfog | Richard Dew |
| Pencampwr Plant a Phobl Ifanc | Llinos Medi Huws |
| Cyngor Iechyd Cymuned | Dylan Rees |
| Llys Llywodraethwyr Prifysgol Bangor | R Meirion Jones |
| Cwmni CYNNAL AGM | Margaret Murley Roberts |
| Cwmni Fran Wen | Vaughan Hughes |
| Pwyllgor Rheoli CYNNAL | R Meirion Jones, Dafydd Roberts |
| Partneriaeth Cyrchfan Môn | Richard Dew |
| Panel Maethu | Richard Griffiths |
| Grŵp Llandrillo/Menai | R Meirion Jones |
| Cyd-Bwyllgor GwE | R Meirion Jones |
| Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | Llinos Medi Huws |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn | Llinos Medi Huws |
| Pwyllgor Cyswllt Gwynedd (Cronfa Bensiwn) | Hywel Eifion Jones |
| Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | John Griffith |
| Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd | John Griffith, Kenneth P Hughes, William Thomas Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas, Richard Griffiths |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | R Meirion Jones |
| Cyd-Bwyllgor Cymru | John Griffith, Dafydd Rhys Thomas |
| Panel Polisi ar y Cyd | Richard Dew |
| Awdurdod Addysg Leol | Gwilym O Jones |
| Medrwn Môn | Llinos Medi Huws |
| Bwrdd Aelodau Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW) | R Meirion Jones, Robert G Parry OBE FRAgS |
| Menter Môn | Ieuan Williams |

| DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI | |
|---|---|
| Cronfa'r Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer Ynys Môn 1957 | Jim Evans |
| Cyd-Bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | Victor Hughes, Robert G Parry OBE FRAgS |
| Panel Mabwysiadu Gogledd Cymru | Jeffrey M Evans |
| Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn) | Richard Griffiths, Glyn Haynes, Dylan Rees |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Llinos Medi Huws |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Lewis Davies, Jim Evans, Dylan Rees, Eric Wyn Jones |
| Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Jim Evans, Dylan Rees |
| Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Richard Griffiths, Eric Wyn Jones |
| Cymdeithas Tai Gogledd Cymru | Alun Wyn Mummery |
| Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru | Llinos Medi Huws |
| Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Dylan Rees |
| Grŵp Llywio Adolygiad Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Cyd-Bwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | Richard Dew, Rober G Parry OBE FRAgS |
| Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru | Llinos Medi Huws |
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | Llinos Medi Huws |
| Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru (Panel Penodi ar y Cyd) | John Griffith |
| Pencampwr Pobl Hyn | Robert Llewelyn Jones |
| Ymddiredoliaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhoslligwy | Vaughan Hughes |
| Pwyllgor Pensiynau (Cyngor Gwynedd) | Hywel Eifion Jones |
| Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Môn & Gwynedd) | Llinos Medi Huws |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Llinos Medi Huws |
| Cymdeithas Frenhinol Lleng Brydeinig | Trefor Lloyd Hughes |
| SACRE | Bryan Owen |
| Partneriaeth Cronfa Datblygu Cynaliadwy | Richard Dew |
| TALNET (Cymdeithas Lyfrydol ar y cyd) | Richard Dew, Vaughan Hughes |
| Ymddiredoliaeth yr Harbwr, Caernarfon | Robert G Parry OBE FRAgS |
| Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | Jim Evans, Kenneth P Hughes, Llinos Medi Huws, R Meirion Jones, Alun Wyn Mummery, Alwyn Roberts, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones |
| Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru | Llinos Medi Huws, J Arwel Roberts, Ieuan Williams |
| Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa | John Griffith, Kenneth P Hughes, William Thomas Hughes, Llinos Medi Huws, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Richard Owain Jones, Alwyn Rowlands, Richard Griffiths |
| Cymdeithas Gemau Ynys (Ynys Môn) | Richard Owain Jones |

Noder os gwelwch yn dda nad oedd Cynghorwyr Jim Evans, Jeff Evans, Hywel Eifion Jones, Victor Hughes ac Alwyn Roberts sy'n gynwysedig yn y rhestr yma yn cynrychioli'r Cyngor yn y Mudiadau yma ar ôl dyddiad yr etholiad ym Mai 2017. Roedd yr unigolion yma naill ai wedi dewis peidio a sefyll yr etholiad neu heb gael eu hail ethol ym Mai 2017.

# GEIRFA

**ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**
Mae Addasiad Blwyddyn Flaenorol yn addasiad perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol arferol neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

**ADNODDAU HYLIFOL**
Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:-

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar, neu'n agos at, y swm a gludir; neu

- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

**AMHARIAD**
Lleihad mewn gwerth ased nad yw'n gyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

**ARIAN A NEILLTUIR (APPROPRIATION)**
Y symiau a drosglwyddir rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r cronfeydd refeniw neu gyfalaf wrth gefn.

**ARCHWILIO CYFRIFON**
Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

**ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN**
Dyma'r arian mewn llaw, arian a ordynnwyd, arian a ddelir mewn cyfrifon banc a buddsoddiadau tymor byr (e.e. 3 mis) ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau ariannol sy'n hysbys.

**ASED**
Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:-

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu â gwerth isel iawn yn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);

- Mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu annirweddol (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

**ASED WRTH GEFN**
Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

**ASEDAU ANNIRWEDDOL**
Gellir diffinio eitem annirweddol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Annirweddol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

**ASEDAU CYMUNEDOL**
Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

**ASEDAU ISADEILEDD**
Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus o'r ased a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

**ASEDAU GWEITHREDOL**
Asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

**ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**
Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwarged i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

**ASEDAU TREFTADAETH**
Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

**BENTHYCA DI-GEFNOGAETH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca â chefnogaeth y Llywodraeth i ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i ariannu rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad ariannu ar gyfer y Cyngor.

**BUDD-DALIADAU TAI**
System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

**BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**
Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

**BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**
Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

**BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**
Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

**BUSNES HYFYW**
Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca ei hun.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CONTRACT TYMOR HIR**
Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

**CORFFORAETHOL A CRAIDD DEMOCRATAIDD**
Mae'r Corfforaethol a Craidd Democrataidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly, mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

**COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**
Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

**COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**
Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

**COSTAU HEB EU DOSBARTHU**
Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr ac, fel y cyfryw, nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

**COST LLOG (PENSIYNAU)**
Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

**CREDYDWR**
Swm sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau eraill gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

**CRONFEYDD WRTH GEFN**
Croniad gwarged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf, fel y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, i gwrdd â gwariant cyfredol.

**CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY**
Symiau penodol a osodir o'r neilltu ar gyfer pwrpasau polisi'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Gall eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau trethi.

**CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO**
Y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i amsugno'r gwahaniaeth rhwng y canlyniad o ddefnyddio ymarferion cyfrifo cywir gofyniad am drefniadau statudol ar gyfer ariannu gwariant. Mae cronfeydd wrth gefn o'r fath yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu mewn perthynas ag ail-brisio eiddo, offer a chyfarpar ble mae rhaid gwerthu'r ased cyn i'r gwerth fod ar gael.

**CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**
Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

**CRONIADAU**
Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd yn y flwyddyn neu incwm a gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

**CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**
Yr holl symiau a delir i, neu sy'n dderbyniadwy gan, weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

**CYFNOD CYFRIFO**
Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen, fel arfer 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

**CYLLIDEB**
Datganiad o faint o arian y mae'r Cyngor wedi ei neilltuo i bob gwasanaeth a swyddogaeth i'w wario neu ei godi mewn incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**
Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

**CYSONDEB**
Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

**DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO**
Mae'r datganiad yn anelu i ddangos sut defnyddir gwariant blynyddol a sut y'i gyllidiri o adnoddau. Dangosa'r golofn gynta, y gwariant net a godir i'r Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT, y gwir effaith o'r gost o ddarparu gwasanaethau am y flwyddyn, ac eithrio addasiadau cyfrifo.

**DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN**
Dangosir y datganiad y symudiad o gychyn y flwyddyn i'w diwedd ar gyfer yr holl gronfeydd wrth gefn ddefnyddiadwy a ddelir gan y Cyngor ac y gellir eu defnyddio i gyllido costau'r Cyngor neu i leihau tethiant lleol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio.

**DARPARIAETH**
Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

**DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**
Un o brif ddatganiadau ariannol y Cyngor sy'n cofnodi'r holl incwm a gwariant ar gyfer y Cyngor wedi ei gategoreiddio'n unol â gofynion safonol CIPFA fel y gellir cymharu awdurdodau.

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
Mae'r datganiad llif arian yn dangos y newidiadau yn yr arian a'r cywerthoedd ariannol sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**DIBRISIANT**
Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu anarferiant trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

**DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**
Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Terfynnol.

**DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASEDAU PENSIWN**
Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**DYLEDWR**
Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor gan unigolion neu sefydliadau eraill am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARÏAID**
I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:-

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwarïaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**GRANTIAU LLYWODRAETH**
Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfiad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

**GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**
Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol nad yw'n gyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

**GWARIANT REFENIW**
Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GWASANAETHAU ASIANTAETH**
Y Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i drydydd parti neu ar ran sefydliad arall.

**GWERTH GWEDDILLIOL**
Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

**GWERTH LLYFR NET**
Y swm y mae asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronnus ar gyfer dibrisiant.

**GWERTH NET**
Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

**GWERTH TEG**
Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

**GWERTH TRETHADWY**
Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau Trethi Annomestig.

**ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**MATEROLIAETH**
Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac, yn y pen draw, gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

**OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**
Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased nad yw'n gyfredol.

**PARTÏON CYSYLLTIEDIG**
Ceir diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn IAS 24. I bwrpasau'r Cyngor, ystyrir fod partïon cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu ardollau ar y Cyngor. Gall partïon cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartïon cydfenter ac yn enwedig Aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Pan yn ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

**PRAESEPT**
Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

**PRYDLES ARIANNOL**
Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased nad yw'n gyfredol i'r prydleswr.

**PRYDLES WEITHREDOL**
Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased nad yw'n gyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

**RHESTRAU STOC**
Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau traul, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

**RHWYMEDIGAETH**
Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwyr neu arian parod wedi'u gordynnu.

- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd, drwy drefniant, yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

**RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN**
Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:-

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n

- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

**RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**
Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcenir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

**TRETHI ANNOMESTIG (TA)**
Mae'r Trethi Annomestig yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

**TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**
Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

**Y FANTOLEN**
Datganiad o werth cywir a theg o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

# Llyfryddiaeth

CIPFA 2017. Côd Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2017. Rhestr Wirio Datgeliadau 2017/18. CIPFA, Llundain.

CIPFA 2017. Côd Ymarfer ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18, Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2016. Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau 2017/18, CIPFA, Llundain.

CIPFA 2017. Rhestr o Ddiwygiadau – Canllawiau ar gyfer Ymarferwyr 2017/18

CIPFA 2018. Bwletin 1: Cau'r Datganiadau Ariannol 2017/18. CIPFA. Llundain.

CIPFA 2018. Gweithday Cau Cyfrifon 2017/18 Briffio Diweddariad ôl-gyfres CIPFA. Llundain

CIPFA 2014. Bwletin LAAP 99: Arian Wrth Gefn a Balansau Awdurdodau Lleol. CIPFA, Llundain.

CIPFA 2016. Rôl y Prif Swyddog Ariannol yn Llywordaeth leol. CIPFA, Llundain.

Trysorlys EM 2015. Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2015/16.

Llywodraeth Cymru 2014. Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhif 3362 (W337), Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru 2018. Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) Rheoliadau 2018 Rhif 91 (W22)

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/2018

## 1. CYFLWYNIAD

Er mwyn dangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (2007) a'i atodiad 2012, a gyflwynwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol (SOLACE). Cyflwynodd 'The International Framwork of Good Governance in Local Government' (2014) set gyfredol o egwyddorion. Cyhoeddwyd Fframwaith diwygiedig ar gyfer 'Delivering Good Governance in Local Government' (Wales) yn 2016.

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion diwygiedig hynny.

Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu, ac yna fe ymgorfforwyd y rhain yng nghynllun corfforaethol blaenorol yr awdurdod a fabwysiadwyd yn Ionawr 2013 a oedd yn gosod yr agenda ar gyfer ein gwaith hyd at a gan gynnwys 2017. Mae Cynllun y Cyngor newydd yn ei le bellach a gafwyd ei fabwysiadu ym Hydref 2017 a mae hwn yn gosod pwysigrwydd ar ein trefniadau llywodraethu i alluogi i allbynnau'r cynllun gael eu cyflawni.
http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/a/a/q/Cynllun-2017---2022-29-11.pdf

At hyn, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf cynhaliwyd ein gweledigaeth gan chwe thema:-

1. **Proffesiynol a Threfnus**
2. **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**
3. **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
4. **Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl**
5. **Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth**
6. **Cyflawni**

Y gellir eu alinio at saith egwyddor craidd yng nghyhoeddiad newydd llywodraethu da yn fframwaith CIPFA/SOLACE sydd yn 'Delivering Good Governance in Local Government' (WALES) 2016 sydd wedi'i addasu at ddibenion llywodraeth leol.

**Egwyddor A**. Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r rheol gyfreithiol

**Egwyddor B**. Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

**Egwyddor C**. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision cynaliadwy, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

**Egwyddor D**. Pennu'r ymyraethau sy'n angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

**Egwyddor E.** Datblygu capasiti'r endid, yn cynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

**Egwyddor F**. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol, gadarn a rheolaeth ariannol, gyhoeddus, gref
**Egwyddor G**. Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol

Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, rydym wedi ceisio dangos sut mae'r holl themâu ac egwyddorion uchod yn ganolog i'n holl ymdrechion yn ystod 2017/18.

## 2. CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol a'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod ***gwelliant parhaus*** o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau iawn ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.


Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd llywodraethu corfforaethol lleol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Ceir copi o'r côd lleol ar ein gwefan yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r côd ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn ateb gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## 3. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gall ei rhoi o ran effeithiolrwydd. Ceir trosolwg bras o strwythur rheolaeth gwleidyddol CSYM fel darlun isod -




Mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei lle yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, ac mae'n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Nodir yn y ddogfen lle cyflwynwyd trefniadau newydd yn ystod y flwyddyn.

## 4. DADANSODDI FFRAMWAITH LLYWODRAETHU 2017/18

Disgrifir y fframwaith cyfredol fel y bo'n berthnasol i bob un o'r saith egwyddor Llywodraethu Corfforaethol yn y pynciau cydgysylltiol fel yr amlinellir a sydd ar gael yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu.

Mae'r crynodeb a ganlyn yn canolbwyntio ar y gwaith i ddatblygu a chryfhau'r fframwaith ac yn amlinellu meysydd o wendid a nodwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor A** | **Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r rheol gyfreithiol** |
| **Thema Allweddol Berthynol:** | **Proffesiynol a Threfnus** |
| | **Sicrwydd –** Mae gan y Cyngor Sir brosesau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cryf ac sy'n gyfreithlon. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymddwyn yn onest. |

Mae'r chwe thema allweddol a ymgorfforir yng **Nghynllun y Cyngor** newydd ar gyfer 2017-22 yn gosod allan gwerthoedd y Cyngor a chaiff y rhain eu gwreiddio yng ngweithgarwch trawsnewidiol y Cyngor a'i weledigaeth i'r dyfodol ar gyfer eu cyflawni. O'r herwydd, mae'r Chwe Thema Allweddol yn cynnal y ffordd gorfforaethol o feddwl a chaiff pwysigrwydd llywodraethu da ei bwysleisio yn y Cynllun Corfforaethol.

Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau yn eu lle fel rhan o'r **Cyfansoddiad** i sicrhau safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad. Ceir Polisi er Atal Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad gydag is-gynlluniau yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys Côd Ymddygiad Swyddogion, sy'n statudol. Bellach, mae Cyfarwyddyd Lleol wedi'i gyhoeddi a'i anfon at yr holl staff.

Mae'r **Swyddog Monitro** yn gweithredu fel y swyddog arweiniol ar gyfer y **Pwyllgor Safonau**, gyda saith o'i naw aelod wedi'u penodi'n allanol a'r gweddill yn Aelodau Etholedig. Mae'r Pwyllgor yn datblygu ac yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd yn hytrach na llywodraethu gwleidyddol ac mae'n cyflawni hyn yn y ffyrdd a ganlyn:-

- Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd i'r Cyngor
- Rhaglen Waith yn cael ei chymeradwyo'n flynyddol gan y Cyngor
- Pedwar cyfarfod chwarterol a chymaint o gyfarfodydd arbennig fel bo rhaid er mwyn ymdrin â chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a cheisiadau am ganiatâd arbennig
- Ymdrin ag unrhyw faterion a gyfeirir dan y Protocol Datrysiad Lleol
- Ymdrin ag unrhyw gais lleol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am wybodaeth
- Hyfforddiant a datblygiad a drefnir gan y Pwyllgor Safonau ac/neu a gynhelir gan y Pwyllgor Safonau. Eleni canolbwyntiodd y Pwyllgor Safonau ar ddatblygu'r Cynghorwyr newydd a gafodd eu hethol yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017.

Yn ategol at yr hyfforddiant i Aelodau, mae nodiadau briffio wedi'u cyhoeddi ar y meysydd pwnc a ganlyn:-

- Gosod Tai Cyngor Lleol (Wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu'r Polisi Gosod newydd)
- Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011
- Caffael Cyhoeddus
- (Wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu'r Rheolau Gweithdrefn Contractau newydd)
- Rhyddid Gwleidyddol i Lefaru v Côd Ymddygiad
- Anrhegion a Lletygarwch
- Caniatâd arbennig
- Fforwm y Pwyllgor Safonau

Gellir dod o hyd i'r pecynnau adroddiadau a chofnodion y Pwyllgor Safonau drwy ddefnyddio'r linc isod:-

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=148

Cwblheir adolygiad blynyddol o'r dair G**ofrestr o ddiddordebau Aelodau** a chyhoeddi ei gasgliadau a nodyn cynghorol i'r holl Aelodau. Eleni mae Aelodau Annibynnol y Pwyllgor a gynhaliodd yr adolygiad hefyd wedi cysylltu â phob Aelod etholedig yn uniongyrchol yng nghyswllt unrhyw faterion penodol yn ymwneud â chofrestru eu diddordebau. Am y tro cyntaf hefyd rhoddir adborth ysgrifenedig i Gynghorwyr unigol ond gan fod gan y Pwyllgor Safonau hefyd gyfrifoldebau am Gynghorwyr Cymuned, bydd y cofrestri eleni'n canolbwyntio ar gymryd samplau archwilio o ddatganiadau o ddiddordeb mewn cyfarfodydd Cynghorau Cymuned. Cynhelir y broses hon wrth adnabod risgiau.

Ceir cydweithio rhwng dau dîm rheoli'r Cyngor. Trwy gyfarfodydd y Penaethiaid ac mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gweithredu fel swyddogion cyswllt i'r Penaethiaid Gwasanaeth i sicrhau cyfathrebu clir ar sut y caiff blaenoriaethau strategol/corfforaethol eu gweithredu yn y Gwasanaethau. Mae hyn yn helpu i raeadru safonau a phenderfyniadau corfforaethol er mwyn helpu i sicrhau awdurdod proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda.

Mae Ynys Môn a Gwynedd hefyd wedi dilyn proses recriwtio ar y cyd i gael aelodau annibynnol newydd o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nawr bod tymor blaenorol y swydd wedi dod i ben.

Yn ystod 2017/18 parhaodd Archwilio Mewnol i weithredu'r safonau a osodir allan yn y 'Code of Practice for Internal Audit in Local Government in the United Kingdom, 2006' a gynhyrchwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ystod 2014/15. Mae'r Cylch Gorchwyl yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gwaith archwilio mewnol. Cafwyd adolygiad allanol o waith archwilio mewnol y Cyngor yn ystod 2017 (Mawrth), a canlyniad hwn oedd bod y gwasanaeth yn 'cydymffurfio'n gyffredinol gyda'r safonau'. Hwn oedd yr asesiad cafyddiad gorau bosib ar gael i'r asesydd allanol. Nodwyd 7 maes lle roedd angen cysidro gwelliannau. Mae 6 o'r rhain eisoes wedi ei cwblhau yn gynhwysfawr sydd yn gadael un yn weddill, h.y. i ddatblygu fframwaith sicrwydd. Caiff hwn ei wireddu drwy wreiddio system newydd o reolaeth risg yn ystod 2018.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor B:**<br><br>**Thema Allweddol Berthynol:** | **Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid**<br><br>**Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned** |
| | **Sicr –** mae'r Cyngor yn bodoli i wasanaethu ei drigolion ac mae'n ddibynnol ar amrywiaeth eang o randdeiliaid am weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori ar waith. |

Cynhelir pob **Pwyllgor Gwaith** a Chyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio pan fo eitemau eithriedig) a chaiff yr holl bapurau eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Daw pob adroddiad i bwyllgor ag adroddiad eglurhaol, sy'n rhoi crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion sy'n ceisio caniatâd a rhesymeg dros wneud yr argymhelliad hwnnw, a hynny er mwyn dangos yr ymresymiad am y penderfyniadau a'r dystiolaeth.

Mae **Blaenraglen Waith** ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgorau Sgriwtini ar gael yn gyhoeddus. Mae yno gyfnod amser clir ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau.

Fel gyda blynyddoedd blaenorol ac yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo weithio’n agos gyda’i bartneriaid allweddol yn y maes gwaith hwn er mwyn osgoi dyblygu ac i ddefnyddio’i adnoddau’n effeithiol.

Ceir tystiolaeth o ymgysylltu da ar lefel gwasanaeth sy’n dangos sut mae’r Cyngor yn rhannu ei benderfyniadau a cheir tystiolaeth o ddiwylliant cynyddol o ymddiriedaeth a dealltwriaeth gyda’i ddinasyddion e.e.

- Ymgynghori ar y Gyllideb
- Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd a phenderfyniad
- Rhaglen Ymgynghori ar y Strategaeth Dai
- Rhaglen trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn a phenderfyniad
- Ymgynghori ar Lesiant

Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn cydnabod mai ‘nid da lle gellir gwell’ piau hi o ran ehangu’r grŵp o ddinasyddion sy’n mynd ati i ymgysylltu (yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd). O’r herwydd, mae Uwch Swyddogion bellach wedi cydnabod y cyfleoedd i greu proses safonedig a symlach i ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus a’r trydydd sector.

Gan adeiladu ar lwyddiant prosiect peilot Seiriol ym Miwmares a’r cyffiniau, defnyddiwyd **model ymgysylltu cymunedol** fel sylfaen ar gyfer gwella agwedd Gorfforaethol at ymgysylltiad cymunedol. Mae’r model hwn yn hanfodol i adnabod y cymunedau a’r grwpiau hynny a fydd â diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni anghenion math lleol yn eu cymunedau. Ers dechrau ei ddefnyddio, mae’r model hwn wedi’i deilwrio i’w ddefnyddio mewn gwahanol waith ymgysylltu ac ymgynghori. Mae’r model hwn wedi’i gymeradwyo gan y **Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori** diwygiedig dan arweiniad Prif Weithrediad Cynorthwyol.

Mae’r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori hefyd yn gweithredu ar draws Cynghorau yng nghyswllt yr ymgysylltiad a’r ymgynghoriad ac mae hyn yn gostwng y gwaith dyblygu, yn sicrhau gweithredu torfol wrth ymgysylltu ac mae’n gwella ein gwybodaeth am ardal fel Cyngor.

Daeth y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer awdurdod lleol Ynys Môn yn gorff statudol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i weithio ar y cyd gyda’r Bwrdd a sefydlwyd ar gyfer ardal awdurdod lleol Gwynedd ac mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd wedi’i sefydlu ar gyfer Gwynedd a Môn. Mae’r Bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod blwyddyn ariannol 17/18 ac yn ystod y cyfnod hwn mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi arwain ar waith cynhyrchu’r Asesiad o Lesiant Lleol i’r ardal.

Er mwyn cynorthwyo’r Cyngor i gyfrannu at y nod corfforaethol o gyflawni ‘*gwaith rhagorol o ganolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a’r gymuned* (6 Thema Allweddol), mae Prosiect **Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid** wedi’i sefydlu. Mae'n cyfrannu at drawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn rhyngweithio â’i gwsmeriaid er mwyn rhoi gwasanaethau cost-effeithiol ac amserol trwy sianelau mynediad effeithlon, â arweinir gan alw ac sy'n hunanwasanaethu.

Mae **Siarter Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid** bellach yn gweithredu er Rhagfyr 2014 yn sgil ymgynghoriad â grwpiau o randdeiliaid rheng flaen, swyddogion, Aelodau Etholedig, staff ac undebau llafur. Yn y Siarter amlinellir ein haddewid i'r cwsmer ynghylch sut y byddwn yn ymdrin â'u ceisiadau. Mae hefyd yn amlinellu'r disgwyliadau sydd gennym o'n defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'r cychwyn cyntaf. Ymhlith y gwerthoedd a gynhwysir yn y Siarter mae, 'rhoi'r cwsmer yn gyntaf' a dangos agwedd o 'fedru gwneud'. Yn unol â'i bolisi iaith, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaeth ar gael yn newis iaith defnyddiwr y gwasanaeth (Cymraeg neu Saesneg).

Fel rhan o'r gwaith a gomisiynwyd gan y Bwrdd Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid a gynhaliwyd siop dirgel yn ystod 16/17 ystyried pa mor dda ac yn effeithlon mae gwasanaethau a delio â rhyngweithio a'r cwsmer. Ymarferiad siopwr cudd oedd yr ail ddarn o waith o'r fath a daeth i'r casgliad –

"Ar y cyfan mae safon Gofal Cwsmer o fewn Cyngor Ynys Môn wedi gwella ers yr archwiliad diwethaf, fodd bynnag, mae lle i wella o" ac mae argymhellion wedi eu rhoi 'mlaen a caent eu traciuo dan ofalaeth y bwrdd.

Cynhaliwyd peilot **gweddarlledu** ym Mehefin 2014 a ariannwyd gan grant Llywodraeth Cymru ac a ddangosodd enghraifft gadarnhaol o sut mae Ynys Môn wedi datblygu ei agwedd o ran gweithredu'n electronig wrth ganolbwyntio ar ei gwsmeriaid / ddinasyddion, a hynny trwy weddarlledu'r Pwyllgor Gwaith, cyfarfodydd Cynllunio a Gorchmynion a'r Cyngor. Fel hyn mae hi byth ac mae hefyd yn ychwanegu at dryloywder gwneud penderfyniadau ac mae'n dwyn i mewn gynulleidfa lawer ehangach ar gyfer dadleuon. Mae hon yn enghraifft effeithiol o raglen newid sianelau ac ymgyrch barhaus y Cyngor i roi sylw i adnewyddu democratiaeth.

Cynhaliwyd **arolwg staff** yn ystod gaeaf 2016/2017 a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i lywio gwahanol raglenni ar draws y Cyngor. Roedd canlyniadau'r arolwg yn galonogol gan ddangos fod y Cyngor wedi cymryd camau breision o ran llywio ein gweithlu, gwrando arnynt a'u cefnogi. Mae arolwg pellach wedi'I gynllunio ar gyfer 2018/19.

Mae trefniadau yn eu lle i ymgysylltu yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru, Archwilio Allanol a rheoleiddwyr eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r rhain wedi'u cryfhau'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac maent wedi eu cynnal gan y weinyddiaeth Newydd (etholwyd Mai 2017) fel rhan o'r trefniadau llywodraethu parhaus.
Mae gwaith yn parhau ar fireinio'r **Fframwaith Cyfathrebu Mewnol.** Rydym yn gwerthfawrogi barn staff ac Aelodau wrth gyfrannu at y rhaglen drawsnewid. Rhoddwyd cyfleoedd trwy ystod o fforymau lle mae staff ac aelodau wedi'u hannog i fynd ati i gymryd rhan weithgar. I Aelodau, mae sesiynau briffio anffurfiol, rheolaidd wedi'u cynnal ar ystod o bynciau. Mae hyn yn eu galluogi i ddeall yn well feysydd gwaith penodol ac yn caniatáu iddynt baratoi ar gyfer sgriwtini cytbwys a gwneud penderfyniadau. Ar gyfer blwyddyn Cyngor 18/19, mae rhaglen lawn ac amrywiol ar gyfer sesiynau briffio misol.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan Sgriwtini yn ogystal â'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio. O Fehefin 2014, mae Aelodau Etholedig unigol hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol.Mae trefniadau'n mynd yn ôl flynyddoedd ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr: gydag Undebau Llafur trwy'r Pwyllgor Ymgynghorol ar y Cyd Lleol a chyfarfodydd llai ffurfiol ac wrth gyfathrebu â staff yn gyffredinol trwy e.e. bwletinau staff misol. Ymgynghorir â chynnwys rheolwyr a staff yn y broses gwneud sawl penderfyniad fel rhan o'r agenda datblygiadol.

Mae **Polisi Pryderon a Chwynion** yn weithredol ac mae'n rhoi pwyslais ar Ofal Cwsmeriaid, cofnodi'n systemataidd yr holl bryderon, datrysiad cynnar a dangos gwersi a ddysgwyd a gweithredu gwelliannau. Mae'r Polisi'n seiliedig ar Bolisi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddir gwybodaeth ystadegol am gwynion gwasanaeth yn fisol ar wefan y Cyngor ac mae hyn yn rhan o adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio sydd hefyd yn ymdrin ag unrhyw gwynion yr ymdrinnir â nhw dan y Polisi Chwythu'r Chwiban.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor C:**<br><br>**Thema Allweddol Berthynol:** | **Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol**<br><br>**Yn canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned; wedi ymrwymo i bartneriaeth**<br><br>**Cyflawni** |
| | **Sicr –** mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda chymunedau i gynllunio canlyniadau. Wrth bennu polisïau a strategaethau, mae'r Cyngor Sir yn edrych ar ganlyniadau yn y tymor hir, gan ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy. |

Mae Cynllun newydd y Cyngor 2017-2022 (a fabwysiadwyd ym Medi 2017) yn arwain gwaith y Cyngor ac yn rhoi sicrwydd o gyfeiriad ar gyfer yr ardal leol yn ystod 2017/18.

Mae'r cynllun yma yn disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor yn gryno ac yn glir ac yn egluro sut mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu barn y cyhoedd ac wedi ei alinio gyda cyfeiriad y cynllun ariannol tymor banolog. Mae hwn yn tanlinellu'r adnoddau sy'n ofynnol i wireddu'r cynllun cyfredol. Rhydd y Cynllun Corfforaethol fframwaith sy'n cynorthwyo i lunio cyllideb a fframwaith y gall yr Awdurdod asesu yn ei erbyn a rhoi cyfrif i'r gymuned ar lefel y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau a osodwyd, a'u llywio yng nghyswllt meysydd i'w gwella ymhellach. Adolygir hefyd **Strategaeth Ariannol Tymor Canolog** yn flynyddol, yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.

Mae pob gwasanaeth hefyd yn llunio **Cynllun Cyflawni Gwasanaeth** blynyddol sy'n dangos yn glir sut maent yn cyfrannu tuag at gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae pob cynllun gwasanaeth yn cynnwys mesurau i dystio sut y bydd gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth. Fel y dywedwyd, caiff cynlluniau gwasanaeth eu hadolygu'n flynyddol a chânt hefyd eu monitro'n rheolaidd trwy gynhyrchu cardyn sgorio chwarterol - sy'n edrych ar sut mae gwasanaethau'n cyflawni ar y blaenoriaethau yn eu cynllun. Adroddir i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, y Gweithgor ac i Sgriwtini ar y cardyn sgorio.

At hyn, caiff **gwasanaethau eu hadolygu** bob chwe mis - gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau yn Nhachwedd. Mae aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig yn herio perfformiad gwasanaeth yn galed yn y sesiynau adolygu gwasanaeth a chytunir ar weithredoedd i roi sylw i faterion neu wella perfformiad yn erbyn targedau.

Mae partneriaeth a chydweithrediad yn hanfodol i'r ffordd y mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei uchelgeisiau a'i raglen gorfforaethol. I Gyngor 'bychan' mae'n ffordd bwysig o greu capasiti ac mae'n sylfaenol i'n dull gweithredu o gyflawni blaenoriaethau ar y cyd. Credwn fod llwyddo i weithio mewn partneriaeth yn hanfodol i gyflawni gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a Môn llwyddiannus. Bydd gwella llesiant ein dinasyddion dan y ddeddfwriaeth newydd yn dibynnu'n fwyfwy arnom yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan frwd mewn nifer o bartneriaethau strategol yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn ddiweddar adolygwyd y rhesymeg dros fynd i bartneriaeth fel rhan o bolisi a chyfarwyddyd y bartneriaeth, ac mae'n dal yn wir.

Rhaglen datblygu economaidd, a sefydlwyd yn 2010 gan Gyngor Sir Ynys Môn yn sgil cau gwaith cyflogwyr mawr / colli gwaith (e.e. Alwminiwm Môn) yw **Rhaglen Ynys Ynni** Môn. Ei nod yw denu buddsoddiad strategol mawr a chymryd camau i leihau ei risg, a dylanwadu ar ddatblygwyr posib wrth alluogi'r economi, y bobl a'r busnesau i elwa.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi dod ynghyd â phartneriaid y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i gyflawni ein gweledigaeth- "Datblygu Ynys Môn a Gogledd Cymru yn ganolfan ragoriaeth fyd-enwog mewn perthynas ag Ymchwil a Datblyg, Cynhyrchu a Gwasanaethu Ynni Carbon Isel gan greu cyfle unwaith mewn oes o ran creu swyddi twf economaidd a ffyniant trwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ym Môn".

Gan mai datblygiadau'r sector preifat sy'n werth sawl biliwn o bunnau yw'r rhain, mae'n hanfodol canolbwyntio ar y cwsmer er mwyn ennill hygrededd ac ymddiriedaeth cwmnïau trwy gynorthwyo i geisio lleihau'r risg i'w buddsoddiadau hynod sylweddol a chael uniad 'llyfn' o ran ymgysylltu â'r sector cyhoeddus a chael ei gefnogaeth. Mae'r sector hwn wedi galw am weithio mewn partneriaeth go iawn gyda Gweinidogion ac Uwch Swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru, Addysg Bellach ac Uwch, darparwyr Sgiliau, y gadwyn gyflenwi a'r Trydydd Sector.

Mae brand y Rhaglen Ynys Ynni bellach yn cael ei hadnabod yn bell ac agos, a chydnabyddir llwyddiant y Rhaglen a'i nodi fel arfer da o ran ymgysylltiad a llwyddiant y sector cyhoeddus a phreifat, gyda nifer o bobl yn gofyn sut mae Llywodraethiant y Rhaglen yn gweithio – ac mae hyd yn oed Hitachi yn Japan wedi bod mewn cysylltiad.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Môn wedi ymrwymo i bartneriaeth sy'n gweithio'n lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn darparu allbynau fydd o les i'r dinasyddion a'u cymunedau. Mae hyn wedi'i gydnabod fel cryfder mewn adroddiadau archwilio allanol i ni adeiladu arnynt. Mae Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i gymryd rhan frwd yn holl raglenni Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella gwaith cyflawni gwasanaethau cymdeithasol trwy gydweithrediad.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle trwy **Gydweithredfa Gwella Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru** ac mae gan y **Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol** raglen gynhwysfawr o welliant trwy gydweithrediad yn ei lle sy'n canolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 **Deddf Gwasansaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014**. Mae modd tystio ymhellach i ethos y bartneriaeth hon trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r Bwrdd Cyflawni Integredig.

Mae'r **iaith Gymraeg** yn ganolog i fywyd Môn ac mae'n rhan o'i threftadaeth ddiwylliannol, doreithog. Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn strategol ar lefel gymunedol, mae'r Cyngor wedi sefydlu Fforwm Iaith mewn cydweithrediad â'i bartneriaid allweddol. Mae ei rôl yn cynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau cydweithredol, cynorthwyo i asesu effeithiau prosiectau economaidd graddfa fawr ar y Gymraeg a sgriwtineiddio gwaith y Cyngor wrth hyrwyddo materion iaith.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Strategaeth Iaith Gymraeg** gyda'r nod o gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn ein cymunedau i 60% erbyn 2021. Mae hyn, ynghyd â chwrdd â disgwyliadau safonau iaith y Gymraeg yn rhoi fframwaith cadarn i waith partneriaeth y dyfodol wreiddio'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau a darpariaeth mewn cymunedau.

| **Egwyddor D:**<br><br>**Thema Allweddol Berthynol:** | **Pennu'r ymyraethau sy'n angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir**<br><br>Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig |
|---|---|
| | **Sicr –** Mae'r Cyngor Sir yn gwneud penderfyniadau ar ymyriadau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gan ymgysylltu â chymunedau, rheoleiddwyr ac arbenigedd ymarferol swyddogion gwasanaeth proffesiynol. Mae'r cyfuniad hwn yn arwain at optimeiddio cyflawniad y deilliannau a fwriedir. |

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn **Gyfansoddiad** cydnabyddedig sy'n gosod allan yn glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut y gwneir penderfyniadau ac mae angen dilyn gweithdrefnau i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd effeithlon.
Mae'r trefniadau ar gyfer dirprwyo penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith i Aelodau unigol bellach wedi ennill eu plwyf ar draws yr Awdurdod.

Ers Mai 2013 mae aelodau a'r cyhoedd wedi cael y fantais lawn o gael gweld papurau pwyllgor a gwybodaeth ategol. At hyn, mae aelodau'n gallu defnyddio'r system electronig hon yn uniongyrchol yn ystod cyfarfodydd gan eu bod bellach wedi debyn gliniadur neu dablet.

Aelodau Etholedig sy'n **caniatáu Polisi ac yn gwneud penderfyniadau** ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan drafodir materion eithriedig gan Aelodau Etholedig dan Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Cyngor, sy'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, yn cymeradwyo polisïau cyffredinol ac yn gosod y gyllideb yn flynyddol. Mae'n cytuno ar ffurf Pwyllgorau'r Awdurdod (yn unol â darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 lle bo'n briodol), yn penodi arweinydd y Cyngor (sydd yn ei dro yn penodi Cabinet y Cyngor) ac yn cynnal yr holl swyddogaethau eraill a neilltuir iddo dan y Cyfansoddiad.

Mae llywodraethu gwleidyddol wedi'i wreiddio yn yr awdurdod ers yr etholiad dfiwethaf ac mae grwp arweinyddol draws-barti o 21 aelod etholedig nawr yn arwain yn Cyngor. Gwnaed newidiadau penodol i'r cyfansoddiad, megis cyflwyno cyfnod pedair blynedd ar gyfer Arweinydd y Cyngor ac mae hyn wedi arwain at sefydlogrwydd gwleidyddol.

Wrth adeiladu ar y sylfeini hyn rydym bellach wedi creu strwythur sy'n caniatáu ar gyfer llywodraethu gwleidyddol effeithiol. Dengys y dystiolaeth o'r ddwy flynedd ddiwethaf broses o wneud penderfyniadau sy'n gweithio ac yn effeithiol, gyda pheirianwaith priodol ar gyfer sicrwydd.

Mae'r dull gweithredu'n cynnwys **y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Cynllunio a Thrwyddedu, Sgriwtini, a'r Pwyllgor Safonau**.

Mae gan y ***Cyngor*** gyfrifoldeb am y fframwaith cyllideb a pholisi. Materion i'r Cyngor yw adroddiadau llywodraethu allweddol a'r Cyngor sy'n cytuno ar y gyllideb refeniw a chyfalaf blynyddol.

Y ***Pwyllgor Gwaith*** yw'r corff allweddol i wneud penderfyniadau ac mae'n cynnwys yr Arweinydd ac 8 Deilydd Portffolio, sy'n cymryd cyfrifoldeb am y portffolios a ganlyn:-

- Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant
- Cynllunio a'r Gwarchod y Cyhoedd
- Trawsnewid Gwasanaethau & Iaith Gymraeg
- Cyllid
- Corfforaethol
- Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff
- Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi
- Tai & Cefnogi Cymunedau

Mae Aelodaeth y Pwyllgor Gwaith wedi ei adolygu ers yr etholiad (Mai 2017) ac mae ei effeithiolrwydd cynyddol yn dod yn amlwg. Lle bo'n briodol, gall y Pwyllgor ddirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau i'r Deilyddion Portffolio.

***Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu*** yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu'r awdurdod. Mae gan y Pwyllgor ddau aelod lleyg cyfetholedig sy'n ehangu ei brofiad a'i wybodaeth annibynnol. Mae'r rhain wedi' ei apwyntio am gyfnod y cyngor cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor a'i swyddogion statudol ar ba mor ddigonol yw'r llywodraethu a'r fframweithiau rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a chywirdeb yr adrodd ariannol. Wrth oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau fod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'i berfformiad sy'n llywio'i flaengynllun gwaith.

Mae'r ***Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd*** yn cyfarfod yn chwarterol ac mae'n gyfrifol am adolygu'r gefnogaeth i Aelodau sy'n cynnwys; datblygiad Aelodau, adnoddau staffio, cyfleusterau, a sicrhau ei bod yn ddigonol. Rhoddwyd i Gadeirydd y Cyngor ddisgrifiad swydd penodol, ac mae gan aelodau'r pwyllgor ddisgrifiad swydd ar wahân sy'n gosod allan rolau a chyfrifoldebau. Mae'r Cadeirydd hefyd yn gweithredu fel Pencampwr Datblygu Aelodau ac mae'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd rhwydwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lle rhennir arfer gorau.

Mae'r Pwyllgor wedi datblygu rhaglen waith flynyddol ac mae'r Cadeirydd yn adrodd yn flynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, yn cynnwys adroddiad ar y Cynllun Datblygu Aelodau. Mae themâu sy'n gysylltiedig â Siarter Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan gynhenid o'i waith, gan gynnwys datblygu Aelodau.

Mae dau **Bwyllgor Sgriwtini**; y naill yn ymwneud â gwaith mewnol y Cyngor – *Sgriwtini Corfforaethol*, a'r llall yn ymwneud â phartneriaethau allanol ac effaith y Cyngor ar ei gymunedau – *Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio*. Mae'r ddau bwyllgor hyn wedi ei gwneud yn bosib i Aelodau edrych ar y Cyngor, ei rôl a'i effaith yn gyfannol a chorfforaethol.

Mae aelodau'n cynrychioli Sgriwtini ar amryfal Fyrddau mewnol a grwpiau adolygu. Pwrpas hyn yw hyrwyddo cynhwysiad, ychwanegu gwerth at y drafodaeth ac adrodd yn ôl i'w Pwyllgor Sgriwtini ar gynnydd a chodi meysydd y gallai bod gofyn eu sgriwtineiddio'n ffurfiol.

Mae gwaith y ***Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol*** o ganolbwyntio ar berfformiad wedi cynnal y newid diwylliannol a chyfrannu'n sylweddol at lywodraethu gwell.

Mae gan y ***Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio*** rôl bwysig a hanfodol yn adolygu trefniadau a gweithgarwch ein partneriaeth, ac mae'n cau'r diffyg democrataidd y mae partneriaethau wedi'u beirniadu amdano. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae wedi arwain gwaith llunio cofrestr y bartneriaeth, cylch gorchwyl a disgwyliadau llywodraethu a gyfyd o drefniadau partneriaeth.

Yn ystod 2016/17 comisiynodd y Cyngor adolygiad allanol o'n trefniadau sgriwtini er mwyn gwneud argymhellion i'w hystyried gan ein Cyngor newydd. Mae'r adolygiad yn amlygu'r angen am fabwysiadu gweledigaeth newydd i sgriwtini a chanolbwyntir mwy ar sut gall y swyddogaeth sgriwtini ychwanegu gwerth wrth lywodraethu'r Cyngor gyda mwy o bwyslais ar flaengynllunio gwaith a blaenoriaethu.

O ganlyniad, mae'r Cyngor nawr wedi sefydlu tri panel sgriwtini sefydlog a fydd yn canolbwyntio ar –

1. Welliannau mewn Safonau Addysg
2. Sgriwtini Ariannol
3. Sgriwtini Gofal Cymdeithasol Plant

Mae aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnal cyfarfodydd briffio o flaen pob pwyllgor er mwyn paratoi trafodaeth a chanolbwyntio arni yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. Ystyrir bod hyn yn arfer da a'r bwriad yw parhau gyda'r trefniadau hyn yn 2018-2019.

Mae modd crynhoi gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn bedwar prif thema:-

- Perfformiad Gwasanaeth
- Gosod y gyllideb a pherfformiad y flwyddyn gyfredol
- Adroddiadau blynyddol (gwasanaethau cymdeithasol a llyfrgelloedd)
- Cynigion trawsnewid

Mae modd crynhoi gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn bedair prif thema:

- Perfformiad y Bartneriaeth
- Adfywio economaidd a chysyniad yr Ynys Ynni (neu gynlluniau a pholisïau olynol).
- Materion trosedd ac anhrefn
- Ymdrin ag unrhyw fater nad oes modd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ei ystyried

Mae aelodau'n cynrychioli Sgriwtini ar amryfal fyrddau a grwpiau adolygu mewnol. Pwrpas hyn yw hyrwyddo cynhwysiad, ychwanegu gwerth at y drafodaeth ac adrodd yn ôl i'w Pwyllgor Sgriwtini ar gynnydd a chodi meysydd y gallai bod gofyn eu sgriwtineiddio'n ffurfiol. Mae'r ddau bwyllgor sgriwtini'n adrodd ar eu gweithgarwch i'r Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol.

Mae trefniadau y cytunwyd arnynt yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â gofynion statudol yng nghyswllt amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion bregus. Cynorthwya gweithdrefnau recriwtio i sicrhau fod gweithwyr y Cyngor ac aelodau sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion bregus yn cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn addas i wneud hynny. Adolygwyd a chymeradwywyd y polisi Diogelu yn 2016.

Er mwyn gyrru'r rhaglen newid a chyflawni Cynllun y Cyngor, mae Fframwaith Rheoli Rhaglenni wedi'i sefydlu.

Mae dau **Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol** wedi'u ail-sefydlu yn dilyn yr etholiad Mai 2017 -

1. Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes a Llywodraethu, a
2. Bwrdd Gwella Gwasanaeth, Cymuned a Phartneriaethau

Mae gan y rhain olwg cyffredinol ar brosiectau blaenoriaeth uchel y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w cyflawni ac y mae'n gyfrifol am osod cyfeiriad ar eu cyfer.

Mae'r naill Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol a'r llall yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith, gan roi cyfle i nodi meysydd lle gall rôl yr Aelodau ychwanegu gwerth un ai at y Byrddau eu hunain neu drwy'r broses Sgriwtini. Yn y gorffennol agos, rhoddwyd i aelodau'r cyfle i ddod yn aelodau er mwyn cynyddu'r her a'r ymwybyddiaeth gorfforaethol trwy gyfleu'r negeseuon allweddol yn eu gwasanaethau.

Mae'r dull corfforaethol o reoli prosiectau a rhaglenni'n aeddfedu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn sgil cryfhau ein trefniadau Llywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi arfer da mewn rhai o'n rhaglenni ac mae eraill wedi llwyddo i gael llwyddiant cenedlaethol yn ogystal a cydnabyddiaeth Prydeinig dros y 12 mis diwethaf.

| Egwyddor E:<br><br>Thema Allweddol Berthynol: | **Datblygu capasiti'r endid, yn cynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion o'i fewn**<br><br>**Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl** |
|---|---|
| Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar endidau'r sector cyhoeddus, yn ogystal â phobl â'r sgiliau cywir, y cymwysterau a'r cywair meddwl priodol i weithredu'n effeithlon ac effeithiol a chyflawni eu canlyniadau bwriadedig o fewn y cyfnodau penodol. Rhaid i'r corff llywodraethol sicrhau fod ganddo'r capasiti i gyflawni ei fandad ei hun a gwneud yn siŵr bod polisïau yn eu lle i warantu bod gan reolwyr endid y capasiti gweithredol ar gyfer yr endid yn ei gyfanrwydd. Oherwydd y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae endid yn gweithredu ynddo'n newid dros amser, bydd angen parhau i ddatblygu capasiti'r endid yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth y staff unigol. | |

Mae'r Cyngor wedi Cyflawni **Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cefnogi Aelodau** i gydnabod y gwaith yr ydym wedi'i wneud i roi safon uchel o gefnogaeth i Aelodau i ymgymryd â'u gwahanol rolau, sy'n amrywio o arweinydd cymunedol i'w cyfrifoldebau arbennig yn y Cyngor.

At hyn, mae nifer o Aelodau wedi mynd am adolygiadau datblygiad proffesiynol ac mae anghenion hyfforddi wedi'u nodi o'r rhain. Yn ei ddyddiau cynnar ym Môn, gwelir bod datblygiad o'r fath yn allweddol i alluogi aelodau i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl. Mae hyn wedi'i ymestyn ymhellach i gynnwys Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau y mae eu perfformiad a'u hamcanion yn cael eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau. Yn ystod 2017/18, parhaodd yr arfer hwn i gael ei wreiddio. Caiff hyfforddiant aelodau ei fonitro gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.

Dros y 12 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi parhau i ddefnyddio'r sesiynau briffio i aelodau sydd bellach wedi ennill eu plwyf, sef sesiynau briffio ar ddatblygiadau mawr / strategaethau allweddol a chynigion y gyllideb. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i gynyddu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth ehangach o wahanol gynlluniau cyn dadleuon a sgriwtini pellach mewn fforymau cyhoeddus.

Mae gan y Cyngor **Strategaeth Pobl** a adolygwyd yn annibynnol yn 2016. Cadarnhaodd yr adolygiad annibynnol hwnnw fod y strategaeth yn parhau'n "addas i bwrpas" i fynd â'r Cyngor ymlaen i 2020 wrth iddi barhau i gefnogi gweledigaeth y Cyngor a rhoi fframwaith ar gyfer symud ein rheolaeth o bobl ymlaen.

Mae gan y Strategaeth Pobl bum blaenoriaeth allweddol:

- Recriwtio a chadw'r gorau o ran bod yn arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig
- Ysbrydoli rhagoriaeth gwasanaeth (canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned)
- Creu effeithlonrwydd sefydliadol (proffesiynol a threfnus)
- Ymgysylltu â'n Talent, ei ddatblygu a'i reoli (gwerthfawrogi ein pobl a'u datblygu)
- atblygu sgiliau a chapasiti ein gweithlu (gwerthfawrogi ein pobl a'u datblygu)

Ceir fforwm Rheolwyr Canol bywiog ac mae'r **Clwb Sbardun** yn darparu sesiynau dysgu ysbrydoledig sy'n agored i'r holl staff. Yn sgil gostyngiad yn nifer y mynychwyr, cydnabyddir y bydd angen ailganolbwyntio ar gylch gorchwyl / aliniad y Clwb Sbardun â gweithgareddau eraill ac amseroedd cyfarfodydd sydd wedi eu trefnu. Fel rhan o'r gweithgarwch ar y Cynllun Corfforaethol a gweithgarwch ymgysylltu â staff, rhoddwyd cyfle i unigolion ar draws yr awdurdod i weithio ar brosiectau a strategaethau corfforaethol.

Mae'r **seremoni gwobrwyo staff** wedi parhau i gydnabod, dathlu, a hyrwyddo llwyddiannau staff y Cyngor. Bob dydd mae'n staff yn gweithio'n galed i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus i bobl Môn, ac mae gwobrwyo staff yn gyfle i arddangos gwaith da a dangos faint yr ydym yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae chwe chategori o wobrau sy'n efelychu'r '*Chwe Thema Allweddol'.* Yn ystod 2017 cafodd y seremoni ei hymestyn ymhellach i gynnwys gwobr cydnabod staff i'r rhai hynny sydd wedi ennill cymhwyster proffesiynol a chyflwyno gwobrau gwasanaeth hir.

Y Prif Weithredwr Cynorthwyol oedd yn arwain ar weithredu arolwg staff 2016. Cyhoeddir y canlyniadau trwy Monitor (Ebrill 2017) a dangosant fod –

- 90% o staff yn mwynhau eu gwaith gyda
- 95% yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ohonynt ac o'r rhai a ymatebodd
- Teimla 53% y cânt eu gwerthfawrogi gan y Cyngor (mae hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau 2013).

Fodd bynnag, ymddengys fod llai o ddealltwriaeth ymhlith ein staff o'r hyn sy'n digwydd yn gorfforaethol gyda 34% yn unig yn teimlo fod ganddynt lawer o wybodaeth am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y Cyngor yn gyffredinol.

Casglwyd sylwadau ychwanegol gan yr arolwg hefyd gan 193 o ymatebwyr yn hysbysu'r sefydliad o ble mae angen gwneud mwy o waith. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Uwch Arweinyddiaeth yn ystyried ei hymateb i'r materion hyn a beth sydd angen ei wneud er mwyn gwella ein dealltwriaeth gyfunol o'r hyn sy'n digwydd yn gorfforaethol. Arddangosiad o hyn yw'r ffordd y mae'r Prif Weithredwr wedi arwain y sesiynau staff (12 i gyd) i gyflwyno disgwyliadau'r cynllun corfforaethol arfaethedig.

Mae gan y Cyngor ***Gynllun Cydraddoldeb*** **2016-2020** strategol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith sy'n amlygu'n hymrwymiad i gydraddoldeb, wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i gael gwared ag arfer o wahaniaethu'n annheg ac anghyfreithlon yn ein holl bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. Yn ei adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiwn Cydraddoldeb cynhwysir cynnydd ar ei flaenoriaethau allweddol ac mae'r Cyngor yn aelod allweddol o rwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru.

Mae ymgysylltiad mewnol yn hanfodol i ddatblygu diwylliant 'Tîm Môn' ac mae angen mireinio ymhellach **Fframwaith Cyfathrebu Mewnol** er mwyn galluogi a sicrhau fod Swyddogion ar bob lefel yn y Cyngor yn cymryd mwy o ran:-

- Cyfarfodydd Penaethiaid misol
- Cynhadledd Rheolwyr Chwarterol
- Clwb Sbardun
- Sesiynau Briffio Aelodau
- Gweithdai Thematig (h.y. y gyllideb)
- Cyfarfodydd Rheoli Gwasanaeth
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol
- Cyfarfodydd Tîm
- Goruchwyliaeth Un i Un
- Arfarnu gweithwyr
- Cynlluniau awgrymiadau staff
- Defnyddio Y Ddolen i gael gwybodaeth gyson am gynlluniau corfforaethol
- Defnyddio Medra Môn fel newyddlen

Er bod cyfathrebu mewnol, corfforaethol wedi gwella'n sylweddol dan arweinyddiaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth - y teimlad o hyd yw bod angen i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth fod yn fwy gweladwy a gwella'i ddulliau cyfathrebu gyda staff sy'n is na Rheolwyr a chyda'r staff hynny a leolir y tu allan i bencadlys y Cyngor, a hynny trwy dechnolegau newydd cyfryngau cymdeithasol ac wyneb yn wyneb.

Mae'r sesiynau briffio, anffurfiol, rheolaidd i Aelodau (a nodwyd yn gynharach) yn ei gwneud yn bosib cael gwell dealltwriaeth o feysydd gwaith penodol ac yn caniatáu iddynt baratoi ar gyfer proses o sgriwtini a gwneud penderfyniadau cytbwys.

Rydym yn Gyngor dwyieithog llwyr ac mae cyfran uchel o'n staff a'r rhan fwyaf o'n haelodau yn Gymry Cymraeg iaith gyntaf. O'r herwydd, cynhyrchir yr holl ohebiaeth gorfforaethol yn ddwyieithog, gan roi i staff ac aelodau'r gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Cefnogir siaradwyr nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg i wella eu sgiliau iaith mewn amgylchedd cynhwysol.

| **Egwyddor F:**<br><br>**Thema Allweddol Berthynol:** | **Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol, gadarn a rheolaeth ariannol, gyhoeddus, gref**<br><br>**Proffesiynol a Threfnus** |
|---|---|
| Mae angen i gyrff llywodraethol endidau'r sector cyhoeddus sicrhau bod yr endidau y maent yn eu goruchwylio wedi gweithredu - ac yn gallu cynnal - system o reoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso gwaith cyflawni gwasanaethau cynlluniedig yn effeithiol ac effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Maent yn cynnwys proses barhaus wedi'i llunio i nodi risgiau sylweddol wrth gyflawni canlyniadau endid a rhoi sylw i'r risgiau hynny. | |

Mabwysiadwyd y **Polisi Rheoli Risg** gan y Pwyllgor Gwaith ar y 26ain o Fai 2015 ac mae'r Polisi a'r Cyfarwyddyd cysylltiedig wedi'u huwchlwytho i Monitor (rhyngrwyd y Cyngor). Amcanion allweddol polisi rheoli risg y Cyngor yw:-

1. Datblygu ymagwedd gyson tuag at reoli risg ar draws y Cyngor.
2. Sefydlu rheoli risg yn gadarn fel rhan hanfodol o'r prosesau rheoli yn y Cyngor a sicrhau cysylltiadau clir gyda Chynlluniau Gwasanaeth.
3. Sicrhau diwylliant ragweithiol o ymwybyddiaeth o risg ar draws y Cyngor lle caiff risgiau eu cymryd (neu beidio) gyda'r holl wybodaeth i law wrth wneud unrhyw benderfyniadau pwysig ac wrth weithredu arnynt.
4. Cynnal a gwella hyder y cwsmer yn ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau.
5. Lleihau'r posibilrwydd o weithgaredd neu gost ariannol nad ydyw wedi ei gynllunio ac effaith diswyddiadau annisgwyl ar enw da'r Cyngor a'n gallu i gyflawni ein hamcanion.
6. Rheoli risg yn unol ag arfer orau, ymrwymiadau statudol a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwelliant.
7. Gweithio gyda'n partneriaid a'n darparwyr i ddatblygu ymagwedd gyson tuag at gyflawni'r amcanion hyn o safbwynt rheoli risg.

Cafodd y Polisi a'r Fframwaith Rheoli Risg eu hadolygu ar 5 Rhagfyr 2017 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA). Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen gwneud mwy o waith i sefydlu'n llwyr y broses rheoli risg drwy'r Cyngor ond bod cynnydd wedi ei wneud a'i fod yn parhau. Mae'r dogfennau hyn yn alinio'r fframweithiau Rheoli Risg a Rheoli Perfformiad.

Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn adolygu y **Gofrestr Risg Gorfforaethol** ar sail chwarterol. Mae disgwyl i wasanaethau ddiweddaru eu cofrestri risg yn chwarterol gyda risgiau "coch" neu "ambr" yn cael eu trosglwyddo'n uwch i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth iddyn nhw ystyried eu cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Yn ystod 2017/2018 cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ddau ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (21 Mehefin 2017 a 13 Chwefror 2018). Yn y ddau gyfarfod, penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu "yn cymryd sicrwydd bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu cydnabod a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth". Yn ystod y flwyddyn mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar reoli risgiau Partneriaeth.

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le sy'n cychwyn gyda'r Cynllun Corfforaethol tymor canol (mae'r cynllun cyfredol, fel y dywedwyd uchod, ar gyfer 2017/2022) a Chynllun Cyflawni Blynyddol bob blwyddyn wedyn. Yn y rhain, nodir blaenoriaethau allweddol y Cyngor a'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni. Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys adroddiadau ar reoli perfformiad er mwyn nodi a yw'r Cyngor yn cyflawni'r amcanion a gynlluniwyd. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys cardiau sgorio chwarterol, heriau hanner blwyddyn i Wasanaethau ac adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith ac i Sgriwtini. Cafodd y Cerdyn Sgorio terfynol ar gyfer 2017/18 mewn perthynas â Chwarter 4 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Mehefin 2018. Yn hwn, dygwyd sylw at y ffaith ei bod yn galonogol nodi bod y rhan fwyaf o ddangosyddion y Cyngor yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod meddylfryd cadarn wedi ei sefydlu yn y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus, serch y ffaith y cafwyd blwyddyn heriol arall yn y sector cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn dwyn sylw at feysydd y dylai'r Cyngor eu targedu ar gyfer eu gwella yn y dyfodol sef: Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Oedolion, Dysgu, salwch a chwynion.

Mae'r Fframwaith Perfformiad yn parhau i esblygu a chanolbwyntio ar waith hunanasesu Penaethiaid Gwasanaethau, ac ar feysydd allweddol risg a thrawsnewid. Mae hefyd yn canolbwyntio ar wella ar adrodd am wybodaeth am y gweithlu a gwybodaeth ariannol. Yn ystod 2017, cynhaliwyd cyfres o Adolygiadau Gwasanaeth oedd yn ymwneud ag:-

**(i)** Arbedion a Chyllidebau Gwasanaeth (Mehefin-Gorffennaf 2017)
**(ii)** Perfformiad (Tachwedd-Rhagfyr 2017)

Er ein bod wedi sefydlu dulliau gweithredu cryf i sicrhau llywodraethiant effeithiol ar gyfer partneriaethau newydd, mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer rhai o'r trefniadau partneriaeth mwy hanesyddol.

Cyhoeddir Adroddiad Perfformiad Blynyddol, sy'n adroddiad ar berfformiad a meincnodi gydag Awdurdodau eraill**,** erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol diweddaraf yn ymwneud â 2016/17 ac fe'i cwblhawyd yn 2017/18 ac fe'i gwelir wrth ddilyn y ddolen isod:

http://democracy.anglesey.gov.uk/documents/g3116/Public%20reports%20pack%2030th-Oct-2017%2010.00%20The%20Executive.pdf?T=10&LLL=0

Cyhoeddir Cynllun Perfformiad Blynyddol 2017/18 ym mis Hydref 2018.

Rhoes y Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyaeth i'r **Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)** am y cyfnod 2017/18 i 2019/20 ym Medi 2016. Adnabu'r CATC yr arbedion posib yr oedd eu hangen dros y cyfnod tair blynedd gan osod y strategaeth ar gyfer cyllideb 2017/18. Rhoes y Cyngor llawn ei gymeradwyaeth i'r gyllideb ariannol yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Chwefror 2017. Roedd y gofyn i wneud toriadau ac arbedion i'r gyllideb yn rhan ganolog o waith gosod y gyllideb gyda tharged arbedion o fewn y flwyddyn o £2.444m yn angenrheidiol er mwyn cydbwyso'r gyllideb. Diweddarwyd y CATC bryd hynny, unwaith y cwblhawyd cyllideb 2017/18, ac fe adnabu y byddai gostyngiadau i'r gyllideb yn y dyfodol yn amrywio o £3.2m (y sefyllfa orau) i £8.8m (y sefyllfa waethaf). Noda'r cynllun a ddiweddarwyd bod angen parhau i ganolbwyntio ar ostwng y gyllideb a nodi rhagor o arbedion dros y tair blynedd nesaf er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Proses Cynllunio'r Gyllideb o Fai 2016 hyd Chwefror 2017. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori gyda grwpiau statudol, yn cynnwys y Fforwm Ysgolion, Cynghorau Tref a Chymuned, a busnesau, yn ogystal ag a rhanddeiliaid eraill megis Llais Ni a Fforwm y Bobl Hŷn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ymgynghori'n helaeth â'r Cyhoedd. Rhoddwyd ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith i'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad wrth iddynt lunio eu cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol ac arweiniodd at rai cynigion yn cael eu tynnu'n ôl neu'n cael eu diwygio.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu a gwreiddio strwythurau, systemau, prosesau a chefnogi trefniadau i sicrhau eu bod yn cefnogi galwadau Awdurdod Lleol yn yr 21ain ganrif. Mae trefniadau ffurfiol yn eu lle i reoli perfformiad, arian, rhaglenni a chontractau sy'n cyfrannu at gynnal elfennau allweddol llywodraethu.

Cyflwynwyd **adroddiadau ariannol chwarterol** (Refeniw a Chyfalaf) i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod 2017/18 oedd yn cynnwys cyllideb yn erbyn mesuriadau gwirioneddol yn ogystal â rhagamcan o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, sydd hefyd yn cynnwys amrediad o wybodaeth a chynllun ariannol gyda mesuriadau cywirol i ddod â'r cyllidebau'n ôl dan reolaeth pe bai angen. Roedd y perfformiad ariannol terfynol ar gyfer 2017/18 yn unol yn fras â'r perfformiad a ragamcanwyd yn yr adroddiadau chwarterol. Roedd y rhagolygon a'r sefyllfa ariannol wirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn yn tanlinellu'r pwysau ariannol sylweddol sy'n codi oherwydd y galw yn y cynnydd am y Gwasanaethau Plant a Dysgu statudol. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei defnyddio ar gyfer cynllunio a chyllidebu yn y dyfodol gan gynnwys ystyried ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau megis mwy o gymorth ataliol a chynyddu'r ddarpariaeth ar draws yr Ynys.

Mae trefniadau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn dilyn ymarfer proffesiynol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.

Dengys Hunanasesiad Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus fod y gwasanaeth yn cael ei gyflawni i'r safonau gofynnol. Nodir mewn cynllun gweithredu'r meysydd lle gofynnir am ragor o welliant a bydd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym Mehefin 2018 fel rhan o'r broses adolygu ar gyfer cytuno ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol.

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar yr 21 Medi 2017 ac i'r Cyngor Llawn ar 26 Medi 2017, adroddiad Canfyddiadau Archwilio Allanol ar gyfer 2016/17 a oedd yn adlewyrchu fod y cyfrifon a baratowyd yn farn gywir a theg. Dygodd yr adroddiad sylw at dri o gywiriadau cyfrifo yn yr adroddiad archwilio. Oherwydd yr addasiadau y bu angen eu gwneud yn ystod y cyfnod o gau'r cyfrifon, gwelwyd gostyngiad o £342k ym Malansau Cyffredinol y Cyngor. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nad oedd heb eu haddasu i'r Aelodau eu hystyried a rhoddwyd barn archwiliwr annibynnol o ran y datganiad o gyfrifon a'r gwerth am arian. Mae hyn yn golygu nad oedd unrhyw bryderon mawr ynglŷn â'r cyfrifon.

Cyflwynodd y cynllun gweithredu 8 o argymhellion o ran cyfrifo a rheoli cyflogres; 5 mewn perthynas â TG ac 8 mewn perthynas â Phrisio Asedau. Mae'r argymhellion i wella prosesau ariannol a rheolaethau mewnol, wedi'u derbyn gan y Rheolwyr ac maent yn y broses o gael eu gweithredu.

Mae'r **strategaeth caffael** yn parhau i gael ei hymestyn ar draws y Cyngor sy'n allweddol i lwyddiant parhaus yr Awdurdod wrth gaffael cynhyrchion a gwasanaethau. Yn unol ag argymhellion KPMG ynghylch yr adroddiad o ran ffitrwydd yn 2014, mae'r tîm Caffael wedi datblygu polisïau newydd a strategaeth rheoli contractau a'u rhoi yn eu lle, yn ogystal ag adolygu'r weithdrefn gontractau. Cyflawnodd brosiect caffael cychwynnol gwerth £500k o arbedion mewn arian ac mae'r ail brosiect caffael bellach wedi cael ei thraed dani a'r disgwyl yw y ceir arbedion. Fodd bynnag, ar gydymffurfio â rheolau'r weithdrefn gontractau y byddir yn canolbwyntio.

Cadarnhaodd y **Dystysgrif Cydymffurfio Flynyddol** bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yng nghyswllt adrodd yn ariannol, defnyddio adnoddau, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â l**lywodraethiant gwybodaeth** dros y ddwy flynedd ddiwethaf ond mae'n parhau'n flaenoriaeth. Dan arweinyddiaeth yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), mae nifer fawr o staff wedi cael hyfforddiant gorfodol ar **warchod data** a chaiff cyrsiau gloywi blynyddol eu trefnu'n flynyddol yn arbennig yn wyneb y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018.

| **Egwyddor G:**<br><br>**Thema Allweddol Berthynol:** | Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio i gyflawni<br><br>Proffesiynol a threfnus |
|---|---|
| Yr hyn yw atebolrwydd yw sicrhau fod y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwasanaethau yn atebol amdanynt, er bod ystod a chryfder gwahanol berthnasoedd atebolrwydd yn amrywio ar wahanol fathau o gyrff llywodraethu. Nid yn unig y mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud ag adrodd ar weithredoedd a gwblhawyd, ond mae hefyd yn sicrhau y gall rhanddeiliaid ddeall ac ymateb wrth i'r endid gynllunio a chynnal ei weithgarwch mewn modd tryloyw. Mae archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol. | |

Mae'r holl **raglenni a'r adroddiadau ar gael ar Wefan y Cyngor** oni bai ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am 'ddatganiadau o ddiddordeb' a wneir mewn cyfarfodydd.

Cyhoeddir Cofrestr Diddordebau'r Aelodau ar Wefan y Cyngor hefyd.

Fel y nodwyd yn flaenorol yn Adran D, mae dau **Bwyllgor Sgriwtini**; y naill yn ymwneud â gwaith mewnol y Cyngor - *Sgriwtini Corfforaethol*, a'r llall yn ymwneud â phartneriaethau allanol ac effaith y Cyngor ar ei gymunedau - *Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio*. Mae'r ddau bwyllgor hyn wedi galluogi i Aelodau edrych ar y Cyngor, ei rôl a'i effaith mewn modd cyfannol a chorfforaethol.

Mae'r **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** yn gyfrifol am adolygu'r gefnogaeth i Aelodau sy'n cynnwys; Datblygu aelodau, adnoddau staffio, cyfleusterau, a sicrhau ei bod yn ddigonol. Rhoddwyd i Gadeirydd y Pwyllgor ddisgrifiad swydd penodol, ac mae gan aelodau'r pwyllgor ddisgrifiad swydd ar wahân, sy'n gosod allan rolau a chyfrifoldebau. Y Cadeirydd, hefyd, yw'r Pencampwr Datblygu Aelodau ac mae'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd rhwydwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lle rhennir arfer gorau.

Mae'r **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried effeithlonrwydd rheolaeth fewnol, gwaith rheoli risg a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'n monitro gwaith archwilwyr ac arolygwyr allanol a mewnol, yn monitro perthynas rhwng archwilwyr a staff ac yn monitro'r ymatebion i argymhellion archwilio ac arolygu.

Mae nifer o Aelodau wedi cynnal adolygiadau datblygiad proffesiynol ac fe nodwyd anghenion hyfforddi o'r rhain. Bellach, mae hyn wedi'i ymestyn i gynnwys Aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau y caiff eu perfformiad a'u hamcanion eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Datblygodd y Pwyllgor raglen waith ar gyfer 2017/18 ac mae'r Cadeirydd yn adrodd yn flynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, yn cynnwys adroddiad ar Gynllun Datblygu Aelodau. Mae themâu sy'n gysylltiedig â Siarter Datblygu Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a ddyfarnwyd i'r Cyngor yn rhan annatod o'i raglen waith.

Mae'r Cyngor wedi parhau gyda'r arfer o gynnal sesiynau briffio aelodau'n unig yn fisol ar ddatblygiadau mawr / strategaethau allweddol a chynigion y gyllideb. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i gynyddu'r gwerthfawrogiad a'r ddealltwriaeth ehangach o wahanol gynlluniau cyn rhagor o drafodaethau a sgriwtini mewn fforymau cyhoeddus.

Mae gan y Cyngor berthynas gwrthrychol a phroffesiynol gyda'i archwilwyr allanol a'i arolygwyr statudol, fel y tystir gan yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol. Mae modd gweld hwn ar wefan y Cyngor neu Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli, Aelodau a swyddogion o Archwilio Mewnol a Thrawsnewid Corfforaethol yn cyfarfod yn rheolaidd â rheoleiddwyr allanol i drafod y Gofrestr Risg Gorfforaethol, datblygiadau allweddol, canfyddiadau'r holl adroddiadau allanol ac i roi diweddariad ar gynnydd a wneir i weithredu argymhellion.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi llwyddo i reoli a gwerthuso'i hun yn rheolaidd ac, yn sgil hynny, mae barn rheoleiddwyr wedi bod yn gadarnhaol o ran parodrwydd i gyflawni.

Yn eu tystysgrif cydymffurfio flynyddol (Tachwedd 2017) datgan Swyddfa Archwilio Cymru:-

*"Rydym o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau mewn perthynas ag adrodd ar adnoddau a'r defnydd ohonynt....Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon fod gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau y cwblhawyd yr archwiliad o'r cyfrifon ar 29 Medi 2017."*

At hyn, nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Gofal Cymru, yn eu hadroddiad diweddar (Adroddiad Arolwg Gwasanaethau Plant– Mawrth 2017) bod angen gwneud gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant ond bod y Gwasanaeth wedi bod yn gweithio mewn cyfnod o newid sylweddol yn wyneb y ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant newydd a bod


"*uwch reolwyr yn derbyn canfyddiadau'r arolygwyr a'u bod yn ymrwymedig i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol."*

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol o'r angen i ymateb yn adeiladol i argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac mae wedi llunio cynllun gwaith cynhwysfawr. Cyfrifoldeb y Prif Weithredol Cynorthwyol fyddai arwain a chyflawni yn erbyn y cynllun hwn, a hynny mewn cydweithrediad â Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Gan oruchwylio'r gwaith hwn a chydnabod ei bwysigrwydd, byddai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn mynd ati'n weithgar gan sicrhau'n rheolaidd lwyddiannau yn erbyn y cynllun. Bydd hyn yn rhoi mwy o faich ar amser (capasiti) yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel tîm ac fel unigolion.

Yn gyffredinol, mae perfformiad ysgolion, ar lefel Awdurdod, wedi gostwng mewn cymhariaeth ag ysgolion Cynghorau eraill o 2016. Mae angen cadw llygad barcud ar hyn a cheisio sicrhau bod perfformiad yn yr holl gyfnodau allweddol yn gwella.

Mae Llywodraeth Cymru, wedi barnu bod mwyafrif llethol ysgolion Môn (75%) bellach yn perfformio'n effeithiol (ysgolion sydd â graddfa melyn neu wyrdd) gyda 6 o'r ysgolion hyn yn y categori uchaf (gwyrdd) yn 2017 (o gymharu â 7 yn 2016). Bydd y Cyngor yn anelu at gynyddu nifer yr ysgolion yn y categori gwyrdd yn 2018.

Mae modd gweld bod nifer yr ysgolion sydd wedi'u rhoi yn y categori coch (h.y. ysgolion y mae arnynt angen cefnogaeth sylweddol) wedi cynyddu yn 2017 (o 1 i 2) ac mae nifer yr ysgolion yn y categori ambr hefyd wedi cynyddu o 6 ysgol yn 2016 i 8 ysgol yn Ionawr 2017. Gwelir y canlyniadau hyn yn y siart isod.




Yn ystod y flwyddyn, cafodd 6 o ysgolion cynradd eu cau ac agorwyd 2 o ysgolion cynradd newydd y 21ain Ganrif newydd ym mis Medi 2017. Mae Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif yn anelu at resymoli ysgolion lle mae gormod o leoedd gweigion a darparu ysgolion sy'n addas ar gyfer y 21ain Ganrif. O'r herwydd, mae nifer yr ysgolion yn Ynys Môn wedi gostwng o 52 i 48. Efallai bod hyn wedi cael effaith ar y canlyniadau rhwng 2016 a 2017. Mae'r disgyblion o'r 3 ysgol gynradd sydd wedi cau yng Nghaergybi bellach yn mynychu'r ysgol newydd yng Nghaergybi, sef Ysgol Cybi a'r disgyblion a oedd yn arfer mynychu'r 3 ysgol gynradd sydd wedi cau yng Ngogledd Orllewin Ynys Môn yn mynychu Ysgol Rhyd y Llan. Gyda gobaith, bydd y newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau wrth symud ymlaen.

Mae Fframwaith Estyn ar gyfer arolygu ysgolion yr awdurdod yn asesu safonau addysgu, dysgu a llesiant disgyblion mewn ysgolion unigol. Gwelwyd cynnydd yng nghanran yr ysgolion a roddwyd yn y categorïau yr oedd angen y gefnogaeth ddwysaf arnynt (cynnydd o 15.4% yn 2016/17 i 25.04% yn 2017/18). Ar hyn o bryd, 4 ysgol sy'n parhau i fod yng nghategorïau dilyn i fyny Estyn o gymharu â 3 ysgol yn 2016, a chaiff yr ysgolion hyn eu monitro gan y Panel Sgriwtini Safonau Addysg.

## 5. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd o fewn y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Trawsnewid;
- adolygiad o'r chwe thema sy'n sail gwerthoedd yr awdurdod;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGGCC a'r byrddau adfer perthynol ar y gwaith gwella ynglŷn ag Addysg a Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth gyda, a chael sylwadau gan, grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae adolygiadau a monitro cyson yn golygu:-

- gweithgarwch rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, y mae eu gwaith yn cymryd ystyriaeth o risgiau sydd wedi eu hadnabod, trwy archwiliadau cyson o'n prif systemau, sefydliadau, prosiectau o sylwedd a phrif brosesau llywodraethu gan gynnwys rheoli risg, yn gyson efo'r cynllun archwilio mewnol, ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn cyflwyno'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- asesiad blynyddol Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Archwilio a Safonau,
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill,
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o wella perfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

Cymeradwyir y polisïau allweddol, ac unrhyw addasiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Ym Mai 2017 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad o Lywodraethiant yn y Cyngor wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau a daeth yr adroddiad i'r casgliad:

*"Bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn effeithiol yn gyffredinol ond yn cydnabod y gellir eu cryfhau ymhellach".*

Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth ar gyfer penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ar weithdrefnau'r Cyngor i annog cydranddeiliaid i ymgysylltu yn y broses gwneud penderfyniadau a bod y Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau ymgysylltu. Mae'r adroddiad yn cydnabod fod y Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau bob blwyddyn o'i fod yn ymwybodol o'r meysydd hynny y mae angen eu gwella. Rhoddwyd gwybod am feysydd yr oedd angen eu gwella megis y ffaith y gall y Cyngor wneud mwy i adolygu ac adlewyrchu ar fuddion i'r gwasanaeth yn dilyn gweithredu newidiadau. Amlygwyd hefyd y risg y gallai byrddau trawsnewid a phwyllgorau sgriwtini fod yn dyblygu gwaith.


## 6. MATERION LLYWODRAETHU SYLWEDDOL

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cwblhau Adroddiad Gwella Blynyddol. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2016/17 ym mis Mehefin 2017, gweler y ddolen isod os gwelwch yn dda. Ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol yn yr adroddiad hwnnw ond fe wnaed rhai awgrymiadau ynghylch gwelliannau. Yn yr adroddiad, dywedwyd bod trefniadau llywodraethiant y Cyngor yn dda yn gyffredinol. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi canlyniadau penodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar lefel Cymru gyfan yn ystod 2016/17.

http://audit.wales/publication/isle-anglesey-county-council-%E2%80%93-annual-improvement-report-201617

Mae Adroddiad Blynyddol 2017 y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ar y fframwaith ar gyfer rheolaeth fewnol. Barn y Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 yw "bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol... Mae angen cyflwyno neu wella rheolaeth fewnol mewn rhai meysydd... mae'r rhain yn cael eu monitro...Nid oes unrhyw bryderon mawr o ran y farn hon."

Mae'r Adroddiad Archwilio Mewnol yn nodi y cwblhaodd y Swyddogaeth 29 o archwiliadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 2016 oherwydd prinder staff yn codi yn sgil swyddi gweigion. Caiff lefelau'r sicrwydd a nodwyd ar gyfer pob archwiliad eu crynhoi yn y siart isod. Mae'n dangos bod 10 archwiliad wedi derbyn sicrwydd sylweddol, 11 archwiliad wedi derbyn sicrwydd rhesymol a bod angen gwneud gwelliannau mwy sylweddol mewn meysydd a oedd yn gysylltiedig â 5 archwiliad gyda'r rheiny'n cynnig sicrwydd cyfyngedig.




Bu i bob un o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn arwain at lefelau cadarnhaol o sicrwydd ac eithrio'r archwiliadau a ganlyn a gafodd eu hasesu fel rhai Sicrwydd Cyfyngedig:

- Fframwaith Caffael Corfforaethol;
- Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth;
- Safonau Diogelu Data'r Diwydiant Cardiau Talu;
- Dyledwyr Amrywiol;
- Cludiant Ysgol

Bydd yr archwiliadau uchod yn cael eu dilyn i fyny yn ystod 2018/19.

Yn ogystal, cwblhaodd yr adain archwilio mewnol a risg archwiliadau'n codi o 3 cyfeiriad; gwaith archwilio dilyn-i-fyny a gwaith atal twyll ac ymholiadau cyffredinol dan y Fenter Dwyll Genedlaethol. Cyflwynodd y swyddogaeth adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a oedd yn cynnwys hyfforddiant i Aelodau. Darparodd y swyddogaeth ymgynghoriaeth gorfforaethol yn ystod y flwyddyn ac fe gwblhawyd gwaith mewn perthynas â risg ac yswiriant.

Parhaodd Archwilio Mewnol i ganolbwyntio adnoddau ar feysydd a oedd yn ymwneud â grant yn ystod 2017/18 er mwyn sicrhau bod y risgiau a gyflwynwyd gan ddulliau ariannu o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol. Ni nodwyd risgiau sylweddol yng nghyswllt grantiau a adolygwyd gyda'r cyfan o'r grantiau a archwiliwyd yn derbyn sicrwydd sylweddol.

Nododd cyfanswm canlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol fod **80%** o adolygiadau yn arwain at farn 'gadarnhaol' (Sylweddol neu Resymol) a **20%** at farn sicrwydd 'negyddol'.
Y farn gyffredinol ar gyfer y systemau a adolygwyd yw Lefel Resymol o Sicrwydd sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae'r lefel gyffredinol hon o sicrwydd yn seiliedig ar gwmpas y gwaith a wneir, rhoi ar waith weithred a argymhellir i reolwyr a'r systemau hynny'n parhau i weithredu fel y'u bwriadwyd.

Er mwyn cydymffurfio â Safonau Archwilio Sector Cyhoeddus CIPFA 2013 mae proses dilyn i fyny ffurfiol ar waith o fewn y Gwasanaeth er mwyn cadarnhau fod yr argymhellion a wnaed mewn adroddiadau Archwilio Mewnol wedi'u gweithredu gan reolwyr o fewn amser y cytunwyd arno. Lle bynnag y bo'n bosib bydd archwiliad dilynol yn digwydd chwe mis ar ôl rhyddhau'r adroddiad terfynol, ac eithrio'r archwiliadau hynny a aseswyd eu bod yn rhoi lefelau sylweddol o sicrwydd lle na wneir gwaith dilyn i fyny, er mwyn gwneud y gorau o'r adnodd archwilio.

Ar hyn o bryd caiff argymhellion eu sgorio'n goch, ambr, melyn neu wyrdd yn ôl y risg sydd i'w weld. Nid yw'r rhai gwyrdd yn cael eu dilyn i fyny'n ffurfiol gan Archwilio Mewnol ac ni chânt eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Roedd y rheolwyr wedi gweithredu'r cyfan o'r argymhellion blaenoriaeth uchel a oedd yn weddill ac y dygwyd sylw iddynt dan y fethodoleg archwilio flaenorol a 69% o'r Materion/Risgiau 'Coch' newydd. Roedd hyn yn arwydd o'r ffaith bod rheolwyr yn ymateb i waith y Swyddogaeth Archwilio a Risg.

Mae adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg hefyd yn nodi meysydd lle byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag rhoi dibyniaeth resymol ar systemau rheolaeth fewnol yng nghyswllt y systemau hynny a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd y meysydd yn parhau'n bryder i Archwilio Mewnol hyd oni bydd yr holl argymhellion sylweddol wedi'u gweithredu ac y bydd modd rhoi sicrwydd bod y fframweithiau a'r systemau yn eu lle; wedi'u gwreiddio; yn gadarn ac effeithiol. Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol, nodwyd nad oes unrhyw faterion sydd yn arbennig o briodol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad yn dwyn sylw at y Materion a'r Risgiau 'Coch' a oedd yn parhau i fod angen sylw ar 31 Mawrth 2018.

| **Materion Llywodraethu o Sylwedd** | **Gweithredu sydd wedi'i adnabod i roi sylw i wendidau** |
|---|---|
| **Fframwaith Caffael Corfforaethol** - Er bod fframwaith caffael wedi'i ddatblygu yn yr Awdurdod, parhau'n wendid y mae lefel cydymffurfio â rheolau caffael contractau a rheoliadau'r UE. Mae angen gwella'r broses gaffael yn yr Adran Dai, Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. | Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n datblygu cynllun gwaith ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r materion hyn gyda chynllun gwaith contract ehangach ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Mae'r Gwasanaethau'n gweithio gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru o ran tendrau a fframweithiau ar y cyd. Mae'r gwasanaethau'n adolygu cymalau diogelu yn arbennig o ran y gofynion am wiriadau DBS. |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau Plant - Gorchmynion Llys Gofal Plant dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** - Protocol sy'n ceisio gostwng achosion o oedi heb reswm mewn achosion llys teuluoedd. Tystiwyd gwendidau mewn cadw cofnodion, casglu tystiolaeth a sgiliau yn y llys, yr ystyrir eu bod yn hanfodol i sicrhau datrysiad cyflym. Nid oedd ymweliadau gan weithwyr cefnogi wastad yn cael eu cynnal yn unol â chynlluniau i sicrhau diogelwch a llesiant plant. | Arweiniodd yr archwilio at sgôr sicrwydd cyfyngedig a byddir yn dilyn hyn i fyny yng Ngorffennaf 2018**.** Rhaid i unrhyw ymweliadau gan Weithwyr Cymorth gydymffurfio gyda'r cynllun gofal a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Gellir cymryd camau disgyblu lle mae methiant i gydymffurfio gyda chynlluniau gofal. |
| **Safonau Diogelu Data'r Diwydiant Cardiau Talu**- Nid yw'r Awdurdod wedi adnabod lefel y cydymffurfio sy'n angenrheidiol nac wedi llunio rhaglen cydymffurfio i gwrdd ag anghenion Safonau Diogelu Data'r Diwydiant Cardiau Talu | Mae gweithgor trawsadrannol, yn cynnwys Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fel pencampwr, wedi'i sefydlu i sicrhau y cydymffurfir â Safonau Diogelu Data'r Diwydiant Cardiau Talu. |

## 7. ARDYSTIO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Rydym wedi ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a bod y trefniadau yn parhau i'w hystyried yn addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu ac aswiriant yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

………………………………………………..   …………………………………………….......

**Arweinydd y Cyngor**
**Dyddiad: 2018**

**Prif Weithredwr**
**Dyddiad: 2018**

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018

**Diben y ddogfen hon**

Mae'r ddogfen hon ar ffurf ddrafft a ddarperir yn gyfrinachol. Dim ond er mwyn cadarnhau cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ar y casgliadau y daethpwyd iddynt y'i darperir.

**Trafod y ddogfen cyn ei chyhoeddi**

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac erys felly. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan bwerau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol y gellir ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel y caniateir yn benodol o dan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw ran o'i chynnwys, na'i storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw un ac eithrio'r sawl a'i derbyniodd yn wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol, yn amodol ar gwblhau'r profion archwilio terfynol, a bod yr holl eitemau ar y rhestr sy'n weddill wedi'u datrys (Gweler tudalen 4).


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Statws yr archwiliad 4

Adroddiad archwilio arfaethedig 4

Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad 5

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 7

Annibyniaeth a gwrthrychedd 7

Atodiadau

Atodiad 1 - Llythyr Sylwadau Terfynol 8

Atodiad 2 – adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 11

Atodiad 3 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu atynt 14

Atodiad 4 – argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 15

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

3 Y lefelau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn yw £5m. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd effeithio ar b'un a fernir bod eitem yn berthnasol.

4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2017-18, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6 Derbyniom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ar 11 Mehefin 2018 ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio yn sylweddol. Ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd y canlynol yn weddill:

A. Cwblhau dogfennaeth mewn perthynas â darpariaethau, triniaeth gyfrifyddu ar gyfer taliadau diffyg pensiwn a niferoedd pensiynwyr.

B. Cwblhau'r broses o adolygu ansawdd y partneriaid a'r dogfennau a'r ffeiliau archwilio yn annibynnol; a

C. Derbyn llythyr cynrychiolaeth.

7 Rydym yn adrodd i chi ar y materion mwy arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad, y credwn y mae'n rhaid i chi eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm Archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Swyddog Adwar151 y swyddog a'r Dirprwy Swyddog Adwar.151.

# Adroddiad archwilio arfaethedig

8 Yn amodol ar gwblhau gwaith sy'n weddill yn foddhaol, bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi rhoi llythyr cynrychiolaeth i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

9 Mae'r adroddiad archwilio arfaethedig wedi'i nodi yn Atodiad 2.

# Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

# Gamddatganiadau heb eu cywiro

10 Mae yna gamddatganiadau nad ydynt wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, a dylid tynnu eich sylw at y rhain yn ein barn ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3

## Camddatganiadau a gywirwyd

11 Mae camddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Risgiau Sylweddol

12 Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod ein proses gynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Rheolwyr yn diystyru rheolaethau**<br>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb archwilio;<br>• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| | rheolaethau dros gofnodion mewn dyddlyfrau i'r cyfriflyfr ariannol;<br>• adolygu priodoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol gan gynnwys rhai â phartïon cysylltiedig.<br><br>Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion. |
| **Cyflawnder gwariant a'r dyddiad cau ar gyfer gwariant**<br>Rydym wedi nodi bod risg sylweddol yn gysylltiedig â chyflawnder a chau gwariant am y gall fod cymhelliant i beidio â chofnodi'r holl wariant er mwyn i'r Cyngor gofnodi sefyllfa fwy ffafriol ar ddiwedd y flwyddyn. | Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:<br>• cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau er mwyn sicrhau cyflawnder gwariant;<br>• cynnal profion archwilio penodol mewn perthynas â chyflawnder gwariant; a<br>• chynnal profion manwl mewn perthynas ag amcangyfrifon a dyfarniadau rheolwyr fel y nodir yn y risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau a nodir uchod.<br>Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion. |
| **Prisiadau Eiddo**<br><br>Mae'r Cyngor yn cwblhau proses brisio lawn gylchol lle y caiff dosbarthiadau o asedau eu prisio'n llawn bob pum mlynedd, gyda phrisiadau eraill yn cael eu cwblhau gan briswyr mewnol.<br><br>Mae prisiadau eiddo, yn ôl eu natur, yn cynnwys dyfarniadau ac amcangyfrifon a gan fod prisiadau tir ac adeiladu ym mis Mawrth 2017 yn cyfateb i £288 miliwn, gall newidiadau mewn dyfarniadau ac amcangyfrifon gael effaith berthnasol ar y gwerth cario. | Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:<br>• profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu mewn perthynas â'r broses prisio eiddo gan gynnwys nodi lleihad mewn gwerth y tu allan i'r broses brisio;<br>• Gweithio gydag arbenigwyr prisio mewnol er mwyn asesu rhesymoldeb tybiaethau sy'n sail i'r prisiad; ac<br>• Olrhain yr holl symudiadau prisio drwy'r datganiadau ariannol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u datgan yn deg.<br>Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion. |

## Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

13 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

14 **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Daethom i'r casgliad fod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

15 **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**

16 **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**

17 **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**

18 **Ni wnaethom nodi unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol ond rydym wedi nodi sawl maes lle gellid gwella rheolaethau.** Nodir y rhain yn Atodiad 4.

19 **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

# Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

20 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn Atodiad 4. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

# Annibyniaeth a gwrthrychedd

21 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

22 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

XX Medi 2018

**Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2017-18**

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

**Cyfrifoldebau sylwadau rheolwyr**

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

**Gwybodaeth a roddwyd**

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdano gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
  diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

**Sylwadau ar y datganiadau ariannol**

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Ar ôl adolygu asedau'r Cyngor yn erbyn ei bolisi cyfansoddoli asedau ag oes economaidd ddefnyddiol gymysg, ni nodwyd unrhyw ddosbarth o asedau nac asedau cyfunol gan y Cyngor lle bo angen cyfansoddoli.

Mae'r prisiwr wedi cael rhestr lawn o asedau i'w prisio.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Mae'r holl incwm grant wedi'i gydnabod yn unol â'r amodau atodedig.

Mae'r Swyddog Monitro wedi datgelu'r holl faterion cyfreithiol sy'n bodoli i'r archwilwyr ac, yn eu barn hwy, mae'r holl faterion cyfreithiol sy'n bodoli lle mae angen darpariaethau wedi'u datgelu'n briodol yn y cyfrifon.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Cadarnhawn y canlynol: nodwyd pob cynllun a buddiant ymddeol, gan gynnwys y DU, wedi'i ariannu neu heb ei ariannu, wedi'i gymeradwyo neu heb ei gymeradwyo, cytundebol neu ymhlyg a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt; nodwyd pob setliad a chwtogiad a rhoddwyd cyfrif priodol amdanynt; dygwyd pob digwyddiad sy'n ymwneud â phennu rhwymedigaethau pensiwn at sylw'r actiwari; mae'r tybiaethau actiwaraidd sy'n sail i brisiad rhwymedigaethau'r cynllun (gan gynnwys y gyfradd ddisgownt a ddefnyddiwyd) yn unol ag amcangyfrifon gorau'r rheolwyr o'r digwyddiadau yn y dyfodol a

wnaiff effeithio ar fuddiannau ymddeol ac maent yn gyson â'r hyn a wyddwn am y Cyngor; mae cyfrifiadau'r actiwari yn seiliedig ar ddata aelodau cyflawn a chyfredol i'r graddau y bo'n briodol o ran y fethodoleg a fabwysiadwyd; ac mae'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol sy'n deillio o waith yr actiwari yn briodol.

**Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu**

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Sir Ynys Môn ar XX Medi 2018.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: …………………………………… | Llofnodwyd gan: …………………………………… |
| Marc Jones<br>Swyddog A.151<br>Cyngor Sir Ynys Môn | Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu |
| Dyddiad: ……………………………………….…… | Dyddiad: ……………….…………………………… |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn

cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Adrodd ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017-18;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 11, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod

camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.


Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
XX Medi 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu atynt.

Yn ystod ein harchwiliad, nodom y gamddatganiadau canlynol nad ydynt wedi cael eu cywiro gan reolwyr, yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol:

- Yn 2017/18 gwnaeth y Cyngor daliad o £3.66m i gronfa bensiwn Gwynedd i dalu am elfen sefydlog o gyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod o 2017/18 i 2019/20. Gwnaeth y Cyngor cyfrifo am hyn drwy godi 1/3 i'r gronfa gyffredinol a 2/3 i'r reserfau a glustnodwyd (rhwymedigaethau'n ymwneud â'r gronfa bensiwn). Ar ôl cymryd i ystyriaeth y balans yr arian wrth gefn a glustnodwyd, mae hyn wedi arwain at gronfa negyddol o £ 2.44m.

  Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried y modd y caiff taliadau diffyg cronfeydd pensiwn eu trin a daeth i'r casgliad y dylai taliadau elfennau sefydlog o'r gronfa bensiwn gael eu cydnabod yn llawn yn y flwyddyn dalu yn unol â rheoliad 24 o'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywordraeth Leol 2013.

  Y canlyniad yw y dylid codi'r £2.44m a godir ar yr arian wrth gefn a glustnodwyd i'r gronfa gyffredinol. Gan mai gwall dosbarthiad yw hwn o fewn manylion y cronfeydd y gellir eu defnyddio, mae'r rheolwyr wedi dewis peidio ag addasu'r cyfrifon ar gyfer y gwall hwn.
- Nododd rheolwyr yn rhan o'u hadolygiad o ddigwyddiadau ôl-fantolen fod ased amodol – yr hawliad TAW hamdden yn nodyn 43 – yn crisialu yn Awst 2018. Derbyniodd CThEM yr hawliad ac ad-dalodd y TAW a gasglwyd, gan arwain at daliad gan gyllid a Thollau EM o £0.9m. Gan nad yw hyn yn berthnasol, mae'r rheolwyr wedi dewis peidio ag addasu'r cyfrifon ar gyfer hyn, a byddant yn ei gydnabod yn 2018/19.

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio a llywodraethu atynt.

Yn ystod ein harchwiliad, nodom y gamddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan reolwyr, ond y credwn y dylid tynnu eich sylw atynt oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau dros y broses adrodd ariannol.

| CIES DR | CIES CR | BS DR | BS CR | ER Dr | ER Cr | Natur y cywiriad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | | | |
| | 789 | 789 | | | | Arweiniodd cysoniad o'r system refeniw Tai I Anghyn rejer y Cyngor dros y tair blynedd diwethaf at dangydnabod refeniw. |
| 105 | | 1,936 | 2,041 | | | Defnyddiwyd canrannau anghywir i ddechrau yn adroddiad y priswyr mewnol a arweiniodd at gyfrifiad anghywir o symiau ailbrisio asedau sefydlog. |
| 2,000 | 2,000 | | 2,000 | 2,000 | | Ar ôl adolygu'r amgylchiadau a'r dull o gyfrifo'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer safle tirlenwi Gwastraff Penhesgyn, nodwyd bod hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth, ac felly mae darpariaeth wedi'i chodi ar y taliadau. Mae'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd wedi'i rhyddhau. |

Cywirodd y rheolwyr hefyd y nodyn cydnabyddiaeth uwch staff a'r nodyn parti cysylltiedig mewn perthynas â: CBAC CBAC, mentor Môn a thrafodion gyda Age Concern, Sioe Amaethyddol Môn, Môn CAB, Hyrwyddwr Gyrfaoedd and Grwp Llandrillo/Menai.

*CIES – Datganiad cynhwysfawr ar incwm a gwariant*

*BS – Fantolen*

*ER – Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnod*

# Atodiad 4

## Argymhellion yn deillio o'n  gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

Yn 2016-17 Codwyd 8 argymhelliad gennym. Mae 2 wedi'u hail-godi (mater arganu 1 a 4).

| Mater yn codi 1 - Rheoli'r Gyflogres | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Fel rhan o'r ymarfer i Newydd-ddyfodiaid gwnaethom nodi y gall aelod o staff y gyflogres greu newydd-ddyfodiad a diweddaru manylion banc yr unigolyn yn ogystal ag aelodau o'r adran adnoddau dynol. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir na ddylai aelodau o staff y Gyflogres allu sefydlu newydd-ddyfodiaid na diweddaru manylion banc yr unigolyn gan mai swyddogaethau staff adnoddau dynol yw'r rhain. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Mae hyn yn lleihau'r risg o dalu arian parod i gyflogeion ffug. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyniwyd |
| **Ymateb rheolwyr** | Bydd y broses sy'n ymwneud â newydd-ddyfodiaid a thaflenni amser yn newid yn sylweddol wrth i ni barhau i gyflwyno'r gwelliannau i System Adnoddau Dynol/Cyflogres Northgate. Bydd pob newydd-ddyfodiad yn cael ei brosesu gan Adnoddau Dynol (drwy'r swyddogaeth recriwtio ar y we). Caiff lefelau mynediad aelodau o staff eu hadolygu a'u diwygio fel sy'n berthnasol unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau. |
| **Dyddiad gweithredu** | Rhagfyr 2018 |

| Mater yn codi 2 - Cysoniadau Banc | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Wrth i ni fynd drwy broses busnes y trysorlys gwnaethom nodi na chafodd cysoniadau banc misol eu cynnal yn y Cyngor ers mis Awst 2017. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir y dylai cysoniadau banc gael eu cynnal bob mis. |

| | |
|---|---|
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd hyn yn lliniaru'r risg o gamddyrannu arian parod ac yn gwella amseroldeb nodi materion gyda balansau arian parod. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyniwyd |
| **Ymateb rheolwyr** | Bydd newidiadau i'r system o reoli arian parod yn arwain at fwy o awtomeiddio a symleiddio prosesau a fydd yn helpu i sicrhau bod cysoniadau banc yn cael eu cwblhau'n fwy amserol. |
| **Dyddiad gweithredu** | Medi 2018 |

| **Mater yn codi 3 – Cysoniad Budd-dal Tai** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd na chydnabuwyd 900k refeniw o'r system budd-dal tai dros dair blynedd SX3 oherwydd nad oedd unrhyw gysoni'n digwydd rhwng y system SX3 a chod cyfriflyfr cyffredinol y system gyllid. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod cysoniad rhwng SX3 a'r system gyllid yn cael eu paratoi a'u hadolygu yn fisol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Mae'r Cyngor yn cydnabod yr holl refeniw sy'n ddyledus. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyniwyd gan y Tim Rheoli |
| **Ymateb rheolwyr** | Bydd cysoni yn dechrau nawr yn rheolaidd |
| **Dyddiad gweithredu** | Medi 2018 |

| **Mater yn codi 4 - Rheoli'r Gyflogres – Prosesu Taflenni Amser** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Gwnaethom nodi bod holl swyddogion y Gyflogres yn gyfrifol am wirio a mewnbynnu taflenni amser i system y gyflogres ar hyn o bryd. Ddiwedd pob mis, bydd un o swyddogion y Gyflogres yn gyfrifol am wirio'r data a fewnbynnwyd i system y gyflogres (mae'r tri swyddog yn cyflawni'r rôl hon yn eu tro). Mae hyn yn golygu y bydd yr aelod o staff sy'n gwneud y gwaith gwirio yn gwirio'r data a fewnbynnwyd ganddo ef ei hun, ac felly ni wahenir dyletswyddau'n llawn |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir y dylai'r cyngor wahanu dyletswyddau'n llawn mewn perthynas â phrosesu taflenni amser. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd y Cyngor yn lleihau'r risg y caiff oriau amser twyllodrus eu talu. |

| | |
|---|---|
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyniwyd yn rhannol |
| **Ymateb rheolwyr** | Gwahenir dyletswyddau gyda Chynorthwywyr y Gyflogres yn mewnbynnu'r taflenni amser. Yna mae Swyddog y Gyflogres sy'n berthnasol i'r gyflogres honno yn eu gwirio a'u prosesu. Hefyd, pan fydd prosiect gwella Adnoddau Dynol/Cyflogres Northgate wedi'i weithredu, caiff y gweithdrefnau a'r broses wahanu eu gwella ymhellach. Er enghraifft, bydd y rhan fwyaf o gyflogeion yn mewnbynnu eu taflenni amser eu hunain, a awdurdodir gan eu rheolwr. Bydd hyn yn rhyddhau amser swyddogion y gyflogres i wirio ac archwilio adroddiad eithrio. |
| **Dyddiad gweithredu** | Rhagfyr 2018 |

| **Mater yn codi 5 – Rheolaethau Ailbrisio – Adolygu Postiadau Ailbrisiadau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd bod y newid yng ngwerth teg yr asedau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn a'r newidiadau i'r arian wedi'i wneud yn anghywir. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir y dylai adolygiad ar wahân gael ei gynnal o bostiadau symudiadau ailbrisio i'r cronfeydd wrth gefn. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd y Cyngor yn lliniaru'r risg o bostiadau anghywir i'r gronfa ailbrisio wrth gefn. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyniwyd |
| **Ymateb rheolwyr** | Cafodd y daflen waith ailbrisio ei hadolygu ond fe'i hadolygir yn agosach gan gynnwys archwilio pob fformiwla. |
| **Dyddiad gweithredu** | Ar gyfer cyfrifon 2018/19 |

| **Mater yn codi 6 – Trafodion Partïon Cysylltiedig** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd gennym na ddatgelwyd nifer o drafodion partïon cysylltiedig yn y fersiwn cychwynnol a gyflwynwyd i'r archwiliad. At hynny, adroddwyd yn anghywir am rai ffigurau cysylltiedig. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod y rheolwyr yn adolygu'r datgeliad, a'r cyfriflyfr partïon cysylltiedig. |
| **Buddiannau gweithredu'r** | Bydd y Cyngor yn datgelu ei drafodion partïon |

| | |
|---|---|
| **argymhelliad** | cysylltiedig yn briodol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyniwyd |
| **Ymateb rheolwyr** | Bydd arolwg o'r partion cysylltiedig yn mynd ymlaen yn ystod 2018/19 a bydd yn cael ei gysoni I'r lejer er mwyn cael adrodd cywir. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2019 |

| **Mater yn codi 7 – Casglu rhent** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodom nad oedd y cynnydd mewn rhent yn cael ei weithredu'n llawn o fewn y system dai. Nodom y dylai un eiddo fod wedi cael codiad rhent i £99.13. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth fod y rhent wedi'i gofnodi fel £92.34. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod y Cyngor yn trosglwyddo'r cynnydd llawn yn y rhent, gan weithredu system adolygu sy'n cadarnhau bod yr holl godiadau rhent wedi'u rhoi ar waith. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd y Cyngor yn cynyddu lefel yr incwm o'i stoc tai. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | |
| **Ymateb rheolwyr** | |
| **Dyddiad gweithredu** | |

# Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio TG ar gyfer 2017-18

Rydym yn nodi'r holl argymhellion sy'n codi o'n harchwiliad gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn edrych eto ar y rhain y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sydd heb eu datrys yn adroddiad archwiliad y flwyddyn nesaf. Yn 2016-17 Roedd 6 argymhelliad. Mae un argymhelliad wedi'i ail-godi fel rhan o'n gwaith 2017-18.

| Systemau Lluosog – Cyfrineiriau | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nodwyd nifer o wendidau ym mharamedrau cyfrinair Rhaglen a Chronfa Ddata Resource Link fel a ganlyn:<br><br>**<u>Rhaglen Resource Link</u>**<br>Nodwyd y gwendidau canlynol gyda pharamedrau cyfrinair rhaglen Resource Link:<br>- Lleiafswm Hyd Cyfrinair = 7 nod;<br>- Hanes Cyfrinair = Heb ei Osod;<br>- Cyfrinair yn Dod i Ben = Heb ei Osod;<br>- Trothwy Cau Allan = Heb ei Osod; a,<br>- Hyd Cau Allan = Heb ei Osod<br>Gyda'i gilydd mae hyn yn golygu y gall defnyddwyr ddewis cyfrineiriau syml, hawdd eu dyfalu a fyddai'n mynd yn groes i bolisi diogelwch y Cyngor ac yn cynyddu'r risg y gellid defnyddio eu cyfrifon mewn ffordd amhriodol.<br><br>**<u>Cronfa Ddata Oracle Resource Link</u>**<br>Nodwyd y gwendidau canlynol gyda pharamedrau cyfrinair rhaglen Resource Link:<br>- Lleiafswm Hyd Cyfrinair = Heb ei Orfodi;<br>- Hanes Cyfrinair = Anghyfyngedig;<br>- Cyfrinair yn Dod i Ben = Anghyfyngedig;<br>- Cymhlethdod Cyfrinair = Heb ei Orfodi;<br>- Trothwy Cau Allan = 10 ymgais; a,<br>- Hyd Cau Allan = 1 funud<br><br>Mae gwendidau ym maes rheoli cyfrineiriau yn gwneud y system yn fwy agored i ymosodiadau ac felly yn cynyddu'r risg y caiff partïon heb awdurdod fynediad at systemau neu ddata. Dylai cronfeydd data gael eu diogelu'n arbennig am eu bod yn rhoi mynediad uniongyrchol at y data.<br><br>Hefyd, gyda deddfwriaeth GDPR, dylai fod gan bob rhaglen sy'n cadw data personol baramedrau cyfrinair llym er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw ddata eu colli a allai arwain at gosbi'r cyngor yn ariannol. |

| Systemau Lluosog – Cyfrineiriau | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Cydnabyddir bod y rheolwyr eisoes wedi cymryd camau i gysoni pob system â gosodiadau cyfrinair Windows AD a diwygio'r polisi cyfrinair yn unol â chanllawiau NSCS. Yn sgil hyn bydd cyfnod dod i ben cyfrinair yn cynyddu o fis i 12 mis a bydd hyd cyfrinair yn cynyddu o 7 nod i 9 nod. Fodd bynnag, argymhellwn gyflwyno lleiafswm hyd cyfrinair o 12 nod a gweithredu rheolaethau monitro er mwyn sicrhau bod cyfrifon defnyddwyr yn cael eu cadw'n ddiogel rhag mynediad diawdurdod. Mae'r rheolaethau monitro yn cynnwys:<br><br>i) Monitro achosion o fewngofnodi er mwyn nodi defnydd anarferol;<br>ii) Hysbysu defnyddwyr o fanylion unrhyw ymgais i fewngofnodi, boed yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus; dylent roi gwybod am unrhyw rai nad oeddent yn gyfrifol amdanynt. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Bydd cynyddu'r rheolaethau o ran dilysu systemau yn lleihau'r risg y ceir mynediad amhriodol at ddata. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Gwrthodwyd |
| **Ymateb rheolwyr** | Yn ôl canllawiau NCSC, os yw cyfrinair yn rhy hir, bydd defnyddwyr yn fwy tebygol o'i ysgrifennu i lawr. Mae naw nod yn cynnig mwy o ddiogelwch na'r saith blaenorol ond mae hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd defnyddwyr yn ysgrifennu cyfrineiriau i lawr, sydd yn mynd yn groes i'n Polisi Diogelwch TG.<br><br>Mae ein system Atal a Chanfod Ymyrraeth yn monitro'r rhwydwaith am unrhyw draffig a/neu gamau gweithredu maleisus o bosibl, ac mae sawl ymgais aflwyddiannus i fewngofnodi i'r Cyfeiriadur Gweithredol yn un o'r paramedrau hyn.<br><br>Mae ein polisi mewngofnodi parth yn gorfodi cau rhywun allan o gyfrif ar ôl tair ymgais aflwyddiannus i fewngofnodi, ac ar y cam hwnnw rhaid i'r defnyddiwr gysylltu â'r Ddesg Gwasanaeth TG er mwyn gofyn iddi ddatgloi'r cyfrif.<br><br>Ni theimlwn y byddai'n briodol e-bostio defnyddwyr bob tro y mewngofnodir i'w cyfrif yn llwyddiannus, er yr ystyriwn y posibilrwydd o roi gwybod am fethu â mewngofnodi.<br><br>Dim ond yn ddiweddar y gwnaed y newidiadau a nodwyd gan yr archwilydd, a chynhelir adolygiad ymhen chwe mis. |
| **Dyddiad gweithredu** | Dd/G |

# Argymhellion yn gysylltiedig ag ystadau yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

Amlinellwn yr holl argymhellion sy'n gysylltiedig ag ystadau sy'n deillio o'n harchwiliad gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Mae'r rhan fwyaf (tri) o'r argymhellion yn ymwneud â'r dull prisio a sut i wella cywirdeb prisio asedau'r Cyngor. Mae'r ddau sy'n weddill yn weithdrefnol eu natur. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf. Diweddarwyd argymhellion sy'n weddill ar gyfer 2016/17 a'u cynnwys yn argymhellion 2017-18.

| Teitl / Maes | Canfyddiad ac Argymhelliad | Ymateb Rheolwyr |
|---|---|---|
| **Materion yn ymwneud â Phrisio: Anheddau'r Cyngor** | **Argymhellir y dylai'r wybodaeth brisio a baratoir ar gyfer Anheddau'r Cyngor gynnwys gwybodaeth am oes ddefnyddiol economaidd amcangyfrifedig y stoc dai a bod y stoc, yn y dyfodol, yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod oes ddefnyddiol economaidd yn adlewyrchu cyflwr y stoc dai;**<br>Nid oedd y wybodaeth brisio a roddwyd am Anheddau'r Cyngor yn cynnwys unrhyw wybodaeth am oes ddefnyddiol economaidd amcangyfrifedig y stoc dai. Ar ôl ei holi mae'r Prisiwr wedi cadarnhau *'Yma tybir bod oes ddefnyddiol economaidd yn 30 mlynedd gan fod asedau yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru'.* | Yn flaenorol cafodd oes economaidd ddefnyddiol y Stoc Dai ei lleihau bob blwyddyn, ac roedd wedi cyrraedd tua 23 mlynedd. Yn 2017/18 gwnaethom geisio canfod sail mwy dilys i'r oes economaidd ddefnyddiol. Cynhaliwyd cyfarfod â'r Rheolwr Gwasanaeth Technegol Tai, yr Uwch Swyddog Prisio, yr Uwch Gyfrifydd a'r Rheolwr Cyllid er mwyn nodi oes economaidd ddefnyddiol mwy cywir ar gyfer y Stoc Dai. Yn y cyfarfod hwn, tanlinellwyd y ffaith bod yn rhaid i'r adran Tai gynnal y stoc dai yn ôl Safon Ansawdd Tai Cymru. Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cyflwyno cynllun 30 mlynedd i Lywodraeth Cymru sy'n nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cynnal a chadw ac yn adnewyddu stoc er mwyn cael oes economaidd ddefnyddiol o 30 mlynedd a chydymffurfio â Safonau Tai Cymru. Bob blwyddyn gwneir cryn fuddsoddiad er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei gynllun 30 mlynedd a bod ganddo stoc dai sy'n addas ar gyfer y cyfnod o 30 mlynedd. Mae'r Gwasanaeth Tai yn trefnu bod arolygon yn cael eu cynnal gan sefydliad annibynnol bob hyn a hyn fel bod ganddo wybodaeth glir am sut i fuddsoddi yn ei stoc dai. Mae Ynys Môn yn berfformiwr uchel o ran cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. Felly, mae 30 mlynedd yn sail mwy cadarn. Cynigir y bydd yr oes economaidd ddefnyddiol yn parhau i fod yn 30 mlynedd bob blwyddyn oherwydd y rhaglen fuddsoddi barhaus yn unol â'r cynllun 30 mlynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Penderfynwyd ar hyn ymhell cyn cau cyfrifon ac roedd wedi'i gynllunio'n glir. |
| **Materion yn ymwneud â Phrisio**<br>**: Anheddau'r Cyngor** | **Dylai tîm Cyllid y Cyngor bennu p'un a oes angen ailarchwilio'r dull o gyfansoddoli ar gyfer Tai Cyngor yn y blynyddoedd i ddod er mwyn cyfrif am ddibrisiant yn fwy cywir.**<br>Nodir na chynhaliwyd unrhyw ymarfer cyfansoddoli ar y portffolio Tai Cyngor. Er i'r prisiwr nodi bod gwerthoedd unigol yr unedau tai islaw'r trothwy a bennir ym mholisi cyfansoddoli'r Cyngor, mae'r portffolio tai yn amlwg yn cynrychioli cyfran sylweddol o bortffolio eiddo'r Cyngor yn ôl gwerth. Deallwn, lle ceir nifer fawr o gydrannau tebyg o asedau cyffelyb nad ydynt efallai'n berthnasol yn unigol y byddent, gyda'i gilydd, yn cael effaith berthnasol ar ddibrisiant, ac y dylid eu dibrisio ar wahân. | Mae gan y Cyngor bolisi cyfansoddoli a fyddai'n ffocysu cyfansoddoli ar newidiadau perthnasol i gyfrifo dibrisiant. Mae'r polisi hefyd yn nodi, lle ceir effaith berthnasol gronnol ar ddibrisiant, yna dylai'r asedau cyfunol gael eu cyfansoddoli. Bydd y Tîm Cyllid yn adolygu'r polisi ac yn parhau i ganolbwyntio ar berthnasedd.<br><br>O ran y stoc Dai, nid ystyrir bod oes ddefnyddiol economaidd to yn berthnasol wahanol i adeiledd adeiladau. Gall fod gan foeleri a cheginau oes fyrrach. Fodd bynnag, o ystyried bod 30 mlynedd yn sail resymol i'w oes ddefnyddiol economaidd, nid yw'n debygol y bydd effaith berthnasol ar gyfrifo dibrisiant ac ni fydd unrhyw effaith ar y farn wir a theg am y cyfrifon wrth i ddibrisiant gael ei ganslo allan yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ac ni chaiff unrhyw effaith ar falansau'r Cyngor.<br><br>O ystyried bod angen llunio'r cyfrifon yn gynt a'r tîm bach a fyddai'n gorfod gwneud y gwaith, byddai unrhyw newid i'r polisi cyfansoddoli yn gosod baich ychwanegol ar nifer fach o staff ar adeg brysur iawn yn y flwyddyn. Ni theimlir y byddai'r newid yn cael effaith berthnasol ddigonol ar y cyfrifon i gyfiawnhau'r llwyth gwaith ychwanegol. |
| **Materion Gweithdrefnol** | **Argymhellir y dylid cynnal rhaglen arolygu fwy helaeth wedi'i dogfennu er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r asedau a brisir bob blwyddyn wedi'u harolygu yn y flwyddyn berthnasol, hyd yn oed os nad yw'r arolygiad at ddibenion prisio yn unig, h.y. yn delio â rheoli'r asedau yn gyffredinol.** | Mae gan y Cyngor Grŵp Rheoli Asedau sy'n cadw trosolwg o asedau'r Cyngor ac yn penderfynu ar ddefnydd asedau costus neu ddiangen yn y dyfodol. Mae gan y Cyngor fwy na 4000 o asedau ac nid oes gan y Tîm Prisio bach y capasiti i'w harchwilio. Fodd bynnag, mae swyddogion sy'n gyfrifol am asedau sy'n archwilio'r eiddo o dan eu cylch gwaith. Er enghraifft, mae'r Rheolwr Ystadau yn archwilio Ffermydd a Mân-ddaliadau'r Cyngor. Mae'r Rheolwr Technegol Tai yn ymwybodol o gyflwr y stoc dai ac yn comisiynu arolygon annibynnol yn rheolaidd. Yn ogystal cynhelir archwiliadau statudol e.e. systemau gwresogi yn unol â'r gofynion statudol. Archwilio asedau gan y rhai sy'n gyfrifol amdanynt sy'n sail i raglenni cynnal a chadw refeniw ac adnewyddu cyfalaf. Caiff yr asedau hyn eu prisio gan yr Uwch Swyddog Prisio ar sail y ffaith bod yr asedau yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â'r safonau cyfreithiol ac eiddo eraill. |
| **Materion** | **Argymhellir y dylai'r datganiad canlynol gael ei** | Y rheswm dros hyn yw bod yr Uwch Swyddog |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithdrefnol** | **gynnwys yn yr adroddiad prisio ''*All assets (which do not fall to be valued as part of the 5 year rolling programme) with a value in excess of £500,000 have been valued to establish any material change in value therefore remaining assets do not require re-valuations'.*** <br><br> Gwnaethom nodi i'r prisiwr y llynedd gynnwys y datganiad yn yr adroddiad prisio '*All assets (which do not fall to be valued as part of the 5 year rolling programme) with a value in excess of £500,000 have been valued to establish any material change in value therefore remaining assets do not require re-valuations'.* Fodd bynnag ni chafodd y datganiad hwn ei ddarparu yn yr adroddiad eleni. | Prisio wedi prisio pob eiddo er mwyn gwella ansawdd y prisiad. Er enghraifft, cafodd y Stoc Dai ei hailbrisio oherwydd newid sylweddol yn y ffactor addasu y mae'r Cyngor yn ei defnyddio fel rhan o'i brisiad o Stoc y Cyngor. Mae hyn wedi gwella prisiad y Stoc Dai yn sylweddol. Mae Prisio pob ased wedi golygu nad yw'r datganiad yn gymwys mwyach. |
| **Materion yn ymwneud â Phrisio Nad ydynt yn ymwneud â Thai** | **Argymhellir y dylai'r prisiwr adolygu ei ddull o bennu Cost Adnewyddu wedi'i Dibrisio (DRC) a chymhwyso gwahanol ganrannau fel sy'n briodol (fel arfer rhwng 0%, lle nad oes unrhyw waith allanol, a 15% ar gyfer gwaith allanol mwy helaeth);** <br><br> Nodir ar gyfer asedau a gaiff eu prisio gan ddefnyddio Costau Disodli wedi'u Dibrisio (Asedau Gweithredol Arbenigol), mae'r prisiwr wedi pennu costau'r gwaith allanol drwy ychwanegu canran at gostau adeiladu sylfaenol yr adeiladau. Mae hyn yn ddull gweithredu cydnabyddedig a derbyniol, ond mae'r prisiwr yn parhau i fabwysiadu canran sefydlog o 10%, lle mae'n fwy cyffredin amrywio'r ganran yn dibynnu ar y graddau y cynhelir gwaith allanol (gwirioneddol ac ar sail MEA). | Ym marn yr Uwch Swyddog Prisio, oherwydd y diffyg sicrwydd llwyr gydag unrhyw ganran, mae 10% yn ganran resymol i'w chymhwyso. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD I: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 25 MEDI 2018 |
| PWNC: | ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2017/18 |
| AELOD(AU) PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD R WILLIAMS |
| SWYDDOG(ION) ARWEINIOL: | R MARC JONES |
| SWYDDOG(ION) CYSWLLT: | GARETH ROBERTS/CLAIRE KLIMASZEWSKI (EST. 2675/1865) |

**Natur a rheswm am adrodd**

Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Chynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am 2017/18 (Atodiad 8 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio ar 24 Gorffennaf 2018 a'i basio ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ar 17 Medi 2018. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau.

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar weithgareddau reoli trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2017/18. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2017/18, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2017);
- adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 28 Chwefror 2018);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (sef yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am yr alldro mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys ac mae'n dwyn sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad o dan y Côd bod y Pwyllgor Archwilio yn sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio, darparwyd hyfforddiant ar gyfer Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Mehefin 2018.

Yn ystod 2017/18, cydymffurfiodd y Cyngor â'i anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys Gwirioneddol | 2016/17 Gwirioneddol £000 | 2017/18 Gwreiddiol £000 | 2017/18 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>28,033<br>8,607<br>36,640 | <br>39,799<br>12,873<br>52,672 | <br>20,064<br>9,291<br>29,355 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>91,515<br>42,499<br>134,014 | <br>101,286<br>41,648<br>142,934 | <br>95,218<br>41,648<br>136,866 |
| Benthyca Gros | 117,110 | 125,018 | 117,029 |
| Dyled Allanol | 117,110 | 125,018 | 117,029 |
| Byddsoddiadau<br>• Mwy na blwyddyn<br>• Dan flwyddyn<br>• Cyfanswm | <br><br>13,319<br>13,319 | <br><br>15,000<br>15,000 | <br>-<br>5,993<br>5,993 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig) ei dorri.

Gwelwyd yr un amgylchedd buddsoddi heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn;

**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2017/18 sydd yn yr adroddiad hwn; ac

**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2017/18.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2018
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2018
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 3 Gorffennaf 2018
Atodiad 4 - Sylwadau gan Capita Asset Services ar yr Economi, Graddfeydd Buddsoddi a Benthyca

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18
Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys am 2017/18
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2017/18
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2017/18

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r swyddogaethau / gweithgareddau / canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2017/18:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Symudiadau'r graddfeydd llog yn y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT A CHYLLIDO CYFALAF Y CYNGOR 2017/18

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei gyllido.

| | **2016/17 Gwirioneddol (£m)** | **2017/18 Amcangyfrif (£m)** | **2017/18 Gwirioneddol (£m)** |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 28 | 40 | 20 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 9 | 13 | 9 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **37** | **53** | **29** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT | 28 | 40 | 20 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 9 | 13 | 9 |
| **Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca** | **11** | **13** | **7** |
| **Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyca** | **0** | **0** | **0** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2017/18 a gyllidwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Dengys y tabl uchod fod £7m o wariant cyfalaf cronfa'r Cyngor yn cael ei gyllido drwy fenthyca. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau allanol Tymor Hir gwirioneddol yn ystod y flwyddyn, yn hytrach, benthycwyd yn fewnol gyda balansau'r Cyngor yn cyllido hyn yn y tymor byr er mwyn gostwng taliadau llog. Fodd bynnag, y disgwyliad yw yn y tymor hir i fenthyca er mwyn ailgyflenwi balansau'r Cyngor.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

### 3.3 Gostwng y CFR

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion sylfaenol benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw, MRP, er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2017/18 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LlC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 ar 28 Chwefror 2017.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR : Cronfa'r Cyngor | 2016/17 Gwirioneddol (£m) | 2017/18 Cyllideb (£m) | 2017/18 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 84 | 92 | 92 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf cyllidwyd drwy fenthyca (fel uchod) | 11 | 13 | 7 |
| Llai MRP/VRP* | (3) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 92 | 101 | 95 |

| CFR : CRT | 2016/17 Gwirioneddol (£m) | 2017/18 Cyllideb (£m) | 2017/18 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 43 | 42 | 42 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 0 | 0 | 0 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 42 | 41 | 41 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y terfyn awdurdodedig.

## 3.4 Benthyca Gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canol a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf yn 2017/18. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2017 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2018 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2018 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 117.1 | 125.0 | 117.0 |
| CFR | 134.0 | 142.9 | 136.9 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2017/18, defnyddiwyd benthyciadau mewnol i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca'n allanol ar gyfer holl ofyniad benthyca'r Cyngor, yn defnyddio ei arian wrth gefn ei hun i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf.

**3.4.2** Bellach, mae'r strategaeth o fenthyca'n fewnol wedi cael ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyciad gros o £117.0m ar 31 Mawrth 2018 yn llai na'r CFR a ragwelwyd ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

| | Gwirioneddol 2017/18 (£m) | Amcangyfrif 2018/19 (£m) | Amcangyfrif 2019/20 (£m) |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 136.9 | 148.9 | 165.3 |

Ffynhonnell: Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:-

**3.5.1** **Y terfyn awdurdodedig** - y terfyn awdurdodedig yw'r "terfyn benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y terfyn awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2017/18.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y terfyn awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost gyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall net o incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | **2017/18** |
|---|---|
| Terfyn awdurdodedig | £169.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £117.0m |
| Terfyn Gweithredol | £164.0m |
| Costau cyllido fel cyfran o ffrwd refeniw net - Cronfa'r Cyngor | 6.25% |
| Costau cyllido fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 23.02% |

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2018

**4.1** Caiff sefyllfa dyledion a buddsoddiad y Cyngor ei drefnu gan y gwasanaeth rheoli trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli'r risgiau yn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau i sicrhau'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy'r adroddiadau i Aelodau y manylir arnynt yn y crynodeb, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18. Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2016/17 a 2017/18 fel a ganlyn:-

| | **31 MAWRTH 2017** | | | **31 MAWRTH 2018** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **Graddfa Cyfartalog (%)** | **Aeddfed-rwydd Cyfartalog (bl)** | **£000** | **Graddfa Cyfartalog (%)** | **Aeddfed-rwydd Cyfartalog (bl)** |
| Dyled | 117.110 | 5.25 | 22.7 | 117.029 | 5.15 | 23.36 |
| CFR | 134,014 | | | 136.866 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (16,904) | | | (19,837) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < I flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog) | 5,000 | 0.35 | | | | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 8,319 | 0.15 | | 5.993 | 0.39 | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 13,319 | 0.22 | | 5,993 | 0.39 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Nid aethpwyd dros ben y terfynau ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu fel:-

| | **31 MAWRTH 2017** | | **31 MAWRTH 2018** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **% o'r cyfanswm** | **£m** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfanswm benthyciadau | 117.1 | 100 | 117.0 | 100 |
| Llai na 12 mis | 5.5 | 4.7 | 10.1 | 8.63 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 5.1 | 4.3 | 5.1 | 4.36 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 9.6 | 8.2 | 7.0 | 5.98 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 5.6 | 4.8 | 5.8 | 4.96 |
| 10 mlynedd a mwy | 91.3 | 78.0 | 89.0 | 76.07 |

**4.3** Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan yn gwneud aildrefnu'n anhyfyw.

**4.4** Dalwyd holl adneuon y Cyngor mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos at y gyfradd sylfaenol bresennol, £5.993m ar 0.39% ar 31 Mawrth 2018 (31 Mawrth 2017 – £8.3m ar 0.15%). Roedd y cyfan o'r buddsoddiadau am lai na blwyddyn.

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2017/18

**5.1** Roedd y strategaeth rheoli trysorlys ar gyfer 2017/18 yn cynnwys disgwyliad am gyfraddau llog na fyddai'r Gyfradd Banc yn cychwyn codi o 0.25% hyd chwarter 2 2019 ac yn codi ond unwaith wedi hynny cyn 31 Mawrth 2020. Byddai cynnydd graddol hefyd yn y cyfraddau benthyca sefydlog am gyfnodau canolig a hwy yn ystod 2017/18 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynnol. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008, parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca, lle yr oedd hynny'n bosibl, i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Yn ystod 2017/18, roedd cyfraddau PWLB am y tymor hwy yn anwadal iawn ond heb fawr gyfeiriad cyffredinol, tra bod cyfraddau PWLB am y tymor byrrach yn cynyddu yn ystod ail hanner y flwyddyn.

## 6. ALLDRO BUDDSODDI AR GYFER 2017/18

**6.1** Polisi Buddsoddi – caiff polisi buddsoddi'r Cyngor ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, sydd wedi cael eu gweithredu yn y Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2017. Yn y polisi hwn, nodir y dull y dylid ei ddefnyddio wrth ddewis gwrthbartïon buddsoddi ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddarperir gan y 3 brif asiantaeth cyfraddau credyd ynghyd â data ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis y rhagolygon o ran graddfeydd, cyfnewid risg credyd ('credit default swaps'), prisiau cyfranddaliadau'r banciau ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio gyda'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw broblemau o safbwynt hylifedd.

**6.2** Cyfradd y Banc ar gychwyn y flwyddyn ariannol oedd 0.25%, fodd bynnag, cododd i 0.5% ar 2 Tachwedd 2017. Roedd hynny'n golygu bod cyfraddau llog y sefydiadau gwrthbarti ar gyfrifon nodweddiadol y gellir galw arnynt yn amrywio rhwng 0.10% a 0.40%.

**6.3** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod o hyd at £26m fod ar gael, yn amrywio rhwng £5m a £26m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.058% neu £15k ar ôl addasu ar gyfer cyfraddau uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £31.2k (0.12%) ar falansau a oedd, ar gyfartaledd, yn £14.4m.

## 7. DIOGELWCH BUDDSODDI AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda'r sefydliadau mwyaf ar y stryd fawr (Santander, HSBC, RBS a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd.

## 8. ALLDRO BENTHYCA 2017/18

**8.1** Benthyciadau – yr unig fenthyciad a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd benthyciad o £5m o Gronfa Bensiwn Tyne & Wear. Gwnaed hynny ar 20 Hydref 2017 ar gyfradd log o 0.33% am gyfnod hyd at 3 mis. Wedi i'r benthyciad aeddfedu ar 19 Ionawr 2018, cafodd ei ymestyn am 3 mis pellach ar gyfradd log o 0.50%.

**8.2** Ail-drefnu – ni chafodd unrhyw fenthyciadau eu hail-drefnu yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y gwahaniaeth cyfartalog o 1% rhwng cyfraddau benthyca newydd PWLB a'r cyfraddau ar gyfer talu'n ôl o flaen amser yn golygu y byddai ail-drefnu yn anhyfyw.

**8.3** Ad-daliadau – aeddfedodd 2 o fenthyciadau PWLB yn ystod y flwyddyn. Aeddfedodd y cyntaf ar 6 Mehefin 2017 am swm o £2.5m. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol yn 2009 ar gyfradd log o 3.25%. Aeddfedodd yr ail fenthyciad ar 17 Gorffennaf 2017 am swm o £3.5m, ac fe'i cymerwyd yn 1992 ar gyfradd log o 10.375%. Ad-dalwyd y benthyciadau hyn drwy ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd i ail-ariannu'r benthyciadau.

## 9. GWEITHGAREDD ERS 2017/18

**9.1** Ar 19 Ebrill 2018, cafodd benthyciad o £5m gan Gronfa Bensiwn Tyne & Wear ei ad-dalu gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**9.2** Yn ystod misoedd cyntaf 2018/19, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi parhau i fuddsoddi mewn cyfrifon y ceir mynediad iddynt yn syth, sy'n golygu bod yr arian ar gael pan mae ei angen.

**9.3** Hyd yma, nid oes unrhyw fenthyciadau newydd wedi cael eu cymryd yn ystod 2018/19.

**9.4** Nid oes unrhyw fenthyciadau PWLB wedi cael eu had-dalu hyd yma yn 2018/19.

## 10. NEWIDIADAU YN YSTOD 2017/18

**10.1** Codau Diwygiedig CIPFA – yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) Gôd diwygiedig ar gyfer Rheoli Trysorlys a Chanllawiau Traws Sector ynghyd â Chôd Pwyllog diwygiedig. Roedd y codau diwygiedig hyn â ffocws penodol ar y modd y dylid delio gyda buddsoddiadau awdurdodau lleol nad oeddynt yn rhai o fath trysorlys, e.e. drwy fuddsoddi mewn prynu eiddo er mwyn cynhyrchu incwm ar gyfer yr Awdurdod ar lefel uwch o lawer na'r lefel y gellir ei sicrhau drwy fenthyciadau trysorlys. Un argymhelliad oedd y dylai awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiad newydd i Aelodau i roi crynodeb lefel uchel o'r strategaeth gyfalaf gyffredinol fel y gallai Aelodau weld y modd yr oedd adnoddau arian yr Awdurdod wedi cael eu rhannu rhwng buddsoddiadau trysorlys a rhai nad oeddynt yn gysylltiedig â'r trysorlys. Bydd swyddogion yn adrodd i'r Aelodau unwaith y bydd goblygiadau'r codau newydd hyn wedi cael eu hasesu o ran eu heffaith debygol ar yr Awdurdod.

**10.2** Cyfarwydd Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol II (MiFID II) – pennodd yr UE 3 Ionawr 2018 fel y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau dan MiFID II. Mae'r rheoliadau hyn yn rheoli'r berthynas a fydd gan sefydliadau sy'n cynnal trafodion benthyca gydag awdurdodau lleol o'r dyddiad hwnnw. Ychydig o effaith mae hyn wedi ei gael ar yr Awdurdod hwn ac eithrio gorfod llenwi'r ffurflenni a anfonwyd gan bob sefydliad sy'n delio gyda'r Awdurdod hwn ac ar gyfer pob math o'r offerynnau buddsoddi yr ydym yn eu defnyddio ac eithrio adneuon ariannol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu.

## 11. CASGLIAD

**11.1** Mae adolygiad o'r perfformiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2017/18 wedi ei ddarparu uchod. Roedd y flwyddyn yn weddol sefydlog a'r gweithgaredd mwyaf arwyddocaol oedd benthyciad gan Gronfa Bensiwn Tyne & Wear am swm o £5.0m am 3 mis a gafodd ei ymestyn am 3 mis pellach pan aeddfedodd. Cafodd 2 o fenthyciadau PWLB gwerth £5.5m eu had-dalu yn ystod y flwyddyn. Gostyngodd dychweliadau ar fuddsoddiadau i'r cyfraddau isaf erioed oherwydd cyfradd sylfaenol isel y banciau ac roedd gan y Cyngor falansau ariannol priodol bob amser, er bod y graddfeydd llog isel yn golygu nad oedd fawr o ddychweliad. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 a'i amcanion allweddol, sef risg isel a sicrhau bod digon o arian i dalu credydwyr y Cyngor ac ati. Ceir manylion yn Atodiad 1 am sefyllfa ariannol offerynnau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2018.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 7 AWST 2018**

**Crynodeb o Werth y Portffolio**
**Ar 31 Mawrth 2018**

| | Nominal / Prifswm (£) | Gwerth Teg (£) |
|---|---|---|
| **ASEDAU ARIANNOL** | | |
| Arian (cyfrifon llog) (1) | 5,993,375 | 6,007,584 |
| | | |
| **YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | |
| Benthyciad PWLB - Sefydlog | **111,184,478** | 166,042,050 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 241,122 | 372,142 |
| Benthyciad LlC | 131,400 | 131,400 |
| Salix | 471,881 | 471,881 |
| Cronfa Bensiwn Tyne & Wear | 5,000,000 | 5,000,000 |

**Gwrthbartïon**

| | | |
|---|---|---|
| **(1)** | Arian (cyfrifon llog) | 2,074,120 |
| | Santander | 3,684,119 |
| | Bank of Scotland | 233,447 |
| | Nat West Cash Manager A/c | 1,690 |
| | RBS | 5,993,376 |

**Cyfraddau Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Marwth 2018 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2018***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw/ tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term) ** | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Cyfradd Dychweliad/ Rate of Return % | Cyfradd Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Royal Bank of Scotland plc | **3,684** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **2,074** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **233** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.05** | **BBB+** | **F2** | **A2** | **P-1** | **BBB+** | **A-2** | **Glas – 12 mis/ Blue – 12 months** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartïon yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 / The Counterparty Criteria can be found at Appendix 6 of the 2017/18 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Cyfraddau Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 29 Mehefin 2018 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 29 June 2018***



| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw/ tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term) ** | Cyfnod (O-I) / Period (From - To) | Cyfradd Dychweliad/ Rate of Return % | Cyfradd Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Cyfradd Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating | Cyfradd Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Royal Bank of Scotland plc | **7,487** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A+** | **A-1** | **Oren –12 mis/ Orange - 12 months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **1,207** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **A** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.10** | **A-** | **F2** | **A1** | **P-1** | **A-** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12 months** |
| Royal Bank of Scotland group plc | National Westminster Bank plc | **Dim/Nil** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.05** | **A-** | **F2** | **A1** | **P-1** | **A-** | **A-2** | **Glas – 12 mis / Blue – 12 months** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartïon yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 / The Counterparty Criteria can be found at Appendix 6 of the 2018/19 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

# 1. The Economy and Interest Rates

**UK.** The outcome of the EU referendum in June 2016 resulted in a gloomy outlook and economic forecasts from the Bank of England based around an expectation of a major slowdown in UK GDP growth, particularly during the second half of 2016, which was expected to push back the first increase in Bank Rate for at least three years. Consequently, the Bank responded in August 2016 by cutting Bank Rate by 0.25% to 0.25% and making available over £100bn of cheap financing to the banking sector up to February 2018. Both measures were intended to stimulate growth in the economy. This gloom was overdone as the UK economy turned in a G7 leading growth rate of **1.8% in 2016**, (actually joint equal with Germany), and followed it up with another **1.8% in 2017**, (although this was a comparatively weak result compared to the US and EZ).

During the calendar year of 2017, there was a major shift in expectations in financial markets in terms of how soon Bank Rate would start on a rising trend. After the UK economy surprised on the upside with strong growth in the second half of 2016, growth in 2017 was disappointingly weak in the first half of the year; quarter 1 came in at +0.3% (+1.7% y/y) and quarter 2 was +0.3% (+1.5% y/y), which meant that growth in the first half of 2017 was the slowest for the first half of any year since 2012. The main reason for this was the sharp increase in inflation caused by the devaluation of sterling after the EU referendum, feeding increases into the cost of imports into the economy. This caused a reduction in consumer disposable income and spending power as inflation exceeded average wage increases. Consequently, the services sector of the economy, accounting for around 75% of GDP, saw weak growth as consumers responded by cutting back on their expenditure. However, growth did pick up in quarter 3 to 0.5% before dipping slightly to 0.4% in quarter 4.

Consequently, market expectations during the autumn rose significantly that the MPC would be heading in the direction of imminently raising Bank Rate. The **MPC meeting of 14 September** provided a shock to the markets with a sharp increase in tone in the minutes where the MPC considerably hardened their wording in terms of needing to raise Bank Rate very soon. The **2 November MPC quarterly Inflation Report meeting** duly delivered on this warning by withdrawing the 0.25% emergency rate cut which had been implemented in August 2016. Market debate then moved on as to whether this would be a one and done move for maybe a year or more by the MPC, or the first of a series of increases in Bank Rate over the next 2-3 years. The MPC minutes from that meeting were viewed as being dovish, i.e. there was now little pressure to raise rates by much over that time period. In particular, the GDP growth forecasts were pessimistically weak while there was little evidence of building pressure on wage increases despite remarkably low unemployment. The MPC forecast that CPI would peak at about 3.1% and chose to look through that breaching of its 2% target as this was a one off result of the devaluation of sterling caused by the result of the EU referendum. The inflation forecast showed that the MPC expected inflation to come down to near the 2% target over the two to three year time horizon. So this all seemed to add up to cooling expectations of much further action to raise Bank Rate over the next two years.

However, GDP growth in the second half of 2017 came in stronger than expected, while in the new year there was evidence that wage increases had started to rise.

The **8 February MPC meeting** minutes therefore revealed another sharp hardening in MPC warnings focusing on a reduction in spare capacity in the economy, weak increases in productivity, higher GDP growth forecasts and a shift of their time horizon to focus on the 18 – 24 month period for seeing inflation come down to 2%. (CPI inflation ended the year at 2.7% but was forecast to still be just over 2% within two years.) This resulted in a marked increase in expectations that there would be another Bank Rate increase in May 2018 and a bringing forward of the timing of subsequent increases in Bank Rate. This shift in market expectations resulted in **investment rates** from 3 – 12 months increasing sharply during the spring quarter.

**PWLB borrowing rates** increased correspondingly to the above developments with the shorter term rates increasing more sharply than longer term rates. In addition, UK gilts have moved in a relatively narrow band this year, (within 25 bps for much of the year), compared to **US treasuries**. During the second half of the year, there was a noticeable trend in treasury yields being on a rising trend with the Fed raising rates by 0.25% in June, December and March, making six increases in all from the floor. The effect of these three increases was greater in shorter terms around 5 year, rather than longer term yields.

As for **equity markets**, the FTSE 100 hit a new peak near to 7,800 in early January before there was a sharp selloff in a number of stages during the spring, replicating similar developments in US equity markets.

The major UK landmark event of the year was the inconclusive result of the **general election** on 8 June. However, this had relatively little impact on financial markets. However, **sterling** did suffer a sharp devaluation against most other currencies, although it has recovered about half of that fall since then. Brexit negotiations have been a focus of much attention and concern during the year but so far, there has been little significant hold up to making progress.

The **manufacturing sector** has been the bright spot in the economy, seeing stronger growth, particularly as a result of increased demand for exports. It has helped that growth in the EU, our main trading partner, has improved significantly over the last year. However, the manufacturing sector only accounts for around 11% of GDP so expansion in this sector has a much more muted effect on the average total GDP growth figure for the UK economy as a whole.

**EU.** Economic growth in the EU, (the UK's biggest trading partner), was lack lustre for several years after the financial crisis despite the ECB eventually cutting its main rate to -0.4% and embarking on a massive programme of quantitative easing to stimulate growth. However, growth eventually picked up in 2016 and subsequently gathered further momentum to produce an overall GDP figure for 2017 of 2.3%. Nevertheless, despite providing this massive monetary stimulus, the ECB is still struggling to get inflation up to its 2% target and in March, inflation was still only 1.4%. It is, therefore, unlikely to start an upswing in rates until possibly towards the end of 2019.


**USA.** Growth in the American economy was volatile in 2015 and 2016. 2017 followed that path again with quarter 1 at 1.2%, quarter 2 3.1%, quarter 3 3.2% and quarter 4 2.9%. The annual rate of GDP growth for 2017 was 2.3%, up from 1.6% in 2016. Unemployment in the US also fell to the lowest level for 17 years, reaching 4.1% in October to February, while wage inflation pressures, and inflationary pressures in general, have been building. The Fed has been the first major western central bank to start on an upswing in rates with six increases since the first one in December 2015 to lift the central rate to 1.50 – 1.75% in March 2018. There could be a further two or three increases in 2018 as the Fed faces a challenging situation with GDP growth trending upwards at a time when the recent Trump fiscal stimulus is likely to increase growth further, consequently increasing inflationary pressures in an economy which is already operating at near full capacity. In October 2017, the Fed also became the first major western central bank to make a start on unwinding quantitative easing by phasing in a gradual reduction in reinvesting maturing debt.

**Chinese economic growth** has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus and medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and credit systems.

**Japan.** GDP growth has been improving to reach an annual figure of 2.1% in quarter 4 of 2017. However, it is still struggling to get inflation up to its target rate of 2% despite huge monetary and fiscal stimulus, although inflation has risen in 2018 to reach 1.5% in February. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.


## 2. Borrowing Rates in 2017/18

**PWLB certainty maturity borrowing rates**As depicted in the graph and tables below and in appendix 3, PWLB 25 and 50 year rates have been volatile during the year with little consistent trend. However, shorter rates were on a rising trend during the second half of the year and reached peaks in February / March. During the year, the 50 year PWLB target (certainty) rate for new long term borrowing was 2.50% in quarters 1 and 3 and 2.60% in quarters 2 and 4. The graphs and tables for PWLB rates show, for a selection of maturity periods, the average borrowing rates, the high and low points in rates, spreads and individual rates at the start and the end of the financial year.




# 3. Investment Rates in 2017/18

Investment rates for 3 months and longer have been on a rising trend during the second half of the year in the expectation of Bank Rate increasing from its floor of 0.25%, and reached a peak at the end of March. Bank Rate was duly raised from 0.25% to 0.50% on 2.11.17 and remained at that level for the rest of the year. However, further increases are expected over the next few years. Deposit rates continued into the start of 2017/18 at previous depressed levels due, in part, to a large tranche of cheap financing being made available under the Term Funding Scheme to the banking sector by the Bank of England; this facility ended on 28.2.18.




# 4. Other Graphs

**UK, US and EZ GDP growth**





**Inflation UK, US, Germany and France**




# 5. Borrowing and investment rates

Below are supplementary graphs and tables, and the PWLB rates are based on the maturity debt certainty rate.




| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3/4/17 | 0.850% | 0.870% | 1.000% | 1.120% | 1.250% | 1.930% | 2.620% | 2.370% | 1.100% |
| 29/3/18 | 1.670% | 1.720% | 1.870% | 1.960% | 2.050% | 2.430% | 2.770% | 2.490% | 1.290% |
| High | 1.510% | 1.600% | 1.790% | 1.900% | 2.010% | 2.530% | 2.930% | 2.640% | 1.310% |
| Low | 0.800% | 0.820% | 0.940% | 1.030% | 1.140% | 1.780% | 2.520% | 2.250% | 1.040% |
| Average | 1.107% | 1.143% | 1.276% | 1.384% | 1.503% | 2.083% | 2.688% | 2.415% | 1.157% |
| Spread | 0.710% | 0.780% | 0.850% | 0.870% | 0.870% | 0.750% | 0.410% | 0.390% | 0.270% |
| High date | 21/03/2018 | 21/03/2018 | 21/03/2018 | 21/03/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 21/03/2018 |
| Low date | 03/05/2017 | 03/05/2017 | 30/05/2017 | 15/06/2017 | 15/06/2017 | 15/06/2017 | 08/09/2017 | 08/09/2017 | 04/04/2017 |

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/17 | 0.85% | 1.25% | 1.93% | 2.62% | 2.37% |
| 31/3/18 | 1.67% | 2.05% | 2.43% | 2.77% | 2.49% |
| Low | 0.80% | 1.14% | 1.78% | 2.52% | 2.25% |
| Date | 03/05/2017 | 15/06/2017 | 15/06/2017 | 08/09/2017 | 08/09/2017 |
| High | 1.51% | 2.01% | 2.53% | 2.93% | 2.64% |
| Date | 21/03/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 | 15/02/2018 |
| Average | 1.11% | 1.50% | 2.08% | 2.69% | 2.41% |

# 6. Money market investment rates 2017/18

| | 7 day | 1 month | 3 month | 6 month | 1 year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/17 | 0.111 | 0.132 | 0.212 | 0.366 | 0.593 |
| 31/3/18 | 0.364 | 0.386 | 0.587 | 0.704 | 0.878 |
| High | 0.366 | 0.390 | 0.587 | 0.704 | 0.879 |
| Low | 0.099 | 0.122 | 0.140 | 0.273 | 0.461 |
| Average | 0.215 | 0.233 | 0.286 | 0.401 | 0.606 |
| Spread | 0.267 | 0.268 | 0.447 | 0.432 | 0.418 |
| High date | 27/2/18 | 22/3/18 | 29/3/18 | 29/3/18 | 28/3/18 |
| Low date | 4/7/17 | 10/8/17 | 7/8/17 | 7/9/17 | 6/9/17 |

**SOURCE LINK GROUP 2018**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i | **PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR LLAWN** |
| Dyddiad | **21.05.2018 / 25.09.2018** |
| Pwnc | **I'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau a restrir yn Atodiad 1 a dirprwyo'r cyfryw bwerau i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)** |
| Aelod(au) Portffolio | **Y Cynghorydd Richard Dew<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |
| Pennaeth Gwasanaeth | **Dylan Williams - Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)<br>Lynn Ball - Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Mared Wyn Yaxley - Cyfreithiwr: Llywodraethu Corfforaethol<br>Est. 2566<br>mwycs@ynysmon.gov.uk** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

1. Bod y Cyngor yn:
    1.1 Mabwysiadu'r pwerau a restrir yn Adran A **Atodiad 1;**
    1.2 Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo ymarfer y pwerau a nodir yn Adran A **Atodiad 1,** i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd);
    1.3 Tynnu'r pwerau a restrir yn Adran B **Atodiad 1,** o'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad, sy'n dirprwyo'r Pwerau hyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd);
    1.4 Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo, ac unrhyw ddiwygiadau canlyniadol, i adlewyrchu mabwysiadu, dirprwyo a dileu'r cyfryw bwerau;
    1.5 Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn y dyfodol, heb orfod cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Llawn, lle bo'r newidiadau hynny o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol pan fo angen ychwanegu / newid y ddirprwyaeth i swyddogion er mwyn gweithredu'r pŵer neu'r hawliau ychwanegol a roddwyd i'r Cyngor dan y ddeddfwriaeth ddiwygiedig neu newydd.
    1.6 Diwygio'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i ddirprwyo i Bennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yr hawl i:

"Adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd, i gynnwys unrhyw newidiadau achlysurol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, deddfwriaeth sy'n cymryd lle un arall neu ddeddfwriaeth newydd; unrhyw ailstrwythuro o'r sefydliad sydd eisioes wedi ei awdurdodi fel bo'r angen ac i gynnwys dirprwyaethau newydd i swyddogion, sef y Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol, i gael awdurdod dirprwyedig llawn i gyflawni'r swyddogaeth ar ran y

| |
|---|
| Cyngor, oni bai ei bod yn fater sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor, Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor". |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae gan y Cyngor yr opsiwn o wrthod mabwysiadu'r pwerau yn Adran A **Atodiad 1** ond bydd mabwysiadu (a dirprwyo) yn galluogi'r Cyngor i weithredu ystod ehangach o ddatrysiadau. Ceir manylion am y pwrpasau y gellir defnyddio pob pŵer ar eu cyfer yn **Atodiad 2.**<br><br>Mae dileu'r ddeddfwriaeth a restrir yn Adran B **Atodiad 1,** yn ymarfer da o safbwynt 'cadw tŷ' er mwyn dileu cyfeiriadau at ddeddfwriaeth nad oes pwrpas iddi bellach o safbwynt gofynion gweithredol y Cyngor.<br><br>Ar hyn o bryd, mae angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn i wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad. Mae cais yn yr adroddiad hwn i rai newidiadau cyfansoddiadol, megis yr un y manylir arno yn yr adroddiad hwn, gael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, yn hytrach na pharatoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor llawn. Bydd newidiadau Cyfansoddiadol sy'n wleidyddol arwyddocaol a newidiadau sy'n ddewisol yn lleol yn parhau i fod yn fater i'r Cyngor llawn, ond rhoddir pŵer dirprwyedig i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro wneud y newidiadau cyfansoddiadol hynny sy'n codi oherwydd deddfwriaeth newydd, ddiwygiedig neu ddirymedig, a bydd hyn yn yn cynnwys ychwanegu neu ddileu cyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno i neu oddi ar restr y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol o faterion dirprwyedig. Byddai hyn o gymorth o safbwynt llwythi gwaith swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn. Nid yw cynnwys cyfeiriad o'r fath yn y Cyfansoddiad yn gysyniad newydd; mae'n hysbys ei fod wedi'i gynnwys yng nghyfansoddiadau cynghorau eraill er mwyn symleiddio prosesau a sicrhau bod newidiadau technegol yn cael eu gweithredu mor fuan a llyfn â phosib. |

| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gan fod yr adroddiad yn cynnwys bwriad i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo, sy'n rhan o'r Cyfansoddiad, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr adroddiad hwn cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. |

| **CH - a yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi, lle mae hynny'n berthnasol |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Bydd cost ymarfer y pwerau newydd / ychwanegol hyn yn dod o fewn cyllideb weithredol y Gwasanaeth. |

| |
|---|
| Bydd costau posibl yn un o’r pethau a gymerir i ystyriaeth cyn i'r pwerau gael eu gweithredu a hynny ar sail achos fesul achos. |

| D – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Aarweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Trafodwyd yr Adroddiad ar 08.05.2018 – cefnogir y cynnig |
| 2 | **Cyllid / Adran 51** (gorfodol) | Rhan o 1 uchod |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Adroddiad gan yr Adran Gyfreithiol / Swyddog Monitro – cefnogi’r cynnig |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Caffael** | Ddim yn berthnasol |
| 8 | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Aelodau Portffolio / Aelodau Portffolio Cysgodol |

| E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Gall ymarfer y pwerau ar sail teilyngdod yr amgylchiadau fod o fudd i ardaloedd difreintiedig |
| 3 | **Trosedd ac Anrhefn** | Nod rhywfaint o'r ddeddfwriaeth yn **Atodiad 1** yw mynd i'r afael â materion trosedd / gweithgaredd anghyfreithlon |
| 4 | **Amgylcheddol** | Bydd ymarfer rhai o'r pwerau sydd i'w dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) yn ceisio mynd i'r afael â rhai materion amgylcheddol, gan gynnwys hylendid bwyd a lles anifeiliaid ac ati. |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad 1: -**<br>Mae Adran A yn rhestru'r pwerau ychwanegol y gellir eu mabwysiadu gan y Cyngor, ac y gall y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) arfer ei awdurdod dirprwyedig yn unol â nhw.<br>Mae Adran B yn rhestru'r ddeddfwriaeth nad os angen iddi bellach fod yn rhan o awdurdod dirprwyedig y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd). Felly, mae'n ymarfer da o safbwynt cadw tŷ i ddileu’r cyfeiriadau at y rhain o’r Cyfansoddiad. |

| |
|---|
| **Atodiad 2: -** Tabl sy'n crynhoi'r rhesymau dros y pwerau dirprwyedig ychwanegol. |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

**ATODIAD 1**

**Adran A: - Deddfwriaeth Ychwanegol i'w hychwanegu at y Cynllun Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd): -**

Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 - adran 141A
Rheoliadau Biodanwydd (Labelu) 2004
Rheoliadau Gwasanaethau Ariannol (Marchnata o Bell) 2004
Rheoliadau Ffwr Cathod a Chŵn (Rheoli Mewnforio, Allforio a'u Rhoi ar y Farchnad) 2008
Rheoliadau Gorfodaeth REACH 2008
Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011
Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011
Deddf Plant a Theuluoedd 2014 - adran 91
Rheoliadau Clefydau Moch 2014
Rheoliadau Ffrwydron 2014
Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015
Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig 2015
Rheoliadau Nwyddau Pyrotechnig (Diogelwch) 2015
Rheoliadau Offerynnau Mesur 2016
Rheoliadau Offerynnau Pwyso An-awtomatig 2016
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gwybodaeth a Gofynion Cyfansoddiadol) (Cymru) 2016
Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygiad) 2016
Rheoliadau Casein a Chaseinadau (Cymru) 2016
Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017
Rheoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017
Rheoliadau Offer Radio 2017
Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi ei Botelu (Cymru) (Diwygiad) 2017
Rheoliadau Marchnata Planhigion, Ffrwythau a Deunydd Lluosi (Cymru) 2017
Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) (Diwygiad) (Diwygiad) 2017
Rheoliadau Dŵr Ymdrochi (Diwygiad) (Cymru) 2017
Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017
Rheoliadau Cyfarpar Dosbarthu Erosolau (Diwygio) 2018
Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018
Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig (Diwygiad) 2018
Gorchymyn Deddf Menter 2002 (Rhan 9 Cyfyngiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) (Manyleb) 2018
Rheoliadau Llaeth Anwedd a Llaeth Sych (Cymru) 2018
Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**Adran B: - Deddfwriaeth i'w thynnu o'r Cynllun Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd): -**

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011
Rheoliadau Cronfa Ddata Gwartheg 1998
Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008
Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009
Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009
Rheoliadau Offerynnau Pwyso An-awtomatig (Gofynion EEC) 1995
Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo 2010
Rheoliadau Cemegol (Peryglon, Gwybodaeth a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 1994
Deddf Llongau Masnachol 1979 mewn perthynas â: -
Rheoliadau Llongau Masnachol (Pwyso Cerbydau Nwyddau a Chargo arall) 1988
Deddfau Petrolewm (Rheoleiddio) 1928 a 1936
Rheoliadau Diwygio Cyflenwadau Dŵr Preifat 2016

**ATODIAD 2**

| Enw'r Ddeddfwriaeth | Effaith y Ddeddfwriaeth |
|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 - adran 141A | Gwerthu cyllyll a rhai nwyddau gyda llafn neu bwynt miniog i bobl dan 16 oed |
| Rheoliadau Biodanwydd (Labelu) 2004 | Maent yn darparu mecanwaith ble gall awdurdodau pwysau a mesurau orfodi'r gofynion labelu ar gyfer biodanwyddau. |
| Rheoliadau Gwasanaethau Ariannol (Marchnata o Bell) 2004 | Gwarchod defnyddwyr sy'n prynu cynhyrchion a gwasanaethau 'o bell' |
| Rheoliadau Ffwr Cathod a Chŵn (Rheoli Mewnforio, Allforio a'u Rhoi ar y Farchnad) 2008 | Gwahardd rhoi ar y farchnad a mewnforio i mewn i, neu allan o'r UE, ffwr cathod a chŵn, a chynhyrchion sy'n cynnwys ffwr o'r fath. |
| Rheoliadau Gorfodaeth REACH (Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu a'r Gemegolion) 2008 | Mae'n creu cyfundrefn orfodaeth ar gyfer y Rheoliad Ewropeaidd sy'n ymwneud â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegolion (REACH) |
| Gorchymyn Moch (Cofnodi, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 | Diweddaru'r rheoliadau blaenorol |
| Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 | Diweddaru'r rheoliadau blaenorol |
| Deddf Plant a Theuluoedd 2014 - adran 91 | Bod person 18 oed neu hŷn sy'n prynu neu'n ceisio prynu tybaco neu bapurau sigaréts ar ran unigolyn o dan 18 oed yn cyflawni trosedd |
| Rheoliadau Clefydau Moch 2014 | Darpariaethau ar gyfer rheoli clefyd pothellog y moch |
| Rheoliadau Ffrwydron 2014 | Deddfwriaeth ddiwygiedig sy'n rheoli'r modd y cyhoeddir trwyddedau ar gyfer awdurdodi storio ffrwydron |
| Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 | Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno mesurau i wella effeithlonrwydd ynni rhai eiddo rhent preifat yng Nghymru a Lloegr |
| Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig 2015 | Mae'r Rheoliadau'n mynd i'r afael â defnyddio nwyon tŷ gwydr fflworinedig (nwy F) ac yn effeithio ar unrhyw un sy'n:<br>• cynhyrchu, gwerthu, defnyddio neu'n cynnal a chadw cyfarpar sy'n cynnwys nwy F, megis |

| | |
|---|---|
| | systemau oeri ac aerdymheru, toddyddion neu aerosolau,<br><br>• yn cynhyrchu neu'n gwerthu nwy F, ac<br><br>• yn mewnforio neu'n allforio nwy F, neu offer sy'n cynnwys nwy F, i mewn i'r UE neu allan ohoni |
| Rheoliadau Nwyddau Pyrotechnig (Diogelwch) 2015 | Maent yn cyflwyno â darpariaethau newydd ar gyfer olrhain yn well unrhyw nwyddau pyrotechnig. |
| Rheoliadau Offerynnau Mesur 2016 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Offerynnau Pwyso An-awtomatig 2016 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 | Gwneud darpariaeth mewn perthynas â thenantiaethau a thrwyddedau sy'n rhoi'r hawl i feddiannu annedd fel cartref, gan gynnwys darpariaeth sy'n sefydlu dau fath o gontract at ddiben rhentu cartrefi |
| Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gwybodaeth a Gofynion Cyfansoddiadol) (Cymru) 2016 | Diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016 | Diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Casein a Chaseinadau (Cymru) 2016 | Diweddaru'r ddeddfwriaeth bresennol |
| Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 | Darpariaethau Iechyd Cyhoeddus gan gynnwys:<br><br>**Ysmygu**<br><br>• yn ei gwneud yn drosedd i ysmygu mewn mannau penodol a cherbydau, gan gynnwys llawer o leoliadau awyr agored, gydag awdurdodau lleol yn cael eu dynodi'n awdurdodau gorfodi<br><br>• yn darparu ar gyfer cofrestr orfodol o fanwerthwyr cynhyrchion tybaco a nicotin, gan ei gwneud yn drosedd i unrhyw un werthu nicotin neu gynhyrchion tybaco oni bai eu bod ar y gofrestr<br><br>• yn golygu ei bod yn drosedd rhoi tybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin i bobl dan 18 oed<br><br>**Aciwbigo, tyllu corff, electrolysis a thatŵio**<br><br>Mae'n golygu bod angen i unrhyw un sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau hyn yn ystod busnes sydd i'w drwyddedu.<br><br>**Tyllu rhannau personol o'r corff** |

| | |
|---|---|
| | Mae'n ei gwneud yn drosedd i dyllu neu wneud trefniadau i dyllu rhannau personol o gorff unrhyw berson dan 18 oed yng Nghymru. |
| Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi ei Botelu (Cymru) (Diwygio) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Marchnata Planhigion, Ffrwythau a Deunydd Lluosi (Cymru) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Gorchymyn Rheoli Haint (Cymru) (Diwygiad) (Diwygiad) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Dŵr Ymdrochi (Diwygiad) (Cymru) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017 | Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2018 ac maent yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad UE 2015/2283 o 25 Tachwedd 2015 ar fwydydd newydd.<br><br>Mae rheoliad 3 yn gwneud awdurdodau bwyd yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau.<br><br>Mae rheoliad 6 yn dirymu Rheoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd 1997 (1997: 1335), Rheoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd (Ffioedd) 1997 (1997: 1336) a Rheoliadau Ensymau Bwyd (Cymru) 2009 (2009: 3377). |
| Rheoliadau Offer Radio 2017 | Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 26 Rhagfyr 2017 gan ad-drefnu Cyfarwyddeb 2014/53 / UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 16 Ebrill 2014 ar gysoni cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â darparu offer radio ar y farchnad a diddymu Cyfarwyddeb 1999/5 / EC (OJ L 153, 22.5.2014, tud.62).<br><br>Mae'r Gyfarwyddeb yn diddymu ac yn disodli Cyfarwyddeb 1999/5 / EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 9 Mawrth 1999 mewn perthynas ag offer radio ac offer terfynell telathrebu a chydnabod eu cydymffurfiaeth (OJ L 91, 7.4.1999, t.10) a weithredwyd yn y Deyrnas Unedig dan Reoliadau Offer Radio a Therfynellau Telathrebu 2000 (2000: 730). **Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli OS 2000: 730, ac mae’r holl bwerau ac ati yn parhau i fodoli gan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987**<br><br>Mae rheoliad 55 yn dynodi 'awdurdod pwysau a mesurau' fel yr awdurdod sy’n goruchwylio’r farchnad ac yn dweud bod raid iddo wneud trefniadau digonol ar gyfer goruchwylio’r farchnad o dan y |

| | |
|---|---|
| | Rheoliadau hyn a RAMS (i'r graddau y mae'n ymwneud ag offer radio). Mae rheoliad 56 yn gosod ***dyletswydd o orfodaeth ar yr awdurdod pwysau a mesurau.*** |
| Rheoliadau Cyfarpar Dosbarthu Erosolau (Diwygio) 2018 | Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Chwefror 2018 ac maent yn diwygio Rheoliadau Cyfarpar Dosbarthu Erosolau 2009 (OS 2009: 2824).<br><br>Roedd Rheoliadau 2009 yn ad-drefnu Cyfarwyddeb y Cyngor 75/324 / EEC ac mae'r Gyfarwyddeb honno wedi'i diwygio gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2016/2037. Mae'r diwygiadau hyn yn cynyddu'r pwysau mwyaf posibl a ganiateir mewn rhai mathau o gyfarpar dosbarthu erosolau ac yn golygu bod y gofynion labelu ar gyfer cyfarpar dosbarthu erosolau yn cyd-fynd â'r gofynion yn Rheoliad (EC) Rhif 1272/2008 sy'n ymwneud â chategoreiddiad, labelu a phecynnu sylweddau a chymysgeddau.<br><br>Gwnaed Rheoliadau 2009 o dan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987 sy'n gosod ***dyletswydd o orfodaeth*** ar awdurdodau Pwysau a Mesurau lleol. |
| Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018 | Daw'r rheoliadau hyn i rym ar 6 Chwefror 2018<br><br>Mae'r Rheoliadau yng Nghymru mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, yn ad-drefnu Erthygl 21 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/59 / Euratom sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n deillio o fod yn agored i ymbelydredd ïoneiddio, ac yn diddymu Cyfarwyddebau 89/618 / Euratom, 90 / 641 / Euratom, 96/29 / Euratom, 97/43 / Euratom a 2003/122 / Euratom.<br><br>Mae'r rheoliadau hefyd yn gwneud newidiadau i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodaeth) (Cymru) 2016 (OS 2016: 387) a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol mewn perthynas â Bwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 OS 2009: 3376) o ran rhybuddion gwella a rhybuddion gwahardd. |
| Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig (Diwygiad) 2018 | Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 22 Chwefror 2018, ond gyda rhai eithriadau a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau sylweddol i Reoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig 2015 (OS 2015: 310 sy'n cael eu gorfodi gan awdurdodau lleol.<br><br>Maent yn diweddaru Rheoliadau 2015 i gynnwys cyfeiriadau at nifer o Reoliadau Gweithredu'r Comisiwn a fabwysiadwyd ers i Reoliadau 2015 ddod i rym. Yn benodol, ymgorfforir Atodlenni newydd, sef rhifau 4 a 5 sy'n darparu mecanweithiau ar gyfer cosbau sifil y gall awdurdodau gorfodi fynnu arnynt. |

| | |
|---|---|
| Gorchymyn Deddf Menter 2002 (Rhan 9 Cyfyngiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) (Manyleb) 2018 | Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ebrill 2018 ac mae'n ychwanegu at y Rhestr yn Atodlen 15, Deddf Menter 2002.<br><br>Gellir datgelu gwybodaeth benodol i orfodwyr deddfwriaeth a restrir yn yr Atodlen honno. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â dwy set o Reoliadau a orfodir gan OFGEM. |
| Rheoliadau Llaeth Anwedd a Llaeth Sych (Cymru) 2018 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Rheoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg (Cymru) 2018 | Diweddaru deddfwriaeth bresennol |
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | Mae'n ymwneud â charafannau preswyl parhaol. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r awdurdod lleol wella rheoleiddio o fewn y diwydiant, i wella amodau ar safleoedd cartrefi symudol ac i sicrhau bod hawliau trigolion yn cael eu gwarchod yn well. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **25 Medi 2018** |
| **Pwnc:** | **Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dr Caroline Turner – Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dr Caroline Turner – Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>**Dafydd R Bulman – Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yr holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod cyfeiriad newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Mae Rhan 8 y Ddeddf a'r Côd Ymarfer perthnasol yn nodi rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn unol â'r Ddeddf, cytundeb y Cyngor yw'r Protocol hwn sy'n nodi rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sef un o swyddogaethau'r Prif Weithredwr Cynorthwyol ar gyfer Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes.

Mae'r protocol sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn nodi trefniadau Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â dyletswyddau'r Cyfarwyddwr. Cafodd y Protocol gwreiddiol ei ddrafftio 2 flynedd yn ôl ac fe'i adolygwyd yn 2018 gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chymorth y Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes, drwy ymgynghori gydag uwch swyddogion ar draws yr awdurdod lleol.

Argymhellion:

Bod y Cyngor:

1.1. Yn mabwysiadu'r Protocol sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1;
1.2. Yn awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro'r Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) yn y Cyfansoddiad ac unrhyw newidiadau'n deillio o hynny, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Protocol yn Atodiad 1 wedi cael ei fabwysiadu.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu**

| **gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ni chafodd unrhyw opsiynau eraill eu trafod oherwydd mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 8, y Côd Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu rôl y cyfarwyddwr. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Oherwydd bod yr adroddiad yn cynnig newid i'r Cynllun Dirprwyo, sydd yn rhan o'r Cyfansoddiad, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim goblygiadau i'r gyllideb. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd y papur mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 28 Awst 2018 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Trafodwyd y papur mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 28 Awst 2018 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ymgynghorwyd gyda'r Swyddog Monitro ynghylch cynnwys y Protocol ac mae wedi drafftio newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Protocol i Alluogi'r Cyfarwyddwr i gwrdd â Disgwyliadau'r Swydd yn Ynys Môn |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 8 y Côd Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol) http://gov.wales/docs/dhss/publications/160322part8en.pdf |

**RÔL AC ATEBOLRWYDD CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL DAN RAN 8 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014: PROTOCOL I ALLUOGI'R CYFARWYDDWR I GYFLAWNI DISGWYLIADAU'R SWYDD YN YNYS MÔN.**

**CYFLWYNIAD**

Rhaid i'r Awdurdod Lleol benodi swyddog, a elwir yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Wrth wneud hynny rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod y person wedi dangos cymwyseddau a bennir gan Weinidogion Cymru (Atodiad 1). Nodir y rhain yn y Côd Ymarfer a gyhoeddwyd gan Weinidogion i gefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrth wraidd Cymdeithas Cymru ac yn gyfrifol am gefnogi, diwallu anghenion a diogelu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, pobl anabl, sydd ag anableddau dysgu, profiad o iechyd meddwl gwael a phobl hŷn. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn ac am sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu poblogaeth o ran gofal a chymorth. Mae'r Côd Ymarfer yn nodi'r rôl arweinyddiaeth strategol y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr ei chyflawni os bydd yr awdurdod yn sicrhau y caiff llesiant ei hyrwyddo a'r gwasanaethau gofal a chymorth, sy'n cyflawni'r egwyddorion y sefydlir y Ddeddf arnynt, eu darparu'n effeithiol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr fod yn ffynhonnell cyngor i'r awdurdod ar holl faterion y gwasanaethau cymdeithasol a bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas ag unigolion yn ei ardal yn unol â gofynion deddfwriaeth. Mae'r Côd Ymarfer yn glir ynghylch y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau eu rhoi ar waith ac mae'r ddogfen hon yn ystyried goblygiadau'r Côd ar gyfer rôl ac atebolrwydd y Cyfarwyddwr yn yr Awdurdod hwn.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn atebol am ansawdd gwasanaethau a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau at ddibenion cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith. Mae'r cyfarwyddwr yn chwarae rhan hollbwysig o safbwynt sicrhau'r gefnogaeth

wleidyddol a chorfforaethol hanfodol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i’r Cyfarwyddwr reoli gwasanaethau a pherfformiad yn effeithiol a dangos ymdeimlad clir o gyfeiriad strategol ynghyd ag arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer staff a gwasanaethau; meithrin cydberthnasau cydweithio effeithiol oddi mewn i’r awdurdod lleol a’r tu allan iddo, gan gynnwys trefniadau integredig ffurfiol gyda byrddau iechyd a hybu’r gwaith o gyflawni canlyniadau gwell i bobl. Lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu mewn partneriaeth, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n parhau i fod yn atebol am gyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol.

Dylid deall rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a dylai'r Awdurdod Lleol gael trefniadau ar waith sy'n galluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r eithaf. Er bod y Protocol hwn yn anelu at gyfleu’r ddealltwriaeth honno, nid yw'n sefyll ar ei ben ei hun, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r dogfennau llywodraethu cyffredinol eraill. Mae'n cwrdd â gofynion y Côd bod “rhaid i drefniadau gweithio a ddiffiniwyd fod ar waith rhwng cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ac uwch-swyddogion eraill yn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau y cyflawnir atebolrwydd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol".

Mae'r Côd yn mynnu bod "Rhaid cytuno’n iawn ar y berthynas rhwng pennaeth y gwasanaeth cyflogedig a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a rhaid iddi gael ei chyfleu’n briodol i gynghorwyr, swyddogion a phartneriaid. Rhaid i hynny gael ei ategu mewn dogfennau llywodraethu a dirprwyo a ddylai gael eu hadolygu’n rheolaidd." Mae'r Côd yn rhoi pwyslais mawr ar y rhan hollbwysig y mae'n rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ei chwarae i sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni'r disgwyliadau sy'n rhan o'r rôl, bod y rôl hon yn cael ei deall ar draws yr Awdurdod a chan bartneriaid a bod effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. I gydnabod hyn, mae Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig wedi goruchwylio ac wedi adolygu gwaith paratoi’r Protocol hwn i sicrhau ei fod wedi'i gynhyrchu ar y cyd â'r holl chwaraewyr allweddol. Mae'r Protocol hwn yn diffinio'r berthynas a'r trefniadau gweithio rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Uwch-swyddogion ac Aelodau i sicrhau y bodlonir atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau

Cymdeithasol. Cytunwyd y bydd y Protocol yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd, neu pan geir newidiadau strwythurol neu ddeddfwriaethol. Rhaid i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig, mewn partneriaeth â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, werthuso effeithiolrwydd y trefniadau a ddiffiniwyd wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r swyddogaethau.

Mae'r Protocol wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan Uwch-dîm Rheoli'r Awdurdod a'r Cyngor. Mae'n tynnu ar ofynion y Côd Ymarfer, yn nodi Rôl ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr ac yn disgrifio'r fframwaith trefniadau sydd ar waith yn yr Awdurdod i alluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ar ran yr Awdurdod.

**LLYWODRAETHIANT AC ATEBOLRWYDD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Perthynas â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig, a byddant yn cael amser cyfarfod rheolaidd fel rhan o'u perthynas atebolrwydd. Rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig sicrhau ei fod yn goruchwylio trefniadau’n fanwl bob amser a sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae gan bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig swyddogaeth allweddol o safbwynt galluogi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, a rhaid iddo sicrhau bod seilwaith corfforaethol yn cynorthwyo’r cyfarwyddwr i gyflawni ei atebolrwydd statudol.

Yn y cyd-destun hwn, rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig sicrhau bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol: -

- Â swydd digon uchel i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod;

- Yn aelod o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a bod â mynediad uniongyrchol at Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac Aelodau Etholedig ac adrodd yn uniongyrchol iddynt;
- Yn rhinwedd yr aelodaeth honno, rhaid iddo allu cyfrannu at weledigaeth a chyfeiriad y Cyngor a sicrhau bod gwasanaethau'n hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth;
- Sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hystyried fel blaenoriaeth gorfforaethol;
- Sicrhau bod y Cyfarwyddwr yn adrodd i'r Cyngor yn unol â'r atebolrwydd craidd.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig sicrhau bod:

- Fframwaith Perfformiad yr Awdurdod Lleol yn gadarn ac yn adrodd ar faterion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws y sefydliad, gan adrodd ar lefel gorfforaethol ac i Aelodau Etholedig ar berfformiad yr awdurdod.
- Fframwaith Perfformiad yr Awdurdod Lleol yn caniatáu i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig ganfod unrhyw fethiant systemig a pharhaus yng nghyswllt safonau ac ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Fel aelod o’r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddyletswydd i ystyried goblygiadau cyffredinol o ran adnoddau, gan gynnwys materion cyllidebol. Mae Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod cynghorwyr yn cael cyngor clir ynghylch lefel yr adnoddau sy’n ofynnol er mwyn i awdurdod lleol allu cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol.

Rhaid i’r Cyfarwyddwr:

- Sicrhau bod Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Pwyllgor Gwaith a chynghorwyr yn gallu cael y cyngor a’r wybodaeth broffesiynol orau, ddiweddaraf am bob agwedd ar wasanaethau gofal a chymorth;

- Rhoi sicrwydd i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a chynghorwyr bod swyddogaethau statudol a bennwyd i'r awdurdod wedi'u cyflawni, a bod gwybodaeth reoli briodol a chofnodion cywir yn cael eu cadw;
- Mewn cydweithrediad â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, adnabod blaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys meysydd lle mae problemau staffio'n cael effaith ar allu'r cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, a chynghori cynghorwyr yn eu cylch;
- Briffio Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a chynghorwyr allweddol ynghylch achosion â phroffil uchel a materion eraill sy'n debygol o beri pryder i'r cyhoedd;

**Datrys Gwahaniaethau:**

Ar adegau, gallai gwahaniaethau barn a gwahaniaethau mewn cyngor posib i Gynghorwyr weithiau godi rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch-swyddogion eraill. Mae materion sy'n ymwneud â Gweithlu ac anghenion adnoddau yn feysydd penodol lle gallai hyn godi. Mae'n bwysig bod y Protocol hwn yn pennu'r safon y dylid ei defnyddio i ddatrys y sefyllfaoedd hyn a dangosir isod sut caiff ei ddefnyddio.

Bydd y mater o ran yr adnoddau sydd ar gael i fodloni rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol yr Awdurdod bob amser yn fater sensitif ac anodd. Bydd tensiynau rhwng yr angen am adnoddau ychwanegol ar y naill law ac i gyflawni arbedion ar y llall. Mewn sefyllfa o'r fath, mae gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau, gyfrifoldeb dros sicrhau bod Uwch-swyddogion a Chynghorwyr yn cael cyngor clir ar y sefyllfa ariannol y mae'r Awdurdod yn ei wynebu ac ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â rhwymedigaethau statudol y Cyngor a dyheadau polisïau eraill. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi cyngor ar yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod a gallai hyn fod yn her o fewn y sefyllfa ariannol gyffredinol sy'n bodoli.

Bydd rhaid i'r trefniadau gweithio y cytunir arnynt rhwng y Cyfarwyddwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ymdrin â sefyllfaoedd lle mae gwahaniaethau barn nad ydynt wedi'u

datrys trwy sicrhau bod cyngor y Cyfarwyddwr ar gael i'r Cynghorwyr ochr yn ochr â barn Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

Rhaid i'r Awdurdod fod wedi ymrwymo i sicrhau bod penderfyniadau a gyrhaeddir ar ôl cwblhau'r broses hon yn eiddo i'r Awdurdod yn gyffredinol. Dylai'r dull hwn gael ei weithredu mewn sefyllfaoedd eraill lle ceir gwahaniaethau barn nad yw swyddogion wedi gallu eu datrys eu hunain.

**Cyflawni Atebolrwydd Craidd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae'r Protocol yn cyfeirio'n benodol at y cyfraniad y mae'n rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Uwch-reolwyr o fewn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Dysgu ei wneud i alluogi'r Cyfarwyddwr i gyflawni'r atebolrwydd craidd sy'n rhan o'r rôl. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gan eraill ymhlith Uwch-reolwyr yr Awdurdod ran yr un mor bwysig i'w chwarae. Mae'n bwysig sicrhau bod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n cael eu cydnabod, ond bydd disgwyl y bydd y ffaith y byddant yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn cryfhau perfformiad yr Awdurdod tra hefyd yn peidio â pheryglu meysydd cyfrifoldeb unigol.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr allu galw ar gefnogaeth cydweithwyr lle mae angen cyfraniadau penodol mewn meysydd megis datblygu polisïau a gwasanaethau, mentrau cydweithio a chynhyrchu Adroddiadau sy'n ymdrin â chyflawni cyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yr adroddiadau'n cynnwys y rhai hynny i Uwch-dîm Rheoli'r Awdurdod neu'r Cyngor ac a wneir fel rhan o fusnes arferol neu sy'n ymateb i faes pryder penodol. Cyfeirir at Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr yn ddiweddarach yn y Protocol hwn ac mae'n rhaid yn bendant gael cyfraniadau gan brif swyddogion sy'n gyfrifol am feysydd gwasanaeth eraill ar gyfer hwn. Yn yr un modd, rhaid iddynt hefyd fod yn effro i'r angen i sicrhau y gofynnir am farn y Cyfarwyddwr ar bob mater a allai gael effaith ar y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac y caiff ei nodi mewn unrhyw adroddiadau a gyflwynir ar gyfer gwneud penderfyniad.

Yn yr un modd, bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cymorth i brif swyddogion eraill mewn meysydd lle mai'r Cyfarwyddwr sydd â'r prif gyfrifoldeb. Mae rhoi

cyngor ac arweiniad i adrannau eraill ar ffyrdd o gryfhau eu trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn enghraifft arbennig o bwysig o'r gefnogaeth y mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr ei rhoi fel rhan o drefniadau'r naill ochr a'r llall a ddylai fodoli rhwng y Cyfarwyddwr a chydweithwyr uwch eraill.

Rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fodloni ei hun fod yr holl drefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol a bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cyflawni'r disgwyliadau sy'n rhan o'r rôl.

**Perthynas â'r Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gwasanaeth**

Mae angen trafod yn glir a phenodol drefniadau gweithio rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch-swyddogion eraill o fewn Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Lle mae cyfrifoldeb dros gyflwyno unrhyw ran o swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i reolaeth llinell uniongyrchol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yna mae angen dogfennu'r trefniadau hyn i egluro a sicrhau y cyflawnir swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol. Mae angen nodi'r cyfrifoldebau a ddirprwyir yn y modd hwn mewn Cynlluniau Dirprwyo Cymeradwy ar gyfer Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod. Fodd bynnag, rhaid iddi fod yn glir na ellir dirprwyo atebolrwydd yn y pen draw a phery hwn gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.
Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol: a byddant yn cael amser cyfarfod rheolaidd fel rhan o'u perthynas atebolrwydd. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol, broffesiynol a gweithredol o fewn eu gwasanaethau, gan sicrhau bod mesurau diogelu perthnasol ar waith i ddiogelu plant a phobl fregus, bod lefel dda o gefnogaeth yn cael ei rhoi i'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, yn ogystal ag i'w gofalwyr, ac annog canlyniadau da i blant a phobl. Rhan allweddol o'u rôl yw sicrhau y gweithredir ar atebolrwydd statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn effeithiol trwy gyflenwi a dirprwyo, gydag atebolrwydd clir am berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan y ddau Bennaeth Gwasanaeth fframweithiau perfformiad yn eu lle a chyflwynant adroddiadau perfformiad chwarterol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau

Cymdeithasol: ac yn chwarterol, ceir adroddiad cynhwysfawr ar berfformiad, ariannol a rheoli risg.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'r Unigolyn Cyfrifol yn yr uned darparwyr. Mae gan yr Uned Darparwyr Bolisi Llywodraethu a Sicrhau Ansawdd sy'n amlinellu y bydd y Cyfarwyddwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod yn ffurfiol bob chwe mis ac y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae dyletswydd ar yr Unigolyn Cyfrifol i roi gwybod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol am faterion sy'n peri pryder pan fyddant yn codi.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Tai mewn perthynas â llesiant a'r rhaglen ataliol a nodwyd yn y polisi hwn.

Mewn perthynas â'r berthynas â'r holl Benaethiaid Gwasanaeth, rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol:

- Sicrhau fod gan bob Gwasanaeth drefniadau priodol ar waith i warchod oedolion a phlant sy'n fregus. Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth Unigol fod yn atebol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran eu trefniadau diogelu.
- Sicrhau, mewn cydweithrediad â’r Pennaeth Gwasanaethau Plant, y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) bod systemau priodol ar waith ar gyfer cynllunio, hyfforddi a datblygiad proffesiynol gweithlu’r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn hyrwyddo gwaith cadw staff ac ansawdd y gwasanaethau.
- Rhoi arweiniad strategol i sicrhau bod gwasanaethau unigol awdurdod lleol yn cyfrannu at hyrwyddo llesiant pawb sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

**Rôl y Pennaeth Dysgu**

Mae Adran 27 Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer y gwasanaethau plant a phobl ifanc i gydlynu a goruchwylio

trefniadau i wella llesiant plant yn ardal yr awdurdod lleol yn Ynys Môn. Y person a ddynodir yw'r Pennaeth Dysgu.

Yn yr Awdurdod Lleol hwn, mae dwy rôl wahanol ar gyfer Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd gorgyffwrdd rhwng y ddwy rôl. Bydd y Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ceisio rhoi sylw i anghenion llesiant pob plentyn. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ganolbwyntio ar wella llesiant plant yn benodol gydag anghenion o ran gofal a chymorth a gwarchod plant rhag niwed. Wrth weithredu'r Protocol hwn, rhaid i'r Awdurdod fod yn glir ynghylch yr hyn y mae bob rôl yn canolbwyntio arno. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu gweld yn ategu ei gilydd ac mae'n rhaid i'r unigolion sy'n ymgymryd â'r rolau priodol hyn gydgysylltu'n rheolaidd ac yn ffurfiol bob wyth wythnos. Rhaid i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn ôl yr angen.

**Perthynas â Chymuned Fwy Diogel**

Yn yr Awdurdod Lleol hwn, y prif weithredwr cynorthwyol (Partneriaeth) sy'n arwain ar ddiogelwch cymunedol. Rhaid i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol gysylltu'n rheolaidd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau faes.

**Perthynas â'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ddatblygu capasiti'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio i gefnogi'r rôl a dal deilyddion swyddi i gyfrif, gan gynnwys mewn perthynas â chynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio yn glir ynghylch y wybodaeth y dylent ei disgwyl mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau penodol gwasanaethau cymdeithasol a gweithgareddau ehangach i hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi i'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio y cyngor a'r wybodaeth broffesiynol, ddiweddaraf ar bob agwedd ar wasanaethau gofal a chymorth; sicrhau bod y swyddogaethau statudol a osodwyd ar yr awdurdod wedi'u cynnal, a bod gwybodaeth reoli gywir a chofnodion cywir yn cael eu cadw; a sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol friffio'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar faterion â phroffil uchel a materion eraill sy'n debygol o achosi pryder i'r cyhoedd ac ar strategaethau ar gyfer gwella dulliau ymyrryd, darparu gwasanaethau, ymarfer a defnyddio adnoddau. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nodi a chynghori'r Arweinydd a'r Deilydd Portffolio ar flaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws bob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys amgylchiadau lle mae materion staffio yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Bydd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol amser cyfarfod rheolaidd gydag Arweinydd y Cyngor a'r Deilydd Portffolio.

**Perthynas ag Aelodau**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, ddatblygu capasiti Aelodau Etholedig i gefnogi'r rôl a dal deilyddion swyddi i gyfrif, gan gynnwys mewn perthynas â chynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod Aelodau Etholedig yn glir ynghylch y wybodaeth y dylent ei disgwyl mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau penodol gwasanaethau cymdeithasol a gweithgareddau ehangach i hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu Panel Gwella Gwasanaethau Plant a bydd yn defnyddio'r trefniadau presennol, gan gynnwys Sesiynau Briffio Aelodau, perthynas â'r Deilydd Portffolio, yr Arweinydd, y Pwyllgor Gwaith a Chadeirydd Sgriwtini. Bydd y trefniant hwn yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r cyngor a'r wybodaeth broffesiynol, ddiweddaraf ar bob agwedd ar wasanaethau gofal a chymorth; sicrhau bod y swyddogaethau

statudol a osodwyd ar yr awdurdod wedi'u cynnal, a bod gwybodaeth reoli gywir a chofnodion cywir yn cael eu cadw; a sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynghori aelodau arweiniol ar faterion â phroffil uchel a materion eraill sy'n debygol o achosi pryder i'r cyhoedd ac ar strategaethau i wella dulliau ymyrryd, darparu gwasanaethau, ymarfer a defnyddio adnoddau. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nodi a chynghori Aelodau Etholedig ar flaenoriaethau, heriau a risgiau ar draws bob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys amgylchiadau lle mae materion staffio yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**Perthynas ag Arolygiaethau a Rheoleiddwyr**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol arwain a chynorthwyo gwaith ymgysylltu a chydweithredu parhaus ag arolygiaethau a rheoleiddwyr bob un o swyddogion yr awdurdod lleol yng nghyswllt paratoi a chynnal unrhyw adolygiadau o berfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, ac unrhyw wasanaethau gofal a chymorth eraill a ddarperir yn ardal yr awdurdod lleol. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod arolygiaethau a rheoleiddwyr yn cael yr holl wybodaeth berthnasol. Rhaid i'r Cyfarwyddwr adrodd i'r cyngor ar fanylion unrhyw adroddiad arolygu neu reoleiddio ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Bydd yn egluro, mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, pa gamau gweithredu priodol a gymerir i wella gwasanaethau sy'n hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth neu i atal anghenion o'r fath rhag datblygu neu i arafu'r graddau y maent yn datblygu.

**Plant a'u Teuluoedd**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod trefniadau strategol ar waith i ddarparu ar gyfer cydweithredu ar draws yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid er mwyn darparu gwasanaeth gofal a chymorth yn effeithiol. Rhaid rhoi pwyslais cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar, yn ogystal â rhwyddineb mynediad at wybodaeth a chyngor. Rhaid canolbwyntio ar alluogi teuluoedd i fod yn wydn a thynnu ar eu hadnoddau a'u cymuned eu

hunain. Y nod yw cefnogi oedolion a theuluoedd sy'n fregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol roi arweiniad a dangos strategaeth i reoli risg yn hyderus a chydweithredu'n effeithiol gyda'r ystod lawn o bartneriaid i weithio gyda theuluoedd ar 'ymyl gofal', gan sicrhau bod yr anghenion yn cael eu hasesu'n gywir a'u bodloni, fel mai dim ond y plant hynny y mae angen llety arnynt sy’n cael eu lletya a bod trefniadau'n cael eu gwneud ar yr adeg iawn. Mae gan yr Awdurdod Lleol Banel Rhiant Corfforaethol y mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod ohono. Rhaid i'r trefniadau ddarparu ar gyfer gwaith cynllunio sy'n cynnwys pob agwedd ar les y plentyn, gan gynnwys anghenion iechyd a datblygiad, sefydlogrwydd a pharhad, a chyrhaeddiad addysgol, ac maent yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Elfen allweddol o’r cyfrifoldebau yw gweithio gyda rhieni, teuluoedd a gofalwyr maeth i gadw plant a phobl ifanc yn eu cymunedau, lle bo'n bosib ac yn briodol.

**Lleisiau defnyddwyr gwasanaeth**

Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl wrth wrando ar leisiau a phryderon defnyddwyr gwasanaethau. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant oedolion a phlant y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod gwasanaethau'n hyrwyddo annibyniaeth pobl i roi llais a rheolaeth gryfach iddynt.

**Llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried y ddyletswydd llesiant a dyletswyddau hollgyffredinol eraill sy’n ymwneud â’r modd y mae’r awdurdod lleol yn arfer

pob un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth strategol o safbwynt sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal a chymorth a ddarperir yn ardal yr awdurdod lleol yn ceisio hyrwyddo llesiant pawb sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

Wrth wneud hynny, bydd y Cyfarwyddwr yn gallu galw ar adnoddau ehangach yr Awdurdod Lleol. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo cydweithrediad o fewn yr awdurdod lleol. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth unigol a chyfarfod misol y Penaethiaid Gwasanaeth, fel corff llywodraethu cyfunol, rôl ac atebolrwydd allweddol wrth geisio sicrhau y bodlonir llesiant holl drigolion yr Ynys.

**Cydweithredu, gweithio mewn partneriaeth ac mewn modd integredig**

- Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol arwain ar ddatblygu trefniadau effeithiol, gan gynnwys ar lefel partneriaeth ranbarthol, i hyrwyddo cydweithrediad i:
- gwella llesiant pobl ag anghenion o ran gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr y mae angen cymorth arnynt;
- gwella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth i bobl, gan gynnwys cefnogaeth i ofalwyr;
- gwarchod oedolion sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth ac sydd mewn perygl neu'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso; a
- gwarchod plant sydd mewn perygl neu sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso

Mae gan yr Awdurdod Lleol fframweithiau yn eu lle i gefnogi'r amcan hwn, gan gynnwys cymryd rhan yn y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, a'r Cydweithio Rhanbarthol dan Gydweithrediaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o'r ddau fwrdd ac yn cefnogi gwaith y byrddau, ac yn sicrhau bod gwybodaeth gan y byrddau yn dangos yn glir sut mae unrhyw swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cyflawni. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y cydweithrediad rhanbarthol hwn yn arwain at well effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal a

chymorth i roi sylw i anghenion o ran gofal a chymorth, ac anghenion o ran cymorth i ofalwyr, a nodir yn yr Adroddiad Asesu Poblogaeth.

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol geisio datblygu amgylchedd effeithiol ar gyfer hyrwyddo cydweithrediad â phartneriaid allanol, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, Heddlu Gogledd Cymru, y trydydd sector a’r sector annibynnol, yng nghyswllt pobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth. Yn lleol, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain y cydweithredu gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol trwy Gyfarfod Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig y Gorllewin sy'n adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â'r corff ymbarél ar gyfer y trydydd sector - Medrwn Môn - yn rheolaidd: a bydd yn cwrdd â chynrychiolwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol yn flynyddol o leiaf.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i sicrhau bod unrhyw broblemau o gydweithrediad rhyngasiantaethol a bylchau rhwng gwasanaethau’n cael eu nodi a'u datrys.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw cyfraniad y Cyfarwyddwr a chyfraniad y partneriaethau hyn yn cael effaith ar atebolrwydd y Cyfarwyddwr i Gyngor Sir Ynys Môn mewn unrhyw ffordd nac yn gwanhau nac yn tywyllu’r cyfryw atebolrwydd rhag cyflawni ei gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol.

**Ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau, wrth nodi ystod a lefel y gwasanaethau sy’n ofynnol i ymateb i’r anghenion o ran gofal a chymorth a nodwyd gan yr asesiad poblogaeth, sicrhau y mabwysiedir dull cydweithredol o gynllunio, datblygu, caffael a darparu gwasanaethau. Mae gan yr Awdurdod Lleol fforymau cyfranogi a phroses i gefnogi hyn, gan gynnwys Fforwm Cynghorau Tref a Chymyned. Ymgymerir â’r rôl hon ar y cyd gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau)

**Diogelu**

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd y rôl Diogelu: "Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso. Fodd bynnag, rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith yn yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid perthnasol."

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddangos arweiniad i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith o fewn yr awdurdod lleol a chan bartneriaid perthnasol. Yn y cyd-destun hwn, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru. Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr, mae'n bosib y gallai swyddog arall sy'n dderbyniol i'r Cyfarwyddwr ac sydd â swydd ddigon uchel fynd yn ei le. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol a sicrhau bod y Byrddau Diogelu'n arfer eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys mewn perthynas â:

- Chyfrannu at adolygu a datblygu polisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl
- Codi ymwybyddiaeth o achosion o gam-drin, esgeuluso a niweidio mewn ardal Bwrdd
- Adolygu'n rheolaidd pa mor effeithiol yw mesurau diogelu lleol
- Cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ohonynt
- Dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau a gwaith dysgu'n ymwneud â Diogelu
- Sicrhau bod ymarferwyr ar draws pob partner diogelu'n cael hyfforddiant priodol ynghylch diogelu neu'n gallu cael gafael ar hyfforddiant o'r fath
- Sicrhau y ceir trefniadau effeithiol a ddeellir ac a hyrwyddir ar gyfer adrodd ynghylch plant ac oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso.

Mae'r Cyfarwyddwr yn cadeirio'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (Strategol). Mae’r aelodaeth yn cynnwys yr holl Benaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch-dîm Rheoli, ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae gan yr Awdurdod Lleol ei Bolisi Diogelu Corfforaethol, ei Gynllun Gweithredu a'i Fframwaith Adrodd yn eu lle sy'n gosod y disgwyliadau ar bob gwasanaeth a'u hatebolrwydd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â diogelu. Cefnogir y Cyfarwyddwr yn ei rôl gan y Rheolwr Gwasanaethau ar gyfer Diogelu a Gwella Ansawdd. Ei rôl ef/hi yw rhoi cyngor i'r Cyfarwyddwr ar bolisïau a gweithdrefnau perthnasol. Mae gan bob gwasanaeth arweinydd diogelu sy'n aelod o'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (gweithredol). Ceir atebolrwydd am faterion gweithredol wrth ymdrin ag achosion unigol trwy reolaeth llinell uniongyrchol y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a’r Pennaeth Gwasanaethau Plant.

Bob blwyddyn bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn nodi ei amcanion Diogelu ar gyfer y flwyddyn a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn ei Gynllun Cyflenwi Gwasanaeth. Ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn sicrhau y caiff hyn ei gymhwyso'n gyson yn y Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth, a bydd yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar y mater hwn. Bob chwarter bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn adolygu ei gynnydd mewn perthynas â chyflwyno ei Gynlluniau Darparu Gwasanaeth, gan gynnwys yr amcanion Diogelu.

Ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn sicrhau y caiff hyn ei gymhwyso'n gyson, a bydd yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar y mater hwn. Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu sicrhau ei hun o gadernid y trefniadau diogelu sydd ar waith.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd i Aelodau Etholedig, o leiaf bob blwyddyn, ar weithredu, monitro a gwella systemau diogelu plant ac oedolion o fewn yr awdurdod lleol.

**Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am sicrhau bod gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddigonol ei nifer a bod ganddo'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddiwallu anghenion pobl yn ardal yr Awdurdod. Mae cael gweithlu o'r fath yn ei le yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac i gyflawni cyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod. Rhaid i'r Cyfarwyddwr weithio gydag eraill, ac yn bwysig gyda phennaeth adnoddau dynol, i sicrhau bod gan yr Awdurdod Strategaeth Gweithlu sy'n adlewyrchu'r anghenion a'r amgylchiadau penodol sy'n gysylltiedig â gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn arbennig â'r farchnad sy'n ymwneud â gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr.

Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl arweinyddiaeth strategol i hyrwyddo safonau uchel ar draws y gweithlu gofal a chymorth, gan gynnwys y sector preifat a'r trydydd sector. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod Bwrdd Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn gweithredu'n effeithiol ac yn sicrhau bod cynllun gweithlu sector cyfan ar waith. Mae gan y Cyfarwyddwr rôl allweddol wrth hyrwyddo dysgu gweithlu cydweithredol trwy rwydweithiau a pherthynas â chyrff eraill, gan gynnwys Prifysgol Bangor. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Gwasanaethau Plant, y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol), sicrhau fod gan yr Awdurdod Lleol Strategaethau Gweithlu yn eu lle ar gyfer Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion.

Rhaid i'r Cyfarwyddwr sicrhau bod gan yr awdurdod lleol bolisïau hollgyffredinol ynghylch personél a gwaith recriwtio diogel, sy'n ategu'r angen am weithlu gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol, gan gynnwys yr angen i sicrhau'r gallu i ddarparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaethau'n darparu arweinyddiaeth strategol i sicrhau y caiff gofynion *Mwy na Geiriau* eu bodloni.

Rhaid i’r Cyfarwyddwr gynghori cynghorwyr, partneriaid a darparwyr eraill os yw diffygion o ran y gweithlu’n rhwystro capasiti’r awdurdod lleol i gyflawni cyfrifoldebau statudol, a rhaid iddo nodi’r camau gweithredu sy’n angenrheidiol i gywiro’r diffygion hynny.
Rhaid i'r Cyfarwyddwr hefyd ragweld newidiadau yn y cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol ar draws y sector wrth i amgylchiadau economaidd a chymdeithasol ehangach newid, gan gynnwys effaith datblygiadau mawr a newidiadau deddfwriaethol.

**Adroddiad Blynyddol**

Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch y modd y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cael eu harfer. Rhaid i’r adroddiad blynyddol hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a rhaid iddo werthuso perfformiad yr awdurdod lleol mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt y flwyddyn honno a rhaid iddo gynnwys y gwersi a ddysgwyd. Dyma adroddiad yr Awdurdod ar berfformiad a rhaid iddo hefyd esbonio sut mae swyddogaethau ehangach yr Awdurdod, megis addysg, tai, hamdden a thrafnidiaeth wedi cyfrannu at gyflawni deilliannau llesiant unigolion a sut byddant yn cyfrannu yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd nodi amcanion mewn perthynas â hybu llesiant pobl y mae angen arnynt o ran gofal a chymorth, a gofalwyr y mae angen cefnogaeth arnynt, am y flwyddyn i ddod. Rhaid i brif swyddogion eraill gyfrannu at yr Adroddiad o'u meysydd cyfrifoldeb. Rhaid i'r Adroddiad:

- Rhoi sicrwydd fod trefniadau strwythurol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn gryf
- Rhoi sicrwydd fod gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol
- Rhoi sicrwydd fod trefniadau diogelu’n gryf
- Gwybodaeth am ymdrin â chwynion ac am y gwersi a ddysgwyd ohonynt
- Rhoi ymateb i unrhyw arolygiadau
- Gweithredu Fframwaith Strategol y Gymraeg yr Awdurdod, "Mwy Na Geiriau"

Mae’r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr Adroddiad yn adlewyrchu:

- Barn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, gan gynnwys plant a'u rhieni, ar sut mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol;
- Gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol statudol. Rhaid darparu hon a rhaid iddi ddangos sut y sicrhawyd hyn;
- Barn asiantaethau sy’n bartneriaid a darparwyr ar weithio mewn partneriaeth;

Rhaid i'r Adroddiad ddangos sut mae'r Cyfarwyddwr wedi ymgysylltu â phobl wrth ei gynhyrchu a sut mae'n adlewyrchu profiad defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaethau.

Rhaid ysgrifennu a pharatoi’r adroddiad mewn fformat hygyrch a rhaid ei gyhoeddi a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd ac i Weinidogion Cymru.

**SICRHAU Y GWEITHREDIR Y PROTOCOL YN EFFEITHIOL**

Rhaid ystyried gweithrediad effeithiol y Protocol yn rheolaidd yn y cyfarfodydd a gynhelir rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Rhaid cael caniatâd i unioni diffygion yn syth a gweithredu hyn. Yn ogystal, rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Cyfarwyddwr gynnal adolygiad ffurfiol bob tair blynedd neu'n amlach os yw hyn yn angenrheidiol. Rhaid i bob adolygiad gynnwys yr uwch-dîm rheoli a rhaid cyflwyno adroddiad i'r Cyngor arno fel y gellir gwneud unrhyw newidiadau y gallai bod eu hangen i gryfhau'r Protocol.

**Cymwyseddau Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio cymwyseddau Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel y nodir yn rhan 8 para 91 dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 wrth benodi neu ddynodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1.

**Atodiad 1**

**Cymwyseddau Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol (Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014)**

Ni chaniateir i awdurdod lleol benodi person yn gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol iddo oni bai ei fod yn fodlon bod y person hwnnw wedi dangos y gyfres lawn o gymwyseddau rhyngberthynol sy'n diffinio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan y swyddogaeth. Yn gyffredinol, mae'r cymwyseddau hyn yn gyson â Model Ymddygiad Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

**Rhinweddau Craidd**

**Hunanymwybyddiaeth a dysgu**

- y gallu i ddangos gweledigaeth, creadigrwydd, hyblygrwydd, blaengaredd a deallusrwydd emosiynol gan fabwysiadu agwedd eangfrydig at gyfleoedd dysgu a datblygu ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer pobl eraill

- ymrwymiad i sicrhau bod pob gwasanaeth a phob person ar draws pob sector sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn datblygu'n barhaus

**Awydd i sicrhau canlyniadau a chydnerthedd**

- profiad sylweddol ym maes rheoli a darparu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol
- gwybodaeth am gyd-destun deddfwriaethol a strwythurol gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- parodrwydd i'w ddwyn ei hun i gyfrif, a dwyn pobl eraill i gyfrif, am y modd y caiff canlyniadau eu cyflawni

**Gweithio yn y dyfodol**

**Hyrwyddo blaengaredd a newid**

- y gallu i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol gref, a'r gallu i sicrhau ac ysbrydoli newid a gwelliant drwy fod yn ddylanwadol, bod yn agored a chyfathrebu'n effeithiol

- y gallu i gymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo a hwyluso integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth

**Cyfeiriad Strategol**

- gwybodaeth a phrofiad ym maes cynllunio a datblygu'r gweithlu, a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gweithlu effeithiol ym mhob sector

- y gallu i ddwyn pobl a gwasanaethau i gyfrif drwy sicrhau bod llif a systemau gwybodaeth, llinellau adrodd a dulliau archwilio proffesiynol ac archwilio rheolaeth ar waith

**Cydweithio ag eraill**

**Meithrin cydweithredu a phartneriaeth**

- y gallu i hyrwyddo dulliau effeithiol o weithio mewn partneriaeth, gan gyfrannu at ddatblygu atebion cydweithredol a lunnir ar y cyd rhwng y sector cyhoeddus, y sector annibynnol a'r trydydd sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n gwneud yn fawr o arbenigedd ac adnoddau

- y gallu i wneud penderfyniadau strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn datblygu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol mewn modd cydweithredol

- y gallu i fod yn hyblyg ac yn barod i addasu wrth arwain, a pharodrwydd i ddysgu oddi wrth eraill er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau

**Sgìl ac ymwybyddiaeth wleidyddol**

- dealltwriaeth o weithio, a phrofiad o weithio, ar lefel uwch mewn cyd-destunau gwleidyddol cenedlaethol a lleol sy'n atebol i'r cyhoedd

- gwybodaeth dda am amgylchedd gweithredol mudiadau yn y sector annibynnol a'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth

**<u>Cyflawni</u>**

**Canolbwyntio ar ddinasyddion a gwerth**

- sicrhau bod yr awdurdod lleol a phob partner yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n ceisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth

- darparu arweinyddiaeth strategol er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth gofal a chymorth yn cael ei ddylunio a'i ddarparu mewn partneriaeth â dinasyddion a'i fod yn canolbwyntio ar alluogi dinasyddion i sicrhau eu llesiant eu hunain

- dangos sgiliau ardderchog o safbwynt rheolaeth ariannol yng nghyswllt cyllideb yr awdurdod lleol a chyllidebau a rennir

**Rhannu Arweinyddiaeth**

- y gallu i ddangos arweinyddiaeth a gaiff ei thywys gan werthoedd er mwyn sicrhau ymrwymiad staff a rheolwyr ar bob lefel i gynnal safonau uchel ac arfer da, drwy eu grymuso i ddangos uchelgais a chymryd cyfrifoldeb

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llawn |
| **Dyddiad:** | 25 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2017/18 |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Swyddog Cyswllt:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Prif Weithredwr Cynorthwyol<br><br>Emma Edwards / Elin Williams<br>01248 751887 / 751813<br>Emma Edwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

| **A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>Derbyn a gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft terfynol a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Statudol. Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf o ran darparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r ffocws ar gyfer gwelliant am y flwyddyn nesaf.<br><br>Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr adroddiad terfynol, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio PGD rhyngweithiol – a fydd yn caniatáu ar gyfer linciau electronig i wefannau ac astudiaethau achos ac ati – a fydd yn gwneud yr adroddiad yn fwy diddorol a lliwgar o safbwynt gweledol. Mae'r templed ar gyfer yr adroddiad yn cael ei ddylunio gan ein Dylunydd Graffig a'n Swyddog Marchnata Digidol.<br><br>**Diwrnod Herio'r Gwasanaeth**<br>Cynhaliodd y Gwasanaeth sesiwn herio ar 14 Mehefin 2018 ac fe wahoddwyd sefydliadau partner, sefydliadau trydydd sector, gofalwyr, darparwyr a chynrychiolwyr y defnyddwyr gwasanaeth i'r digwyddiad. Daeth nifer dda i'r digwyddiad.<br><br>Cyflwynwyd i'r sawl a oedd yn bresennol negeseuon trosolwg allweddol gan Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a chan Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Roedd y Diwrnod Herio Gwasanaeth yn gyfle pwysig i ymgysylltu gyda'n cydranddeiliaid allweddol i adolygu cynnydd ac i nodi blaenoriaethau. |

| |
|---|
| **Amserlen**<br>Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 5 Gorffennaf 2018 ac mae’r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda’r Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf 2018 ac yna gyda’r Cyngor Llawn ar 25 Medi 2018. Ymhellach, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ffurf PDF Rhyngweithiol.<br><br>**<u>Argymelliadau</u>**<br><br>1.1. Gwahoddir aelodau i mabwysiadu yr Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18. |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith ar y 16ain Gorffennaf 2018. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 26 Mehefin 2018. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Craffu** | Rhoes y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyriaeth fanwl i Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18 a phenderfynwyd fel a ganlyn:<br><br>Penderfynwyd derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cyhoeddus am 2017/18 ac argymell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith." |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Amherthnasol |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| 3 | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| 4 | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| 7 | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2017/18 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

CC-016749-LB / 229501

# Ynys Môn
THE ISLE OF
# Anglesey

## Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ar effeithiolwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol

## 2017 -18

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

@cyngormon

www.ynysmon.gov.uk

# Cynnwys


2 Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Chrynodeb o Berfformiad

5 Sut mae Pobl yn Llunio'n Gwasanaethau?

7 Safon Ansawdd 1- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

11 Safon Ansawdd 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

14 Safon Ansawdd 3 - Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

17 Safon Ansawdd 4 - Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

22 Safon Ansawdd 5 - Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach

25 Safon Ansawdd 6 - Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

29 Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

31 Ein Hadnoddau Ariannol a sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

32 Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, ein Llywodraethiant a'n Hatebolrwydd


Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'n hunanasesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn ogystal ag amlygu'r heriau y mae angen rhoi sylw iddynt yn y flwyddyn i ddod. Fe'i paratowyd fel dogfen anweithredol, y mae'n well ei darllen ar lein er mwyn cael y cyfle gorau i gysylltu'n electronig â dogfennau ategol a gwefannau allanol.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau ar ffurf a chynnwys yr adroddiad, er mwyn cynorthwyo ein taith o'i wella.

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Chrynodeb o Berfformiad



**Dr Caroline Turner**
Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

Rwy'n falch o gyflwyno'r trydydd Adroddiad Blynyddol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rwy'n falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y deuddeng mis diwethaf wrth weithio'n gorfforaethol gyda'r Gwasanaethau Tai ac Addysg i roi cefnogaeth integredig. Mae ein cydweithrediad â phartneriaid hefyd wedi gwella, yn enwedig felly gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn y Trydydd Sector.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod 2017-18, ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cydnabod hyn yn eu llythyr ym mis Ionawr 2018. Mae nifer o elfennau allweddol wedi bod i hyn:

- Rydym wedi adolygu'r gefnogaeth a roddir i'r rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc sydd naill ai'n Derbyn Gofal, ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu'n derbyn Cynllun Gofal a Chymorth. Mae hyn wedi sicrhau ein bod yn darparu'r lefel fwyaf priodol o gefnogaeth. Mae hyn yn fodd i'n Gweithwyr Cymdeithasol ganolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd y mae angen cymorth arnynt ac y mae angen eu hamddiffyn.
- Rydym hefyd wedi cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd nad oes angen ymyrraeth Gweithwyr Cymdeithasol arnynt, ond y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar hyn o bryd. Mae Teulu Môn yn dîm newydd sydd wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2017, ac mae ganddo adnoddau ychwanegol sylweddol. Bydd y Strategaeth Atal ac Ymyrraeth gynnar newydd yn ein galluogi i gomisiynu ymyraethau wedi'u targedu ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan wneud defnydd effeithiol o'r grant Teuluoedd yn Gyntaf.
- Sefydlwyd y Tîm Teuluoedd Gwydn ym mis Hydref 2017 ar gyfer y teuluoedd hynny y mae eu hanghenion yn fwy, ac mae eisoes wedi rhoi cefnogaeth ddwys i deuluoedd sydd mewn perygl o fod â'u plant yn mynd i ofal, neu hwyluso rhai plant a phobl ifanc i ddychwelyd adref, lle bo hynny'n briodol.

Hoffwn ddiolch i Leighton Rees a Llŷr Bryn Roberts am arwain y Gwasanaeth mor effeithiol yn ystod 2017. Roeddwn yn falch o groesawu Fôn Roberts i swydd y Pennaeth Gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2017. Mae ein taith gwella'n parhau, a'n nod yn ystod gweddill 2018 fydd sicrhau bod ymarfer proffesiynol ymhlith ein Gweithwyr Cymdeithasol yn gyson dda, ac y gwelwn welliant yn ein Dangosyddion Perfformiad. Byddwn hefyd yn ceisio cynyddu nifer y gofalwyr maeth a'r lleoliadau preswyl i blant "sy'n derbyn gofal" yn nes at eu cartrefi. Byddwn yn cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc wrth iddynt baratoi i adael ein gofal, gan roi cefnogaeth a chymorth iddynt ddod yn oedolion ifanc cyfrifol ac annibynnol. Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac yn rhoi enghreifftiau o welliannau iddynt, wrth i ni baratoi ar gyfer arolwg arall yn nes ymlaen yn 2018.

>>

>> Mae ein cefnogaeth i bobl Ynys Môn yn gyfrifoldeb corfforaethol, ac nid yw wedi'i gyfyngu i'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion statudol. Rydym wedi gwneud gwaith arloesol eleni i godi ymwybyddiaeth o effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac rydym hefyd wedi trefnu i holl weithwyr y Cyngor gael hyfforddiant ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae cynnydd bychan ond sylweddol mewn troseddau difrifol ar yr Ynys, gyda rhai o'r rheiny wedi'u targedu at bobl fregus, boed yn oedolion neu'n blant. Mae'r problemau yr ydym yn eu cysylltu yn draddodiadol â dinasoedd mewnol bellach yn cael effaith ar Ogledd Cymru, ac yn ei dro, ar Ynys Môn. Felly, bydd ein gwasanaethau'n parhau i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaid y Trydydd Sector i roi cefnogaeth i'r rhai y mae hyn yn cael effaith arnynt, ond hefyd i godi ymwybyddiaeth ymhlith ein cymunedau i geisio atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i'r gweithgarwch hwn. Mae'r Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi bod yn arbennig o weithgar yn eu cefnogaeth gan dargedu nifer o gymunedau y cafodd y materion hyn effaith arnynt yn ystod 2017, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Rwy'n falch o'r cynnydd y mae Gwasanaethau Oedolion wedi'i wneud eleni, yn arbennig gydag ailfodelu Garreglwyd yng Nghaergybi fel y gallwn ddarparu cymorth arbenigol i bobl hyn â dementia, a'u gwneud yn bosib iddynt aros yn Ynys Môn, yn nes at deulu a ffrindiau. Bydd Hafan Cefni, y cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Llangefni, yn agor yn nes ymlaen yn 2018, a bydd hefyd yn galluogi mwy o bobl i aros yn eu cymuned wrth i'w hanghenion gofal a chymorth gynyddu. Rydym wedi dechrau'r broses o dendro am drefniadau Gofal Cartref newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at ddyfarnu'r contractau yn fuan. Bydd hyn hefyd yn gwella gwasanaethau ar Ynys Môn, ac yn sicrhau mynediad gwell a chysondeb gwasanaeth ar draws yr Ynys. Bydd yr holl welliannau hyn yn fodd i ni gefnogi'n cydweithwyr iechyd wrth i ni geisio lleihau'r broblem o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal o'n hysbytai.

Byddwn yn parhau i adolygu a gwella'n cefnogaeth i'r rheiny ag Anableddau Dysgu, gan sicrhau bod y trefniadau'n briodol a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau. Byddwn yn cyd-gynhyrchu unrhyw drefniadau newydd gyda darparwyr y trydydd sector, gan wrando ar farn defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a darparwyr gwasanaeth wrth i ni wneud unrhyw newidiadau. Rwyf yn falch ein bod wedi gweld gwelliant yng nghanran gofalwyr oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad yn eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi gweld gwelliant yng nghanran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi - oedolion nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach. Mae galluogi pobl i gynnal neu adennill eu hannibyniaeth, ac aros yn eu cartref lle bo'n bosib, yn bwysig ar gyfer ansawdd bywyd y rheiny yr effeithir arnynt, a bydd y gefnogaeth a roddir gan deuluoedd a chymunedau'n dod yn gynyddol bwysig wrth i'r pwysau ar gyllidebau cyhoeddus barhau, gan adeiladu ar draddodiad cryf o ofalu am ein teuluoedd a'n cymdogion yn ein cymunedau.

Hoffwn ddiolch i'n Haelodau Etholedig am eu her a'u cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu cyfraniad i bolisïau wedi cryfhau rhai o'n cynigion, ac mae'n bwysig gan eu bod yn gallu mynegi barn eu hetholwyr. Yn benodol, mae gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi bod yn allweddol wrth oruchwylio'r gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd trwy gydol y flwyddyn a chryfhawyd y trefniadau a'u ffurfioli fel rhan o'r trefniadau Sgriwtini yn dilyn

etholiadau'r awdurdod lleol ym Mai 2017. Mae'r rhyngweithio rhwng Aelodau'r Panel a rheolwyr o'r Gwasanaethau Plant, yn ogystal â'r ymweliadau Laming rheolaidd sydd wedi'u hailsefydlu'n ddiweddar, wedi bod o gymorth i aelodau ddeall cymhlethdod y gwasanaethau a ddarperir i blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan arwain at her a chraffu ehangach, ond hefyd at well cefnogaeth wrth i ni barhau i wneud newidiadau a gwella'r gwasanaeth.

**Dr Caroline Turner**
Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

# Sut mae Pobl yn Llunio'n Gwasanaethau?

Mae ein busnes yn troi o gwmpas pobl, ein dinasyddion, ein cleientiaid, ein staff a'n partneriaid. Paratowyd hyn mewn fformat mwy hygyrch, i annog pobl Ynys Môn i'w ddarllen, i ddatblygu dealltwriaeth o ehangder ein gwasanaethau ac i gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau ynghylch y ffyrdd y gallwn wella'n gwasanaethau.

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn parhau i weithio tuag at Fframwaith Strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Mwy Na Geiriau', ac ar hyn o bryd mae 81% o staff y Gwasanaethau Plant a 74% o staff y Gwasanaethau Oedolion a ymatebodd bron yn rhugl eu Cymraeg neu'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn gynnydd ar ffigurau blynyddoedd blaenorol.

Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd gydag unigolion a sefydliadau sy'n bartneriaid er mwyn casglu gwybodaeth a barn. Defnyddiwyd ymgynghoriadau, cyfarfodydd, digwyddiadau a holiaduron dros y flwyddyn i'n helpu i ddeall beth sy'n bwysig i'r rhai yr ydym yn ceisio'i helpu fwyaf. Mae hyn yn ei dro yn helpu i lunio'n cynlluniau gwella ac yn helpu i flaenoriaethu'n gwaith. Enghreifftiau o hyn fyddai cysylltiad Ward Seiriol â datblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol.

Mae gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn hanfodol bwysig yn yr hinsawdd gyfredol. Mae cyd-gynhyrchu gofal a chymorth gydag unigolion, cymunedau a sefydliadau'n ein galluogi i wneud hyn ac i herio, addasu a newid modelau gofal cyfredol.

Mae datblygiad Gŵyl Indeg yn enghraifft gadarnhaol o gyd-gynhyrchu. Dyma syniad a ddaeth gan riant ac fe dyfodd a dod yn realiti trwy barodrwydd Gwasanaeth Arbenigol Plant / Teuluoedd yn Gyntaf a'r Trydydd Sector (Cynnal Gofalwyr) i weithio mewn partneriaeth i gynnal y digwyddiad. Fe'i cynhaliwyd ar yr 28ain o Fawrth 2018 ac roedd yn llwyddiant ysgubol gyda llawer o blant, teuluoedd ac oedolion yn dod yno. Roedd stondinau gwybodaeth, gweithgareddau, gweithdai cerdd a bandiau byw.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio gyda'r gymuned, sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid eraill i gryfhau gweithio mewn partneriaeth. Rydym hefyd yn parhau i weithio o fewn y gymuned trwy'n Timau Amlddisgyblaethol a Chydlynwyr Asedau Lleol.

Mae gennym Fforwm Gofal Maeth Ynys Môn sydd â'r nod o wella a datblygu'r gwasanaeth maethu ar Ynys Môn trwy gydweithio fel tîm, er mwyn gwella ansawdd bywyd Plant sy'n Derbyn Gofal ar Ynys Môn. Mae gennym hefyd arolwg blynyddol yn gofyn i ofalwyr maeth am eu barn ar bopeth o'r gefnogaeth a gânt i'r hyfforddiant y maent wedi'i gael. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun mentora newydd gyda'n gofalwyr maeth fel rhan o brosiect peilot gyda'r rhwydwaith maethu. Fel rhan o hwn, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda gofalwyr maeth a chafodd yr adborth ei gynnwys mewn polisïau a chanllawiau.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys Ynys Môn wedi cyhoeddi cynllun pum mlynedd newydd ar gyfer sut y bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yng Ngogledd Cymru. Mae'r cynllun yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru i bawb. Fe'i hysgrifennwyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth a amlygodd gynnydd yn yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl ledled Gogledd Cymru wedi cymryd rhan i gael dweud eu dweud am hanfod gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r cynllun ar gael yn: https://www.northwalescollaborative.wales/north-wales-population-assessment/regional-plan/

Mae Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn hefyd yn drafftio'u cynllun comisiynu ar gyfer y dyfodol a chaiff ei gyhoeddi ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19.

Rydym hefyd yn dysgu o gwynion a wneir ac mae nifer y cwynion ynghylch y Gwasanaethau Plant wedi gostwng yn ystod ail ran y flwyddyn. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn gwneud yn dda wrth gwrdd ag achwynwyr i drafod cwynion ond mae angen i ni sicrhau ein bod yn ysgrifennu at bob achwynydd o fewn pum diwrnod i gyfarfodydd. O ran sylwadau cadarnhaol, cofnodwyd cyfanswm o 232 o sylwadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn (96 am y Gwasanaethau Plant a 136 am y Gwasanaethau Oedolion) - cynnydd o 202 ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol.



## Safon Ansawdd 1

# Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu deilliannau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

### Oedolion

Ein **Pwynt Mynediad Sengl** neu **SPOA** yw'r man cyswllt cyntaf ac mae'n rhoi cyfle i unigolion gael gwybodaeth, cyngor a chymorth clir a dealladwy, a lle bo angen, mae'n ystyried a oes angen asesiad pellach ar yr unigolyn. Mae'n cefnogi oedolion 18 oed a throsodd, gan gynnwys gofalwyr.

Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd ein gwasanaeth SPOA i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni adolygu ein **trefniadau eirioli** a sefydlu contract newydd, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd. Mae Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru bellach yn darparu eiriolaeth dan gyfarwyddyd ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr sy'n oedolion, cefnogaeth hunaneiriolaeth ac ymgysylltu â phrosiectau penodol. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa well i gwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac i hyrwyddo arfer gorau.

Mae **Cyswllt Cymunedol Môn**, y Trydydd Sector a'r pwynt mynediad cymunedol sydd dan ofal Medrwn Môn yn parhau i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ynghylch gweithgareddau, grwpiau a dosbarthiadau cymunedol. Mae'r Cyngor a Medrwn Môn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gwahanol adrannau'r Cyngor a sefydliadau lleol i roi gwybodaeth leol am y ddarpariaeth i gefnogi lles pobl ar wefan **Dewis Cymru.**

### Plant a Theuluoedd

Canolfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yw **Teulu Môn** sydd wedi'i sefydlu mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n cynnwys dyletswyddau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd dan Ddeddf Gofal Plant 2006. Rydym yn frwd dros sicrhau bod pob plentyn, teulu a phob gweithiwr proffesiynol yn ei chael yn hawdd cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfoes. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi gwneud trefniadau gyda Dewis Cymru fydd yn ei gwneud yn bosib i deuluoedd Ynys Môn gael gwybodaeth trwy eu gwefan.

Mae'r swyddogion ymgysylltu wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau Môn i hyrwyddo'r gwasanaeth. Ymhlith y digwyddiadau hyn mae diwrnodau o hwyl i'r teulu, gwyliau, yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Mŏn a gŵyl unigryw sy'n hyrwyddo cynnwys plant ag anableddau.

Mae ein busnes yn troi o gwmpas pobl, ein dinasyddion, ein cleientiaid, ein staff a'n partneriaid. Paratowyd hyn mewn fformat mwy hygyrch, i annog pobl Ynys Môn i'w ddarllen, i ddatblygu dealltwriaeth o ehangder ein gwasanaethau ac i gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau ynghylch y ffyrdd y gallwn wella'n gwasanaethau.


Mae swyddogion ymgysylltu yn Nheulu Mŏn yn cael y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gydag unigolion i ystyried sut gellir eu cefnogi i ddefnyddio'u cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i gael lles a chanlyniadau personol. Mae lles yn troi o amgylch rhywun sy'n hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'u bywyd ac â'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant i'r swyddogion ymgysylltu ar Gyfweld Ysgogol a Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion er mwyn ychwanegu at y set sgiliau sydd gennym ar hyn o bryd a'i wella. Nododd cynrychiolydd o Ofal Cymdeithasol Cymru a dreuliodd y diwrnod gyda Theulu Mŏn fod y staff yn hapus iawn ac wedi ymrwymo i'w gwaith ac yn cyflwyno gwasanaeth drws ffrynt ardderchog i bobl oedd yn galw o ran eu sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid.

Wrth asesu anghenion cymwys, gan ddechrau gyda'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', mae gweithwyr nawr yn canolbwyntio ar gryfderau pobl a chefnogaeth gymunedol sydd ar gael a gweithio gydag unigolion (gan gynnwys gofalwyr) ar y ffordd orau o ddefnyddio'r hyn sydd ar gael iddynt i ddiwallu eu hanghenion. Mae'n hanfodol ystyried y deinamig teuluol yn y broses hon. Wedi gwneud hyn, a'r farn yw bod angen gofal ffurfiol i gynorthwyo unigolyn neu deulu, datblygir cynllun gofal a chymorth.

Yr hyn yw ymyrraeth gynnar yw helpu i atal pobl ifanc a theuluoedd â phlant o bob oed rhag datblygu problemau sy'n anodd eu goresgyn. Drwy roi i deuluoedd y sgiliau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt yn gynnar, rydym yn fwy tebygol o'u hatal rhag mynd i anawsterau yn nes ymlaen, ac yn fwy tebygol o helpu teuluoedd i feithrin cylchoedd rhyng-genhedlaeth o riantu, perthnasoedd ac ymddygiad cadarnhaol. Drwy adeiladu ar gryfderau rhieni, gallwn eu helpu i greu amgylchedd cefnogol a chyfoethog i'w plant gyflawni eu potensial ac i adlewyrchu eu hymddygiad cadarnhaol.

## Beth Mae'r ddeddf yn ceisio'i gyflawni: Atal

**Mwy o gefnogaeth lles**



Ein nod yw galluogi teuluoedd bregus i allu rheoli eu problemau'n well a rhoi amgylchedd addas, diogel i'w plant. Byddai hyn yn golygu:

**- ADEILADU** gwydnwch ymhlith plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'r gymuned.
**- ATAL** angen rhag gwaethygu trwy nodi materion yn gynnar ac ymyrryd yn effeithiol.
**- DIOGELU** rhag niwed sylweddol trwy gynnig ymyrraeth ddwys ac effeithiol.

Mae model Teulu Môn yn gweithio'n dda os yw teuluoedd yn cael eu cymell i fynd am ddarpariaeth a chefnogaeth ac os yw'r ddarpariaeth ar gael ac mae modd cael ati. Fodd bynnag, yn aml nid yw teuluoedd sy'n cael eu cyfeirio'n uwch yn sylweddoli bod ganddynt broblemau neu mae o fudd iddynt beidio â bod yn agored am eu hamgylchiadau.

Mae ein tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallwn ddarogan pwy yw'r teuluoedd mwyaf bregus ac y gwyddom amdanynt eisoes yn rhywle yn y system.

Felly, yr amcanion ar gyfer ein Gwasanaeth Teulu Mŏn yw: -

- Sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o adnoddau a gwasanaethau mewn fformat sy'n hygyrch ac ar gael i blant a theuluoedd.
- Bod y ddarpariaeth hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael adnoddau priodol.
- Sefydlu cysylltiad â gwasanaethau gwybodaeth a chyngor eraill ac o bosib intigreiddio â nhw.
- Creu cysylltiadau a pherthynas â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn deall eu rôl yn y broses ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen.
- Sefydlu systemau, sgiliau a phrosesau i gasglu cynnwys angenrheidiol y sgwrs ' Beth sy'n Bwysig' naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r asiantaethau cyfeirio.
- Sefydlu systemau gwybodaeth er mwyn casglu gwybodaeth ehangach a chanfod maint a natur y risg a'r bregusrwydd.

Rydym yn cynnig ymyrraeth weithgar mewn amgylchiadau lle mae risg sylweddol o broblemau'n gwaethygu gyda'r bwriad o liniaru'r angen hwnnw. Yn y cyd-destun hwn, yr hyn yr ydym yn bryderus yn ei gylch yw'r: -

- Perygl niwed arwyddocaol / cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant
- Yr angen i fynd i'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)
- Yr angen i fynd i Achosion Gofal
- Yr angen i blant aros yn y system plant sy'n derbyn gofal.

Lle bo'n bosib ac yn briodol, mae ein model o ymyrraeth yn ceisio ymdrin â materion ar lefel y gwasanaethau cyn statudol. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd y Gwasanaeth Ymyrraeth ac Atal Cynnar yn ymdrin â phob amgylchiad nad yw'n cynnwys ymchwiliad Adran 47 neu gael gwared â gofal, yn y modd hwnnw. Bydd hyn yn cael ei wneud gan staff a ddynodir yn y grwpiau Tîm o amgylch y Teulu, grwpiau ymarfer Gweithwyr Cymdeithasol a gwasanaeth camu ymlaen newydd. Y grwpiau ymarfer Gwaith Cymdeithasol fydd yn arwain y gwaith ymchwilio i mewn i niwed arwyddocaol (ymchwiliadau A47), asesiad gofal a chymorth cymhleth neu symud i ofal.

Mae **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** yn brofiadau a all gael effaith ar ddatblygiad plant a chael effaith ar eu hiechyd, eu hymddygiad a'u cyfleoedd pan fyddant yn oedolion. Rydym yn awyddus i wreiddio'n gwybodaeth o amgylch agenda Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac rydym wedi darparu hyfforddiant i bob aelod o staff i wella eu dealltwriaeth.

## Gwasanaethau Arbenigol Plant

Mae cael y Gweithiwr Cymdeithasol Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth pwrpasol wedi bod yn ffordd effeithiol o reoli cyfeiriadau newydd sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth. Gan nad oedd yn ymarferol i'r Gweithiwr Cymdeithasol Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth barhau i asesu'r cyfeiriadau newydd oedd yn benodol ar gyfer gwasanaethau Iechyd, megis rheoli ymddygiad, datblygu sgiliau, ac anghenion iechyd cymhleth, mae tîm nyrsio anabledd dysgu cymunedol y plant wedi sefydlu clinigau 'sgrinio' fel ffordd o asesu cyfeiriadau newydd.

## Blaenoriaethau 2018/19

- Byddwn yn parhau i weithio gyda phob sefydliad a phartner i gryfhau gwaith partneriaeth, a gwella'n cymunedau i'n holl ddinasyddion.
- Cwblhau gwaith gwerthuso ac ailfodelu'n SPOA i sicrhau ei fod yn intigreiddio'n llwyr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Medrwn Môn.
- Defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i dreialu swydd hybrid newydd - Cydlynydd Anabledd a Lles. Mae hyn yn dilyn gwaith datblygu Teulu Môn ac adolygu'r broses gyfeirio.
- Byddwn yn gwella arfer ar draws y Gwasanaethau Plant cyfan ac yn sicrhau cysondeb o ran asesiadau, ymweliadau statudol, cofnodi a rhoi cefnogaeth.
- Ymgorffori ffyrdd newydd o weithio, gan sicrhau bod pob cyfeiriad at y tîm integredig yn dod i'r Gwasanaeth Arbenigol Plant trwy Deulu Môn, a chwblhau sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'. Yn ei dro, bydd yr Arweinydd Ymarfer yn penderfynu sut dylid symud ymlaen gyda'r cyfeiriadau, mynd naill ai i'r Tîm o amgylch y Teulu / Teulu Môn, Gwasanaethau Arbenigol Plant neu eu cyfeirio at wasanaethau cyffredinol neu wasanaethau anstatudol amgen.
- Bydd Teulu Môn yn parhau ac yn ychwanegu at y Strategaeth Ymgysylltu bresennol, gan greu cysylltiadau â chymunedau, teuluoedd ac unigolion ar Ynys Môn.
- Creu Awdurdod Lleol sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac i staff fod yn ymwybodol o drawma.

## Mesur Safonau Ansawdd 1:

- 94.25% yn dweud iddynt gael eu trin ag urddas a pharch
- 91.92% o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi / oeddech chi gyda'r gwasanaethau gofal a chymorth a gawsoch?
- 92.60% o oedolion sy'n derbyn pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn
- 92.60% o oedolion sy'n derbyn pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn dweud eu bod yn fodlon ynglŷn â'r modd yr oedd y gwasanaethau yr oeddynt yn ei dderbyn yn bodloni eu hanghenion

# Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

## Oedolion

| Gwasanaeth Tîm Gofal Uwch Môn Medi 2017 - Mawrth 2018: | |
|---|---|
| Nifer y cleifion a gyfeiriwyd | 117 |
| Ymweliadau wedi'u cwblhau | 533 |
| Nifer y bobl na fu raid iddynt fynd i'r ysbyty | 91 |
| Dyddiau gwely wedi'u harbed | 409 |

Mae **Tîm Gofal Uwch Môn** yn parhau i gefnogi gwaith i atal pobl fregus, henoed â chyflyrau iechyd lluosog rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Mae'r Tîm hwn yn chwarae rhan mewn hyrwyddo annibyniaeth ac ailalluogi. Bellach mae Uwch-baramedig Ymarfer wedi ymuno â'r Tîm. Gyda'r rôl hon mae'r gwasanaeth wedi gallu derbyn gartref mwy o gleifion sy'n ddifrifol wael, a hynny'n uniongyrchol gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Unigrwydd ac Arwahanrwydd gyda'r holl randdeiliaid yn cyfrannu, gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol ac Age Cymru Gwynedd a Môn. Nodwyd mai'r prif reswm dros unigrwydd ac arwahanrwydd oedd nad oedd yna gludiant cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac, yn sgil hyn, cynhelir uwchgynhadledd ar y mater penodol hwn i lunio dull cydgysylltiedig i roi sylw i'r mater hwn.

Fel rhan o waith parhaus datblygu Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar, mae Hybiau Cymunedol yn cael eu datblygu ar draws yr Ynys a bydd hyb wedi'i leoli yn y cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Llangefni

Mae gwasanaeth Tylluanod y Nos yn rhoi gofal a chymorth parhaus i bobl dros nos yn eu cartrefi eu hunain

Mae Gwasanaethau Oedolion bellach yn rhoi Gwasanaeth Saith Diwrnod llawn sy'n canolbwyntio ar ofal ataliol; gan osgoi anfon pobl i'r ysbyty heb fod raid neu oedi cyn eu rhyddhau

Rydym yn parhau i sefydlu Cynghreiriau Cymunedol trwy ein Model Creu Cymunedau. Mae Cynghrair Gymunedol Seiriol wedi'i hen sefydlu.

*"Mae'n galonogol gwybod bod yna unigolion dychmygus, gweithgar, clinigol i eirioli ar ran ein grŵp cleientiaid a symud gwasanaethau ymlaen i'r dyfodol. Maent yn ymroddedig iawn gan wrando ar gefnogaeth a chyngor a gynigir, a chwestiynu ymarfer lle bo'n briodol. "*

Rydym yn darparu ac yn comisiynu ystod o gyfleoedd gofal dydd a gwaith ar draws Ynys Môn i unigolion ag anableddau dysgu, gan gynnwys pobl ag anghenion cymhleth iawn. Mae'r gwasanaethau'n cynnig cyfleoedd gwahanol, gan gynnwys datblygu sgiliau byw'n annibynnol, sgiliau gwaith, sgiliau cymdeithasol, presenoldeb cymunedol, a rhoi seibiant i ofalwyr. Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau agwedd fasnachol sy'n cynnig gwasanaethau garddio, gwaith coed, celf a chrefft, gan ei gwneud yn bosib i unigolion brofi amgylchedd busnes go iawn.

Mae'r **Tîm Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** yn rhan hanfodol o'n gwaith darparu cymorth iechyd meddwl yn y gymuned. Mae'r tîm yn cael arian grant gan **Gefnogi Pobl** ac mae'n rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Rhoddir cymorth i bobl ag anghenion cymedrol i gymhleth mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol gan gynnwys pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn dau gynllun byw â chymorth lle mae unigolion yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer byw'n annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector tai i sicrhau llety addas i symud ymlaen o'r cynlluniau tai â chymorth. Mae'r tîm yn frwd o ran hyrwyddo adferiad a lles ac yn gweithio gydag ystod o ddarparwyr lleol yn y Trydydd Sector i leihau stigma, hyrwyddo cynnwys cymdeithasol a rhoi cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r **Gwasanaeth Ailalluogi** ar gyfer oedolion 18 oed a throsodd i'w cael 'yn ôl ar eu traed' trwy adennill eu hannibyniaeth yn dilyn cyfnod o salwch, anabledd neu golli hunanhyder a'u grymuso i reoli eu hiechyd a'u lles. Rhan annatod o'r gwasanaeth hwn yw darparu offer a thechnoleg gynorthwyol sy'n cefnogi annibyniaeth. Darperir llawer o'r offer hwn trwy siop fenthyciadau a ddarperir ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy a Gwynedd.

Rydym yn parhau i fod â thri gwely gofal canolraddol penodol ym Mhlas Mona yn Llanfairpwll. Mae'r rhain yn parhau i gael eu defnyddio i hwyluso achosion o bobl yn gadael yr ysbyty lle mae angen cyfnod pellach o ailalluogi. Fe'u defnyddir hefyd fel gwelyau 'camu i fyny' i atal pobl y mae angen cyfnod asesu pellach arnynt rhag gorfod mynd i'r ysbyty. Y bwriad yw y bydd gwelyau gofal canolraddol ar gael yn ein cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol ym Mhenucheldre a Hafan Cefni yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Tîm Amlddisgyblaethol -** Rydym yn parhau i fod â thimau amlddisgyblaeth yn Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi, Canolfan Iechyd Amlwch a Phlas Mona. Yn ogystal, rydym yn dal i gael adnoddau gofal canolraddol ar gyfer lleoliadau tymor byr mewn cartrefi gofal ar yr Ynys i reoli sefyllfaoedd argyfwng a hefyd i gyflymu gwaith rhyddhau pobl o'r ysbyty. Mae'r Timau Amlddisgyblaethol yn hanfodol i arfer da. Rydym wedi parhau i gryfhau gwaith amlbartneriaeth trwy Fodel Môn ac rydym yn gwella gwaith partneriaeth ymhellach gyda'n darparwyr gofal cartref.

Un elfen allweddol o'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yw 'Atal Codymau'. Gyda phartneriaeth rhwng Adran Hamdden y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, mae'r Gwasanaeth yn parhau i gynnig ystod eang o ymyriadau i'r rhai dros 65 oed ar Ynys Môn i helpu i leihau'r perygl o gael codwm a bod ofn cael codwm.

*"Roeddech i gyd mor garedig. Nid oedd dim yn ormod i chi – rydych yn staff gofalgar a thosturiol. Yn wir, rydych chi'n dîm gwych, mi alla i dystio i hynny. Mewn gwirionedd mae Brwynog yn gartref oddi cartref. Diolch yn fawr i chi i gyd. "*
***- Brwynog, Gwasanaethau Oedolion***

*"Yn syml, y lle gorau. Tîm Fantastig. Awyrgylch hyfryd, cyfeillgar, tawel. Wedi mwynhau bob eiliad ym Mhlas Crigyll. Alla i ddim diolch ddigon i chi. "*
***- Plas Crigyll***

**Plant a Theuluoedd yn rhan hanfodol o'n gwaith**

**Gofalwyr ifainc -** Mae darparu gwasanaethau i ofalwyr ifanc yn hanfodol i gynorthwyo a chefnogi plant a phobl ifanc i gael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod. Rydym yn comisiynu Gweithredu dros Blant i gyflawni'r gwaith hwn ac asesu gofalwyr ifanc a'u hanghenion ledled Ynys Môn.

Mae **Partneriaeth y Bont** yn parhau i roi gwasanaeth gan Weithiwr Cymdeithasol Gwasanaethau Arbenigol Plant a Chydlynydd Pontio sy'n gweithio o Ganolfan Addysg Y Bont yn wythnosol. Mae hyn wedi creu perthynas waith agosach rhwng y ddau wasanaeth ac wedi datblygu ffordd o gynorthwyo unigolion a theuluoedd mewn ffordd fwy ymatebol a chydlynol pan gyfyd unrhyw faterion neu bryderon.

**Blaenoriaethau 2018/19**

- Cynnal adolygiad o wasanaethau dydd mewnol i oedolion ag anableddau dysgu, gan ganolbwyntio ar ddilyniant, dewis cleientiaid a chanlyniadau.
- Cryfhau a datblygu ymhellach ein Tîm Amlddisgyblaethol sy'n gweithio yn y tair ardal mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, partneriaid y trydydd sector a darparwyr gofal cartref er mwyn darparu ymatebion amserol a sicrhau bod modd cael at ddarpariaeth integredig yn lleol.
- Gweithredu ein contract gofal cartref newydd ym mis Mehefin 2018 a sicrhau y caiff ei drosglwyddo'n llyfn a'i gyfleu'n dda i ddarparwyr llwyddiannus.
- Cefnogi'r gwaith o fwrw ymlaen â model cymunedol Cynghrair Seiriol.
- Hoffai Gwasanaethau Arbenigol Plant ddatblygu'r gwasanaeth i gynnig sesiwn 'galw heibio' rheolaidd i'r holl blant, pobl ifanc a theuluoedd / gofalwyr sy'n mynd i Ganolfan Addysg Y Bont. Gallai'r sesiynau hyn gynnwys cyngor / cymorth gan dîm nyrsio anabledd dysgu cymunedol plant, sesiynau Teulu Môn / Tîm o gwmpas y Teulu / Llwybr Niwroddatblygiadol gan ddibynnu ar anghenion y plentyn anabl, y person ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr.
- Bod Gwasanaethau Plant yn recriwtio i'r swyddi a ganlyn:
- **Gweithiwr Lles Emosiynol** (bydd y gweithiwr hwn yn gweithio gyda phlant y credir eu bod yn cael anawsterau gyda chyflyrau cyffredinol o bryder).
- **Gweithiwr Teulu Trais yn y Cartref -** bydd y gweithiwr hwn yn rhoi cymorth i'r plant lle mae trais yn y cartref wedi'i adnabod ac yn gweithio gyda'r teulu cyfan gan gynnwys gyda'r rhieni.
- Bydd **Gweithiwr Cydberthynas Iach** yn gweithio'n agos gydag ysgolion, gwasanaethau plant a gwasanaethau iechyd cymunedol i adnabod arwyddion cynnar o ymddygiad rhywiol niweidiol ymhlith plant oedran cynradd ac uwchradd.
- **Gweithiwr Iechyd Meddwl Rhieni a Chamddefnyddio Sylweddau -** bydd y gweithiwr yn ymyrryd yn seiliedig ar dystiolaeth yng nghyswllt rhieni a theuluoedd a allai fod yn dioddef o iselder lefel isel neu anhwylder gorbryder cyffredinol.

**Mesur Safonau Ansawdd 2:**

- 573 o oedolion angen gofal preswyl arnynt ryw adeg yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â 637 y llynedd.
- 366 o oedolion mewn gofal preswyl y 31ain o Fawrth 2018 o'i gymharu â 396 yn 2017.

# Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

**Trefniadau Diogelu Corfforaethol**

Mae "Diogelu" yn gyfrifoldeb ar bawb yn y Cyngor. Er mai Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Gwasanaeth arweiniol ar gyfer ymdrin ag ymholiadau ynghylch honiadau / pryderon y gallai plant ac oedolion fod yn cael niwed sylweddol, mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion a allai fod mewn perygl, beth bynnag yw rôl yr unigolyn. Trwy waith ei Fwrdd Diogelu Corfforaethol, mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu nifer o bolisïau allweddol i gynnal ei drefniadau Diogelu Corfforaethol, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gwblhau'r camau i'w cymryd yn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol.

**Cyflawniadau allweddol**

- Adolygu'r Polisi Diogelu: i sicrhau ei fod yn gyfredol, a bod Dyletswyddau Caethwasiaeth Fodern a Dyletswyddau Atal yn cael eu gwreiddio yn y trefniadau corfforaethol.
- Darparu hyfforddiant i staff yn unol â'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae dros 1600 o staff wedi bodloni'r gofynion i gwblhau'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Lefel 1 fel rhan o'n cyfrifoldebau yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Cymeradwywyd y Polisi Trwyddedu Tacsis diwygiedig, sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol (hyfforddiant ar Blant y Manteisir arnynt yn Rhywiol) i yrwyr tacsis, a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Lleol ochr yn ochr â hyfforddiant i'r heddlu yn ystod 2017/18.
- Parhau i sicrhau bod goblygiadau diogelu datblygiadau mawr yn cael eu hadnabod, a datblygu gwaith lliniaru.

**Cyd-destun Rhanbarthol ac Amlasiantaethol**

Mae'r Cyngor yn chwarae rhan lawn yng ngwaith a blaenoriaethau Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer plant ac oedolion: yn rhanbarthol a lleol. Mae hyn wedi cynnwys cefnogaeth ariannol ac amser swyddogion. Ni chynhaliwyd Adolygiadau Ymarfer Plant nac Oedolion mewn perthynas â'n gwaith yn ystod 2017/18. Datblygwyd ein trefniadau sicrhau ansawdd amlasiantaethol yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi parhau i chwarae rhan yn y trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd (MAPPA) a Chynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol (MARAC). Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn parhau i fonitro a rheoli risg yn amlasiantaethol o ran unigolion sy'n cael eu hasesu fel risg uchel i'r cyhoedd.

**Gwasanaethau Oedolion**
Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithredu'r gofynion diogelu diwygiedig dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan symud i ffwrdd o iaith y broses POVA i ddangos tystiolaeth y cydymffurfir â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i werthuso'n harfer diogelu'n annibynnol. Er ei bod yn ddyddiau cynnar ar hyn o bryd, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddysgu gan y bobl sy'n derbyn ein gwasanaethau.

Fel gyda Gwasanaethau Plant, mae gwerthuso ymarfer yn dangos bod enghreifftiau o arfer da, o ran diogelu oedolion a allai fod mewn perygl. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod angen gwella cadernid y broses ddiogelu a gwneud y defnydd gorau o gyfnod ymholiadau'r broses Oedolion mewn Perygl. Mae nifer o faterion i'w datblygu'n amlasiantaethol, gan gynnwys dwyn yr asiantaethau sy'n bartneriaid i mewn i'r Broses Oedolion mewn Perygl ac ansawdd yr Adroddiadau Diogelu a wneir gan asiantaethau sy'n bartneriaid.

Yn y Panel VARM (Panel Oedolion Bregus a Rheoli Risg) rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru i gydlynu'n gwaith wrth gefnogi unigolion ar draws gwasanaethau cyhoeddus sy'n arddangos anghenion cymhleth. Dengys y gwaith gwerthuso y bu gwella mewn ymgysylltiad â gwasanaethau cefnogi, trwy weithredu'n amlasiantaethol, gyda llai o alwadau ar yr Heddlu ac Ambiwlans Cymru. Roedd lleihad yn natur fregus oedolion a'r risgiau iddynt o ganlyniad uniongyrchol i'w cyfeirio at VARM. Dangosodd adborth gan weithwyr proffesiynol a aeth i VARM fod y panel yn effeithiol wrth sicrhau gweithredu'n amlasiantaethol wrth weithio gydag unigolion bregus.

**Gwasanaethau Plant**
Elfen allweddol o Gynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant yw gwella'r arfer o fewn y gwasanaeth ar gyfer diogelu plant bregus. Mae'r Gwasanaeth wedi gweithio'n galed i newid a gwella yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd hyfforddiant / mentora i ymarferwyr i wreiddio Model Risg Gwynedd / Thornton yn well yn y broses asesu ac ar wahanol bwyntiau i gefnogi dadansoddiad cadarn a hyderus o angen / risg, gan ystyried y dystiolaeth gyfan ym mhob achos.

Er bod enghreifftiau o arfer da, ar y cyfan, mae arfer yn parhau i fod yn anghyson ar draws y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod lle mae angen gwelliannau pellach ac yn gweithio'n galed i gyflawni'r rhain.

Rydym wedi canolbwyntio ar ddeall y rhesymau pam fod plant yn dod dan Gynllun Amddiffyn Plant. Adolygwyd yr holl achosion lle mae enw'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant er mwyn sicrhau bod camau amserol a chyflym yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon diogelu. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd gostyngiad sylweddol yn niferoedd y plant ar y gofrestr. Rydym yn deall y rhesymau y tu ôl i hyn, a gallwn ddangos bod rhywfaint o waith effeithiol yn digwydd i gyfeirio achosion yn uwch i dir mwy statudol / neu achosion lle mae'r gwaith a gwblhawyd wedi gweld y teulu'n gwneud newidiadau.

**Sicrhau Ansawdd a Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cryfhawyd yr Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd gydag adnoddau ychwanegol a chan ganolbwyntio ar fwy o bethau.

- Mae'r uned wedi ymateb yn bositif i'r heriau o fewn y Cynllun Gwella Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)
- Datblygu a gweithredu Fframwaith Gwella Ansawdd y Gwasanaethau Plant
- Mewn cydweithrediad ag ymarferwyr, gosod safonau ar gyfer meysydd ymarfer, safonau y caiff yr arfer ei arfarnu arnynt.
- Sicrhau bod proses archwilio ffeiliau achos cynlluniedig a systematig, archwiliadau / astudiaethau thematig, adolygiadau rheoli ac Archwiliadau Amlasiantaethol yn gwreiddio yn y gwasanaethau, gyda'r canfyddiadau yn cefnogi gwelliannau'n ymarferol.
- Darparu a hwyluso cyfleoedd dysgu'n seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiadau.
- Gwaith sylweddol i wella'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd Rhan 4. Mae mwy o eglurder ar y trothwyon ar gyfer cynnal cyfarfod Rhan 4, gwell sylw i amseroldeb a phenderfyniadau clir.
- Adolygu trefniadau ar gyfer sicrhau bod ceisiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn cael eu hateb yn effeithiol a chynyddu capasiti Lles Gorau. Yn sgil hyn, cafwyd buddsoddiad o £ 172k yn 2018/19 i gefnogi Gwasanaethau Oedolion i fynd i'r afael â hyn.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19**

- Gwella Prosesau Amddiffyn Plant - canolbwyntio ar well gwaith paratoi, cynllunio, gan ddangos bod y trothwyon hynny ar gyfer niwed sylweddol a chofrestru wedi'u bodloni, adrodd ar newid a'i fesur a sicrhau diogelwch / canlyniadau.
- Gwella Prosesau Adolygu Statudol - canolbwyntio ar well gwaith paratoi, craffu ar waith gofal a chefnogaeth i blant yn fwy cadarn, a rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses adolygu.
- Buddsoddi er mwyn cynyddu capasiti'r Asesydd Lles Gorau fel bod y rhestr aros DOLS yn cael ei leihau, ac y cynhelir adolygiadau o adael DOLS yn amserol.
- Gwella cadernid y broses diogelu oedolion, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Ymdrin ag Achosion Unigol o Oedolion mewn Perygl (sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd), pan gaiff ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Byddir yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o gyfnod ymholiadau'r Broses Oedolion mewn Perygl; canolbwyntio ar amseroldeb ymatebion a dwyn asiantaethau eraill i mewn i'r Broses Oedolion mewn Perygl yn well; cofnodi achosion yn well a gwell annibyniaeth i'r broses amddiffyn plant.

**Mesur Safonau Ansawdd 2:**

- 90.48% o ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Ydyw cefnogaeth a sefydlwyd gan y Gwasanaethau Cymde ithasol wedi'ch helpu i deimlo'n ddiogel yn eich cartref?"
- 96% o gynlluniau gofal a chymorth (neu gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc) wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn, o fewn amser y cytunwyd ag o, a hynny o gymharu â 88% y flwyddyn flaenorol.

# Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Mae'r **Cynllun 'Homeshare'** yn galluogi unigolion i gael cefnogaeth yng nghartref gofalwr proffesiynol er mwyn ychwanegu at sgiliau bywyd presennol a sefydlu cysylltiadau gwell yn y gymuned. Mae hyn hefyd yn rhoi seibiant i'r unigolion sy'n gofalu am berson â Dementia.

Mae yna dri Chaffi Dementia yn parhau ar yr Ynys; mae'r rhain yn rhoi lle i bobl fynd os ydynt yn gofalu am berson â Dementia, os ydynt yn poeni am gof rhywun, neu i gwrdd â phobl eraill y mae Dementia'n cael effaith arnynt.

**Oedolion**
Datblygwyd Cynllun Gweithredu a Strategaeth Dementia Ddrafft yn lleol fydd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Dementia Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru 2018-2022. Mae'r Strategaeth Ddementia ddrafft yn cyd-fynd â themâu'r Strategaeth Pobl Hŷn, sef:

- Unigolion annibynnol / cymunedau cryf
- Eich helpu chi i fyw gartref
- Pan nad yw byw gartref yn opsiwn bellach.

Yn gynwysedig yn y Strategaeth mae gwella gwybodaeth gyfredol, mwy o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal a datblygu mwy ar y gwasanaeth Dementia RED (Parch, Empathi ac Urddas) ar draws yr Ynys. Mae trafodaethau hefyd wedi dechrau ar gryfhau'r Tîm Amlddisgyblaethol sy'n gweithio ym maes Dementia gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r **gwasanaeth ymateb mewn argyfwng** ym Mhlas Crigyll ar fin dechrau, a bydd yn rhoi gwasanaeth cymorth y tu allan i oriau i Ofalwyr pobl sydd â Dementia y mae angen cefnogaeth frys arnynt yn ystod y nos.

Mae'r **Prosiect Ochr yn ochr** hefyd wedi bod yn cael ei gynnal, ac mae'r Rhaglen Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr a Sesiynau Galw i Mewn Cefnogaeth gyda Dementia wedi cael eu cynnal ar draws yr Ynys, sy'n rhoi cyfle i bobl y mae Dementia'n cael effaith arnynt siarad â Gweithiwr Cefnogi Dementia.

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o arian ychwanegol a neilltuir ar gyfer Dementia yn y flwyddyn i ddod ac mae'n dechrau cynllunio sut i wneud y defnydd gorau o'r adnodd hwn.

Bellach mae tair **Cynghrair Dementia** wedi'u sefydlu **ar Ynys Môn.** Mae Cynghrair Dementia Biwmares wedi parhau i ddatblygu ac mae cynghreiriau newydd wedi'u sefydlu yng Nghaergybi a Llangefni. Mae gan bob un ohonynt gynllun gweithredu tri phwynt i weithredu Cymunedau Dementia Gyfeillgar yn yr ardaloedd hynny. Caiff y rhain eu cydlynu gan y Cydlynwyr Asedau Lleol. Maent yn cydweithio i ennill cydnabyddiaeth swyddogol gan Gymdeithas Alzheimer a'r gobaith yw y bydd Seiriol yn **Gymuned Dementia Gyfeillgar.** Eu nod yw hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o newidiadau syml a all wneud byd o wahaniaeth i rywun sy'n byw â Dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr, fel bod modd eu cefnogi, eu deall a'u cynnwys.

Mae **Hybiau Cymunedol** yn cynnig ystod o wasanaethau fel y pwynt cyswllt cyntaf a mynediad at gymorth e.e. sesiynau trin traed, dosbarthiadau codymau, grwpiau cerdded a sesiynau Cyngor ar Bopeth ar fudd-daliadau a hawliau. Maent yn ganolbwynt i feithrin mwy o weithgarwch cymunedol, lleol a dod â thrigolion at ei gilydd i wella ansawdd bywyd yn eu hardaloedd a chyfrannu at leihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Ceir Hybiau Cymunedol yng Nghaergybi, Amlwch, Llangefni, Llanfaelog, Llangoed, Llanddona, Biwmares, Bryngwran a Llanfairpwll. Mae rhagor o ddatblygiadau'n cael eu cynllunio i'r dyfodol ar gyfer Niwbwrch. Rydym hefyd yn arbrofi gyda gwaith darparu gofal personol mewn hybiau cymunedol mewn partneriaeth â Menter Môn, sefydliad Trydydd Sector lleol.

Mae Cydlyniad Asedau Lleol yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae rôl y Cydlynydd Asedau Lleol wedi'i sefydlu'n dda yn Ward Seiriol. Mae gwasanaethau Seiriol a sefydlwyd trwy'r rhaglen Cydlyniad Asedau Lleol yn cynnwys Siediau Dynion, cyfleoedd dyddiau dementia yn yr hybiau cymunedol a Chynghrair Dementia (cylch gwaith i ddatblygu cynllun gweithredu i sefydlu Seiriol fel Cymuned Dementia Gyfeillgar). Ariennir y Cydlynwyr Ardal Leol yng Nghaergybi a Llangefni drwy'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ar gyfer unigolion 50 oed a throsodd a'i nod yw datblygu Strategaeth Ataliol yr Awdurdod Lleol trwy sefydlu tair canolfan Heneiddio'n Dda sy'n gweithio ar yr egwyddor o gynhwysiant trwy gyfeirio a gwella mynediad at gymorth prif ffrwd a chyffredinol. Mae'r canolfannau hyn yn parhau i weithredu yn Amlwch, Llangefni a Brynsiencyn.

Cynlluniau Cyflogadwyedd - Mae Ynys Môn yn darparu cymorth i bobl ifanc ac oedolion y mae angen cymorth arnynt i gael gwaith, gan weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos i gael mynediad at grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi'r gwaith hwn:

- Mae'r prosiect TRAC yn cefnogi dysgwyr 11-16 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET (dim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).
- Nod AdTRAC yw lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ac sy'n dod ar draws rhwystrau rhag symud ymlaen i lwybrau cadarnhaol.
- Datblygwyd gweithrediad OPUS yng Ngogledd Cymru i ymgysylltu â'r bobl economaidd anweithgar a'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, y rhai y'u hystyrir y pellaf o'r farchnad lafur ac sydd â rhwystrau lluosog rhag cael cyflogaeth a dod â nhw'n nes at y farchnad lafur. Mae OPUS yn rhoi cefnogaeth ac ymyrraeth fydd yn rhoi'r sgiliau priodol i'r cyfranogwyr gael cyflogaeth gynaliadwy.

Partneriaeth rhwng chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Gyrfa Cymru yw prosiect TRAC. Mae'n cefnogi disgyblion bregus rhwng 11 a 16 oed i barhau a llwyddo mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Hyd yma, mae 329 o bobl ifanc wedi cael eu cyfeirio at y prosiect ar Ynys Môn, mae 13 o gwmnïau'n darparu cyrsiau cwricwlwm uwch ac mae 26 o bobl ifanc wedi llwyddo i sicrhau lleoliadau gwaith rheolaidd. Yn 2017 symudodd 97% o bobl ifanc Blwyddyn 11 ymlaen yn llwyddiannus i Addysg Bellach. Dywed yr holl bobl ifanc y bu gwelliant yn un o'r chwe maes datblygu craidd. Caiff cynlluniau cefnogi pwrpasol eu llunio rhwng y dysgwr, y tîm TRAC, yr ysgol a, lle bo'n berthnasol, Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a CAMHS a'u cydlynu gan Weithwyr Ieuenctid a Gweithwyr Therapiwtig. Targedir cymorth penodol at blant mewn gofal ac mae enghreifftiau rhagorol o becynnau gofal wedi'u haddasu ar gyfer y bobl ifanc hyn.

Trwy **Gronfa Gofal Canolraddol** Llywodraeth Cymru, rydym yn cefnogi pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu i fod mor annibynnol â phosib. Cyflawnir hyn trwy gefnogi pobl i nodi a chyflawni eu hanghenion lles eu hunain a mesur llwyddiant ymyrraeth gan Wasanaethau Plant trwodd i wasanaethau Oedolion:

- **Atal ac ymyrraeth gynnar -** Mae Cynlluniau Cymorth Gweithgar yn fodd i bobl ifanc gefnogi gwaith datblygu sgiliau a chynlluniau cymorth y bydd modd eu cludo trwy'r Cyfnod Pontio i Wasanaethau Oedolion.
- **Llais a rheolaeth -** rydym yn cefnogi unigolion i ddatblygu Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr unigolyn a phenderfynu ar ganlyniadau a ddymunir a throi'r rhain yn gynlluniau dilyniant.
- **Cyd-gynhyrchu -** rydym yn cyd-gynhyrchu cynllun cymorth cludadwy i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth dydd presennol i hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth trwy ddatblygu cynlluniau dilyniant.

### Hyrwyddo Annibyniaeth

Mae **Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol** Ynys Môn wedi'i drawsnewid dros y deunaw mis diwethaf – bu i ni ganolbwyntio ar newid y meysydd yr ystyriai pobl oedd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol eu bod yn broblem iddynt. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol wedi bron â dyblu, o 59 ym mis Medi 2016 i 112 ym mis Mawrth 2018. Ein bwriad yw parhau i gadw mewn cysylltiad â holl ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol cyfredol yn ystod 2018/19 er mwyn canolbwyntio ar wneud rhagor o welliannau lle credir eu bod yn angenrheidiol. Isod mae dolenni i'r storïau sut mae Taliadau Uniongyrchol wedi newid bywydau dau deulu ar yr ynys.

**Stori Dylan -** yn Gymraeg gydag isdeitlau Saesneg:
http://www.anglesey.gov.uk/health-and-care/adult-services/care-in-the-home/direct-payments/see-dylans-story-on-video/

**Stori William-** yn Saesneg gydag isdeitlau Cymraeg:
http://www.anglesey.gov.uk/health-and-care/adult-services/care-in-the-home/direct-payments/see-wiliams-story-on-video/

**Plant a Theuluoedd**

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ymestyn dros ardal dwy sir, Gwynedd a Môn, ac mae'n cynorthwyo plant a phobl ifanc yn y system gyfiawnder neu sydd mewn perygl o fynd i mewn iddo. Am y chweched flwyddyn yn olynol, cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn ganlyniadau cadarnhaol yn y chwe Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Mae cyfraddau a niferoedd y Bobl Ifanc sy'n dod i mewn i'r Gwasanaeth am y tro cyntaf yn parhau i ostwng. Mae'r defnydd a wneir o'r ddalfa'n parhau i fod yn isel (gan adlewyrchu tuedd genedlaethol). Er bod cyfraddau aildroseddu wedi parhau'n gyson uchel yn y blynyddoedd diwethaf, roedd y Tîm Rheoli a'r Bwrdd yn falch o weld cyfraddau ac amlder oedd ychydig yn is o gymharu â gweddill Gogledd Cymru a Chymru. Y cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth yn 2018-19 yw datblygu mwy o ddealltwriaeth o'r hyn y mae angen i ni ei wneud i leihau cyfraddau aildroseddu a gwella'r gwaith darparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wrth wraidd gwaith datblygu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau i blant a phobl ifanc, gyda mwy o gefnogaeth ariannol gan y Bwrdd Cynllunio Ardal. Awn i mewn i 2018-19 yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau plant a theuluoedd wrth greu tîm Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau gwell i'r ardal dwy sir.

Mae **Gwasanaethau Arbenigol Plant** wedi datblygu sesiwn 'galw heibio' reolaidd i'r holl blant, pobl ifanc a theuluoedd / gofalwyr sy'n mynychu Canolfan Addysg Y Bont. Gallai'r sesiynau hyn gynnwys cyngor a chefnogaeth gan Dîm Nyrsio Anableddau Dysgu Cymunedol Plant, sesiynau Teulu Môn / Tîm o amgylch y Teulu / Llwybr Niwroddatblygiadol, gan ddibynnu ar anghenion y plentyn ifanc, y person ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr.

Rydym yn defnyddio grant y Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu'r defnydd a wneir o **Gymorth Gweithredol a Dilyniant.** Mae'r gwaith unigol ar blant a phobl ifanc anabl bellach yn mynd rhagddo yn ein canolfan cefnogi arbenigol ym Mryn Hwfa. Mae'r rheolwr gwasanaethau cefnogi bellach yn creu cynlluniau cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar y gwaith cymdeithasol neu'r asesiad nyrsio, ac yn cysylltu â chynlluniau Cymorth Gweithredol a ddefnyddir gan Ganolfan Addysg Y Bont. Mae'r Gweithwyr Cymorth yn gallu defnyddio'r rhain i greu dewislen o weithgareddau y gellir eu defnyddio i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc.

Nod **Cronfa Rhwydwaith Grwpiau Cymunedol** yw creu gwydnwch yn ein cymunedau, ac mae'n rhan arwyddocaol o'r Strategaeth Atal Plant a Theuluoedd. Bydd y gronfa fach hon yn helpu:

- I gynorthwyo grwpiau cymunedol newydd i gael eu sefydlu ar draws yr ynys.
- Grwpiau cymunedol presennol i gynorthwyo i brosesu grwpiau newydd.
- I ymgysylltu â chymunedau, cynnal digwyddiadau.
- I wella ar gynnwys plant ag anableddau mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol.

Ein nod tymor hir yw sefydlu Hybiau Cymunedol Lles. Pwrpas yr hybiau hyn fydd darparu gwasanaethau'n lleol i deuluoedd, gan ddangos yn glir bod gwasanaethau ataliol o fudd i bawb.

*"Mae'r profiad hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Mae (y gweithiwr cymdeithasol) wedi gwirioneddol fy helpu gyda'm dyfodol yn ogystal â'r presennol. Buaswn yn hapus iawn yn defnyddio'r gwasanaeth hwneto. Diolch yn fawr iawn i chi "*
***- Gwasanaethau Ymyrraeth ac Atal Cynnar, Plant a Theuluoedd***

Mae ein **Strategaeth Chwarae** yn cynorthwyo cymunedau trwy annog gwaith rhiantu cadarnhaol, da trwy chwarae. Nod yr elfen chwarae yw:

- Cynyddu'r cyfleoedd i chwarae o fewn cymunedau.
- Annog gwaith datblygu ardaloedd chwarae i blant a phobl ifanc o fewn cymunedau.
- Annog chwarae cadarnhaol a chymryd risg priodol.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19**

- Gweithredu Strategaeth Dementia Ynys Môn yn llawn a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Dementia lleol, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid y trydydd sector.
- Cynnal adolygiad o wasanaethau dydd mewnol, gan ganolbwyntio ar ddilyniant, dewis cleientiaid a chanlyniadau.
- Gwneud y mwyaf posib o'r cyfleoedd y mae'r prosiectau OPUS yn eu cynnig i gynorthwyo pobl a busnesau.
- Gweithio tuag at barhau i gynyddu nifer y rhai sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol.
- Bod â chytundeb amlasiantaethol fel bod pob gweithiwr proffesiynol yn defnyddio Cymorth Gweithredol. Byddwn yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i'r holl staff perthnasol iddynt ddefnyddio mwy ar Gymorth Gweithredol ym mhob lleoliad ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, gan gynnwys yn y cartref.
- Defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i gyflogi Cydlynydd Anghenion Ychwanegol a Lles. Bydd deilydd y swydd yn gweithio gyda theuluoedd i'w cynorthwyo a'u helpu i wella eu lles.

**Mesur Safonau Ansawdd 4:**

- 85.28% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, "Ydych chi'n teimlo bod y gefnogaeth a gewch gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich helpu i wneud y pethau sy'n bwysig i chi?"



# Safon Ansawdd 5

## Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach

### Oedolion

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Phartneriaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn ac wedi datblygu Strategaeth Gofalwyr ar gyfer Gwynedd a Môn a chytuno arni. Mae gan y bartneriaeth aelodau o Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid y Trydydd Sector sy'n gweithio gyda Gofalwyr.

Mae grŵp lleol, **Grŵp Gofalwyr Ynys Môn** wedi bod yn datblygu Cynllun Gweithredu lleol i sicrhau y gweithredir y Strategaeth yn lleol. Yn canolbwyntio ar:

1. Hyrwyddo cymunedau 'cyfeillgar i ofalwyr'.
2. Gweithredu hawliau gofalwyr o bob oed i gael asesiad o'u hanghenion a datblygu llwybrau cyfeirio effeithiol ac effeithlon.
3. Hyrwyddo gwaith adnabod anghenion cynhalwyr o bob oedran yn gynnar, a sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau cefnogol, amserol a phriodol i wella'u hiechyd a'u lles.

Mae yna ddau Swyddog Gofalwr penodol sy'n gweithio o fewn Gwasanaethau Oedolion ac sy'n gallu cefnogi pob Gofalwr (gofalwyr ifanc ac oedolion) yn ei rôl o ddydd i ddydd, ac a all hefyd ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Ofalwyr. Maent yn asesu anghenion gofalwyr, eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn rhoi cysylltiadau iddynt â sefydliadau statudol a gwirfoddol, megis Cynnal Gofalwyr.

Mae seibiant yn parhau i gael ei roi gartref ac o fewn lleoliadau gofal, yn unol â dewis Gofalwyr unigol. Mae hyn yn eu cefnogi i gael cyfleoedd cymdeithasol yn ogystal â chyfleoedd addysgol. Cynigia seibiant ddilyniant gofal, ac egwylion ystyrlon i sicrhau bod anghenion y gofalwyr a nodir yn y Cynllun Gofal a Chymorth yn cael eu diwallu, a'u cynorthwyo i barhau i weithredu fel Gofalwyr. Mae'r Awdurdod Lleol wedi derbyn cyllid gan Grant Gofal Seibiant Gofalwyr Llywodraeth Cymru, a ddefnyddir i roi opsiynau seibiant gwahanol i Ofalwyr o bob oed.

Rydym yn gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid a rhanddeiliaid i gyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu newidiadau i wasanaethau ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu - yn enwedig felly wasanaethau llety.

TÎM O AMGYLCH Y TEULU
TEAM AROUND THE FAMILY

*"Mae'ch cefnogaeth wedi bod yn help garw. Rydym wedi elwa o'ch cyngor a'ch dealltwriaeth. Rydych wedi bod yn ardderchog. Rydych wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Rydym yn teimlo'n lwcus iawn o fod wedi cael eich help. Diolch."*

**Plant a Theuluoedd**

Mae Tîm o Amgylch y Teulu (a sefydlwyd yn 2012 drwy'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf) yn parhau i roi ymyrraeth gynnar gynhwysfawr i Blant a Phobl Ifanc 0-25 oed, i'w gwarcheidwaid / rhieni, ac i aelodau eraill o'r teulu. Y nod yw gweld eu problemau'n gynnar, gyda'r gobaith ein bod yn gwella'u sefyllfa er gwell er mwyn cyd-weithio i atal problemau rhag datblygu i fod yn rhywbeth mwy difrifol. Rydym wedi cefnogi 1,003 o deuluoedd dros y chwe blynedd diwethaf. Symudodd y Tîm o Amgylch y Teulu i'r Gwasanaethau Plant yn 2017 ac mae bellach yn rhan o'r hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth: Teulu Môn. Mae'r tîm hwn yn parhau i weithio'n agos gydag amrywiol asiantaethau i gyfoethogi, gwella a hyrwyddo ethos y gwasanaeth ymyrraeth gynnar trwy weithio'n amlasiantaethol. Nododd adroddiad arolygu'r Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd yn 2016 bod tystiolaeth sylweddol o waith rhagweithiol gan y Tîm o Amgylch y Teulu gyda phlant a theuluoedd oedd yn cefnogi eu hannibyniaeth ac yn gwella lles. Rydym wedi cynyddu nifer gweithwyr y tîm o ddau Weithiwr Cymorth i chwech; bydd hyn yn cefnogi'n nod o roi mwy o gymorth cynnar wedi'i dargedu i deuluoedd sydd â'r angen mwyaf.

Sefydlwyd y **Tîm Teuluoedd Gwydn** yn ystod y flwyddyn gyda chyllid ychwanegol y cytunodd aelodau etholedig iddo. Mae'r tîm bach o Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd bellach yn gweithio'n ddwys gyda theuluoedd a'r nodau craidd yw:

- atal plant rhag mynd i ofal,
- dychwelyd plant adref yn ystod yr wyth wythnos gyntaf o fynd i ofal a gweithio gyda theuluoedd i ddychwelyd eu plant yn ddiogel,
- adolygu gwaith dychwelyd plant yn ddiogel mewn gofal tymor hir.

Er mwyn gweithio tuag at y nodau craidd hyn a chwrdd â nhw'n gyson, bydd y Tîm yn dod yn grŵp o weithwyr amlddisgyblaethol medrus iawn sy'n ymyrryd â theuluoedd sy'n amlygu lefel uchel o angen.

Mae **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd Gwynedd ac Ynys Môn** yn darparu tîm medrus, amlddisgyblaethol iawn i ymyrryd â theuluoedd sy'n amlygu lefel uchel o angen a risg oherwydd bod y rhieni / gofalwyr yn camddefnyddio sylweddau, a hynny er mwyn lleihau lefel y risg a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant mwyaf bregus. Cyflawnir hyn trwy ganolbwyntio'n barhaus a chanolbwyntio trwy'r system gyfan ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd ac arfer gorau. Mae'r tîm yn cynnwys tri Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol a gweithiwr a fu'n gweithio yn y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn flaenorol.

Nod y Gwasanaeth yw creu newid parhaol o fewn teuluoedd fel bod modd i blant aros yn y cartref os yw'n ddiogel iddynt wneud hynny. Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r Gwasanaeth wedi gweithio gyda theuluoedd sydd wedi gallu dangos newidiadau parhaol yn eu bywydau – newidiadau sydd wedi cadw eu plant yn ddiogel. Ceir teuluoedd hefyd nad ydynt wedi gallu newid eu hymddygiad ac mae cynllun arall wedi'i wneud ar gyfer eu plant. Cyflawnwyd ein nod o weithio gyda 40 o deuluoedd yn ystod 2017/18.

Mae ein **Rhaglen Rhiantu** yn parhau i gefnogi teuluoedd sy'n agored i Wasanaethau Plant, i atal cyfeirio'r angen yn uwch ac i roi tystiolaeth ac asesu sgiliau rhiantu. Mae rhieni'n dysgu sgiliau a thechnegau newydd trwy ddilyn rhaglen 12 wythnos o'r enw'r Blynyddoedd Rhyfeddol. Mae prosiect wedi'i gomisiynu ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a'r Gwasanaethau Plant i dreialu a monitro'r rhaglen rhiantu gyda gofalwyr maeth. Bydd canfyddiadau hyn yn helpu i gynhyrchu dogfen am faterion ymddygiadol plant mewn amgylchedd gofal maeth a nodi sut i ddatrys y materion hyn.

*"Hoffem achub ar y cyfle hwn i fynegi pa mor broffesiynol y bu'r tîm maethu trwy gydol ein profiad maethu, ac ni allwn ddatgan ddigon sut gwnaeth [y gweithiwr cymdeithasol] y profiad cyfan yn haws. Mae hi'n sensitif, yn gefnogol iawn, yn hynod o effeithlon a threfnus, gan bob amser ymdrin ag unrhyw broblemau a gawsom yn syth. Mae hi'n llysgennad ardderchog dros faethu."*

**Blaenoriaethau ar gyfer 2018/19**

- Gweithio gyda phartneriaid, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth i foderneiddio'n gwasanaethau ar gyfer y rhai ag Anableddau Dysgu
- Sicrhau fod teuluoedd gael gwybodaeth a chyngor amserol ac o ansawdd da.
- Sicrhau fod plant a theuluoedd gael ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth sy'n hyrwyddo rhiantu da.
- Gostyngiad yn nifer y plant y mae angen Cynllun Gofal a Chymorth arnynt.
- Cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau mewn Cyfathrebu Cydweithredol.
- Datblygu agwedd gymunedol y strategaeth Atal.
- Cynyddu cyfraddau cyfeirio o Wasanaeth Plant a Theuluoedd Ynys Môn i'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Ymgorffori Gweithiwr OEDI / MYFYRIO, fydd yn gweithio gyda merched sydd wedi gweld plant yn cael eu symud o'u gofal sawl gwaith, neu sydd mewn perygl o hyn yn digwydd iddynt.

**Mesur Safonau Ansawdd 5:**

- 94.50% o ofalwyr sy'n oedolion y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn eu hawl eu hunain
- 90.16% o ofalwyr sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn ystod y 6 mis diwethaf, ydych chi'n teimlo eich bod wedi cymryd cymaint o ran neu wedi ymgynghori cymaint ag yr oeddech chi'n ei ddymuno, mewn trafodaethau ar y gefnogaeth a roddir i'r person yr ydych yn gofalu amdano?"





# Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i sicrhau gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

**Oedolion**

Parhawyd i ddatblygu **Hafan Cefni, Llangefni** yn ystod 2017-18 ac mae disgwyl cwblhau'r adeilad yn ystod haf 2018. Bydd yna 63 o fflatiau, cymysgedd o fflatiau un a dwy ystafell wely, ar gyfer oedolion cymwys dros 60 oed. Caiff 15 o fflatiau eu dylunio a'u haddasu'n benodol ar gyfer pobl hŷn y mae eu cof yn mynd neu sy'n byw gyda dementia. Dyma'r ail gynllun Tai Gofal Ychwanegol ar yr Ynys, ac ychwanegiad pwysig i gyfleuster Gofal Ychwanegol Penucheldre yng Nghaergybi. Mae Swyddog Hafan Cefni wedi'i benodi ac mae'r broses ymgeisio ar gyfer gwneud cais am fflat yn Hafan Cefni wedi agor. Mae Panel Gosod wedi'i sefydlu ac mae fflatiau wedi dechrau cael eu neilltuo. Mae proses dadgomisiynu cartref gofal preswyl Plas Penlan yn Llangefni wedi bod yn ei le wrth i ni baratoi ar gyfer agor Hafan Cefni yn y dref. Mae disgwyl y bydd Plas Penlan yn cau yn ystod yr haf.

Cafwyd cyfnod o  ymgysylltu rhwng Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018 yn ward Seiriol ynglŷn ag opsiynau datblygu cynllun Tai Gofal Ychwanegol ar safle Ysgol Gynradd Biwmares. Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu, cytunodd y Pwyllgor Gwaith gyda'r argymhelliad i adeiladu'r cynllun Tai Gofal Ychwanegol ar safle Ysgol Gynradd Biwmares. Rydym bellach yn disgwyl am ganlyniad ymgynghoriad yr Adran Addysg ar ddyfodol ysgolion ar yr Ynys. Bydd canlyniad y broses honno'n pennu a fydd y Cyfleuster Gofal Ychwanegol yn rhannu'r safle gydag ysgol, ynteu a oes modd adeiladu cyfleuster pwrpasol a mwy ar y safle.

Gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu model gwasanaeth i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia sy'n amlygu cymeriad gynyddol heriol ac anghenion gofal cymhleth. Mae **Garreglwyd** yn lleoliad preswyl gyda llety ac amgylchedd priodol i fodloni safonau gofal dementia. Mae yno staff hyfforddedig arbenigol a chefnogaeth mwy o weithwyr iechyd arbenigol ar ffurf Nyrs Seiciatrig Gymunedol a Nyrsys Ardal sy'n gweithio pedair awr ar hugain y dydd saith niwrnod yr wythnos. Mae'r model gwasanaeth yn fodd i bobl sy'n byw gydag anghenion cymhleth gael gwasanaeth yn eu cymuned eu hunain. Mae hyn yn ymateb yn rhannol i ddiffyg gwelyau Gofal Nyrsio Dementia ar yr Ynys, ac yn lleihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r Sir.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y dylid defnyddio £60m o **Gronfeydd Gofal Canolraddol** i gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth, aros yn eu cartrefi eu hunain ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty neu i ofal preswyl heb fod rhaid. Yn lleol, rydym yn y broses o ddatblygu hyb cymunedol seiliedig ar lety wedi'i anelu at denantiaid sy'n byw mewn llety gwarchod yn Amlwch, gan ddefnyddio arian cyfalaf y Gronfa Gofal Canolraddol i gefnogi'r gwaith.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi asesu pob ardal ar draws yr Ynys i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio gwariant cyfalaf er mwyn gwella cymunedau, gan ei gwneud yn bosib i bobl fod yn fwy gwydn ac annibynnol yn eu hardaloedd, a chynhaliwyd trafodaethau ynglŷn ag anghenion lleol. Ystyriwyd bod Amlwch yn faes a fyddai'n elwa o gyfran o'r Gronfa Gofal Canolraddol, yn benodol felly, stad William Williams VC, gan ymestyn allan i drigolion Madyn Dysw a Chartref Preswyl Brwynog.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn dau gam. Y cam cychwynnol yw datblygu'r cyfleusterau cymunedol, sydd o fewn cyrraedd oddeutu 65 o bobl hŷn bregus yn Amlwch. Bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar wella'r amgylchedd, edrychiad y llety, yn enwedig y rhan gymunedol, a mabwysiadu model hyb cymunedol, gyda mynediad a chylchrediad o gwmpas y cynllun yn rhoi amgylchedd awyr agored sy'n oed gyfeillgar. Bydd Cam 2, a gaiff ei gwblhau o fewn 5 mlynedd fel rhan o waith cynnal a chadw cynlluniedig yr Adran Dai, yn cael ei ariannu'n llwyr o gronfeydd y Cyngor / y Cyfrif Refeniw Tai. Cymeradwyir cyfanswm o £228,000, sydd ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig. Mae ymgysylltu â thenantiaid a chymunedau yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect hwn, gan sicrhau bod yr anghenion yn cael eu diwallu trwy rannu syniadau ac awgrymiadau ar sut i fwrw ymlaen â hyn.

**Gwasanaethau Plant**

Rydym wedi datblygu **Protocol Tai a Gadael Gofal ar y cyd** er mwyn ymyrryd yn gynnar wrth gefnogi person ifanc mewn gofal pan fydd yn symud i annibyniaeth. Mae'r protocol yn ceisio sicrhau bod cyfrifoldeb corfforaethol ar y cyd i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ifanc 16-25 oedran o ran llety, sy'n cwrdd â'r meini prawf fel y'u diffinnir dan Adran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal, heb orfod gwneud cais digartref. Bydd yn sefydlu rolau a chyfrifoldebau ac yn diffinio'r berthynas rhwng y ddau wasanaeth. Dylid nodi nad yw'r naill wasanaeth na'r llall yn annog byw'n annibynnol o 16 mlwydd oed. Byddir yn cefnogi person ifanc sydd â Chynllun Llwybr ac sy'n dangos yn glir y dymuniad a'r gallu i wneud hynny.

Ar unrhyw adeg benodol, bydd gan Gyngor Ynys Môn gyfrifoldebau i Blant a Phobl Ifanc y mae'n ofynnol, trwy statud, iddynt asesu eu hanghenion a darparu gwasanaethau ar gyfer eu lles cyffredinol, gan gynnwys tai. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn gosod dyletswydd ar y Cyngor a'i holl wasanaethau i sicrhau bod Pobl Ifanc yn cyflawni'r Canlyniadau Lles Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys eu cyfrifoldeb Corfforaethol dros bobl ifanc sy'n gadael gofal, fel y nodir yng nghategori 1 i 6 (gweler atodiad 1). Mae'r protocol ar y cyd:

- yn derbyn cyfrifoldeb am blant / bobl ifanc sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol
- yn sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn flaenoriaeth
- yn dymuno bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael yr un canlyniadau ag y byddai unrhyw riant da yn eu dymuno i'w plant

### Gwasanaethau Tai

Rydym wedi datblygu Pwynt Mynediad Sengl Tai (SPoA) sy'n cyfeirio unigolion a theuluoedd bregus at wasanaethau a ariennir gan Gefnogi Pobl, gyda'r bwriad o leihau digartrefedd a gwella'r gefnogaeth i'r aelwydydd mwyaf bregus ar ein hynys.

Mae SPoA newydd tai yn cael ei ariannu gan y rhaglen Cefnogi Pobl, ac mae wedi bod yn weithredol ers mis Hydref 2017. Gall y Llwybr Sengl helpu cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau cymorth tai priodol, gan ddibynnu ar feini prawf. Yn gyffredinol, cynigir cefnogaeth dros ychydig fisoedd, yn dibynnu ar yr angen. Fodd bynnag, gall y gefnogaeth barhau am hyd at ddwy flynedd ar y mwyaf, ac erbyn hynny dylai pobl feddu ar y sgiliau cywir i fyw'n annibynnol a chynnal tenantiaeth.

Mae gan rai darparwyr yr opsiwn o "ddipio" i mewn ac allan o'r gwasanaeth pan fo'r gofyn, ac atal amgylchiadau anodd rhag dod yn argyfwng. Mae'r gwasanaeth yn hyblyg a gellir cael mynediad ato pan fo angen a gall atal sefyllfa rhag mynd yn ddifrifol yn y man pan fo angen amdano.

### Llwybr Iechyd Meddwl i unigolion ag anghenion llety

Mae Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn, Gwasanaethau Oedolion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y broses o ddatblygu Llwybr Iechyd Meddwl i unigolion, gan ganolbwyntio ar ddiwallu eu hanghenion llety. Y nod yw datblygu Llwybr Iechyd Meddwl i unigolion sydd â heriau iechyd meddwl ac a all gael trafferth i gynnal eu heiddo y maent yn ei rentu neu y maent yn berchen arno, a hynny yn ystod cyfnod o argyfwng personol. Gallai hyn fod naill ai trwy gymorth cam i lawr pan fydd unigolion yn gadael Hergest neu unrhyw ward iechyd meddwl arall. Unwaith y bydd y llwybr wedi'i gwblhau, byddwn yn mapio'r cymorth sydd ei angen yn ein cymunedau ar gyfer unigolion ag iechyd meddwl wrth gynnal eu heiddo. Bydd hyn yn gysylltiedig â SPoA Tai. Y nod yw darparu gwasanaeth cofleidiol i unigolion ag anghenion iechyd meddwl a sicrhau bod eu profiad o adael yr ysbyty (cam i lawr) mor gyfforddus â phosib ac yn eu hadfer cymaint â bo modd. Byddwn yn blaenoriaethu:

- Gwasanaeth camu i lawr i unigolion nad oes ganddynt gartref sefydlog fel rhan o'u cynllun gadael ysbyty
- Cefnogaeth tenantiaeth i unigolion â phroblemau iechyd meddwl yn y gymuned er mwyn cynnal eu tenantiaeth
- Ystyried llety brys i unigolion sy'n ddigartref ac sydd â phroblemau iechyd meddwl (nad ydynt o reidrwydd wedi bod yn yr ysbyty) lle na fyddai llety Gwely a Brecwast yn briodol o ystyried eu hanghenion.

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc mewn un ardal ar yr Ynys. Mae hyn, yn ei dro, wedi cael effaith ar ystadegau troseddu pobl ifanc ac ar y gymuned ehangach. Gweithredwyd ar y mater difrifol hwn a chafwyd ymyrraeth iddo wrth i'r Gwasanaethau Plant, Tai, Heddlu Gogledd Cymru a Chyfiawnder Ieuenctid weithredu'n amlasiantaethol. Trwy rannu gwybodaeth a digwyddiadau'n aml a chyflwyno pecyn cymorth pwrpasol i'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc dan sylw, cafwyd gostyngiad cadarnhaol mewn adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc yn yr ardal hon dros y flwyddyn. Mae gwasanaethau wedi'u haddasu i ddiwallu dymuniadau a dyheadau pob person ifanc, gan leihau'r diflastod, gan sicrhau tryloywder gyda'r bobl ifanc o ran yr effaith y caiff eu hymddygiad yn y gymuned a datblygu ymyriadau y mae eu hangen ar y bobl ifanc a'u teuluoedd.

*"Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth dros yr ychydig fisoedd diwethaf ac am yr holl newidiadau yr ydych wedi'u gwneud sydd wedi newid y gofal yr wyf wedi'i gael yn sylfaenol Alla i ddim pwysleisio ddigon pa mor ddiolchgar ydw i i chi am wella ansawdd fy mywyd."*
***Oedolion Tîm y Gogledd, Gwasanaethau Oedolion***

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Oedolion**
Mae dwy stad Cyngor ar yr Ynys wedi arddangos materion arwyddocaol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cael effaith ar ddioddefwyr a throseddwyr, yn ogystal ag ar y gymuned ehangach. Yn aml, nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r unigolyn dan sylw gan nad yw'n derbyn gwasanaethau ein Hadran Gwasanaethau Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr nac unrhyw gorff statudol arall. Dull gweithredu a fabwysiadwyd oedd mynd i'r afael â'r materion yn uniongyrchol gyda'r stadau dan sylw, oedd yn cynnwys troseddwyr a dioddefwyr honedig. Digwyddodd hyn mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a darparwyr y rhaglen Cefnogi Pobl. Dros y 12 mis diwethaf, roedd oddeutu 400 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol tenantiaid. Trwy weithredu'n ataliol ac ymyrryd yn gynnar, rydym yn ceisio lleihau'r niferoedd hyn a dylai hyn, yn ei dro, wella lles y gymuned.

**Blaenoriaethau 2018/19**
- Parhau i weithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i gynnig cyfleoedd i'r rheiny ag Anableddau Dysgu chwarae rhan weithgar yn y gymuned a chyflawni eu nodau personol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tai a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu'r Llwybr Tai Iechyd Meddwl
- Parhau i hyrwyddo'r Grwpiau Lles Cymunedol trwy gyfeiriadau gofal sylfaenol ac eilaidd i hyrwyddo lles ac adferiad yn y gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**Mesur Safonau Ansawdd 6:**
- Atebodd 95.33% ie i "Yn ystod eich asesiad, ailasesiad neu adolygiad, oeddech chi'n gallu trafod eich problemau yn eich dewis iaith?"
- 98.76% o gleientiaid sy'n oedolion ac sy'n gofyn am wasanaeth yn Gymraeg sy'n mynd ymlaen i dderbyn eu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg



# Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Ein staff yw ein hased mwyaf, a chredwn fod angen eu cefnogi trwy gynnig cyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus cryf, hyfforddiant a datblygu eu gyrfa. Mae'r Uned Datblygu'r Gweithlu yn parhau i drefnu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r bartneriaeth gofal cymdeithasol ehangach ar Ynys Môn, gan gynnwys staff a rheolwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau Gofal Preswyl.

Ym mis Hydref 2017 gweithredwyd y strwythur newydd ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i fodloni anghenion y busnes yn llawn a rhoi gwell cefnogaeth. Rydym wedi ailstrwythuro'r Gwasanaeth fel bod Gweithwyr Cymdeithasol mewn Grwpiau Ymarfer bychan. Fel hyn, mae modd i'r Arweinydd Ymarfer ddod i adnabod yr achosion a gefnogir gan eu Gweithwyr Cymdeithasol yn dda, rhoi arweiniad clir a Goruchwyliaeth reolaidd. Rydym wedi recriwtio nifer sylweddol o Weithwyr Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag ehangu nifer y Swyddogion Ymgysylltu. Cafodd cynllun hyfforddi a datblygu'r gwasanaeth ei lywio ar gyfer y flwyddyn gan strwythur gwasanaeth newydd y defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â chan gynllun gwella'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen ymsefydlu Arweinwyr Ymarfer ac elfennau allweddol megis Goruchwylio yn Canolbwyntio ar Ganlyniad. Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio hefyd i recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol i'r gwasanaeth.

Parhau bu hanes gwaith ymgorffori egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Canolbwyntiodd yr hyfforddiant ar ddulliau sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gynnwys Sgwrsio Cydweithredol, Cyfweld Ysgogol ac Ymarfer Byr yn Canolbwyntio ar Atebion. Darparwyd hyfforddiant arbenigol hefyd ar y Model Risg, Masnachu Plant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae datblygiadau mewn Gwasanaethau Oedolion wedi parhau i ganolbwyntio ar gefnogi a galluogi unigolion annibynnol a chymunedau cryf. Mae hyfforddiant dementia wedi cynnwys amryw o sesiynau ar elfennau megis gweithgareddau hamdden, deall ymddygiad a chynllunio gofal i gryfhau gwybodaeth a sgiliau rheolwyr, gweithwyr rheng flaen a gofalwyr ar draws y sector. Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i gydlynu Cynhadledd lwyddiannus Dementia Gogledd Cymru a roes gyfle gwerthfawr i drafod ymchwil cyfredol a phrofiadau byw a myfyrio arnynt.

Un o brif flaenoriaethau eleni oedd sicrhau bod gennym weithlu sydd â sgiliau a chymwysterau addas i gwrdd â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Bu nifer o sesiynau ymwybyddiaeth yn ogystal â hyfforddiant mwy penodol ar gyfer Unigolion Cyfrifol. Mae Canolfan Anterth yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y gweithlu'n cadw lefel y cymwysterau angenrheidiol ac a argymhellir ar gyfer eu rôl. Cefnogwyd unigolion i gwblhau Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Diploma Lefel 2, 3 a 5, Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Dyfarniad Lefel 2 a 3 Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Dementia a Dyfarniad Lefel 2 Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Gofal Diwedd Oes.

Mae'r cyfleoedd cymhwyso ac ôl-gymhwyso a gynigiwn yn rhan bwysig o recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol yn y sector. Drwy ein partneriaeth â Phrifysgol Bangor sydd wedi hen ennill ei phlwyf, bu i ni gefnogi'r amrywiaeth cyfleoedd dysgu arferol ar gyfer ein myfyrwyr M.A. Gwaith Cymdeithasol yn y sector statudol a'r trydydd sector. Rydym hefyd wedi rhoi cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr sy'n astudio B.A. mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Agored Cymru. Bu i ni recriwtio dau Fyfyriwr Gwaith Cymdeithasol dan hyfforddiant sy'n gweithio o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae un ar hyn o bryd yn astudio tuag at B.A. mewn Gwaith Cymdeithasol trwy Brifysgol Agored Cymru ac mae'r llall yn astudio tuag at M.A. ym Mhrifysgol Bangor.

Ar ben hynny, rydym wedi parhau i gefnogi ymarferwyr sydd newydd gymhwyso trwy eu tair blynedd gyntaf yn ymarfer – gwaith sy'n cynnwys y Rhaglen Cydgrynhoi, Porth Agored. Rydym hefyd wedi cefnogi gweithwyr cymdeithasol profiadol trwy gymwysterau ôl-gymhwyso amrywiol, gan gynnwys Gwobr Addysgu Ymarfer, Rhaglen Uwch-ymarferydd, Rhaglen Datblygu'r Rheolwr Tîm a Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cydnabyddedig.

Mae tri o'n Huwch-reolwyr wedi cwblhau'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol yn llwyddiannus.

Enwebodd yr adran bedwar aelod o staff o'r Gwasanaethau Plant i fod yn llysgenhadon ar gyfer y Rhaglen Llysgennad Gofal. Mae'r llysgenhadon gofal yn gweithio gydag ystod eang o bobl, yn ogystal â myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau sy'n dymuno ystyried gweithio mewn gofal cymdeithasol; blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Rhoesom hefyd gyfleoedd i ymarferwyr oedd heb gymhwyso ac sy'n cynnal asesiadau i ymgymryd â Gwobr Ymarferydd y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn unol â'n Fframwaith Hyfforddi Diogelu Corfforaethol, cydlynwyd hyfforddiant Diogelu Sylfaenol a Chyffredinol gennym ar draws y sefydliad, hyfforddiant a gyflwynir fel rhaglen dreigl. Darparwyd hyfforddiant arbenigol hefyd, megis Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, Masnachu Plant a Hunanesgeulustod. Yn unol ag agenda Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod wedi sicrhau bod hyfforddiant e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lefel 1 yn cael ei roi i gynyddu ymwybyddiaeth staff. Bydd rhagor o fodiwlau e-ddysgu mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Atal yn cael eu cyflwyno yn ystod y misoedd nesaf.

Gan edrych ymlaen, rydym yn rhagweld rhagor o weithio'n rhanbarthol, gan gynnwys meysydd megis Hyfforddiant Ymchwilio ar y Cyd, Fframwaith Maethu Cenedlaethol, Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol, Rhaglen hyfforddiant rhanbarthol Gofal Iechyd Parhaus a'r Fframwaith Dysgu a Datblygu ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ymateb i newidiadau dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, megis cofrestru, cymwysterau a gwreiddio'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

# Ein Hadnoddau Ariannol a sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor dan bwysau ariannol parhaus a hirfaith; mae'r cyllid a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng o £101m yn 2013/14 i £95.8m yn 2018/19. Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, mae'r Cyngor wedi gwneud dros £18m o doriadau i'r gyllideb dros yr un cyfnod, gan ddod â'r gyllideb net i lawr o £129.3m yn 2013/14 i £125.6m yn 2018/19 (mae hyn ar ôl caniatáu dyfarniadau cyflog, chwyddiant a chynnydd mewn prisiau eraill).

Roedd sefyllfa diwedd y flwyddyn yn dangos gorwariant o £1,992k yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18. Roedd y Gwasanaethau Plant wedi gorwario £1,778k, yn bennaf oherwydd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, a honno'n nifer nad oedd wedi'i gweld o'r blaen. Rhoddwyd cyllid ychwanegol o £582k i'r Gwasanaeth ar gyfer 2016/17 i 2018/19 i sefydlu tîm Ymyl Gofal gyda'r bwriad o leihau nifer y Plant sydd mewn Gofal. Gorwariodd Gwasanaethau Oedolion £215k yn 2017/18, yn bennaf oherwydd pwysau ffioedd a newidiadau deddfwriaethol. Mae cyllid ychwanegol wedi'i roi i'r Gwasanaeth Plant i gwrdd â'r pwysau hwn.
Serch hynny, mae'r ddau Wasanaeth yn cydnabod y llymder sydd ohoni ac yn parhau i drawsnewid gwasanaethau a rheoli'r galw, gyda Gwasanaethau Oedolion yn cyfrannu at £559k o arbedion yn 2017/18, gyda chytundeb wedi'i roi am ragor o arbedion, sef, £350k, ar gyfer 2018/19. Mae'r Gwasanaethau Plant yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn lleol i blant sy'n derbyn gofal.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod a chynllunio cyllideb effeithiol a reolir yn dda, ac mae aelodau etholedig yn cymryd rhan lawn yn y rhaglen gynllunio gylchol a chraffu ar osod a monitro cyllidebau.

Mae gwaith amcangyfrif newidiadau yn y dyfodol yn heriol, oherwydd nad oes gwybodaeth gywir am aneddiadau llywodraeth leol yn y dyfodol ond mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld y gallai fod angen gwneud hyd at £5.25m o doriadau ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf o 2019/20 i 2021/22.

Yn y tabl isod amlinellir cyfrifon ariannol ein Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/18:

| | Cyllideb £ | Gwirioneddol £ | Gwahaniaeth £ |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT** | 8,291,420 | 10,069,077 | 1,777,657 |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 6,142,940 | 5,940,211 | -202,729 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 1,562,890 | 1,786,149 | 223,259 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 5,378,650 | 5,859,647 | 480,997 |
| IECHYD MEDDWL | 1,884,450 | 1,993,671 | 109,221 |
| GWASANAETHAU CEFNOGI | 1,306,110 | 1,133,565 | -172,545 |
| **UNED DARPARU** (GOFAL MÔN / GWASANAETHAU ERAILL) | 6,128,480 | 5,904,137 | -224,343 |
| GWASANAETHAU ERAILL | 65,480 | 58,374 | -7,106 |
| **CYFANSWM** | **30,760,420** | **32,744,831** | **1,984,411** |

# Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, ein Llywodraethiant a'n Hatebolrwydd

Mae llywodraethiant gwleidyddol yn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn. Mae hyn wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant ac wedi mesur gwaith craffu cynnydd.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau allweddol ac ar y Pwyllgor mae'r Arweinydd ac wyth Aelod Portffolio, Ers etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2017 mae'r Arweinydd wedi cymryd y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol. Dangosir effeithiolrwydd cynyddol y Pwyllgor wrth iddo wneud penderfyniadau anodd megis Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn (er enghraifft, mae gwaith adeiladu Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni bron â'i gwblhau - Hafan Cefni). Wedi edrych ar safleoedd, penderfynwyd codi adeilad Gofal Ychwanegol arall yn ward Seiriol a neilltuo adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant

### Gweithio mewn Partneriaeth

Sefydlwyd Panel newydd o Aelodau Etholedig ar ôl etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant. Daw'r aelodaeth o bob rhan o'r grwpiau gwleidyddol, ac mae wedi rhoi cyfle i'r Aelodau wella eu gwybodaeth am y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth a'u dealltwriaeth ohono, gan arwain at graffu'n well.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cydnabuwyd hyn fel cryfder mewn adroddiadau arolygu allanol i ni adeiladu arnynt. Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn parhau i fod yn rhan weithredol o agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu trwy gydweithredu.

Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle trwy Gydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Mae gan y Gydweithredfa raglen gynhwysfawr o welliant yn ei lle trwy gydweithio, gan ganolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gellir gweld tystiolaeth bellach o'r ethos partneriaeth hwn trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy'r Bwrdd Cyflenwi Integredig. Cyfarfu'r Bwrdd Cyflenwi Integredig bob dau fis yn ystod 2017-18 gyda swyddogion strategol allweddol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trydydd sector yn bresennol. Pwrpas y Bwrdd Cyflenwi Integredig yw sicrhau y bydd anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn cael eu gwasanaethu'n well wrth i wasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol gael eu hintegreiddio'n well. Model Môn yw cangen weithredol y Bwrdd Cyflenwi Integredig, gyda chyfrifoldeb dros gyflwyno'r Rhaglen Waith fanwl.

.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedir yn benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn a phobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi'i gwario ar ddatblygu Garreglwyd fel cartref arbenigol sy'n cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda dementia a gwasanaethau Gofal Uwch Môn a Thylluanod y Nos o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae bwrdd partneriaeth ar y cyd i Wynedd a Môn wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys prif sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan i 14 ardal lai (chwe ardal i Ynys Môn). Cynhaliwyd ymchwil ar ran y Bwrdd ar bob un o'r meysydd i ddysgu a deall mwy am eu lles. Cynhaliwyd nifer o sesiynau galw heibio cyhoeddus ac roedd holiadur ar-lein er mwyn i drigolion gael dweud eu dweud am eu cymunedau. Canlyniad yr ymchwil oedd yr Asesiad Llesiant ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Defnyddiwyd yr asesiad hwn gan bartneriaid y Bwrdd i ddrafftio'r cynllun Llesiant i'w fabwysiadu yn ystod 2018/19.

Rydym yn parhau i ymgynghori'n agos â'r Trydydd Sector a gweithio mewn partneriaeth agos â nhw trwy'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol sy'n cwrdd bob chwarter. Rydym yn cydnabod rôl y Trydydd Sector yn lleol fel partner strategol ac rydym wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi hyn, er enghraifft, rôl Medrwn Môn ar grŵp gweithredol Model Môn, Bwrdd OPUS (prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd) a'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion. Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu grŵp partneriaeth y trydydd sector sy'n gyfrifol am gyflawni amcanion y Cyngor a sicrhau y cydymffurfir â thechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid.

**Perfformiad**

Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ymgorffori fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mabwysiadwyd y fframwaith hwn i sicrhau bod y meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor, ac y gallai gwaith ei fonitro adnabod materion cyn y byddir yn tanberfformio - rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion.

Mae'r arfer hwn wedi gweld gwelliannau mewn nifer o ddangosyddion gwasanaethau cymdeithasol, gyda llwyddiant arbennig yn cael ei weld ym mherfformiad dangosyddion gofal a ddarperir i Oedolion. Gwellodd Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant yn ail hanner 2017-18, er i danberfformio yn ystod y chwe mis cyntaf gael effaith ar y canlyniadau cronnol ar gyfer y flwyddyn. Bydd gwelliannau mewn perfformiad a chysondeb ymarfer yn flaenoriaethau ar gyfer 2018-19.

Y Panel o Aelodau Etholedig fydd yn goruchwylio'r cynnydd a geir yn gweithredu Cynllun Gwella'r Gwasanaeth Plant (caiff hyn ei weithredu'n gyflym gyda chynnydd sylweddol yn erbyn 16 o'r 21 cam gweithredu. Bydd cwblhau'r gwaith ar y pum cam gweithredu arall yn flaenoriaeth ar gyfer 2018-19).


Glue stick



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Cysylltwch a ni ar:**
Ffôn: 01248 751887
Ebost: EmmaEdwards@ynysmon.gov.uk

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **25 Medi 2018** |
| **Pwnc:** | **Cymeradwyo Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2018-2028) newydd a pholisïau hawliau tramwy diwygiedig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Bob Parry** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Huw Percy** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Arwel Evans<br>2367<br>ageht@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2018 – 2018) newydd a pholisïau hawliau tramwy diwygiedig.

**Cefndir**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Ionawr 2017 yn nodi fod Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) cyntaf yr awdurdod wedi'i gyhoeddi ym mis Awst 2009 ar gyfer y cyfnod 2008 i 2018. Wedi hynny, mae gofyn statudol i adolygu'r cynllun a chreu cynllun newydd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu proses adolygu'r cynllun gwella, amserlen a threfniadau ymgynghori.

**Ymgynghoriad Cychwynnol a Chyfranogiad y Cyhoedd**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ar adolygiad y CGHT rhwng diwedd mis Mawrth a diwedd mis Mai 2017, gyda'r nod o hysbysu pobl am y broses a gwahodd cyfraniadau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymgyngoreion statudol a nodir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac ymgyngoreion eraill:

- Cynghorau Tref a Chymuned
- Pwyllgor Ymgynghorol ar y Cyd AHNE Ynys Môn
- Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn
- Aelodau Lleol
- British Horse Society
- Open Spaces Society
- Cymdeithas y Cerddwyr
- The Byways and Bridleways Trust
- NFU
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Country Land and Business Association
- Sustrans

- Cycling UK
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Taran
- Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
- Y cyhoedd (ymgynghoriadau ar wefan CSYM)

Derbyniwyd adborth yn bennaf drwy gyfrwng tri holiadur ar-lein (holiaduron ar gyfer y cyhoedd, tirfeddianwyr a Chynghorau Tref a Chymuned), a derbyniwyd sylwadau ychwanegol ar e-bost ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr adborth hwn yn ein cynorthwyo i ddatblygu CGHT newydd.

**Ymgynghori ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft**
Cyhoeddwyd y CGHT drafft ym mis Mai 2018. Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy gyfrwng gwefan y Cyngor Sir, y cyfryngau cymdeithasol a gohebiaeth drwy e-bost/llythyrau gyda chyrff y cysylltwyd â nhw yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Clustnodwyd 12 wythnos ar gyfer derbyn sylwadau, yn unol â chanllawiau Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Llywodraeth Cymru.

Ymateb braidd yn siomedig a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn a derbyniwyd adborth gwerthfawr gan y Fforwm Mynediad Lleol, grwpiau defnyddwyr llwybrau ac adrannau eraill y Cyngor. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adborth hwn ac argymhellir ychydig o newidiadau i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft, gyda'r newidiadau hynny wedi eu hamlygu yn y ddogfen (**Atodiad 1**).

Ar y cyd ag adolygu'r CGHT mae'r Cyngor Sir wedi adolygu a diweddaru ei bolisïau ar gyfer rheoli hawliau tramwy (**Atodiad 2**)**.**

**Gweithredu**
Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd a pholisïau rheoli hawliau tramwy cysylltiedig.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ofyn statudol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Penderfyniad polisi.

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gyflwyno i'r Cyngor Sir. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018 – 2028<br>Atodiad 2 – Polisïau Rheoli Hawliau Tramwy 2018 |

| |
|---|
| |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2
# (2018-2028)

## *Drafft Ymgynghorol Mai 2018*






**Cynnwys:**


**1. Cyflwyno'r ddogfen hon**

**1.1** Cyflwyno CGHT 2 a Phrif Nodau ac Amcanion y Cynllun

**1.2** CGHT 2 Pwrpas a Chwmpas

**1.2.1** Yr Asesiadau
**1.2.2** Y Datganiad Gweithredu
**1.2.3** Y Cynllun Cyflawni
**1.2.4** Y Fforwm Mynediad Lleol
**1.2.5** Asesiad Amgylcheddol Strategol

**2. Cyd-destun Ynys Môn**

**2.1** Cyflwyno Ynys Môn
**2.2** Cyflwyniad i'r HTC a mynediad ehangach yn Ynys Môn
**2.3** Strategaethau/Cynlluniau, Statudau a Chyfarwyddyd sy'n cael effaith ar gyflawni'r CGHT

**3. Asesu'r ddarpariaeth, yr angen a'r gwaith rheoli cyfredol**

**3.1** Gwerthuso gwaith cyflawni CGHT blaenorol

**3.2** Asesu hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad cyhoeddus ehangach yn Ynys Môn

**3.2.1** Asesu'r sefyllfa gyfredol o ran cyflwr, hygyrchedd a rhwyddineb defnyddio rhwydwaith HTC Ynys Môn:
**3.2.2** Map a Datganiad Swyddogol Ynys Môn
**3.2.3** Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus
**3.2.4** Gwaith Cyfredol yr Uned HT – Cynnal a Chadw, Gorfodi and Gwella

**3.2.4.1** Cynnal a Chadw/ Gwella
**3.2.4.2** Gwella
**3.2.4.3** Gweithio gyda Gwirfoddolwyr

**3.2.5** Llwybrau a Hyrwyddir
**3.2.6** Tir Mynediad
**3.2.7** Llwybrau caniataol / consesiynol
**3.2.8** Ffyrdd Diddosbarth
**3.2.9** Amcanion Cludiant Cynaliadwy

**3.3** Asesu Anghenion Defnyddwyr

**3.3.1** Ymgynghori â'r Cyhoedd: Holiaduron ac Adborth
**3.3.2** Anabledd a Mynediad i Bawb
**3.3.3** Gwella Iechyd a Lles
**3.3.4** Rhoi Sylw i Brinder Llwybrau Ceffyl yn Ynys Môn
**3.3.5** Cyfleu Gwybodaeth am yr HTC a mynediad

4**. Datganiad Gweithredu**

**4.1** Trosolwg
**4.2** Datganiad Gweithredu
**4.3** Trefniadau ar gyfer Cynlluniau Cyflawni

**Atodiad 1:** Rhestr o bobl yr ymgynghorwyd â nhw
**Atodiad 2**: Gwerthuso Gwaith Cyflawni CGHT blaenorol a gwariant grant CGHT
**Atodiad 3:** Cynllun Cyflawni ar gyfer 2018/19 -2021/22

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| CCaTh | Cynghorau Cymuned a Thref |
| CGHT | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy |
| DA(C) 2016 | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| DBGChG 1981 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| DC 2010 | Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| DCG 1968 | Deddf Cefn Gwlad 1968 |
| DCGTh 1990 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| DCP 1957 | Deddf Cynghorau Plwyf 1957 |
| Deddf CGHT 2000 | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| DLlCD(C) 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| DP 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| DPCMCG 1949 | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad 1949 |
| DRhTFf 1984 | Deddf Rheoliad Traffig Ffyrdd 1984 |
| DTLl(C) 2013 | Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 |
| GAMS | Gorchymyn Addasu Mapiau Swyddogol |
| HTC | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |
| MaDS | Map a Datganiad Swyddol |

# 1. Cyflwyno'r Ddogfen Hon

## 1.1 Cyflwyno CGHT 2: Y Prif Nodau ac Amcanion

Cyhoeddwyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf Ynys Môn gan Gyngor Sir Ynys Môn yn 2008. Gofyn statudol oedd y CGHT dan Adran 60 (1) Deddf CGHT 2000. Prif bwrpas y CGHT oedd mabwysiadu agwedd strategol ar reoli a gwella rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus (HTC) Ynys Môn. Asesai'r CGHT cychwynnol i ba raddau:

- Roedd rhwydwaith HTC Ynys Môn yn cwrdd ag anghenion tebygol y cyhoedd - heddiw ac yn y dyfodol,
- Y cyfleoedd mae'r rhwydwaith mynediad yn darparu ar gyfer gweithgareddau awyr agored,
- Y mae'r rhwydwaith yn hygyrch i bobl anabl gan gynnwys unigolion sy'n ddall neu'n rhannol ddall neu sydd ag anawsterau symudedd.

Yn 2018, mae CGHT cychwynnol Ynys Môn yn dod i ddiwedd ei oes 10 mlynedd ac, o'r herwydd, cynhaliwyd asesiad ac adolygiad statudol arno. Mae ail Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Ynys Môn (CGHT 2) wedi'i gynhyrchu er mwyn cwrdd â'r gofyn statudol hwn. Bydd CGHT 2 yn parhau am 10 mlynedd, hyd at 2028.

Mae prif nodau ac amcanion CGHT 2 yn cyd-fynd â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf, sydd â'r nod o gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliannau i rwydwaith HTC Ynys Môn ac adeiladu ar y sylfaen a'r cynnydd a gyflawnwyd gan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf. Nod CGHT 2 yw nodi, blaenoriaethu a chynllunio'n strategol ar gyfer gwelliannau i rwydwaith HTC Ynys Môn, er mwyn creu rhwydwaith hawliau tramwy gwell, mwy cynhwysol ac integredig. Yn ogystal, mae CGHT 2 yn anelu at gwrdd â nodau Llywodraeth Cymru o roi gwell darpariaeth i bob math o ddefnyddwyr, gan gynnwys: cerddwyr, beicwyr, marchogion a phobl anabl gan gynnwys unigolion sy'n ddall neu'n rhannol ddall neu sydd ag anawsterau symudedd. At hyn, bydd CGHT 2 yn amlinellu strategaethau, nodau ac amcanion ar gyfer rheoli a gwella'r rhwydwaith HTC yn gyfannol er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach i Ynys Môn a'i phobl.

## 1.2 Pwrpas a Chwmpas CGHT 2

Mae CGHT 2 yn cynnwys **tair** elfen statudol:

- Yr **Asesiad**: yn amlinellu digonolrwydd a gallu rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus Ynys Môn i gyflawni ystod eang o nodau ac amcanion.
- Y **Datganiad Gweithredu**: yn amlinellu strategaethau, nodau ac amcanion ar gyfer rheoli a gwella'r rhwydwaith HTC i roi sylw i'r gofynion a'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad.
- Y **Cynllun Cyflawni**: gweler 1.2.3

### 1.2.1 Yr Asesiad:

Mae Canllawiau CGHT Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid cynnal yr asesiadau hyn:

- Y graddau y mae rhwydwaith HTC Ynys Môn yn diwallu anghenion y cyhoedd - heddiw ac yn y dyfodol.

- Y cyfleoedd a ddarperir gan y rhwydwaith HTC lleol i'r cyhoedd gael mwynhau eu hunain, i gael ymarfer corff a ffurfiau eraill o weithgareddau awyr agored (gyda phwyslais ar ddarparu llwybrau troed, llwybrau seiclo, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig).
- Hygyrchedd rhwydwaith HTC Ynys Môn i unigolion sy'n ddall neu'n rhannol ddall neu sydd ag anawsterau symudedd.
- Gwerthuso'r graddau y cyflwynwyd y CGHT blaenorol.
- Gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith a'i gofnodi.
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Teithio Llesol.
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Lles.
- Cyfleoedd i gyfrannu at gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau eraill.

1.2.2 <u>Y Datganiad Gweithredu</u>

Mae'r Datganiad Gweithredu yn rhan annatod o CGHT 2 a hwn yw ei asgwrn cefn. Mae Datganiadau Gweithredu'n nodau ac amcanion penodol i nodi, blaenoriaethu a chynllunio'n strategol ar gyfer gwelliannau i rwydwaith HTC Ynys Môn er mwyn:

- Rheoli'r rhwydwaith HTC yn effeithiol.
- Sicrhau rhwydwaith HTC gwell a mwy cynhwysol.

1.2.3 <u>Y Cynllun Cyflawni</u>

Rhaid i CGHT diwygiedig, yn wahanol i'r gwreiddiol, gynnwys Cynllun Cyflawni fel atodiad i'r brif ddogfen. Rhaid adolygu Cynlluniau Cyflawni nawr ac yn y man yn ystod oes CGHT a rhaid bod iddynt dair rhan:

1. Gwerthusiad o gynnydd wrth gyflwyno'r CGHT a chynlluniau gweithredu blaenorol.
2. Adolygiad o bolisïau ar gyfer rheoli HTC.
3. Cynlluniau gwaith SMART yn nodi ac yn gosod y tasgau y mae eu hangen i gyflawni prif nodau'r Datganiad Gweithredu er mwyn rheoli a gwella'r rhwydwaith yn well dros y cyfnod cyflawni.

1.2.4 <u>Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn</u>

Corff ymgynghorol yw Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn (FFMLL) a sefydlwyd yn 2002 dan Adran 94 Deddf HTC 2000. Grwpiau annibynnol o wirfoddolwyr yw'r Fforwm Mynediad sy'n cynnwys tirfeddianwyr, ffermwyr, perchnogion busnesau lleol ac aelodau o sefydliadau perthnasol (e.e. Cerddwyr Ynys Môn, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru.)

Cyrff statudol yw Fforymau Mynediad sy'n cynghori a helpu Cynghorau ynghylch rheoli a gwella mynediad cyhoeddus i'r rhwydwaith HTC ac i dir, at ddibenion gweithgareddau awyr agored a mwynhau. Mae eu rôl yn strategol yn bennaf a'i fwriad yw cael consensws barn gan ystyried anghenion rheolwyr tir a defnyddwyr mynediad, goblygiadau statudol a

ffactorau amgylcheddol ac economaidd ehangach er mwyn dylanwadu ar gynlluniau, polisïau a gwneud penderfyniadau ehangach a'u datblygu.

Mae'r FFMLL wedi chwarae rhan allweddol wrth roi cefnogaeth a chynghori ar ddatblygu CGHT 2 a bydd yn parhau i gynorthwyo yn ystod cyfnod ei weithredu (2018-2028).

1.2.5 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol Ewrop (SEA) EC 2001/42 / EC yn ei gwneud yn ofynnol i bob strategaeth newydd gael ei hasesu am ei heffaith amgylcheddol. Mae'r cynllun hwn wedi cynnal proses arfarnu a'r teimlad oedd nad oedd y CGHT yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ac ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr ac, mewn gwirionedd, bod ganddo lawer o effeithiau buddiol. O'r herwydd, ni ystyriwyd bod y Gyfarwyddeb yn angenrheidiol ar gyfer y cynllun hwn.

# 2. Cyd-destun Ynys Môn

## 2.1 Cyflwyno Ynys Môn

Mae Ynys Môn yn ardal o ychydig dros 700 km ac mae ei arfordir amrywiol yn ymestyn am 125 milltir. Mae ganddi boblogaeth o bron i 70,000 o bobl ac, fel llawer o rannau eraill o Gymru, mae ganddi boblogaeth sy'n heneiddio. Mae Ynys Môn yn dal i fod yn gadarnle'r Gymraeg a diwylliant, gan fod dros hanner o boblogaeth yr ynys, 57.2%, yn gallu siarad Cymraeg. Ar wahân i ychydig aneddiadau mwy megis Caergybi, Llangefni ac Amlwch, mae poblogaeth Ynys Mōn yn wasgaredig, gyda'r rhan fwyaf o'r ynys yn wledig, yn cynnwys, yn bennaf, drefi a phentrefi llai, gyda mannau helaeth o dir amaethyddol.

Mae Ynys Môn yn enwog am ei harddwch naturiol, tirweddau deniadol ac amrywiol. Mae cyfanswm o **221 km sgwâr** o dir Ynys Môn (1/3 o'r ynys) wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Dynodiad arfordirol yn bennaf yw AHNE Ynys Môn (yn ymestyn dros 95% o'r arfordir), gyda milltiroedd o draethau tywodlyd, twyni tywod, clogwyni, cildraethau creigiog, rhostir arfordirol a morfeydd heli. O fewn yr AHNE mae yna lawer o gynefinoedd prin a phwysig i rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae Ynys Môn hefyd yn arwyddocaol am ei flora, ei ffawna, ei daeareg a'i harcheoleg. Mae nifer o leoliadau o arwyddocâd ar yr ynys sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl), a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC). O ganlyniad, mae Ynys Môn yn gyrchfan twristiaid poblogaidd iawn, sy'n denu dros filiwn o ymwelwyr bob blwyddyn yn gyson ac yn dod â manteision sylweddol i'r economi lleol.

Ymhlith y mathau mwyaf poblogaidd o weithgareddau hamdden awyr agored a gynhelir ar Ynys Môn gan drigolion ac ymwelwyr mae: cerdded, seiclo, hwylio, pysgota, gwylio adar / natur a hwylfyrddio.

Yn 2006 agorwyd Llwybr Arfordir poblogaidd Ynys Môn, (sy'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru a agorwyd yn 2012) sy'n amgylchynu 130 milltir o arfordir cyfan Ynys Môn ac mae bron yn gyfan gwbl o fewn yr AHNE. Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn darparu'n bennaf ar gyfer cerddwyr, ond mae rhai rhannau'n hygyrch i fathau eraill o ddefnyddwyr. Mae llwybr yr arfordir yn cysylltu â thros 20 o drefi a phentrefi arfordirol, sy'n galluogi mynediad at

drafnidiaeth gyhoeddus, llety, siopau, tafarndai a chyfleusterau eraill. Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn parhau i fod yn ased hynod o bwysig i economi Ynys Môn.

Mae gan Ynys Môn rwydwaith dwys o HTC sy'n cynnwys Llwybrau Troed, Llwybrau Ceffylau, Llwybrau Seiclo, Cilffyrdd Cyfyngedig a Chilffyrdd sy'n Agored i Unrhyw Draffig (CAUD). Mae nifer o lwybrau hyrwyddol ar draws Ynys Môn sy'n cynnwys llwybrau mewndirol ac arfordirol.

Mae rhwydwaith HTC Ynys Môn yn darparu adnodd hamdden gwerthfawr i'n cymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Gall HTC gynnig dull teithio cynaliadwy, cyfrannu at fentrau iechyd a lles a chwarae rhan hanfodol yn natblygiad economaidd Ynys Môn trwy annog twristiaeth. Mae HTC yn rhad ac am ddim i fynd arnynt a'u mwynhau ac mae hyn yn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

## 2.2 Cyflwyno Rhwydwaith HTC Ynys Môn a Chyfleoedd Mynediad Ehangach

Priffyrdd yw HTC y mae gan y cyhoedd hawl teithio cyfreithiol arnynt. Mae rhwydwaith sylweddol o HTC yn croesi'r rhan fwyaf o Ynys Môn yn brith draphlith.

| Categori HTC | Diffiniad a Mathau'r Defnyddwyr a Ganiateir |
|---|---|
| **Llwybrau Troed Cyhoeddus** | Mae'n darparu hawl tramwy i ddefnyddwyr **ar droed** yn unig. Mae unrhyw 'gwmni' arferol (h.y. cŵn dan reolaeth, coets neu gadair olwyn) yn cael ei ganiatáu hefyd. |
| **Llwybrau Ceffylau** Cyhoeddus | Mae'n darparu hawl tramwy i ddefnyddwyr **ar droed, ar gefn ceffyl** (gan gynnwys yr hawl i arwain ceffyl), **a beiciau** (rhaid i feicwyr ildio i ddefnyddwyr eraill llwybrau ceffylau). |
| **Traciau/Llwybrau Seiclo** | Llwybrau sydd wedi'u dynodi'n benodol ar gyfer **beicwyr** a **cherddwyr** yw'r rhain. Fel rheol, caniateir cerdded ar hyd llwybrau beiciau (ac eithrio pan fyddant mewn cerbydlon ag iddi wyneb tarmac neu wrth ei hymyl). |
| **Cilffyrdd Cyfyngedig** | Mae'n darparu hawl tramwy i ddefnyddwyr **ar droed, ar gefn ceffyl** (gan gynnwys yr hawl i arwain ceffyl), **a beiciau** (rhaid i feicwyr ildio i ddefnyddwyr eraill cilffyrdd cyfyngedig), a defnyddwyr â **cherbydau a dynnir gan geffyl**. *Ni chaniateir defnyddio cerbydau sy'n cael eu gyrru'n fecanyddol ar Gilffyrdd Cyfyngedig.* |
| **Cilffyrdd Agored i Unrhyw Draffig** (CAUD) | Mae'n darparu hawl tramwy i ddefnyddwyr **ar droed, ar gefn ceffyl** (gan gynnwys yr hawl i arwain ceffyl), **beiciau** a gyrru **unrhyw fath o gerbyd** (â modur neu a dynnir gan geffyl). |

Rhwydwaith Mynediad Ehangach Ynys Môn:

| Math y Mynediad i'r Cyhoedd | Diffiniad |
|---|---|
| **Llwybrau drwy Ganiatad** | Nid ydynt yn HTC swyddogol ac felly nid oes ganddynt yr un statws cyfreithiol ond mae tirfeddiannwr yn barod i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio llwybr ar hyd ei dir. |
| **Tir Mynediad** | Mae Tir Mynediad yn cynnwys **Gwlad Agored a Thir Comin cofrestredig,** a ddaeth yn sgil Ddeddf CGHT 2000. Mae Tir Mynediad yn rhoi hawl statudol i'r cyhoedd **ar droed** ar gyfer gweithgareddau awyr agored ar fynydd, rhostir, gwaun, twyni a thir comin cofrestredig. |
| **Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol** | Fe'u sefydlwyd i warchod bywyd gwyllt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol sydd o ddiddordeb arbennig ac i ganiatáu i bobl eu hastudio. Mae pob un o bedair Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ynys Môn ar agor i'r cyhoedd eu mwynhau. |
| **Gwarchodfeydd Natur Lleol** | Dynodiad statudol a wnaed dan Adran 21 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a'i ddiwygio gan Atodlen 11 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, gan brif awdurdodau lleol |
| **Parciau Gwledig** | Ardal a ddynodwyd i bobl ymweld â hi a mwynhau hamddena mewn amgylchedd cefn gwlad |
| **Griniau Pentref** | Ardal agored gyffredin o fewn pentref neu anheddiad arall. Yn draddodiadol, roedd grîn pentref yn laswelltir cyffredin yng nghanol pentref gwledig a ddefnyddwyd ar gyfer pori gyda phwll ar gyfer dyfrio gwartheg ac anifeiliaid arall |

**Hyd Rhwydwaith HTC Ynys Môn:**

| Categori HTC | Cyfanswm Hyd (km) |
|---|---|
| Llwybr troed | 1,076 (97.2%) |
| Llwybr Ceffylau | 5.8 (0.5%) |
| Llwybr Seiclo | 15.4 (1.4%) |
| Cilffordd Gyfyngedig | 5.2 (0.5%) |
| Cilffordd Agored i Unrhyw Draffig (CAUD) | 4.3 (0.4%) |
| **Cyfanswm** Hyd Rhwydwaith yr HTC | **1,107** |

**2.3 Strategaethau, Cynlluniau, Statudau a Chanllawiau sy'n dylanwadu ar waith cyflawni CGHT 2**

Cyd-destun Polisi

Wrth gynnal yr Asesiad a llunio'r Datganiad Gweithredu, mae CGHT 2 yn ystyried nodau ac amcanion sydd wedi'u cynnwys mewn dogfennau a chynlluniau eraill a gyhoeddir gan Gyngor Sir Ynys Môn (mewn rhai achosion mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru), mewn meysydd gwaith cysylltiedig a rhai meysydd polisi, sy'n gyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd pwnc eang megis: cynllunio, cymunedau gwydn, iechyd a lles, addysg, cyfleoedd hamdden, twristiaeth, rheoli'r amgylchedd naturiol, gwella'r economi a datblygu cynaliadwy.

Cynlluniau a'r Strategaethau Perthnasol a ystyrir yn CGHT 2:

- Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru 2015-2020
- Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026
- Strategaeth Seiclo Cyngor Sir Ynys Môn 2013
- Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE) 2015-2020
- Strategaeth Llwybr Ceffylau Cyngor Sir Ynys Môn 2004

Statudau perthnasol a ystyriwyd yn CGHT 2:


- DC 2010
- DTLl (C) 2013
- DLlCD (C) 2015
- DA (C) 2016
- DP 1980
- DCGHT 2000
- DBGChG 1981
- DCGTh 1990

Canllawiau Perthnasol a ystyriwyd i lunio CGHT 2:

- 'Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016
- 'Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016

# 3. Asesu'r ddarpariaeth, yr angen a'r gwaith rheoli cyfredol

## 3.1 Arfarnu gwaith cyflawni CGTH cyntaf Ynys Môn a'i gynnydd




Isod ceir y themâu allweddol yn Asesiad a Datganiad Gweithredu CGTH cyntaf Ynys Môn:

| Themau Allweddol a nodir yn CGHT 1 | Eglurhad |
|---|---|
| **Rhwyddineb defnyddio'r rhwydwaith HTC** | Yn dilyn arolwg helaeth o gyflwr rwydwaith yr HTC (yn 2005) roedd y gyfran ohono a ystyrir yn 'hawdd ei defnyddio' yn gymharol isel ar **48%.** Nodwyd yr angen i wella hygyrchedd y rhwydwaith. |
| **Lefelau bodlonrwydd y cyhoedd â'r rhwydwaith** | Er gwaethaf y ffigwr 'hawdd ei defnyddio' isel, yn dilyn dadansoddiad o'r holiadur cyhoeddus, roedd lefelau boddhad y cyhoedd â'r rhwydwaith HTC yn gyffredinol yn uchel. |
| **Pwysigrwydd blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw a gwella** | Penderfynwyd bod blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith HTC yn sylfaenol, o ystyried rhwydwaith mor helaeth ac adnoddau prin. |
| **Mynediad ar gyfer pobl llai abl a defnydd calonogol gan unigolion nad ydynt yn cymryd rhan** | Ar ôl gwerthuso, nodwyd bod angen mwy o welliannau i'r rhwydwaith i ddarparu mwy o 'lwybrau mynediad hawdd'. |
| **Diffyg llwybrau ceffylau yn y rhwydwaith** | Nodwyd bod ychydig o gynnydd wedi'i gyflawni ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer marchogion. Nod CGHT 1 oedd cynyddu cyfran y llwybrau ceffylau ar y rhwydwaith a gweithredu agweddau ar Strategaeth Llwybrau Ceffylau Cyngor Sir Ynys Môn (2004). |
| **Diffyg llwybrau seiclo oddi ar y ffordd** | Nodwyd mai prin oedd y cyfleoedd seiclo oddi ar y ffordd a gynigir gan y rhwydwaith a bod angen rhoi sylw i'r mater hwn. |
| **Cynyddu cyfran y llwybrau cylchol** | Nodwyd bod creu llwybrau cylchol newydd yn flaenoriaeth uchel. |

| | |
|---|---|
| **Datblygu Llwybr Arfordir Môn** | Nodwyd y dylai gwaith datblygu a gwella Llwybr Arfordir Ynys Môn barhau, er mwyn cyflawni statws Llwybr Cenedlaethol yn y pen draw. |
| **Digido’r Map Swyddogol** | Nodwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i gwblhau gwaith digido'r map er mwyn cydymffurfio â mapiau AO ar raddfa fawr. Byddai hyn yn fodd i'r Cyngor gyhoeddi Map a Datganiad Swyddogol cyfun newydd a chyhoeddi'r map ar lein. |
| **Gosod meddalwedd rheoli HTC** | Atgyfnerthu'r holl waith cynnal a chadw a gwella’r HTC. |
| **Hyrwyddo a chyhoeddi'r rhwydwaith** | Nodwyd y dylid hyrwyddo gwaith gwella’r HTC a rhwydwaith mynediad ehangach Ynys Môn (h.y. Tir Mynediad) yn well a bod angen rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd amdano. |

Datganiad Gweithredu CGHT Cyntaf Ynys Môn

Roedd **32** o Weithredoedd dan y Datganiad Gweithredu yn y CGHT cyntaf, a hynny dan chwe thema rheoli HTC:

| Prif Themâu Rheoli CGHT 1 | Nifer y Datganiadau Gweithredu Cysylltiedig |
|---|---|
| **Cynnal a Chadw**’r rhwydwaith HTC | 9 |
| **Gwelliannau** i’r rhwydwaith HTC | 6 |
| Creu **Amgylchedd Gwell** (Arfer Da Amgylcheddol) | 6 |
| Rheoli’r **MaDS** | 3 |
| Amcanion **Iechyd a Llesiant** | 3 |
| **Hyrwyddo** a **Hysbysebu**’r Rhwydwaith HTC | 5 |

Mae'r daenlen yn **Atodiad 2** yn rhoi manylion llawn y cynnydd ac i ba raddau y cyflwynwyd y 32 Datganiad Gweithredu yn CGHT 1.

Nodwyd mai'r Datganiadau Gweithredu pwysicaf na chawsant eu gweithredu / eu cyflawni'n llawn yw:

**Cynnal a chadw'r Rhwydwaith** (M1): **Blaenoriaethu Llwybrau**: hyd yn hyn dim ond 19% o lwybrau unigol sydd wedi cael graddiad blaenoriaeth. Mae angen penderfyniad a ddylid parhau â'r system flaenoriaethu bresennol ynteu llunio system newydd.

**Cynnal a Chadw Rhwyddineb Defnyddio’r Rhwydwaith (M2**): er bod y Cyngor wedi methu cyrraedd y targed bod 65% o'r llwybrau’n 'hawdd eu ddefnyddio' erbyn 2012 bu gwelliant sylweddol, gyda 62.8% o lwybrau'n pasio'r prawf ‘Hawdd eu Defnyddio (BVPI) yn 2017. Mae'n bwysig bod y duedd at i fyny o ran hygyrchedd a rhwyddineb defnyddio'r rhwydwaith yn parhau.

**Gwelliannau i'r Rhwydwaith (I4): Darparu Llwybrau Ceffylau**: ni chyflawnwyd y targed i sefydlu tri llwybr ceffylau newydd oddi ar y ffordd. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o CGHT 2, mae galw clir am lwybrau marchogaeth ceffylau oddi ar y ffordd.

**Gwelliannau i'r Rhwydwaith (I6)** Darparu **Llwybrau Mynediad Hawdd**: cafwyd rhywfaint o gynnydd (hynny yw, tarmacio Lôn Las Cefni). Fodd bynnag, nid yw'r targed i sefydlu llwybrau mynediad hawdd o fewn canolfannau poblogaeth ac o'u cwmpas wedi'i weithredu eto.

*Mae'r pedwar Datganiad Gweithredu hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac fe'u hadlewyrchir yn y Datganiad Gweithredu a Chynllun Cyflawni 1 CGHT 2.*

Cyllid Gweithredu CGHT


Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi derbyn grant gweithredu CGHT blynyddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (a ddisodlodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2013) er 2008. £346,000 yw cyfanswm y grant hyd yn hyn. Mae manylion y gwahanol brosiectau y gwariwyd y cyllid ar eu cyfer i'w gweld yn **Atodiad 2**. Daeth grant gweithredu CGHT i ben yn 2017/18.

## 3.2 Asesiad o hawliau tramwy cyhoeddus a'r rhwydwaith mynediad ehangach yn Ynys Môn

### 3.2.1 Asesu'r sefyllfa gyfredol o ran cyflwr, hygyrchedd a rhwyddineb defnyddio rhwydwaith HTC Ynys Môn

Er mwyn cyflawni'r asesiad allweddol hwn, cynhaliwyd arolwg o gyflwr y rhwydwaith HTC gan ddefnyddio methodoleg y Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau (DPGG). Er mwyn cyflawni hyn, arolygwyd sampl o 7% (77 km) o rwydwaith HTC Ynys Môn, a rannwyd yn gyfrannol dros 40 o ardaloedd y Cyngor Tref a Chymuned fel ei fod yn gynrychioliadol o Ynys Môn gyfan. Defnyddiwyd ein meddalwedd rheoli HTC, 'System Rheoli Mynediad i'r Cefn Gwlad' (CAMS) i ddewis HTC ar hap i'w arolygu. Cynhaliwyd arolygon o'i gyflwr rhwng Ionawr a Mai 2017 gan ddefnyddio cyfrifiadur tabled a meddalwedd symudol CAMS.

**Canlyniadau'r Arolwg o Gyflwr yr HTC (2017)**




Drwyddi draw, pasiodd **62.8%** o sampl o'r HTC, gan gwrdd â'r meini prawf Rhwyddineb Defnyddio DPGG *(a restrir isod).*

Methodd **37.2%** o sampl o'r HTC i gwrdd ag (un neu fwy) o feini prawf 'Rhwyddineb Defnyddio DPGG oherwydd amryfal broblemau a gafwyd


Aseswyd Cyflwr yr HTC yn seiliedig ar saith o feini Prawf DPGG:

| Tabl 1: Meini Prawf Rhwyddineb Defnyddio DPGG |
|---|
| 1. Camfeydd a giatiau |
| 2. Arwyddion ar ochr y ffordd |
| 3. Rhwystrau |
| 4. Aredig a Chnydio |
| 5. Cyflwr y wyneb |
| 6. Pontydd, |
| 7. Mynegbyst (ar hyd y llwybr) |
| CYFFREDINOL (Pasio / Methu). |

*Mae modd gweld canlyniadau a dadansoddiad manwl o arolwg 2017 o'r cyflwr yn yr adroddiad hwn sydd ar wahân.*

## **Rhwyddineb Defnyddio a Hygyrchedd y Rhwydwaith (canlyniadau arolwg: 2005/06-2017):**

- Rhwng y blynyddoedd ariannol 2005/06 a 2012/13 ac yn cynnwys y blynyddoedd hynny, (gan gynnwys y diweddaraf, ym mlwyddyn galendr 2017) arolygwyd sampl ar hap o 5% o rwydwaith HTC Ynys Môn gan ddefnyddio methodoleg 'Rhwyddineb Defnyddio' DPGG.
- Ni chynhaliwyd arolygon ym mlynyddoedd ariannol 2013/14, 2014/15, 2015/16 gan nad oedd yn orfodol bellach i wneud hynny (felly nid oes data ar gyfer y tair blynedd hynny yn y graff isod).




Er gwaethaf amrywiadau bychain, mae data'r arolwg dros amser yn dangos tueddiad at i fyny, yn gyffredinol, mewn rhwyddineb defnyddio a hygyrchedd. Mae'n bwysig bod y duedd hon sydd at i fyny'n parhau.

### 3.2.2 Map a Datganiad Swyddogol Ynys Môn (MaDS)

Beth yw'r MaDS?

Mae'r Map Swyddogol yn gofnod cyfreithiol a thystiolaeth bendant o HTC. Nid yw'n rhagfarnu llwybrau a allai fod heb eu cofnodi / heb eu dangos ar hyn o bryd. Gyda'r Map Swyddogol mae'r Datganiad Swyddogol sy'n disgrifio'n ysgrifenedig y llwybrau a ddangosir ar y Map Swyddogol. Fel Awdurdod Arolygu, mae Cyngor Sir Ynys Mōn yn gyfrifol am reoli'r MaDS. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol dan Adran 53 DBGChG 1981 i sicrhau bod cofnod cyfreithiol o'r HTC a'r MaDS, yn gyfredol a'i adolygu'n barhaus.

MaDS Ynys Môn

Cyhoeddwyd y MaDS cyntaf ar gyfer Ynys Môn yn 1958 yn unol â DPCMCG 1949, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd trwy gyfres o arolygon plwyf. Ei ddyddiad perthnasol oedd 4 Mawrth 1954, h.y. dyddiad y map drafft a gyhoeddwyd bedair blynedd ynghynt.

- Roedd DPCChG 1949 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiadau cyfnodol o'r MaDS. Cwblhawyd adolygiad o MaDS Ynys Môn gan Gyngor Sir Ynys Môn ym 1969. (Cwblhawyd adolygiad rhannol gan Gyngor Sir Gwynedd yn gynnar yn yr 1980au).
- Er 28 Chwefror 1983, mae'r MaDS wedi'u hadolygu'n barhaus ac mae dyletswydd ar y Cyngor i ddiwygio'r map cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl digwyddiadau cyfreithiol (h.y. gorchmynion i greu, dargyfeirio neu gau llwybrau neu gytundebau creu), a phan ddarganfyddir / cyflwynir tystiolaeth bod y MaDS yn anghyflawn neu'n anghywir.
- Mae DBGChG 1981 yn datgan y gall y Cyngor, o bryd i'w gilydd, atgyfnerthu'r MaDS. Rhaid i'r MaDS newydd gael ei 'ddyddiad perthnasol' modern ei hun. Mae'r broses hon hefyd yn fodd i gyhoeddi'r map ar gefndir mapio Arolwg Ordnans cyfredol.
- Y tro diwethaf i'r Cyngor gyfuo MaDS Ynys Môn oedd yn 2012 (ei ddyddiad perthnasol yw 30 Mai 2012).
- Nodir y bydd yn fuddiol cryfhau'r MaDS o leiaf bob deng mlynedd.

Edrych ar Fap Swyddogol Ynys Môn

- Mae modd gweld fersiwn y we ryngweithiol o'r Map Swyddogol ar wefan y Cyngor yn: https://publicrightsofway.anglesey.gov.uk/web/standardmap.aspx
- Mae copi gwaith o'r MADS ar gael i'w weld yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn yn Llangefni (LL77 7TW).

Gwallau ac anghysonderau yn y MaDS

Arweiniodd y dull a ddefnyddiwyd wrth ddrafftio'r MaDS cyntaf yn y 1950au at nifer o wallau ac anghysonderau. Ymhlith rhai enghreifftiau:

1. Daw tua **14** llwybr i ddiwedd eu taith ar ffiniau presennol Cynghorau Tref a Chymuned.

2. Daw tua **12** llwybr i ddiwedd eu taith ar hen ffin y plwyf.

3. Ceir amrywiol 'anghysonderau' gan gynnwys gwallau (dynol) posib wrth ddrafftio mapiau, anghysonderau rhwng y map a'r datganiad, llwybrau a gofnodir fel llwybrau troed pan fo hawliau uwch mewn gwirionedd yn bodoli.

Addasu'r MaDS

Er mwyn parhau i adolygu'r MaDS, gwneir newidiadau iddynt trwy broses gyfreithiol a elwir yn Orchmynion Addasu Map Swyddogol (GAMS). Gwneir GAMS os profir bod y MaDS yn anghywir neu'n anghyflawn. Mae'r Cyngor yn derbyn ac yn prosesu ceisiadau ar gyfer GAMS, sy'n cynnwys ychwanegu llwybrau heb eu cofnodi neu newid statws neu fanylion llwybrau sy'n bodoli eisoes. Mae cynigion ar gyfer GAMS yn cynnwys ceisiadau ffurfiol a dderbynnir gan bobl / sefydliadau allanol (ceisiadau Atodlen 14) a chynigion sy'n deillio o'r dystiolaeth a ddatgelwyd gan y Cyngor (achosion tystiolaeth a ddarganfuwyd). Mae'n bwysig bod ceisiadau GAMS yn cynnwys tystiolaeth ffeithiol gadarn ac argyhoeddiadol sy'n cynnwys tystiolaeth defnyddwyr a / neu dystiolaeth ddogfennol.

Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ôl-groniad o tua 70 o geisiadau / cynigion GAMS y mae gofyn archwilio iddynt a'u prosesu. Mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu'n raddol er 1996.

Roedd CGHT cyntaf Ynys Môn yn cynnwys polisi blaenoriaethu ar gyfer rheoli achosion GAMS. Er gwaethaf hyn, mae'r ôl-groniad o GAMS yn broblem gynyddol i'r Cyngor. O ystyried hyn, mae polisi blaenoriaethu GAMS diwygiedig wedi'i gynnwys yn adran 'Polisïau' y Cynllun Cyflawni (Atodiad 3).

Cofnodion y Cyngor o gyfyngiadau ac amodau

Mae Canllawiau CGHT Llywodraeth Cymru yn gofyn am werthusiad byr o gyflawnder cofnodion y Cyngor o gyfyngiadau a strwythurau awdurdodedig ar y rhwydwaith HTC, a'r prosesau cyfredol ar gyfer eu hawdurdodi.

Mae cyfyngiad neu gyflwr ffisegol yn strwythur sy'n cael effaith ar ddefnyddio llwybr, fel giât neu gamfa sydd ar draws y llwybr. Mae holl strwythurau croesi'r ffin (h.y. gatiau, gatiau mochyn, camfeydd) oedd yn bodoli pan oedd y llwybr wedi'i neilltuo fel HTC yn gyfreithlon. Ystyrir bod pob strwythur oedd yn bodoli ar ddyddiad perthnasol MaDS cyntaf Ynys Môn (4 Mawrth 1954) yn gyfreithlon gan mai dyma ein llinell sylfaen. Yn ogystal, mewn perthynas â llwybrau a grëwyd gan ddefnyddwyr wedi 1954, mae strwythurau oedd yn bodoli yn ystod y cyfnod (cyfnod o 20 mlynedd fel arfer) yn gyfreithlon.

Dylai strwythurau ychwanegol a osodwyd ar y rhwydwaith ar ôl 4 Mawrth 1954 fod wedi cael eu hawdurdodi'n swyddogol a'u trwyddedu gan y Cyngor dan Adran 147 DP 1980. Os na chawsant eu hawdurdodi'n swyddogol gan y Cyngor, maent yn angyfreithlon ac yn rhwystr i'r rhwydwaith.

Yn anffodus, nid oes cofnod cyflawn o strwythurau hanesyddol ar Ynys Môn. Paratowyd 60 o fapiau Arolwg Plwyf rhwng 1951 a 1954 a dim ond pedwar o'r mapiau hyn (plwyfi

Llannerch-y-medd, Llaneugrad, Llechcynfarwydd a Llanddeusant) sydd â nodiadau manwl yn cofnodi strwythurau cyfreithlon. Mewn rhai achosion, mae'r Datganiadau Swyddogol a gyhoeddwyd yn 1958 yn cyfeirio at strwythurau a, lle mae hyn yn digwydd, mae'n rhoi tystiolaeth bendant o gyfreithlondeb strwythur.

Mae tua 5500 o strwythurau sy’n croesi ffin wedi'u cofnodi yng nghronfa ddata HTC ac mae’n anymarferol mynd drwyddynt yn unigol i bennu cyfreithlondeb. Pan fo amheuaeth bod strwythur yn anghyfreithlon, bydd y Cyngor yn archwilio mapiau hanesyddol (ac o bosib hen awyrluniau) i benderfynu a yw strwythur yn gyfreithlon. Yna caiff y gronfa ddata ei diweddaru fesul achos. Pan ddarganfyddir strwythur anghyfreithlon bydd y Cyngor yn gofyn i'r tirfeddiannwr / tenant geisio caniatâd ôl-weithredol ar ei gyfer (gweler isod) neu gael gwared ag ef.

<u>Y broses o awdurdodi strwythurau newydd ar y rhwydwaith HTC</u>

Rhaid i strwythurau newydd a osodwyd ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau gael eu hawdurdodi'n swyddogol gan y Cyngor dan Adran 147 DP 1980. Mae'r adran hon yn galluogi tirfeddianwyr / deiliaid tir i wneud cais i godi giât neu gamfa newydd ar lwybr ar yr amod bod y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth ac, er mwyn cynnal yr amaethyddiaeth hon yn effeithlon, mae angen strwythur i reoli symudiad anifeiliaid i mewn ac allan. Mae tir amaethyddol yn cynnwys tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, meithrinfeydd, tir a ddefnyddir ar gyfer pori ac ar gyfer coedwigaeth. Mae hyn hefyd yn cynnwys tir ar gyfer bridio a chadw ceffylau.

Mae'r Cyngor yn darparu nodiadau cyfarwyddyd a ffurflen gais yn ymwneud ag Adran 147. Pan roddir trwydded ar gyfer gosod strwythur newydd, cofnodir y strwythur newydd yn y gronfa ddata HTC ynghyd â chopi o'r drwydded.

Mae adegau pan fo'r Cyngor yn gosod rhwystr ar lwybr troed cyhoeddus ar gyfer diogelwch y cyhoedd. Cyfiawnheir hyn trwy adran 66 DP1980 os oes gan y Cyngor dystiolaeth bod y cyhoedd mewn perygl. Rhaid ystyried hawliau defnyddwyr preifat hefyd. Mae rhwystrau y mae'r Cyngor yn eu gosod eu hunain yn unol ag A66 yn cael eu cofnodi yn y gronfa ddata HTC.

Mae modd gweld polisïau'r Cyngor ynglŷn â rheoli strwythurau ar yr HTC yn fanylach yn adran 'Polisïau' cyfeirir ato yn y Cynllun Cyflawni.

## <u>3.2.3 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (GLlC)</u>

Mae gan y Cyngor bwerau dewisol i newid y rhwydwaith HTC trwy weithdrefnau cyfreithiol, y cyfeirir atynt fel Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (GLlC). Yr hyn y mae GLlC yn ei wneud yw dargyfeirio, cau a chreu llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig dan wahanol Adrannau DP 1980 a DCGTh 1990. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gadw ar y blaen i geisiadau am GLlC gan bobl / sefydliadau allanol ac, ar hyn o bryd, nid oes ôl-groniad.

Mae yna oddeutu **60** GLlC y dymuna’r Cyngor gychwyn ei hun am amryw resymau ac a fyddai o fudd sylweddol i rwydwaith HTC Ynys Môn, er enghraifft i:

• Gael effaith gadarnhaol sylweddol ar y rhwydwaith, (h.y. datrys problem cyswllt llwybr ar goll).

• Lleihau costau cynnal a chadw, (h.y. lle gallai gwyriad arbed costau mawr yn y tymor hir).

• Datrys rhwystrau tymor hir a sylweddol, (e.e. eiddo preswyl a adeiladwyd ar HTC).

• Ffurfioli newidiadau a ddigwyddodd ar y ddaear yn ystod hen gynlluniau gwella priffyrdd, lle na wnaed Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (GFfY) ar y pryd.

• Cywiro GFfY a gynlluniwyd yn wael, (er enghraifft, roedd dau GFfY a wnaed yn y 1990au ar gyfer yr A55 yn cynnwys nifer o newidiadau anffurfiol y mae angen eu cywiro).

Roedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf yn cynnwys polisi blaenoriaethu GLlC, sy'n parhau i fod yn berthnasol ac yn ddigonol ac mae wedi ei gynnwys yn yr adran bolisïau y cyfeirir ati yn y Cynllun Cyflawni.

## 3.2.4 Gwaith Cyfredol yr Uned Hawliau Tramwy – Cynnal a Chadw, Gorfodi a Gwella

### 3.2.4.1 Cynnal a Chadw / Gwella

Mae Uned HTC y Cyngor yn dod dan ymbarél adran Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo’r Cyngor Sir. Ar hyn o bryd, mae'r uned yn cynnwys tîm o bump swyddog ac mae'n cynnwys dau swyddog sy'n gweithio i gynnal a chadw a datblygu'r llwybr arfordirol yn unig.

Gellir nodi bod yr uned, heblaw am dîm llwybr yr arfordir yn gweithio'n adweithiol iawn ar hyn o bryd ac yn ceisio datrys problemau’n gyson ar y rhwydwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r problemau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r uned gan ddefnyddwyr, tirfeddianwyr a thrwy ymgynghori'n rheolaidd â'r grŵp Cymdeithas Cerddwyr lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Prin yw’r gwaith rhagweithiol o arolygu cyflwr llwybrau, yn bennaf oherwydd prinder amser. Llwybr yr arfordir yw'r eithriad i'r rheol, gan fod cyllid allanol ac adnoddau staff sydd ar gael wedi arwain at waith rhagweithiol o fonitro a gwella'r llwybr, lefel gwaith sy'n llawer uwch na'r hyn a welir ar y rhan fwyaf o lwybrau eraill ar yr ynys

Nid oes gan Gynghorau Tref a Chymuned ddyletswyddau statudol ar gyfer HTC ond mae ganddynt yr hawliau a'r pwerau hyn a all gyfrannu’n sylweddol at wella’r mwynhad y caiff y cyhoedd o Rwydwaith HTC Ynys Môn:

| Pŵer | Deddf |
|---|---|
| Cynnal a chadw unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig | DP 1980, a43 |
| Codi goleuadau ar unrhyw lwybr troed neu lwybr ceffylau | DCP 1957, a3 |

| | |
|---|---|
| Codi hysbysiadau ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau yn rhybuddio am beryglon lleol | DRhTFf 1984, a72 |
| Adeiladu seddi a llochesi mewn tir neu arno ac sydd wrth ymyl unrhyw ffordd / llwybr yn eu hardal neu arno | DCP 1957, a1 |
| Erlyn unrhyw un sy'n rhwystro unrhyw un rhag teithio'n ddirwystr ar hyd unrhyw briffordd | DP 1980, a137 |
| Erlyn os yw llwybr troed wedi'i aredig neu yr aflonyddwyd arno'n gyfreithlon, ond heb gael ei hadfer, neu os yw unrhyw briffordd wedi'i aredig neu yr aflonyddwyd arno'n anghyfreithlon | DP 1980, a131A ac a134 |
| Erlyn deilydd tir sy'n methu sicrhau nad yw cnydau yn anghyfleustra i ddefnyddwyr llwybrau troed, llwybrau ceffylau a cherbydlonydd heb eu metelu | DP 1980, a137A |
| Mynnu wrth yr awdurdod priffyrdd y dylid cyfeirio llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig lle mae'n cwrdd â ffordd wedi'i metelu. | DCG 1968, a27 |
| Creu priffyrdd newydd trwy gytundeb â'r tirfeddiannwr dros dir yn ei gymuned ei hun ac mewn cymunedau cyfagos. | DP 1980, a30 |

Ar hyn o bryd, mae tua hanner o'r 40 Cyngor Tref a Chymuned ar Ynys Môn yn gweud rhywfaint o waith cynnal a chadw ar lwybrau cyhoeddus yn eu hardaloedd, yn bennaf waith strimio a chynnal a chadw achlysurol ar raddfa fach. Mae hyn wedi gostwng yn gyson oherwydd bod dwy ran o dair o gynghorau lleol wedi gwneu gwaith o'r fath yn 2000. Mae'r Cyngor Sir yn cynnig taliadau i gynghorau lleol wneud y gwaith hwn ac mae modd ei adennill erbyn diwedd pob blwyddyn ariannol. Dyrennir cyllideb i bob cyngor yn seiliedig ar hyd HTC yn ei ardal, £1,302 y flwyddyn yw cyfartaledd cyllideb pob cyngor yn 2017/18.

Rhydd y tabl isod wybodaeth am hawliadau gan Gynghorau Tref a Cymuned er 2010:

| **Blwyddyn Ariannol** | **% o'r gyllideb sydd ar gael ac a hawliwyd** | **Nifer y cynghorau sy'n hawlio (allan o 40)** | **Nifer y cynghorau sy'n hawlio'u dyraniad llawn (allan o 40)** |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | 30.5% | 22 | 9 |
| 2016/17 | 32.1% | 17 | 6 |
| 2015/16 | 34.7% | 22 | 7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2014/15 | 29.2% | 18 | 6 |
| 2013/14 | 21.9% | 15 | 6 |
| 2012/13 | 33.7% | 24 | 5 |
| 2011/12 | 35.2% | 21 | 4 |
| 2010/11 | 49.9% | 23 | 8 |

Er bod y gwaith a wnaed gan Gynghorau Tref a Chymuned yn cael ei werthfawrogi, rhaid nodi bod llwyth ac ansawdd y gwaith yn amrywio'n sylweddol o ardal i ardal. Mae rhai cynghorau'n cymryd diddordeb brwd yn eu HTC ac yn rhoi gwasanaeth da i'w cynnal. Mae eraill yn llai rhagweithiol ac, ar adegau, mae'n anodd eu darbwyllo i roi gwell gwasanaeth. Er enghraifft, mae nifer y toriadau y flwyddyn yn amrywio rhwng un a thri, gan ddibynnu ar ardal y Cynghorau Tref a Chymuned. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o Gynghorau Tref a Chymuned yn tueddu i ganolbwyntio ar lwybrau sy'n cael eu defnyddio'n aml sy'n agos at aneddiadau ac mae llwybrau mwy gwledig yn dueddol o gael eu hesgeuluso.

O gofio bod cwynion am lystyfiant yn un o'r materion mwyaf cyffredin, ystyrir bod adolygu'r trefniant presennol gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn ddymunol, gyda'r bwriad o'u cefnogi i roi gwell gwasanaeth a chynyddu'r nifer sy'n hawlio.

**3.2.4.2 Gorfodaeth**

Dan Adran 130 y DP, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gadarnhau a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r rhwydwaith HTC yn ddirwystr. Mae Adran 137 DP 1980 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i unrhyw berson rwystro'n 'fwriadol' unrhyw un rhag mynd ar hyd y briffordd yn ddirwystr.

Fel y nodwyd yn yr arolygon cyflwr (2005 i 2017), rhwystrau ar y rhwydwaith yw'r mater mwyaf cyffredin a helaeth sy'n yn cael effaith ar rwyddineb a hygyrchedd yn gyson.

Caiff camau gorfodi eu cymryd yn erbyn tirfeddianwyr / deiliaid tir yn rheolaidd lle mae'r Cyngor yn cyflwyno hysbysiad dan adran o DP 1980 ac, os yw'r tirfeddiannwr/ deiliad tir yn methu cydymffurfio, gall y Cyngor wneud gwaith ac adennill costau. Ystyrir bod y trefniadau presennol yn foddhaol yn hyn o beth.


Llwybr ymyl cae wedi'i aredig yn anghyfreithlon

Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn y rhwydwaith yn well yn y dyfodol mae angen i’r cyngor fabwysiadu ffordd fwy ragweithiol o weithredu o ran erlyn tirfeddianwyr sy'n rhwystro neu'n ymyrryd yn anghyfreithlon â'r rhwydwaith. Ers 2008 dim ond 5 achos sydd wedi mynd i Lys Ynadon.



Llwybr Troed wedi’i baricedio

Lluniwyd **Polisi 'Ymarferion Erlyn'** yn CGHT 1. Mae'r polisi'n parhau i fod yn berthnasol ac yn ddigonol ond mae angen adolygu trefniadau cyfreithiol ar gyfer y ffordd y mae'r Cyngor yn ymdrin ag erlyniadau. Mae erlyniadau’n cael eu trin ar hyn o bryd trwy system sy'n ymestyn dros awdurdodau lleol Gogledd Cymru, lle mae Cyngor Sir Ddinbych yn penodi cyfreithiwr o’r Tîm Erlyn. Mae hyn wedi bod yn aneffeithiol mewn rhai achosion gan nad oedd gan y cyfreithiwr penodedig brofiad o gyfraith priffyrdd a methodd gefnogi'r achos gyda chyfeiriadau perthnasol at gyfraith achosion. Mae angen adolygu'r system hon oherwydd nad oes gan staff HTC hyder ynddi.

### 3.2.4.3 Gweithio gyda Gwirfoddolwyr

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae rhwydwaith HTC Ynys Môn wedi elwa'n sylweddol ar waith gwella a chynnal a gynhaliwyd mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a'r 'Silver Slashers', sef grŵp gwirfoddol a sefydlwyd gan gangen Ynys Mōn o Gymdeithas y Cerddwyr. Mae'r bartneriaeth agos a rhagweithiol hon wedi hwyluso gwaith cynnal a chadw a gwella rheolaidd ar y rhwydwaith HTC, er enghraifft:

- Gosod strwythurau ffiniau newydd neu gael rhai eraill yn eu lle (megis camfeydd a gatiau),
- Gosod mathau o strwythurau llai cyfyngol yn lle’r rhai sydd yno ar hyn o bryd (gan gyfrannu at **Bolisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol y Cyngor**).
- Clirio llystyfiant.
- Gwelliannau i wyneb HTC megis gwaith draenio ac adeiladu llwybrau bwrdd.
- Atgyweirio pontydd troed neu gael rhywbeth yn eu lle.

- Cynorthwyo defnyddwyr i ganfod eu ffordd trwy atgyweirio a gosod arwyddion a marciau ffyrdd newydd.


Ailagor llwybr ger Dwyran
©Andria Massey


Gwella llwybr yn Malltraeth
©Andria Massey

Bu gwaith cynnal a chadw a gwella gan wirfoddolwyr o bwysigrwydd amhrisiadwy i'r Cyngor wrth reoli a gwella'r rhwydwaith, yn enwedig o gofio’r pwysau ariannol a'r adnoddau

cyfyngedig a geir ar hyn o bryd. Ers cyhoeddi CGHT cyntaf Ynys Môn mae'r trefniant hwn wedi gwella safon a hygyrchedd nifer o rannau o’r HTC ar Ynys Môn yn sylweddol. O’r herwydd, bydd y Cyngor yn ymdrechu i gynnal y bartneriaeth hon trwy weithredu CGHT 2.

### 3.2.5 Llwybrau a Hyrwyddir

#### Llwybr Arfordir Ynys Môn

Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn amgylchynu pellter o 130 milltir o gwmpas arfordir cyfan Ynys Môn, ac mae bron i gyd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) dynodedig. Mae AHNE Ynys Môn yn cynnwys 95% o arfordir Ynys Môn. Mae'r llwybr yn pasio trwy wahanol dirweddau sy'n cynnwys cymysgedd o dir fferm, rhostir yr arfordir, twyni tywod, traethau tywodlyd, corsydd heli, blaendraethau, clogwyni, coetiroedd a Gwarchodfeydd Natur. Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru, a agorwyd yn swyddogol yn 2012. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn 870 milltir o hyd ac yn dilyn neu'n rhedeg yn agos at arfordir cyfan Cymru. Datblygwyd Llwybr Arfordir Cymru gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, un ar bymtheg o Awdurdodau Lleol a dau Barc Cenedlaethol. Bu Llwybr Arfordir Ynys Môn (ac, felly, Lwybr Arfordir Cymru) yn llwyddiant economaidd mawr, ac mae'n ased ac yn gyfrannwr pwysig iawn i economïau lleol Cymru ac Ynys Môn, gan ei fod yn denu llawer o ymwelwyr. Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn hefyd yn adnodd pwysig i drigolion lleol fwynhau mwy o arfordir trawiadol ac amgylchedd naturiol Ynys Môn, yn ogystal â rhoi llawer o fanteision iechyd a lles.

#### Prosiectau gwella Llwybr Arfordir Ynys Môn

Ers cyhoeddi CGHT cyntaf Ynys Môn, gwnaed gwelliannau mawr ar Lwybr yr Arfordir. Ymhlith y rhain mae:

i. Mynediad newydd lle nad oedd llwybr yn bodoli o'r blaen,

ii. Gwella hygyrchedd a rhwyddineb defnyddio,

iii. Gwelliannau cyffredinol i wella profiad a mwynhad y cyhoedd.

Er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn, buddsoddwyd swm sylweddol o gyfalaf yn y llwybr, a gafwyd o:

- **Prosiect Gwella Mynediad i'r Arfordir** (2007-2013)

Ffynhonnell ariannu sylweddol ar gyfer gwelliannau mawr i Lwybr yr Arfordir gyda gwariant cyffredinol o tua £1.8 miliwn yn y cyfnod hwn.


- **Grant Cynnal a Chadw / Prosiect Datblygu Llwybr Arfordir Cymru** (2014-presennol)

Y rhan fwyaf o’r arian wedi’i sicrhau gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a chyllideb fewnol y Cyngor. Buddsoddwyd oddeutu **£500,000** ar wahanol gynlluniau gwella Llwybrau’r Arfordir ers 2014.

## Astudiaeth Achos: Cynllun Gwella Aber Alaw

Cynllun gwella sylweddol a gwblhawyd yn 2012. Gweithredwyd y cynllun i gysylltu rhannau y Fali a Llanfachraeth o lwybr yr arfordir oedd yn anhygyrch yn flaenorol (ac eithrio ar hyd ffyrdd cyhoeddus prysur). Roedd y prosiect hwn yn cynnwys llawer iawn o fuddsoddiad a gwaith, oedd yn cynnwys:

- Gorchymyn Creu Llwybr ar gyfer creu llwybr newydd 2.1 KM (gan gynnwys iawndal i dirfeddianwyr)
- Adeiladu pont ddur sy'n ymestyn 32 metr,
- Dros 5 km o waith ffensio,
- Gosod tua 12 strwythur newydd gan gynnwys gatiau, llwybrau bwrdd, a phontydd bychain.




## Astudiaeth Achos: Cynllun Gwella Arfordir Llanddona

- Y prosiect gwella sylweddol diweddaraf a gwblhawyd ddechrau 2018. Mae'n rhedeg o Fedw Fawr i'r gorllewin o Fwrdd Arthur.
- Roedd yn cynnwys symud rhan o lwybr yr arfordir oedd ar ffordd gyhoeddus i lwybr newydd yn agos i'r arfordir.
- Crëwyd y llwybr newydd trwy Orchmynion Creu (Adran 26 DP 1980) a Chytundebau Creu (Adran 25 DP 1980).
- Gwariant cyffredinol: tua £ 40,000.

• Mae'r cynllun gwella hwn wedi creu rhan 3 km newydd o Lwybr Arfordir Ynys Môn y mae’n hawdd ei cherdded.

• Bydd y prosiect hwn yn gwella ac yn ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl brofi a mwynhau arfordir Ynys Môn a'r amgylchedd naturiol.

• Bydd y cynllun gwella hwn o fudd i rwydwaith llwybrau’r arfordir cyfan.



Giât mochyn ar y llwybr newydd

**<u>Rheoli Strwythurau a Gwella Hygyrchedd</u>**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwneud i ffwrdd yn raddol â chamfeydd a gostwng eu nifer ar Lwybr Arfordir Ynys Môn. Bu llawer o enghreifftiau llwyddiannus lle mae'r Cyngor wedi ffurfio cytundebau gyda thirfeddianwyr (Adran 147ZA: DP 1980) i ddisodli camfeydd gyda mathau llai cyfyngol o strwythurau (h.y. giatiau mochyn neu giatiau cerddwyr). Er mwyn diogelu cymeriad rhai mannau, lle ceir camfeydd cerrig hanesyddol, fel arfer, gosodir giât mochyn neu giât cerddwyr yn gyfagos yn hytrach na symud y gamfa er mwyn gwarchod harddwch yr ardaloedd. Yn dilyn dadansoddi'r strwythurau presennol ar Lwybr yr Arfordir, daethpwyd i'r casgliad bod oddeutu **25** camfa ar Lwybr Arfordir Ynys Môn lle nad oes unrhyw fodd arall o basio (h.y. trwy fwlch cyfagos neu giât mochyn / giât cerddwyr). Yn ystod gweithredu CGHT2, bydd y Cyngor yn llunio rhaglen waith i gael gwared â mwy o gamfeydd o Lwybr yr Arfordir, gan barhau i wella hygyrchedd i ddefnyddwyr llai abl a chyfrannu at Bolisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol y Cyngor a Safonau Ansawdd Llwybr Arfordir Cymru.

<u>Gwelliannau ychwanegol i hygyrchedd a wneir yn rheolaidd ar Lwybr yr Arfordir:</u>

- **Dylunio gwelliannau** i strwythurau i ganiatáu mwy o le i symud.
- **Adeiladu llwybrau bwrdd** i’w gwneud yn haws symud dros arwynebau llawn dŵr a mwdlyd a defnyddio plastig wedi'i ailgylchu i'w hadeiladu er mwyn ymestyn eu hoes.
- **Gwelliannau draenio** ac **arwynebedd llwybrau** i leihau cyfran o Lwybr yr Arfordir sy'n llawn dŵr ac yn fwdlyd.

- Defnyddio **derw o ansawdd uchel** yn gyson ar gyfer gatiau ac arwyddion.
- Bod yn ragweithiol wrth fonitro a rheoli Llwybr yr Arfordir trwy **arolygon cyflwr** rheolaidd (oddeutu bob **18 mis**) i gynnal cofnod cyfredol o gyflwr presennol y llwybr a llunio rhaglen waith cynnal a chadw a gwelliant.

Llwybrau Eraill a Hyrwyddir ar Ynys Môn:

Mae nifer o lwybrau hir a byr eraill a gaiff eu hyrwyddo ar draws Ynys Môn.

- Teithiau Cerdded Amlwch / Llaneilian (1-6)
- Teithiau Cerdded Treftadaeth y De-orllewin (Dwynwen, Llywelyn, Maelog, Menai, Rhosyr)
- Teithiau Cerdded yr Arfordir (Cemaes, Llanddona, Pentraeth, Rhoscolyn, Rhosneigr)
- Teithiau Cerdded Cylchol y Seintiau (Beuno, Cadog, Cawrdaf, Ceidio, Cwyfan, Cybi, Dona, Eilian, Elaeth, Iestyn, Nidan, Sannan, Seiriol, Gallgo)
- Teithiau Cerdded Archeolegol (Bryn Celli Ddu, Brynsiencyn-Llangaffo)
- Dwy Daith Goleudy
- Lôn Las Cefni

Er mwyn cynnal llwybrau hyrwyddol Ynys Môn i safon dderbyniol, mae angen cynnal archwiliadau ac arolygon rheolaidd. Er enghraifft, caiff Lôn Las Cefni ei harchwilio'n rheolaidd (o leiaf ddwywaith y flwyddyn). Fodd bynnag, mae prinder adnoddau wedi golygu nad yw llwybrau hyrwyddol eraill yn cael eu harchwilio a'u harolygu mor rheolaidd ag y dymunir. Yn anffodus, mae diffyg arolygon rheolaidd wedi arwain at ddirywiad yng nghyflwr rhai o lwybrau hyrwyddol Ynys Môn.

### 3.2.6 Tir Mynediad

Yn y tabl crynhoir faint o Dir Mynediad sydd yn Ynys Môn dan Ddeddf CGHT 2000.

| |
|---|
| Cefn Gwlad Agored (715 hectar) |
| Tir Cyffredin (785 hectar) |
| Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (1,835 hectar) |
| Gwarchodfeydd Natur Lleol (55.7 hectar) |
| Parciau Gwledig (51.5 hectar) |
| Griniau Pentrefi (25.4 hectar) |

Mae modd gweld map rhyngweithiol ar wefan y Cyngor sy'n dangos tir sydd wedi'i ddynodi'n Dir Mynediad. https://publicrightsofway.anglesey.gov.uk/web/standardmap.aspx




Materion o ran hygyrchedd tir mynediad:

Nododd asesiad bwrdd gwaith o hygyrchedd Gwlad Agored a Thir Comin y gellir cael mynediad at y mwyafrif helaeth ohonynt o ffyrdd cyhoeddus neu o HTC.

Fodd bynnag, mae rhai eithriadau y mae angen rhoi sylw iddynt:

- Mae dau faes Tir Mynediad (Llaneilian 0.45Ha a Llanfaelog 1.17Ha) yn 'ynysoedd anhygyrch'
- Dim ond ar hyd adrannau caniataol Llwybr Arfordir Ynys Môn y mae modd cael mynediad at dair ardal Tir Mynediad (Cylch y Garn 7.71Ha, Trearddur 4.96Ha, a Llanfair-yn-Neubwll 37.18Ha).
- Dim ond drwy fynd dros bont breifat y Weinyddiaeth Amddiffyn y mae modd cael mynediad at un ardal Tir Mynediad (Llanfair yn Neubwll 4.45ha)

Gwella hygyrchedd tir mynediad

Buasai'n ddymunol cael asesiad mwy manwl o hygyrchedd Tir Mynediad er mwyn llunio rhaglen gynhwysfawr o waith gwella. Gallai gwelliannau posib fod fel a ganlyn:

- Gwella arwyddion a marcwyr Tir Mynediad mewn 'pwyntiau mynediad'
- Gwella cysylltiadau â Thir Mynediad o'r HTC presennol.

- Darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am Dir Mynediad a hyrwyddo manteision defnyddio Tir Mynediad Ynys Môn.

**3.2.7 Llwybrau drwy ganiatad**

Caiff lwybrau drwy ganiatad eu creu pan fo cytundeb yn cael ei ffurfio rhwng y Cyngor a thirfeddiannwr. Cânt eu creu pan fo tirfeddiannwr yn barod i ganiatáu i bobl ddefnyddio llwybr dros ei dir, ond nid i'w neilltuo fel HTC swyddogol. Felly, nid oes gan Lwybrau Caniataol yr un hawliau cyfreithiol â HTC swyddogol, Gallai'r tirfeddiannwr osod cyfyngiadau penodol ar ddefnyddio lwybrau Caniataol. Er nad yw llwybrau Caniataol yn HTC swyddogol, maent yn ased gwerthfawr i'r rhwydwaith HTC, ac yn gwella mynediad i rwydwaith HTC a chefn gwlad Ynys Môn, lle nad oes HTC arall.

Mae cyfanswm o **25** llwybr Caniataol wedi'u cofnodi ar Ynys Môn yn ymestyn am tua **19 KM**. Mae dros 75% o lwybrau Caniataol Ynys Môn ar Lwybr Arfordir Ynys Môn.

Yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn ymdrechu i wella gwybodaeth am Lwybrau Caniataol a'i chynnwys ar system mapio ar lein ryngweithiol y Cyngor.

**3.2.8 Ffyrdd Diddosbarth**

Mae Ffyrdd Sirol Diddosbarth heb eu Hwynebu (FfSD) ('Ffyrdd Gwyn' neu 'Lonydd Gwyrdd') yn cyfeirio at 'ffordd, dreif neu lwybr' heb ei liwio a ddangosir ar Fapiau AO. Llwybrau nad ydynt yn rhai tarmac yw'r rhain a gynhelir gan Gyngor Sir Ynys Môn ac efallai bod ganddynt hawliau cerbydau modur. Ni chaiff FfSD ar Ynys Môn eu dangos ar y MaDS ond maent wedi'u rhestru ar "Rhestr Strydoedd" y Cyngor Sir, sy'n rhan o Restr Strydoedd Ynys Môn. Mae oddeutu 28 o FfSD heb wyneb ar Ynys Môn sy'n ymestyn am **12.8 KM**.

Mae tua chwech o'r llwybrau hyn yn ffyrdd oedd yn rhedeg gyda'r hen gerbydlon na chawsant eu cau pan adeiladwyd ffordd gerbyd newydd. Gan eu bod, ar y cyfan, yn fyr iawn ac o ddim defnydd, mae modd eu cau dan A116 DP 1980.

Gallai'r FfSD nad ydynt wedi'u hwynebu fod o bosib yn llwybrau gwerthfawr i lawer o ddefnyddwyr (e.e. marchogion). Fodd bynnag, nid oes fawr o wybodaeth am lwybrau o'r fath. Yn ddelfrydol, dylid ychwanegu'r rhain at y MaDS fel CAUD neu Gilffordd Gyfyngedig, ond rhaid dilyn gweithdrefn lawn GAMS ym mhob achos. Byddai cynnwys y llwybrau hyn ar system mapio ar lein y Cyngor yn adnodd buddiol iawn.

**3.2.9 Amcanion Trafnidiaeth Gynaliadwy**

Mae gan rwydwaith HTC Ynys Môn botensial sylweddol i gynnig dulliau teithio hyfyw a chynaliadwy, trwy hwyluso'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth nad ydynt yn rhai modur fel dewisiadau eraill hyfyw i fathau o drafnidiaeth modur. Er mwyn cael mwy allan o'r rhwydwaith, mae angen buddsoddiad sylweddol a gwelliannau strategol ar agweddau allweddol o'r rhwydwaith HTC. Nod CGHT 2 yw ymgorffori'r blaenoriaethau, nodau ac amcanion ar gyfer gwella a datblygu trafnidiaeth gynaliadwy ar Ynys Môn, sy'n cael eu hamlinellu ar Gynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (CTLl) 2015-2020 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Dyma'r materion allweddol y mae'r CTLl yn anelu i roi sylw iddynt:

- *"Diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy yn hytrach na char i gael mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill" a*

- *"Gwella cysylltiadau i gyrchfannau a marchnadoedd allweddol, gwella mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau, cynyddu lefelau cerdded a seiclo, gwella diogelwch a diogeledd ac ar yr un pryd dod â buddion a lleihau effeithiau ar yr amgylchedd".*

Yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn, mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn anelu at gael gwared ar rwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles trwy ddarparu rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol.

Trwy gynllunio effeithiol, buddsoddi a gweithredu mesurau gwella i rwydwaith HTC Ynys Môn, gallai'r rhwydwaith gyfrannu'n sylweddol at:

- Annog trigolion lleol ac ymwelwyr i ymgymryd â dulliau teithio mwy diogel, iachach a chynaliadwy.
- Gwell cysylltiadau a hygyrchedd i wasanaethau allweddol a safleoedd cyflogaeth, gyda mwy o gyfleoedd ar gael trwy wella'r seilwaith presennol a chreu llwybrau seiclo oddi ar y ffordd o ansawdd uchel, llwybrau aml-ddefnyddwyr, darparu llwybrau troed, llwybrau diogel i'r ysgol, cynllunio teithio i annog mwy o gerdded a seiclo (Teithio Llesol), ar gyfer siwrneiau cymudo byrrach.

Statudau / Dogfennau Cysylltiedig:

- **DTLl(C) 2013,**
- **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru 2015,**
- **Strategaeth Seiclo Cyngor Sir Ynys Môn 2013.**

**<u>Manteision Economaidd a Chymdeithasol</u>**

Gall rhwydwaith HTC sydd wedi'i reoli'n dda, wedi'i wella ac sy'n fwy integredig, roi mynediad mwy diogel a chyfleus i wasanaethau allweddol a safleoedd cyflogaeth ar Ynys Môn. Mae'r rhwydwaith HTC yn cynnig dull trafnidiaeth rhad ac am ddim, i bawb yn y gymdeithas ei ddefnyddio, ac mae'n allweddol wrth leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac achosion o eithrio. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cymunedau mwy difreintiedig ar Ynys Môn lle na all cyfran sylweddol o'r boblogaeth fforddio cerbydau modur preifat. Bydd y mentrau hyn yn gwella iechyd a lles poblogaeth Ynys Môn, trwy gynyddu'r cyfleoedd i ymarfer corff yn rheolaidd, a chysylltu â meysydd polisi trafnidiaeth allweddol ac iechyd a lles.

Statudau / Dogfennau Cysylltiedig:

- **DLlCD (C) 2015,**
- **DA 2010,**
- **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd 2011-2026,**
- **Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022,**
- **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru 2015**

**Manteision Amgylcheddol**

Dylid hyrwyddo manteision amgylcheddol teithio cynaliadwy i annog mwy o bobl i ddefnyddio rhwydwaith HTC Ynys Môn ar gyfer eu hanghenion trafnidiaeth trwy gerdded a seiclo. Bydd mwy o bobl mewn cymdeithas sy'n cymryd rhan mewn teithiau mwy cynaliadwy yn cyfrannu at fanteision amgylcheddol trwy leihau llygredd (allyriadau carbon) a thagfeydd traffig trwy leihau nifer y cerbydau modur ar ffyrdd Ynys Môn. Bydd y fenter hon yn cyfrannu at leihau effeithiau negyddol moduron ar yr amgylchedd lleol a byd-eang.

Statudau / Dogfennau Cysylltiedig:
- **DA (C) 2016**

**Sut gall Rhwydwaith HTC gyfrannu at gyflawni amcanion DTLl (C) 2013**




Un o'r asesiadau allweddol y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni at ddibenion CGHT 2 yw nodi ac amlinellu'r cyfleoedd y gall rhwydwaith HTC Ynys Môn eu cyfrannu at amcanion Teithio Llesol, fel yr amlinellwyd yn DTLl (C) 2013. Nod y Ddeddf hon yw hwyluso a cynyddu nifer y bobl sy'n mynd ar deithiau Teithio Llesol.

Mae DTLl (C) 2013 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i **fapio, cynllunio, hyrwyddo** a **gwella** llwybrau Teithio Llesol mewn ardaloedd penodol ar Ynys Môn.

Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau:

i.) llwybrau Teithio Llesol newydd,

ii.) gwelliannau i'r llwybrau presennol,

iii.) hyrwyddo teithiau Teithio Llesol.

Mae Teithio Llesol yn golygu bod pobl yn mynd ar deithiau wedi'u hanelu at ddibenion ymarferol a defnyddiol (i leoedd gwaith, ysgolion, siopau ac ati) trwy gerdded a seiclo fel dewisiadau eraill i gerbydau modur (ceir, bysiau ac ati).

Mae **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd Gogledd Cymru 2015** yn nodi y gellid mynd ar gyfran eithaf uchel o deithiau cymudo sy'n llai na 5 km trwy ddefnyddio dulliau teithio llesol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn anelu at gynyddu lefelau cerdded a seiclo mewn ardaloedd dynodedig yn Ynys Môn at ddibenion Teithio Llesol o gofio'r manteision niferus y mae'n ei roi i unigolion a'r gymdeithas ehangach, ac i gwrdd â nodau ac amcanion polisi ehangach a nodir gan Lywodraeth Cymru.

Manteision Teithio Llesol:
- Manteision iechyd a lles (trwy ymarfer corff a dewisiadau ffordd o fyw iach cyffredinol),
- Manteision economaidd (yn cyfrannu at roi sylw i dlodi, anghydraddoldebau ac eithrio cymdeithasol),
- Manteision amgylcheddol (lleihau traffig a llygredd aer).

Ceir cydnabyddiaeth eang bod rhwydwaith HTC Ynys Môn yn adnodd hamdden pwysig i drigolion ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'r rhwydwaith yn llai gwerthfawr ar hyn o bryd fel

ased a chyfrannwr i gwrdd ag amcanion trafnidiaeth gynaliadwy. Yn sicr, mae gan rwydwaith HTC Ynys Môn gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at gyflawni amcanion DTLl (C) 2013 ac amcanion trafnidiaeth gynaliadwy ehangach. Mae gan rwydwaith HTC Ynys Môn botensial sylweddol i greu rhagor o gyfleoedd i ddarparu llwybrau Teithio Llesol mwy diogel, cynaliadwy, oddi ar y ffordd. Mae'n hanfodol buddsoddi yn y tymor byr a'r tymor hir i wella rhwydwaith HTC Ynys Môn er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r rhwydwaith at ddibenion Teithio Llesol.

**'Mapiau Llwybrau Presennol'**

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn 2016, cynhyrchodd a chyflwynodd y Cyngor ein **Mapiau Llwybrau Presennol** ar gyfer ardaloedd dynodedig yn Ynys Môn. Mae'r mapiau hyn yn cynnwys llwybrau ar y ffordd ac oddi ar y ffordd (gan gynnwys rhannau o HTC), ar gyfer cerddwyr a beicwyr, ac sy'n cael eu hystyried yn addas i gwrdd â gofynion DTLl (C) 2013.

Mae'r saith anheddiad a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Caergybi
- Y Fali
- Amlwch
- Benllech
- Porthaethwy (yn cynnwys Llandegfan)
- Llanfairpwllgwyngyll
- Llangefni

Mae Mapiau Llwybrau Presennol ar gyfer yr ardaloedd hyn wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac maent ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor Sir.

**'Mapiau Rhwydwaith Integredig'**

Gofyn arall gan DTLl (C) 2013 yw i'r Cyngor gynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer y saith ardal ddynodedig a restrir uchod. Anfonwyd y Mapiau Rhwydwaith Integredig drafft i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017. Fodd bynnag, ni chawsant eu derbyn yn y cyflwyniad cyntaf a rhaid eu hailgyflwyno erbyn Awst 2018.

Roedd cynhyrchu'r mapiau hyn yn gyfle gwerthfawr i ddadansoddi a mapio rhannau o rwydwaith HTC Ynys Môn sydd ar hyn o bryd yn llwybrau Teithio Llesol o ansawdd uchel neu a allai fod yn addas (ar ôl gwelliannau penodol) i fod yn llwybrau o'r fath.

Byddai rhannau o rwydwaith HTC Ynys Môn yn elwa'n sylweddol ar gael grantiau ar gyfer gwelliannau o'r fath. Byddai sicrhau grantiau hefyd yn codi safon a hygyrchedd y rhannau hyn.

Dyma ffynonellau cyllid posib ar gyfer gwelliannau o'r fath:

- Y Gronfa Cludiant Lleol,
- Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd,
- Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

## 3.3 Asesu Anghenion Defnyddwyr

### 3.3.1 Ymgynghori â'r cyhoedd

Agwedd hanfodol ar CGHT 2 yw asesu i ba raddau y mae rhwydwaith HTC Ynys Môn yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd - **heddiw** ac yn y **dyfodol**. Er mwyn cyflawni'r asesiad allweddol hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad gan ddefnyddio tri holiadur ar lein wedi'u targedu. Rhoes yr Holiaduron gyfle i gael ystod eang ac amrywiol o safbwyntiau a barn y cyhoedd a phartïon â diddordeb. Mae'r adborth hwn wedi cyfrannu at lunio nodau ac amcanion CGHT 2.

Dyma oedd y tri holiadur:

i) Holiadur ar gyfer y Cyhoedd

ii) Holiadur ar gyfer Tirfeddianwyr

iii) Holiadur ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd a sefydliadau â diddordeb roi adborth ychwanegol i'r Cyngor trwy lythyr, e-bost, ffôn, a thros y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ehangu ymhellach ar faterion a themâu a godwyd yn yr holiaduron.

Gellir cael adroddiad llawn a chynhwysfawr ar ganlyniadau a dadansoddiad o'r holiaduron yma.

### 3.3.2 Anabledd a "Mynediad i Bawb"

Un o'r asesiadau statudol sy'n ofynnol ar gyfer CGHT 2 yw asesu hygyrchedd rhwydwaith HTC Ynys Môn ar gyfer pobl ag anableddau, gan gynnwys pobl sy'n ddall, yn rhannol ddall neu sydd ag anawsterau symudedd (defnyddwyr llai abl), a rhoi sylw dyladwy i ofynion DC 2010. Mae'r adran hon yn asesu anghenion defnyddwyr llai abl ac mae'n amlinellu sut y gellir gwneud gwelliannau allweddol i rwydwaith HTC Ynys Môn, er mwyn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr llai abl a'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhwydwaith ar hyn o bryd.

**DC 2010:**

*"Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl yn gyfreithlon rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Disodlodd ddeddfau gwrthwahaniaethu blaenorol ag un Ddeddf, gan wneud y gyfraith yn haws ei deall a chryfhau gwarchodaeth mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'n nodi'r gwahanol ffyrdd y mae'n anghyfreithlon i drin rhywun"* *(https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance).*

Mae DC 2010 yn pennu nifer o 'nodweddion gwarchodedig' sy'n cynnwys:

- oedran,
- rhyw,
- anabledd,
- ailbennu rhywedd,

- priodas a phartneriaeth sifil,
- beichiogrwydd a mamolaeth,
- hil,
- crefydd neu gred,
- tueddfryd rhywiol.

Mae DC 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn rhywun ar sail y 'nodweddion gwarchodedig' hynny. Mae Adran 149 DC 2010 yn cyflwyno 'dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus' sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir dan y Ddeddf.

**“Llwybrau Mynediad Hawdd”: Gwella gwaith rheoli strwythurau ar y rhwydwaith HTC**

Mae rheoli strwythurau’n briodol ar y rhwydwaith HTC yn hollbwysig wrth benderfynu pa mor hawdd yw cael at rannau o'r rhwydwaith a pha mor hawdd yw eu defnyddio' i rai mathau o ddefnyddwyr. Gall strwythurau ar y rhwydwaith fod yn rhwystrau sylweddol i rai mathau o ddefnyddwyr ac atal rhai pobl o fewn cymdeithas rhag defnyddio a mwynhau'r rhwydwaith HTC. Er enghraifft, gall camfeydd fod yn strwythurau cyfyngol iawn i lawer o ddefnyddwyr llai abl. Mae giatiau mochyn yn llai cyfyngol na chamfeydd ond fe all fod yn rhwystr i bobl sy'n defnyddio cadeiriau gwthio neu gadeiriau olwyn.

Gall strwythurau gael effaith ar hygyrchedd y rhwydwaith HTC i:

i.) **Bobl anabl**: gan gynnwys y rhai â symudedd cyfyngedig a / neu nam ar y golwg.


ii.) y rhai sy'n defnyddio **cadeiriau gwthio**

iii.) Pobl **hŷn** neu bobl **ifanc** iawn.

Felly mae'n hanfodol gweithredu’n gyfannol ac ystyried anghenion defnyddwyr llai abl bob amser wrth awdurdodi strwythurau newydd neu wrth wneud gwelliannau i'r rhwydwaith HTC er mwyn lleihau'r rhwystrau ffisegol. Bydd gweithredu’n gyfannol fel hyn wrth reoli HTC yn sefydlu rhwydwaith HTC sy'n fwy hygyrch a chynhwysol.

Agwedd sylfaenol ar reoli strwythurau ar y rhwydwaith HTC yw gweithredu'r **'Polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol'**. Mae'r polisi hwn yn golygu gosod y math lleiaf cyfyngol o strwythur sy'n ymarferol bosib ar y rhwydwaith pan fyddir yn gosod strwythurau newydd, newid strwythurau presennol neu’n gwneud gwelliannau cyffredinol i'r rhwydwaith:

| Egwyddorion Polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol y Cyngor (Yn ôl trefn y strwythur a ffefrir) |
|---|
| 1.) **Bwlch:** yr opsiwn mwyaf ffafriol a'r strwythur o'r math lleiaf cyfyngol |
| 2.) **Giât cerddwyr:** math o strwythur a ffefrir, yn rhoi mynediad hawdd i ddefnyddwyr |
| 3.) **Giât Mochyn:** caiff ei ffafrio, fodd bynnag gallai rhai defnyddwyr gael anawsterau wrth ddefnyddio giatiau mochyn, (megis defnyddwyr cadeiriau olwyn neu gadeiriau gwthio). |
| 4.) **Camfa:** yr opsiwn a ffefrir leiaf a hwn yw'r strwythur o'r math mwyaf cyfyngol. Fel arfer ni chaiff camfa ei chaniatáu ar HTC sydd newydd ei greu. Ni fydd camfa'n cael ei gosod ar y rhwydwaith onid yw hi'n amhosib neu'n anymarferol gosod pob math arall o strwythur a bod y Cyngor wedi methu dod i gytundeb â'r tirfeddiannwr. |




Wrth weithredu'r Polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol hwn, mae angen cydbwysedd rhwng cwrdd â chyfarwyddyd ac ystyried gofynion y tirfeddiannwr a'r deilydd tir (megis cadw anifeiliaid i mewn) yn ogystal ag arwyddocâd hanesyddol rhai strwythurau (hen gamfeydd / giatiau carreg o ddyluniad lleol nodweddiadol) sydd ar y rhwydwaith.

Ffordd effeithiol o wella hygyrchedd y rhwydwaith HTC yw ymrwymo i gytundebau gyda thirfeddianwyr / deiliaid tir dan **Adran 147ZA** DP 1980. Mae'r mathau hyn o gytundebau yn fodd i'r Cyngor ddisodli'r strwythurau presennol â mathau llai cyfyngol, er mwyn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr llai abl.

Pan fydd tirfeddiannwr / deilydd tir yn gofyn am strwythur newydd dan adran 147 DP1980 (gweler 3.2.2) bydd y Cyngor ond yn caniatáu gosod gatiau mochyn a giatiau cerddwyr, i sicrhau hygyrchedd da.

**<u>Gwella wynebau HTC</u>**

Yn ogystal â rheoli strwythurau ar y rhwydwaith yn briodol, mae gwella arwynebau HTC hefyd yn gyfraniad pwysig i wella hygyrchedd i bob defnyddiwr, yn enwedig defnyddwyr llai abl. Mae adran 62 DP 1980 yn rhoi pŵer gwella cyffredinol i'r Cyngor er mwyn gwneud gwelliannau i wyneb unrhyw briffordd. Mae'r gwelliannau a wneir i wynebau HTC yn hanfodol gan y gall math y wyneb a'r graddiant fod yn rhwystr mawr i ddefnyddwyr llai abl.

Dyma mathau'r gwelliannau i wyneb sy'n fantais sylweddol i ddefnyddwyr llai abl:

- Lledu (yn arbennig o bwysig ar gyfer 'llwybrau aml-ddefnyddiwr')
- Gwella ansawdd y wyneb i ddarparu wynebau cadarn a gwastad (trwy darmacio / concritio) sydd wedi'u draenio'n dda ac yn rhydd o fwd.

Bydd darparu mwy o lwybrau mynediad hawdd neu lwybrau di-gamfa ar Ynys Môn, sydd wedi'u hwynebu'n ddigonol, yn creu rhwydwaith HTC mwy hygyrch a chynhwysol a fydd o fudd i bob math o ddefnyddiwr.

**Dadansoddi graddiant y rhwydwaith HTC**

Yn 2017 comisiynwyd ymgynghorydd i gynnal dadansoddiad o raddiant rhwydwaith HTC Ynys Môn. Gwnaed hyn trwy ymarfer bwrdd gwaith gan ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS). Mae data'r graddiant wedi'i fewnforio i'n cronfa ddata HTC. Mae sefydlu graddiant y rhwydwaith yn bwysig gan y bydd cael topograffi / wyneb sy'n ddigon gwastad a bas yn arbennig o fudd i bobl nad ydynt yn medru symud llawer (yn enwedig y rheiny sy'n ddibynnol ar gadair olwyn), a'r rhai sy'n ddall neu'n rhannol ddall. Bydd defnyddio'r data hwn, ynghyd â data ar strwythurau, yn fodd i nodi llwybrau sydd neu a allai (ar ôl gwelliannau) fod yn addas ar gyfer mynediad i'r llai abl a bod yn llwybrau mynediad hawdd o ansawdd uchel.

Nid oes gan y Cyngor gofnod cyflawn o fathau wyneb y llwybr yn ein cronfa ddata, felly, mae'n debyg y bydd angen cynnal arolygon ychwanegol cyn y gellir rhyddhau gwybodaeth lawn am 'lwybrau mynediad hawdd'.

## 3.3.3 Gwella iechyd a lles

Mae yna dystiolaeth aruthrol o wahanol ffynonellau o'r manteision sylweddol y gall yr amgylchedd naturiol ac ymarfer corff rheolaidd eu rhoi yng nghyswllt iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl. Yn ôl gwefan Galw Iechyd Cymru, mae pobl sy'n ymarfer yn gorfforol ac yn rheolaidd yn llai tebygol o fod mewn perygl o ddatblygu nifer o glefydau cronig, megis: clefyd y galon, diabetes math 2, strôc a rhai mathau o ganser. Dengys gwaith ymchwil hefyd y gall gweithgaredd corfforol rheolaidd roi hwb i hunan-barch, hwyliau, ansawdd cysgu ac egni, yn ogystal â lleihau'r risg o straen ac iselder.

Mater iechyd o bwys sy'n wynebu'r DU, ac yn wir Cymru, yw nifer gynyddol y bobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew, ac mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau a gwasanaethau megis y GIG. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016-17) yn nodi bod 59% o oedolion (16 oed a throsodd) yng Nghymru naill ai dros eu pwysau neu'n ordew. Gall gweithgaredd corfforol rheolaidd, megis cerdded a seiclo, helpu pobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew i leihau eu pwysau, a lleihau'r risg o ddatblygu llawer o broblemau iechyd y gall y ffaith eu bod dros eu pwysau neu'n ordew eu hachosi.

O gofio toreth y dystiolaeth sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweithgaredd corfforol rheolaidd ar ein hiechyd a'n lles corfforol a meddyliol, mae gan amgylchedd naturiol a rhwydwaith HTC Ynys Môn, yn sicr, rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu cyfleoedd a manteision iechyd a lles o'r fath. Gyda buddsoddiad a gwelliannau strategol, mae gan rwydwaith HTC fwy o botensial i wella ansawdd bywyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd a chreu cymdeithas fwy gweithgar ac iachach. Bydd cael mwy o bobl yn cerdded a seiclo yn hytrach na defnyddio modur preifat yn rhoi llawer o fanteision amgylcheddol, trwy leihau llygredd aer a thagfeydd yn sgil cerbydau modur.

Mae rhwydwaith HTC sydd wedi'i reoli'n dda, wedi'i wella ac sy'n fwy hygyrch yn debygol iawn o gynyddu nifer y bobl fydd yn defnyddio'r rhwydwaith i wella eu hiechyd a'u lles personol, a byddant yn cyfrannu at gyflawni nodau iechyd a lles ehangach. Mae gwelliannau o'r fath yn arbennig o bwysig mewn cymunedau mwy difreintiedig ar Ynys Môn, gan fod rhwydwaith HTC yn darparu adnodd am ddim.

Mae cynyddu nifer y **llwybrau aml-ddefnyddwyr** sy'n hygyrch i bawb, gan gynnwys marchogion, seiclwyr, defnyddwyr llai abl a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr, yn hollbwysig i roi rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r rhwydwaith HTC er iechyd a lles pobl.

Mae CGHT 2 yn ymdrechu i gyflawni nodau ac amcanion iechyd a lles ehangach yn strategol mewn cydweithrediad â deddfwriaethau a pholisïau eraill fel y nodir yn Adran 'Cyd-destun Polisi' y ddogfen hon. Lle bo modd, bydd y Cyngor yn anelu at ddiogelu, gwella a hyrwyddo'r rhwydwaith HTC er mwyn gwella diogelwch, hygyrchedd, a chynyddu manteision iechyd, hamdden a lles i bawb yn y gymdeithas.

**Sut mae CGHT 2 yn cysylltu ag amcanion iechyd a llesiant ehangach?**

Mae yna lawer o fentrau iechyd a lles ehangach wedi'u hamlinellu a'u hyrwyddo gan Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig, Awdurdodau Lleol Cymru, sefydliadau cenedlaethol a lleol ac ymgyrchoedd sy'n anelu at wella iechyd a lles y genedl. Nod y rhain yw hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach trwy gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol rheolaidd er mwyn cael cymunedau iachach a mwy gwydn.

**Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Nod CGHT 2 yw cyflawni nodau ac amcanion, a amlinellir yn y ddeddfwriaeth berthnasol fel **DLlCD (C) 2015**. Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a gweithredu'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gynllunio yn y tymor hir, gweithio'n agosach â phobl a chymunedau a bod yn fwy cyfannol ei ffordd; a mynd i'r afael â materion fel newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd, diffyg cyflogaeth a thwf economaidd. Nod y Cyngor yw creu rhwydwaith HTC sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb, cryfhau cydlyniad cymdeithasol a gwella iechyd a lles cenedlaethau'n gynaliadwy – heddiw ac yn y dyfodol.

Mae DLlCD (C) 2015 wedi rhoi saith o 'nodau lles' ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn:

- 
- Cymru **lewyrchys**
- Cymru **gydnerth**
- Cymru **iachach**
- Cymru fwy **cyfartal**
- Cymru o **gymunedau cydlynus**
- Cymru o **ddiwylliant bywiog** a **iaith Gymraeg sy'n ffynnu**
- Cymru sy'n **gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn (2017-2022)

Nod y Cynllun hwn yw creu cymunedau ar Ynys Môn sy'n "iach, ffyniannus a llewyrchus". Nod CGHT 2 yw cyfrannu tuag at y nodau hyn.

**Dewch i Gerdded Cymru**

Rhaglen gerdded sy'n ymestyn ledled Cymru gyfan yw *Dewch i Gerdded Cymru*. Mae'r rhaglen yn cael ei rhedeg gan Ramblers Cymru ac fe'i hariennir trwy grant gan Lywodraeth Cymru. Nod y rhaglen yw sicrhau bod poblogaeth Cymru yn iachach ac yn fwy egnïol trwy gerdded yn rheolaidd. Mae eu gwefan yn galluogi trigolion Ynys Môn ac ymwelwyr chwilio am deithiau cerdded lleol, a lawrlwytho ac argraffu gwybodaeth a mapiau o wahanol lwybrau dethol. Gall trigolion ac ymwelwyr Ynys Môn drefnu'r teithiau cerdded eu hunain neu ymuno â grŵp sydd wedi'i drefnu / teithiau tywys a gynhelir yn rheolaidd ar draws Ynys Môn. Mae rhwydwaith HTC Ynys Môn yn rhan annatod o'r rhaglen gerdded hon.

**Newid am Oes (Cymru)**

Ymgyrch iechyd genedlaethol yng Nghymru a Lloegr yw *Newid am Oes*. Yng Nghymru, fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o roi cyngor a chymorth gwerthfawr i boblogaeth Cymru i wella eu hiechyd a'u lles.

Un o'r prif fentrau sy'n ymestyn o'r ymgyrch yw *Cerdded am Oes* sy'n hyrwyddo manteision cerdded yn rheolaidd i wella iechyd a lles personol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y rhwydwaith HTC rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyflawni'r nodau a amlinellir mewn ymgyrchoedd o'r fath. Yn wir, mae Llwybr Arfordir Cymru (a Llwybr Arfordir Ynys Môn) yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ar wefan *Newid am Oes* fel modd o wella iechyd a lles trwy gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd.

**Cynghrair Iechyd Ynys Môn**

Nod Cynghrair Iechyd Ynys Môn yw gwella iechyd ac ansawdd bywyd pobl Ynys Môn. Arweinir Cynghrair Iechyd Ynys Môn gan y Cyngor er mwyn cymryd cyfrifoldeb corfforaethol am gydlyniad ei wasanaethau ei hun a thynnu ar gyfraniadau'r GIG ac eraill gan gynnwys gwasanaethau nyrsio cymunedol ac ysgolion, timau cyffuriau ac alcohol lleol, partneriaethau adfywio cymunedol, cynghorau gwirfoddol, sirol, lleol ac aelodau o gynlluniau atal troseddu / diogelwch cymunedol, lleol i ategu rhaglenni cydlynol a chynhwysfawr o weithgareddau gwella iechyd. Dylai Cynghrair Iechyd Ynys Môn hwyluso gwaith amlddisgyblaethol lleol ar draws yr holl swyddogaethau iechyd cyhoeddus. Gall y rhwydwaith HTC gyfrannu at gwrdd â rhai o amcanion y Gynghrair Iechyd.

Ariennir y Gynghrair gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o:

- Sawl adran o'r Cyngor
- Medrwn Môn
- Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru
- Cyngor Iechyd Cymunedol Ynys Mōn
- Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gynyddu manteision iechyd a lles rhwydwaith HTC Ynys Môn. Bydd HTC o ansawdd gwell, mwy hygyrch ac wedi'i gysylltu'n well, ynghyd â phartneriaeth a chydweithrediad cryfach rhwng y Cyngor a sefydliadau a mudiadau perthnasol, yn cyfrannu at gymdeithas fwy gweithgar, iachach a mwy cyfartal.

**3.3.4 Rhoi sylw i Brinder Llwybrau Ceffylau ar Ynys Môn**

Yn 2004, cynhyrchodd Cyngor Sir Ynys Môn Strategaeth Llwybrau Ceffylau. Pwrpas y strategaeth hon oedd rhoi trosolwg o gyflwr presennol y rhwydwaith llwybrau ceffylau ar

Ynys Môn a darparu sail ar gyfer dull systematig o wella llwybr ceffylau a darpariaeth marchogaeth ar draws yr ynys, yn unol ag amcanion Cyngor Sir Ynys Môn.

Yr hyn yr oedd gweithredu'r strategaeth yn ceisio'i wneud oedd:

- Yn y tymor canolig, datblygu a gweithredu tri llwybr ceffylau cylchol erbyn 2006; ac
- Yn y tymor hir, datblygu rhwydwaith o lwybrau ceffylau ar draws yr arfordir.

Nodwyd tri maes gwaith penodol y mae angen eu gwneud os bydd rhwydwaith o lwybrau marchogaeth i'w sefydlu. Dyma'r rhain:

- Ymchwil Hanesyddol
- Prosiect Ffyrdd Tawel, a
- Creu Llwybrau Newydd

Oherwydd prinder adnoddau, ychydig o gynnydd a gafwyd o ran cyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth i wella'r ddarpariaeth ar gyfer marchogion ar Ynys Môn.

Bu cynnydd cymedrol yng nghyfran y rhwydwaith HTC y gall marchogion ei defnyddio ers cyhoeddi'r CGHT cyntaf. Mae hyd Llwybrau Ceffylau, Cilffyrdd Cyfyngedig a Chilffyrdd Cyfyngedig Agored i Unrhyw Draffig a gofnodwyd ar y MaDS wedi codi o **6.6 KM** yn 2004 i **15.3 KM** yn 2018. Daeth y cynnydd hwn yn bennaf yn sgil GAMS a wnaed ar sail gwaith ymchwil hanesyddol ac un cytundeb creu.

Mae amcanion strategaeth 2004 yn parhau'n berthnasol ac yn bwysig ac fe'u hadlewyrchir yn y Datganiad Gweithredu newydd.

### 3.3.5 Cyfleu gwybodaeth am HTC a mynediad

Mae'r ffordd y mae pobl yn cael gwybodaeth am rwydwaith HTC Ynys Môn a chyfleoedd mynediad ehangach wedi gwella'n sylweddol ers cyhoeddi'r CGHT cyntaf ym Môn. Mae technolegau modern ac atebion ar lein wedi bod yn allweddol i gyflawni hyn. Er 2012, un o'r prif ffyrdd o roi gwybodaeth am fynediad i'r cyhoedd yw trwy system mapio ar lein rhyngweithiol yn https://publicrightsofway.anglesey.gov.uk/web/standardmap.aspx Mae'r cyfleuster hwn yn fodd i'r cyhoedd weld HTC a Llwybrau Seiclo ar yr un mapiau Arolwg Ordnans cyfredol, cael rhifau llwybr a statws, edrych ar fathau'r strwythurau sydd ar bob llwybr (camfeydd, gatiau, pontydd, ac ati) a hefyd edrych ar Dir Mynediad sydd wedi'i fapio.

Ym mis Chwefror 2018, uwchraddiwyd gwefan ryngweithiol y Cyngor i fod yn fwy cydnaws â ffonau clyfar a thabledi (gan gynnwys cyfleuster GPS). Hefyd, ychwanegodd gyfleuster argraffu o dempled, a chyflwynodd ffordd i'r cyhoedd adrodd ar faterion a gafwyd ar rwydwaith HTC Ynys Môn (gan gynnwys gweld a diweddaru gwybodaeth am faterion a gofnodir yn y gronfa ddata).

Os yw'n ymarferol, bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddatblygu'r safle rhyngweithiol ar lein ymhellach yn y dyfodol i gynnwys gwybodaeth am lwybrau hyrwyddol, mathau eraill o fynediad llinol (llwybrau caniataol, ffyrdd sirol heb wyneb), a gwybodaeth am hygyrchedd llwybrau a 'llwybrau mynediad hawdd'. Trwy ychwanegu haenau ychwanegol o wybodaeth

am ffactorau fel mathau o wyneb, bydd graddiannau a lled yn fodd i ddefnyddwyr llai abl nodi llwybrau addas i'w defnyddio.

Yn ogystal â datblygu'r wefan mapio rhyngweithiol ymhellach, ystyrir bod angen gwella ymhellach y wybodaeth destunol sydd ar gael ac sy'n ymwneud â HTC ar ein gwefan. Y pynciau a nodwyd yw:

| **Pwnc** | **Mater** |
|---|---|
| Polisïau HTC | Mae angen casglu'r rhain, eu cyhoeddi ar lein a'u diweddaru'n rheolaidd |
| Ffurflenni cais a nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus, Gorchmynion Addasu Mapiau Swyddogol, Gorchmynion Cau Dros Dro | Nid ydynt ar gael ar lein ar hyn o bryd ond fe'u hanfonir drwy e-bost ar gais. Byddai sicrhau eu bod ar gael ar lein o fudd i bawb. |
| Cofrestrau o Geisiadau am Orchymyn Addasu Mapiau Swyddogol, ceisiadau am Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus, deponiadau dan adran 31 (6) DP 1980 | Mae'n ofyniad statudol cyhoeddi'r cofrestrau hyn ar lein, ond nid yw Ynys Môn wedi eu diweddaru er tua 7 mlynedd |

# 4. Datganiad Gweithredu

## 4.1 Trosolwg

Mae'r Datganiad Gweithredu'n amlinellu ymrwymiadau strategol eang y Cyngor tuag at gwrdd â'r anghenion a datblygu cyfleoedd a nodwyd yn yr asesiadau. Awgryma canllawiau CGHT mai nodau tymor hir a strategol digonol yn unig y dylid eu cynnwys ac sy'n annhebygol o ddarfod yn oes deng mlynedd y CGHT.

Mae angen cynnwys ymrwymiadau tymor byr neu dymor canolig yn y Cynlluniau Cyflawni fydd yn atodiad i'r CGHT (gweler 4.3 isod).

## 4.2 Y Datganiad Gweithredu

| **Rhif** | **Gweithred** | **Nodau ac Amcanion** |
|---|---|---|
| DG1 | Gwella Systemau Rheoli'r HTC | • Sefydlu hierarchaeth o lwybrau fel y gellir targedu ein hadnoddau lle maent yn fwyaf tebygol o ddiwallu anghenion y cyhoedd |

| Rhif | Gweithred | Nodau ac Amcanion |
|---|---|---|
| | | • Blaenoriaethu achosion Gorchymyn Addasu Map Swyddogol yn unol â'r polisi diwygiedig<br><br>• Cynyddu nifer yr erlyniadau am rwystro / ymyrraeth anghyfreithlon a gwella'r ffordd yr ydym yn ymdrin â nhw<br><br>• Gwella trefniadau strimio llwybrau trwy adolygu'r system bresennol gyda Chynghorau Tref a Chymuned<br><br>• Annog cymunedau lleol a gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn gwaith cynnal a chadw a rheoli llwybrau'n rheolaidd |
| DG2 | Gwella cyflwr yr HTC a'r rhwydwaith mynediad ehangach | • Cynyddu cyfran y rhwydwaith sy'n hawdd ei defnyddio<br><br>• Gwella hygyrchedd Tir Mynediad trwy wella cysylltiadau llwybr ato a gwella 'mannau mynediad' lle bo angen |
| DG3 | Gwella cyfleoedd ar gyfer mynediad i farchogion | • Cynyddu hyd llwybrau ceffylau, llwybrau troed cyfyngedig a CAUD ar y MaDS fel cyfran o'r rhwydwaith HTC cyfan<br><br>• Sefydlu llwybrau ceffylau cylchol |
| DG4 | Parhau i gefnogi gwaith datblygu Llwybr Arfordir Ynys Môn. | • Cynnal ein gwelliannau parhaus fel bod y llwybr yn cwrdd â safonau Llwybr Arfordir Cymru<br><br>• Lle bo hynny'n ymarferol, lleihau rhannau sydd ar y ffordd a darparu llwybr mwy 'arfordirol' |
| DG5 | Gwella'r gwaith lledaenu gwybodaeth am HTC Ynys Môn | • Datblygu rhagor ar system mapio rhyngweithiol y Cyngor i gynnwys llwybrau hyrwyddo, llwybrau cylchol, |

| Rhif | Gweithred | Nodau ac Amcanion |
|---|---|---|
| | a'i Rhwydwaith mynediad ehangach. | ffyrdd sirol heb wyneb, llwybrau caniataol a llwybrau mynediad hawdd.<br><br>● Gwella gwybodaeth arall am y wefan, gan gynnwys cyhoeddi polisïau HTC, ffurflenni cais amrywiol a chofrestri statudol (sy'n ofynnol dan DCGHT 2000). |
| DG6 | Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac amcanion trafnidiaeth gynaliadwy | ● Gwneud gwelliannau i HTC yn saith ardal ddynodedig Ynys Môn a nodwyd ar y Map Llwybrau Integredig er mwyn cwrdd â'r amcanion hyn.<br><br>● Hyrwyddo rhwydwaith HTC Ynys Môn fel modd ymarferol o drafnidiaeth gynaliadwy i leihau dibyniaeth ar gerbyd modur preifat a hyrwyddo manteision amgylcheddol. |
| DG7 | Darparu mwy o 'Lwybrau Mynediad Hawdd' i gynorthwyo defnyddwyr llai abl a gwella a hyrwyddo'r rhwydwaith HTC yn strategol i roi manteision iechyd a lles i'r cyhoedd. | ● Cynorthwyo pobl â phroblemau symudedd<br><br>● Nodi, blaenoriaethu, a chynllunio'n strategol ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith HTC a fydd yn gwella iechyd a lles trigolion Ynys Môn.<br><br>● Hyrwyddo manteision iechyd a lles rhwydwaith HTC Ynys Môn. |

### 4.3 Trefniadau ar gyfer Cynlluniau Cyflawni

Rhaid i'r Cynlluniau Cyflawni gynnwys y darnau hyn:

1. Gwerthusiad o gynnydd wrth gyflawni'r CGHT a chynlluniau gweithredu blaenorol (nad yw'n berthnasol ar gyfer Cynllun Cyflawni cyntaf CGHT2)
2. Adolygiad o bolisïau ar gyfer rheoli HTC.
3. Cynlluniau gwaith SMART (Penodol, Mesuradwy, y Cytunwyd arnynt, Realistig, wedi'u Seilio ar Amser) yn nodi ac yn gosod allan y tasgau y mae eu hangen i gyflawni prif nodau'r Datganiad Gweithredu er mwyn rheoli a gwella'r rhwydwaith yn well dros y cyfnod cyflawni.

Mae'r Cynllun Cyflawni cyntaf i'w weld yn Atodiad 3 ac mae'n cynnwys y cyfnod 2018/19 - 2021/22.

Y bwriad yw adolygu ac adnewyddu Cynlluniau Cyflawni o fewn tair i bedair blynedd, mewn ymgynghoriad â Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn. Y bwriad yw adrodd i'r Fforwm hwn ar gynnydd bob blwyddyn. Cyhoeddir y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a Chynlluniau Cyflawni ar wefan y Cyngor.

Atodiad 1 – Rhestr Ymgynghori

- Cynghorau Cymuned a Thref
- Aelodau Lleol Cyngor Sir Ynys Mon (Cynghorwyr)
- Aelodau Fforwm Mynediad Lleol Ynys Mon
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas y Cerddwyr (Grwp Ynys Mon)
- British Horse Society
- Open Spaces Society
- The Byways and Bridleways Trust
- Cycling UK
- Sustrans Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Gendeloaethol
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Country Land and Business Association (CLA)
- Taran
- Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
- NFU Cymru
- British Mountaineering Council (BMC)

## **Atodiad 2**: Gwerthuso Gwaith Cyflawni CGHT blaenorol a gwariant grant CGHT

### Cynnydd ar Ddatganiad Gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) 1 2008-2018



| Cyf | Gweithred | Dyddiad Targed | Cynnydd hyd at Chwefror 2018 |
|---|---|---|---|
| M1 | Y broses o flaenoriaethu llwybrau yn cael ei chyflawni trwy ymgynghoriad parhaus â rhanddeiliaid gwybodus. Cynnal a chadw'r hawliau tramwy hyn wedyn yn cymryd blaenoriaeth dros lwybrau y defnyddir llai arnynt. | 2012 | Mae is-grŵp o'r Fforwm Mynediad Lleol wedi ystyried rhai ardaloedd cynghorau cymuned. Dynodwyd blaenoriaeth , megis "Blaenoriaeth uchaf", "Blaenoriaeth Ganolig", "Blaenoriaeth Isel" neu "Ychydig neu ddim Blaenoriaeth" i gysylltiadau llwybrau. Cafodd 559 o 2948 o gysylltiadau llwybr eu graddio (19%). Ni chwblhawyd y broses oherwydd y llwyth gwaith uchel dan sylw. |
| M2 | Gwaith cynnal hawliau tramwy cyhoeddus yn cyrraedd ffigwr interim o 65% o'r holl lwybrau sy'n agored ac yn hygyrch erbyn 2012. | 2012 | 2005/06 – Ystyriwyd bod 46.9% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2006/07 – Ystyriwyd bod 53.1% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2007/08 – Ystyriwyd bod 47.0% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2008/09 - Ystyriwyd bod 54.8% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2009/10 – Ystyriwyd bod 51.3% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2010/11 – Ystyriwyd bod 58.7% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2011/12 – Ystyriwyd bod 58.7% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2012/13 – Ystyriwyd bod 66.2% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br>2013/14, 2014-15, 2015-16 - ni chynhaliwyd yr un arolwg<br>Blwyddyn galendr 2017– Ystyriwyd bod 62.8% o HTC yn 'hawdd i'w defnyddio'<br><br>Er na chyrhaeddwyd y targed 65% erbyn 2012 cafwyd gwelliant sylweddol yng nghanran y llwybrau sy'n pasio'r prawf rhwyddineb defnyddio. |
| M3 | Parhau i gynnal a chadw ar hyd gweddill y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus | Parhaus | Caiff hyn ei wneud ond nid oes modd mesur y pwynt gweithredu |
| M4 | Safonau newydd i'w gweithredu mewn perthynas â dodrefn llwybrau troed a'u gosod | Parhaus | Dilynir Safon Brydeinig BS 5709:2001 'Bylchau, giatiau a chamfeydd —Manyleb' yn y rhan fwyaf o achosion. Byddai hefyd o fudd cynhyrchu dogfen safonau gyda dimensiynau gosod a chyfarwyddiadau adeiladu/gosod ar gyfer y mathau mwyaf cyffredin o strwythurau. |
| M5 | Archwiliadau i'w cyflawni ar ôl cwblhau'r holl waith llwybrau i sicrhau bod pob contractwr yn glynu wrth y safonau. | Parhaus | Caiff hyn ei wneud yn y rhan fwyaf o achosion |

| Cyf | Gweithred | Dyddiad Targed | Cynnydd hyd at Chwefror 2018 |
|---|---|---|---|
| M6 | Dechrau astudiaeth o ran effeithiolrwydd posib ariannu tirfeddianwyr / tenantiaid yn uniongyrchol iddynt reoli a chynnal llwybrau ar eu tir. | 2009 | Heb ei weithredu |
| M7 | Dylid ystyried canllawiau 'Trwy'r Holl Ddulliau Rhesymol' wrth wneud gwaith ar bob llwybr; a phryd bynnag y bo modd, dylid gwneud llwybrau mor hawdd i'w defnyddio â phosib. | Parhaus | Ni ddilynir y canllawiau ym mhob achos ar hyn o bryd a rhaid trefnu hyfforddiant i staff ar y pwnc |
| M8 | Archwiliadau cyffredinol i godi o sampl ar hap o 5% y flwyddyn i 7.5-10% y flwyddyn | Parhaus | Cynhelir archwiliad sampl ar hap o 7.5% o Hawliau Tramwy yn flynyddol rhwng 2008/09 a 2012/13. Ar ôl hyn, nid oedd yn orfodol bellach cyflwyno ffigwr Dangosydd Perfformiad Hawliau Tramwy blynyddol i Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, a thoriadau yn yr Adran Hawliau Tramwy, nid yw bellach yn bosib cynnal archwiliad o'r sampl blynyddol. |
| M9 | Gosod meddalwedd rheoli llwybrau | 2009 | Gosodwyd meddalwedd 'System Rheoli Mynediad i'r Cefn Gwlad' (CAMS) yn 2009 ac mae ar gael i holl staff Hawliau Tramwy. Prynwyd hefyd fersiwn o'r un feddalwedd sy'n rhedeg ar gyfrifiaduron tabledi yn y maes yn 2014. |
| I1 | Dylid rhoi blaenoriaeth i waith datblygu llwybr yr arfordir yn llwybr o bwys cenedlaethol a sicrhau bod digon o gyllid a staff ar gael i gyrraedd y nod hwn. | Parhaus | Sicrhawyd arian dros dro hyd at 2022 fel rhan o brosiect Llwybr Arfordir Cymru. Dechreuodd Swyddog Rhanbarthol Llwybr Arfordir Cymru (Gogledd) a gyflogir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2017 ac mae'r swydd yn ddiogel tan o leiaf 2022. |
| I2 | Gwaith gwella i'w wneud ar hyd y cyfan o Daith y Ddau Oleudy, gyda sicrhau mynediad hawdd yn cael blaenoriaeth. | 2018 | Gwnaed rhai gwelliannau gyda grant CGHT yn 2008/09 ond mae angen gwaith pellach, yn enwedig o ran sicrhau mynediad hawdd. |
| I3 | Gwella a hyrwyddo 10 o deithiau cylchol newydd sy'n cysylltu llwybr yr arfordir â diddordeb hanesyddol, diwylliannol, daearegol ac ecolegol. Lle bynnag y bo modd, dylai'r rhain gysylltu â chanolfannau poblogaeth. | 2018 | Sefydlwyd pum Taith Gerdded Treftadaeth newydd yn ne-orllewin Ynys Môn yn 2009 (Dwynwen, Llewod, Maelog, Menai, Rhosyr). Hefyd, sefydlwyd taith gerdded ac iddi thema archeolegol ym Mrynsiencyn / Llangaffo yn 2010 |
| I4 | Creu tri llwybr cylchol newydd i farchogaeth ceffylau ac sydd oddi ar y ffordd, gan ganolbwyntio ar ardaloedd sydd eisoes yn boblogaidd gyda marchogaeth, ac sydd â seilwaith yn ei le er mwyn cael cynnyrch cynaliadwy. | 2012 | Heb ei weithredu |

| Cyf | Gweithred | Dyddiad Targed | Cynnydd hyd at Chwefror 2018 |
|---|---|---|---|
| 15 | Cynnal ymarfer cwmpasu i ganfod llwybrau beicio newydd posib oddi ar y ffyrdd. Dylai hyn, fel hanfod, gynnwys y posibilrwydd o geffylau’n defnyddio llwybrau beicio. | 2009 | Heb ei weithredu |
| I6 | Bydd y Cyngor yn gweithio i ddarparu llwybrau hawdd cael atynt mwy hygyrch, yn enwedig yn y canolfannau poblogaeth ac o'u cwmpas. Bydd ardaloedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Isaf Cymru (MALIC) yn cael eu targedu fel blaenoriaeth. | 2018 | Nid yw MALIC wedi'i dargedu eto. Wardiau isaf MALIC yw: -<br>Tudur, Maeshyfryd (Llangefni)<br>Morawelon, Ffordd Llundain, Tref Caergybi, Porthyfelin, Kingsland (Caergybi)<br>Porth Amlwch<br>Bryngwran, |
| BE1 | Creu partneriaethau â sefydliadau cadwraeth, ac felly greu amgylchedd o feddwl cyson a fydd o fudd i'r ddwy ochr. | Parhaus | Partneriaethau eisoes yn bodoli ond gellid eu datblygu ymhellach |
| BE2 | Bydd y cyngor yn dod yn aelod rhagweithiol o grwpiau sy'n datblygu'r cysylltiad rhwng mynediad a chadwraeth, e.e. Strategaeth Rhostiroedd a Phrosiectau Graddfa Tirwedd | Parhaus | Mae hyn yn digwydd |
| BE3 | Bydd pob llenyddiaeth a dehongliad newydd yn rhoi neges gref am Gôd Cefn Gwlad ac ymwybyddiaeth o’r amgylchedd. | Parhaus | Caiff hyn ei wneud |
| BE4 | Glynu wrth y safonau o ran defnyddio dodrefn llwybrau cynaliadwy, a rhoi mwy o bwyslais ar estheteg gwaith a wnaed. | Parhaus | Safonau heb eu cofnodi eto. Gellid eu hysgrifennu ar y cyd â phwynt gweithredu M4. |
| BE5 | Dechrau astudiaeth ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu prosiect gwella cynefin arfordirol, lle edrychir ar y parth arfordirol ochr yn ochr â mynediad o ran gwella cynefinoedd | 2009 | Ni ddechreuwyd yr astudiaeth; fodd bynnag, sefydlwyd Partneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn (AGAP) yn 2008. Cynllun pori lleol yw AGAP sy'n gweithio i gysylltu tir bywyd gwyllt a diddordeb cadwraeth â phorwyr a ffermwyr sy'n gallu darparu stoc pori addas er lles bywyd gwyllt, tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol Ynys Môn. Mae wedi cyflwyno a chefnogi gwaith pori ar 16 o safleoedd (mae llawer o'r rhain yn arfordirol) ar draws Ynys Môn sy'n cynnwys |

| Cyf | Gweithred | Dyddiad Targed | Cynnydd hyd at Chwefror 2018 |
|---|---|---|---|
| | | | dros 300 hectar. |
| BE6 | Cynhyrchu Cynllun Teithio ar gyfer teithio o fewn yr AHNE gan ganolbwyntio ar ddefnyddio Llwybr yr Arfordir – bydd y Cynllun Teithio'n asesu creu system drafnidiaeth gynaliadwy hyfyw o fewn yr AHNE | 2009 | Heb ei weithredu |
| DM1 | Dechreuwyd eisoes ar gwblhau mireinio a dilysu'r map swyddogol sydd wedi'i ddigido. Y set ddata hon fydd sail y map swyddogol newydd cyfunol | 2009 | Cwblhawyd yn 2009 |
| DM2 | Cyfuno'r Map a'r Datganiad Swyddogol | 2009 | Cwblhawyd yn 2012 |
| DM3 | Ymchwilio i'r posibilrwydd o gontractio allan waith ymchwil hanesyddol i leihau ôl-groniad o orchmynion y map swyddogol | 2009 | Cysylltwyd â nifer o ymgynghorwyr am brisiau yn 2009. Daethpwyd i'r casgliad nad yw'n economaidd contractio allan waith ymchwil. |
| H1 | Bydd yr Uned Hawliau Tramwy'n mynd ati i gysylltu â grwpiau iechyd, gan greu amgylchedd lle mae pob partner arweiniol yn ymwybodol o ddatblygiadau a dymuniadau. | Parhaus | Nid yw'n cael ei wneud ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae gan Adran Hamdden gysylltiadau gweithredol â grwpiau iechyd |
| H2 | Ymchwilio i ffyrdd y gellir rhoi cymorth i'r aelodau hynny o'r gymuned nad ydynt yn gallu cael mynediad i gefn gwlad er mwyn gwerthfawrogi'r manteision iechyd a chymdeithasol a'r mwynhad y gall y rhwydwaith hawliau tramwy ei roi. | 2018 | Heb ei weithredu |
| H3 | Datblygu rhaglen 'Teithiau Cerdded Trefol' gan ganolbwyntio ar ardaloedd trefol LSOA (Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Isaf) I'r ardal o'u cwmpas.<br><br>Dolenni i Deithiau Trefol Cyngor Gwynedd ym Mangor | 2012 | Mae rhaglen 'Camu Allan' (rhan o fenter 'Cerdded Llwybr Iechyd') ar waith ar hyn o bryd yn Llangefni, Amlwch, y Fali, Gaerwen, Llanfairpwll, Brynsiencyn, Benllech, Caergybi, Llangoed / Biwmares, Rhosneigr. |
| P1 | Rhoi adnoddau a hyrwyddo Llwybr Arfordirol Ynys Môn i | Parhaus | Sicrhawyd arian dros dro hyd at 2022 fel rhan o brosiect Llwybr Arfordir Cymru. |

| Cyf | Gweithred | Dyddiad Targed | Cynnydd hyd at Chwefror 2018 |
|---|---|---|---|
| | ddenu pobl leol ac ymwelwyr newydd, gan fod yn fodd i'r llwybr gyrraedd ei botensial fel Llwybr Cenedlaethol, ac ystyried ei fanteision economaidd, cymdeithasol ac iechyd | | Dechreuodd Swyddog Rhanbarthol Llwybr Arfordir Cymru (Gogledd) a gyflogir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2017 ac mae'r swydd yn ddiogel tan o leiaf 2022. |
| P2 | Hyrwyddo llwybrau cylchol / llinol presennol a rhai'r dyfodol yn y wasg leol, mewn cylchgronau cerdded ac ar y rhyngrwyd, gan ehangu'r posibilrwydd i Ynys Môn gael ei chydnabod fel cyrchfan gerdded gan farchnad ehangach nag a welir ar hyn o bryd. | 2018 | Mae llwybrau cylchol yn cael eu hyrwyddo ar www.croesomon.co.uk/cy/ ar hyn o bryd. Gellir hefyd ddangos llwybrau a hyrwyddir ar fap rhyngweithiol yn y dyfodol (gweler P5) |
| P3 | Cefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill yn weithredol i gynhyrchu gwybodaeth am lwybrau yn eu trefi a'u pentrefi ac o'u cwmpas | Parhaus | Mae llawer o daflenni eisoes wedi'u creu gan Menter Môn gyda chyfraniad gan y Cyngor, e.e. Menter Mechell (tair taith), Llanfairpwll, Pentre Berw (dwy daith), Porthaethwy (dwy daith), Caergeiliog (llwybr Madam Wen). |
| P4 | Bydd yr Adran yn mynd ati i hyrwyddo cerdded, beicio a marchogaeth a'u llwybrau cysylltiedig o fewn y cyngor, ac yn lobïo adrannau sy'n ymwneud â thwristiaeth i hyrwyddo llwybrau fel blaenoriaeth o ran cyhoeddiadau a hysbysebu yn y dyfodol | Parhaus | Caiff hyn ei wneud ond efallai y gellid ei wneud yn fwy gweithredol |
| P5 | Bydd yr Adran yn cwblhau'r gwasanaeth 'Map Mynediad Llwyr' fydd ar gael ar-lein ac yn ei ddiweddaru'n barhaus, ac yn nodi lle mae mynediad ar gael, gan gynnwys yr holl dir mynediad, mynediad caniataol a gwarchodfeydd natur yn ogystal â'r rhwydwaith hawliau tramwy. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru'n barhaus i nodi a yw llwybrau'n agored a bod modd eu defnyddio neu nid oes modd eu croesi ar hyn o bryd. | 2010 | Map rhyngweithiol yn dangos hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i dir a gyhoeddwyd yn http://hawliautramwycyhoeddus.ynysmon.gov.uk/ er 2011. Uwchraddiwyd y wefan ym mis Chwefror 2018 fel ei bod yn gydnaws â ffonau clyfar a thabledi, hefyd i gael mwy o nodweddion megis templedi argraffu, cyfleuster i'r cyhoedd gofnodi materion. |

## Gwariant Grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy er 2008

| Blwyddyn | **Gweithred** | **Gwariant grant fesul gweithred** | **Cynnig Grant** | **Yr hyn a hawliwyd** | **Tanwariant** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008/9 | Gwella "Taith y Ddau Oleudy" | £16,932.00 | | | |
| | Gwella x13 Taith Gerdded y Saint | £17,310.67 | | | |
| | | **£34,242.67** | **£42,028.00** | **£34,242.67** | **£7,785.33** |
| | | | | | |
| 2009/10 | Agor 17 KM o HTC | £18,405.57 | | | |
| | Gwella / adfer llwybrau Llyn Coron | £5,593.49 | | | |
| | Pont Mari Powell - pont droed newydd | £21,670.93 | | | |
| | | **£45,669.99** | **£45,670.00** | **£45,669.99** | **£0.01** |
| | | | | | |
| 2010/11 | Ailgyflwyno 5 KM HTC ym Mechell | £3,435.15 | | | |
| | Adfer 5 KM o HTC yng Nghors Goch | £21,936.84 | | | |
| | Adfer 8 KM o HTC ym Mhentre Berw | £1,232.50 | | | |
| | Lôn y Mynydd (Pentraeth) - adfer | £4,232.00 | | | |
| | HTC - Arwyddion ar ochr y ffordd | £4,228.65 | | | |
| | Lôn Goed, Llangaffo- gwelliannau | £2,649.44 | | | |
| | LL19 Rhosmeirch - adfer a draenio | £2,240.00 | | | |
| | Llyn Maelog - gwelliannau i'r wyneb | £1,100.00 | | | |
| | LL24 Pentraeth – gosod wyneb | £4,327.05 | | | |
| | | **£45,381.63** | **£45,670.00** | **£45,381.63** | **£288.37** |
| | | | | | |
| 2011/12 | Gwaith Gwefan CAMS | £12,111.83 | | | |
| | Prynu caledwedd / meddalwedd ar gyfer arolygon | £7,317.45 | | | |
| | HTC - Arwyddion ar ochr y ffordd | £7,370.60 | | | |
| | Dyffryn Wygr, Pontydd Cemaes- pontydd troed | £12,876.00 | | | |
| | Gwelliannau i lwybr Llandegfan | £3,800.00 | | | |
| | | **£43,475.88** | **£43,702.00** | **£43,475.88** | **£226.12** |
| | | | | | |
| 2012/13 | Arolwg o 100KM o HTC | £6,736.50 | | | |

| Blwyddyn | **Gweithred** | **Gwariant grant fesul gweithred** | **Cynnig Grant** | **Yr hyn a hawliwyd** | **Tanwariant** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adroddiadau arferol a gwefan CAMS | £7,716.78 | | | |
| | Llwybr 16 Pentre Berw- Pont droed | £6,033.47 | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | LL5 Porthaethwy - draenio a gosod wyneb | £6,300.00 | | | |
| | Gosod wyneb ar Lôn Copr, Penysarn | £1,912.25 | | | |
| | Deunyddiau ar gyfer llwybr bwrdd - LL2 Cors Bodeilio | £10,318.00 | | | |
| | LLau 13 a 14 Biwmares – gosod wyneb | £4,685.00 | | | |
| | | **£43,702.00** | **£43,702.00** | **£43,702.00** | **£0.00** |
| | | | | | |
| 2013/14 | LL28 Llangristiolus - codi pont droed | £3,251.94 | | | |
| | Prynu giatiau ar gyfer gwaith gwirfoddol | £6,549.00 | | | |
| | Llwybr ceffylau 39 Llanddona - draenio a gosod wyneb | £8,859.18 | | | |
| | LL18 Llandegfan - draeniad | £5,031.98 | | | |
| | HTC - Arwyddion ar ymyl y ffordd | £5,072.90 | | | |
| | Cynhyrchu adroddiad arferol yn Cams | £1,088.00 | | | |
| | LL65 Marianglas - adfer | £1,020.00 | | | |
| | Gwaith gwella ar Deithiau Cerdded y Saint | £1,860.00 | | | |
| | | **£32,733.00** | **£32,733.00** | **£32,733.00** | **£0.00** |
| | | | | | |
| 2014/15 | LL28 Llangristiolus - codi pont droed | £5,220.21 | | | |
| | LL9 Rhoscolyn - draenio a gwella'r wyneb | £3,685.00 | | | |
| | LL84 Cylch y Garn – gosod wyneb | £2,220.00 | | | |
| | LL33 Llanfihangel Esceifiog – Dwy bont droed | £2,680.00 | | | |
| | Prynu giatiau ar gyfer gwaith gwirfoddol | £9,030.69 | | | |
| | LL 57 a 59 Amlwch – gosod wyneb a draenio | £1,440.00 | | | |
| | HTC - Arwyddion ar ymyl y ffordd | £3,128.30 | | | |
| | Y Fali LL12 - Dargyfeirio ac adfer y llwybr | £4,652.80 | | | |
| | LL 3 a 4 Moelfre - clirio a draenio | £1,528.00 | | | |
| | | **£33,585.00** | **£33,585.00** | **£33,585.00** | **£0.00** |
| | | | | | |
| 2015/16 | LL17 Llanidan - pont droed | £12,000.00 | | | |
| | LL 1 a 2 Llanfachraeth – gosod wyneb | £8,000.00 | | | |
| | LL14 Caergybi – gosod wyneb | £8,385.00 | | | |
| | LL 17 Llanfairpwll / 16 Porthaethwy – teneuo coed a chilffordd | £5,200.00 | | | |
| | | **£33,585.00** | **£33,585.00** | **£33,585.00** | **£0.00** |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2016/17 | LL5 Llanddyfnan - codi pont droed | £17,212.32 | | | |
| | LL59 Llangristiolus - codi pont droed a giatiau | £2,760.80 | | | |
| | LL19 Llangoed – gosod wyneb a thorri ffosydd | £3,510.00 | | | |
| | LL30 Trearddur – adeiladu camfa newydd | £1,650.00 | | | |
| | HTC - Arwyddion ar ymyl y ffordd | £2,165.41 | | | |
| | LL28 Llangristiolus - codi pont droed | £6,286.47 | | | |
| | | **£33,585.00** | **£33,585.00** | **£33,585.00** | **£0.00** |
| | | | | | |
| 2017/18 | | | | | |
| | LL27 Llanddyfnan - codi pont droed | £14,100.47 | | | |
| | Uwchraddio meddalwedd gwe Cams | £2,987.44 | | | |
| | Ymgymryd â dadansoddiad graddiant yr HTC | £588.00 | | | |
| | Prynu deunyddiau ar gyfer gwaith gwirfoddol | £8,373.60 | | | |
| | Coed Cyrnol, Porthaethwy – grisiau a llwybr cerdded newydd | £6,467.09 | | | |
| | | **£32,517.00** | **£32,517.00** | **£32,517.00** | **£0.00** |
| | | | | | |
| | | **Cyfansymiau 2000/9 - presennol** | **£386,777.00** | **£345,960.17** | **£8,299.83** |

# Atodiad 3 – Cynllun Cyflawni ar gyfer 2018/19 - 2021/22

## 1. Adolygiad o Bolisïau Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC)

Mae holl bolisïau ar gyfer rheoli HTC wedi cael eu hadolygu, diweddaru ac eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 2. Cynlluniau Gwaith Manwl

| **Rhif** | **Disgrifiad o'r Allbwn** | **Mesur, monitro, ac adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd** | **Adnoddau sydd eu hangen** | **Pwy fydd yn cyflawni a'r partneriaid allweddol** | **Yr Datganiad(au) Gweithredu cysylltiedig** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sefydlu hierarchaeth o lwybrau cyhoeddus fel bod modd targedu adnoddau sydd yn fwy debygol o gyrraedd gofynion y cyhoedd | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 10 wythnos o amser Swyddog HTC yn ogystal â chyllid o **£4K** (o'r *Grant Blynyddol Gweithredu CGHT)* | Swyddog HTC gyda cymorth gan gontractwr allanol System Gwybodaeth Ddaearyddol (*Geographical Information System)*. Ymgynghori gyda'r FfMLl, grŵpiau defnyddwyr, Cynghorau Tref a Chymuned. | DG1 | Drafftio'r hierarchaeth erbyn diwedd 2019/20.<br><br>Gorffen hierarchaeth terfynol erbyn canol 2020/21 |
| 2 | Blaenoriaethu achosion Diwygio Map Swyddogol yn unol a pholisï diwygiedig | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 4 wythnos o amser y Swyddog Map Swyddogol, a tua 1 wythnos o amser y Swyddog HTC | Swyddog Map Swyddogol<br>Swyddog HTC | DG1 | Erbyn Mehefin 2019 |

| **Rhif** | **Disgrifiad o'r Allbwn** | **Mesur, monitro, ac adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd** | **Adnoddau sydd eu hangen** | **Pwy fydd yn cyflawni a'r partneriaid allweddol** | **Yr Datganiad(au) Gweithredu cysylltiedig** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Adolygu'r trefniadau torri llystyfiant ar lwybrau cyhoeddus efo Cynghorau Tref a Chymuned, gyda'r bwriad i wella'r gwasanaeth | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 4 wythnos o amser Swyddog HTC | Swyddog HTC, Cynghorau Tref a Chymuned | DG1<br><br>DG2 | Erbyn diwedd 2021/22 |
| 4 | Adolygu'r trefniadau ar gyfer erlyn tirfeddianwyr/preswylwyr am rwystro HTC yn fwriadol a chreu niwsans cyhoeddus | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 1 wythnos o amser Swyddog HTC a 2 ddiwrnod o amser yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol | Swyddog HTC, Uwch Reolwyr (Adran Priffyrdd), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Sir Dinbych | DG1 | Erbyn diwedd 2018/19 |
| 5 | Sefydlu 1 Cylchdaith llwybr ceffyl yn dilyn ymgynghoriad gyda marchogwyr a thirfeddianwyr/preswylwyr | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 4 wythnos o amser y Swyddog HTC.<br>Cyllid o £5K, o bosib o gronfa'r prosiect Partneriaeth Tirlun Ynys Cybi | Swyddog HTC, BHS, tirfeddianwyr/preswylwyr, Swyddog Prosiect Partneriaeth Tirlun Ynys Cybi | DG3 | Erbyn diwedd 2021/22 |
| 6 | Prosesu Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol i gofnodi 6 o Ffyrdd Gwledig Di-ddosbarth (UCR's) ar y Map a Datganiad Swyddogol | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 12 wythnos o amser Swyddog Map Swyddogol | Swyddog Map Swyddogol | DG3 | Erbyn diwedd 2021/22 |

| Rhif | Disgrifiad o'r Allbwn | Mesur, monitro, ac adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd | Adnoddau sydd eu hangen | Pwy fydd yn cyflawni a'r partneriaid allweddol | Yr Datganiad(au) Gweithredu cysylltiedig | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Cynnal asesiad i sefydlu ardaloedd ble gall Llwybr Arfordirol Ynys Môn darparu llwybr fwy 'arfordirol'. | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 4 wythnos o amser y Swyddog Llwybr Arfordirol | Swyddog Llwybr Arfordirol / Swyddog Llwybr Arfordir Cymru (CNC) | DG4 | Erbyn diwedd 2019/20 |
| 8 | Tynnu 10 camfa oddi ar y Llwybr Arfordirol a darparu bwlch, giât, neu giât mochyn yn eu lle | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 4 wythnos o amser y Swyddog Llwybr Arfordirol a'r Technegydd.<br><br>Cyllid o £6k o'r Gyllideb Cynnal Flynyddol | Swyddog Llwybr Arfordirol/ Technegydd Llwybr Arfordirol | DG2<br>DG4<br>DG7 | Erbyn Rhagfyr 2020 |
| 9 | Gwella a hyrwyddo 10 llwybr sy'n cysylltu'r Llwybr Arfordirol i safleoedd o ddiddordeb a/neu canolfannau poblogaeth gyda darpariaeth 'Mynediad Hawdd' pan yn addas | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 6 wythnos o amser Swyddog Llwybr Arfordirol a chyllid o £10k o'r Gyllideb Cynnal Flynyddol | Swyddog Llwybr Arfordirol | DG4<br>DG7 | Erbyn diwedd 2019/20 |
| 10 | Gwella gwybodaeth HTC ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn drwy ychwanegu:<br>● Cofrestr ceisiadau am Orchmynion Diwygio Map Swyddogol. | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 4 wythnos o amser Swyddog Map Swyddogol a 3 wythnos o Swyddog HTC | Swyddog Map Swyddogol,<br>Swyddog HTC<br>Adran TGCh y Cyngor | DG5 | Erbyn diwedd 2019/20 |

| Rhif | Disgrifiad o'r Allbwn | Mesur, monitro, ac adrodd ar y cynnydd a gyflawnwyd | Adnoddau sydd eu hangen | Pwy fydd yn cyflawni a'r partneriaid allweddol | Yr Datganiad(au) Gweithredu cysylltiedig | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Cofrestr o geisiadau Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus.<br>• Cofrestr o ddeponiadau o dan A.31(6) o'r Ddeddf Priffyrdd 1980<br>• Dogfennau cyfarwyddyd a ffurflenni cais â ellir eu lawrlwytho ar gyfer: Gorchmynion Diwygio Map Swyddogol, Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus, a cheisiadau i gau neu wyro llwybr dros dro | | | | | |
| 11 | Amcanion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013:<br>• Ail-gyflwyno'r Mapiau Llwybrau Integredig i Llywodraeth Cymru<br>• Adolygu ac archwilio HTC ar y Mapiau Llwybrau Integredig Teithiau Llesol | Fforwm Mynediad Lleol (FfMLl) i dderbyn adroddiad yn flynyddol | Tua 3 wythnos o amser Swyddog HTC.<br>Tua 4 wythnos o amser Swyddog Teithiau Llesol<br>Cyllid o £10K | Swyddog Teithio Llesol<br>Swyddog HTC<br>Ymgynghorwr allanol | DG6 | Awst 2018<br><br>Erbyn diwedd 2019/20 |

# Polisïau Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Ionawr 2018

## Cynnwys:


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. Cynnal a Chadw a Gwella'r Rhwydwaith HTC | | **4** |
| 1.1 Arwyddion a Marcwyr Ffordd | | **5** |
| 1.2 Pontydd | | **5** |
| 1.3 Dodrefn a Strwythurau (Bylchau, Giatiau, Camfeydd a Hygyrchedd) | | **6** |
| 1.4 Rheoli wynebau HTC | | **7** |
| 1.5 Rheoli Coed a Llystyfiant | | **7** |
| 2. Gwarchod y Rhwydwaith: Rheoli Rhwystrau a Gwaith Gorfodi | | **8** |
| Mathau penodol o niwsans neu rwystrau | 2.1 Aredig | **10** |
| | 2.2 Cnydio | **10** |
| | 2.3 Ffensys Trydan | **11** |
| | 2.4 Anifeiliaid | **12** |
| 3. Gorchmynion Addasu'r Map Swyddogol (GAMS) | | **13** |
| 4. Awdurdodi cyfyngiadau/ amodau a'u cofnodi | | **15** |
| 5. Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus | | **17** |
| 6. Gorchmynion Rheoleiddio Traffig | | **19** |
| 7. Awdurdodi digwyddiadau ar HTC | | **19** |
| 8. Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn | | **21** |
| Atodiad: Ymarferion erlyn | | **22** |

## Acronymau a ddefnyddir yn y Ddogfen:

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| HTC | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |
| CGHT | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy |
| MDS | Map a Datganiad Swyddogol |
| DP 1980 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| DCGHT 2000 | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| DPCMCG 1949 | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad 1949 |
| DBGChG 1981 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| TCPA 1990 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| DC 2010 | Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| DA 1971 | Deddf Anifeiliaid 1971 |
| DIDG 1974 | Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 |
| DRhTFf 1984 | Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 |
| DTFf 1988 | Deddf Traffig Ffyrdd 1988 |
| CAUD | Cilffyrdd sy'n Agored i Unrhyw Draffig |
| DCG 1968 | Deddf Cefn Gwlad 1968 |

# 1 Cynnal a Gwella’r Rhwydwaith HTC

Rhennir cyfrifoldebau cynnal a chadw HTC rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a thirfeddianwyr / deiliaid tir y mae HTC yn ei groesi. Cynhelir gwaith cynnal a chadw HTC gan gyfuniad o Staff HTC y Cyngor, contractwyr allanol, cynghorau cymuned a gwirfoddolwyr.

Ymhlith prif gyfrifoldebau cynnal a chadw HTC **Cyngor Sir Ynys Môn** mae:

- Cynnal a chadw wynebau.
- Arwyddion a marcwyr ffordd.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, atgyweirio, ailosod ac adeiladu pontydd dros gyrsiau dŵr naturiol, (efallai y bydd cyfrifoldeb cynnal a chadw ar y cyd lle mae tirfeddiannwr neu ddeilydd tir yn defnyddio pont ar gyfer croesi gyda cherbyd preifat hefyd).
- Rhoi cyfraniad ariannol tuag at atgyweirio a newid strwythurau HTC (megis giatiau a chamfeydd).
- Clirio twf llystyfiant wyneb tymhorol (hy contractau strimio).
- Clirio ar raddfa fawr lwybrau y mae tyfiant yn tyfu drostynt a choed sydd wedi syrthio (os yw'r cyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor ei hun, neu os yw'r Cyngor yn teimlo bod y gwaith hwn yn angenrheidiol).
- Sicrhau nad oes rhwystrau ar y rhwydwaith HTC a chymryd camau gorfodi angenrheidiol yn erbyn y rheiny sydd 'yn fwriadol' yn rhwystro HTC iddynt symud y rhwystr(au).
- Ystyried anghenion pob math o ddefnyddiwr, gan gynnwys defnyddwyr llai abl (gan gynnwys y rheiny ag anawsterau symudedd a nam ar eu golwg) a gweithredu'r Polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol.
- Gweithredu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT) pan fo’r gofyn.

Ymhlith prif gyfrifoldebau cynnal a chadw HTC y **Tirfeddiannwr/y Deilydd Tir** mae:

- Sicrhau bod yr holl gamfeydd, giatiau a chroesfannau terfyn eraill yn cael eu cynnal i safon ddiogel a derbyniol.
- Cael caniatâd swyddogol gan y Cyngor cyn codi strwythurau newydd megis camfeydd a giatiau ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau.
- Torri’n ôl lystyfiant megis gwrychoedd, llystyfiant sy'n tyfu drosodd, a choed sydd wedi syrthio ac sy'n tyfu neu sydd wedi syrthio ar HTC o'u tir.
- Sicrhau nad ydynt yn fwriadol yn rhwystro'r HTC rhag croesi eu tir ac nad oes rhwystrau ar y llwybr.
- Ailosod llwybrau troed ar draws caeau sydd wedi’u haredig a llwybrau ceffylau i'r lled a'r terfynau amser statudol, a pheidio ag aredig llwybrau troed neu lwybrau ceffylau sydd wedi'u hamgáu a / neu sy’n rhedeg ar hyd ymyl cae dan unrhyw amgylchiadau.
- Sicrhau bod llinell swyddogol llwybr (ar y ddaear) yn cael ei chadw'n glir o gnydau (ac eithrio glaswellt) ac y caiff ei chynnal i'r lled sylfaenol statudol bob amser.
- Sicrhau nad yw unrhyw anifail y gwyddys ei fod â nodweddion peryglus yn cael ei gadw ar dir y mae HTC yn ei groesi.
- Sicrhau nad oes arwyddion camarweiniol na bygythiol yn cael eu rhoi ar HTC neu ger llaw iddo a allai atal defnyddwyr rhag ei ddefnyddio.

## 1.1 Arwyddion a Marcwyr Ffordd

Dan **Adran 27 DCG 1968**, mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd i godi arwydd ar bob un o'r HTC lle maent yn gadael ffordd fetel. Gellir rhyddhau'r Cyngor o'r rhwymedigaeth hon mewn mannau penodol os yw'n ystyried bod arwydd yn ddiangen ac os yw cynrychiolydd o'r Cyngor Tref / Cymuned lleol yn cytuno.

Mae Adran 27 DCG 1968 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol gosod marcwyr ffordd ar bwyntiau ar hyd llwybr lle ystyrir ei fod yn angenrheidiol i helpu pobl i ganfod llwybr. Mae gan y Cyngor bŵer cyffredinol i godi a chynnal arwyddion/marcwyr ffordd ar hyd HTC, lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

| **Math yr HTC** | **Lliw cywir y Marcwyr Ffordd** |
|---|---|
| Llwybrau | Melyn |
| Llwybrau Ceffylau | Glas |
| Cilffyrdd Cyfyngedig | Piws |
| CAUD | Coch |

Dan yr amgylchiadau a ganlyn, gallai nifer uwch na'r arfer o arwyddion a/neu farcwyr ffordd fod yn briodol:

- Mae gan Lwybr Arfordir Ynys Môn safonau penodol o arwyddion a marcwyr ffordd
- Llwybrau hyrwyddo eraill.
- Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried ceisiadau am arwyddion neu farcwyr ffordd pwrpasol ar gyfer llwybrau penodol.

<u>Arwyddion a Hysbysiadau Camarweiniol a / neu heb Ganiatâd</u>

Dan **Adran 57 DPCChG 1949** ac **Adran 132 DP 1980**, mae'n drosedd (heb ganiatâd cyfreithlon) i unrhyw berson baentio, arysgrifennu neu osod unrhyw lun, llythyr, arwydd neu unrhyw farc arall ar HTC neu gerllaw iddo sy'n cynnwys gwybodaeth ffug a / neu gamarweiniol sy'n debygol o atal pobl rhag defnyddio'r HTC. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn y pŵer i ofyn am gael symud arwyddion a hysbysiadau o'r fath. Gallai'r Cyngor gymryd camau uniongyrchol yn erbyn y person dan sylw pe byddai'n methu cydymffurfio, a hynny trwy wahanol weithdrefnau i gymryd camau gorfodi (*Tudalen 8*).

## 1.2 Pontydd

Darperir mwyafrif y pontydd sydd dros gyrsiau dŵr naturiol ac sy'n rhan o'r rhwydwaith HTC gan y Cyngor ac ef sy'n berchen arnynt ac yn eu cynnal. Dan **Adran 91 DP 1980** mae gan y Cyngor bwerau i godi pont i gario priffordd (gan gynnwys HTC) a gynhelir ar gost i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae **Adran 92 DP 1980** yn rhoi pŵer i'r Cyngor ail-greu pont sy'n rhan o'r rhwydwaith HTC naill ai ar yr un safle, neu ar safle newydd o fewn **200 llath** i'r lleoliad gwreiddiol. Pan fo pont a gynhelir yn breifat yn cario HTC, bydd y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, yn cyfrannu tuag at gost unrhyw waith trwsio neu godi pont newydd y mae modd ei gyfiawnhau. Fel arfer, ni fyddai cyfraniadau at y gost yn fwy na **5%** ar gyfer llwybr troed a **10%** ar gyfer llwybr ceffylau. Fel rheol, byddai'r Cyngor yn cynnal pontydd sy'n cario cilffordd neu CAUD gyfyngedig i sicrhau bod y pontydd hyn yn ddiogel ac yn addas ar gyfer mathau'r traffig y bydd disgwyl iddynt eu defnyddio (hynny yw, beiciau, cerbydau modur).

## 1.3 Strwythurau terfyn (Bylchau, Giatiau, Camfeydd a Hygyrchedd)

Mae **Adran 146 DP 1980** yn rhoi dyletswydd ar dirfeddianwyr / deiliaid i sicrhau bod pob camfa, giât (neu strwythurau tebyg) ar hyd llwybr troed, llwybr ceffylau *neu* gilffordd gyfyngedig yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel ac mewn cyflwr da fel nad yw'r rhai sy'n defnyddio llwybr troed, llwybr ceffyl a llwybr cyfyngedig yn profi "ymyrraeth afresymol".

Mae dyletswydd y Cyngor yn ymestyn yn unig i sicrhau bod y tirfeddiannwr yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon ac i roi grant o 25% tuag at gost atgyweirio strwythurau o'r fath neu godi rhai newydd. Mae gan y Cyngor bŵer dewisol i ymestyn y grant hwn a bydd, dan amgylchiadau arferol, yn rhoi'r deunyddiau heb unrhyw gost i'r tirfeddiannwr yn lle cyfraniad o 25%.

Mewn achosion pan fo'n amser cael dodrefnyn newydd, neu pan fo dodrefnyn newydd yn cael ei osod, bydd y Cyngor, yn ceisio gweithredu'r 'Polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol' o ran dodrefn, lle:

1. **Bwlch** yw'r opsiwn mwyaf ffafriol o ran dodrefnyn, gan mai dyma'r math lleiaf cyfyngol.
2. Os nad yw bwlch yn opsiwn tebygol, yna bydd **giât cae** neu **gerddwyr** yn cael ei hystyried. (Ar lwybr ceffylau, giât yw'r unig ddewis arall i fwlch, a rhaid medru gweithredu bachyn y giât o gefn ceffyl).
3. Os nad yw giât cae neu gerddwyr yn opsiwn posib, yna bydd y Cyngor yn anelu at osod **giât mochyn**.
4. Os nad yw'n bosib gosod giât mochyn a bod yr holl opsiynau eraill wedi'u hystyried, bydd **camfa**'n cael ei gosod. **Camfa** yw'r opsiwn lleiaf ffafriol gan y Cyngor gan mai dyma'r dodrefnyn mwyaf cyfyngol. Ni fydd camfa'n cael ei gosod oni bai y bydd yn amhosib neu'n anymarferol gosod y mathau eraill o ddodrefn (a drafodir uchod). Yn gyffredinol, ni chaniateir gosod camfa pan fydd darn newydd o HTC yn cael ei greu.

Rhai agweddau fydd yn cael eu hystyried wrth gymhwyso'r Polisi Mynediad Lleiaf Cyfyngol:

- Gofynion perchnogion tir (megis codi ffens i gadw stoc i mewn),
- Hynodrwydd lleol ac arwyddocâd hanesyddol rhai strwythurau, megis camfeydd cerrig hanesyddol neu giatiau cerddwyr / mochyn pwrpasol.

<u>Anghenion pobl â phroblemau symudedd ac anableddau eraill (defnyddwyr llai abl)</u>

Cyflwynodd **Adran 69 DCGHT 2000 Adran 147ZA** newydd i **DP 1980** gan roi pwerau i'r Cyngor ymrwymo i gytundebau gyda thirfeddianwyr neu ddeiliaid tir i ymgymryd â gwaith a / neu osod mathau llai cyfyngol o strwythurau / dodrefn newydd yn lle'r rhai oedd ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau, er mwyn ei gwneud yn fwy cyfleus i ddefnyddwyr llai abl. Lle gwneir cytundebau Adran 147ZA, bydd y Cyngor fel arfer yn cynnal y gwaith heb unrhyw gost i'r tirfeddiannwr.

Mae **DC 2010** yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ystyried anghenion y rhai sydd ag anawsterau symud / nam ar y golwg (defnyddwyr llai abl). Mae'r gofynion a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn arbennig o berthnasol wrth reoli ac awdurdodi strwythurau ar y rhwydwaith HTC. Gall math y dodrefn / strwythur ar y rhwydwaith HTC fod yn rhwystr sylweddol sy'n atal rhai pobl rhag defnyddio'r rhwydwaith. Er enghraifft, gall camfa fod yn rhwystr sylweddol i'r rhai sydd ag anawsterau symudedd a chamfa neu giât mochyn fod yn rhwystr mawr i'r rhai sy'n ddibynnol ar gadair olwyn. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i wneud

addasiadau rhesymol a dilyn arfer gorau cyfredol i leihau rhwystrau ffisegol ar y Rhwydwaith HTC.

## 1.4_Rheoli Wynebau HTC

Fel Awdurdod Priffyrdd, mae gan Gyngor Sir Ynys Môn, dan **Adran 41 DP 1980**, ddyletswydd i gynnal priffyrdd a gynhelir ar gost i'r cyhoedd. O ganlyniad, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynnal wynebau'r rhan fwyaf o HTC. Bydd safon y gwaith cynnal a chadw yn ôl y gyfraith yn dibynnu ar fath y briffordd a math y traffig y bydd disgwyl iddo fel arfer ei defnyddio. Nid oes safonau wynebu statudol ar gyfer HTC. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau bod wynebau HTC yn cael eu cynnal, fel eu bod yn ddiogel ac yn addas i'r cyhoedd eu defnyddio.

Mae pwerau'r Cyngor yn ymestyn ymhellach i wella wynebau HTC fel y nodir yn Nogfen Llywodraeth Cymru: 'Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus' (2016). Ymhlith mathau'r gwelliannau i'r wynebau y mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw mae:

- Lefelu
- Metelu
- Plannu a lefelu ymylon
- Gwella draeniad
- Gosod ffosydd neu gerrig camu gyda phontydd
- Cynnal gwaith neu osod strwythurau at ddibenion gwella mwynderau neu ddarparu gwasanaeth cyhoeddus

Mae **Adran 62 DP 1980** yn rhoi "pŵer gwella cyffredinol" i'r Cyngor er mwyn gwella wynebau HTC. Mae gwelliannau a wnaed gan y Cyngor i wynebau HTC, yn enwedig metelu a lefelu, hefyd yn ffordd o gwrdd â gofynion a amlinellir yn **DCGHT 2000** a **DC 2010**, trwy wneud y rhwydwaith yn fwy hygyrch ac yn haws ei defnyddio.

<u>Cynnal Wynebau HTC lle rhennir defnydd cyhoeddus/preifat</u>

Ar Ynys Môn, mae cyfran sylweddol o'r rhwydwaith HTC yn mynd law yn llaw â lonydd llety i eiddo preifat (megis ffermydd), sydd yn aml â hawliau cerbydau preifat (hawliau mynediad). Er mwyn rheoli'r mater hwn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi. Trwy hynny, os yw llwybr troed cyhoeddus neu lwybr ceffylau yn cael ei gynnal ar gost i'r cyhoedd ac yn mynd law yn llaw â llwybr sydd â hawliau cerbydau preifat, gallai'r Cyngor ystyried gwneud cyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw wyneb llwybrau o'r fath i'r graddau y mae'n ofynnol ar gyfer y safon dderbyniol sy'n ofynnol ar gyfer yr HTC. Gall swm y cyfraniad amrywio weithiau yn ôl amgylchiadau. Fodd bynnag, fel arfer, ni fydd cyfraniad y Cyngor yn fwy na **10%** o'r gost. Fel arfer, mae disgwyl i'r tirfeddianwyr neu'r deiliaid tir drefnu'r gwaith cynnal a chadw eu hunain a gofyn am gyfraniad ariannol gan y Cyngor wedi hynny.

## 1.4 Rheoli Coed a Llystyfiant

Mae **Adran 294 DP 1980** yn caniatáu i'r Cyngor wneud cais i'r Llys Ynadon am orchymyn sy'n caniatáu mynediad i archwilio eiddo i benderfynu a yw unrhyw wrych, coeden neu brysgwydd yn farw, yn cael ei heintio, wedi'i ddifrodi neu wedi'i wreiddio'n ansicr, ac a allai beri risg i ddefnyddwyr y Rhwydwaith HTC.

Mae **Adran 154 DP 1980** yn ymwneud â rheoli gwrychoedd, coed neu brysgwydd mewn perthynas â phriffyrdd. Mae Adran 154 (1) a (4) yn ymwneud â thorri coed neu ganghennau sy'n tyfu drosodd. Mae Adran 154 (1) yn galluogi'r Cyngor i ofyn i dirfeddianwyr neu ddeiliaid tir y mae eu coed, prysgwydd neu wrychoedd yn cael effaith ar y rhwydwaith priffyrdd (gan gynnwys HTC) drwy achosi perygl, rhwystr, neu ymyrryd â cherbydau, cerddwyr neu farchogion, docio neu dorri'r llystyfiant anghyfreithlon er mwyn cael gwared ag achos y perygl, y rhwystr a / neu'r ymyrraeth.

Gall y Cyngor gyflwyno rhybudd i dirfeddianwyr neu ddeiliaid tir, gan roi hyd at **14 diwrnod** iddynt dorri neu gael gwared â'r llystyfiant anghyfreithlon. Os yw'r tirfeddiannwr neu'r deiliad tir yn methu â chydymffurfio â'r telerau a amlinellir o fewn y cyfnod rhybudd 14 diwrnod, mae gan y Cyngor y pŵer a'r awdurdod i gynnal y gwaith ei hun (fel sy'n ofynnol gan yr hysbysiad). Gall y Cyngor hefyd adennill y gost a wneir yn rhesymol o gynnal y gwaith oddi wrth y tirfeddiannwr neu'r deiliad tir (person sy'n methu talu).

Os yw'r tirfeddiannwr neu'r deiliad tir yn meddwl ei fod wedi cael cam gan y gofyn dan isadran (1) neu (2) **Adran 154 DP 1980** (fel y trafodwyd uchod) ac yn anghytuno â'r amodau a amlinellwyd o fewn yr hysbysiad a gyflwynir gan y Cyngor, gall apelio i'r Llys Ynadon.

Yn ychwanegol, mae **Adran 65 DCGTH 2000** yn ymestyn **Adran 154 DP 1980** ymhellach, trwy orfodi llystyfiant sy'n tyfu drosodd ac sy'n peryglu'r defnydd a wna marchogwyr ar gerbydlonydd a'u taith arnynt neu'n rhwystro'r cyfryw ddefnydd a thaith marchogwyr ar gerbydlon a llwybrau ceffyl, i gael ei dorri'n ôl i uchder derbyniol.

**<u>Coed sydd wedi Syrthio</u>**

Os yw coeden yn rhwystr ar HTC, mae'r cyfrifoldeb am ei symud yn dibynnu ar le mae'r goeden wedi'i gwreiddio. Yn achos coeden wedi'i gwreiddio o fewn ffin y briffordd ("coeden priffordd") bydd y Cyngor yn clirio'r rhwystr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Pan fo coeden wedi syrthio i'r briffordd (HTC) o'r tir cyffiniol, mae gan y Cyngor bŵer i roi hysbysiad i berchennog y goeden, yn unol ag **Adran 149 DP 1980**. Os na chaiff y goeden ei chlirio o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad, gall y Cyngor gwyno i'r Llys Ynadon am Orchymyn Symud a Gwaredu dan yr adran hon. Os yw'r Cyngor o'r farn bod y goeden yn beryglus i ddefnyddwyr y llwybr ac mae ganddo sail resymol dros ystyried y dylid symud y goeden heb yr oedi sy'n gysylltiedig â rhoi hysbysiad neu gael gorchymyn symud a gwaredu gan Lys Ynadon dan yr adran hon, gall symud y goeden ar unwaith. Gallai'r Cyngor adennill oddi wrth berchennog y goeden unrhyw dreuliau a grëir yn rhesymol gan yr awdurdod wrth ei symud.

## 2 <u>Gwarchod y Rhwydwaith: rheoli Rhwystrau a Gwaith Gorfodi</u>

Dan Adran 130 DP 1980, mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau nad oes rhwystrau ar HTC. Mae rheoli rhwystrau ar rwydwaith HTC Ynys Môn yn her fawr i'r Cyngor.

Noda **Adran 137** DP 1980:

*"If a person without lawful authority or excuse, in any way wilfully obstructs the free passage along a highway he is guilty of an offence and liable to a fine…"*

Mae enghreifftiau o fathau'r rhwystrau y deuir ar eu traws ar rwydwaith yr HTC yn cynnwys:

- Ffensys, ffensys trydan, weiren bigog, waliau, a gwrychoedd ar draws HTC,
- Llystyfiant llechfeddiannol (twf llystyfiant sy’n tyfu ar yr ochr neu sy’n tyfu drosodd),
- Deunyddiau wedi'u gosod yn achosi rhwystr,
- Adeilad(au) a godwyd ar linell swyddogol HTC,
- Giatiau wedi’u cloi â chlo llyffant,
- Bygythiad (gan ddefnyddwyr HTC eraill a / neu dirfeddianwyr neu ddeiliaid tir),
- Arwyddion a hysbysiadau bygythiol / camarweiniol,
- Anifeiliaid peryglus,
- Aredig / tarfu ar wynebau HTC nad yw’n cydymffurfio â pholisïau aredig y Cyngor (*Tudalen 10*).
- Cnydau'n tyfu ar linell swyddogol yr HTC neu’n ei llechfeddiannu (*Tudalen 10*).
- Strwythurau sydd wedi'u gosod ar HTC, nad ydynt wedi'u hawdurdodi'n swyddogol gan y Cyngor dan Adran 147 DP 1980.

**Camau Gorfodi i Symud Rhwystrau**

Pan fo’r Cyngor yn ymwybodol o rwystr, ei nod fydd dilyn proses deg a chadarn i’w symud, mor effeithiol ac effeithlon â phosib. Mae adrannau lluosog o ddeddfwriaeth, yn bennaf DP 1980 yn rhoi pwerau sylweddol i'r Cyngor symud rhwystrau.

Fel arfer, y protocol cyntaf y bydd y Cyngor yn ymgymryd ag o i sicrhau y symudir rhwystr (yn dibynnu ar ddifrifoldeb a maint), yw ymgynghori ar lafar a / neu anfon llythyr at y perchennog / deiliad tir, gan egluro'r drosedd a gofyn iddo ei symud. Gan ddibynnu ar natur a maint y rhwystr, rhoddir cyfnod o 7 - 28 diwrnod fel arfer i'w symud.

Wedi cyrraedd diwedd cyfnod symud rhwystr neu wedi hynny, bydd aelod o staff o Adran Priffyrdd y Cyngor yn archwilio'r safle i weld a symudwyd y rhwystr. Os symudwyd y rhwystr yn llwyr, gan ddatrys y mater, ni fydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gamau pellach.

Fodd bynnag, os yw'r camau cychwynnol wedi methu datrys y rhwystr bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi i symud y rhwystr. Yn ystod y cam hwn bydd y Cyngor yn cyflwyno hysbysiad gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr symud y rhwystr o fewn terfyn amser statudol penodedig (o fewn mis fel arfer). Os nad yw'r troseddwr wedi symud y rhwystr o fewn yr amserlen statudol, mae gan y Cyngor y pŵer dan DP 1980 (sef Adran 143), i weithredu’n uniongyrchol trwy symud y rhwystr ei hun ac adennill y costau oddi wrth y troseddwr.

Mewn rhai achosion, bydd y Cyngor yn ystyried ei bod yn fwy priodol ymdrin â rhwystr trwy **erlyn** yn y Llys Ynadon. Os canfyddir person / cwmni yn euog o dramgwydd gall y Llys roi dirwy a / neu orchymyn y troseddwr i symud y rhwystr. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dogfen Ymarferion Erlyn sy'n arwain penderfyniadau ar achosion llys (*gweler yr Atodiad).*

Pan fo'r rhwystr yn sylweddol (megis adeilad / annedd) ac ar linell swyddogol yr HTC, mae'n aml yn gostus iawn ac yn anymarferol i'w symud. Fel arall, gall tirfeddiannwr / deiliad tir (ohono’i hun) wneud cais am ddargyfeirio'r HTC a gaiff ei rwystro trwy Orchymyn Llwybr Cyhoeddus (*tudalen 17*).

**Mathau penodol o niwsans a rhwystrau**

**2.1 Aredig**

Ni chaniateir i lwybrau troed a llwybrau ceffylau sy'n rhedeg ar hyd ymyl cae, neu sydd wedi'u hamgáu, gael eu haredig dan unrhyw amgylchiadau. Yn ogystal, ni chaniateir i

gilffyrdd cyfyngedig a CAUD gael eu haredig dan unrhyw amgylchiadau. Fodd bynnag, caniateir i dirfeddianwyr neu feddianwyr, dan Adran 134 DP 1980, aredig (darfu ar) wyneb y tir os yw llwybr troed neu lwybr ceffyl yn rhedeg **ar draws** cae. Rhaid adfer y wyneb o fewn y 'terfynau amser statudol', sef **14 diwrnod** sy'n dechrau o pan derfir ar y wyneb am y tro cyntaf, ac yna 24 awr ar gyfer unrhyw aflonyddwch dilynol i'r wyneb. Ar ôl i'r llwybr / ffordd gael ei h/adfer, mae'n rhaid iddi fod yn gyfleus i'w d/defnyddio a'i h/adfer i'r gofynion lled sylfaenol a amlinellir yn Atodlen 12A DP 1980, sef:

| Math yr HTC | Lled Sylfaenol Statudol (metrau) |
|---|---|
| Llwybr troed (Ar draws cae) | 1.0 |
| Llwybr Ceffylau ( Ar draws cae ) | 2.0 |
| Llwybr troed  (Ymyl cae / trwyn) | 1.5 |
| Llwybr Ceffylau  (Ymyl cae / trwyn) | 3.0 |
| Cilffyrdd cyfyngedig a CAUD | 3.0 |

Mae tirfeddianwyr neu ddeiliaid tir yn cyflawni trosedd os ydynt yn methu adfer wyneb y HTC erbyn yr amser statudol. Pan fydd y Cyngor yn gwybod am drosedd o'r fath, gwneir camau i adfer y llwybr / ffordd i safon resymol, trwy gyflwyno hysbysiad gorfodi sy'n caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â gwaith ei hun ar ôl i'r cyfnod rhybudd fynd heibio ac adennill y costau oddi wrth y tirfeddiannwr neu’r deilydd tir. Yn ychwanegol, mae erlyniad yn y Llys Ynadon yn opsiwn, yn enwedig yn achos troseddau ailadroddus.

## 2.2_Cnydio

Fel y nodir yn **Adran 137A** DP 1980, os oes cnwd (ac eithrio glaswellt) sydd wedi'i hau neu wedi'i blannu ar dir sy'n cael ei groesi gan HTC, mae gan y tirfeddiannwr neu'r deiliad tir sy'n gyfrifol ddyletswydd i sicrhau nad yw'n achosi unrhyw anghyfleustra i ddefnyddwyr y HTC. Rhaid iddynt sicrhau bod llinell swyddogol y llwybr yn cael ei chadw'n glir o gnydau a'i chynnal i'r lled sylfaenol statudol a nodir yn Atodlen 12A DP 1980.

| Math yr HTC | Lled Sylfaenol Statudol (metrau) |
|---|---|
| Llwybr troed (Ar draws cae) | 1.0 |
| Llwybr Ceffylau ( Ar draws cae ) | 2.0 |
| Llwybr troed  (Ymyl cae / trwyn) | 1.5 |
| Llwybr Ceffylau  (Ymyl cae / trwyn) | 3.0 |
| Cilffordd gyfyngedig a CAUD | 3.0 |

Mae tirfeddianwyr neu ddeiliaid tir yn cyflawni trosedd os na fyddant yn cadw HTC yn glir o gnydau. Pan fydd trosedd o'r fath yn hysbys bydd y Cyngor yn cymryd camau i glirio'r llwybr / ffordd trwy gyflwyno hysbysiad gorfodi sy'n caniatáu i'r Cyngor ymgymryd â gwaith ei hun ar ôl i'r cyfnod rhybuddio fynd heibio ac adennill y costau a grëir oddi wrth y tirfeddiannwr neu'r deiliad. Yn ychwanegol, mae erlyniad yn y Llys Ynadon yn opsiwn, yn enwedig yn achos troseddau a ailadroddir.

## 2.3_Ffensys Trydan

Mae ffensys trydan yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan dirfeddianwyr a deiliaid tir ac felly, mae ffens drydan yn cael ei defnyddio'n gynyddol agos at HTC neu ar eu traws. O ystyried posibilrwydd ffensys trydan i lyffetheirio rhwydd hynt ar HTC ac, o bosib, beryglu defnyddwyr y rhwydwaith, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r polisïau a ganlyn i reoli ffensys trydan.

<u>Ffens drydan **ar draws** HTC</u>

- Mae ffens drydan a godir ar draws HTC yn anghyfreithlon a heb ddull diogel o groesi mae’n drosedd, ac yn rhwystr. Gallai fod yn risg sylweddol o roi sioc drydan i ddefnyddwyr yr HTC. Mewn achosion o'r fath bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi i symud y rhwystr.
- **Ni fydd** y Cyngor yn caniatáu gosod ffens drydan ar draws llwybrau ceffylau, llwybrau troed cyfyngedig a CAUD dan unrhyw amgylchiadau, ac mae'n drosedd os yw person yn gwneud hynny.
- Os oes angen ffens drydan ar draws llwybr **yn barhaol**, bydd y Cyngor yn ei chaniatáu os oes awdurdod presennol i gynnal giât neu gamfa ar y pwynt dan sylw. Dylai'r ffens drydan gael ei hinsiwleiddio'n briodol ger y giât / gamfa fel bod modd i ddefnyddwyr HTC basio heb fod mewn perygl o gael niwed.
- Os yw tirfeddiannwr / deiliad tir yn dymuno gosod ffens drydan yn barhaol lle nad oes awdurdod presennol ar gyfer camfa / giât, rhaid iddo wneud cais i'r Cyngor am gael awdurdodi’r strwythur newydd dan Adran 147 DP 1980 (*Tudalen 16*)
- Dros dro, ac at ddibenion amaethyddol yn unig, bydd y Cyngor yn caniatáu i dirfeddianwyr / deiliaid godi **un rhes** o ffens drydan ar draws llwybr troed. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr / ddeiliaid tir lynu wrth y gofynion hyn:

    - ✓ Rhoi gwybod i’r Cyngor ymhell ymlaen llaw
    - ✓ Deuir i gytundeb ar amserlen benodol a rhesymol ar gyfer pryd mae angen ffens drydan. Rhaid i'r tirfeddiannwr / deiliad tir sicrhau y symudir y ffens drydan erbyn y dyddiad terfynol y cytunwyd arno, fel arall byddai'n gyfystyr â bod yn rhwystr ar yr HTC.
    - ✓ Am y cyfnod y bydd y ffens drydan dros dro yn ei lle, rhaid i'r perchennog / deiliad tir gymryd yr holl ragofalon angenrheidiol i sicrhau bod y ffens drydan yn ddiogel i’w chroesi heb anhawster na niwed i ddefnyddwyr.
    - ✓ Yn y man lle mae'r ffens drydan yn croesi llwybr troed, rhaid bod modd torri'r cerrynt, (trwy giât rhwystr estynadwy gyda braich wedi'i hinswleiddio y gellir ei rhyddhau'n ddiogel a'i rhoi yn ei hôl).
    - ✓ Dylai arwyddion rhybuddion o berygl fod yn weladwy a chlir wrth y man croesi i hysbysu defnyddwyr y llwybr troed bod y ffens yn un drydan.

Os bydd tirfeddiannwr neu ddeiliad tir yn methu cydymffurfio â'r polisi hwn, bydd y Cyngor yn ystyried bod y ffens drydan yn rhwystr a bydd yn cymryd y camau gorfodi priodol i gael gwared â hi.

<u>Ffens drydan a osodir **ochr yn ochr â** HTC</u>

Fel rheol, bydd y Cyngor yn caniatáu i dirfeddianwyr / deiliaid tir osod ffens drydan ochr yn ochr â HTC. Fodd bynnag, rhaid iddynt gydymffurfio â'r polisi a ganlyn:

- Rhaid rhoi ystyriaeth i ddiogelwch y cyhoedd bob amser.
- Rhaid gosod ffensys trydan sy'n rhedeg ochr yn ochr â llwybr troed o leiaf ddau fetr i ffwrdd o ymyl y llwybr.

- Rhaid gosod ffensys trydan sy'n rhedeg ochr yn ochr â phob math arall o HTC o leiaf bedwar metr i ffwrdd o'r ymyl.
- Rhaid bod digon o arwyddion yn hysbysebu pobl o berygl wrth ymyl ffens drydan a osodir ochr yn ochr â HTC, a'u gosod bob hyn a hyn, yn hysbysu'r defnyddiwr yn glir bod y ffens yn un drydan.

Dylai tirfeddianwyr / deiliaid tir ystyried y perygl posib y gallai ffens drydan a osodwyd ochr yn ochr â HTC ei achosi i ddefnyddwyr penodol. Er enghraifft, gallai fod yn beryglus ofnadwy i farchogwyr ceffylau pe bai ceffyl yn cyffwrdd â ffens drydan, gan y gallai roi ysgytwad i'r ceffyl a pheri iddo daflu'r marchogwr o'i gyfryw, gan arwain o bosib at anaf sylweddol.

Dylai tirfeddianwyr / deiliaid tir fod yn ymwybodol, os bydd unrhyw un sy'n defnyddio'r rhwydwaith HTC yn cael ei niweidio gan ffens drydan a osodir ar eu tir, eu bod yn atebol am unrhyw niwed a achosir. Felly, mae'n bwysig eu bod yn cydymffurfio â pholisi a chanllawiau'r Cyngor ar ffensys trydan bob amser, er mwyn lleihau'r risgiau.

## 2.4 Anifeiliaid

Os yw anifail yn achosi anaf i ddefnyddiwr HTC, yna perchennog yr anifail sy'n gyfrifol ac mae'n atebol am unrhyw ddifrod a achosir gan yr anifail hwnnw, fel y nodir yn DA 1971. Os yw person yn berchen ar anifail y mae'n gwybod bod ganddo dueddiadau peryglus a'i fod yn debygol o achosi anaf, dylai osgoi cadw'r anifail lle gall defnyddwyr HTC ddod i gyffyrddiad ag o. Pe ceid digwyddiad a rhywun yn cael ei anafu gan anifail, yna gallai ei berchennog gael ei erlyn dan DIDG 1974 a gellid ei erlyn am iawndal dan DA 1971.

Mewn achosion lle caiff y Cyngor wybod am ddigwyddiadau o'r fath sy'n ymwneud ag anifail, gallai gysylltu â'r tirfeddiannwr / deiliad tir priodol i'w atgoffa o rwymedigaethau a, phan fo hynny'n ymarferol bosib, i gytuno ar fesurau i leihau'r risg o ddefnyddwyr HTC yn cael eu hanafu gan anifeiliaid yn y dyfodol.

### *Gwartheg a Theirw*

Ni ddylid cadw tarw 'yn rhydd' mewn cae y mae HTC yn ei groesi a byddai'n gyfystyr â throsedd dan **Adran 59** DBGChG 1981. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r rheol hon, sef:

- Nid yw'r tarw yn fwy na 10 mis oed,
- Nid yw'r tarw yn frîd llaeth cydnabyddedig ('Ayrshire', 'British Friesian', 'British Holstein', 'Dairy Shorthorn', 'Guernsey', 'Jersey' a 'Kerry')
- Bod gwartheg neu heffrod gyda nhw.

### *Cŵn*

Os nad yw ci yn dychryn defnyddwyr yr HTC ac nad yw'n peri bygythiad, caniateir cadw ci lle mae HTC yn croesi (e.e. iard).

Fodd bynnag, os yw ci yn atal pobl rhag defnyddio HTC yn rhydd, trwy ymddwyn mewn modd bygythiol ac ymosodol (yn chwyrnu ac yn dangos ei ddannedd) ac yn dychryn a bygwth defnyddwyr, mae hyn yn ei gwneud yn niwsans cyhoeddus dan y gyfraith gyffredin ac mae'n drosedd ac yn rhwystr i'r HTC.

Caniateir i bobl fynd â'u cŵn gyda nhw wrth ddefnyddio'r rhwydwaith HTC. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd statudol ar y Cyngor na thirfeddianwyr / deiliaid tir i wneud darpariaethau

penodol ar gyfer pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro. Pan fydd defnyddwyr yn ymarfer eu cŵn ar HTC, dylent ymddwyn yn gyfrifol, gan gynnwys:

- Cadw cŵn ar dennyn neu gadw llygad agos arno (bob amser),
- Sicrhau nad yw eu ci'n diflannu oddi ar linell swyddogol y llwybr / ffordd (gan y gellid ystyried hyn yn tresmasu),
- Glanhau baw cŵn.

Am ragor o wybodaeth, ceisiwch y cyngor sydd yn y Côd Cefn Gwlad:

https://naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf ac yn y Côd 'Mynd â Chŵn am Dro: http://naturalresources.wales/media/4862/the-dog-walking-code.pdf

***Ceffylau***

Dylai pobl sy'n cadw ceffylau mewn caeau lle mae HTC yn croesi sicrhau na fydd y ceffyl yn peryglu defnyddwyr, yn achosi niwed iddynt na'u dychryn, a dylent roi sylw dyledus i Adran 2 DA 1971.

O safbwynt marchogwyr, mae'n drosedd i geffyl gael ei farchogaeth ar lwybr troed cyhoeddus a byddai'n cael ei ystyried fel tresmasu yn erbyn y tirfeddiannwr (oni bai bod y tirfeddiannwr yn rhoi ei ganiatâd ymlaen llaw). Ar lwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig, a CAUD yn unig y caniateir marchogaeth ceffylau.

# 3 Gorchmynion Addasu'r Map Swyddogol (GAMS)

Fel Awdurdod Arolygu, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am reoli'r Map a'r Datganiad Swyddogol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol dan **Adran 53 DBGChG 1981** i gadw cofnod cyfreithiol o raglen HTC (MDS) Ynys Môn yn gyfoes a'i adolygu'n barhaus. Mae Adran 53 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor addasu'r MDS trwy gyfrwng GAMS lle dangosir bod HTC yn anghywir neu'n anghyflawn. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, a bod copi o'r MDS ar gael i'w weld yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn yn Llangefni. Mae Map Swyddogol electronig ar gael ar wefan y Cyngor:

https://publicrightsofway.anglesey.gov.uk/standardmap.aspx

## Prosesu GAMS

I gadw'r MDS dan adolygiad parhaus, gwneir newidiadau iddynt trwy broses gyfreithiol a elwir yn GAMS. Gwneir y Gorchmynion hyn os profir bod yr MDS yn anghywir neu'n anghyflawn. Gallai'r GAMS gael eu cychwyn gan y Cyngor ei hun, neu drwy gais allanol i'r Cyngor. Gallai unigolyn neu sefydliad wneud y cais hwn trwy gyflwyno tystiolaeth i ddangos bod gwall yn y cofnod cyfreithiol neu fod rhywbeth wedi'i adael allan. Yr agwedd bwysicaf ar gais GAMS yw bod angen **tystiolaeth** ffeithiol gadarn ac argyhoeddiadol. Mae dau brif fath o dystiolaeth y dylai ymgeiswyr geisio ei gynnwys wrth wneud cais:

• Tystiolaeth o **ddefnydd** (Tystiolaeth Defnyddwyr)

• Tystiolaeth **ddogfennol** (fel mapiau a chofnodion hanesyddol).

Gall y Cyngor, o bryd i'w gilydd, wneud GAMS nad ydynt yn ganlyniad i gais GAMS, ei hun, er mwyn cywiro gwallau a nodwyd yn yr MDS.

O fewn 28 diwrnod i dderbyn cais dilys, bydd y Cyngor yn ei gofnodi yn ei feddalwedd CAMS (System Rheoli Mynediad i'r Cefn Gwlad). Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw a chynnal cofrestr gyhoeddus o geisiadau GAMS (Adran 53B DBGChG 1981). Cyhoeddir y gofrestr gyhoeddus ar wefan y Cyngor Sir.

Bydd **Swyddog Map Swyddogol** y Cyngor yn:

- Prosesu'r ceisiadau GAMS mewn gwahanol gamau,
- Ystyried y dystiolaeth a roddir ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cynnal gwaith ymchwil pellach.
- Dod i benderfyniad ac yn pennu a ddylid gwneud gorchymyn ai peidio.

Os gwneir y Gorchymyn gan y Cyngor, bydd yn cael ei hysbysebu a'i gyhoeddi mewn papur newydd lleol a bydd hysbysiadau'n cael eu harddangos ar y safle. Bydd y tirfeddiannwr / deiliad tir y mae'r Gorchymyn yn cael effaith arno, a'r Cynghorau Tref / Cymuned perthnasol yn cael copi o'r Gorchymyn. Bydd cyfnod sylfaenol o **6 wythnos (42 diwrnod)** ar gyfer gwneud unrhyw sylw neu wrthwynebiad. Os na fydd unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau yn dod i law ynghylch y Gorchymyn o fewn y cyfnod 6 wythnos, yna bydd y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor.

Fodd bynnag, os derbynnir sylwadau, bydd y Cyngor yn dadansoddi'r sylwadau a roddir a bydd yn cysylltu â'r person(au) dan sylw i egluro eu safiad er mwyn i'r Cyngor benderfynu a yw'n wrthwynebiad ai peidio. Os nad yw'r sylwadau a roddir yn wrthwynebiadau, yna bydd y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor. Fodd bynnag, os derbynnir gwrthwynebiad o fewn y cyfnod 6 wythnos yna bydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr **Arolygiaeth Gynllunio**, lle bydd arolygydd yn ystyried a ddylid cadarnhau, diwygio neu wrthod y Gorchymyn.

Lle mae'r Cyngor yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi gwneud GAMS, mae hawl gan yr ymgeisydd apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio yn erbyn y penderfyniad. Rhaid gwneud apêl o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad, neu 12 mis ar ôl cyflwyno'r cais nad yw'r cyngor wedi gwneud penderfyniad.

Prosesir y ceisiadau hyn yn unol â'r canllawiau diweddaraf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, yn y ddogfen: **'Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus' (Hydref 2016).**

<u>Polisi Blaenoriaethu GAMS y Cyngor</u>

O'r amser y mae'r Cyngor wedi derbyn cais GAMS, dylid ei brosesu a'i bennu o fewn cyfnod o **12 mis**. Fodd bynnag, oherwydd cymhlethdod gwaith ymchwilio i rai ceisiadau, a chydag adnoddau staff cyfyngedig ar hyn o bryd, mae'r gwaith prosesu GAMS yn cronni'n sylweddol. Mewn ymgais i geisio goresgyn y broblem hon, mae'r Cyngor wedi creu polisi **blaenoriaethu** er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau staff cyfyngedig.

Bydd ceisiadau (y rhai newydd a'r rhai sydd eto i'w prosesu) yn cael eu blaenoriaethu (a'u rhoi mewn trefn) yn ôl y meini prawf a nodir isod er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig y Cyngor a gwella rhwydwaith HTC Ynys Môn gorau posib.

| Maen Prawf | Crynodeb |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd | Yn gymwys yn dilyn apêl lwyddiannus i'r Ysgrifennydd Gwladol dan Adran. 14 S.3 (2) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| Penderfyniad cynnar yn ofynnol | Lle mae gofyn penderfynu ar sefyllfa / statws cyn cymryd camau cyfreithiol neu am unrhyw reswm dilys arall y Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflymu'r penderfyniad |
| Llwybr a rwystrir | P'un a yw llwybr wedi'i rwystro, naill ai'n ddiweddar neu yn y tymor hir |
| Llwybr amgen | P'un ai oes llwybr amgen ac a yw hwn yn addas ac yn ddiogel i'r dosbarth defnyddwyr perthnasol |
| Bygythiad yn sgil datblygu | P'un a yw llwybr dan fygythiad datblygiad tebygol neu ddatblygiad sydd ar fin digwydd |
| Tystiolaeth defnyddwyr | P'un a oes perygl colli tystion allweddol neu a yw tystiolaeth yn dystiolaeth ddogfennol hygyrch |
| Cysylltedd | P'un a yw'r llwybr yn gysylltiad beirniadol, yn llwybr newydd neu'n darparu llwybr dyblyg neu'n gwella dim ar bethau |
| Lefel y defnydd | P'un a yw llawer o bobl yn ei ddefnyddio'n aml neu ychydig o bobl yn ei ddefnyddio'n anaml |
| Newidiadau ar y ddaear | P'un a oes newid llwybr / llwybr newydd, strwythurau/rhwystrau neu dim newid ffisegol ar y ddaear |
| (Ar gyfer diddymu /israddio'n unig) | Byddai'n symud llwybr a ddefnyddir yn aml / critigol neu lle mae gan y llwybr ystyriaethau diogelwch / preifatrwydd dilys neu'n symud llwybr dros dir fferm âr |

Mae pwyslais ar bob maen prawf tuag at wella a datblygu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r rhagfarn hon yn berthnasol **yn unig** i'r gorchymyn lle mae ceisiadau'n cael eu prosesu: bydd pob cais yn cael ei benderfynu'n ddiduedd ar y dystiolaeth sydd ar gael adeg penderfynu arno.

Unwaith y derbynnir cais fel un sydd "wedi'i wneud yn briodol" caiff cyfeirnod ffeil ei neilltuo a'i nodi mewn trefn blaenoriaeth. Bydd y cais wedi'i ychwanegu at y rhestr o geisiadau sy'n disgwyl sylw yn y Gofrestr Adran 53B cyhoeddus. Gallai newidiadau mewn amgylchiadau ceisiadau a chyflwyno ceisiadau newydd newid safleoedd gan hyrwyddo neu ddirymu ceisiadau sydd eisoes yno.

Bydd y Cyngor yn prosesu ceisiadau a wnaed yn briodol yn nhrefn y flaenoriaeth a roddir ar yr adeg pan ddechreuwyd yr achos. Bydd achosion a ddechreuwyd cyn dechrau'r cynllun blaenoriaethu newydd yn parhau i gael eu prosesu ochr yn ochr â cheisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu'n ôl trefn.

## 4 Awdurdodi cyfyngiadau/ amodau a'u cofnodi

Strwythur sy'n cael effaith ar y defnydd a wneir o lwybr yw cyfyngiad neu gyflwr ffisegol, megis giât neu gamfa sydd ar draws y llwybr. Mae'r holl strwythurau croesi ffin (h.y. giatiau, giatiau mochyn, camfeydd) oedd yn bodoli pan ddynodwyd y llwybr yn HTC yn gyfreithlon. Ystyrir bod pob strwythur oedd yn bodoli pan gyhoeddwyd MDS Cyntaf Ynys Môn (1958) yn gyfreithlon gan mai dyma ein llinell sylfaen. Yn ogystal, mewn perthynas â llwybrau a grëwyd gan ddefnyddwyr ar ôl 1958, mae strwythurau oedd yn bodoli yn ystod y cyfnod defnydd (cyfnod o 20 mlynedd fel arfer) yn gyfreithlon.

Nid oes cofnod cyflawn o strwythurau hanesyddol ar Ynys Môn. Mewn rhai achosion, mae'r Datganiadau Swyddogol a gyhoeddwyd yn 1958 yn cyfeirio at strwythurau a, lle mae hyn yn digwydd, mae'n darparu tystiolaeth bendant o gyfreithlondeb strwythur. Mae gan bedwar allan o 60 o fapiau Arolwg Plwyf a baratowyd rhwng 1951-1954 anodiadau manwl sy'n cofnodi strwythurau cyfreithlon ac mae hyn yn dystiolaeth ddefnyddiol a chadarn o gyfreithlondeb strwythur.

Mae tua 5500 o strwythurau croesi ffiniau wedi'u cofnodi yn y gronfa ddata ar hawliau tramwy ac mae'n anymarferol mynd drwyddynt yn unigol i bennu cyfreithlondeb. Pan fo amheuaeth bod strwythur yn anghyfreithlon, bydd y Cyngor yn archwilio mapiau hanesyddol (ac o bosib hen awyrluniau) i benderfynu a yw strwythur yn gyfreithlon. Yna caiff y gronfa ddata ei diweddaru fesul achos. Pan ddarganfyddir strwythur anghyfreithlon bydd y Cyngor yn gofyn i'r tirfeddiannwr / tenant geisio caniatâd ôl-weithredol iddo (gweler isod) neu ei symud.

Rhaid i'r strwythurau newydd a osodwyd ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau gael caniatâd swyddogol y Cyngor dan **Adran 147 DP 1980**. Mae'r adran hon yn fodd i dirfeddianwyr / deiliaid tir wneud cais i godi giât neu gamfa newydd ar lwybr troed neu lwybr ceffylau ar yr amod bod y tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, ac er mwyn i'r amaethyddiaeth hon gael ei chynnal yn effeithlon, mae angen strwythur i reoli hynt mynd a dod anifeiliaid. Mae tir amaethyddol yn cynnwys tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, meithrinfeydd, tir a ddefnyddir ar gyfer pori ac ar gyfer coedwigaeth. Mae hyn hefyd yn cynnwys tir ar gyfer bridio a chadw ceffylau.

Mae'r Cyngor yn darparu nodiadau cyfarwyddyd a ffurflen gais yn ymwneud ag Adran 147. Pan ganiateir trwydded ar gyfer gosod strwythur newydd, cofnodir y strwythur newydd yn y gronfa ddata ar HTC ynghyd â chopi o'r drwydded.

Mae **Adran 66 DP 1980** yn rhoi pwerau i'r Cyngor ddarparu a chynnal rhwystrau, rheiliau a / neu ffensys ar y rhwydwaith HTC, at ddibenion diogelwch defnyddwyr. Ar ben hynny, dan **Adran 115B DP 1980**, mae gan y Cyngor y pŵer i osod strwythurau ar briffordd neu drosti (gan gynnwys HTC) at ddibenion gwella mwynderau priffyrdd, ei hamgylchedd agos neu ddarparu gwasanaeth er budd y cyhoedd.

Ymhlith rhai enghreifftiau o'r mathau hyn o strwythurau mae:

- Meinciau
- Bolardiau
- Biniau
- Paneli Gwybodaeth
- Canllawiau

Bydd unrhyw rwystr a osodwyd gan y Cyngor yn unol ag a66 yn cael ei gofnodi yn y gronfa ddata ar hawliau tramwy.

# 5 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus

Mae gan y Cyngor bwerau i newid HTC a gofnodwyd ar yr MDS, drwy amrywiol weithdrefnau cyfreithiol, y cyfeirir atynt fel Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus. Mae creu Gorchymyn Llwybrau Cyhoeddus yn bŵer dewisol yn hytrach na dyletswydd statudol. Yr effaith sydd gan Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus yw **dargyfeirio** llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig, eu **diddymu** a'u **creu** dan wahanol adrannau **DP 1980 a DCGTh 1990**. Mae DP1980 hefyd yn caniatáu i'r Cyngor wneud ceisiadau i'r Llys Ynadon i newid CAUD.

| **Mathau o Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus** | **Deddfwriaeth** |
|---|---|
| **Dargyfeirio**: Cyn gwneud y Gorchymyn, mae angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod dargyfeirio llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig yn waith er budd y tirfeddiannwr / deiliad tir (y mae HTC yn ei groesi) neu'r cyhoedd. Er mwyn i'r gorchymyn gael ei gadarnhau, rhaid i'r Cyngor (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) fod yn fodlon nad yw'r dargyfeiriad yn sylweddol llai cyfleus i'r cyhoedd o ganlyniad i'r dargyfeiriad ac y rhoddir ystyriaeth i effaith y dargyfeiriad ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr cyfan. Hefyd, rhaid rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y tir y mae'r llwybr cyfredol yn ei groesi ac y bydd yr un newydd yn ei groesi. | DP 1980; Adran 119 |
| **Diddymu:** Cyn gwneud Gorchymyn o'r fath mae angen i'r Cyngor fod yn fodlon nad oes angen y llwybr troed, y llwybr ceffylau neu'r llwybr cyfyngedig dan sylw ar gyfer y cyhoedd mwyach. Mae'r math hwn o Orchymyn Llwybr Cyhoeddus yn digwydd yn anaml, gan nad yw'r Cyngor yn ei gefnogi'n gyffredinol. Maent yn aml yn profi'n broblemus i'w cadarnhau, o ystyried yr anhawster i gyfiawnhau a oes angen HTC ar hyn o bryd neu yn y dyfodol ar gyfer y cyhoedd. | DP 1980; Adran 118 |
| **Creu: (Cytundeb Creu)** Gall y Cyngor ymrwymo i gytundeb ar gyfer cyflwyno llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig. Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyflwyno llwybr neu ffordd newydd trwy gytundeb creu ddangos bod ganddynt yr awdurdod i wneud hynny, fel arfer trwy roi prawf o berchnogaeth y tir dan sylw. Gellir rhoi taliad ariannol i dirfeddiannwr os ffurfir cytundeb. | DP 1980; Adran 25 |
| **Creu: (Gorchymyn Creu)** Gall y Cyngor wneud y Gorchmynion hyn lle mae'n ymddangos bod angen llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig i'w defnyddio gan y cyhoedd. Gwneir y Gorchmynion hyn os yw'r Cyngor yn teimlo y byddai o fudd i ran sylweddol o'r cyhoedd. Telir cyfraniad ariannol fel arfer i'r tirfeddiannwr. | DP 1980; Adran 26 |
| **Dargyfeirio / Cau:** Os yw datblygiad (sydd â chaniatâd cynllunio) yn cael effaith ar lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig ac mae angen ei ddargyfeirio neu eu diddymu er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo, gellir gwneud gorchymyn. Mae'n bwysig i ddatblygwyr beidio â chymryd yn ganiataol y bydd Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus yn bendant o gael ei gadarnhau yn sgil rhoi caniatâd cynllunio.<br><br>Lle byddir yn adeiladu dros linell yr hawl tramwy neu y mae'r tir y mae hawl tramwy yn rhedeg drosto, fel arall, yn uniongyrchol | DCGTh 1990; Adran 257 |

| | |
|---|---|
| ofynnol at ddibenion gweithredol neu weithredu, fel arfer byddir yn gwneud gorchymyn. Mewn achosion eraill, bydd angen ystyried yr holl ffeithiau perthnasol a bydd y Cyngor yn ymdrechu i roi ei ystyr cyffredin a naturiol i'r gair "angenrheidiol" (sef: angen neu ofynnol). Y ffactor pwysig yw bod yn rhaid i'r cau neu'r dargyfeirio fod yn ofynnol i'r datblygiad a awdurdodir gan y caniatâd cynllunio fynd rhagddo. Bydd yr angen hwn yn cael ei gydbwyso yn erbyn ystyriaethau priffyrdd megis cyfleustra, diogelwch, math a graddfa'r defnyddiwr wrth benderfynu a ddylid gwneud neu gadarnhau'r gorchymyn perthnasol.<br><br>Mae dogfen gyfarwyddyd a gyhoeddir gan GSYM, **"Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus"** ar gael i ddatblygwyr | |

Gwneud cais am Orchymyn Llwybrau Troed

Mae’r cyfryw ganllawiau a ffurflenni cais ar gael ar hyn o bryd ar gais gan y Cyngor. Mae manylion ffioedd wedi'u cynnwys yn y canllawiau perthnasol.

Prosesu a chadarnhau Gorchmynion Llwybrau Troed

Wrth brosesu'r cyfryw orchmynion bydd y Cyngor yn gwneud hynny yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, yn y ddogfen: **'Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus' -** Hydref 2016**.**

Bydd ceisiadau a chynigion Gorchmynion Llwybrau Troed yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar saith egwyddor:

- Lle gellid gwella diogelwch y cyhoedd yn sylweddol.
- Lle gwnaed cais yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn galluogi datblygiad i fynd rhagddo.
- Lle mae'r cynnig wedi'i gynnwys ar hyn o bryd mewn cynllun neu strategaeth cyngor, e.e. gweithred CGHT neu gynnig Llwybr Arfordir Cymru.
- Lle byddai prosesu gorchymyn yn arbed y costau sylweddol mewn swyddogaethau Hawliau Tramwy eraill.
- Yn ôl lefel y defnydd.
- Lle gallai prosesu gorchymyn arwain at effaith gadarnhaol sylweddol ar y rhwydwaith.
- Yn nhrefn y dyddiad derbyn.

## 6 Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT)

Mae **DGRhT 1984** yn rhoi pŵer i'r Cyngor osod Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT). Mae **Adrannau 1, 14** a **16** yn rhannau arbennig o berthnasol o'r Ddeddf hon. Gall GRhT fod yn **barhaol**, **dros dro** neu'n **arbrofol**, a gellir eu defnyddio i reoli unrhyw fath o draffig ar unrhyw fath o briffordd, gan gynnwys pob math o HTC. Gellir gweithredu GRhT dros dro am gyfnod o hyd at 6 mis.

Cyn cau HTC trwy gyfrwng GRhT, bydd y Cyngor yn edrych ar ymarferoldeb gweithredu'r holl opsiynau eraill sydd ar gael cyn gweithredu'r GRhT yn llawn.

Un o'r dewisiadau posib hyn fyddai gweithredu system Ymataliaeth Wirfoddol (YW), er enghraifft, os daw'n amlwg bod HTC mewn perygl o gael ei ddifrodi neu'n cael ei ddifrodi ar hyn o bryd oherwydd math y traffig sy'n ei ddefnyddio (mae 'traffig' hefyd yn cyfeirio at gerddwyr a marchogion). Mae YW yn fodd i fabwysiadu dull mwy hyblyg, gan y gellid ei weithredu fel arbrawf i ganfod a ellir datrys y materion heb weithredu GRhT llawn. Un anfantais o YW yw'r ffaith nad oes ganddo rym cyfreithiol ac mae'n dibynnu ar ddefnyddwyr yr HTC i ymddwyn yn gyfrifol. Fodd bynnag, gallai YW, er enghraifft, dargedu mathau o ddefnyddwyr a / neu adegau penodol o'r flwyddyn pan fo'n hysbys fod rhai mathau o ddefnyddwyr a / neu'r tywydd / tymhorau yn achosi problemau penodol.

Bydd y Cyngor yn gweithredu GRhT dros dro neu barhaol i gau HTC neu gyfyngu arno:

- Os yw diogelwch defnyddwyr eraill yr HTC yn amlwg mewn perygl, ac os yw HTC wedi dod yn beryglus i'w ddefnyddio (er enghraifft methiant strwythur, mae'r tir gwaelod neu gynnal wedi mynd yn ansefydlog neu wedi achosi niwed i'r wyneb).
- Os yw maint (neu debygolrwydd) difrod ffisegol i'r HTC yn sylweddol, ystyrir bod GRhT yn angenrheidiol er mwyn atal y broblem rhag digwydd a digwydd drachefn, ac i atal difrod pellach.
- Os oes angen GRhT **dros dro** ar gyfer cynnal gwaith cynnal a chadw ar HTC, (fel atgyweirio wyneb).
- Os oes angen GRhT **dros dro** i atal perygl i bobl sy'n defnyddio HTC am resymau nad yw'n gysylltiedig ag wyneb neu strwythurau'r llwybr (e.e. adeilad peryglus ochr yn ochr â'r HTC).

## 7 Awdurdodi Digwyddiadau ar HTC

Weithiau mae sefydliadau defnyddwyr yn dymuno cynnal digwyddiadau ar HTC, megis:

- Teithiau cerdded noddedig wedi'u trefnu,
- Heriau rhedeg traws gwlad.

Yn gyffredinol, caniateir i'r mathau hyn o ddigwyddiadau gael eu cynnal ar y rhwydwaith HTC os na fyddant yn cael effaith niweidiol ar y rhwydwaith neu ar ei ddefnyddwyr.

Mae hyrwyddo neu gymryd rhan mewn ras neu dreial cyflymder rhwng cerbydau modur ar unrhyw briffordd gyhoeddus yn drosedd (a12 Deddf Traffig Ffyrdd 1988). Mae hyrwyddo neu

gymryd rhan mewn treial ac eithrio ras neu dreial cyflymder ar gerbydlon yn drosedd oni bai fod yr achos wedi'i awdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan reoliadau. Mae hyrwyddo neu gymryd rhan mewn treial rhwng cerbydau modur ar lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig yn drosedd oni bai fod y treial wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod priffyrdd ac y cafwyd caniatâd ysgrifenedig y perchennog (adran 33 DTFf 1988). Hyd yn oed os yw wedi'i awdurdodi a (lle bo angen) bod y perchennog wedi rhoi ei ganiatâd, ceir trosedd yr un fath os gyrrir y cerbyd yn ddiofal a heb sylw dyladwy neu heb roi ystyriaeth resymol i ddefnyddwyr eraill.

Rhaid dilyn y weithdrefn hon ar gyfer pob digwyddiad a awdurdodwyd dan adran 33 DTFf 1988:

1) Rhaid i'r trefnydd wneud cais i'r Cyngor o leiaf ddau fis ymlaen llaw gan gynnwys manylion y digwyddiad, megis:
   - Math, natur, dyddiad ac amser y digwyddiad,
   - Map o'r llwybr arfaethedig
   - Amcangyfrif o nifer y cyfranogwyr

2) Bydd y Cyngor yn dadansoddi'r wybodaeth a roddir gan drefnwyr y digwyddiadau a dod i benderfyniad. Os yw'r Cyngor yn fodlon â'r wybodaeth a roddir gan y trefnwyr, nad oes ganddo wrthwynebiad, ac mae'r tirfeddiannwr wedi rhoi caniatâd, gall y Cyngor awdurdodi'r digwyddiad (gydag amodau).

3) Fodd bynnag, os codir pryderon (h.y. mae rhannau o'r HTC yn anaddas, gallant gael eu difrodi, neu gallant beri peryglon / gwrthdaro â defnyddwyr yr HTC), gallai'r Cyngor fynnu bod y llwybr arfaethedig yn cael ei newid, fel arall ni chaniateir i'r digwyddiad fynd rhagddo.

Pan awdurdodir digwyddiad, rhaid glynu wrth amodau safonol:

- Caiff y Cyngor ei warchod gan y trefnwyr yn erbyn unrhyw hawliadau neu iawndal a all godi o ganlyniad i awdurdodi'r digwyddiad,
- Rhaid i drefnydd y digwyddiad gael ei yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ei hun,
- Bydd y trefnwyr yn talu am unrhyw ddifrod i'r briffordd gyhoeddus (gan gynnwys HTC), o ganlyniad i'r digwyddiad neu yn ei atgyweirio, a hynny wrth fodd y Cyngor.
- Rhoddir gwybod i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru am y bwriad i gynnal y digwyddiad ac am fanylion y llwybr, a hynny cyn dyddiad cynnal y digwyddiad.
- Bydd yn ofynnol i'r trefnwyr gymryd camau priodol i sicrhau diogelwch, diogelu'r mwynder a lleihau'r anghyfleustra i aelodau'r cyhoedd yn sgil y digwyddiad.
- Rhaid i'r digwyddiad gael ei stiwardio'n dda yn enwedig ar bwyntiau croesi, a rhaid bod digon o arwyddion yn y digwyddiad er mwyn hysbysu a diogelu defnyddwyr eraill yr HTC nad ydynt yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

## 8 Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn

Mae Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn yn gorff ymgynghorol ac fe'i sefydlwyd oherwydd gofynion Adran 94 DCGHT 2000. Fel sy'n ofynnol gan reoliadau, mae aelodaeth y Fforwm yn cynnwys amrywiaeth a chydbwysedd o unigolion sydd ag ystod o wybodaeth a diddordebau gwahanol. Ymhlith aelodau'r Fforwm mae, yn bennaf:

- Tirfeddianwyr,
- Ffermwyr,
- Perchnogion busnes lleol
- Aelodau o sefydliadau perthnasol (e.e. Cerddwyr Ynys Môn, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, ac ati)

Gyda grŵp amrywiol o aelodau mae modd cynghori'r Cyngor ar ystod eang o faterion yn ymwneud â mynediad cyhoeddus at dir a'r rhwydwaith HTC. Penodir aelodau'r Fforwm am dair blynedd ac maent yn gymwys i gael eu hailbenodi ar ôl pob tymor tair blynedd.

Cynhelir cyfarfodydd o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

Prif nodau Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn yw:

- Rhoi cyngor a chymorth i Gyngor Sir Ynys Môn ar faterion fel cefn gwlad Ynys Môn, mynediad at dir ac i wneud y rhwydwaith HTC yn haws i bobl gael ato ac yn fwy pleserus, a hynny at ddibenion hamdden awyr agored,
- Bod â rôl strategol wrth ganolbwyntio ar faterion yn benodol i Ynys Môn a bod yn rhagweithiol,
- Gwella cydweithrediad rhwng y Cyngor a grwpiau eraill â diddordeb.
- Cynorthwyo gyda materion yn ymwneud â chreu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

Bydd y Cyngor yn ystyried a, lle bynnag y bo'n bosibl, yn gweithredu barn y Fforwm Mynediad Lleol wrth reoli rhwydwaith HTC a Thir Mynediad Ynys Môn.

## Atodiad: Ymarferion Erlyn

Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ynys Môn fel awdurdod priffyrdd i bennu a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio unrhyw briffordd y mae'n awdurdod priffyrdd ar ei gyfer. Yr Uned Hawliau Tramwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y ddyletswydd hon yn cael ei bodloni mewn perthynas â'r hawliau tramwy cyhoeddus o fewn y Sir.

Nod yr Uned yw cyflawni ei ddyletswyddau mewn ffordd deg, ymarferol a chyson. I gyflawni hyn, mabwysiadwyd egwyddorion yr isod:

- Côd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer Erlynwyr y Goron (Diwygiwyd Hydref 2000)
- Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar rybuddio troseddwyr
- Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998

Cyn unrhyw ymchwiliad ffurfiol bydd yr Uned yn trafod materion cyffredinol, achosion penodol o fethu cydymffurfio neu broblemau gydag unrhyw un sy'n cael anawsterau mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus a chynghori cyn belled ag y bo modd i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth.

Mae'r penderfyniad i erlyn yn gam difrifol ac ni fyddir yn ei wneud hyd nes y cynhaliwyd ymchwiliad. Mae pob achos yn unigryw ac, i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu, bydd yr Uned yn ystyried amgylchiadau unigol pob achos yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau ei hun.

Bydd y Swyddog Ymchwilio, fel arfer yr Uwch Beiriannydd - Hawliau Tramwy Cyhoeddus, yn rhoi cyfle i'r troseddwr honedig drafod amgylchiadau'r drosedd mewn cyfweliad ffurfiol.

Unwaith y bydd yr ymholiadau wedi'u cwblhau, bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno adroddiad achos i uwch-reolwr, y Swyddog Penderfynu, sy'n annibynnol ar yr ymchwiliad i benderfynu p'un a ddylid cychwyn achos cyfreithiol. Y Prif Beiriannydd (Cynnal a Chadw) neu'r Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd fydd y Swyddog Penderfynu. Cyn penderfynu a ddylid cychwyn achos cyfreithiol, bydd y Swyddog Penderfynu'n rhoi ystyriaeth i Gôd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer Erlynwyr y Goron a chodau perthnasol eraill.

Bydd y penderfyniad i gymryd camau yn cael ei gymryd yn unol â Chyfansoddiad cyfredol y Cyngor Sir a chynllun dirprwyo swyddogion ac mae'n ddarostyngedig i gytundeb gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

Bydd yn rhaid i'r Swyddog Penderfynu fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o gollfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad, y "Prawf Tystiolaethol". Mae 'posibilrwydd realistig o gollfarn' yn ei gwneud yn ofynnol i fainc ynadon, wedi'i gyfarwyddo'n briodol yn unol â'r gyfraith, fod yn fwy tebygol na pheidio o ddyfarnu bod y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig. I'r perwyl hwn, bydd y Swyddog Penderfynu yn edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael, pa mor ddibynnol yw tystion, dogfennau ategol ac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r ymchwiliad.

Os bodlonir y Prawf Tystiolaethol, bydd y Swyddog Penderfynu yn ystyried a fyddai symud ymlaen â'r erlyniad yn rhywbeth a fyddai er budd y cyhoedd, y "Prawf Budd Cyhoeddus". Wrth benderfynu a yw erlyniad o fudd i'r cyhoedd, bydd y Swyddog Penderfynu yn cloriannu ffactorau o blaid ac yn erbyn yr erlyniad yn ofalus, yn deg ac yn ddiduedd. Gallai rhai ffactorau gynyddu'r cyfiawnhad dros erlyn tra gall eraill liniaru yn erbyn camau o'r fath.

Os penderfyna'r Swyddog Penderfynu nad yw erlyniad yn bodloni'r Prawf Budd Cyhoeddus, dylid ystyried rhoi rhybudd ffurfiol.

Isod mae rhai o'r ffactorau i'w hystyried er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac, fel y cyfryw, mae pob achos i'w gymryd yn llwyr ar ei rinweddau unigol ei hun.

Ffactorau o blaid erlyn:

- Mae'r troseddwr honedig wedi cael ei gollfarnu, ei rybuddio neu cymerwyd camau gorfodi yn ei erbyn ar achlysur blaenorol am drosedd debyg
- Gweithredodd y troseddwr honedig yn fwriadol neu'n esgeulus
- Gallai canlyniad erlyniad gyflwyno gwybodaeth bwysig neu sefydlu cynsail gyfreithiol
- Mae yna sail i gredu bod y drosedd yn debygol o barhau neu gael ei ailadrodd, er enghraifft yn ôl hanes neu ymddygiad rheolaidd
- Nid yw'n briodol datrys y drosedd trwy ddulliau gorfodi eraill
- Mae'r troseddwr honedig wedi gwrthod datrys y mater
- Mae'r troseddwr honedig wedi'i gynghori neu ei rybuddio ar adegau blaenorol mewn perthynas â'r drosedd hon neu faterion tebyg nad arweiniodd at orfodi neu weithredu llys
- Mae'r drosedd o natur ddifrifol
- Dim ond drwy'r Llys Ynadon y gellir rhoi sylw i'r drosedd

Ffactorau a fyddai'n lliniaru achos o erlyn:

- Roedd y drosedd yn fach ran natur ac yn sgil camgymeriad cyffredinol neu gamddealltwriaeth nad oedd yn golygu niwed sylweddol i'r cyhoedd
- Oedran y troseddwr honedig, e.e. person ifanc ar adeg y drosedd neu hen berson
- Ar adeg y drosedd roedd y troseddwr honedig yn dioddef o afiechyd meddwl neu gorfforol sylweddol a gyfrannodd at gyflawni'r drosedd ac nid oedd y drosedd yn ddifrifol nac yn debygol o gael ei hailadrodd
- Datrysodd y troseddwr honedig y mater cyn i Swyddog Ymchwilio ymyrryd
- Bu oedi hir rhwng cyflawni'r drosedd ac unrhyw achos llys posib, oni bai fod un ai:

    1. Y drosedd yn un ddifrifol
    2. Yr oedi wedi'i achosi gan y diffynnydd
    3. Dim ond yn ddiweddar y mae'r drosedd wedi dod i'r amlwg, neu
    4. Roedd cymhlethdod y drosedd yn golygu y cafwyd ymchwiliad hir.